# ‘[G]yrru nhw o’u coua’ – Agweddau ar salwch meddwl a rhyddiaith greadigol y chwedegau

Madison Keeping

Cyflwynir y traethawd hwn i Brifysgol Abertawe er mwyn diwallu gofynion y Radd Doethur mewn Athroniaeth

2019

Adran y Gymraeg, Prifysgol Abertawe

**Crynodeb**

Eir ati yn y traethawd hwn i ddadansoddi'r defnydd o salwch meddwl fel elfen mewn llenyddiaeth Gymraeg ddiweddar. Nod yr astudiaeth hon yw ymestyn dulliau beirniadol llenyddol. Gwneir hyn drwy asesu'r thema hon mewn detholiad o destunau rhyngddisgyblaethol gan edrych ar feysydd seiciatryddol, ffeministaidd a chymdeithasol. Dewiswyd canolbwyntio ar y blynyddoedd wedi'r rhyfel a chyfnod y chwedegau yn bennaf. O ganlyniad, ffurfia *Tywyll Heno* ac *Un Nos Ola Leuad* ganolbwynt i'r traethawd, wrth i *One Flew Over The Cuckoo's Nest* a *The Bell Jar* gyflwyno'r ochr lenyddol gymharol.

Yn y bennod gyntaf, ceir ymdriniaeth drylwyr o'r hyn a gyflawnwyd eisoes o ran defnydd salwch meddwl fel elfen mewn llenyddiaeth Gymraeg, Saesneg a theoretig pur rhwng cyfnod blynyddoedd yr Ail Ryfel Byd a 2015, a hynny er mwyn dangos perthnasedd y drafodaeth heddiw. Yn yr ail bennod, rhoddir sylw i gyd-destun y cyfnod hanesyddol a theoretig ehangach gan sefydlu prif ddiddordebau a dadleuon yr oes. Newidia'r ffocws ychydig ym mhennod tri a chanolbwyntir ar yr elfen bersonol yn y gweithiau craidd amrywiol. Trwy'r elfennau hunangofiannol, cynigir pwrpas ehangach a dyfnach i'r llenyddiaeth amrywiol sy'n paratoi'r ffordd ar gyfer dadansoddiadau'r penodau dilynol.

Gwelir mai'r elfen seiciatryddol gymdeithasol ehangach fydd ffocws pennod pedwar. Yn y bennod hon, creffir ar berthynas yr unigolyn a'i gymdeithas â gwallgofrwydd ynghyd â'r rhagdybiaethau seiciatryddol cymdethasol sy'n codi o ganlyniad i stigma. Ceir yma hefyd gyfle i ddadansoddi gweithiau llenyddol craidd yr astudiaeth mewn perthynas â rhai gweithiau theoretig o'r cyfnod gan agor y trafodaethau Freudaidd, Laingaidd, Goffmanaidd ac athronyddol.

Profiad seiciatryddol y fenyw a'r brwydrau ffeministaidd fydd canolbwynt y bumed bennod. Trwyddi, edrychir ar themâu amrywiol megis cyfyngiadau'r sffêr ddomestig, dylanwad yr ystrydebau patriarchaidd ac effaith yr anghydraddoldebau rhywiaethol ar iechyd meddwl y cymeriadau benywaidd. Yn y bennod olaf, rhoddir nifer o'r syniadau a ddatblygwyd yn y penodau blaenorol ar waith gan geisio ateb y prif gwestiynau ymchwil: ym mha ffyrdd y mae ein dealltwriaeth o'r testunau hyn yn cael ei chyfoethogi gan astudiaethau cyd-destunol rhyngddisgyblaethol ac ym mha ffyrdd y gall y testunau llenyddol daflu goleuni a rhoi sylwadau ar agweddau hanesyddol ac ymarfer clinigol yn y maes?

## **Datganiadau**

CYHOEDDIAD

Nid yw’r gwaith hwn wedi’i dderbyn o'r blaen yn gyffredinol ar gyfer unrhyw radd ac nid yw’n cael ei gyflwyno ar yr un pryd mewn ymgeisyddiaeth ar gyfer unrhyw radd.

Llofnod ..................................................................... (ymgeisydd)

Dyddiad .......................................................................

DATGANIAD 1

Canlyniad fy ymchwiliadau fy hun yw’r traethawd ymchwil hwn, ac eithrio lle nodir yn wahanol.

Cydnabyddir ffynonellau eraill drwy droednodiadau sy’n rhoi cyfeiriadau amlwg. Atodir llyfryddiaeth.

Llofnod..................................................................... (ymgeisydd)

Dyddiad .......................................................................

DATGANIAD 2

Trwy hyn, rhoddaf ganiatâd i’m traethawd ymchwil, os caiff ei dderbyn, fod ar gael i’w lungopïo ac i'w fenthyca rhwng llyfrgelloedd, ac i’r teitl a’r crynodeb fod ar gael i sefydliadau allanol.

Llofnod..................................................................... (ymgeisydd)

Dyddiad .......................................................................

**Cynnwys**

Crynodeb ........ 1

Diolchiadau ........ 5

Rhestr o dermau a diffiniadau allweddol ........ 6

Rhestr o dalfyriadau ........ 19

PENNOD 1 ........ 20

Adolygiad Llenyddol ........ 20

1.1 Cyflwyniad i ddefnydd o salwch meddwl fel elfen mewn llenyddiaeth ........ 20

1.2 Ymatebion beirniadol i'r gweithiau ffuglennol Cymraeg ........ 24

1.3 Ymatebion beirniadol i'r gweithiau ffuglennol Saesneg ........ 37

1.4 Gweithiau theoretig perthnasol ........ 44

PENNOD 2 ........ 51

Bywyd wedi'r rhyfel: Cyfnod o chwyldro cymdeithasol, seicolegol a ffeministaidd ........ 51

2.1 Gosod y llwyfan: Gwrthryfel y bobl ........ 51

2.2 O'r gegin i'r gad: Menywod yn gwrthryfela ........ 55

2.3 Pwy sy'n wallgof? Y Terfysg Seiciatryddol ........ 60

2.4 Cymru'n ymateb ........ 67

2.5 Diweddglo ........ 73

PENNOD 3 ........ 74

Cefndir a Chymhellion yr Awduron ........ 74

PENNOD 4 ........ 108

Salwch meddwl a'r gymdeithas: dadansoddi perthynas, effaith a rôl y gymdeithas ar iechyd meddwl yr unigolyn ........ 108

4.1 Rhagymadrodd – Y Gymdeithas, Yr Unigolyn a Dylanwad Seiciatreg: cyflwyno'r berthynas ........ 109

4.2 Tlodi, Dosbarth, Anghydraddoldeb Cymdeithasol a Salwch Meddwl ........ 112

4.3 Y Seilam Heb Noddfa: Dadansoddi delwedd y gwallgofdy fel carchar a math o reolaeth gymdeithasol ........ 130

4.4 Yr Unigolyn Ansicr: Crwydro'r llinell rhwng callineb a gwallgofrwydd ........ 157

4.5 Clefyd y Genedl: Argyfwng Gwacter Ystyr ........ 181

4.6 'Rydych Chi'n Wallgof!' Salwch Meddwl a'r Stigma: Yr ymateb cymdeithasol 198

PENNOD 5 ........ 212

Salwch meddwl a'r fenyw. Dadansoddi'r portreadau, yr ormes a'r gwrthryfel ........ 212

5.1 Brwydr y Rhywiau: Menywod fel dioddefwyr neu ormeswyr ........ 212

5.2 Cyfyngder y Sffêr Ddomestig: Y rolau benywaidd a'u peryglon ........ 227

5.3 Rôl a Dylanwad y Fam ........ 243

5.4 Torri'r Mowld: menywod anghonfensiynol a'r gwrthryfel benywaidd ........ 273

PENNOD 6 .......... 286
Diweddglo a Chasgliadau .......... 286
LLYFRYDDIAETH .......... 295

## Diolchiadau

Hoffwn yn gyntaf ddiolch yn fawr i Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (AHRC) a'r Ganolfan Hyfforddi Ddoethurol yn yr Ieithoedd Celtaidd (CDT) am yr ysgoloriaeth a'm galluogodd i ymroi'n llawn i'r gwaith ymchwil hwn. Hoffwn hefyd ddiolch i Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen a ariannodd flwyddyn gyntaf yr MA gan baratoi'r ffordd ar gyfer y ddoethuriaeth. Ni fyddai'r ymchwil hwn yn bosib heb eich haelioni.

Rwyf hefyd yn ddyledus iawn i'r canlynol am eu cyfraniadau dros y blynyddoedd. Yn gyntaf, mawr yw fy nyled i Mr Robert Rhys am ei gyngor a'i gefnogaeth barhaus yn ystod cyfnod fy astudiaethau israddedig a doethurol. Diolch iddo am y trafodaethau deallusol niferus yn ei swyddfa, ei adborth amhrisiadwy ac am gynnau fy niddordeb yn y maes yn y lle cyntaf. Carwn ddiolch o waelod calon i'r Athro Tudur Hallam am ei adborth trylwyr a gwerthfawr ar y traethawd ac am ddangos diddordeb mawr yn y pwnc gan gynnig persbectifau newydd a diddorol. Mae eich llygaid at fanylder wedi bod o gymorth enfawr. Hoffwn ddiolch hefyd i'r Athro Dafydd Johnston am fy herio ar hyd fy nhaith ac am ei barodrwydd i helpu. Diolch hefyd i'r Athro Steven Edwards am ei arweiniad ym maes elfennau seiciatryddol yr ymchwil. Diolchaf yn olaf i'r Dr Llion Wigley am ei gyngor wrth ymchwilio'r maes ac am ei gefnogaeth ddi-ffael. Mae eich arbennigedd i gyd wedi fy ysbrydoli yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf ac wedi dylanwadu'n fawr ar fy mhrofiad academaidd.

Hoffwn hefyd estyn diolch mawr i holl staff Adran y Gymraeg, Prifysgol Abertawe. Mae wedi bod yn fraint enfawr bod yn rhan o'r tîm am wyth mlynedd – yn gyntaf fel myfyrwraig ac wedyn fel aelod o staff. Rwyf wedi dysgu cymaint yn ystod fy amser yn y brifysgol ac mae eich cefnogaeth, eich cyfeillgarwch a'ch parodrwydd i helpu a thrafod y gwaith yn golygu cymaint i mi.

Yn olaf, hoffwn i ddiolch i'm teulu, fy ffrindiau a'm ci annwyl, Poppy. Diolch o galon am fy nghefnogi dros y blynyddoedd diweddar ac am eich amynedd pan dreuliwn gymaint o amser wrth fy nesg yn ysgrifennu'n ffyrnig. Roedd eich anogaeth imi'n sbardun o'r cychwyn cyntaf hyd at ddiwedd y daith. Heb arweiniad pob un o'r bobl uchod (a rhai eraill wrth gwrs), ni fyddai'r traethawd hwn wedi gweld golau dydd. Rwy'n ddiolchgar iawn i bob un ohonoch chi.

**Rhestr o dermau a diffiniadau allweddol**

**Y cyfnod**

Drwy'r astudiaeth hon, defnyddir y term 'y cyfnod' yn aml. Er mwyn osgoi unrhyw ddryswch, nodir yma beth yn union a olygir wrth gyfeirio at y term. Fel y mae teitl y traethawd yn ei awgrymu, mae'r astudiaeth hon yn ymdrin yn bennaf â'r blynyddoedd wedi'r Ail Ryfel Byd, ond yn fwy penodol, y pumdegau a'r chwedegau.

Dyma'r cyfnod y cyhoeddwyd pob un o'r gweithiau craidd, *Un Nos Ola Leuad* (1961), *Tywyll Heno* (1962), *One Flew Over the Cuckoo's Nest* (1962) a *The Bell Jar* (1963). Hefyd, dyma'r adeg y gwelwyd nifer o ddatblygiadau mawr y traethawd, megis gwrth-seiciatreg, yr argyfwng gwacter ystyr a'r ail don o ffeministiaeth yn dod i'r amlwg, nid yn unig o fewn y meysydd academaidd, ond hefyd ymhlith y cyhoedd.

O feddwl am elfen ryngddisgyblaethol y traethawd, ac yntau'n cwmpasu llenyddiaeth, hanes a seicriatreg, roedd yn rhaid bod yn ddethol a dewis deunyddiau a fyddai'n cyfoethogi'r llenyddiaeth a'r cyfnod dan sylw. Cyfeirir at rai gweithiau y tu hwnt i'r cyfnod hwn, ond gwneir hyn er mwyn pwysleisio hirhoedledd y drafodaeth yn y Gymraeg ac mewn ieithoedd eraill, wrth i iechyd meddwl ddod, unwaith eto, yn un o bynciau llosg y degawd hwn.

**Diffinio a defnyddio termau 'seiciatryddol'**

Meddai Emil O. W. Kirkegaard:

> It seems that words that cannot be defined by other words or body language cannot be defined at all. But yet, we observe that people do know the meaning of these words. We, therefore, seem to have hit a problem. One theory is that some meanings are defined by evolution; defined in the genes.[1]

Y broblem, wrth gwrs, ynghylch diffiniadau yw'r ffaith

[1] Emil O. Kirkegaard, *Problems with Definitions*, Clear Language, Clear Mind, (Tachwedd 2018), <https://emilkirkegaard.dk/en/?p=729> [cyrchwyd 13 Chwefror 2020]

bod ystyr geiriau yn gallu newid o oes i oes, ond hefyd o gymdeithas i gymdeithas. Mae hyn yn arbennig o wir o fewn maes seiciatreg, ac felly wrth geisio diffinio salwch meddwl.

Yn union fel ein dealltwriaeth o'r clefydau meddyliol eu hunain, mae'r eirfa a ddefnyddir i'w disgrifio'n newid yn barhaus. Wrth i wybodaeth newydd ddod i'r wyneb ac wrth i ni ddechrau deall yn well yr emosiynau a'r symptomau sy'n gysylltiedig â'r cyflyrau seicolegol, mae geiriau megis 'nytars', 'gwallgofrwydd', 'gwirion', 'o'u coua', *'loons', 'loony', 'crazy' 'psycho',* ac enwi ond ychydig, bellach yn cael eu hystyried yn annerbyniol ac yn ddiraddiol. Ceir nifer o erthyglau diddorol ar ddefnydd a pherygl y labeli hyn. Gweler, er enghraifft, 'Crazy Mad Nutters: The Language of Mental Health'[2], a 'From "Madness" to "Illness": The Changing Vocabulary of Mental Illness'.[3]

Ond am mai yn y chwedegau y cyhoeddwyd pob un o'r gweithiau craidd, hynny yw, cyfnod lle yr oedd stigma seiciatryddol yn gryf, edrychir ar amrywiaeth ac effaith y termau a'r ymadroddion hyn yn eu cyfanrwydd drwy'r gwaith ymchwil. O ystyried hyn, ac at ddiben yr astudiaeth hon, penderfynwyd defnyddio termau megis 'salwch meddwl', 'afiechyd meddwl', neu 'sâl ei feddwl', a ystyrir yn dderbyniol heddiw, wrth drafod y maes yn gyffredinol. Serch hynny, wrth ddadansoddi'r themâu, y delweddau a'r cymeriadau yn y testunau dan sylw, dewiswyd cadw at eiriau'r llyfrau eu hunain.

Gwnaed hyn er mwyn ennill dealltwriaeth well o

[2] Jena, D. Hwang a Kirsty Hollingshead, 'Crazy Mad Nutters: The Language of Mental Health', *Proceedings of the Third Workshop on Computational Linguistics and Clinical Psychology*, (Mehefin 2016), tt. 52-62.
[3] Cari Romm, *From "Madness" to "Illness": The Changing Vocabulary of Mental Illness,* The Atlantic, (2015), <https://www.theatlantic.com/health/archive/2015/10/mental-health-words/412630/> [cyrchwynd 23 Chwefror 2020]

brofiadau a brwydrau'r cymeriadau. Wedi'r cyfan, mae rhagfarnau'r gymdeithas a'r termau hyn yn cyfrannu at salwch nifer o'r cymeriadau. A thrwy eu cynnwys yn yr astudiaeth, cawn gipolwg ar feddylfryd y cyfnod. Er mwyn ceisio osgoi unrhyw ddryswch, ceir, yn y rhestr dermau isod, nodyn ar gyfer y prif dermau arbenigol a ddefnyddir yn y traethawd, ynghyd â'r cyfieithiad Saesneg.

**Termau**

Cyflwynir yma ddiffniadau o *Geiriadur Prifysgol Cymru* (GPC) a'r *Oxford English Dictionary* (OED) yn bennaf, ynghyd ag un ffynhonnell arall. Pan ddyfynnir o'r ail, cyflwynir crynodeb Cymraeg. Pan na cheir diffiniad parod neu addas yn y naill eiriadur na'r llall, cyflwynir yma un newydd. Nodir hefyd enghraifft o'r term yn y traethawd ym mhob un achos.

| | | |
|---|---|---|
| **Arddulleg corpws** ***eb. + eg.*** | *Corpus stylistics* | Diffiniad *The Literary Encyclopedia*: 'Corpus stylistics is a field of study that unites stylistics with corpus linguistics, the branch of linguistics which employs computational analysis to a database (or "corpus") of naturally occurring language (from speech and writing). In each corpus, texts have been tagged or "annotated" for the purposes of linguistic study. While some researchers use the term "corpus stylistics" as a sub-discipline of literary stylistics, others (such as Semino and Short, 2004) use the term more generally and include news reports and autobiographies in their work. Like other areas of stylistics, corpus stylistics involves empirical methods and subjective |

| | | |
|---|---|---|
| | | interpretation.'<br><br>Diffinnir ieithyddiaeth corpws yn nhermau defnyddio dulliau corpws i ddadansoddi testunau llenyddol, gan roi pwyslais arbennig ar y berthynas rhwng disgrifiad ieithyddol a gwerthfawrogiad llenyddol.<br><br>Enghraifft o'r traethawd (t.35): 'Trwy ddefnyddio arddulleg corpws (*corpus stylistics*), dadansoddir y ddelwedd o iselder a geir yn *TBJ* yn unol â phrosesau diagnostig anhwylderau seicolegol.' |
| **Barddoniaeth gyffesol**<br>***eb. + a.*** | *Confessional poetry* | Dyma farddoniaeth bersonol sy'n tueddu i ddefnyddio'r person cyntaf. Daeth y term Saesneg yn boblogaidd yn ystod y pumdegau a'r chwedegau yn yr ugeinfed ganrif o ganlyniad i feirdd megis Robert Lowell, Sylvia Plath ac Anne Sexton. Un o'r cerddi cyffesol enwocaf yw 'Daddy' gan Sylvia Plath.<br><br>Enghraifft o'r traethawd (t.77): 'Ceir tuedd i edrych ar farddoniaeth Sylvia Plath fel pe bai'n farddoniaeth gyffesol (*confessional poetry*). Mae hyn oherwydd ei bod yn mynd i'r afael â'i phryderon ei hun ar lwyfan creadigol.' |
| **Benyweidd-dra**<br>***eg.*** | *Femininity* | Diffiniad GPC: 'Priodwedd neu briodweddau nodweddiadol o fenyw, |

| | | |
|---|---|---|
| | | y cyflwr o fod yn fenywaidd, gwreigeidd-dra, gwreictod; mercheteiddiwch.’<br><br>Enghraifft o’r traethawd (t.271): ‘Ar un llaw, ac yn achos Esther, dyma fenyw sy’n benderfynol o chwalu’i benyweidd-dra drwy gael gwared ar y pethau sy’n ei chadw ynghlwm wrth y bywyd hwnnw.’ |
| **Catharsis**<br>***eg.*** | *Catharsis* | Diffiniad OED: ‘The purification of the emotions by vicarious experience, esp. through the drama (in reference to Aristotle's *Poetics* 6). Also more widely.’<br><br>Y broses o ryddhau emosiynau cryf sydd wedi’u gormesu. Yng nghyd-destun yr astudiaeth hon, gwneir hynny fel arfer drwy gyfrwng llenyddiaeth.<br><br>Enghraifft o’r traethawd (t.72): ‘Wedi ein harfogi â’r wybodaeth gefndirol am Caradog Prichard, teg yw dweud mai math o gatharsis oedd ysgrifennu *UNOL* i’r llenor.’ |
| **Cenhedlaeth y bitniciaid**<br>***eb. + y + ff.l.*** | *Beat generation* | Diffiniad OED: ‘An expression applied at first to a group of young people, predominantly writers, artists, and their adherents, in San Francisco, later to similar groups elsewhere, adopting unconventional dress, manners, habits, etc., as a means of |

| | | |
|---|---|---|
| | | self-expression and social protest.’<br><br>Term a ddefnyddir i ddisgrifio grŵp o ysgrifenwyr Americanaidd a ddaeth i’r amlwg yn y pumdegau o dan arweiniad Allen Ginsberg a Jack Kerouac. Roeddent yn gwrthod y gymdeithas gonfesiynol gan roi mwy o werth ar hunanfynegiant.<br><br>Enghraifft o’r term (t.84): ‘Disgrifir Ken Kesey yn aml fel ffigwr llenyddol arloesol a bontiodd ynghyd genhedlaeth y bitniciaid a’r mudiad gwrthgymdeithasol a oedd yn amlwg iawn yn y chwedegau.’ |
| **Cyffuriau seicotropig *ff. l. + a.*** | *Psychotropic drugs* | Cyffuriau sy’n effeithio ar feddwl, ymddygiad ac emosiynau person, er enghraifft, Xanax a Prozac.<br><br>Enghraifft o’r traethawd (t.83): ‘Ar ben hynny, roedd hefyd yn rhan o brosiect MK-ULTRA. Arbrawf oedd hwn gan y llywodraeth lle y cofnodwyd effeithiau cyffuriau seicotropig a rhithbair megis LSD ar yr unigolyn.’ |
| **Cymhlethdod Oidipos *eg. + eg.*** | *Oedipus complex* | Diffiniad OED :‘Oedipus complex *n.* originally *Psychoanalysis* (in Freudian theory) a complex of emotions aroused in a young (originally and esp. male) child by a subconscious sexual desire for the parent of the opposite sex and a wish |

| | | |
|---|---|---|
| | | to exclude the parent of the same sex, which, if not resolved naturally, may lead to repression, guilt feelings, and an inability to form normal emotional or sexual relationships.’<br><br>Theori ddadleuol Sigmund Freud yw hon sy’n ymwneud â chamau datblygu seicorywiol plentyn. Dadleua fod y mab yn teimlo nwyd a chariad tuag at ei fam, a dicter tuag at ei dad.<br><br>Enghraifft o’r traethawd (t.245): ‘Cyflwynodd Sigmund Freud y cysyniad hwn yn gyntaf yn ei lyfr *The Interpretation of Dreams.* Cyfeiria at gred y seicdreiddydd o ran datblygiad emosiynol y mab mewn perthynas â’i deulu, ond yn benodol mewn perthynas â’i fam.’ |
| **Chwyldro rhywiol**<br>***eg. + a.*** | *Sexual revolution* | Diffiniad OED: ‘sexual revolution *n.* [after German *sexuelle Revolution* (*c*1919 or earlier; Otto Gross (1877–1920), Austrian psychiatrist and anarchist, is credited with coining the phrase (by F. Werfel in 1929)); compare French *revolution sexuelle* (1934)] any significant shift in attitudes to sex and conventions of sexual behaviour; *spec.* the liberalization of social and moral approaches to sex often held to have taken place in Western societies in the late 1960s and 1970s.’ |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mudiad cymdeithasol a ddaeth i’r amlwg yn y chwedegau, yn Unol Daleithiau’r Amerig yn gyntaf cyn lledu i wledydd eraill. Roedd yn herio rhagfarnau a phatrymau ymddygiad traddodiadol sy’n gysylltiedig â rhyw a rhywioldeb.<br><br>Enghraifft o’r traethawd (t.49): ‘Ganwyd yr hyn a elwir yn “chwyldro rhywiol”. Dechreuodd pobl drafod pethau megis cyfathrach rywiol cyn priodi ac amlweddogrwydd yn fwy rhydd ac o ganlyniad, chwalwyd y waliau gwarchodol o gylch rhyw a pherthnasau rhywiol i raddau.’ |
| **Dirfodaeth *eb.*** | *Existentialism* | Diffiniad GPC: ‘Mudiad yn athroniaeth yr 20fed ganrif sy’n pwysleisio mai ewyllys dyn ac nid ei reswm sy’n bwysig pan fo’n wynebu argyfwng, ac nad yw dyn yn bodoli ond i’w ewyllysio’i hun i weithredu; mudiad neu gwlt pesimistaidd a ddaeth i fri yn Ffrainc ar ôl yr ail Ryfel Byd ac a sylfaenwyd ar athroniaeth y dirfodwyr, yn enwedig Jean-Paul Sartre.’<br><br>Enghraifft o’r traethawd (t.65): ‘Yn unol â natur chwilfrydig yr oes, rhoddwyd pwyslais mawr ar archwilio a thrawsffurfio. Gwelwyd yng Nghymru – fel mewn gwledydd eraill |

| | | |
|---|---|---|
| | | – ddiddordeb newydd mewn dirfodaeth, theori athronyddol sy'n ymwneud yn bennaf â darganfod ystyr bywyd a'r rheswm dros ein bodolaeth.'<br>Mae hefyd yn ffurfio sail Pennod 4.5. |
| **Gorbryder**<br>***rhgdd + eg.*** | *Anxiety* | Diffiniad GPC: '(Achos) poen neu flinder meddwl, baich meddwl, gofid, anesmwythyd, ofn, hefyd yn ffig.'<br><br>Enghraifft o'r traethawd (t.45): 'Yn ôl gwefan y Llywodraeth, sy'n galw'r broblem yn nhermau "a modern epidemic", mae salwch meddwl, megis iselder a gorbryder, yn cynyddu ymhlith y genhedlaeth ifanc.' |
| **Gwrth-seiciatreg**<br>***eg.*** | *Anti-psychiatry* | Mudiad a ddaeth yn boblogaidd yn ystod y pumdegau a'r chwedegau yw hwn sy'n seiliedig ar y gred bod triniaethau seiciatryddol, fel arfer, yn achosi mwy o niwed nag o les i'r claf. Ystyrir bod seiciatreg yn offeryn a ddefnyddir gan ddoctoriaid a dosbarth uchaf y gymdeithas er mwyn iddynt ddefnyddio eu grym a'u rheolaeth dros y dosbarthiadau cymdeithasol is.<br><br>Enghraifft o'r traethawd (t.55): 'David Cooper oedd y cyntaf i fathu'r term "gwrth-seiciatreg" yn ei lyfr *Psychiatry and Anti-psychiatry* a gyhoeddwyd yn 1967, a'r mudiad ei |

| | | |
|---|---|---|
| | | hun eisoes yn ffynnu. Erbyn heddiw, cyfeiria'n bennaf at y mudiad seiciatryddol rhyngwladol poblogaidd a ysgubodd drwy'r byd yn ystod y chwedegau a'r saithdegau.' |
| **Iselysbrydedd** ***eg.*** | *Depression* | Diffiniad GPC: 'Iselder ysbryd, lledfryd(edd), pruddglwyf, y felan, digalondid; Meddyg. hypocondria'<br><br>Enghraifft o'r traethawd (t.27): 'O ystyried hyn, ceisiodd pob un ohonynt esbonio'r gwahaniaeth rhwng gwallgofrwydd a'r iselder ysbryd yn *Tywyll Heno*.' |
| **Matriarchaeth** ***eb.*** | *Matriarchy* | Diffiniad GPC: 'Trefn gymdeithasol lle mae gwraig yn hytrach na gŵr yn bennaeth ar y gymdeithas neu'r teulu, a lle yr olrheinir ach a charennydd trwy linach y fam; cymdeithas y mae gwragedd yn tra-arglwyddiaethu ynddi.'<br><br>Enghraifft o'r traethawd (t.254): 'Yn unol â dadansoddiad Pietikainen, gwelir yn *OFOTCN* enghraifft o'r ddelwedd ddiraddiol hon. Dyma bortreadu'r cleifion fel plant sydd angen arweiniad cymdeithasol a seicolegol. Ond yn lle ffigwr tadol sy'n rheoli holl weithredoedd y seilam, ceir yn nofel Kesey |

| | | |
|---|---|---|
| | | wahaniaeth o ran y ddeinameg deuluol gyda Nurse Ratched yn bennaeth y ward. O ganlyniad i'r strwythur gwrthdro hwn, portreedir y seilam fel cymdeithas fatriarchaidd. Meddai Harding: "we are victims of a matriarchy here".'(t.56) |
| **Niwrosis pryder** ***eg. + eg.*** | *Anxiety neurosis* | Diffiniad GPC: 'Cyflwr meddwl a nodweddir gan symptomau megis hysteria, pryder, iselder ysbryd, neu ymddygiad obsesif, hefyd yn *ffig.*'<br><br>Enghraifft o'r traethawd (t.28): 'Ond gan adlewyrchu'r farn fwyaf cyffredin, meddai Donald Evans: "Hwyrach mai rhyw derm fel 'anxiety neurosis' neu iselder ysbryd eithafol fyddai diffiniad y seicolegydd o anhwylder ei phrif gymeriad."' |
| **Patriarchaeth** ***eb.g.*** | *Patriarchy* | Diffiniad GPC: 'System gymdeithasol lle bo'r gwryw yn bennaeth ar y teulu neu'r tylwyth, a lle'r olrheinir ach a charennydd trwy'r tad, system o lywodraeth gan y tad, hynafgwr y llwyth, &c., cymdeithas a nodweddir gan y cyfryw system(au); swydd, llywodraeth, talaith, neu breswylfa patriarch.'<br><br>Enghraifft o'r traethawd (t.77): 'Trwy'r cerddi a gyhoeddwyd yn ystod hydref 1960 – cerddi a oedd yn ffurfio'r casgliad *The Colossus* – |

| | | |
|---|---|---|
| | | gwelwn themâu megis marwolaeth, galar yn wyneb marwolaeth ei thad, benyweidd-dra, patriarchaeth a dioddefaint yn eu ffurfiau amrywiol, wrth i'r awdur ddefnyddio ei barddoniaeth megis platfform i archwilio prosesau'r seice.' |
| **Seicorywiol**<br>***a.*** | *Psychosexual* | Diffiniad GPC: 'Yn perthyn i'r agweddau seicolegol ar rywioldeb.'<br><br>Enghraifft o'r traethawd (t.261): 'O briodoli ymddygiad anghonfensiynol Esther i ddamcaniaeth datblygiad seicorywiol Freud, mae modd dadlau bod y fenyw hefyd yn cael ei dal yn y cyfnod ffalig.' |
| **Seicoddaearyddiaeth**<br>***eb.*** | *Psycho-geography* | Diffiniad OED: ' The study of the influence of geographical environment on the mind, behaviour, etc.; geography considered in regard to its psychological effects. Also in extended use.'<br><br>Y theori sy'n cysylltu seicoleg â daearyddiaeth ac sy'n canolbwyntio ar brofiadau seicolegol person mewn perthynas â'i leoliad neu gymdeithas.<br><br>Enghraifft o'r traethawd (t.251): 'Meddai Mihangel Morgan: "prin yw beirniaid sydd wedi ystyried arwyddocâd uchafbwynt *Un Nos Ola* |

*Leuad* - sef neilltuo'r fam i'r seilam".
Mae Ffraid Gwenllian, fodd bynnag,
yn dadansoddi'r syniad hwn yn
nhermau seicoddaearyddiaeth.'

**<u>Rhestr o dalfyriadau</u>**

| | |
|---|---|
| FTG | *Ffenestri Tua'r Gwyll* |
| MGWYL | *Mae'r Galon Wrth y Llyw* |
| OFOTCN | *One Flew Over The Cuckoo's Nest* |
| TBJ | *The Bell Jar* |
| TFM | *The Feminine Mystique* |
| TH | *Tywyll Heno* |
| UNOL | *Un Nos Ola Leuad* |
| WFNI | *Wrth fy Nagrau i* |
| YBSC | *Y Byw Sy'n Cysgu* |

# PENNOD 1
# Adolygiad Llenyddol

## 1.1 Cyflwyniad i ddefnydd o salwch meddwl fel elfen mewn llenyddiaeth

Mewn byd dryslyd, cymhleth ac yn aml, gofidus, gall seicoleg a llenyddiaeth ategu ei gilydd gan greu maes rhyngddisgyblaethol sy'n cyrraedd cynulleidfa lawer mwy eang na'u cylchoedd unigol. Ys dywedodd Branimir M. Rieger:

> Psychology and literature can be complementary disciplines. Each probes the complexities of human perception, emotion and behaviour; each assesses the impact of environment and personal relationships on an individual. Each contributes, in its own way, to an understanding of personality. Great literary works frequently complement psychology by depicting characters whose emotional turmoil may reflect some disorder. Literature often presents fierce emotions characters cannot control, or which are in tremendous conflict with each other.[4]

O ystyried hyn, nid yw'n syndod bod salwch meddwl yn ei ffurfiau amrywiol wedi codi fel thema amlwg, nid yn unig drwy astudiaethau'r meddygon, y gwyddonwyr a'r seiciatryddion, ond hefyd, yng ngwaith yr artistiaid, y llenorion a'r dramodwyr ar draws y canrifoedd. Fe'i gwelwn fel elfen ganolog yn y celfyddydau mor gynnar â'r dramâu Theban, *Oedipus Rex, Oedipus at Colonus* ac *Antigone* gan Sophocles, yn y dramâu Shakespearaidd *Hamlet* a *King Lear* a thrwy lenyddiaeth y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r stori fer *The Yellow Wallpaper* (1892).[5] Ond yn ogystal â hyn ac yn fwy diweddar, fe'i cofnodwyd hefyd mewn nofelau hunangofiannol a chofiannau amrywiol megis *Girl, Interrupted* (1993), *Prozac Nation* (1994) ac *A Beautiful Mind* (2001).

Ar lwyfan creadigol, gellir dweud bod rhyddiaith yn caniatáu i awduron fynegi'r profiadau, y teimladau a'r emosiynau sydd yn aml yn gysylltiedig â salwch meddwl yn weddol rydd a heb unrhyw gyfyngiadau cymdeithasol, gwleidyddol neu feddygol. Nid oes rhaid i'r llenor lynu wrth reolau na safonau pendant. Yn hytrach, gall yr awdur ddefnyddio trosiadau, delweddau ac iaith er mwyn portreadu'r profiadau mewnol i'r byd allanol. Yn aml, defnyddir rhyddiaith fel chwyddwydr i'r

---

[4] Branimir M. Rieger, 'The Class Flew Over the Cuckoo's Nest: A Theme Course on "Madness in Literature"' yn *Dionysus in Literature: Essays on Literary Madness*, gol. gan Branimir M. Rieger (Bowling Green: Bowling Green State University Popular Press, 1994), t.224.

[5] Ystyrir y stori hon yn aml fel enghraifft gynnar bwysig o lenyddiaeth Americanaidd ffeministaidd sy'n ymdrin ag agweddau'r gymdeithas tuag at les meddyliol a chorfforol menywod. Gweler, er enghraifft: Karen Ford, '"The Yellow Wallpaper" and Women's Discourse', *Tulsa Studies in Women's Literature,* 4.2 (Hydref 1985), 309-314.

byd preifat ac agos, a thrwyddi mae'n bosib i'r darllenydd uniaethu a rhyngweithio â'r cymeriadau a'u straeon ar lefel ddyfnach. Yng ngeiriau Lillian Feder:

> The varieties of madness created in literature are in most respects no different from those to be discovered throughout human society. Since the literary artist employs structures – myth, metaphor, symbol – which continually mediate between unconscious and conscious processes, he is often a gifted explorer of what have been called the "*unlabeled* metaphors" of the schizophrenic, an interpreter of the madman's apparently indecipherable messages.[6]

Trwy farddoniaeth, nofelau, dramâu a hunangofiannau, gall yr awdur ddangos nad yw'r dyn 'gwallgof' mor wahanol â chi neu fi mewn gwirionedd. A darperir, o ganlyniad, lwyfan ar gyfer y llais 'afresymol'. Ond ar ben hynny, awgrymir hefyd mai ymdrech i ddod o hyd i iachâd neu ateb rhesymol i broblemau'r oes sydd ohoni yw'r salwch hwn yn aml. Bydd y dadansoddiadau hyn yn darparu sail i nifer o benodau'r astudiaeth hon.

Yn wyneb y gweithiau creadigol cyfoethog ac wrth ystyried natur anghyfarwydd gyffredinol y maes, nid yw'n syndod bod nifer o astudiaethau dadansoddol a beirniadol hefyd wedi'u cyhoeddi'n lled ddiweddar. Ac wrth i ysgolheigion a'r cyhoedd barhau i gael eu hudo gan y meddwl dynol yn ei holl greadigrwydd a'i holl gymhlethdod, dal i dyfu y mae'r ymdriniaeth academaidd.

Canolbwyntia *Madness in Literature* (1980) gan Lillian Feder ar y prif gymeriad 'gwallgof' mewn llenyddiaeth sy'n amrywio o fytholeg Roegaidd hynafol i farddoniaeth a ffuglen gyfoes. A thrwyddi, dadansodda'r academydd y defnydd o salwch meddwl fel ymgais i herio'r rhagdybiaethau a'r gwerthoedd diwylliannol traddodiadol. Dyma syniad a archwilir hefyd yng nghyfrol Branimir M. Rieger, *Dionysus in Literature: Essays on Literary Madness* (1994), er ei bod yn gyfrol sy'n ymdrin â'r agwedd dionysaidd yn bennaf oll. Ac er bod enghreifftiau di-rif eraill o'r math hwn o astudiaethau i'w hystyried yng nghyd-destun y thesis hwn – a dengys chwiliad syml drwy gatalog llyfrgell amrywiaeth y gweithiau hyn[7] – mae gwaith Barbara Lupack, *Insanity as Redemption in Contemporary Fictions: Inmates running the Asylum* (1995) yn darparu ymdriniaeth gyd-destunol ac amseryddol arwyddocaol o'r defnydd o salwch meddwl mewn llenyddiaeth.

---

[6] Lillian Feder, *Madness in Literature* (New Jersey: Princeton University Press, 1980), t.5.

[7] Rhai enghreifftiau eraill: Ernst Kris, *Psychoanalytic Explorations in Art* (New York: International University Press, 1952); Federick J. Hoffman, *Freudianism and the Literary Mind* (Baton Rouge: Louisiana State University Press, 1955); Simon O. Lesser, *Fiction and the Unconcious One* (New York: Vintage, 1957)

Trwy'r llyfr hwn, archwilia Lupack gyd-destun diwylliannol a llenyddol pum enghraifft enwog o lenyddiaeth gyfoes y chwedegau a'r saithdegau. Ynddo, dadansoddir y gred mai ymateb call mewn byd gwallgof oedd salwch y cymeriadau hyn.[8] Meddai: 'amidst the repressive, impersonal, technological, dehumanizing forces of contemporary society… insanity may be one of the few sane alternatives available in the mad world'.[9] Wrth ystyried y safbwynt beirniadol hwn, teg yw dweud mai themâu poblogaidd oedd geirwiredd y dyn 'gwallgof' a beirniadaeth ar y gymdeithas reolaethol mewn gweithiau wedi'r rhyfel.[10]

Mae'n ffurfio'r sail i nofelau'r chwedegau – *Catch-22* (1961) ac *I Never Promised You a Rose Garden* (1964) – a gweithiau'r saithdegau megis *Sybil* (1973) a *Woman on the Edge of Time* (1976). Trwyddynt, archwilia'r awduron hyn y cymhlethdodau a'r trosiadau amrywiol a amgylchynodd salwch meddwl a gwallgofrwydd yn ystod y cyfnod. Ac yng ngolau oes a roddodd bwyslais mawr ar gwestiynu a herio, roedd y llenyddiaeth hon yn mynd ati i ddadansoddi helynt mewnol yr unigolyn mewn cymdeithas ormesol a chyfnewidiol. Ys dywedodd James Whitehead:

> It is not unusual in critical and literary writing on madness to encounter what are essentially uncritical endorsements of Laing's notorious statement from the height of the late 1960s: 'Madness need not be all breakdown. It may also be breakthrough. It is potentially liberation and renewal as well as enslavement and existential death.'[11]

Daw'n amlwg drwy'r trafodaethau cyfoethog a niferus hyn fod y maes yn anferth. O ganlyniad, ni fyddai'n briodol nac yn addas i ganolbwyntio arno yn ei gyfanrwydd. Yn hytrach, ac yng ngolau'r gosodiad uchod a chyffroadau'r cyfnod, penderfynwyd dewis detholiad o weithiau a gyhoeddwyd yn ystod y chwedegau ac o fewn ychydig flynyddoedd i'w gilydd. Trwy'r astudiaeth, canolbwyntir yn bennaf ar *Un Nos Ola Leuad* (1961) a *Tywyll Heno* (1962) yn ogystal â'r nofelau Americanaidd, *One Flew Over The Cuckoo's Nest* (1962) a *The Bell Jar* (1963).

Ceir yma ddwy nofel Gymraeg a dwy nofel Americanaidd sydd yn glasuron modern a hynny'n rhannol am iddynt ysgogi trafodaethau cyfoes a phwysig ar

---

[8] Mae'r gweithiau'n cynnwys Joesph Heller, *Catch-22* (1961); Ken Kesey, *One Flew Over The Cuckoo's Nest* (1962); Kurt Vonnegut, *Slaughterhouse Five* (1969); Jerzy Kosinski, *Being There* (1971); William Styron, *Sophie's Choice* (1979).

[9] Barbara T. Lupack, *Insanity as Redemption in Contemporary Fictions: Inmates Running the Asylum* (Gainsville: Florida University Press, 1995), t.5.

[10] Gweler Pennod 4 am ddadansoddiad pellach.

[11] James Whitehead, *Madness and the Romantic Poet: A Critical History* (Oxford: University of Oxford Press, 2017), t.5.

ddatblygiadau'r oes. Ar ôl darllen y gweithiau hyn, ffurfiwyd, yn naturiol, gysylltiadau rhwng *UNOL* ac *OFOCN*, wrth i'r ddau awdur ddadansoddi rhagfarnau'r gymdeithas 'wallgof'. Ond gwelwyd hefyd debygrwydd o ran y ddau lais ffeministaidd beirniadol yn *TBJ* a *TH*. Ac o'u cyfosod ynghyd, tyfodd y berthynas rhwng y gweithiau hyn wrth i mi eu darllen yn ddyfnach. Mynegodd Katie Gramich awydd sawl llenor a beirniad yn y chwedegau i ymestyn ffiniau llenyddiaeth Gymraeg, gan fod 'llenyddiaeth Cymru wedi bod yn rhigolau'r gegin Gymreig yn rhy hir, a bod yn rhaid agor drysau'r byd i Gymru'.[12] Yng ngolau hyn, dyma astudiaeth sy'n gweithredu ar y cyngor hwn gan daflu goleuni newydd ar y gweithiau Cymraeg, a dangos bod Cymru a'u hawduron yn rhan o'r trafodaethau ysgogol hyn a amgylchynai'r chwedegau.

O ystyried safle blaenllaw y ddwy nofel Gymraeg a'r ddau awdur yn ein llenyddiaeth, ceir eisoes nifer o ddadansoddiadau cyfoethog ar themâu a chymeriadau amrywiol y gweithiau, dadansoddiadau sy'n ffrwyth gwahanol ffyrdd o'u trin a'u trafod. Ond er gwaethaf cyfoethogrwydd a helaethrwydd y themâu, heb sôn am berthynas gymhleth y cymeriadau â'u hamgylchfyd, penderfynwyd peidio â thrafod ambell agwedd o'r gweithiau dan sylw yn yr astudiaeth hon. Hynny yw, cydnabyddir yma ffocws penodol yr astudiaeth ynghyd â chyfyngder posibl y fethodoleg, ond nid yw hyn yn golygu ein bod yn ddall i themâu pwysig eraill y gweithiau megis twf seciwlareiddio, Seisnigo, diflaniad y traddodiad Cymreig a Chymraeg, yn arbennig mewn perthynas ag anghydffurfiaeth, yn ogystal ag ymlediad y diwylliant Eingl-Americanaidd yng nghymdeithas Gymreig y cyfnod. Ni fwriedir bychanu'r themâu pwysig hyn. Dyma gyd-destun ehangach y drafodaeth ar iechyd meddwl, heb os. Yr hyn a wneir yma yw craffu'n fanwl ar yr elfen thematig honno, sef salwch meddwl a'r drafodaeth seiciatryddol yn ei chylch yn y chwedegau, wyneb yn wyneb â'r ddwy nofel Gymraeg a'r ddwy Americanaidd.

Neilltuir rhan nesaf yr adolygiad llenyddol i'r gweithiau craidd hyn, a thynnir sylw at weithiau beirniadol o bwys, yn ogystal ag unrhyw fylchau yn y drafodaeth feirniadol ar y nofelau hyd yma, wrth inni fynd ati i lunio prif gwestiynau ymchwil yr astudiaeth hon.

[12] Katie Gramich, 'Dylanwad Cylch Cadwgan Adeg y Rhyfel', *Barn*, 80 (Mehefin 1969), t.3

## 1.2 Ymatebion beirniadol i'r gweithiau ffuglennol Cymraeg

Yn unol â'r cyd-destun llenyddol a hanesyddol dan sylw ac wrth sôn am nofelau ail hanner yr ugeinfed ganrif yng Nghymru, meddai John Rowlands:

> Yn lle nofelau mawr cymdeithasol a phanoramig y ganrif ddiwethaf cawsom nofelau sy'n canolbwyntio, nid ar ddigwyddiadau dramatig, ond ar haenau lluosog personoliaeth ychydig o gymeriadau.. [A ch]anfyddwyd fod 'y dyn oddi mewn' lawn mor ddiddorol â'r dyn cymdeithasol.[13]

Yn ôl Rowlands, wedi'r rhyfel a datblygiadau cymdeithasol a gwleidyddol eraill, symudodd ffocws llenorion Cymraeg o'r helyntion allanol i'r brwydrau mewnol. Ac o ganlyniad, gwelwyd nofelau a straeon a ddefnyddiodd gwallgofrwydd, salwch meddwl ac alltudiaeth yn eu holl ffurfiau amrywiol er mwyn creu cangen wahanol o lenyddiaeth. Ymhlith yr enghreifftiau hyn ceir *Ffenestri Tua'r Gwyll* (1955), *Un Nos Ola Leuad* (1961) a *Tywyll Heno* (1962).

Ers troad y ganrif hon, gwelwyd twf mewn gweithiau o'r math. Cyhoeddwyd *Sgrech Rhyfel* (2001) gan Martin Huws, *Esgid Wag* (2004) gan Mared Lewis, *Wrth fy Nagrau i* (2007) ac "*Maen nhw'n siarad amdana i"* (2009) gan Meic Hughes. Ond yn fwy diweddar, ceir y llyfrau hunangofiannol *Gyrru Drwy Storom* (2015) a *Rhyddhau'r Cranc* (2018). Yn amlwg, ni fyddai'n bosib sôn am bob nofel, cerdd, stori fer na drama sy'n defnyddio salwch meddwl fel elfen yn y Gymraeg. Yn hytrach, tynnir sylw at ddyrnaid o weithiau a fydd yn cefnogi'r gweithiau craidd, *Un Nos Ola Leuad* a *Tywyll Heno*, gan greu darlun ehangach o'r defnydd o salwch meddwl mewn llenyddiaeth Gymraeg.

* * *

Yn 2015, cyhoeddwyd llyfr Alaw Griffiths, *Gyrru Drwy Storom*, gyda'r bwriad o agor trafodaethau cadarnhaol eu naws ar salwch meddwl yn y Gymraeg. Trwy'r llyfr hwn, gwelwn brofiadau un ar ddeg o ddioddefwyr, a cheir ynddo gyfraniadau gan yr awduron Angharad Tomos a Caryl Lewis, y gwleidyddion Llŷr Huws Gruffydd a Bethan Jenkins a'r beirdd Iwan Rhys a Hywel Griffiths. Dywedir:

> Ceir yma gyfraniadau gan unigolion ar hyd a lled Cymru, o feysydd a chefndiroedd gwahanol. Pob un ohonynt yn brwydro i roi diwedd ar y stigma sydd ynghlwm wrth y geiriau "salwch meddwl."[14]

---

[13] John Rowlands, 'Tywyll Heno' yn *Kate Roberts: Ei Meddwl a'i Gwaith,* gol. gan Rhydwen Williams (Llandybïe: Christopher Davies, 1983), t.80.
[14] Alaw Griffiths, *Gyrru Drwy Storom,* gol. gan Alaw Griffiths (Gwasg Gomer: Y Lolfa, 2015), t.10.

Croesawyd *Gyrru Drwy Storom* yn frwd gan feirniaid ac fe'i canmolwyd am ei neges obeithiol a'i safle arloesol mewn llenyddiaeth Gymraeg.[15] Adeilada llyfr Alaw Griffiths ar lyfr Gwyneth Lewis *Sunbathing in the Rain: A Cheerful Book About Depression* (2002). Yn debyg i *Gyrru Drwy Storom*, mae gwaith Gwyneth Lewis yn ceisio ymgodymu â'r stigma sy'n gysylltiedig â salwch meddwl wrth iddi gofnodi a dadansoddi'i phrofiadau personol. Meddai Simon Hattenstone: 'She [Gwyneth Lewis] conveys the darkness, the silence, the selfishness, the mental clutter of depression brilliantly',[16] tra mae gwefan *Feminist Mental Health UK* yn disgrifio'r llyfr fel hanes gonest menyw o'i hiselder.[17] Ond er bod llyfrau hunangymorth niferus ar gael yn y Saesneg, nid oes unrhyw beth tebyg yn y Gymraeg. Fel y dywed Sarah Down Roberts: 'ychydig iawn sydd wedi ei ysgrifennu am salwch meddwl, er ei fod wedi cyffwrdd â nifer fawr ohonom – yn wir, nid oes fawr ddim wedi cael ei ysgrifennu yn Gymraeg'.[18] A chan ystyried hyn ac wrth i'r unfed ganrif ar hugain a'r gwasanaethau meddygol ddatblygu, cydnabuwyd bwlch amlwg o ran gweithiau seicolegol trwy gyfrwng y Gymraeg.

Gellir gweld, fodd bynnag, gynnydd mewn ymdriniaethau seicolegol eu naws drwy lenyddiaeth ddychmygol yn y Gymraeg. Gan adael y gweithiau cyfredol am y tro ac wrth ailgydio yng ngwaith cyfnod craidd yr astudiaeth, cyhoeddwyd *Ffenestri Tua'r Gwyll* gan Islwyn Ffowc Elis yn 1955. Nofel seiciatryddol ei naws ydyw sy'n traethu stori'r wraig weddw Ceridwen Morgan. Menyw sy'n cael ei chlymu gan ei gŵr i fyw ar ei chyfoeth ydyw ac mae e'n dal i'w rheoli ar ôl ei farwolaeth wrth iddo ei hatal rhag ailbriodi neu wneud unrhyw beth yn gyhoeddus gan gynnwys perfformio (pianydd ydyw). O ganlyniad i amgylchiadau cyfyngol ei bywyd, fe'i

[15] Gweler adolygiadau megis BBC Cymru Fwy, *Delio gyda salwch meddwl* (2016), <http://www.bbc.co.uk/cymrufyw/33649924> [cyrchwyd 05 Rhagfyr 2016], Golwg 360, *Lansio'r gyfrol gyntaf ar salwch meddwl yn y Gymraeg* (2015), < http://golwg360.cymru/celfyddydau/llen/195668-lansior-gyfrol-gyntaf-ar-salwch-meddwl-yn-y-gymraeg> [cyrchwyd 05 Rhagfyr 2016]; Lleol.Cymru, *Cyfrol newydd yn chwalu stigma iechyd meddwl* (2015), < http://www.lleol.cymru/blog/cyfrol-newydd-yn-chwalu-stigma-iechyd-meddwl.html> [cyrchwyd 05 Rhagfyr 2016].

[16] Simon Hattenstone, *Truth and Its Consequences. Book Review: Sunbathing in the Rain: A Cheerful Book About Depression*¸The Guardian (2002), <https://www.theguardian.com/books/2002/jul/06/featuresreviews.guardianreview2> [cyrchwyd 08 Rhagfyr 2016]

[17] Feminist Mental Health UK, 'Book Review: Sunbathing in the Rain by Gwyneth Lewis [Non-Fiction] *Feminist Mental Health UK* (2008), <https://feministmentalhealthuk.wordpress.com/2008/06/16/book-review-sunbathing-in-the-rain-by-gwyneth-lewis-non-fiction/ > [cyrchwyd 08 Rhagfyr 2016]

[18] Sarah Down Roberts, 'Gyrru Drwy Storom: Adolygiad Gwales' Gwales, <http://www.gwales.com/goto/biblio/en/9781784611439/> [cyrchwyd 19 Rhagfyr 2016]

gyrrir yn wallgof erbyn diwedd y nofel. Dywedodd Delyth George am Islwyn Ffowc Elis a *Ffenestri Tua'r Gwyll*: 'Ei arbrawf mawr cyntaf oedd ei nofel seicolegol uchelgeisiol, *Ffenestri Tua'r Gwyll.* Dyma nofel fwy arbenigol, nofel ymwybodol, ddieithr ei chynnwys a'n cyflwyna i fyd crachach anghynnes Caerwenlli.'[19]

Er gwaethaf hyn, beirniadwyd y nofel yn gryf iawn adeg ei chyhoeddi a gorfodwyd Islwyn Ffowc Elis i ymateb mewn ysgrif o'r enw 'Fy Nofel Aflwyddiannus'.[20] Meddai John Rowlands: 'This novel was slated by the critics, not so much because of its *risqué* theme, but because the characters and their milieu seemed strange and pretentious, let alone un-Welsh'.[21] Ac yng ngeiriau Delyth George: 'yn hytrach nag arwyr hoffus Lleifior, Ceridwen Morgan, gwraig weddw rwystredig, gefnog, anwastad ei thymherau ac agos at wallgofrwydd, sy'n ffurfio canolbwynt y gwaith'.[22] Yn ogystal â'r derbyniad anffafriol o ran y prif gymeriad, wynebodd Ffowc Elis feirniadaeth oherwydd y portread seiciatryddol, a hynny'n aml oherwydd y ffaith mai dyn ydoedd. Dychwelir at y syniadau hyn yn fanylach yn hwyrach yn yr astudiaeth fodd bynnag. Eto, er gwaetha'r holl feirniadaeth, rhyddiaith mewn maes gweddol newydd ac annatblygedig yn y Gymraeg oedd *Ffenestri Tua'r Gwyll.*

Dychwela Islwyn Ffowc Elis at thema salwch meddwl unwaith eto yn ei stori fer 'Y Polyn' o'r gyfrol *Marwydos* (1974). Y tro hwn, mae'n edrych ar ymateb y gymdeithas i'r dyn 'gwallgof.' Dyma stori Wil, dyn sy'n ffurfio obsesiwn â pholyn telegraff; gwrthrych a ddaw yn symbol am Gymru a Chymreictod sy'n dechrau diflannu. Ond oherwydd ei ymddygiad sy'n bygwth yr hyn sy'n cael ei ystyried fel y 'norm', bernir bod Wil yn wallgof ei natur. Dywedodd T. Robin Chapman am y stori: 'There is a sense here of a community which tolerates eccentricity and a delight in the playfulness of obsession'.[23] Yma, defnyddir y syniad o salwch meddwl i ddibenion cenedlaethol er mwyn tanlinellu'r cysylltiad rhwng gwrthryfelwyr a gwallgofrwydd. Edrychir ar y stori hon mewn mwy o fanylder ym Mhennod 4 wrth inni asesu amwysedd y gwahaniaeth rhwng y dyn call a'r dyn gwallgof.

Nofel arall sy'n cyfeirio at wallgofrwydd o safbwynt y gymdeithas ond yn fwy penodol o safbwynt y fenyw yw nofel Angharad Tomos, *Wrth fy Nagrau i*

---

[19] Delyth George, *Llên y Llenor: Islwyn Ffowc Elis* (Caernarfon: Gwasg Pantycelyn, 1990), t.22.
[20] Islwyn Ffowc Elis, 'Fy Nofel Aflwyddiannus', *Lleufer*, 12.2 (Haf 1957), 55-59.
[21] John Rowlands, 'The Novel' yn *A Guide to Welsh Literature c.1900-1996,* gol gan Dafydd Johnston (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Caerdydd, 1998), t.179.
[22] George, *Llên y Llenor: Islwyn Ffowc Elis,* t.22.
[23] T. Robin Chapman, *Islwyn Ffowc Elis,* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2000), t.72.

(2007). Nofel wedi'i gosod mewn ysbyty meddwl ydyw a thrwyddi dilynwn fam sy'n dioddef o iselder ysbryd ôl-enedigol. Er bod *WFNI* yn ymdrin â chyfnod sydd yn nes at y presennol o'i gymharu â chyfnod dethol yr astudiaeth, anorfod oedd peidio â chyfeirio at y gwaith hwn oherwydd cymeriadau adnabyddus y nofel. Ys eglurodd Kate Crockett, cyflwynir inni nifer o gymeriadau cyfarwydd, wrth i Angharad Tomos ddefnyddio storïau'r rhai sydd wedi brwydro'n feddyliol mewn llenyddiaeth Gymraeg ar hyd y blynyddoedd.[24] Yn y nofel, cyflwynir inni gymeriad Heledd a gysylltir â Chanu Heledd ac yn enwedig felly'r gerdd 'Ystafell Cynddylan', Monica, o nofel arloesol Saunders Lewis, a hefyd Bet Jones a'i gŵr o *Tywyll Heno* a Mrs Prichard a hanes stori *UNOL*. Drwy gynnwys y gwaith hwn yn yr astudiaeth, agorir trafodaethau cyfredol ar y ddwy nofel graidd, gan ehangu'r maes ymchwil ymhellach.

Yn ogystal â'r cymeriadau ffuglennol enwog hyn, ceir hefyd elfennau hunangofiannol. Ac, o ganlyniad, adroddir y stori yn y person cyntaf. Am y defnydd hwn, meddai Debbie Williams fod yr awdur yn dwysau'r ymdeimlad o arwahanrwydd drwy beidio ag enwi'r prif gymeriad – techneg a welir hefyd yn *Un Nos Ola Leuad*. [25]

Wrth ddadansoddi effeithiolrwydd y portread o salwch meddwl yn y nofel, â Kate Crockett ymlaen: 'Byddai'n hawdd i nofel am iselder orgordroi'n fyfïol ddiflas, ond mae Angharad Tomos yn ormod o feistr ar ei chrefft i'n siomi'.[26] Yn rhedeg trwy'r nofel, gwelwn y gwrthdaro rhwng y cleifion a'r staff, a'r gwrthdaro rhwng Cymreictod a Seisnigrwydd. Ac er bod Harri Pritchard Jones [27] yn beirniadu Angharad Tomos am ei gorddefnydd o Saesneg, mynnodd John Gruffydd Jones mai 'achub sawl sefyllfa sy'n ceisio cyfleu diflastod y cymeriad wrth iddi geisio ymdopi â'i chyflwr'[28] y mae'r iaith. Tynnir sylw unwaith eto at ddiffyg cymorth seicolegol yn y Gymraeg. Yn wir, llyfr sy'n ymddangos ychydig ar ôl cyfnod craidd yr astudiaeth yw hwn. Ond er gwaethaf hyn, gwelir cyfatebiaethau gwerthfawr a

---

[24] Kate Crockett, *Wrth fy Nagrau i* (2007), Gwales, <http://www.gwales.com/bibliographic/?isbn=9781845271527&tsid=3> [cyrchwyd 08 Mai 2016]
[25] Debbie Williams, 'Cysur i Glaf' *Barn,* 551 -552 (Rhagfyr 2007 / Ionawr 2008), 79.
[26] Kate Crockett, *Wrth fy Nagrau i* (2007), Gwales, <http://www.gwales.com/bibliographic/?isbn=9781845271527&tsid=3> [cyrchwyd 08 Mai 2016]
[27] Harri Pritchard Jones, *Cyfansoddiadau Eisteddfod Genedlaethol Sir y Fflint a'r Cyffiniau 2007,* gol gan. J. Elwyn Hughes (Llandysul: Llys yr Eisteddfod, 2007), tt.106-107.
[28] John Gruffydd Jones, *Adolygiadau a Straeon: Wrth fy Nagrau i,* BBC Cymru, <http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/adolygiadau/744-dagrau.shtml > [cyrchwyd 08 Mai 2016]

chyfoethog rhynddo a'r llenyddiaeth eraill. Ac felly, fe'i defnyddir er mwyn cyfoethogi rhai o brif ddelweddau'r gweithiau craidd.

* * *

Un o'r nofelau enwocaf yn y Gymraeg i ddefnyddio gwallgofrwydd fel elfen ganolog wrth gwrs, yw nofel Caradog Prichard, *Un Nos Ola Leuad*, a gyhoeddwyd yn 1961. Dros y blynyddoedd, enillodd y nofel safle fel un o'r nofelau mwyaf poblogaidd i gael ei chyhoeddi yn y Gymraeg. Tystiolaeth bellach o'i phoblogrwydd yw'r ffaith iddi fwynhau sawl argraffiad, cyfieithiadau amrywiol, addasiadau ffilm a drama, gan hefyd gadw ei lle ar gwricwlwm Cymraeg Safon Uwch am flynyddoedd. Er gwaethaf hyn, pwysleisiodd Menna Baines ddeng mlynedd ar hugain ar ôl i'r nofel ymddangos mai ychydig iawn o ymdriniaethau a geir am y nofel mewn gwirionedd.[29] Ond dros y blynyddoedd, bu ymdrechion i lenwi'r bwlch hwn yn y gwaith hunangofiannol a beirniadol. Er enghraifft, yn 2000, cyhoeddwyd astudiaeth Mihangel Morgan yn y gyfres *Llên y Llenor* ac yn 2005 ymddangosodd dau lyfr trylwyr am waith a bywyd yr awdur; y cyntaf gan Menna Baines a'r ail gan J. Elwyn Hughes.[30] Ond yn wyneb hyn oll, rydym yn dal yn gweld bylchau yn yr ymdriniaethau seicolegol.

Cyn mynd ati i ddadansoddi'r nofel ac er cydnabod ei bod wedi sicrhau lle i Caradog Prichard, yn ôl Menna Baines,[31] ar ganol prif lwyfan llenyddiaeth Gymraeg fodern, rhaid cofio iddo ddod yn adnabyddus fel bardd yn gyntaf ac yn arbennig fel awdur tair pryddest eisteddfodol fuddugol rhwng 1927 a 1929.[32] Esboniodd Alan Llwyd fod Caradog Prichard yn:

> aelod o'r genhedlaeth o feirdd a gredai fod popeth yn ddeunydd barddoniaeth. Roedd seicdreiddiaeth a seicoleg yn bynciau gweddol newydd yn y dauddegau, a phobl yn dechrau dod i ddeall syniadau Freud, a phroblemau fel gwallgofrwydd. Dan

---

[29] Menna Baines, 'Un Nos Ola Leuad (ii)', *Barn*, 350 (Mawrth 1992), 21.

[30] Mihangel Morgan, *Llên y Llenor: Caradog Prichard* (Caernarfon: Gwasg Pantycelyn, 2000); Menna Baines, *Yng Ngolau'r Lleuad: Ffaith a Dychymyg yng ngwaith Caradog Prichard* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2005); J. Elwyn Hughes, *Byd a Bywyd Caradog Prichard 1904-1980* (Llandybïe: Gwasg Dinefwr a Cyhoeddiadau Barddas, 2005)

[31] Baines, *Yng Ngolau'r Lleuad*, t.90.

[32] Hanfodol yw dealltwriaeth o'r cerddi hyn er mwyn deall yn well delweddau a chymhellion *Un Nos Ola Leuad.* Ni fwriedir edrych ar y cerddi hyn yn fanwl yn y traethawd hwn ond am ymdriniaethau manwl, gweler: Baines (2005) ac Alan Llwyd, '"Gwallgofrwydd Arglwyddes Hardd": Pryddestau Eisteddfodol Caradog Prichard: 1927-1939' yn Alan Llwyd, *Rhyfel a Gwrthryfel: Brwydr Moderniaeth a Beirdd Modern*, (Llandybïe: Gwasg Dinefwr & Cyhoeddiadau Barddas, 2003), tt.186-291.

> arweiniad Freud, daeth y meddwl, a chymhlethdod y meddwl dynol, i mewn i farddoniaeth Gymraeg.[33]

Trwy'r farddoniaeth hon, daeth Caradog Prichard â nifer o themâu newydd i'r Gymraeg megis iselder, hunanladdiad, gwallgofrwydd ei fam a'i wallgofrwydd personol; themâu ac obsesiynau sy'n cael eu hymgorffori yn ei nofel *UNOL.* Ac wrth ystyried y farddoniaeth gynnar hon, gellir gweld ei ddatblygiad creadigol tuag at ei ryddiaith. Yn y ddwy bryddest gyntaf, gwelwn wallgofrwydd y fam. Yn y drydedd, portreadir gwallgofrwydd anochel y mab ac yn 'Terfysgoedd Daear', a gyhoeddwyd yn 1939, awgrymir credoau Caradog Prichard ei hun ynghylch hunanladdiad. Ond fel y pwysleisia Menna Baines:

> Yma yn *Un Nos Ola Leuad,* a thros ugain mlynedd arall wedi mynd heibio, daw dau bresenoldeb, dau brif lais y pryddestau, at ei gilydd. Lle yr oeddynt yn y farddoniaeth, yn perthyn i ddau fyd ar wahân, yn y nofel, maent am y tro cyntaf yn cyd-rannu'r un llwyfan a'u perthynas fel mam a mab yn eglur.[34]

Yn y bôn, stori seicolegol ei phwyslais am hanes plentyndod bachgen yn ardal Bethesda ydyw a thrwyddi, dilynwn yr adroddwr dienw ar un noson olau leuad lle y cofnodir atgofion a digwyddiadau o'i orffennol; rhai'n felys, rhai'n ddychrynllyd. Un o'r digwyddiadau hyn yw chwalfa feddyliol ei fam a'r canlyniadau dinistriol sy'n effeithio ar y plentyn yn sgil hynny. Oherwydd hyn, mae hunanladdiad, tlodi, trais, camdriniaeth rywiol a gwallgofrwydd i gyd yn themâu cyffredin. Yn ystod adeg ei chyhoeddi, canmolwyd y nofel am newydd-deb y themâu a'r cynnwys. Meddai Tom Parry-Jones: 'Ni bu sgrifennu cry' fel hyn o'r blaen yn y Gymraeg',[35] ac ailadroddodd Pennar Davies yr un agwedd gan ddweud, 'nid ysgrifennwyd yn y Gymraeg ddim sydd yn hollol debyg i *Un Nos Ola Leuad*'.[36] A hyd yn oed bron i hanner canrif ar ôl iddi gael ei chyhoeddi, pwysleisiwyd ei safle blaenllaw unwaith eto. Yng ngeiriau Rhian Price: 'Pan gyhoeddwyd *Un Nos Ola Leuad* yn 1961, doedd yr un llyfr Cymraeg o'r blaen wedi trafod salwch meddwl yn yr un ffordd. Mae llawer yn credu na fydd neb yn gwella ar gampwaith Caradog Prichard.'[37]

---

[33] Alan Llwyd, *Canrif o Brifwyl – 1928,* BBC Cymru <https://www.bbc.co.uk/cymru/canrif/1928.shtml> [cyrchwyd 05 Mawrth 2019]

[34] Baines, *Yng Ngolau'r Lleuad,* t.254.

[35] Tom Parry-Jones, 'Llyfrau Newydd- Un Nos Ola Leuad. Wrth eu Gweithredoedd', *Lleufer,* 18.1 (Gwanwyn 1962), 47-48.

[36] Pennar Davies,'Adolygiadau: Caradog Prichard, Un Nos Ola Leuad', *Taliesin,* 4 (1962), 99-100.

[37] Rhian Price, 'Yr Unig Nos Ola Leuad', *Golwg,* 14.14 (2007), 19.

Ni all y darllenydd ddianc rhag gwallgofrwydd yn *UNOL* gan ei fod yn effeithio ar bob cymeriad a phob digwyddiad nes ei fod yn gwbl ganolog i'r nofel. Fel y dywed Mihangel Morgan: 'Defnyddia "wallgofrwydd" fel chwyddwydr a thrwyddo mae'n edrych ar gymdeithas a strwythurau cymdeithasol megis yr eglwys, yr ysgol, y gymdogaeth ac, yn anochel, y seilam gan eu harchwilio a'u dinoethi'.[38] O'r bennod agoriadol a'r llinell gyntaf – 'Pa bobol pentra o'u coua? Nid ni sy'n eu gyrru nhw o'u coua, nhw sy'n mynd o'u coua.' (t.7) – gwelir pa mor ganolog yw gwallgofrwydd yn y nofel, naill ai drwy stori'r mab a'i fam neu drwy'r gwahanol storïau am drigolion y pentref.

Ac wrth ystyried y ffaith mai nofel sy'n ymdrin â materion seicolegol yw hon, mae rhai hefyd wedi cysylltu theori ddadleuol Freud ynghylch cymhlethdod Oedipws ag *UNOL*. Cwyd y thema sawl gwaith yn ystod y stori naill ai drwy ddicter yr adroddwr ar ôl clywed bod Yncl Wil wedi bod yn y tŷ, drwy'r ffaith mai atgofion am ei fam sy'n ymddangos wrth iddo gwrdd â Jini Bach Pen Cae neu drwy'r cyfeiriadau niferus at drais neu gamdriniaeth rywiol. Dywed Menna Baines am yr amlder hwn yn y nofel: 'Rhwng popeth, mae'n anodd osgoi'r argraff fod elfen, o leiaf, o gymhlethdod Oedipiaidd wedi datblygu ym mherthynas y bachgen â'i fam'.[39] Cydnabu Harri Pritchard Jones y theori hon hefyd yng ngwaith a bywyd personol Caradog Prichard. Soniodd, er enghraifft, am berthynas agos Caradog Prichard â'i fam lle nad oedd hi'n bell o'i feddwl ar unrhyw adeg a'r effaith a gafodd hyn ar ei ysgrifennu. Ac oherwydd presenoldeb y theori hon, gellir cymharu ymddygiad yr adroddwr â stori Frank O'Connor 'My Oedipus Complex'.[40] Ond wrth ystyried natur ansicr a dadleuol y ddamcaniaeth seiciatryddol, fel yr eglurodd Menna Baines: 'To what extent the theory was a factor in the author's fictional representation of his real-life experiences, we cannot be certain'.[41] Y dadansoddiadau cyfoethog ac amrywiol hyn fydd yr ymdriniaeth ym Mhennod 3.3.

---

[38] Morgan, *Llên y Llenor: Caradog Prichard,* t.14.
[39] Baines, *Yng Ngolau'r Lleuad,* t.330.
[40] Frank O'Connor, *My Oedipus Complex and Other Stories* (Harmondsworth: Penguin, 1963) Yn y stori hon, gwelwn ddicter y mab tuag at ei dad. Mae'r tad wedi bod yn absennol ar ôl ymladd yn y rhyfel ac, o ganlyniad, mae'r berthynas rhwng y mab a'r fam wedi cael cyfle i ddatblygu lle y mae'r mab yn arfer mynd i wely ei fam bob bore. Ond nawr, ar ei ddychweliad, a bron fel dieithryn, mae'r tad yn cymryd lle'r mab ac mae teimladau cenfigennus y mab mor amlwg.
[41] Menna Baines, 'Introduction by Menna Baines' yn Caradog Prichard, *Un Nos Ola Leuad: One Moonlit Night / Caradog Prichard; Translated by Philip Mitchell; with an Introduction by Menna Baines* (London: Penguin Print, 1999), t.xviii.

Gan adael y damcaniaethau seiciatryddol am y tro a chan ystyried yn hytrach ddyfeisiau llenyddol, dywedir yn aml mai strwythur dryslyd, naratif anghonfensiynol ac arddull gymhleth a geir yn y nofel hon.[42] Adroddir y nofel drwy ddull llif yr ymwybod a sylwodd Bleddyn Owen Huws fod y math hwn o naratif yn darparu llwybr uniongyrchol i gydwybod ac anwybod yr adroddwr. Yng ngolau hyn, agorir cymhariaeth rhwng *UNOL* a chymhellion Freud a Karl Gustav Jung o ran dadansoddi'r anymwybod. Meddai Bleddyn Owen Huws:

> Gellir dychmygu bod yr Adroddwr yn ail-fyw profiadau ei blentyndod trwy ailymweld â bro ei febyd. Mae teithio ar hyd Lôn Bost yn procio'r cof ac yn cyffroi ei anymwybod nes bod rhai o'i atgofion melys a chwerw, ei ofnau a'i bryderon, ei reddfau a'i gyffroadau, megis yn cael eu hail-fyw ac yn ffurfio rhan o'r esboniad ar ei ymddygiad.[43]

Wrth sôn am ei arddull anghyffredin yn gyffredinol, dywedodd John Rowlands: 'Trwy ymwrthod felly â thechnegau traddodiadol y nofel realaidd y llwyddwyd i gyfleu'r dryswch sy'n ganolog i thema'r nofel'.[44] A chan ystyried hyn oll felly, eir ati yn y traethawd i ganolbwyntio ar y dryswch canolog hwn – gan gynnwys y defnydd o iaith, symbolau a throsiadau – er mwyn dadansoddi'r nofel a'r portread o salwch meddwl yn feirniadol.

Yn ôl David T. Lloyd: 'it [*UNOL*] provides a detailed and horrific account of psychological disintegration'.[45] Ond er gwaethaf hyn, ychydig o drafod a fu ar yr elfen seicolegol mewn gwirionedd. Yn hytrach, canolbwyntia'r rhan fwyaf o'r ymdriniaethau ar yr arddull neu'r elfen hunangofiannol. A chan gadw'r absenoldeb beirniadol hwn mewn cof, un o nodau'r traethawd hwn fydd cyflwyno ymchwil gyfoes sydd heb gael ei datblygu'n llawn wrth inni ddadansoddi'r nofel yng ngoleuni gweithiau theoretig yr oes a thestunau llenyddol eraill seicolegol eu naws. O ganlyniad, agorir trafodaethau Freudaidd, Goffmanaidd ac amseryddol sy'n lleoli'r nofel yng nghanol meddylfryd a chyfnod craidd y traethawd.

---

[42] Ni fwriedir dadansoddi pob elfen yn fanwl gan fod digon yn bodoli ar yr agweddau hynny eisoes. Dadansodda John Rowlands strwythur *Un Nos Ola Leuad*, er enghraifft, yn ei ysgrif, 'Y Fam a'r Mab – Rhagarweiniad i *Un Nos Ola Leuad*' yn *Ysgrifau Beirniadol XIX*, gol. gan J. E. Caerwyn Williams (Dinbych: Gwasg Gee, 1993), tt.278-309, a chynigia strwythur taclus posibl cyn iddo bwysleisio '[y] byddai gosod trefn amseryddol glir yn erthylu llawer o eironi'r nofel, heb sôn am golli'r rhythm sy'n perthyn iddi fel cyfanwaith' (t.290).

[43] Bleddyn Owen Huws, *Nodiadau ar Un Nos Ola Leuad* (Aberystwyth: Argraffwyr Cambria, 2012), t.36.

[44] Rowlands, 'Y Fam a'r Mab – Rhagarweiniad i *Un Nos Ola Leuad*', t.279

[45] David T. Lloyd, 'Caradog Prichard, *One Moonlit Night*', *World Literature Review*, 72.2 (Gwanwyn 1998), 431-432.

Wrth symud at ail destun craidd yr astudiaeth, mae safon yr ymdriniaeth feirniadol o salwch meddwl yn stori fer hir Kate Roberts, *Tywyll Heno*, yn wahanol i *UNOL*. Fel y nododd Eigra Lewis Roberts, mae *TH* wedi derbyn sylw eithaf manwl gan feirniaid amrywiol, yn arbennig wrth ei chymharu â'r gweithiau llenyddol eraill.[46] Ond er bod ychydig wedi'i ysgrifennu eisoes ar agwedd seicolegol y stori fer hir hon, bydd yr astudiaeth hon yn llenwi bylchau yn yr ymchwil gan gyflwyno dadansoddiad o fath gwahanol ohoni. Ceir trafodaethau ar agweddau megis cyd-destun y stori, cymhellion personol Kate Roberts,[47] yn ogystal â dilysrwydd y portread seicolegol sydd i'w gweld dros y tudalennau nesaf. Ond nid oes gwaith sy'n cymharu iselder ysbryd Bet Jones â chymeriadau llenyddol eraill na gwaith sy'n trafod ei chymeriad yng nghyd-destun cyfnod cyhoeddi'r llyfr. Ac oherwydd hyn, yn ogystal â natur gyfnewidiol y meysydd seiciatryddol, ceir lle i ddadansoddi stori Kate Roberts ochr yn ochr â gweithiau theoretig a llenyddol eraill sy'n edrych ar y profiad seiciatryddol.

Adnabyddir Kate Roberts yn bennaf am ei delweddau byw a chyfoethog o fywyd anodd y cymunedau Cymraeg a Chymreig, cymunedau sy'n aml yn cael eu blino gan dlodi eithafol a digwyddiadau allanol mawr. Prin oedd y dadansoddiadau mewnol a seicolegol. Ys dywedodd John Gwilym Jones: 'yn ei gwaith cynnar ychydig o ddadansoddi seicolegol ar gymeriadau a geir'.[48] Ond yng ngolau ail gyfnod ysgrifennu Kate Roberts,[49] â ymlaen i bwysleisio mai ymdriniaethau seicolegol tra manwl sydd i'w cael yn ei gweithiau diweddar. Ffaith a grybwyllir hefyd gan R. Geraint Gruffydd wrth iddo bwysleisio mai 'mewnol, ac nid allanol yw diddordeb yr awdur'.[50] Dyma'r hyn y mae Nia Angharad Watkins hefyd yn ei gydnabod yn ei thraethawd wrth iddi nodi: 'yn raddol, symuda'r ffocws oddi wrth yr

---

[46] Eigra Lewis Roberts, *Kate Roberts: Llên y Llenor* (Caernarfon: Gwasg Pantycelyn, 1994), t.79.
[47] Gwelir penodau 10, 11, 12 yn Alan Llwyd, *Kate: Cofiant Kate Roberts, 1891-1985* (Ceredigion: Y Lolfa, 2011) a chyfweliad teledu Gwyn Erfyl a Kate Roberts a welir yn Gwyn Erfyl & Kate Roberts, 'Kate Roberts – Cefndir, Crefft, Cred' yn *Kate Roberts: Ei Meddwl a'i Gwaith,* gol. gan Rhydwen Williams (Llandybïe: Christopher Davies, 1983), tt.30-37.
[48] John Gwilym Jones, 'Kate Roberts' yn *Kate Roberts: Ei Meddwl a'i Gwaith,* gol. gan Rhydwen Williams (Llandybïe: Christopher Davies, 1983), tt.108-113.
[49] Mae'n gyffredin i rannu gwaith yr awdur yn ddau gyfnod pendant sef, 'Cyfnod Arfon' a 'Chyfnod Dinbych', rhaniad a awgrymwyd yn gyntaf gan Derec Llwyd Morgan. Gweler Derec Llwyd Morgan, 'Y Stori Fer' yn *Y Traddodiad Rhyddiaith yn yr Ugeinfed Ganrif*, gol. gan Geraint Bowen (Llandysul: Gwasg Gomer, 1976), tt.97-108.
[50] R. Geraint Gruffydd, 'Nodyn ar *Stryd y Glep*' yn *Kate Roberts: Ei Meddwl a'i Gwaith,* gol. gan Rhydwen Williams (Llandybïe: Christopher Davies, 1983), tt.66-71.

aelwyd a thuag at y corff'.[51] A chan ystyried hyn, teg yw dweud mai'r diddordeb 'mewnol' hwn yw'r hyn sy'n darparu'r cefndir sylfaenol i'r stori fer hir.

Ys dywedodd Donald Evans amdani: 'Stori seicolegol yw "Tywyll Heno;" yn fras, stori am ddynes gyffredin yn cracio'n feddyliol yn erbyn anawsterau bywyd bob dydd'.[52] Trwyddi, dilynwn wraig i weinidog o'r enw Bet Jones wrth iddi dreulio cyfnod mewn ysbyty meddwl ar ôl dioddef o iselder ysbryd. Fel *UNOL,* adroddir y stori hefyd drwy naratif (y) person cyntaf. Ac o ganlyniad, yn ogystal â natur archolladwy Bet, dysgwn am ei sefyllfa a'i theimladau tywyllaf yn uniongyrchol, gan ddilyn y wraig ar daith heriol tuag at gyflwr o welliant.

Adeg ei chyhoeddi, wynebodd *TH* drafodaeth ddwys. Dywedodd Islwyn Ffowc Elis fod *TH* yn delweddu portread hollol gredadwy o wraig yn dioddef yn seicolegol.[53] Ac er nad yw'n teimlo bod y stori hon yn gorwedd gyda goreuon Kate Roberts, mynegodd ei fwynhad annisgwyl. Ond, gofynnodd y cwestiwn wedyn: 'A ddylai rhywun fedru mwynhau stori am wallgofrwydd?'[54] Yng ngolau hyn ac fel y cydnabyddir ar ddechrau'r astudiaeth yn fwy cyffredinol, teg yw dweud bod defnydd y term 'gwallgofrwydd' yn stori fer Kate Roberts wedi achosi rhai dadleuon ymhlith y beirniaid. Yn ei adolygiad, mae John Gwilym Jones herio defnydd Islwyn Ffowc Elis ohono, er enghraifft, gan ddweud, 'ni chefais i'r argraff fod Bet yn wallgof o gwbl'.[55] Ond, mae'n pwysleisio yn hytrach nad yw '*nervous breakdown* yn gyfystyr â gwallgof o bell ffordd'.[56] Mewn golau tebyg, meddai John Rowlands: 'nad gwallgofrwydd a ddisgrifir [yn *Tywyll Heno*] ond iselder meddwl',[57] ac atgyfnerthu'r gred hon y mae Meredydd Evans hefyd wrth iddo ddatgan mai 'amhriodol iawn fyddai defnyddio'r gair "gwallgof" i ddisgrifio cyflwr Bet'.[58] O ystyried hyn, ceisiodd pob un ohonynt esbonio'r gwahaniaeth rhwng gwallgofrwydd a'r iselder ysbryd yn *Tywyll Heno.* Ond gan adlewyrchu'r farn fwyaf cyffredin, meddai Donald

---

[51] Nia Angharad Watkins, 'Y Nofel Ddomestig Gymraeg dros dair cenhedlaeth, gyda sylw neilltuol i waith Moelona, Jane Edwards a Sonia Edwards', (PhD, Prifysgol Aberystwyth, 2008), t.53
[52] Donald Evans, 'Trem neu Ddwy ar "Tywyll Heno"' yn *Kate Roberts: Ei Meddwl a'i Gwaith,* gol. gan Rhydwen Williams (Llandybïe: Christopher Davies, 1983), t.73.
[53] Islwyn Ffowc Elis, 'Tywyll Heno', *Lleufer,* 18.4 (Gaeaf 1962), 178.
[54] Ibid.
[55] John Gwilym Jones, 'Tywyll Heno', *Barn* (Mawrth 1963), 150.
[56] Ibid.
[57] John Rowlands, 'Tywyll Heno', *Barn* (Medi 1968). Defnyddir fersiwn a argraffwyd yn *Kate Roberts: Ei Meddwl a'i Gwaith,* gol. gan Rhydwen Williams (Llandybïe: Christopher Davies, 1983), tt.79-87. O hyn ymlaen, byddwn yn cyfeirio at yr ysgrif hwn.
[58] Meredydd Evans, 'Adolygiad Tywyll Heno', *Taliesin,* 8 (1964), 101.

Evans: 'Hwyrach mai rhyw derm fel "anxiety neurosis" neu iselder ysbryd eithafol fyddai diffiniad y seicolegydd o anhwylder ei phrif gymeriad'.[59]

Pam yn union roedd beirniaid megis Islwyn Ffowc Elis a Gwilym O. Roberts o'r farn nad darlun cyson yn unol â'r arfer meddygol a geir yma? Wrth ddychwelyd eto at adolygiad Islwyn Ffowc Elis, pwysleisir methiant Kate Roberts i bortreadu'r ddelwedd o wallgofrwydd yn ôl yr ystrydeb. Yn unol ag arddull arferol Roberts, er enghraifft, ceir yma lawer o ddarlunio manwl ar gyflyrau Bet Jones. Ond yn wahanol i'r delweddau a'r rhagdybiaethau ystrydebol sy'n amgylchynu salwch meddwl, meddai Islwyn Ffowc Elis: 'nid oeddwn i'n teimlo min y dioddef nac yn gweld düwch y düwch a ddisgrifir'.[60] Ar un olwg, dyma deyrnged i ddoniau Kate Roberts, ond ym marn Islwyn Ffowc Elis, gorweddai'r broblem yn naratif y stori.

Yn nhyb Islwyn Ffowc Elis, adroddir y stori 'yn yr un ffordd ag yr ydym ni'n meddwl; mae'i chymeriadau'n meddwl ac yn siarad fel y meddyliwn ac y siaradwn ni'.[61] Tynnir sylw, er enghraifft, at y modd y mae Bet Jones yn cofio dadfeiliad ei meddwl, 'mor eglur-gall ag y medrech chi neu fi ddisgrifio pnawn o siopa'.[62] Ond dyma sylw a atgyfnerthir gan John Gwilym Jones: 'yr hyn sydd wedi fy synnu ynddynt [hynny yw, pobl isel-ysbryd] yw, nid yn unig eu parodrwydd i siarad am eu cyflwr, ond manylrwydd anhygoel eu cof'.[63] Dyma syniad a archwilir hefyd yn *UNOL* gan Ffraid Gwenllian.[64] Noda fod yr adroddwr, er enghraifft, yn gallu cofio popeth yn glir. Wrth iddo adrodd ei stori, mae ei atgofion a'i ddisgrifiadau mor fanwl fel yr ydym bron yn anghofio ei fod yn dioddef o salwch meddwl. Yn wir, dim ond pan fo'n trafod marwolaeth Jini Bach Pen Cae y mae'r adroddwr yn methu â chofio rhywbeth. Mae'r sylw hwn yn agor trafodaethau ar ei euogrwydd a'i broblemau Freudaidd, ond dychwelir at hyn yn y man.

O drafod ymhellach bortread *TH* o'r un cyflwr meddwl, ystyriwn yma feirniadaeth Gwilym O. Roberts ar y nofel. Mewn cyfres o erthyglau a gyhoeddwyd yn gyntaf yn *Y Cymro*,[65] nododd nad oedd Kate Roberts wedi llwyddo i ddarlunio'r salwch meddwl yn unol â rheolau'r seicdreiddwyr. Ailargraffwyd yr erthyglau

[59] Ibid., t.73
[60] Ffowc Elis, 'Tywyll Heno', 178.
[61] Ibid., t.179
[62] Ibid.
[63] Gwilym Jones, 'Tywyll Heno', 150
[64] Ffraid Gwenllian, 'Gwehilion o Boblach: Cynrychioli Lleiafafrioedd mewn Llenyddiaeth Gymraeg, (Traethawd MPhil, Prifysgol Aberystwyth, 2017), t.226
[65] G. O. Roberts, 'Tywyll Heno' *Y Cymro,* Rhan I, Ion.24, 1963; Rhan II, Ion.31, 1963

hynny, yn *Barn*, ym mis Medi 1970, mewn ymateb i eiriau hallt Bobi Jones (a drafodir isod) a chynigodd Gwilym O. Roberts sylwadau ychwanegol.

Honnwyd bod '*Tywyll Heno* o safbwynt glinigol yn anghredadwy i'r eithaf ar brydiau'.[66] Er ei fod yn cydnabod bod Kate Roberts yn cyffwrdd â gwir natur salwch meddwl yn achlysurol, nid argyhoeddwyd Gwilym O. Roberts 'ei bod hi bob amser ar dir mor ddiogel yng nghwrs y nofel fer hon am frithwallgofrwydd'.[67] Y rheswm dros hynny oedd na wyddai Kate Roberts ddigon am y ffeithiau seicolegol, 'am iddi gysegru gormod o'i hamser i ffilosoffi llenyddiaeth (Gymraeg?) a dim digon i ffilosoffi gwyddoniaeth a gwaredigaeth'.[68] Wrth gyfeirio at y feirniadaeth hon, beirniadodd Bobi Jones y ffordd yr oedd Gwilym O. Roberts yn trin *TH* fel pe bai'n astudiaeth lythrennol o brofiad seiciatryddol yn unig.[69] Oherwydd hyn, credai fod y seicolegydd wedi colli gwir naws a phwrpas y nofel. Canmolodd Bobi Jones yn hytrach ddawn lenyddol Kate Roberts wrth iddi bortreadu thema seicolegol ei naws gan bwysleisio mai 'maes yw llenyddiaeth ddychmygaeth na raid iddi hidio ryw lawer am wamalwch truenus meddyginiaeth a gwyddorau cyffelyb'.[70]

Wyth mlynedd yn ddiweddarach, parhâi'r trafodaethau seicolegol wrth i'r seicdreiddydd M. David Enoch ddadansoddi cywirdeb seicolegol delwedd Kate Roberts. 'Nid *case-history* noeth yw nofel'[71] meddai, cyn mynd ymlaen i bwysleisio bod hyn yn arbennig o wir pan yw salwch seicolegol yn rhan ganolog o'r stori, sef ffaith nad oedd Gwilym O. Roberts yn ei chydnabod yn llawn yn 1963, nac yn 1970. Yn groes i ddadansoddiad Gwilym O. Roberts, pwysleisia Enoch: '[na] cheir yma, ac ni ddylid cael ychwaith, ddisgrifiad cignoeth o symptomau'r afiechyd hwn'.[72] Er iddo geisio egluro beth yw symptomau pwysicaf yr afiechyd a'u lleoli o fewn cwrs y nofel - diffyg diddordeb y claf yn y pethau arferol, anobaith am y dyfodol ac obsesiwn â pherffeithrwydd - gwna hyn er mwyn atgyfnerthu'i gred bod Kate Roberts yn cynnig portread hollol gywir a chyson.[73]

Yng ngolau'r dadansoddiad 'cywir' hwn, tynnir sylw at elfen bersonol y portread. Meddai M. Paul Bryant Quinn: 'nid ffrwyth ymchwil manwl i anhwylderau

---

[66] Ibid.
[67] Ibid.
[68] Ibid.
[69] Bobi Jones, 'Nofelau Kate Roberts', *Barn* (Hydref, 1967), 306
[70] Ibid.
[71] M. David Enoch, 'Tywyll Heno a'r Seiciatryddion', *Barn* (Tachwedd 1970), 10.
[72] Ibid.
[73] Ibid.

seicolegol sydd yma, mi dybiaf, ond dadansoddiad treiddgar gan rywun a fu'n gyfarwydd â'r teimladau hyn a'u nodweddion'.[74] Cyfeiria ef at ddadansoddiad seicolegol M. David Enoch a gwelir o ganlyniad sylwadaeth debyg. Ym marn M. Paul Bryant Quinn, llwyddodd Kate Roberts i gyfleu natur a naws iselder ysbryd Bet,[75] a hyn mewn modd sy'n dangos y broses ddirywio seicolegol yn gywir. Aeth ymlaen wedyn i gynnig tystiolaeth dros ei ganmoliaeth frwd.[76]

Yng nghorff yr adolygiadau hyn i gyd, gwelir agor trafodaeth ar yr elfen seicolegol mewn llenyddiaeth Gymraeg, gan adael hefyd le am drafodaeth a dadansoddiadau pellach. Ac yn debyg i'r ymdriniaethau uchod, ceisiodd Donald Evans yntau briodoli portread Kate Roberts i gangen arbennig o seicoleg:

> Nid yw'r awdur yn dibynnu dim ar ddysgedigaethau seicolegwyr cydnabyddedig fel Freud, Jung, nag Alder i'n goleuo ynglŷn â gwraidd neu achos cudd ei stad o wewyr meddyliol. Nid yw'n dibynnu dim ar dac olrheiniol neu gefndirol fel'na. Fe ddywedwn i fod ei hymdriniaeth yn nes at syniadau seicolegwyr fel Rank a Fromm, y rheiny sy'n honni mai amgylchiadau anodd cyfoes sy'n llwyr gyfrifol am symptomau unrhyw niwrosis yn hytrach na rhyw atgof cywasgedig, poenus o'r gorffennol, yn encilion yr isymwybod.[77]

Dyma enwi pump o fawrion byd seicoleg a chynnig cyd-destun cymharol wahanol i'r un isymwybodol. Maes nad yw wedi ei ddatblygu yw'r un hwn gan mai dim ond cyffwrdd â'r agweddau hyn a wna'r gweithiau beirniadol uchod. Ni fanteisiwyd yn llawn ar y defnydd o weithiau theoretig pur, ac ni chynigiwyd ychwaith astudiaethau cymharol o weithiau seicolegol eraill yn y Gymraeg nac yn y Saesneg. O ystyried hyn, yn ogystal â'r ffaith bod y maes seicolegol wastad yn datblygu, cyflwynir yma faes ymchwil newydd a gallwn archwilio, nid yn unig stori Bet Jones, ond holl weithiau'r astudiaeth mewn cyd-destun gwreiddiol ac ehangach.

---

[74] M. Paul Bryant Quinn, 'Golwg ar *Tywyll Heno*' yn *Ysgrifau Beirniadol XXVI,* gol. gan Gwyn Thomas (Llandysul: Gwasg Gomer, 2002), t.126.

[75] Ibid.

[76] Yn debyg i erthygl M. David Enoch, gwelwn yma restr o nodweddion amrywiol sy'n atgyfnerthu mai dioddef o iselder ysbryd y mae Bet Jones. Mae'r rhain yn cynnwys i) y teimlad o ddiffyg egni ii) y panig a ddaw'n annisgwyl iii) arswyd trothwy gwallgofrwydd.

[77] Donald Evans, 'Trem neu Ddwy ar "Tywyll Heno"', t.74.

## 1.3 Ymatebion beirniadol i'r gweithiau ffuglennol Saesneg

Symudwn yn awr at agwedd arall o'r astudiaeth, sef yr elfen gymharol. Meddai Gwilym R. Jones:

> Nid yw'n ormodiaith dal mai swyddogaeth beirniadaeth yw cymharu. Ac i feirniad o Gymro, nid yw'n ddigon cymharu un llenor o Gymro â llenorion eraill o Gymry; rhaid iddo gymharu ei gyd-genedl â llenorion mawr yr oesoedd. Rhaid iddo, i sicrhau hyn, wrth gefndir cymharol eang o lenyddiaethau estron.[78]

Ar ôl darllen y testunau Cymraeg, daeth yn amlwg fod rhaid ystyried maes ehangach er mwyn ennill darlun a dealltwriaeth fwy cyflawn o bortreadau o salwch meddwl mewn llenyddiaeth. Yn wyneb hyn ac wrth ystyried y diffyg gwaith cymharu ar y maes, penderfynwyd darllen y gweithiau Cymraeg ochr yn ochr â rhai Saesneg er mwyn archwilio'r syniadau a gynigir ar y llwyfan Cymraeg.

Un nofel a ystyriwyd oedd *Revolutionary Road* (1961) gan Richard Yates. Wedi'i gosod mewn cyfnod lle yr oedd pwysau i gydymffurfio'n drwm ar bobl, mae'r nofel hon yn cyflwyno stori April Wheeler a'i gŵr Frank sy'n byw yn y maestrefi yn America yn y pumdegau. Yn ôl y nofel, mae'r pwysau hyn i gydymffurfio'n gwneud i bobl deimlo'n isel eu hysbryd neu'n annigonol. Ar ben hynny, archwilir drwy'r stori'r syniad bod ofn stigma, o ganlyniad i frwydro mewn byd cydymffurfiol, yn atal pobl, yn enwedig menywod, rhag byw'r bywyd y maent yn hiraethu amdano. Ys dywedodd un adolygydd yn *The Atlantic Monthly:*

> A powerful treatment of a characteristically American theme, which might be labeled 'trapped.' . . . A highly impressive performance. It is written with perception, force and awareness of complexity and ambiguity, and it tells a moving and absorbing story.[79]

Gwelwn yn y nofel themâu megis cydymffurfiaeth, salwch meddwl, hunaniaeth, gwrywdod a benywdod. O ystyried ffocws yr astudiaeth hon, nid oes amheuaeth fod yma nofel a oedd yn rhagredegydd i'r ddwy nofel fawr Americanaidd a gyhoeddwyd yn y chwedegau, yn yr un degawd â'r ddwy nofel Gymraeg sy'n ffurfio testunau craidd yr astudiaeth hon. Gan hynny, cyfeirir o bryd i'w gilydd at y nofel hon hithau drwy'r traethawd, a hynny er mwyn cyfoethogi'r drafodaeth ar ddelweddau'r llenyddiaeth graidd.

---

[78] Gwilym R. Jones, 'Cefndir Kate Roberts – Milltir Sgwâr Moel Tryfan' yn *Kate Roberts: Ei Meddwl a'i Gwaith,* gol. gan Rhydwen Williams (Llandybïe: Christopher Davies, 1983), t.20.

[79] Richard Yates, *Revolutionary Road*, (New York: Vintage Books, 2008). Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn 1961.

Fel y nodwyd, dewiswyd canolbwyntio'n bennaf ar ddwy nofel Saesneg Americanaidd o'r chwedegau; *One Flew Over The Cuckoo's Nest* (Ken Kesey) a *The Bell Jar* (Sylvia Plath). Fel y disgwylir, ceir nifer o ymdriniaethau beirniadol â'r ddau destun hyn ac o ganlyniad, ni fydd yr astudiaeth hon yn cyfeirio at bob dadansoddiad a phob astudiaeth. Yn hytrach, penderfynwyd bod yn ddethol a chanolbwyntio ar weithiau beirniadol a fyddai'n ffynonellau addas a ffrwythlon ar gyfer yr ymdriniaeth hon.

* * *

Un o'r nofelau enwocaf erioed i ddadansoddi rôl seiciatreg yw nofel Ken Kesey, *OFOTCN* a gyhoeddwyd yn 1962. Meddai Irving Malin amdani: '*One Flew Over the Cuckoo's Nest* is an honest, claustrophobic, stylistically brilliant first novel which makes us shiver as we laugh – paradoxically, it keeps us "in balance" by revealing our madness'.[80] Hwiangerdd seml, ddiniwed sy'n darparu'r teitl i lyfr enwog Ken Kesey, ond camarweiniol fyddai rhagdybio bod y nofel yn adlewyrchu naws chwareus yr hwiangerdd hon. Eglurodd Rick Dodgson: 'His first novel, *One Flew Over The Cuckoo's Nest* (1962), perfectly captured the antiauthoritarian pulse of the times and was acclaimed by critics and readers alike'.[81] Lleolir y stori mewn ysbyty meddwl yn Oregon a thrwy lygaid y cleifion diymadferth, ceir portread o fywyd dyddiol ar ward seiciatrig.

Roedd Kesey yn ffigwr dylanwadol yn America yn ystod y pumdegau a'r chwedegau. Yn ôl Rick Dodgson, gwelai Ken Kesey ei hun fel cyswllt rhwng y genhedlaeth 'Beat' a oedd yn gweithredu yn y pumdegau, a'r hipis a oedd yn amlwg yn y chwedegau. Pwysleisiodd: 'The wave that Kesey rode in the sixties turned out to be a massive force for cultural change, one that washes over American society still'.[82] Yng ngeiriau Stephen L. Tanner: 'It [*OFOTCN*] dramatically articulated the nation's queasy suspicion that its valued tradition of self-reliant individualism was being eroded by institutionalized conformity and dehumanizing technology'.[83] Trwy ei nofel, heriodd Ken Kesey sylfeini'r byd seicolegol, ac fel y noda Rick Dodgson, oherwydd hyn a'r delweddau echrydus o therapi sioc drydan, cafodd y nofel a'r ffilm

[80] Irving Malin, 'Ken Kesey: One Flew Over The Cuckoo's Nest', *Critique* 5.2 (Hydref 1962), 84.
[81] Rick Dodgson, *It's All a Kind of Magic – The Young Ken Kesey* (Wisconsin: Wisconsin University Press, 2013), t.3.
[82] Dodgson, *It's All a Kind of Magic – The Young Ken Kesey*, t. 9.
[83] Stephen L. Tanner, 'The Western American Context' yn *Bloom's Modern Critical Interpretations: Ken Kesey's One Flew Over the Cuckoo's Nest,* gol. gan Harold Bloom (New York: Infobase Publishing, 2008), t.161.

effaith gref a pharhaol, nid yn unig ar y llwyfan llenyddol ond hefyd, ar faes seiciatreg. A dyfynnu Stephen L. Tanner: 'That any novel should have so extensive a literary-cultural impact is unusual'.[84]

Oherwydd poblogrwydd amlwg y nofel, nid yw'n syndod bod *OFOTCN* wedi derbyn safle canolog mewn dadansoddiadau niferus ar draws y blynyddoedd. Mae'n sail i nifer o astudiaethau academaidd amrywiol. Dadansodda Jennifer Chichester, er enghraifft, sut y mae nofelau ar ôl y rhyfel – gyda *OFOTCN* yn sefyll fel un o'r gweithiau craidd – yn archwilio'r cysyniad o wallgofrwydd ar lefelau cymdeithasol a phersonol.[85] Mewn modd tebyg, edrycha thesis Kristýna Mráková,[86] 'Conformity Within Society as Expressed in Ken Kesey's *One Flew Over The Cuckoo's Nest'* yn fwy penodol ar wallgofrwydd fel math o reolaeth gymdeithasol, tra mae George Colen, ar y llaw arall, yn canolbwyntio'n bennaf ar lais y dyn gwallgof a llais Chief Bromden yn ei draethawd ef.[87] Cyhoeddwyd hefyd yr astudiaethau: *Bloom's Modern Critical Interpretations: Ken Kesey's One Flew Over the Cuckoo's Nest* (2008) a *Social Issues in Literature: Mental Illness in Ken Kesey's One Flew Over the Cuckoo's Nest* (2010), cyfrolau sy'n cyflwyno nifer o ddadansoddiadau seicolegol cyfoethog a thrylwyr.

O ganlyniad i'r holl weithiau hyn, mae *OFOTCN* wedi bod yn amlwg ar lwyfannau llenyddol a beirniadol ers adeg ei chyhoeddi. Mewn astudiaethau sydd wedi ymhyfrydu mewn dadleuon am natur gyfoethog y nofel, tynnwyd sylw at ddewis Ken Kesey o naratif anghonfensiynol. Adroddir y stori yn y person cyntaf gan yr Indiad enfawr Chief Bromden, sydd wedi bod yn ffugio byddardod a mudandod am ddeng mlynedd. Dyn sy'n dioddef o sgitsoffrenia ydyw, ac o'r herwydd, codir cwestiynau am ddibynadwyedd yr adroddwr – a hefyd ddefnydd o iaith anllad, hiliol a llygredig. Amddiffynnodd Janet R. Sutherland yr iaith hon. Yn ei geiriau hi:

---

[84] Ibid., t.162.

[85] Jennifer Chichester, '"The cracked pots of humanity": Post-World War II American Literary Perspectives on Psychiatric Treatment/Containment of Mental Disorders' (Traethawd MA: Grand Valley State University, 2017)

[86] Kristýna Mráková, 'Conformity within Society as expressed in Ken Kesey's One Flew Over The Cuckoo's Nest' (Traethawd Israddedig: University of Pardubice, 2011)

[87] George Coelen, 'The Insane Narrator in Contemporary American Fiction' (Traethawd MA: North State Texas University, 1978)

> Ken Kesey uses obscene language to symbolize that the patients in the mental hospital are being treated in an obscene manner. […] The book attempts to give an accurate picture of some part of the human condition, which is less than perfect.[88]

Gweler yma gysylltiad rhwng y nofel hon a nofel Angharad Tomos wrth i'r ddau awdur ddefnyddio iaith i awgrymu rhywbeth, nid yn unig am stâd meddyliol eu cymeriadau, ond hefyd am y sefyllfa'n fwy cyffredinol. Ond dychwelir at hyn yn nes ymlaen.

Yn ogystal â hyn, dadansoddir *OFOTCN* yng ngoleuni nifer o ddamcaniaethau seiciatryddol hefyd. Mae nifer o feirniaid a darllenwyr yn cyfeirio at natur sgitsoffrenig Chief Bromden. Ac yn debyg i *UNOL,* rhoddir llawer o sylw i theori ddadleuol Freud, Cymhlethdod Oedipws, yn wyneb ymddygiad anghyffredin y cymeriadau. Yn ôl Robert P. Waxler: 'In a sense, Kesey has given us an Oedipal story with a twist rarely explored by white American novelists, especially before the early 1960s when *Cuckoo's Nest* was written'.[89] Ac yng ngeiriau Ruth Sullivan:

> Ironic then is the fact that while the novel disparages psychoanalytic therapy, it compliments psychoanalytic theory in that Kesey structures human relationships in *Cuckoo's Nest* after his own understanding of Freud's de-lineation of the Oedipus complex. That is, Kesey presents the typical oedipal triangle of mother, father and sons in Nurse Ratched, Randall McMurphy, and Chief Bromden plus the other inmates of the asylum.[90]

Nid amcan yr adolygiad llenyddol yw dadansoddi pob elfen o nofel Ken Kesey – gwneir hyn drwy'r adrannau unigol wrth i'r astudiaeth o ddatblygu – ond yn hytrach, teflir yma oleuni ar helaethrwydd y dadansoddiadau ac ymdriniaethau beirniadol a llenyddol mewn amrywiaeth o feysydd. Fel y dywedodd Tanner, mae'r gwaith wedi cael ei ddefnyddio yn y meysydd seicoleg, cymdeithasegol, meddygol, ac ym myd y gyfraith.[91] Wrth ystyried hyn, amhosib fyddai ceisio trafod defnydd salwch meddwl yn llenyddiaeth y chwedegau heb gyfeirio at y nofel hon. Ac oherwydd ei hymdriniaeth drylwyr o wallgofrwydd fel salwch cymdeithasol yn ogystal â'i defnydd o theorïau seiciatryddol, ymarferion clinigol a thechnegau

---

[88] Janet R. Sutherland, 'Kesey's Realistic View of the World of the Insane' yn *Social Issues in Literature: Mental Illness in One Flew Over the Cuckoo's Nest,* gol. gan Dedria Bryfonski (Detroit: Greenhaven Press, 2010), tt.57-58.

[89] Robert, P. Waxler, 'Mixed Ethnicity and Gender Issues Present Challenges to Manhood' yn *Social Issues in Literature: Mental Illness in One Flew Over the Cuckoo's Nest,* gol. gan Dedria Bryfonski (Detroit: Greenhaven Press, 2010), t.145.

[90] Ruth Sullivan, 'Big Mam, Big Papa, and Little Sons in Ken Kesey's One Flew Over the Cuckoo's Nest' yn *Bloom's Modern Critical Interpretations: Ken Kesey's One Flew Over the Cuckoo's Nest,* gol. gan Harold Bloom (New York: Infobase Publishing, 2008), t.15.

[91] Tanner, 'The Western American Context' yn *Bloom's Modern Critical Interpretations: Ken Kesey's One Flew Over the Cuckoo's Nest,* t.163.

llenyddol amrywiol, mae modd cryfhau'r ymdriniaethau Cymraeg trwy'r agwedd ryngddisgyblaethol hon tra'n ychwanegu dimensiwn newydd i'r nofel enwog ei hun.

Nofel arall sydd hefyd wedi denu llawer o sylw am ei phortread seicolegol yw un Sylvia Plath, *The Bell Jar* a gyhoeddwyd o dan y enw ffug, Victoria Lucas yn 1963. Trwyddi, traethir stori Esther Greenwood, y laslances graff a theimladwy sy'n ceisio ymdopi â phwysau'r byd creulon. Nid nofel arferol am broblemau llencynnaidd yw hon, fodd bynnag, ond llenyddiaeth fwy sinistr. Ac yn hytrach na dilyn datblygiad cadarnhaol, darlunia Sylvia Plath ddirywiad terfysglyd y prif gymeriad benywaidd i iselder. Wrth ystyried y cyd-destun cyfoethog hwn, mae sawl beirniad wedi archwilio'r amrywiaeth o dechnegau a'r nodweddion llenyddol sy'n cyfrannu at gelfyddwaith *TBJ*. A dadansoddir nifer o'r rheini'n fanylach yn y penodau dilynol.

Tynnwyd sylw, er enghraifft, at ddefnydd Sylvia Plath o ddelweddau a symbolau ac yn arbennig at ddelwedd y glochen sy'n darparu teitl y nofel. Am y defnydd hwn, ac o safbwynt seiciatryddol, meddai Aird: 'Imagery is used in *The Bell Jar* to develop and communicate the inner, subjective world in contrast to the external world which is presented in the narrative present episodes'.[92] Yn debyg i'r gweithiau craidd eraill, aeth sawl beirniad ati i ddadansoddi pwysigrwydd ac arwyddocâd naratif y nofel. Traethir y stori eto drwy'r person cyntaf ac o ganlyniad, rhannwn bob profiad arwyddocaol, pob teimlad lletchwith a phob meddwl anesmwyth gan deimlo cysylltiad uniongyrchol ag Esther. Ys dywedodd Aird: 'the mode of communication between author and reader, is that of invited self-identification with the protagonist'.[93] Ymhlith y dadansoddiadau mwyaf nodedig, ceir un Daniel Hunt a Ronald Carter.[94] Trwy ddefnyddio arddulleg corpws (*corpus stylistics*), dadansoddir y ddelwedd o iselder a geir yn *TBJ* yn unol â phrosesau diagnostig anhwylderau seicolegol. Defnyddiant iaith Esther er mwyn dod o hyd i symptomau seicolegol cyffredin. Yn eu barn hwy, gellir gweld:

> A profound disconnection from others, manifest in a concern for superficial appearances and a diminished awareness of other people as complete human beings to whom she can relate.[95]

Ond yn ogystal â hyn:

---

[92] Eileen Aird, *Sylvia Plath* (Edinburgh: Oliver & Boyd, 1973), t.97.
[93] Ibid., t.93.
[94] Daniel Hunt & Ronald Carter, 'Seeing through The Bell Jar: Investigating Linguistic Patterns of Psychological Disorder' *Journal of Medical Humanities*, 33.1 (30 Tachwedd 2011), 27-39.
[95] Ibid., t.37.

> She articulates persistent and sometimes inexplicable feelings of incapacity or impotence. These experiences are conveyed not only through linguistic idiosyncrasies, such as her deathly metaphors and constant reference to faces, but also through repeated use of very ordinary language.[96]

Dyma astudiaeth fanwl sy'n dangos pwysigrwydd technegau dadansoddi iaith wrth drafod pwnc mor gymhleth â salwch meddwl. Honna Hunt a Carter, er enghraifft, y gallwn, drwy ddadansoddi iaith y nofel, nodi rhai nodweddion ieithyddol a thestunol megis ieithwedd reolaidd (*recurrent phraseology*)[97] er mwyn dadansoddi'r profiad seicolegol yn ogystal â diffyg pŵer ac unigrwydd Esther. Gan ystyried hyn, mabwysiedir dull tebyg yn yr astudiaeth hon wrth gymhwyso damcaniaethau seiciatryddol a llenyddol amrywiol at wahanol agweddau. A gwneir hyn, nid yn unig yn achos nofel Sylvia Plath, ond hefyd weithiau craidd eraill yr astudiaeth, gan geisio ymestyn ein dealltwriaeth o'r testunau mewn ffordd newydd.

Er bod amgylchiadau tywyll a thrasig yn cwmpasu *TBJ,*[98] roedd y neges gymdeithasol a seicolegol ehangach yn dal yn drawiadol – ac efallai'n fwy ingol, gellir dadlau, o'u herwydd – gyda nifer o feirniaid yn tynnu sylw at yr agwedd ffeministaidd. Yng ngolau ei themâu beirniadol dadansoddol, yn ogystal â safbwyntiau dylanwadol Sylvia Plath ei hun, daeth *TBJ* yn adlewyrchiad llenyddol o'r cyfnod yr ysgrifennwyd hi ynddo. Bydd cyfnod cyhoeddi'r gweithiau craidd yn cael ei ddadansoddi'n fwy manwl yn y bennod ddilynol ond wedi dweud hynny, mae dylanwad amlwg ei chyfnod i'w weld ar y nofel hon. Dadleuodd Maria Farland, er enghraifft, fod *TBJ* yn darlunio pryderon y mudiad gwrth-seiciatreg[99] ond yn fwy penodol, myn mai profiad seicolegol truenus y fenyw yw'r hyn sydd amlycaf ymhilth pryderon Sylvia Plath.

Gwelwn fod y profiad a'r pryder hwn yn bwnc cyfoes a phoblogaidd yn ystod y cyfnod hwn. Ond yn sgil hynny, tynnwyd sylw at y berthynas rhwng y fenyw 'wallgof', ei gallu llenyddol a'i cholledion cymdeithasol. Ys dywedodd Susan Bassnett:

> Since the rebirth of the feminist movement in the early seventies, another myth has also begun to circulate, the myth of the Deprived Woman, the person whose

---

[96] Ibid.
[97] Yn ôl yr erthygl mae'r geiriau canlynol yn awgrymog (dangosir hefyd faint o weithiau yr ymddangosai'r geiriau): 'wanted' (80), 'felt' (108), 'thought' (230), 'black' (91), 'couldn't' (115), 'didn't' (187) yn Daniel Hunt a Ronald Carter, 'Seeing through The Bell Jar: Investigating Linguistic Patterns of Psychological Disorder', t.32.
[98] Sôn am dynged yr awdur yr ydym ond dychwelir at hynny ym Mhennod 3.
[99] Maria Farland, 'Sylvia Plath's Anti-Psychiatry', *Minnesota Review* 55.7 (2002), 245-56.

> fulfilment as writer, as mother and as lover, denied to her because of the inevitability of society's oppression of women.[100]

Gan ymhelaethu:

> Critics have tended to read Sylvia Plath's work through lenses in which the two myths are reflected, seeing her as part of the line running through history which decrees that great poetry cannot be written without the poet paying the price of happiness and also as part of the line that decrees that women writers are unfulfilled human beings.[101]

Yng ngolau symudiadau ffeministaidd y cyfnod ac yn nhyb sawl beirniad, daeth Sylvia Plath ac Esther i gynrychioli llais y fenyw israddol; llais sy'n atseinio o'r chwedegau i'r oes bresennol. Nododd Sophie Beckett, er enghraifft, fod y nofel yn archwilio'r materion a oedd ar flaen pryderon myfyrwyr y chwedegau, a hefyd myfyrwyr heddiw.[102] Ac o ystyried y llwyth o astudiaethau canmoliaethus sydd wedi codi ar hyd y blynyddoedd wedi adeg cyhoeddi *TBJ*, nid oes amheuaeth fod nofel Sylvia Plath yn darparu dadleuon a thrafodaethau amrywiol a hirhoedlog. Dadansoddwn, o ganlyniad, ddefnydd salwch meddwl fel ffordd i archwilio'r hunan ond hefyd fel ffordd o fynd i'r afael â materion pwysig a phoblogaidd cyfnod craidd yr astudiaeth.

---

[100] Susan Bassnett, *Women Writers: Sylvia Plath* (Basingstoke: Macmillan, 1987), t.1.
[101] Bassnett, *Women Writers: Sylvia Plath*, t.1.
[102] Sophie Beckett, *Mental Health in Fiction: The Bell Jar by Sylvia Plath*, Exeposé (Chwefror 2011), <http://exepose.com/2014/02/20/mental-health-in-fiction-the-bell-jar-by-sylvia-plath/> [cyrchwyd 12 Rhagfyr 2016]

## 1.4 Gweithiau theoretig perthnasol

Wrth ystyried natur ryngddisgyblaethol yr astudiaeth hon – a cheir ynddi sawl agwedd ffeministaidd, seiciatryddol a chymdeithasol – prin y gellir gorbwysleisio pwysigrwydd deunydd darllen ehangach y maes. Roedd y blynyddoedd yn dilyn yr Ail Ryfel Byd yn gyfnod hanesyddol o bwys a chynhyrchwyd cryn dipyn o lenyddiaeth seicolegol a ffeministaidd ei naws; llenyddiaeth a fydd yn gymorth hanfodol i'r ymchwil dan sylw yma. Mae'n rhaid nodi, fodd bynnag, na roddir llawer o sylw i'r gweithiau unigol hynny yn yr adolygiad llenyddol. Yn hytrach, penderfynwyd y byddai'n well eu dadansoddi yn eu cyd-destunau hanesyddol a chymdeithasol. Oherwydd hyn, dewiswyd pennu Pennod 2 yr astudiaeth i'r ymchwil hwnnw. Yr hyn a wneir yma cyn manylu ymhellach arnynt yn y bennod nesaf, yw cyfeirio at rai o weithiau canolog y cyfnod. Trwyddynt bwriedir dangos natur, ysbryd a chyffro'r cyfnod a ffynnodd adeg cyhoeddi'r gweithiau craidd.

Yn 1953, cyfieithwyd llyfr Simone de Beauvoir *The Second Sex* i'r Saesneg ac yn sgil hynny, enillodd y ddirfodwraig lawer o feirniaid o'i phlaid ac yn ei herbyn wrth i'w gwaith esgor ar drafodaeth frwd. Dyma un o'r ymdrechion cynharaf i archwilio hanes dynol o safbwynt ffeministaidd ac mae'n rhaid cydnabod ei bwysigrwydd a'i ddylanwad. Disgrifia Judith Thurman y llyfr yn nhermau goleuedigaeth,[103] ac i Zoe Pilger dyma lyfr a fydd yn para oes.[104] Safbwynt sylfaenol De Beauvoir yw bod dynion yn gorchfygu menywod drwy'u portreadu megis, yng ngeiriau'r awdur, 'the *Other*'. A thrwy'r llyfr, cyflwynodd y Ffrances nifer o ddamcaniaethau ffeministaidd a newydd i'r gynulleidfa ehangach – er nad amcan y traethawd hwn yw archwilio pob theori a syniad ffeministaidd. Yn ei hadran glo, meddai De Beauvoir: 'All oppression creates a state of war; this is no exception',[105] gan agor felly'r dadleuon a'r brwydrau i'w chwiorydd unfryd. Ac un fenyw a ymunodd â De Beauvoir gan feirniadu'r gymdeithas batriarchaidd oedd Betty Friedan, ddegawd ar ôl i'r cyfieithiad Saesneg ymddangos yn y lle cyntaf.

---

[103] Judith Thurman, *Introduction to Simone De Beauvoir's The Second Sex,* The New York Times (27 Mai 2010), <https://www.nytimes.com/2010/05/30/books/excerpt-introduction-second-sex.html> [ cyrchwyd 14 Mai 2017]

[104] Zoe Pilger, *The Second Sex by Simone De Beauvoir; book of a lifetime*, Independent (24 Ionawr 2014), <https://www.independent.co.uk/arts-entertainment/books/reviews/the-second-sex-by-simone-de-beauvoir-book-of-a-lifetime-9080851.html> [cyrchwyd 14 Mai 2017]

[105] Simone De Beauvoir, *The Second Sex* (New York: Knopf, 1953), t.717.

Cyhoeddwyd *The Feminine Mystique* yn 1963. Yn wyneb natur heriol y chwedegau, daeth yn un o'r llyfrau mwyaf poblogaidd yn ystod y cyfnod. Yn nhyb Jacqueline Castledine, darparodd drafodaeth Friedan ar 'y broblem ddienw'[106] y catalydd yr oedd ei angen er mwyn creu ail don o ffeministiaeth.[107] Trwy'i llyfr, mae'n astudio ac yn trafod profiadau sawl gwraig tŷ a mam anhapus yn America, cyn mynd ati i feirniadu'r cyfyngau, y system addysg a'r hysbysebwyr am gyfrannu at greu'r ddelwedd ystrydebol o'r fenyw ymostyngol a seml. Dyma ddelwedd sydd wedi achosi i nifer o fenywod golli eu hunaniaeth yn ôl Friedan. Wrth ystyried arwyddocâd, bri a dylanwad *TFM* felly, teitl adolygiad Louis Menard oedd, 'Books as Bombs'. Meddai fod y llyfr wedi rhannu'r chwedegau o'r pumdegau yn union fel y dydd o'r nos.[108] A disgrifiodd Janet Maslin y llyfr yn nhermau 'a domestic Cri de Coeur, [which] read today, is a fascinating mixture of antiquated attitudes and others that have remained unchanged'.[109]

Ond yn ogystal â darparu mewnwelediad ffeministaidd amhrisiadwy – a bydd y syniadau hyn yn cael eu trafod yn y penodau dilynol fel ffordd o ddadansoddi'r delweddau a geir yn y nofelau dan sylw – roedd Friedan hefyd yn tynnu sylw at rai agweddau seiciatryddol. Wedi graddio â gradd seicoleg o Smith College, beirniadodd Friedan agweddau rhywiaethol Freud yn ei phennod 'The Sexual Solipsism of Sigmund Freud', gan gyflwyno beirniadaeth seicolegol a chymdeithasol drwy lens ffeministaidd. Er nad effeithiodd y llyfr yn uniongyrchol ar y nofelau dan sylw, oherwydd ei ddyddiad cyhoeddi, bydd yn dal yn ffurfio rhan ganolog o'r astudiaeth hon. Wedi'r cyfan, mae'n enghraifft o lenyddiaeth sy'n cyfleu meddylfryd a natur wrthryfelgar y cyfnod, ac mae'n darparu cyd-destun hanesyddol, gwleidyddol a chymdeithasol i'r nofelau a'u themâu.

---

106 Gweler y bennod gyntaf *The Problem That Has No Name*, yn Betty Friedan, *The Feminine Mystique* (London: Victor Gollancz Ltd, 1963), tt.13-29. Ynddi, archwilir y syniad a oedd yn ysgubo drwy dai menywod y dosbarth canol. Nid oeddent yn hapus gyda'i rôl yn y gymdeithas ac o ganlyniad eu bywydau anfoddhaol. Fe'i disgrifir megis' y broblem heb enw' am ddau reswm yn benodol. Yn gyntaf, am nad oedd cymdeithas yn fodlon derbyn y syniadau hyn o ran anhapusrwydd menywod a'r ail am fod menywod yn teimlo gormod o euogrwydd neu embaras i fynegi'r pryderon hyn ar lafar.

107 Jacqueline Castledine, *Cold War Progressives: Women's Interracial Organizing for Peace and Freedom* (Urbana: Illinois University Press, 2012), t.3.

108 Louis Menard, *Books as Bombs: Why the Feminist Movement needed "The Feminine Mystique*", The New Yorker (24 Ionawr 2011), < https://www.newyorker.com/magazine/2011/01/24/books-as-bombs> [cyrchwyd 16 Mai 2017]

109 Janet Maslin, *Looking back at a Domestic Cri de Coeur*, The New York Times (18 Chwefror 2013), <https://www.nytimes.com/2013/02/19/books/betty-friedans-feminine-mystique-50-years-later.html> [cyrchwyd 16 Mai 2017]

Maes arall a gyfrannodd at ddadleuon y cyfnod yw maes seiciatreg neu'n fwy penodol, y maes gwrth-seiciatryddol. Dyma'r cyfnod lle yr oedd syniadau Freud yn dechrau dod yn hynod o boblogaidd. Gwelwyd hefyd nifer o weithiau gwrth-seiciatryddol mawr gan gynnwys: *The Divided Self* (1960) gan R. D. Laing, *Asylums* (1961) [110] gan Eric Goffman, *Madness and Civilisation* (1964) [111] gan Michel Foucault, *Psychiatry and Anti-psychiatry* (1967) gan David Cooper ac yn fwy dadleuol fyth efallai, *The Myth of Mental Illness,* (1961) gan Thomas Szasz. Ceir rhai gwahaniaethau rhwng y gwahanol weithiau gwrth-seiciatryddol hyn ond yn ganolog iddynt oll y mae'r gred mai diffygiol yw'r meysydd seiciatryddol, ac ar ben hynny mai defnyddio salwch meddwl a gwallgofrwydd megis dull o reolaeth gymdeithasol a wnâi dosbarth uwch y gymdeithas. Ceir yn y bennod nesaf ddadansoddiad manylach ar y gweithiau hynny o ran hanes cyd-destunol yr astudiaeth, ond mae'n rhaid nodi yn gyntaf eu dylanwad yn y meysydd mwy celfyddydol.

Ar hyd y blynyddoedd, roeddent yn sail i nifer o astudiaethau academaidd a astudiodd rai nofelau yng ngoleuni gwaith y gwrth-seiciatryddion hyn. O ganlyniad, gwelwyd ymdriniaethau megis erthygl James Tyner, 'Self and Space, Resistance and Discipline: A Foucauldian Reading of George Orwell's 1984', traethawd doethuriaeth Alexandra Davey, 'The Need for Interstitial Resistance to Normalizing Power. A Foucauldian and Laingian Reading of Jennifer Dawson's Fiction of the 1960s and 1970s', a llyfr Barbara Hill Rigney, *Madness and Sexual Politics in the Feminist Novel: Studies in Bronte, Woolf, Lessing and Atwood,* sy'n defnyddio model Laingaidd er mwyn dadansoddi'r gweithiau dewisedig. Ni cheir yn y Gymraeg astudiaethau tebyg sy'n dadansoddi rhyddiaith seicolegol y chwedegau yng ngoleuni'r mawrion hyn. Ac er bod rhai ymdriniaethau i'w cael, fel y nodwyd, prif ddiffygion y gweithiau hynny yw'r ffaith nad ydynt yn ystyried y llenyddiaeth yn ei chyd-destunau cymdeithasol ehangach; hynny yw, o ran datblygiadau byd-eang a

[110] Erving Goffman, *Asylums: Essays on the Social Situation of Mental Patients and other Inmates* (London: Penguin Books, 1961). Dyma gasgliad o draethodau a gyhoeddwyd yn ystod cyfnod craidd yr astudiaeth. Mae'n cynnwys 'On Characteristics of Total Institutions' *Symposium on Preventive and Social Psychiatry* (1957); 'The Moral Career of the Mental Patient,' *Journal for the Studyof Interpersonal Precesses*, 22.2 (Mai 1959); 'The Underlife of a Public Institution', Annual Association of American Sociology, Washington (Awst 1957).

[111] Cyhoeddwyd yn wreiddiol Michel Foucault, *Folie et Déraison: Histoire de la folie à l'âge classique* (Paris: Librarie Plon, 1961) cyfeithiad Saesneg cryno, Michel Foucault a Richard Howard, *Madness and Civilization: A History of Insanity in the Age of Reason* (New York: Pantheon Books, 1964). Dyfynnir o'r argraffiad, Michel Foucault a Richard Howard, *Madness and Civilization: A History of Insanity in the Age of Reason,* (New York: Random House, 1988). Gw. y cyfeithiad Saesneg llawn, Michel Foucault, Jonathan Murphy a Jean Khalfa, *History of Madness* (New York: Routledge, 2006).

llenyddiaeth gymharol arall. O feddwl am hyn, un o amcanion y traethawd hwn yw bwrw ati i ymgodymu â'r bylchau hyn yn yr ymchwil.

Wedi sefydlu dau brif gyd-destun y cyfnod ac felly'r astudiaeth, sef yn gyntaf, salwch meddwl a'r agwedd gymdeithasol feirniadol, ac yn ail, salwch meddwl a'r safbwynt ffeministaidd, penderfynwyd hefyd ddefnyddio gweithiau sy'n ymdrin â thriniaeth seicolegol yr unigolyn yng ngoleuni hanesyddol ac amgylchiadol. Gan ystyried y cyd-destun cyntaf, mae nifer o academyddion wedi ceisio dadansoddi profiad seicolegol yr unigolyn yn unol â safonau cymdeithasol. Dwy enghraifft yw *The Social Nature of Mental Illness* gan Len Bowers a *Mental Illness and Social Processes* a olygwyd gan Thomas J. Scheff. Yn ei astudiaeth ef, er enghraifft, edrycha Scheff ar 'recent thinking and research on a topic that might best be called the societal reaction to mental disorder',[112] gwaith sy'n ymdrin yn bennaf â 'recurring patterns of behaviour among individuals and organizations attempting to cope with persons who are defined as mentally ill'.[113] Ac er bod Bowers hefyd yn rhoi pwyslais ar natur gymdeithasol salwch meddwl, datgana'n ofalus:

> The question that arises is whether mental illness can be analysed in these terms, whether it can be considered as a form of social disorder or social rule violation, in a way that promotes further understanding and does justice to the empirical nature of mental illness as a phenomenon.[114]

Gan dynnu ar waith y gwrth-seiciatryddion – ond heb arddel safbwynt mor eithafol – ystyriodd y garfan hon o ymchwilwyr bwys a dylanwad y gymdeithas yn y meysydd seiciatryddol. Mae'r llenyddiaeth hon – megis y gweithiau gwrth-seiciatryddol craidd a nodwyd ar y dudalen flaenorol – yn amhrisiadwy i'r maes a hanes seiciatreg. Ond prif ddiffygion y gweithiau yw nad ydynt yn cynnwys profiad y fenyw. Oherwydd hyn, trown ein sylw at ddosbarth arall o lenyddiaeth.

Wrth i'r llais benywaidd ddod yn fwy amlwg yn y meysydd academaidd, ymddangosodd nifer o astudiaethau a ddadansoddai brofiad a thriniaeth seicolegol y fenyw. Yn eu plith mae *Men, Women, and Madness: Understanding Gender and Mental Disorder* gan Joan Busfield a hefyd lyfr Norma Maple a Marian Barnes, *Women and Mental Health: Challenging the Stereotypes.* Ac ni ellir trafod hanes gwallgofrwydd y fenyw heb sôn am lyfr Phyllis Chesler, *Women and Madness.* Hwn oedd y llyfr cyntaf i ofyn cwestiynau beirniadol am y berthynas rhwng iechyd

---

[112] Thomas J. Scheff, *Mental Illness and Social Processes* (New York: Harper & Row, 1967), t.1.
[113] Ibid.
[114] Len Bowers, *The Social Nature of Mental Illness* (London: Routledge, 1998), t.3.

meddwl a menywod ac erbyn heddiw, fe'i cydnabyddir fel clasur yn ei faes. Er i agweddau o'r llyfr gael eu beirniadu – disgrifiodd *TIME Magazine* y gwaith â'r ansoddair 'radical' a hyd yn oed 'overstated',[115] a hynny am fod yma agweddau ffeministaidd ffyrnig mewn oes y dyn – roedd y derbyniad, ar y cyfan, yn dra chanmoliaethus. Yn ôl *The Saturday Review*, er enghraifft, roedd yn llyfr o bwys, 'a signal that the women's liberation movement is coming of age',[116] a galwodd Cynthia Glauber y gwaith yn amhrisiadwy, 'an extensively researched and deeply intuitive exploration of a woman's psychic experience'.[117]

Ond gan ddatgan bod menywod yn cael eu disgrifio'n iach, yn niwrotig neu'n seicotig yn ôl maes a damcaniaethau sy'n cael eu rheoli gan ddynion a'r hyn mae'n ei alw yn 'a masculine standard of mental health',[118] agorodd Phyllis Chesler y drafodaeth ffeministaidd ar salwch meddwl. Dadansoddodd brofiadau seicolegol menywod sâl eu meddyliau, gan gynnig ystadegau amhrisiadwy. Ond ar ben hyn, cynigiodd Phyllis Chesler hefyd feirniadaeth ffeministaidd ar rai o dadau'r mudiad gwrth-seiciatryddol. Dywedodd Elaine Showalter amdani: 'Chesler maintains that the women confined to American mental institutions are failed but heroic rebels against the constraints of narrow femininity'.[119] Ac at lyfr Showalter, *The Female Malady*, y trown ein sylw yn awr.

Yn ei hastudiaeth hi, cyflwynir cyd-destun hanesyddol safle menywod a'u hymdriniaeth yn y meysydd seiciatryddol. Un amcan canolog yw dadansoddi dilysrwydd y gred mai salwch 'benywaidd' oedd salwch meddwl. Dywed Showalter, er enghraifft: 'Women were believed to be more vulnerable to insanity than men, to experience it in specially feminine ways, and to be differently affected by it in the conduct of their lives'.[120] Ond ar ben hynny, mae Showalter hefyd yn dod ag agwedd fwy llenyddol a beirniadol i'r ymdriniaeth. Yn debyg i Chesler – ond gwnâi Showalter ddefnydd llawer mwy uniongyrchol o'r enghreifftiau – dibynna'r awdur ar

---

[115] TIME Magazine, *The Sexes: Women on the Couch*, TIME, 101.4 (22 Ionawr 1973), <http://content.time.com/time/magazine/0,9263,7601730122,00.html> [ cyrchwyd 13 Mehefin 2017]
[116] Maddie R. Salvatore, 'On Women- II: The Couch as Rack (a review of Phyllis Chesler's *Women and Madness*), *The Saturday Review*, 52 (23 Rhagfyr 1972), 61-62.
[117] Cynthia Glauber, 'Review of Women and Madness,' *The Boston Phoenix* (12 Rhagfyr 1972)
[118] Phyllis Chesler, *Women and Madness*, Argraffiad 25 mlwyddiant (New York: Four Walls Eight Windows, 1997), t.138.
[119] Elaine Showalter, *The Female Malady: Women, Madness and English Culture 1830-1980*, (London:Virago, 1987), t.4.
[120] Showalter, *The Female Malady*, t.7.

rai dyfyniadau o weithiau llenyddol, megis dyddiaduron a nofelau er mwyn atgyfnerthu ei gosodiadau. Fel y mae'r broliant yn ei ddweud:

> Along with vivid portraits of the men who dominated psychiatry, and descriptions of the therapeutic practices that were used to bring women 'to their senses', she draws on diaries and narratives by inmates, and fiction from Mary Wollstonecraft to Doris Lessing, to supply a cultural perspective usually missing from studies of mental illness.[121]

Er ei bod yn cyfeirio at *TBJ,* mae'r dadansoddiadau'n weddol fyr a chryno. Ond yn y cyd-destun Cymraeg, ni cheir gwaith ymchwil tebyg sy'n dadansoddi profiadau cymdeithasol a seicolegol ehangach cymeriadau benywaidd y gweithiau dan sylw. Oherwydd hyn, bydd gwaith Showalter yn darparu platfform amhrisiadwy i'r agwedd hon o'r astudiaeth wrth inni fynd ati i ehangu'r maes ymchwil.

Fel y gwelir drwy'r adolygiad llenyddol hwn, maes anferth ac eang yw ymdriniaeth y meysydd seiciatryddol, ac yn arbennig salwch meddwl mewn llenyddiaeth greadigol, academaidd, hanesyddol, gymdeithasol a chlinigol. Oherwydd hyn, ni fyddai'n briodol nac yn ddiddorol imi gynnwys arolwg o bopeth sydd gan y maes i'w gynnig. Yn hytrach, ceisiwyd dewis gweithiau sy'n cyfannu, yn cefnogi, ac mewn rhai achosion, yn herio'r themâu a'r delweddau a geir yn y rhyddiaith graidd. Wedi'r cyfan, gweithiau sy'n gosod sail i brif ddadansoddiadau'r cyfnod ac felly'r astudiaeth yw'r enghreifftiau hyn i gyd ac, o ganlyniad, ni allwn eu hepgor. Er bod yr astudiaethau a grybwyllwyd uchod yn darparu mewnwelediadau a safbwyntiau gwerthfawr i'r maes, mae ganddynt i gyd ddiffygion, yn arbennig yn y cyd-destun Cymraeg. Wrth ystyried hyn, ac yng ngolau natur y llenyddiaeth gyd-destunol hon, deuwn at nod yr astudiaeth. Bwriedir:

i) ymestyn dulliau llenyddol traddodiadol wrth asesu a dadansoddi defnydd salwch meddwl fel elfen mewn detholiad o destunau

ii) creu gwerthusiad cyd-destunol o salwch meddwl a'i arwyddocâd yn llenyddiaeth y cyfnod.

Ond trwy wneud hynny, ystyrir hefyd y cwestiynau hyn:

i) ym mha ffyrdd y mae ein dealltwriaeth o'r testunau hyn yn gwella ac yn cael ei chyfoethogi gan astudiaethau cyd-destunol rhyngddisgyblaethol?

[121] Showalter, *The Female Malady.*

ii) ym mha ffyrdd y gall y testunau llenyddol daflu goleuni a rhoi sylwadau ar gymhellion personol yr awdur, agweddau hanesyddol ac ymarfer clinigol yn y maes?

Gyda hyn mewn golwg felly, eir ati yn awr i osod cyd-destun hanesyddol a chymdeithasol cyfnod cyhoeddi'r llenyddiaeth graidd drwy'r bennod gefndirol ddilynol.

# PENNOD 2

# Bywyd wedi'r rhyfel: Cyfnod o chwyldro cymdeithasol, seicolegol a ffeministaidd

## 2.1 Gosod y llwyfan: Gwrthryfel y bobl

Cyn mynd ati i ddadansoddi sut y defnyddir ac y portreadir salwch meddwl mewn llenyddiaeth Gymraeg a rhai gweithiau Saesneg, eir ati i olrhain yn gyntaf ddatblygiadau a digwyddiadau cymdeithasol a seicolegol pennaf y cyfnod. Gan mai yn y chwedegau y cyhoeddwyd pob un o nofelau craidd yr astudiaeth, archwilir prif ddigwyddiadau'r cyfnod gan eu defnyddio fel drych i gefndir y nofelau eu hunain. Rhaid pwysleisio, fodd bynnag, nad astudiaeth hanesyddol mo hon. Ni fwriedir adrodd hanes y cyfnod yn fanwl. Yn hytrach, ceisir dadansoddi'r llenyddiaeth ddethol drwy lygaid yr oes newydd hon o greadigrwydd, hunaniaeth a rhyddid meddwl.

Dechreuwn gan ystyried degawd penodol cyhoeddi'r llenyddiaeth graidd. Wrth feddwl am y chwedegau'n gyffredinol, tueddwn i feddwl am gyfnod o ddelweddau cyferbyniol iawn. Ar y naill law, meddyliwn am ofn a gormes yn sgil y Rhyfel Oer, difrod Rhyfel Fietnam a chodi Wal Berlin, tra mae delweddau lliwgar o hipis rhydd, cerddoriaeth ddylanwadol ac arbrofion seicedelig yn llenwi'r dychymyg ar y llaw arall. Pa bynnag ffordd yr edrychwn ar y degawd hwn, nid oes amheuaeth mai cyfnod o chwyldro a datblygiad eithriadol ydoedd. Cyfeirir at y chwedegau yn aml megis degawd cyffrous. Fel y dywedodd Jonathon Green: 'the point of the Sixties is change – realised or otherwise feasible or foolhardy. Are you part of the problem, asked the slogan, or part of the solution?'[122] Dyma gyfnod y breuddwydwyr a'r credinwyr ac yn wyneb natur heriol y cyfnod, ganwyd un o symudiadau mwyaf dylanwadol yr ugeinfed ganrif sef y symudiad diwylliant amgen neu'r *Counterculture Movement*.

Erbyn heddiw, priodolir y term 'counterculture' yn aml i Theodore Rosak a'i lyfr, *The Making of a Counterculture: Reflections on a Technocratic Society and its Youthful Opposition.* Gan ddisgrifio'r math newydd o gymdeithas weithredol, meddai:

---

[122] Jonathon Green, *All Dressed Up: The Sixties and the Counterculture* (London: Jonathan Cape, 1998), t.xiii.

> It strikes me as obvious beyond dispute that the interests of our college-age and adolescent young in the psychology of alienation, oriental mysticism, psychedelic drugs, and communitarian experiments comprise a cultural constellation that radically diverges from values and assumptions that have been in the mainstream of society at least since the Scientific Revolution of the seventeenth century.[123]

Cwestiynwyd y ffordd gonfensiynol a chyfyng o fyw ac o ganlyniad, dechreuwyd herio hen werthoedd a normau cymdeithasol. Er bod yr agweddau a'r safbwyntiau hyn wedi teithio ar draws y byd – a dadansoddir y cyd-destun Cymreig yn y man – yn America yr oedd y newidiadau hyn fwyaf amlwg. Yn ystod y cyfnod, er enghraifft, newidiodd yr hierarchaeth gymdeithasol yn sylweddol ar ôl i'r Democrat John F. Kennedy olynu'r Gweriniaethwr Dwight D. Eisenhower yn Arlywydd America. Yn wyneb y rhyfel yn erbyn Fietnam ac Argyfwng Taflegrau Ciwba, gwelwyd cynnydd mewn gwrthsafiad yn erbyn trais gwleidyddol a milwrol wrth i densiynau ymhlith y bobl godi. Ond yn ogystal â hyn, ymgyrchodd miloedd dros hawliau dynol sylfaenol a diddymu anffafriaeth hiliol, ymgyrch a arweiniodd at Ddeddf Hawliau Sifil yn 1964.[124]

Gan ystyried hyn oll, yn ogystal â lu o ddigwyddiadau terfysglyd eraill,[125] teg yw dweud mai cyfnod cythryblus oedd y degawd hwn. Ond er gwaethaf yr holl aflonyddwch cymdeithasol hyn, roedd hefyd yn gyfnod o gynnydd a chyffro.[126] Ac mewn môr o wrthryfel, ffynnodd gobaith ac angerdd, yn arbennig ymhlith y cenedlaethau iau. Yn sgil y *baby boom* a ddilynodd yr Ail Ryfel Byd ac ehangiad y prifysgolion, nid oedd y chwedegau'n brin o bobl ifanc addysgedig a gweithgar.[127] A dyfynnu Matthew Levin:

> The two decades following the end of World War II witnessed the phenomenal growth of scientific research on university campuses, a shift in higher education

[123] Theodore Rosak, *The Making of a Counterculture: Reflections on the Technocratic Society and Its Youthful Opposition* (London: Faber and Faber Ltd, 1970), t.xi.
[124] Am hanes y ddeddf hon, dylid darllen Raymond F. Gregory, *The Civil Rights Act and the Battle to End Workplace Discrimination: A 50 Year History* (London: Rowman & Littlefield, 2014).
[125] Fel y nodwyd, ni fwriedir ailadrodd hanes terfysglyd y chwedegau. Ond am ragor o wybodaeth am y digwyddiadau dan sylw gweler: Ken Goffman & Dan Joy, *Counterculture Through the Ages: From Abraham to Acid House* (New York: Villard, 2004), tt.246-282; Theodore Rosak, *The Making of a Counterculture: Reflections on the Technocratic Society and Its Youthful Opposition* (London: Faber and Faber Ltd, 1970).
[126] Disgrifiodd Kenneth T. Walsh y chwedegau fel: '[a decade which] contained hope and failure, innocence and cynicism. It was a decade of extremes, of transformational change and bizarre contrasts…. It was the best of times and the worst of times.' Gweler Kenneth T. Walsh, 'The 1960s: A Decade of Promise and Heartbreak', US News (9 Mawrth 2010) <https://www.usnews.com/news/articles/2010/03/09/the-1960s-a-decade-of-promise-and-heartbreak> [cyrchwyd ar-lein 16 Mai 2017]
[127] Christopher Gair, *The American Counterculture* (Edinburgh: University of Edinburgh Press, 2007), t.4.

> toward technical training and a massive increase in enrolments, all within the context of a rapidly developing relationship between the federal government and the academic world. [128]

Yn 1960, sefydlwyd y SDS (Students for a Democratic Society) gyda'r bwriad o greu cymdeithas ddemocrataidd.[129] A dwy flynedd yn ddiweddarach, ysgrifennwyd Gosodiad Port Huron gan fyfyrwyr penderfynol eu natur. Trwyddo, cyflwynwyd math newydd o wleidyddiaeth adain chwith radicalaidd, hynnyw yw gwleidyddiaeth a oedd yn seiliedig, yn nhyb Goffman a Joy, ar 'expansive notions of "participatory democracy," existentialist concepts of individual identity forged through activism, and youthful alienation'.[130] Nid oes amheuaeth felly mai ieuenctid uchelgeisiol oedd ieuenctid y chwedegau. Gweithiasant yn ddiwyd i newid, diwygio ac ail-lunio cymdeithas gul a hen-ffasiwn ei hynafiaid gan ymbalfalu am ddealltwriaeth well o hunaniaeth a'r byd. Ond er gwaethaf mawredd y dasg, nid breuddwyd diflanedig a phlentynnaidd oedd hwn o bell ffordd, a bu'r ymgyrch yn llwyddiannus. Ys dywedodd Jonathon Green:

> Teen fantasies aside, what the Sixties brought was a democratisation of such things – the end of a value system which had stood in place for more than a century. It was that which created much of the hostility. In many ways the critics were right to worry; it was indeed the end of their ordered, hierarchal, deferential world.[131]

Fel y dangosir drwy fuddugoliaethau amrywiol y cyfnod, roedd gobeithion a breuddwydion y genhedlaeth newydd hon yn cael eu trosglwyddo i bob math o feysydd; o addysg i wleidyddiaeth, o faterion cymdeithasol i seiciatreg (a drafodir isod). Dechreuodd pobl herio'r gymdeithas draddodiadol. Yn lle edrych yn ôl at orffennol hen ffasiwn a darfodedig, edrychasant ymlaen at ddyfodol posib, dyfodol yn llawn rhyddid ac unigoliaeth.

Cipolwg cryno iawn a roddir yma ar hanes cymdeithasol a gwleidyddol y chwedegau. Fel y nodwyd, penderfynwyd defnyddio agweddau, gweithredoedd a theimladau cymdeithas y degawd fel modd i ddeall moesau a chymhellion y llenyddiaeth graidd. Yn ôl Timothy Leary, canolbwynt y diwylliant amgen oedd mynegiant artistig a phŵer delweddau, ac nid pŵer personol na gwleidyddol.[132]

[128] Matthew Levin, *Cold War University: Madison and the New Left in the Sixties* (Wisconsin: University of Wisconsin Press, 2013), t.16.
[129] Goffman & Joy, *Counterculture through the Ages: From Abraham to Acid House*, t.256.
[130] Ibid., t.249.
[131] Green, *All Dressed Up: The Sixties and the Counterculture*, t.xii.
[132] Timothy Leary, 'Foreword' yn *Counterculture through the Ages: From Abraham to Acid House,* gol. gan Ken Goffman & Dan Joy (New York: Villar, 2004), tt.ix-xi.

Mewn cyfnod a roddodd bwyslais enfawr ar hunaniaeth yr unigolyn a mynegiant artistig, blodeuodd maes gwahanol o lenyddiaeth, a hynny'n llenyddiaeth a feirniadai haenau'r gymdeithas gan archwilio ei brwydrau mewnol.[133] Ac yng ngolau'r gosodiad hwn, yn ogystal â'r ffaith y gosodir llenyddiaeth graidd yr astudiaeth yng nghanol cyffro'r cyfnod, nid yw'n syndod y cynhwysir themâu, beirniadaethau, heriau a dymuniadau'r oes yn y storïau dan sylw.

Wedi crybwyll yn fras naws ac awyrgylch cyffredinol y chwedegau yn y rhan gyntaf hon, eir ati yn awr i ganolbwyntio ar ddau o brif fudiadau'r oes sy'n ffurfio cefnlen i'r testunau craidd, sef y mudiad ffeministaidd a'r mudiad gwrth-seiciatryddol. Ar ôl gwneud hynny, dadansoddwn ymateb a safle Cymru yn ystod y degawd arwyddocaol hwn, fel bod gennym ddealltwriaeth gyd-destunol a hanesyddol o'r cyfnod y cyhoeddwyd y gweithiau ynddo.

[133] Gweler astudiaethau megis: Anthony Aldgate (gol), *Windows on the Sixties. Exploring Key-texts of Media and Culture* (London: Tauris Publishers, 2000); Bart Moore-Gilbert a John Seed (gol), *Cultural Revolution? The Challenge of the Arts in the 1960s* (London: Routledge, 1992). Dychwelir at y syniad hwn o safbwynt Cymreig yn y bennod nesaf hefyd.

## 2.2 O'r gegin i'r gad: Menywod yn gwrthryfela

Gyda'r blynyddoedd wedi'r rhyfel ac yn arbennig y chwedegau, daeth ton newydd o newid a datblygu ar raddfa enfawr i'r Byd Gorllewinol. Yn wyneb natur chwilfrydig y cyfnod lle yr oedd unigoliaeth ac ewyllys rhydd yn cael eu dathlu a'u hannog, gwelwyd hefyd bwyslais mawr ar arbrofi. Meddai Tim Healey fod pobl yn barod i arbrofi gyda rhyw, cyffuriau, crefydd, cerddoriaeth, a hyd yn oed syniadau gwleidyddol.[134] Ond yn anad dim, rhoddodd cenhedlaeth y diwylliant amgen le canolog i hunanddarganfyddiad, gan alw am ryddid yn y meysydd milwrol a gwleidyddol. Galwyd hefyd am ryddid wyneb yn wyneb â phenderfyniadau mwy personol, gan gynnwys y rheini o natur rywiol.

Gan ategu'r datblygiadau blaengar a sefydlwyd yr adeg hon, ymlaciodd agweddau pobl tuag at ymddygiad a normau rhywiol. Ganwyd yr hyn a elwir yn 'chwyldro rhywiol'.[135] Dechreuodd pobl drafod pethau megis cyfathrach rywiol cyn priodi ac amlweddogrwydd yn fwy rhydd ac o ganlyniad, chwalwyd y waliau gwarchodol o gylch rhyw a pherthnasau rhywiol i raddau.[136] Gwelwyd hefyd ddatblygiadau ym maes atalgenhedlu, wrth i'r bilsen gael ei chyflwyno i Brydain yn 1961.

Am y tro cyntaf, ymddangosai fod gan fenywod ddewis. Gallent yn awr benderfynu beichiogi neu beidio. Rhoddodd y bilsen iddynt reolaeth dros eu hymddygiad rhywiol a'u ffrwythlondeb eu hunain. Dylid nodi, fodd bynnag, fel y sylwa Beddoe, nad i fenywod sengl y rhoddid y bilsen ond menywod priod yn unig.[137] Trwy'r diffyg cydraddoldeb hwn, tanlinellwyd unwaith eto safle israddol y fenyw annibynnol.[138] Fodd bynnag, yn sgil y bilsen a'r chwyldro rhywiol,

[134] Tim Healey, *Picture History of the 20th Century: The 1960s* (London: Franklin Watts, 2004), t.5.
[135] Gabriella Pastor, Chelsea Mageland a Sarah Findley, *The Sexual Revolution*, History of Human Sexuality in Western Culture, <http://historyofsexuality.umwblogs.org/mid-to-late-20th-century/the-sexual-revolution/#> [cyrchwyd 10 Chwefror 2017] Am y cyd-destun Prydeinig dylid darllen Hera Cook, *The Long Sexual Revolution: English Women, Sex, and Contraception 1800-1975* (Oxford: University of Oxford Press, 2004).
[136] Ond fel sy'n digwydd gyda phob newid, roedd barnau gwrthdrawiadol. Meddai Hekma a Giami: 'Some people applauded the sexual openness, the freedom of speech of the emancipation of female and gay sexuality; others decried the loss of traditional values, continuing sexism, growing consumerism, extreme individualism or unabated Puritanism'. Gweler Gert Hekma ac Alain Giami (gol) *Sexual Revolutions* (Basingstoke: Palgrave Macmillan, 2014), t.2.
[137] Deirdre Beddoe, *Out of the Shadows* (Cardiff: University of Wales Press, 2000), t.151.
[138] Mae Sheila Jeffreys yn cydnabod y dadleuon ffeministaidd yn ei llyfr *Anticlimax: A Feminist Perspective on the Sexual Revolution* (London: The Women's Press Ltd, 1990). Dywed (t.2): 'The 1960s was a period when greater opportunities were open to women and the "sexual revolution", rather than being liberating, helped to defuse the potential threat to male power'.

dechreuodd menywod gwestiynu agweddau eraill ar eu rhyddid. Trafodwyd anghydraddoldeb yn y meysydd gyrfaol, academaidd, gwleidyddol a domestig o ddifri, ac o ganlyniad, gwelwyd ail don o ffeministiaeth yn mynd o nerth i nerth.[139]

Erbyn diwedd y chwedegau, daeth y syniad o'r fenyw annibynnol a chyflogedig yn fwy cyffredin wrth i fwy a mwy o fenywod symud o'r gegin i'r gweithle, ond delwedd dra gwahanol a geir o fenywod wrth graffu ar ddiwylliant y pumdegau a dechrau'r chwedegau. Yn lle hyrwyddo safle'r fenyw, gwelodd y blynyddoedd yn dilyn yr Ail Ryfel Byd adwaith i'r cynnydd a fu ym maes hawliau menywod. Ar ôl gweini'n ffyddlon mewn ffatrïoedd a diwydiannau amrywiol yn ystod blynyddoedd y rhyfel, bron dros nos, collodd y rhan fwyaf o fenywod eu swyddi wrth i'r dynion ddychwelyd i'r gweithle.[140] Unwaith eto roedd disgwyl i fenywod frysio'n ôl i'r cartref gan ailgydio yn eu rolau domestig – morwyn y tŷ, mam garedig a gwraig ffyddlon.

O ystyried hyn, nid oes amheuaeth mai digon cyfyng oedd byd y fenyw. Fel y cydnabu Beddoe a Klatch,[141] yr unig ragolygon swyddi a ystyriwyd yn addas ar gyfer menywod oedd y rheini ym meysydd nyrsio neu waith ysgrifenyddol, hynny yw, swyddi is o ran statws a chyflog. Yn wir, awgrymodd Klatch yn goeglyd mai gwell o lawer oedd mabwysiadu rôl y wraig tŷ fel galwedigaeth trwy lygaid patriarchaidd cymdeithas yr oes.[142] Yn ei llyfr, cyflea Betty Friedan natur y ddelwedd ystrydebol a chyffredinol o'r wraig yn ystod y pumdegau:

> Experts told them how to catch a man and keep him, how to breastfeed children and handle their toilet training, how to cope with sibling rivalry and adolescent rebellion; how to buy a dishwasher, bake bread, cook gourmet snails, and build a swimming pool with their own hands; how to dress, look, and act more feminine and make marriage more exciting; how to keep their husbands from dying young and their sons

[139] Dylid gweld Margaret Walters, *Feminism: A Very Short Introduction* (Oxford: University of Oxford Press, 2005), tt.97-116; Rebecca E. Klatch, *A Generation Divided: The New Left, The New Right, And The 1960s* (California: University of California Press, 1999), tt.158-185; Rosalyn Baxandall a Linda Gordon, 'Second-Wave Feminism' yn *A Companion to American Women's History*, gol. gan Nancy A. Hewitt (Oxford: Blackwell Publishing Ltd, 2002), tt.414-432 am fwy o wybodaeth hanesyddol a chymdeithasol.

[140] Ffaith a gydnabyddir hefyd gan Green, *All Dressed Up: The Sixties and the Counterculture*, t. 398. Yn y cyd-destun Cymreig, meddai Mair Rees: 'bu'r blynyddoedd yn union ar ôl yr ail ryfel byd yn helbulus a rhwystredig i nifer o fenywod. Cyflawnai miloedd ohonynt swyddi a dyletswyddau cyfrifol a thraddodiadol "gwrywaidd" eu natur yn ystod y brwydro ond bellach, disgwylid iddynt ailgydio yn ei rôl draddodiadol fel 'angel yr aelwyd'. Gweler Mair Rees, *Y Llawes Goch a'r Faneg Wen: Y Corff Benywaidd a'i Symbolaeth mewn Ffuglen Gymraeg gan Fenywod* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2014), t.64.

[141] Beddoe, *Out of the Shadows*, t.140 ac meddai Klatch: 'when I was growing up, you either were a teacher or a nurse, if you didn't get married, or a wife. Really, those were the options.' Gweler Klatch, *A Generation Divided*, t.160.

[142] Klatch, *A Generation Divided*, tt.160-183.

> from growing into delinquents. They were taught to pity the neurotic, unfeminine, unhappy women who wanted to be poets or physicists or presidents. They learned that truly feminine women do not want careers, higher education, political rights – the independence and the opportunities that the old-fashioned feminists fought for. Some women, in their forties and fifties, still remembered painfully giving up those dreams, but most of the younger women no longer even thought about them, a thousand expert voices applauded their femininity, their adjustment, their new maturity. All they had to do was devote their lives from earliest girlhood to finding a husband and bearing children.[143]

Fel rheol, gallai'r gŵr fentro y tu allan i'r cartref gan wneud ei farc yn gymdeithasol, yn yrfaol ac yn wleidyddol yn y byd. Cyfyngwyd menywod, ar y llaw arall, i'r aelwyd. A thra oedd eu gwŷr yn serennu yn y sffêr gyhoeddus, fe'u cyfyngwyd i'r hyn sy'n cael ei alw yn 'sffêr y cartref'. Ys dywedodd Jackie Flemming: 'The first women lived in a Domestic Sphere. Inside the sphere women did things which weren't too demanding like childcare, scrubbing the floor, washing the sheets and curtains, sewing on buttons, and coalmining.'[144] Teg yw dweud mai digon cyfyng oedd gorwelion y menywod hyn.

Nid oedd gan wragedd y cyfnod rôl, hunaniaeth na rhyddid. Yn hytrach, fel y nododd Walters, roedd hi'n cael ei hystyried fel gwrthych yn lle goddrych ym marn dynion.[145] Ystyrir ymhellach sylw Angela Davies sy'n pennu mai gwas yn unig oedd y fenyw yn ôl ideoleg bourgeois.[146] Gan eu cymheiriaid gwrywaidd, ystyriwyd menywod y sffêr ddomestig yn bobl rinweddol ac iddynt nodweddion dymunol megis purdeb ac ufudd-dod, a hwythau'n gweini'n ffyddlon ar eu gwŷr, eu teuluoedd a'r *status quo.* Ond o dan yr wyneb, nid oedd y sefyllfa'n un ddedwydd. Gwisgo masg yr oedd nifer o'r menywod hyn; yn actio ac yn chwarae'r rôl draddodiadol yn weddol ufudd wrth goleddu ar yr un pryd amheuon a phryderon dwys am natur eu bywyd anfoddhaol.

Troes y cydymffurfio rhywiaethol yn deimladau o aflonyddwch ac anfodlonrwydd wrth i gymdeithas newydd ac esblygol fynd ati i gwestiynu a newid amgylchiadau. Ym marn sawl beirniad, cyhoeddi *The Feminine Mystique* yn 1963 ydoedd dechrau'r mudiad ffeministaidd newydd, yr ail don. Meddai Nicholas Lemann yn weddol bendant ar glawr y llyfr fod Betty Freidan yn dechrau'r symudiad

---

143 Friedan, *The Feminine Mystique*, t.13.
144 Jackie Flemming, *The Trouble With Women* (London: Square Peg, 2016), tt. 11-12.
145 Walters, *Feminism: A Very Short Introduction*, t.98.
146 Angela Davis, *Women, Class and Race* (London: Women's Press, 1982), t.225.

ffeministaidd hwn.[147] Ac mae Judith Evans yn dechrau ei hastudiaeth hithau â'r llyfr arwyddocaol hwn. Wrth ddisgrifio gwreiddiau ail don ffeministiaeth, meddai:

> Early second-wave feminism was a feminism of two forms of equality. The first began with the Presidential Commission of 1960, and *The Feminine Mystique;* the second emerged from the 1960s New Left, and that decade's movement for black Civil Rights.[148]

Yng nghanol cyffro'r cyfnod, dechreuodd menywod gwestiynu eu rôl mewn cymdeithas. O ganlyniad, roedd disodli delwedd y wraig tŷ gaeth yn ganolog i ymdrechion ffeministiaid yr oes. Cynigiai'r chwyldro rhywiol ac yn ei dro, yr ail don o ffeministiaeth, addewid o annibyniaeth a hunaniaeth newydd. Ceisiodd nifer o fenywod dorri'n rhydd o'r ystrydeb gan gynnal protestiadau amrywiol, cyhoeddi llenyddiaeth ysbrydoledig ac ymgyrchu'n angerddol – a'r cyfan er mwyn newid cwrs eu bywyd. Ar un olwg, roedd ffeministiaeth y chwedegau'n ymgorffori prif werthoedd a chredoau'r symudiad diwylliant amgen wrth i gymhellion y mudiad hwnnw gydblethu â syniadau'r ffeministiaid. Meddai Rebecca Klatch, er enghraifft:

> The language of the counterculture intersected with feminist beliefs. Both emphasized the importance of lifestyle, of the personal as political. By rejecting middle-class standards and lifestyles and embracing sexual freedom, the counterculture called into question basic institutions such as marriage and the family, cause that were critical to feminism.[149]

Wrth gwrs, gan fod natur anghonfensiynol y diwylliant amgen yn barod i feirniadu'r gymdeithas, wynebodd menywod gondemniad cymdeithasol am herio'r traddodiadau hynafol. Fel y nododd Jonathon Green: 'cliché-mongering, vituperation, trivialisation, hysteria: all the lineaments of hostility would continue to greet the Women's Movement for years to come'.[150]

Yn unol â'r gosodiadau uchod ac fel yr awgrymodd Julianna Little yn ei thesis hi, roedd yr amodau a'r delfrydau Fictoraidd a nodweddai fywydau menywod yn ystod y cyfnod yn rhai a allai achosi gwallgofrwydd.[151] Er gwaethaf hyn, gwelwyd unrhyw wrthodiad o'r 'norm' yn arwydd sicr o salwch meddwl. Ys dywedodd Joan Busfield: 'This is the Catch-22 of female mental health, both close conformity to, and departure from, female roles are liable to generate definitions of

[147] Friedan, *The Feminine Mystique*, t. clawr y llyfr.
[148] Judith Evans, *Feminist Theory Today: An Introduction to Second-Wave Feminism* (London: SAGE Publications, 1995), t.18.
[149] Klatch, *A Generation Divided*, t.183.
[150] Green, *All Dressed Up: The Sixties and the Counterculture*, t. 408.
[151] Julianna Little, '"Frailty, thy name is woman": Depictions of Feminine Madness', (Traethawd MA, Virginia Commonwealth University, 2015)

psychiatric disorder'.[152] Yn ôl y farn ffeministaidd, bu'n rhaid i fenywod a gwragedd, mamau a merched frwydro yn erbyn ton ddiddiwedd o gonfensiwn, anobaith a diflastod drwy gydol eu bywydau. Ar y naill law, roeddent yn garcharorion i'w hofnau heb fedru byw bywyd i'r eithaf, ond ar y llaw arall, fe'u llethwyd gan y cywilydd cymdeithasol a ddaeth yn sgil methu â chyflawni eu rôl dderbyniol ddisgwyliedig. Yn wyneb hyn, canolbwyntia Pennod 5 yr astudiaeth ar y paradocs hwn yn bennaf, gan ddadansoddi'r profiad seicolegol benywaidd. A chan ddefnyddio hanes, beirniadaethau a chymhellion poblogaidd yr oes, gosodir cyd-destun cymdeithasol a ffeministaidd y testunau dan sylw. O ganlyniad, ystyriwn sut y mae'r disgwyliadau cymdeithasol cyfyngol yn effeithio ar iechyd meddwl y fenyw, a oes cysylltiad dilys rhwng gormes rhywiaethol a salwch meddwl?

[152] Joan Busfield, *Men, Women and Madness* (London: Macmillan Press Ltd, 1996), t.101.

## 2.3 Pwy sy'n wallgof? Y Terfysg Seiciatryddol

Wrth sôn am ddylanwad a phwysigrwydd mudiad ffeministaidd y chwedegau yn America, meddai Roslyn Baxandall a Linda Gordon: 'like a river overflowing its banks and seeking a new course, it permanently altered the American Landscape'.[153] Byddai'r frwydr ffyrnig hon dros gydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol yn un eithriadol o arwyddocaol o ran hawliau menywod, ond nid yn unig yn y meysydd ffeministaidd y gwelwyd newid. Yn unol â'r gyffelybiaeth uchod, pwysleisiodd Timothy Leary: 'Counterculture is the moving crest of a wave, a zone of uncertainty where culture goes quantum'.[154] Yn wir, rhedodd y don hon o newid dros sawl maes gwahanol yn ystod y chwedegau, gan gyflwyno llif newydd o syniadau yn ei dro. O'r tu fewn i faes seiciatreg, bu'n ddim llai na tswnami.

Yn sgil y datblygiadau gwleidyddol a milwrol a grybwyllwyd eisoes, rhedai tensiynau'n uchel ymhlith y bobl. Collwyd ymddiriedaeth yn y cyrff llywodraethol uwch. Meddai Edward Shorter, er enghraifft, fod gelyniaeth tuag at awdurdod a meddyginaeth.[155] Cyfnod a roddwyd pwyslais mawr ar yr unigolyn oedd y degawd hwn lle y datblygwyd gwleidyddiaeth adain chwith fwy ffyrnig a heriai'r dull awdurdodaidd.[156] Â Shorter ymlaen i ymhelaethu:

> Leftist writers saw in psychiatry the controlling arm of "the bourgeoisie," Karl Marx's term for the stock- and bond-holding upper middle classes. Early feminist writers saw in the male psychiatrist the comprador representative of the male gender, extending patriarchal power over women.[157]

Yn ganolog i gredoau'r cyfnod, pwysleisiwyd yn anad dim mai dinistriol oedd rheolaeth ac awdurdod ym mhob maes. Roedd yr unigolyn yn rhydd ac ni ddylai gael ei orfodi i gydymffurfio'n gymdeithasol, yn feddygol, neu fel arall. Wedi ymosod ar y meysydd milwrol, gwleidyddol a domestig yng ngoleuni beirniadol yr oes, trodd sylw pobl hefyd at y byd seiciatryddol. Ac o ganlyniad, tyfodd yr hyn a elwir yn 'fudiad gwrth-seiciatreg'.[158]

---

[153] Baxandall a Gordon, 'Second-Wave Feminism', t.414.
[154] Leary, 'Foreword', tt.ix.
[155] Edward Shorter, *A History of Psychiatry: From the Era of the Asylum to the Age of Prozac* (New York: John Wiley & Sons, Inc, 1997), t.273.
[156] Am esboniad manwl, gweler Peter Doggett, *There's a Riot going on! Revolutionaries, rock stars and the rise and fall of '60s counterculture* (Edinburgh: Canongate, 2007)
[157] Shorter, *A History of Psychiatry*, t.274.
[158] Unwaith eto, ni fwriedir cofnodi hanes y symudiad yn fanwl. Cyfeirio at rai gweithiau craidd a fydd yn gymorth i'r astudiaeth a wneir yn unig. Am fwy o wybodaeth hanesyddol, gweler: Shorter, *A History of Psychiatry*, tt.272-276; Petteri Pietikainen, *Madness: A History* (Abingdon: Routledge,

David Cooper oedd y cyntaf i fathu'r term 'gwrth-seiciatreg' yn ei lyfr *Psychiatry and Anti-psychiatry* a gyhoeddwyd yn 1967, a'r mudiad ei hun eisoes yn ffynnu. Erbyn heddiw, cyfeiria'n bennaf at y mudiad seiciatryddol rhyngwladol poblogaidd a ysgubodd drwy'r byd yn ystod y chwedegau a'r saithdegau. Yn ôl Edward Shorter, prif ddadl y symudiad oedd pennu mai salwch cymdeithasol a gwleidyddol oedd salwch, ac nid salwch meddygol.[159] Yn wyneb y meddylfryd hwn, heriwyd prif ddamcaniaethau ac arferion seiciatreg y brif ffrwd ac, o ganlyniad, gwelwyd y maes cyfan mewn goleuni newydd a beirniadol. Fel sy'n wir am bob symudiad cymdeithasol mawr, roedd angen arweinwyr cryfion i gyfarwyddo, hyfforddi a chyfeirio'r mudiad.

Yn ystod y chwedegau, gwelwyd mewnlifiad o lenyddiaeth hynod ddylanwadol a fyddai'n diwygio'r maes drwyddo draw. Gan ddyfynnu Edward Shorter unwaith eto: 'collectively they became the intellectual springboard from which the theorists of deinstitutionalization of the late 1960s would launch themselves'.[160] A chan gadw hyn mewn cof, archwilir yn y bennod hon rai o'r prif weithiau seiciatryddol a fydd yn cefnogi'r testunau ffuglennol dan sylw.

Ym Mhrydain, ystyrir mai R. D. Laing yw gwir dad y mudiad hwn – er na alwodd ei hun yn wrth-seiciatrydd yn ystod ei yrfa.[161] Yn ôl Zibigniew Kotowicz, roedd R. D. Laing yn adlewyrchu i'r dim brif safbwyntiau'r mudiad hwn, gan herio'r traddodiadau a berthynai i'r byd seiciatryddol. Meddai:

> To put it briefly, he attempted to politicise and spiritualise, so to speak, the discourse of madness, and in the process, in a truly anarchic fashion, he questioned, doubted, ridiculed some of the fundamental precepts that govern our society.[162]

Gan ategu ysbryd amheugar a beirniadol y cyfnod, ymdriniai astudiaethau Laing yn aml â natur ormesol y gymdeithas ac effaith hynny ar y meddwl. Yn 1960, er enghraifft, cyhoeddwyd ei lyfr, *The Divided Self: An Existential Study in Sanity and Madness,* gan gynnig meddylfryd cydymdeimladol o ran profiad y sgitsoffrenig. Trwyddo, taflodd Laing oleuni newydd ar sgitsoffrenia, gan geisio disgrifio'r profiad i'r dyn cyffredin mewn modd dealladwy. Yn ei eiriau ei hun, meddai: 'the present

---

2015), tt.267-332; Roy Porter, *Madness: A Brief History* (Oxford: University of Oxford Press, 2002), tt.201-212; Roy Powers, *No One Cares About Crazy People: The Chaos and Heartbreak of Mental Health in America* (London: Hachette Books, 2017).

[159] Shorter, *A History of Psychiatry*, t.274.

[160] Ibid.

[161] Cefnogir y gosodiad hwn gan Mervat Nasser, 'The Rise and Fall of Anti-psychiatry', *Psychiatric Bulletin*, 19 (1995), 743-746.

[162] Zbigniew Kotowicz, *R.D. Laing and the Paths of Anti-psychiatry* (London: Routledge, 1997), t.1.

book is a study of schizoid and schizophrenic persons: its basic purpose is to make madness and the process of going mad, comprehensible'.[163] Yn hytrach na gweld salwch meddwl megis anhwylder meddyliol y gellir ei wella gyda chyffuriau neu driniaeth feddygol arall, cynigodd R. D. Laing fod modd deall salwch meddwl mewn termau dirfodol. A chan ystyried chwalfa seicolegol fel math o anobaith dirfodol, neu argyfwng gwacter ystyr, yn hytrach na nam, gallai'r unigolyn a'r gymdeithas ddeall yn well gymhlethdodau'r meddwl.

Flwyddyn yn ddiweddarach, datblygodd ei gredoau blaenorol a chyhoeddwyd ei ail lyfr, *Self and Others*. Rhennir yr astudiaeth hon yn ddwy ran, sef 'Modes of Interpersonal Experience' a 'Forms of Interpersonal Action'. Trwyddi, tyn ar ddamcaniaethau amrywiol gan bobl megis Jean Paul Satre, Martin Buber a Melanie Klein, wrth iddo ymhelaethu ar y 'double-bind' Americanaidd.[164] Yn ogystal â hyn, bu Laing hefyd yn adeiladu ar ei syniad blaenorol mai ymgais i ddianc rhag pwysau 'normalrwydd' oedd gwallgofrwydd. Ys dywedodd Pietikainen:

> His most controversial idea concerned mental illness as an escape from the 'madness of normality.' Laing contended that if individuals cannot stand the pathology of normality, including conformism, aggression, competition and greed, they may use schizophrenia as a strategy for coping with unbearable reality. As a consequence, they are declared mentally disordered, while the so-called well-adjusted, normal people go on living their 'one-dimensional' lives in a sick society.[165]

O ystyried hyn, mabwysiedir safbwynt tebyg yma wrth inni fynd ati i ddadansoddi'r llenyddiaeth graidd mewn goleuni Laingaidd. Yn wir, parhaodd Laing i gyhoeddi'n rheolaidd yn ystod y chwedegau[166] ac oherwydd ei safle blaenllaw, byddai'n bosib llunio traethawd ymchwil cyfan ar ddylanwadau ei waith. Penderfynwyd yma ganolbwyntio ar ei gyhoeddiad cyntaf, *The Divided Self* fel sylfaen i Bennod 4.5 – a thrafodir rhai o brif ddamcaniaethau'r astudiaeth honno'n fanylach yn yr adran honno – gan edrych ar brofiad seiciatryddol yr unigolyn drwy lygaid dirfodol.

---

[163] R. D. Laing, *The Divided Self: An Existential Study in Sanity and Madness,* ail arg (New York: Penguin Random House, 1965), t.9.

[164] Ys dywedodd Patrick Casement: 'The notion of "double-bind" was first suggested by Bateson et al. (1956). It is used to describe a situation in which contradictory demands are being put upon a child (or patient, see Laing 1961) in such a way that there is no avenue of escape or challenge.' Gweler Patrick Casement, *Further Learning from the Patient: The Analytic Space and Process* (London: Routledge, 1990), t.178.

[165] Pietikainen, *Madness: A History*, t.315.

[166] Cyhoeddwyd y llyfrau R. D. Laing, *Sanity, Madness and the Family* (London: Tavistock,1964), R.D. Laing, *The Politics of Experience and The Bird of Paradise* (Harmondsworth: Penguin, 1967)

Un arall a fu'n newid y persbectif seicolegol oedd Thomas Szasz. Yn ystod yr un flwyddyn â chyhoeddi *The Divided Self*, ymddangosodd hefyd draethawd y seiciatrydd Hwngaraidd, 'The Myth of Mental Illness' yn y cylchgrawn *The American Psychologist*. Cyhoeddodd ef lyfr o'r un enw y flwyddyn ddilynol.[167] Craidd y gwaith yw hyn: 'Mental illness is a myth, whose function is to disguise and thus render more palatable the bitter pill of moral conflicts in human relations'.[168]

Yn nhyb Szasz, nid oedd yn bosib pennu dilysrwydd neu annilysrwydd salwch meddwl, fel y gwneir yn achos clefydau eraill. Yn ei farn ef, roedd hynny'n wyddonol ddi-werth ac yn niweidiol yn gymdeithasol.[169] Ni chredai fod gan y cleifion hyn broblemau meddygol, ond yn hytrach, broblemau moesol, yn bennaf.[170] Gan mor wahanol a grymus oedd ei safbwynt, fel y daeth Szasz i gynrychioli llais beirniadol poblogaidd y cyfnod. Dadleuodd y seiciatrydd fod elît y gymdeithas yn manteisio ar natur fregus unigolyn a bod triniaethau seiciatryddol, fel arfer, yn achosi mwy o ddifrod i'r dioddefwr. Ys dywedodd Porter wrth bwyso a mesur cyfraniad Szasz:

> For Szasz, mental illness is not a disease, whose nature is being elucidated by science; it is rather a myth, fabricated by psychiatrists for reasons of professional advancement and endorsed by society because it sanctions easy solutions for problem people.[171]

Dyma oedd y neges yr oedd Szasz am ei datgan drwy gydol ei yrfa. Ac wrth ddarllen ei ysgrifau niferus a ymddangosodd yn rheolaidd dros gyfnod o bum deg mlynedd, cwbl ddiamwys yw'r elfen feirniadol. Meddai Pietikainen eto: 'in his numerous writings during these 50 years, he was especially fierce and uncompromising in his attack on psychiatric treatment methods and on what he saw as deprivation of freedom without the informed consent of individuals'.[172] Ymhelaethir ar syniadau a damcaniaethau Szasz ym Mhennod 5, ond mae'n bwysig nodi yma ddylanwad y seiciatrydd.[173] Fel yr eglurodd Shorter,[174] cododd gwaith

---

[167] Thomas Szasz, 'The Myth of Mental Illness', *American Psychologist*, 15 (Chwefror 1960), 113-118, a Thomas Szasz, *The Myth of Mental Illness: Foundations of a Theory of Personal Conduct* (New York: Hoeber-Harper, 1961)
[168] Dyfynnir yr erthygl wreiddiol yn Thomas Szasz, *Ideology and Insanity: Essays on the Psychiatric Dehumanization of Man* (London: Calder and Boyars Ltd, 1973), t.24.
[169] Thomas Szasz, *The Myth of Mental Illness* (New York: Harper & Row, 1974), t.xiii.
[170] Thomas Szasz, *The Myth of Mental Illness*, Argraffiad Diwygiedig (New York: Harper Perennial, 2010), tt.262-263.
[171] Porter, *Madness: A Brief History*, t.2.
[172] Pietikainen, *Madness: A History*, t.313.
[173] Am astudiaeth fanwl gweler, John Breeding, 'Practising Szasz: A Psychologists report on Thomas Szasz's Influence on his Work', *SAGE Open*, 4.4 (Rhagfyr 2014), 1-12

Szasz gwestiynau pwysig yn y meysydd seiciatryddol a moesol. O ganlyniad, roedd y gynulleidfa ehangach yn ystyried o ddifri pa hawl sydd gan y seiciatryddion i reoli'r gymdeithas wan? Pwy sy'n wir yn wallgof? Ai'r gymdeithas neu'r corff llywodraethol? A sut y gallwn gyfiawnhau carcharu pobl mewn gwallgofdai os nad yw salwch meddwl yn salwch o gwbl?

Gwaith dylanwadol arall a gododd gwestiynau yn y meysydd seiciatryddol ac academaidd oedd astudiaeth Erving Goffman a gyhoeddwyd yn 1961.[175] Priodolir adrannau 4.3 a 6.6 i drafod y gwaith arwyddocaol hwn. Ond cystal yma inni ddisgrifio ei brif ddamcaniaethau fel bod modd lleoli ei safbwyntiau a'i ddadleuon yng nghyd-destun yr astudiaeth. Yn ystod y cyfnod rhwng 1955 a 1956, bu Goffman yn gweithio yn ysbyty St. Elizabeths lle yr oedd dros 6000 o gleifion. Fel y nododd Shorter,[176] nid da ganddo'r arferion na'r triniaethau a welodd yn yr ysbyty. Yng ngolau'i brofiadau, rhoddodd y seilam yn yr un categori â sefydliadau dychrynllyd eraill, megis carchardai a gwersylloedd-carchar:

> When we review the different institutions in our Western society, we find a class of them which seems encompassing to a degree discontinuously greater than the ones next in line. Their encompassing or total character is symbolized by the barrier to social intercourse with the outside that is often built right into the physical plant; locked doors, high walls, barbed wire, cliff and water, open terrain and so forth. These I'm calling Total Institutions. [177]

Yn ôl Goffman, profiad cwbl ddiraddiol, iselhaol ac annynol oedd cael eich caethiwo i'r ysbyty meddwl. Ac oherwydd hyn, roedd o'r farn nad oedd yno unrhyw salwch seiciatryddol a fyddai'n cyfiawnhau gweithredoedd creulon yr ysbyty meddwl.[178] Erys ei safbwynt yn un radical hyd heddiw ond fel y nodwyd, cyfnod o eithafion ydoedd y chwedegau.

---

<http://journals.sagepub.com.openathens-proxy.swan.ac.uk/doi/pdf/10.1177/2158244014551715> [cyrchwyd 21 Mai 2017]; Tony B. Benning, 'No Such Thing as Mental Illness? Critical Reflections on the Major Ideas and Legacy of Thomas Szasz', *BJPsych Bulletin*, 40.6 (Rhagfyr 2016), 292-295.

[174] Shorter, *A History of Psychiatry*, t.274.

[175] Erving Goffman, *Asylums: Essays on the Social Situation of Mental Patients and other Inmates* (London: Penguin Books, 1961). Dyma gasgliad o draethodau a gyhoeddwyd yn ystod cyfnod craidd yr astudiaeth. Mae'n cynnwys 'On Characteristics of Total Institutions', *Symposium on Preventive and Social Psychiatry*, (1957); 'The Moral Career of the Mental Patient', *Journal for the Study of Interpersonal Processes*, 22.2 (Mai 1959); 'The Underlife of a Public Institution', Annual Association of American Sociology, Washington, (Awst 1957) .

[176] Shorter, *A History of Psychiatry*, t.274.

[177] Goffman, *Asylums*, tt.15-16.

[178] Cydnebydd Shorter y gosodiad hwn hefyd yn Shorter, *A History of Psychiatry*, t.275.

Yn ogystal â thanio dadleuon o ran swyddogaeth y seilam, drwy'i astudiaeth ddiweddarach, *Stigma: Notes on the Management of Spoiled Identity* a gyhoeddwyd yn 1963, cyfrannodd Goffman hefyd at y trafodaethau amseryddol ynghylch perygl stigma. Dychwelir at y syniadau hynny'n nes ymlaen yn yr astudiaeth ond mae'n bwysig nodi unwaith eto natur ddadleuol ymchwil y cyfnod. Am yr unigolyn sy'n wynebu stigma, meddai Goffman:

> By definition, of course, we believe the person with a stigma is not quite human. On this assumption we exercise varieties of discrimination, through which we effectively, if often unthinkingly, reduce his life changes. We construct a stigma-theory, an ideology to explain his inferiority and account for the danger he represents.[179]

Yn unol â'i waith cynharach, cyflwynodd Goffman agwedd feirniadol o'r gymdeithas. Gan ddefnyddio termau amrywiol megis 'spoiled identity' a 'socially discredited', agorodd y cymdeithasegwr ddadleuon ynghylch yr unigolyn a chymdeithas sâl fel ei gilydd. Ac yng ngolau'r ymchwil, awgrymodd Erving fod cydrannau seicolegol a chymdeithasegol i stigma. Yn wir, erys gosodiadau a delweddau Goffman yn eithafol hyd heddiw. Ond ys dywedodd Pietikainen, 'his "one-sided" approach to asylums [a hefyd stigma] served the important purpose of provoking debates and promoting reforms'.[180]

Gellir nodi y gwelir adwaith tebyg i thesis radical Michel Foucault, *Folie et dérasion: Histoire de la foile à l'âge classique* (1961) a gyfieithwyd yn ddiweddarach fel *Madness and Civilisation* yn 1964. Ynddo, mae'n olrhain hanes gwallgofrwydd a salwch meddwl, yn ogystal â thriniaethau seicolegol ar draws y canrifoedd gan feirniadu'r holl faes. Yn debyg i Goffman i ryw raddau, cyflwyna Foucault agwedd gwbl feirniadol o'r seilam wrth iddo ddisgrifio'r amser rhwng canol yr ail ganrif ar bymtheg a 1800 fel cyfnod 'y caethiwo mawr' ('*the great confinement'/'le grand renfermement'*). Cais yr awdurdodau uwch dawelu a diarddel llais afreswm o'r gymdeithas gan garcharu unrhyw dramgwyddwyr i'r seilam. A dyfynnu Foucault: 'Unreason was hidden in the silence of the house of confinement'.[181] I Foucault, problem gymdeithasol ehangach oedd y caethiwed hwn, problem a ddeilliodd o awydd y cymdeithasau uwch i reoli anarchiaeth ac anhrefn

---

[179] Erving Goffman, *Stigma:Notes on the Management of Spoiled Identity* (London: Penguin, 1963), t.5.
[180] Pietikainen, *Madness: A History*, t.154.
[181] Michel Foucault a Richard Howard, *Madness and Civilization: A History of Insanity in the Age of Reason* (New York: Vintage Books, 1988), t.69.

gymdeithasol.[182] Fel yr awgrymodd Petteri Pietikainen,[183] pan ystyrir dadleuon Foucault o ran rheolaeth gymdeithasol, gwallgofrwydd a diffyg moeseg y gymdeithas bourgeois yng ngolau gwahanol gyd-destunau amseryddol a daearyddol, erys ei fewnwelediadau yn graff a gwerthfawr: 'He wants us, as a *society*, as a *culture*, to engage with the way in which madness is encountered in all over lives. He is seeking a different *sensibility* towards madness.'[184]

Er eu bod i gyd yn cynnwys dadleuon a damcaniaethau dadleuol erbyn heddiw, cafodd y gweithiau uchod gan Foucault, Szasz, Goffman a Laing ddylanwad eithriadol, nid yn unig ar elît y prifysgolion, ond hefyd ar aelodau amrywiol o'r cyhoedd.[185] Ys dywedodd Pietikainen,[186] roeddent yn effeithio ar lunwyr polisi, swyddogion cyhoeddus ac academyddion y dyfodol gan achosi newid ym maes ysbytai meddwl a seiciatreg yn gyffredinol. Yn ganolog i'w credoau i gyd oedd y safbwynt mai myth yn unig oedd salwch meddwl ac mai ymateb call i'r byd afresymol oedd gwallgofrwydd. A chan gadw hyn a phrif theorïau'r gwrth-seiciatryddion hyn mewn cof, eir ati i ddefnyddio'r holl weithiau uchod yn gefnlen i brofiadau a dadleuon seicolegol y llenyddiaeth graidd. Drwy hyn, dadansoddir y ddelwedd wrth-seiciatryddol yn ei chyd-destun hanesyddol, cymdeithasol a seicolegol ehangach.

---

182 Mae Roy Porter yn crynhoi prif ddamcaniaethau Foucault yn Roy Porter, *Madmen. A Social History of Madhouses, Mad Doctors and Lunatics* (Stroud: Tempus, 2006), tt.19-22. Gweler hefyd Pietinkainen, *Madness: A History*, tt.77-81.
183 Pietikainen, *Madness: A History*, t.81.
184 Pat Bracken a Philip Thomas, 'From Szasz to Foucault: On the Role of Critical Psychiatry. Philosophy', *Psychiatry, & Psychology*, 17.3 (Medi 2010), 219-228.
185 Shorter, *A History of Psychiatry*, t.275.
186 Pietikainen, *Madness: A History*, t.318.

## 2.4 Cymru'n ymateb

Fel y nodwyd, er mai yn America y plannwyd gwreiddiau'r symudiad diwylliant amgen, nid oedd Cymru'n anymwybodol ohono, a gwelwyd yma nifer o ymgeision i herio'r hen draddodiadau. Meddai R. Merfyn Jones: 'Gwlad oedd yn gyfarwydd â phrotestio oedd Cymru'r ugeinfed ganrif'.[187] Am flynyddoedd, bu Cymry'r dosbarth gweithiol yn protestio'n ddiflino am amodau gwaith diogel a chyflog teg ym maes y pyllau glo a'r chwareli llechi; cymaint oedd swmp a sylwedd yr ymgyrch hwn nes ei fod yn ffurfio rhan ganolog o'n hanes.[188] Mae dylanwad a 'chreithiau' – yng ngeiriau Grahame Davies – streic fawr Chwarel y Penrhyn 1900-1903, er enghraifft, i'w teimlo ar fywyd a hanes trigolion dechrau'r ugeinfed ganrif.[189] Ac eto, tua diwedd y ganrif a gyda'r gostyngiad yn y galw am lo a olygai fod pum deg o byllau wedi eu cau rhwng 1957 a 1964, cododd tensiynau ymhlith y glowyr unwaith eto. A chynhaliwyd, o ganlyniad, Streic y Glowyr 1984-1985 wrth i'r dosbarth gweithiol frwydro am eu cynhaliaeth.[190]

Y cenedlaetholwyr, fodd bynnag, oedd ar flaen y gad ymgyrchu yn ystod y chwedegau. Fel y nododd Jones: 'roedd yng Nghymru ddimensiwn arall i'r traddodiad protest hefyd, sef yr iaith Gymraeg a diwylliant gwleidyddol cenedlaetholdeb'.[191] Ychydig cyn y chwedegau ac yn wyneb tensiynau'r rhyfel, ym mis Medi 1936, penderfynodd Saunders Lewis, y Parchedig Lewis Valentine a D.J. Williams losgi'r Ysgol Fomio ym Mhenyberth, digwyddiad a fyddai'n tanio dadleuon cenedlaethol ffyrnig drwy'r ganrif dan sylw a hyd heddiw.[192] Gwelwyd hefyd brotestiadau tanbaid yn erbyn boddi Tryweryn, gan gynnwys ymgais 'gwladgarol' Emyr Llywelyn, Owain Williams a John Albert Jones wrth iddynt

---

[187] R. Merfyn Jones, *Cymru 2000* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1999), t.47.
[188] Dylid darllen Jones, *Cymru 2000*, tt.47-62 am hanes gweddol fanwl o'r protestiadau a'r gwrthryfeloedd hyn.
[189] Gweler J. Elwyn Hughes a Bryn Hughes, *Chwarel y Penrhyn: Ddoe a Heddiw* (Bethesda: Chwarel y Penrhyn, 1979); Thomas Theodore Roberts, *Y Felin Fawr (Chwarel y Penrhyn): Ei Hanes a'i Rhamant* (Dinbych: Gwasg Gee, 1999).
[190] Am fwy o wybodaeth, gweler David Howell, 'The 1984-85 Miners' Strike in north Wales', *Contemporary Wales*, cyf 4 (1991), 67-98; Geoffrey Goodman, *The Miners' Strike* (London: Pluto, 1985); David Reed ac Olivia Adamson, *Miner's Strike 1984-1985: People Versus State* (London: Larkin, 1985); BBC Cymru Hanes, *Streic y Glowyr* (Ionawr 2009), <http://www.bbc.co.uk/cymru/hanes/safle/themau/glo/streic1984.shtml> [cyrchwyd 21 Rhagfyr 2018].
[191] Jones, *Cymru 2000*, t.55.
[192] Gweler Karl Davies, *Beth am Gynnau Tân: Hanes Llosgi'r Ysgol Fomio* (Caernarfon: Karl Davies, Huw Prys Jones ac Iawn Llwyd, 1986); Arwel Vittle, *'Cythral o Dân': Cofio 75 Mlynedd ers Llosgi'r Ysgol Fomio* (Talybont: Y Lolfa, 2011).

achosi difrod i'r trosglwyddydd.[193] A darlledwyd araith radio enwog Saunders Lewis, *Tynged yr Iaith* yn 1962. Trwyddi, achosodd fraw ymhlith y gynulleidfa Gymraeg wrth iddo ddarogan marwolaeth yr iaith yn yr unfed ganrif ar hugain. O ganlyniad, galwodd ar bobl i efelychu dulliau protestgar y teulu Beasley gan wrthod llenwi ffurflenni treth yn Saesneg.[194] Ac yn sgil y ddarlith, sefydlwyd Cymdeithas yr Iaith, chwe mis yn ddiweddarach.

Dyma ddechrau cyfnod newydd o ymgyrchu a newid yng Nghymru. Er na fwriedir trafod hanes y gwrthdystio yma, hawdd yw gweld dylanwad natur wrthryfelgar y diwylliant amgen yn lledu drwy Gymru gyfan. Fel y sylwodd Beddoe:

> The 1960s was also a time of teenage disillusionment with the establishment and of student revolt. In Wales these energies were channelled into a variety of left-wing movements challenging the old class system and into the campaign to save the language which was led by Cymdeithas yr Iaith.[195]

Yn ogystal â mabwysiadu naws radical y cyfnod yn y meysydd gwleidyddol a chymdeithasol, gwelwyd hefyd newid mewn llenyddiaeth gan awduron benywaidd yr oes. Yn ei herthygl 'Llais Benywaidd y Nofel Gymraeg Gyfoes', er enghraifft, mae Delyth George yn olrhain safle menywod mewn llenyddiaeth Gymraeg, gan ddatgan:

> Ymddengys i'r myth mai teyrnas y ferch yw rhyddiaith Gymraeg yn y ganrif hon gael ei ffurfio ar sail dyrniad o unigolion yn unig. I fyny hyd at y pumdegau gwelwyd mor denau oedd y traddodiad benywaidd.[196]

Wrth drafod ysgrif Delyth George sy'n edrych ar nofelau a ysgrifennwyd yn ystod y cyfnod rhwng 1940 a 1980, honnodd Mair Rees mai thema sylfaenol y gweithiau amrywiol oedd 'ymwybyddiaeth o ormes ac ymdrechion y cymeriadau benywaidd felly i gyfaddawdu â'r gormes hwnnw'.[197] Cyfeiriodd Delyth George, er enghraifft, at bwysigrwydd nofelau Moelona, *Bugail y Bryn* (1917) a *Ffynnonloyw*

---

[193] Gweler, er enghraifft, Owain Williams, *Tryweryn: A Nation Awakes. The Story of a Welsh Freedom Fighter* (Tal-y-bont: Y Lolfa, 2016); CBAC/WJEC, *Boddi Cwm Tryweryn: Llyfr Darllen a Thrafod Mewn Grŵp* (Argraffwr a Dyddiad Anhysbys), <http://resource.download.wjec.co.uk.s3.amazonaws.com/tcg/celyn/Resources/Cymraeg/Darllen/Llyfryn%20Darllen%20a%20Thrafod/Llyfryn%20Boddi%20Cwm%20Tryweryn.pdf> [cyrchwyd 22 Mai 2017]

[194] BBC Cymru, *Tynged yr Iaith,* <http://www.bbc.co.uk/cymru/cymraeg/yriaith/tudalen/tynged_yr_iaith.shtml> [cyrchwyd 22 Mai 2017]

[195] Beddoe, *Out of the Shadows*, t.149.

[196] Delyth George, 'Llais Benywaidd y Nofel Gymraeg Gyfoes', *Llên Cymru,* 16.3 (1991), 363-382 (t.376)

[197] Rees, *Y Llawes Goch a'r Faneg Wen*, t.31.

(1939); llyfrau Elena Puw Morgan, *Y Wisg Sidan* (1939) ac *Y Graith* (1943) ond hefyd nofel Kate Bosse-Griffiths, *Anesmwyth Hoen*, (1941) sydd yn nhyb George, 'yn gyfraniad unigryw i fyd y nofel Gymraeg drwy gwestiynu'r gwerthoedd a gynhelid yn anghreadigol ddigwestiwn cyn hynny – gwerth morwyndod, er enghraifft'.[198] Canmolir hefyd *Mae'r Galon Wrth y Llyw* (1957), sef 'esiampl brin iawn yn y cyfnod hwn o awdur benywaidd yn defnyddio llwyfan y nofel mewn ffordd hunanymwybodol i drin a thrafod syniadau mawr ei hoes, yn bennaf – seicdreiddiad, athroniaeth, llenyddiaeth a ffeministiaeth'.[199] Yn ei thraethawd, mae Nia Angharad Watkins yn trafod y nofel ddomestig Gymraeg. Mae hi'n tynnu sylw at y newid a fu mewn llenyddiaeth Gymraeg, ac yn benodol at bwysigrwydd awduron megis Janes Edwards, a oedd yn rhoi llais i straeon menywod y cyfnod.[200]

Yn ogystal â hyn, ac er bod y gweithiau uchod yn ymddangos ychydig cyn cyfnod cyhoeddi llenyddiaeth yr astudiaeth,[201] archwiliodd Delyth George safle a gweithiau Kate Roberts yn unol â'r dadansoddiad benywaidd. Yn wir, mae Roberts wedi bod ar flaen y trafodaethau ffeministaidd ar hyd ei gyrfa a hynny, yn aml, oherwydd ei chymeriadau benywaidd cryf a rhagweithiol.[202] Meddai George amdani:

> Nid yw merched Kate Roberts yn amlygu unrhyw feddalwch emosiynol; y maent yn rhyfeddol o annibynnol a hunangynhaliol, nes gwrthod ymddiried eu calon yn ormodol i'r un dyn.[203]

Dadansoddir agweddau ffeministaidd Kate Roberts yn fanylach yn y penodau dilynol wrth inni asesu eu harwyddocâd o ran *TH* a bywyd personol yr awdur, ond rhaid ei chrybwyll yma yng nghanol ei chyd-lenorion benywaidd. Drwy hyn, dangosir amlder cyffroadau'r cyfnod mewn perthynas â llenyddiaeth fenywaidd a ffeministaidd.

---

[198] George, 'Llais Benywaidd y Nofel Gymraeg Gyfoes', t.372.
[199] Rees, *Y Llawes Goch a'r Faneg Wen*, t.60-61.
[200] Nia Angharad Watkins, 'Y Nofel Ddomestig Gymraeg dros dair cenhedlaeth, gyda sylw neilltuol i waith Moelona, Jane Edwards a Sonia Edwards', (PhD, Prifysgol Aberystwyth, 2008)
[201] Maent yn dal yn hynod o bwysig fel ffordd o olrhain newid a datblygiad llenyddiaeth Gymraeg gan fenywod sy'n arwain wedyn at gyfnod ein hastudiaeth.
[202] Gweler, er enghraifft, Delyth George, 'Kate Roberts – Ffeminist?', *Y Traethodydd* (Hydref 1985), 185-202; Katie Gramich, 'Gorchfygwyr a Chwiorydd' yn *Diffinio Dwy Lenyddiaeth Cymru,* gol. gan M. Wynn Thomas (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1995), tt.80-95; Katie Gramich, *Twentieth-Century Women's Writing in Wales: Land, Gender, Belonging* (Cardiff: University of Wales Press, 2007); Mair Rees, *Y Llawes Goch a'r Faneg Wen*; Glyn Jones, *'Kate Roberts – Y Ffeminist. Adnabod Menywod yn well'*, BBC Cymru: Llais Llên <http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/awdur/kate-roberts-ffem.shtml> [cyrchwyd 30 Mai 2017] ymhlith eraill.
[203] George, 'Llais Benywaidd y Nofel Gymraeg Gyfoes', t.374.

Disgrifiodd Katie Gramich y cyfnod megis ‘Awakening Place’ a nodi bod holl themâu, dadleuon a phryderon yr oes i’w gweld drwy lenyddiaeth fenywaidd Gymraeg mewn rhyw ffordd. Meddai:

> In a sense, Welsh women writers can be seen as trying to reinvent Wales as a place able to accommodate a new generation with different values and aspirations, and in which women played a central, rather than a helpmeet, role.[204]

Manteisiodd awduron benywaidd yng Nghymru, fel menywod ar draws y byd, ar y delweddau a’r safbwyntiau cyfoes a newydd hyn yn eu llenyddiaeth. Ac aethant ati i herio’r traddodiadau ar lwyfan creadigol. Wedi’r cyfan, fel y nododd Deirdre Beddoe,[205] roedd menywod yng Nghymru hefyd yn teimlo’r cyfyngu adweithiol ar eu byd a’u rôl wedi’r rhyfel. O ganlyniad, daeth yr anfodlonrwydd hwn yn sail i nifer o weithiau creadigol yr oes wrth i fenywod ddechrau deffro o’r diwedd.[206]

Ceir hefyd yn y Gymraeg nifer o drafodaethau theoretig a gweithiau seiciatryddol. Derbyniodd Freud sylw beirniadol, er enghraifft, yn ystod y pedwardegau gyda chyhoeddiadau Idwal Jones[207] ac E. Glyn Lewis[208] ac wedyn, llyfr Harri Pritchard Jones yn 1982.[209] Meddyliwn hefyd am waith Ernest Jones wrth iddo gael ei hyfforddi yn seiciatrydd ac yntau’n ddisgybl i Freud ei hun. Ysgrifennodd ef fywgraffiad ei athro, *The Life and Work of Sigmund Freud* a gyhoeddwyd mewn tair cyfrol rhwng 1953 a 1957 gan helpu lledaenu damcaniaethau Freudaidd i Gymru a’r Derynas Unedig. Ni allwn anghofio am R. M. Jones, sydd yng ngeiriau Eleri Hedd James yn un o’r ‘mwyaf blaengar a gwreiddiol o’n beirniaid llenyddol ac yn un o’r cyntaf i fentro i fyd (anffasiynol ar y pryd) theori lenyddol’.[210]

Heb os, ni allwn feddwl am faes seiciatreg yn y Gymraeg heb sôn am Gwilym O. Roberts, a oedd yn amlwg iawn yn ystod y chwedegau, ac mae ei waith yn darparu rhai o’r trafodaethau ar *Tywyll Heno*. Ond yn fwy diweddar byth, mae

---

[204] Gramich, *Twentieth-Century Women’s Writing in Wales,* t.138.
[205] Beddoe, *Out of the Shadows*.
[206] Am fwy o wybodaeth am astudiaethau ffeministaidd yn gyffredinol, dylid darllen Gramich, *Twentieth-Century Women’s Writing in Wales*; Rees, *Y Llawes Goch a’r Faneg Wen* yn eu cyfanrwydd.
[207] Idwal Jones, ‘Sigmund Freud,’ *Efrydiau Athronyddol*, cyf. 7 (1994), 39-56
[208] E. Glyn Lewis, ‘Freud a Llenyddiaeth,’ *Efrydiau Athronyddol,* cyf. 12 (1949), 16-28
[209] Harri Pritchard Jones, *Freud,* (Dinbych: Gwasg Gee, 1982).
[210] Eleri Hedd James, ‘R. M. Jones,’ *Porth Esboniadur* (2017), <https://wici.porth.ac.uk/index.php/Jones,_R._M._(Bobi)> [cyrchwyd 21 Rhagfyr 2018]

Llion Wigley[211] a Diarmait Mac Giolla Chriost[212] wedi mynd ati i roi sylw i'r gwrth-seiciatryddion canolog hyn yn y Gymraeg. Er na fydd eu gwaith yn allweddol i'r traethawd hwn, am mai gweithiau creadigol y chwedegau sydd dan sylw yma, mae eu trafodaethau cyfoes ond yn pwysleisio diddordeb y gynulleidfa Gymraeg fodern mewn materion pwysig o'r fath.

Fel yr amlyga'r gweithiau ffeministaidd, theoretig a seiciatryddol hyn, roedd Cymru wedi ei dal yng ngwyntoedd croes y cyfnod. Yn unol â natur chwilfrydig yr oes, rhoddwyd pwyslais mawr ar archwilio a thrawsffurfio. Gwelwyd yng Nghymru – fel mewn gwledydd eraill – ddiddordeb newydd mewn dirfodaeth, theori athronyddol sy'n ymwneud yn bennaf â darganfod ystyr bywyd a'r rheswm dros ein bodolaeth. Dyma'n wir thema fawr dramâu Saunders Lewis megis *Siwan* (1956), *Esther* (1960), *Yn y Trên,* (1965) a *Cymru Fydd* (1967).[213]

Ni fwriedir rhoi gormod o sylw i'r athroniaeth hon yn yr adran dan sylw, gan fod Pennod 4.5 yn ei dadansoddi'n fanwl yng nghyd-destun y testunau craidd. Ond gallwn yn fras nodi bod dirfodaeth yn rhoi pwys ar holi, herio a chwilio, wrth i'r unigolyn geisio dod o hyd i'w le yn y byd ansefydlog hwn. O ganlyniad, gofynnir cwestiynau megis beth yw pwrpas bywyd. Beth yw ein perthynas â'r byd? A pham ein bod yn bodoli?[214] Fel yr holodd Waldo yn ei gerdd 'Cwmwl Haf', 'Pwy yw hwn?'[215] Ymhelaetha Richard Gravil:

> Existentialism is 'the philosophy of existence', as opposed to those kinds of philosophy which are concerned with a realm of permanent 'realities' above and beyond this world of unstable 'appearances' or are restricted to what one can be logically positive about. To Descartes' famous declaration, 'I think therefore I am', the Existentialists reply, in a variety of voices, 'I think therefore I think: but whether I exist is another matter altogether'; 'I rebel, therefore we exist'; 'I am, therefore I think'. They assert, in contradistinction to a purely rationalist view of man, the themes of human being, and human freedom, and human action. The briefest

211 Llion Wigley, 'J.R. Jones a Gwilym O. Roberts: Dau o Ddeallusion y 60au Mewn Cyd-destun Rhyngwladol', *Y Traethodydd,* cyf. 168 (Ionawr 2013), 40-57; Llion Wigley, '"O ryfedd ryw": Merfyn Turner, 1915-1991, Yr Arloeswyr Anghofiedig', *Y Traethodydd,* 170.175 (Hydref 2015), 220-238; Llion Wigley, 'Plymio i'r Dyfnderoedd: Ymatebion Cynnar i Syniadau Sigmund Freud a'r "Feddyleg Newydd" yn yr Iaith Gymraeg c.1918-1945', yn *Ysgrifau Beirniadol XXXVI,* gol. gan Angharad Price (Dinbych: Gwasg Gee, 2016), tt.89-112.

212 Rhoddwyd sylw i waith Laing yng nghyd-destun ysgrifennu Cymraeg yn Diarmait Mac Giolla Chriost, *Welsh Writing, Political Action and Incarceration: Branwen's Starling* (Basingstoke: Palgrave Macmillan, 2013).

213 Gweler Ioan Williams, *Dramâu Saunders Lewis: Y Casgliad Cyflawn: Cyfrol 1* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1996), Ioan Williams, *Dramâu Saunders Lewis: Y Casgliad Cyflawn: Cyfrol 2* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2000)

214 Richard Gravil, *Existentialism: Philosophy Insights* (Tirril: Humanities Ebooks, 2007), t. 7.

215 Waldo Williams, 'Cwmwl Haf', yn *Dail Pren* (Aberystwyth, Gwasg Aberystwyth, 1956), tt.48-71.

> summary of Existentialism is Sartre's phrase 'existence precedes essence'. You are what you do.[216]

Ac felly, bron ugain mlynedd ar ôl i'r athronydd Ffrengig Gabriel Marcel fathu'r term 'dirfodaeth' gan ddilyn syniadau Jean-Paul Sartre a Simone de Beauvoir [217] ac yn unol â meddylfryd yr oes, ymddangosodd yng Nghymru drafodaethau a dadansoddiadau ar y math hwn o athroniaeth. Yn 1964, er enghraifft, cyhoeddwyd ymdriniaeth J. R. Jones ar yr hyn y dewisodd ei henwi yn 'Yr Argyfwng Gwacter Ystyr'. Pamffled athronyddol arloesol ydoedd a thrwyddo, trafodwyd prif theorïau a damcaniaethau dirfodaeth o fewn cyd-destun Cymraeg a Chymreig. Wrth olrhain gwreiddiau'r gymdeithas fodern, priodola prif nodweddion ein hoes i'r mudiad Protestannaidd. Yn ei farn ef, prif nodweddion y gymdeithas hon oedd meddwl rhydd a natur gywrain. Dywed amdani:

> Beth a wnaeth y fath chwyldro sylfaenol yn bosibl? Heb unrhyw amheuaeth, mi dybiwn i mae'r ysbryd rhyddymofynnol, beirniadol – pennaf cynnyrch diwylliannol y 'brotest' Brotestannaidd. Hwn a ddaeth yn brif gyfrwng rhyddhad a rhyddfreiniad y meddwl modern. Rhoes inni ein dysg wyddonol fodern a'r feistrolaeth dechnegol orchestol a ddaeth inni drwyddi, ac fe roes inni, ar lwybr arall, sefydliadau a delfrydau ein cymdeithas ryddfreiniol, ddemocratig fodern.[218]

Er bod y math hwn o feddwl wedi cyfrannu at ddatblygiad y byd modern fel y gwyddom heddiw, â J. R. Jones ymlaen i ddadlau ei fod wedi dinistrio cymdeithas hefyd i ryw raddau:

> Y mae ysbryd y rhyddymofyn beirniadol wedi rhoi inni wareiddiad y gwelwn ynddo'r nodweddion hyn: (1) y mae'n gyffredinol neu fyd-eang ac yn rhydd, hynny yw, yn benagored a diganolfuriau, ond, am yr union resymau hyn, yn ddibris o'r anghenraid i ddiogelu gwreiddiad yr unigolyn mewn gwahanol gylchoedd o wahanrwydd organaidd; (2) o ran ei wybodaeth wyddonol, y mae'n wareiddiad syfrdanol hyddysg ond, ar lefel y meddwl poblogaidd, yn wyddonol hygoelus ac eilunaddolgar yr un pryd; (3) y mae'n wareiddiad mawr ei orchestion technolegol, ond, drwy'r cwbl, yn prysur fynd yn ddiwylliannol ddiwreiddiau ac, o ganlyniad, yn ddiwylliannol unffurf a bas. Dyma bellach gynnyrch rhyddfreiniad y rheswm beirniadol, rhyddymofynnol, a chredaf fi ei bod yn dod yn ddigon amlwg inni dalu pris rhy uchel am ei ryddhau. [219]

Yn ôl yr athronydd felly, nid oedd y gymdeithas gyfoes bellach yn poeni am ddechreuad na diwedd dyn. A gwelwyd newid enfawr ym meddylfryd a thraddodiad y gymdeithas Gymreig a Chymraeg. Nid amcan yr adran hon yw dadansoddi cymhlethdodau'r theori hon, ond ystyried yn hytrach, gyflwr Cymru yn ystod cyfnod

---

216 Gravil, *Existentialism: Philosophy Insights*, t.7.
217 David E. Cooper, *Existentialism: A Reconstruction*, ail argraffiad (Oxford: Blackwell, 1999), t.1 Dadansoddir hanes gwreiddiau'r theori ym Mhennod 5.5.
218 J. R. Jones, *Yr Argyfwng Gwacter Ystyr* (Llandybie: Llyfrau'r Dryw, 1964), t.3.
219 Ibid., tt.3-4.

dylanwadol y chwedegau. Wedi'r cyfan, mae dirfodaeth yn ffurfio rhan ganolog o *Tywyll Heno.* A chyda dealltwriaeth gyd-destunol a chymdeithasol o'r cyfnod, yn ogystal â'r prif symudiadau o fewn Cymru, gellir dechrau ehangu maes ymchwil y testunau dan sylw wrth inni agor trafodaethau rhyngddisgyblaethol.

## 2.5 Diweddglo

Yn wyneb hyn oll, seilir yr astudiaeth hon yng nghanol ac ar brif symudiadau'r blynyddoedd wedi'r Ail Ryfel Byd. Nid ymdriniaeth hanesyddol mohoni, ond yn wyneb cyfnod cyfnewidiol yr astudiaeth, hanfodol oedd y bennod gyflwyniadol a chyd-destunol hon, fel y gallwn osod y llenyddiaeth graidd yng nghyd-destun mudiadau a damcaniaethau poblogaidd yr oes. Dibynna'r testunau llenyddol ar wybodaeth am y digwyddiadau hyn a hebddi, gellir dadlau bod y darllenydd yn colli rhan o ystyr y gweithiau. Heb amheuaeth, roedd yn gyfnod arloesol o newid aruthrol lle y gallai rhinweddau megis unigoliaeth, dewrder a chreadigrwydd ffynnu'n iach. Meddai Dan Joy am obeithion y genhedlaeth:

> Countercultures seek primarily to live with as much freedom from constraints on individual creative will as possible, wherever and however it is possible to do so. And when people exercise this kind of freedom with commitment and vigour, they unblock the light so that subsequent generations may bask in its glow.[220]

O ystyried hyn, deuwn at swyddogaeth bosib yr awduron dan sylw. Trwy eu gweithiau a'u cymeriadau amrywiol, roeddent am geisio mynd i'r afael â phroblemau a thrafodaethau'r oes mewn modd creadigol. Wrth iddynt ddefnyddio eu rhyddiaith megis llwyfan i bynciau llosg y cyfnod, cyflwynwyd, yn unol â dyfyniad Joy, fewnwelediadau a dealltwriaeth newydd i'r cenedlaethau o ddarllenwyr a fyddai'n trin a thrafod eu llenyddiaeth am flynyddoedd. Yng ngolau hyn i gyd, eir ati yn awr yng ngweddill yr astudiaeth i ddadansoddi'r gweithiau craidd, gan ddefnyddio'r cyfnod wedi'r rhyfel yn chwyddwydr i graffu ar ddelweddau'r testunau a geir.

---

[220] Goffman a Joy, *Counterculture through the Ages: From Abraham to Acid House,* tt.xv-xxiii.

# PENNOD 3
## Cefndir a Chymhellion yr Awduron

Wrth drafod ymateb yr artist i gyffroadau'r ugeinfed ganrif yng Nghymru, eglurodd John Rowlands fod tuedd i awduron y ganrif honno ddefnyddio llenyddiaeth megis arf ym mrwydrau gwleidyddol a chenedlaetholgar yr oes.[221] Wrth gwrs, roedd nifer o lenorion amlwg hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif, gan gynnwys Saunders Lewis, D. J. Williams a Kate Roberts yn rhan o'r mudiad cenedlaetholgar newydd, ac yn sgil protest Penyberth yn 1936, denwyd rhamantydd megis R. Williams Parry hyd yn oed i ymateb i'r frwydr genedlaethol. Ys dywedodd R. M. Jones: 'newidiodd Bardd yr Haf yn Fardd y Gaeaf', a chafodd Penyberth 'ddylanwad uniongyrchol ar bob llenor o bwys a gododd ar ôl y dyddiad hwnnw'.[222] Ond fel y nodwyd yn yr adolygiad llenyddol, symudodd ffocws awduron ail hanner y ganrif i'r brwydrau mewnol. Cyfeiriwn eto at ddyfyniad John Rowlands: 'Yn lle nofelau mawr cymdeithasol a phanoramig y ganrif ddiwethaf cawsom nofelau sy'n canolbwyntio, nid ar ddigwyddiadau dramatig, ond ar haenau lluosog personoliaeth ychydig o gymeriadau'[223] Yn lle arfau rhyfel a gwleidyddiaeth, defnyddiwyd yn hytrach nofelau, dramâu a barddoniaeth i archwilio profiadau teimladol mewnol dyn.[224] Fel y nododd R. M. Jones, 'symudodd Kate Roberts nid yn unig o Arfon i Ddinbych ond hefyd, i raddau, o'r allanol i'r mewnol, o dlodi materol i ymgiprys seicolegol'.[225]

Cyn camu at ddadansoddi'r testunau craidd drwy lygaid a phrofiadau'r cymeriadau, canolbwyntia'r bennod hon ar stori'r awduron eu hunain. A hwythau'n cuddio dan ochel eu cymheiriaid llenyddol, eir ati i ystyried pwrpas ehangach eu llenyddiaeth naill ai fel mecanwaith ymdopi personol a therapi seicolegol neu hyd yn oed fel catalydd ym mrwydr wrth-seiciatryddol y cyfnod. Ys dywedodd Anne Hudson Jones am bwrpas posibl nofelau seicolegol eu naws:

> The desire to make sense of what has happened to them, the wish to reform abuses in the treatment of the mentally ill, and the hope of helping other patients and their

---

[221] Rowlands, 'Tywyll Heno' yn *Kate Roberts: Ei Meddwl a'i Gwaith*, t.80.
[222] Jones, 'Cyfnodi' yn *Llenyddiaeth Gymraeg 1936-1972*, *t.* 2.
[223] Rowlands, 'Tywyll Heno' yn *Kate Roberts: Ei Meddwl a'i Gwaith*, t.80.
[224] Gweler hefyd astudiaethau megis: M. Keith Booker, 'The Dystopian Impulse in Modern Literature: Fiction as Social Criticism',*Utopian Studies,* 6.2 (1995), 147-149; Fathali M. Moghaddam, 'From 'Psychology in Literature' to 'Psychology is Literature', *Theory & Psychology,* 14.4 (2004), 505-525. Ond awgrymodd Alan Llwyd hefyd fod gwallgofrwydd, iselder a salwch meddwl i gyd yn themâu cyffredin mewn nofelau a barddoniaeth wedi'r rhyfel. Gweler Llwyd, *Rhyfel a Gwrthryfel: Brwydr Moderniaeth a Beirdd Modern,* tt.186-289.
[225] Jones, 'Cyfnodi' yn *Llenyddiaeth Gymraeg 1936-1972*, *t.* 2.

> families have been powerful motivations for the hundreds of patients who have written about their experiences of mental illness.[226]

Yn wir, disgrifia Anne Hudson Jones y llenorion megis ‘cleifion’ yn y cyd-destun hwn ac er mai cleifion *yw’r* cymeriadau ffuglennol, fel y gwelwn drwy’r gweithiau amrywiol, nid dyna’r achos bob tro o ran yr awdur. Yr hyn sy’n amlwg yw awydd y llenorion i ehangu eu dealltwriaeth eu hunain yn ogystal ag amgyffrediad y darllenwr o’r profiad seicolegol. Trawiadol hefyd yw’r darluniau cignoeth a gonest yn y testunau. Fel y dywedodd Corinne Saunders a Jane Macnaughton: ‘the darkness and disorder of the mind offers writers subjects of enduring interest precisely for their dreadful satisfaction. They provide some of the most powerful images of social disorder and of individual disintegration.’[227]

A chan gadw’r swyddogaeth ddeublyg hon yn y meddwl, dadansoddwn, yn gyntaf, gefndir a chymhellion personol y llenorion hyn gan ddangos sut y mae deall y cyd-destun yn ffordd o daflu goleuni ar ystyr ddyfnach y testunau. Yn ail, edrychwn ar bwysigrwydd llenyddiaeth ym mywydau’r cymeriadau dan sylw a’u hawduron, a gweld sut y gall llenyddiaeth weithredu’n borth i’r byd meddygol.

* * *

Ar 15 Mai 1954, anfonodd Caradog Prichard lythyr at Kate Roberts yn trafod dechreuadau nofel newydd. Y nofel honno oedd *Un Nos Ola Leuad.* Meddai amdani: ‘Y syniad tu ôl iddi yw myfyrdod brodor wedi dychwelyd i’w fro ac yn ail-fyw ei blentyndod mewn un daith o ychydig oriau ar noson olau leuad yr hen fro’.[228] Yng ngeiriau Caradog Prichard, dechreuasai’i hysgrifennu ‘ryw ddau aea’n ôl a’i gado heb ei gorffen’.[229] Ond pam roedd yn dychwelyd at y gwaith hwn yn awr yn benodol ar ôl ei adael am gyfnod mor hir? Rhaid sylwi, fel y nododd Menna Baines a Mihangel Morgan, ar ddyddiad y llythyr.[230] Bythefnos ynghynt, bu farw Margaret Jane Prichard, mam Caradog Prichard, yn yr ysbyty meddwl yn Ninbych ar ôl treulio dros 30 mlynedd o’i bywyd yno.

[226] Anne Hudson Jones, ‘Literature and Medicine: Narratives of Mental Illness’, *The Lancet,* 350 (Awst 2 1997), 359-361. Mae’r erthygl hon hefyd yn ddefnyddiol fel enghraifft o ymdriniaeth lenyddol o’r gweithiau poblogaidd sy’n defnyddio salwch meddwl fel elfen.
[227] Corinne Saunders a Jane Macnaughton, *Madness and Creativity in Literature and Culture,* gol. gan, Corinne Saunders a Jane Macnaughton (New York: Palgrave Macmillan, 2005), t.1.
[228] Dyfynnwyd yn Morgan, *Llên y Llenor: Caradog Prichard,* t.23.
[229] Ibid.
[230] Baines, *Yng Ngolau’r Lleuad,* t.88.

Yng ngolau hyn, ac er iddo ddelio â salwch meddwl ei fam drwy gydol ei fywyd a'i yrfa bron,[231] ymddengys ei fod yn dal yn cael trafferth i ddod i delerau â chanlyniadau ehangach ei dirywiad seicolegol, ac yn awr, ei marwolaeth. Wedi ystyried sbardun ac ysbrydoliaeth lenyddol newydd y llenor, gellir tybio, fel yr awgrymodd Menna Baines, fod Caradog Prichard yn ceisio '[g]wneud rhyw fath o synnwyr o'r profiad alaethus a oedd newydd ddod i'w ran'.[232] Nid yw'r cysylltiad rhwng bywyd Caradog Prichard a'i weithiau yn un newydd o bell ffordd. Dadansoddodd sawl beirniad ei farddoniaeth a'i nofel yng ngoleuni ei brofiadau personol dros y blynyddoedd.[233] Ond fel y nododd Dafydd Glyn Jones, cwyd gweithiau Caradog Prichard mor uniongyrchol o'i fywyd go iawn, fel mai cwbl amhosib fyddai ceisio trafod ei farddoniaeth a'i ryddiaith heb gyfeirio at ei stori bersonol ac amgylchiadau ei fywyd.[234] Yn wyneb hyn, eir ati yn awr i ddarllen *UNOL* drwy brofiadau a theimladau personol ei hawdur. O ganlyniad, awgrymir dimensiwn arall i'r delweddau y byddwn yn eu dadansoddi yn y penodau canlynol.

Er y disgrifia Caradog Prichard ei nofel ei hun megis 'darlun aneglur, wedi ei ystumio gan amser a dychymyg',[235] nid yw'n anodd gweld y cyfatebiaethau hunangofiannol yn rhedeg drwyddi sy'n darparu sail i'r digwyddiadau, delweddau a chymeriadau amrywiol. Dienw yw'r Pentra yn *UNOL,* er enghraifft, ond hawdd hefyd fyddai'i ddisgrifio fel cymdeithas Dyffryn Ogwen, sef cymuned plentyndod yr awdur. Oherwydd hyn, ac fel y mae Ernest Roberts, un arall o Fethesda, hefyd yn ei gydnabod, ceir tebygrwydd amlwg rhwng rhai o gymeriadau Caradog Prichard a thrigolion byw'r gymuned. Ymhlith y bobl hyn y mae Preis Sgŵl, Canon, Yncl Jack feddw, brawd mam Caradog Prichard a Joni Sowth.[236]

Ymddengys hefyd fod sail wirioneddol i ddigwyddiadau amrywiol y nofel. Gwelwn, er enghraifft, adlais o'r gêm bêl-droed ym mywyd yr awdur ynghyd â merch yn cael ei thaflu allan o'r cymun am ymddygiad anfoesol. Mwy arwyddocaol

---

[231] Dadansoddwyd yn yr adolygiad llenyddol, er enghraifft, fod gwallgofrwydd mam Caradog Prichard yn ffurfio rhan ganolog o'r pryddestau eisteddfodol. Gweler tt.12-13.
[232] Baines, *Yng Ngolau'r Lleuad*, t.89.
[233] Gweler astudiaethau megis Menna Baines, *Yng Ngolau'r Lleuad*; Alan Llwyd, '"Gwallgofrwydd Arglwyddes Hardd": Pryddestau Eisteddfodol Caradog Prichard: 1927-1939' yn Alan Llwyd, *Rhyfel a Gwrthryfel: Brwydr Moderniaeth a Beirdd Modern* (Llandybïe: Gwasg Dinefwr & Cyhoeddiadau Barddas, 2003) tt.186-291; Emyr Llywelyn, 'Un Nos Ola Leuad: Em – y Doppelganger,' *Faner Newydd,* 3 (Gwanwyn 1997), 18-19 a J. Elwyn, Hughes, *Byd Go Iawn Un Nos Ola Leuad* (Llandybïe: Cyhoeddiadau Barddas, 2008).
[234] Dafydd Glyn Jones, 'Caradog Prichard' yn *Dyrnaid o Awduron Cyfoes*, gol. gan D. Ben Rees (Pontypridd a Lerpwl: Cyhoeddiadau Modern Cymreig, 1975), t.198.
[235] Caradog Prichard, *Afal Drwg Adda* (Dinbych: Gwasg Gee, 1973), t.16.
[236] Gweler Baines, *Yng Ngolau'r Lleuad*, t.93.

fyth yw'r olygfa lle y mae Catrin Jên yn wylo yn y stryd ar ôl methu â thalu'i rhent gan ddwyn i gof brofiad tebyg a gafodd mam y llenor. Portreedir drwy'r olygfa hon iechyd meddwl dirywiol Catrin Jên. Wrth ystyried y dylanwad personol, awgrymir hefyd salwch meddwl go iawn ei fam. Yn fwy na'r cyfatebiaethau daearyddol a hunangofiannol amlwg,[237] canolbwyntiwn yma ar y delweddau seicolegol, yn enwedig o ran profiad emosiynol y fam a'r mab.

Traethir *UNOL* gan adroddwr dienw ac, o ganlyniad, teg yw dweud mai stori ei chwalfa ef yw hon. Ond yn ogystal â hyn, gellir awgrymu mai stori gathartig Caradog Prichard ydyw mewn gwirionedd. Trwy'r iaith blentynnaidd a'r llinell naratifol ansicr – ac ymhelaethir ar y dechneg hon ym Mhennod 4.4 – awgrymir peth o annealltwriaeth y llenor am gyflwr ei fam. Meddai Mihangel Morgan am y naratif:

> Plyg yn ôl arni hi'i hun dro ar ôl tro, try mewn cylchoedd, ffrwydra gwreichion o storïau bach o un cnewyllyn sy'n mudlosgi drwy'r amser... Mae'r awyrgylch symudol hwn dan reolaeth meistr sydd wedi'i lunio fel pos mathemategol neu ddrysfa neu labrinth.[238]

Ni cheir yn y nofel hon naratif hylif a thraethiadol. O ganlyniad, cyflwynir y labrinth o dryblith sydd wedi blino meddwl Caradog Prichard yng ngolau salwch meddwl a marwolaeth ei fam am flynyddoedd. Drwy bersbectif ei adroddwr, mae modd dweud bod yr awdur yn gallu archwilio rhai o'r emosiynau mwyaf ingol a hydeiml a ddaeth yn sgil y profiad hwn. Ys dywedodd Menna Baines: '[ymddengys] fod yr awdur trwy hynny'n cyfleu rhywfaint ar ei ddiffyg dealltwriaeth ef ei hun o'r profiad a gafodd'.[239] O ganlyniad i'r llais anaeddfed a naïf a geir yn y nofel, rhoddwyd llwyfan i bryderon Caradog Prichard yn ogystal â'r dryswch dynol cyffredinol sy'n amgylchu gwallgofrwydd. Ac wrth ofyn cwestiynau megis, 'Pam ma pobol yn mynd o'u coua dywad?' (t.153) a lleisio gobeithion megis, 'mi awn ni i weld y doctor a mi fydd pob peth yn iawn' (t.170) a hyn oll o safbwynt plentyn, tynnir y llen ar amheuaeth ac optimistiaeth ddall Caradog Prichard yr oedolyn.

Er y dadelfennir teimladau'r prif gymeriad – a'r awdur – drwy'r holl nofel, o ganlyniad i naratif y person cyntaf, darpara'r olygfa ofidus tua diwedd y stori ar ôl i'r bachgen weld ei fam yn cael ei hanfon i'r Seilam, rai o'r delweddau mwyaf cofiadwy a theimladol. Ystyrier y canlynol:

---

[237] Unwaith eto, dylid darllen Hughes, *Byd Go Iawn Un Nos Ola Leuad*, am ddadansoddiadau manylach.
[238] Morgan, *Llên y Llenor: Caradog Prichard*, t.31.
[239] Baines, *Yng Ngolau'r Lleuad*, t.97.

> A wedyn dyma fi'n dechra crio. Nid crio run fath â byddwn i erstalwm ar ôl syrthio a brifo; na chwaith run fath â byddwn i'n crio mewn amball i gnebrwng; na chwaith run fath ag oeddwn i pan aeth Mam adra a ngadael i yn gwely Guto yn Bwlch erstalwm.
> Ond crio run fath â taflyd i fyny.
> Crio heb falio dim byd pwy oedd yn sbïo arnaf fi.
> Crio run fath â tasa'r byd ar ben. (t.173)

Trwy'r disgrifiad uchod, pwysleisir poen, galar, a gofid rhywun sydd newydd golli ei gefnogaeth deuluol a hynny mewn modd cwbl gredadwy. Yng ngolau'r ffrwydrad emosiynol, mae fel petai'r darllenydd yn gallu teimlo unigrwydd y bachgen wrth i ddrysau'r ysbyty meddwl gau am ei fam am byth – syniad y mae Mihangel Morgan hefyd yn ei drafod.[240] O ystyried hyn, fel y nododd Menna Baines: 'mae rhyw hygrededd annisgwyl i bob gweledigaeth, pob dyhead, pob chwiw a fynegir. Mae'n sicr mai un o'r prif resymau am hynny yw bod y cyfan wedi tarddu o brofiad personol.'[241] Codi o brofiad a theimladau cudd personol Caradog Prichard y mae'r delweddau hyn yn ôl Menna Baines. Oherwydd hyn cyfoethogir, nid yn unig y nofel yn ei chyfanrwydd fel darn o lenyddiaeth greadigol, ond hefyd lwyddiant y portread seicolegol.

Wedi ein harfogi â'r wybodaeth gefndirol am Caradog Prichard, teg yw dweud mai math o gatharsis oedd ysgrifennu *UNOL* i'r llenor.[242] Tyn Angharad Tomos sylw at yr agwedd gathartig yn ei hadolygiad o argraffiad diweddar y nofel,[243] ac yn *Y Faner Newydd*, sonnir am ymgais Caradog Prichard i wella'i enaid a'i isymwybod drwy'i ryddiaith ddeongliadol.[244] Wrth iddo ail-fyw'r teimladau a'r brwydrau mewnol ynghylch salwch ei fam a symud o'r goddrychol i'r gwrthrychol drwy atgofion ei brif gymeriad – ac mae'n rhaid cofio nad hunangofiant mo hwn, er gwaethaf yr elfennau hunangofiannol cryf a nodwyd yn gynt – tybiwn fod Caradog Prichard wedi elwa'n emosiynol ac yn seicolegol o'r broses hon.

Ys dywedodd Mihangel Morgan: 'yr hyn a achosodd y briw (hynny yw *The Wound*, chwedl Norman Mailer), sef yr awydd i ysgrifennu yn Caradog Prichard,

---

[240] Morgan, *Llên y Llenor: Caradog Prichard*, t.7.
[241] Baines, *Yng Ngolau'r Lleuad*, t.253.
[242] Cyfeiria Emyr Llywelyn at hyn hefyd yn Emyr Llywelyn, 'Un Nos Ola Leuad: Em – y Doppelganger', *Faner Newydd*, 3 (Gwanwyn 1997), 18-19.
[243] Angharad Tomos, 'Translation Review: Caradog Prichard, One Moonlit Night / Un Nos Ola Leuad', *Translation Review*, 58.1 (1999), 62-66 (t.63).
[244] Awdur Anhysbys, 'Trafod *Un Nos Ola Leuad,'* Y Faner Newydd, Archifau'r we, <http://archif.rhwyd.org/fanernewydd/unnos.htm> [cyrchwyd 30 Ebrill 2018]

oedd y profiad dirdynnol o weld ei fam yn suddo dan orthrwm cyni ac unigrwydd'.[245] Yn yr un modd, dywedwyd: 'almost all her son's best creative work, with its recurrent themes of madness and suicide was a direct response to the harrowing experience of being a helpless onlooker in this tragic turn of events'.[246] Mae'n ddiddorol nodi na fu i'r awdur ddychwelyd at thema gwallgofrwydd ei fam yn ei waith creadigol ar ôl cyhoeddi *UNOL.* Ac er nad awgrymwn fod ysgrifennu'r nofel wedi datrys brwydr seicolegol Caradog Prichard o bell ffordd – 'Language exists less to record the actual than to liberate the imagination',[247]– rhoddir sail i bosibilrwydd elfen ryddhaol llenydda yn achos yr awdur hwn.[248]

Yn ogystal â dadansoddi effeithiau salwch meddwl ei fam a'i anallu i ddeall yr holl brofiad, roedd Caradog Prichard hefyd yn ymchwilio'n ddyfnach i'w ofnau seicolegol personol ei hun. Gwyddys fod y llenor hefyd yn brwydro â salwch meddwl yn ystod ei fywyd.[249] A thrwy dynged prif gymeriad ei nofel, rhy lais i'r gofidion hyn ynghylch ei ystâd meddyliol. Fel y nododd Menna Baines ac Alan Llwyd, pryderai Caradog Prichard yn aml fod gwallgofrwydd ei fam yn gyflwr y byddai yn ei etifeddu rywbryd yn ystod ei fywyd. Rhoddir sylw i'r ofn hwn yn y bryddest 'Y Gân Ni Chanwyd', wrth i Alan Llwyd egluro prif linyn y gerdd a phrif bryder yr awdur – 'os oedd y fam yn glaf ei meddwl, gallai'r mab hefyd fod yn dioddef o'r un afiechyd. Os oedd yr Anwylyd yn ddolurus ac yn ddrylliedig, felly hefyd ei phlant.'[250] Cadarnhau'r gofid hwn a wna Caradog Prichard yn *UNOL.*

Er mai nofel sy'n croniclo dirywiad meddyliol y fam o safbwynt y mab ydyw, mae ynddi hefyd gofnod o chwalfa seicolegol yr adroddwr ei hun. Gwelwn gliwiau bach am gyflwr meddyliol gwamal yr adroddwr drwy'r holl nofel. Ar ei diwedd, ar ôl gweld ei fam yn colli'i phwyll yn gyfan gwbl, cadarnheir ei ansefydlogrwydd seicolegol drwy ddwy weithred sobr. Yn gyntaf, ymddengys fod yr adroddwr yn lladd Jini Bach Pen Cae drwy ei mygu (a dadansoddir y digwyddiad hwn yn unol â damcaniaethau seicolegol amrywiol yn fanylach yn y penodau dilynol). Yn ail, awgrymir bod yr adroddwr ar fin cyflawni hunanladdiad gan foddi'i

[245] Morgan, *Llên y Llenor: Caradog Prichard,* t.16.
[246] Baines, Prichard & Mitchell, *Un Nos Ola Leuad: One Moonlit Night,* t.viii.
[247] Anthony Burgess, 'Introduction (The Best Short Stories of J.G. Ballard)' yn J. G. Ballard, *The Best Short Stories of J. G. Ballard* (New York: Holt, Rinehart & Wilson, 1978)
[248] Dychwelir at bwysigrwydd ysgrifennu a llenyddiaeth fel rhywbeth cathartig o ran profiadau'r cymeriadau ym Mhennod 4.6.
[249] Baines, *Yng Ngolau'r Lleuad,* t.257.
[250] Llwyd, *Rhyfel a Gwrthryfel: Brwydr Moderniaeth a Beirdd Modern*, t.265.

hun yn y llyn. Yn wir, mae hunanladdiad yn thema gyffredin iawn yng ngwaith Caradog Prichard. Mae'n ffurfio sail i'r bryddest 'Terfysgoedd Daear'. Priodolir adran gyfan iddo yn astudiaeth Menna Baines, ac meddai Dafydd Glyn Jones: 'wrth ystyried llenor fel Caradog Prichard, a roddodd le mor ganolog i hunanladdiad yn ei waith, gallai rhywun ymdroi yn hir iawn yng nghanol y llwythi o lyfrau sy'n ymdrin â'r pwnc o wahanol safbwyntiau mwy-neu-lai gwyddonol'.[251]

Nid oes rhaid inni ddarllen ond ychydig cyn gweld y thema hon yn y nofel, wrth i Yncl Now Moi grogi'i hun yn y tŷ bach ac i Wil Pen Pennog foddi'i hun ar ôl dysgu bod cancr arno. Ac o ddewis gorffen stori'r adroddwr ac yntau'n llawn meddyliau am hunanladdiad o flaen y Llyn Du,[252] gellir disgrifio'r holl nofel, fel y gwnaeth Menna Baines hefyd, fel math o daith neu baratoad at ei wallgofrwydd anochel.[253] Am y dyn sy'n sefyll ar fin y llyn, er enghraifft – delwedd sy'n hynod boblogaidd drwy ryddiaith a barddoniaeth Caradog Prichard gyda llaw – meddai Menna Baines: 'dyn rhwng dau fyd ydyw, y byd daearol hwn a'r byd arall a wêl yn y llyn, byd sydd fel petai'n ei ddenu i gymryd naid'.[254]

Portreadir y rhaniad hwn yn glir yn *UNOL* drwy gyflwr seicolegol yr adroddwr. Gan feddwl am ei berthynas agos â'i fam, nid yw'n syndod, wedi iddo golli'i gefn teuluol ac emosiynol, ei fod yn disgyn yn anobeithiol i wallgofrwydd. Drwy adlewyrchiad y dŵr hudol, mae fel petai'r adroddwr yn gallu gweld bywyd purach a hapusach. Gall glywed llais ei fam yn dod o'r Llyn, er enghraifft:

> Ew, peth rhyfadd fasa fo taswn i'n gweld Mam yn codi o'r Llyn rŵan a gweiddi: Tyrd yma rhen drychfil bach. Wedi bod yn gneud dryga hefo'r hen Huw yna eto. Mi weidda i, dest i edrach oes yna garrag ateb. Mam-a-a-m. Mam-a-a-m. Mam-a-a-m. Oes wir. (t.182)

Ac awgrymir, fel rhai o'i bryddestau,[255] fod hunanladdiad yn cynrychioli math o ddihangfa a rhyddid, nid yn unig rhag salwch meddwl, ond hefyd, rhag poenau a galar yr amser presennol.

Yn wyneb y llyn, gallwn weld dymuniadau'r adroddwr lle y mae rhyddid, hapusrwydd a diogelwch yn galw arno, nodweddion yr oedd Caradog Prichard ei hun

[251] Glyn Jones, 'Caradog Prichard', t.201.
[252] Ceir mwy o sylw i'r ddelwedd hon yn Emyr Llywelyn, 'Un Nos Ola Leuad – Brenhines y Llyn Du,' *Y Faner Newydd*, cyf. 4 (Haf 1997), 35-36 a dylid dychwelyd at yr ysgrif hwn wrth inni ddadansoddi pwysigrwydd delweddau ym Mhennod 5.4.
[253] Baines, *Yng Ngolau'r Lleuad*, t.112.
[254] Ibid., t.252.
[255] Dylid darllen yr adran 'Hunanladdiad a'r byd sydd â'i ben i lawr' yn Baines, *Yng Ngolau'r Lleuad*, tt.334-344.

hefyd am eu meddiannu. Yng ngolau hyn, ac wrth ystyried brwydrau personol, cymdeithasol a seicolegol y llenor, nid gormod dweud bod Caradog yr alltud hefyd eisiau dianc rhag pwysau'i fywyd.[256] Ond 'lle na allai Caradog ei hun ond llyfu'i friwiau',[257] chwedl Menna Baines, gall ei gymeriad ffuglennol weithredu. Trwy'i adroddwr, mae lle i dybio bod Caradog Prichard yn rhoi llais, nid yn unig i'w brofiadau ac ofnau personol, ond hefyd i'w frwydrau dyfnach a'r awydd i ddianc rhag holl bwysau chwalfa seicolegol ei fam. Ynghylch catharsis o'r fath, meddai Ryan Ruby:

> And so, Blanchot asks, "isn't death the achievement of freedom—that is, the richest moment of meaning?" Only to answer, "But it is also only the empty point in that freedom, a manifestation of the fact that such a freedom is still abstract, ideal (literary), that it is only poverty and platitude." This is the paradox that lies at the heart of both acts of suicide and acts of literature. Because of it, whatever the particular fates of individual writers, the two can never be wholly separated.[258]

Er na chyflawnodd Caradog Prichard fyth hunanladdiad, wrth i'r adroddwr geisio rhoi diwedd ar ei fywyd yn *UNOL,* gellir awgrymu bod yr awdur hefyd yn tawelu ei alar, ei euogrwydd a'i ofid drwy gyfrwng ei gymar llenyddol. Gwelwn, o ganlyniad, agwedd arall i'r elfen gathartig, sef tystiolaeth bellach o'r cyfatebiaethau sy'n clymu Caradog Prichard wrth ei brif gymeriad.

Yng ngolau'r holl ymdriniaethau dadansoddol a chymharol,[259] mae lle i ddadlau bod gwaith a bywyd yr awdur wedi eu cydblethu mor dynn fel mai anodd ydyw gwahaniaethu rhwng ffaith a dychymyg. Ni allwn ddiffinio'n hawdd y llinell rhwng y byd go iawn a'r un ddychmygus yn *UNOL.* Oherwydd hyn, anodd hefyd yw didoli rhwng Caradog yr awdur a Caradog yr awen.[260] Mae rhaid cadw'r ansicrwydd

---

[256] Fel yr adroddwr yn *Un Nos Ola Leuad,* ceir tystiolaeth sy'n awgrymu bod Caradog Prichard hefyd yn teimlo fel alltud yn ei fywyd personol; o ran ei fentrau gyrfaol a hefyd o ran ei hunaniaeth fel Cymro a oedd yn byw yn London. Ac wrth ystyried hyn, mae modd darllen ei nofel fel enghraifft o ymgais yr awdur i ddod o hyd i'w wreiddiau unwaith eto. Meddai Menna Baines: 'Nid nofel am alltudiaeth fel y cyfryw yw *Un Nos Ola Leuad,* ac eto gellir dadlau ei bod yn nofel y mae a wnelo hi bopeth ag alltudiaeth ei hawdur. Nofel am ddyn yn mynd yn ôl at ei wreiddiau wedi cyfnod i ffwrdd yw hi, wedi'r cwbl, ac yn ceisio rhoi trefn yn ei feddwl ar y thryblith profiadau a gafodd yno.' Gweler Baines, *Yng Ngolau'r Lleuad,* t.240.

[257] Baines, *Yng Ngolau'r Lleuad,* t.100.

[258] Ryan Ruby, *Paradoxes: On Suicide and Literature*, The New Inquiry (13 Mai 2011), <https://thenewinquiry.com/paradoxes-on-suicide-and-literature/> [cyrchwyd 30 Ebrill 2018]

[259] Gweler troednodyn 223.

[260] Cynigodd Dafydd Glyn Jones mai 'rhywle rhwng y "tristwch oer, di-ddagrau" yna ar ddechrau "Y Briodas", a'r crio mawr "run fath â taflyd i fyny" yn agos at ddiwedd *Un Nos Ola Leuad,* y mae stori Caradog Prichard y llenor, debygaf i'. Gweler, Dafydd Glyn Jones, 'Caradog Prichard', t.221. Meddai Menna Baines hefyd: 'we are dealing with an author whose writings all seem to tread that elusive line between fact and fiction'. Gweler Menna Baines, Caradog Prichard & Philip Mitchell, *Un Nos Ola Leuad: One Moonlit Night,* t.viii.

hwnnw mewn cof wrth inni fynd ati i ddadansoddi'r delweddau amrywiol isod yn y penodau dilynol.

* * *

Awdur arall o'r un cyfnod sy'n archwilio thema hunanladdiad ac sydd ysywaeth yn enwog am ei gyflawni yw Sylvia Plath. Oherwydd hyn, cyfareddwyd beirniaid a darllenwyr fel ei gilydd wrth iddynt geisio dehongli gwaith yr awdur benywaidd yn unol â'i phrofiadau a'i galar personol.[261] Ceir tuedd i edrych ar farddoniaeth Sylvia Plath fel pe bai'n farddoniaeth gyffesol (*confessional poetry*).[262] Mae hyn oherwydd ei bod yn mynd i'r afael â'i phryderon ei hun ar lwyfan creadigol.[263] Trwy'r cerddi a gyhoeddwyd yn ystod hydref 1960 – cerddi a oedd yn ffurfio'r casgliad *The Colossus* – gwelwn themâu megis marwolaeth, galar yn wyneb marwolaeth ei thad, benyweidd-dra, patriarchaeth a dioddefaint yn eu ffurfiau amrywiol, wrth i'r awdur ddefnyddio ei barddoniaeth megis platfform i archwilio prosesau'r seice. Megis Caradog Prichard, o gofio bod y farddoniaeth yn darparu mewnwelediad hynod bwysig, gellir dadlau bod Sylvia Plath wedi gwneud y defnydd mwyaf uniongyrchol o'i chyflwr meddyliol alaethus yn ei nofel enwog, *The Bell Jar*. Ys dywedodd Luke Ferreter:

> Plath had clearly begun to work out some of the thoughts and feelings in "Tulips" and "I Am Vertical" that she would explore most thoroughly in *The Bell Jar*. "I am Vertical", as is often the case with Plath's poetry in comparison to her fiction, has a more metaphysical horizon than the immediate, personal experience described in the novel.[264]

Defnyddia sawl beirniad, gan gynnwys Tomasz Fisiak, Mahrukh Baig a Susan J. Behrens y term 'hunan arall' (*alter-ego*) wrth ddisgrifio Sylvia Plath a'i phrif gymeriad Esther Greenwood.[265] Gan ein hatgoffa o eiriau Dafydd Glyn Jones

---

[261] Deuwn at y gweithiau cefnogol wrth i'r bennod hon ddatblygu.

[262] Term a welir yn Jo Gill, *The Cambridge Introduction to Sylvia Plath* (Cambridge: Cambridge University Press, 2008), t.116.

[263] Am ddadansoddiadau sy'n archwilio agwedd hon barddoniaeth Plath, gweler Sylvia Carol Allen, 'Sylvia Plath: A Study of Confessional Poetry' (Traethawd MA, Texas University, El Paso, 1967); M.D. Uroff, 'Sylvia Plath and Confessional Poetry: A Reconsideration,' *Iowa Review,* 8.1 (1977), 104-115; Cory Michelle Aube, 'Through the Waves: Images of the Self in the Confessional Poetry of Sylvia Plath, Anne Sexton, Sharon Olds a Kim Addonizo' (Traethawd MA, Emporia State University, 2010).

[264] Luke Ferretter, *Sylvia Plath's Fiction: A Critical Study* (Edinburgh: Edinburgh University Press, 2010), t.82. Mae'r astudiaeth hon yn ddefnyddiol hefyd fel enghraifft o waith sy'n dadansoddi ei nofel ochr yn ochr â'i barddoniaeth.

[265] Tomasz Fisiak, 'Feminist Auto/Biography as a Means of Empowering Women: A Case Study of Sylvia Plath's 'The Bell Jar' and Janet Frame's 'Faces in Water', *Text Matters,* 1.1 (2011), 183-197;

am Caradog Prichard,[266] meddai Eileen M. Aird: 'Sylvia Plath's background and experience are of particular importance to our understanding of the work, much of which relies on some biographical knowledge'.[267]Ac wrth inni ystyried yr elfennau hunangofiannol, yn ogystal â'r cyfatebiaethau emosiynol, ymhelaethir ar y gymhariaeth hon.

O ran tebygrwydd academaidd a gyrfaol, gweithiodd Sylvia Plath hefyd yn Efrog Newydd ar y cylchgrawn *Mademoiselle,* yn ystod haf 1953. Gan adlewyrchu methiant Esther Greenwood – ac mae'n ddiddorol nodi bod Sylvia Plath yn dewis defnyddio enw morwynol ei nain yn gyfenw ar ei phrif gymeriad – i gael lle ar gwrs ysgrifennu, gwrthodwyd lle iddi hefyd ar gwrs Frank O'Connor ar y stori fer. Tynnodd beirniaid megis Wagner-Martin sylw at debygrwydd agos rhai o'r cymeriadau benywaidd y nofel a'i bywyd, yn arbennig Mrs Greenwod.[268] Ond yn wyneb y digwyddiadau trasig sy'n amgylchu Sylvia Plath – a dychwelir at y rhain yn y man – mae'r rhan fwyaf o astudiaethau wedi astudio'r cyfatebiaethau emosiynol a seicolegol yn egnïol.

Yn debyg i Esther Greenwood, bu Sylvia Plath hefyd yn dioddef o salwch meddwl. Ond drwy'i gwaith llenyddol, gallai'r awdur archwilio rhai o'r emosiynau, pryderon a theimladau a oedd yn ei phoeni drwy gydol ei bywyd. Wrth drafod y nofel â'i mam, nododd yr awdur:

> What I've done is to throw together events from my own life, fictionalizing to add color – it's a pot boiler really, but I think it will show how isolated a person feels when he is suffering a breakdown… I've tried to picture my world and the people in it as seen through the distorting lens of a bell jar.[269]

Ysgrifennwyd *TBJ,* rhaid cofio, ar adeg pan ddiffinid menywod yn y gymdeithas megis mamau a gwragedd yn bennaf oll. Ac yn unol â blinder cyffredinol yr oes, priodolir cyflwr meddyliol y prif gymeriad i'r caethiwed hwn a brofodd y fyfyrwraig gan ei bod yn syml yn fenyw yn America yn ystod y pumdegau.

---

Mahrukh Baig, 'Sylvia Plath's Bell Jar as A Psychological Space', *US Open English & Literature Journal,* 1.1 (Rhagfyr 2013), 1- 17; Susan J. Behrens, 'A Note on *The Bell Jar*', (1963), *Names,* 61.4 (Rhagfyr 2013), 239-243.

[266] Yn ôl Dafydd Glyn Jones, mae gweithiau Caradog yn 'codi mor uniongyrchol o'i brofiad go-iawn fel ei bod yn amhosibl wrth geisio'u trafod, osgoi ei stori bersonol ac amgylchiadau ei fywyd'. Dyfynnir yn Dafydd Glyn Jones, 'Caradog Prichard', t.198.

[267] Eileen M. Aird, *Sylvia Plath* (Edinburgh: Oliver & Boyd, 1973), t.2.

[268] Linda Wagner-Martin, *Sylvia Plath: A Biography* (London: Chatto & Windus, 1988), t.190.

[269] Dyfynnwyd yn Wagner-Martin, *Sylvia Plath: A Biography,* t.107.

Wrth wraidd salwch meddwl Esther y mae'r pwysau i gydymffurfio â chymdeithas gaeth a phatriarchaidd, hynny yw cymdeithas sy'n ei gorfodi i frwydo am ei hunaniaeth fel unigolyn, llenor a menyw gydwybodol – baich a oedd yn drwm hefyd ym mywyd Sylvia Plath. Ys dywedodd Wagner-Martin: 'as housewife-and-mother became Sylvia's identity in public, maintaining her identity as a writer at home was difficult'.[270] Fel nifer o fenywod eraill y cyfnod, teimlai Sylvia Plath fel pe bai'n cael ei hollti, rhwng dyletswydd a dymuniad, teimlad a fynegodd drwy'i phrif gymeriad Esther Greenwood.[271] Gan adleisio credoau'r llenor, meddai Esther: 'If you expect nothing from somebody [ond gall hyn gyfeirio at gymdeithas yn gyffredinol] you are never disappointed'. (t.63) Â ymlaen i dynnu sylw at safonau dwbl, gwahaniaethol y gymdeithas: 'If neurotic is wanting two mutually exclusive things at one and the same time, then I'm neurotic as hell. I'll be flying back and forth between one mutually exclusive thing and another for the rest of my days.'[272]

Yn ogystal â'r rhwystredigaethau hyn, ac yn fwy arwyddocaol fyth, gall y darllenydd hefyd gysylltu episodau mwyaf isel-ysbryd Esther â'r awdur ei hun. Wrth i salwch meddwl y prif gymeriad waethygu drwy'r nofel, ac ar ôl therapi sioc drydan aflwyddiannus, mae'r fyfyrwraig yn ceisio ei lladd ei hun drwy gymryd llwyth o dabledi cysgu'i mam. Meddai:

> At first nothing happened, but as I approached the bottom of the bottle, red and blue lights began to flash before my eyes. The bottle slid from my fingers and I lay down. The silence drew off, the pebbles and shells and all the tatty wreckage of my life. Then, at the rim of vision, it gathered itself, and in one sweeping tide, rushed me to sleep. (t.178)

Mor drawiadol a byw yw'r olygfa hon. Ac eto fel nifer o agweddau eraill y nofel, ceir sail wirioneddol i'r digwyddiad allweddol. Aeth Sylvia Plath hefyd ati i roi diwedd ar ei bywyd yn union yr un modd.[273] O ganlyniad, roedd rhaid i Esther a Sylvia Plath fel ei gilydd dreulio amser mewn ysbyty meddwl a derbyn cymorth seicolegol. A chan ystyried y cysylltiad agos rhwng awdur a chymeriad, nid yw'n syndod bod yr adrannau hyn yn y seilam yn darparu rhai o'r dadansoddiadau mwyaf

---

[270] Wagner-Martin, *Sylvia Plath: A Biography,* t.176.
[271] Trafoda Wendy Martin y cyfatebiaethau rhwng Plath a Greenwood yn y cyd-destun hwn. Gweler Wendy Martin, 'God's Lioness' – Sylvia Plath, Her Prose and her Poetry', *Women's Studies,* cyf 1 (1973), 191-198.
[272] Plath, (1999), t.99. Yn ôl y confensiynau traddodiadol, er enghraifft, mae dyn yn rhydd i wneud bob math o bethau. Ond yn yr achosion mwyaf eithafol, roedd disgwyl ar y fenyw i fod yn wraig ac/neu'n fam. Cafodd ei barnu'n wallgof gan gymdeithas gonfensiynol pe bai'n dewis llwybr arall.
[273] Gweler Wagner-Martin, *Sylvia Plath: A Biography,* tt.242-244.

cofiadwy a dwys. Yn union fel y penodau yn nofel Caradog Prichard sy'n dilyn y profiad o weld ei fam yn cael ei hanfon i'r seilam a'r rhannau sy'n portreadu llofruddiaeth Jini Bach Pen Cae a'i hunanladdiad awgrymedig, hynod ddisgrifiadol hefyd yw'r darnau sy'n cofnodi emosiynau a brwydrau mewnol Esther. Wedi'r cyfan, gellir awgrymu, fel y gwnaeth astudiaeth o Brifysgol Massachusetts,[274] mai profiadau Esther Greenwood oedd profiadau Sylvia Plath, mai brwydrau seicolegol dwfn y fyfyrwraig oedd cythreuliaid cudd y llenor.

Mewn perthynas â defnyddio llenyddiaeth ac ysgrifennu fel ffordd i ddod i delerau â rhai profiadau personol, meddai Sergio Troncoso, ac yntau'n trafod cancr ei wraig:

> The writing helps me make sense of this awful news. Words slow it down to what I might control with my imagination. These sentences keep me from a scary free-fall into the chaos of mortality. This writing is my tool in our fight and retreat from our nightmare.[275]

Yn yr achos hwn, tyn yr awdur sylw at fanteision emosiynol a nodweddion iachaol ysgrifennu yn ystod y dyddiau tywyllaf. Mae modd tybio mai proses debyg oedd llunio *TBJ* i Sylvia Plath. Trwy eiriau a meddyliau Esther, gellir awgrymu bod cyfle i'r llenor ddadansoddi ei phryderon seicolegol mewn modd rhesymegol a systematig bron wrth iddi daflu goleuni ar brofiad unigolyn sâl ei feddwl. Ys dywedodd Wagner-Martin:

> Writing *The Bell Jar* was a liberating experience for Sylvia. With a novel, everything could be used: the writer's life was fair game, including all the writer's experiences and certainly the writer's emotions, whatever had prompted them. And in writing this novel, Plath did draw on all her experiences.[276]

Eto i gyd, os oedd yn brofiad rhyddhaol, fel yr eglurodd Luke Ferretter, ni allwn ddisgrifio ysgrifennu'r nofel yn brofiad cathartig:

> The poems Plath wrote after she completed The Bell Jar in August 1961 suggest that the experience of writing the novel was not a cathartic or therapeutic one…. There is no sense in the works written after she had transformed her early experiences of breakdown and recovery into the aesthetic form of the novel that the kind of emotions with which she deals in that novel have developed or changed. There is no sense, as one reads Plath's poetry written before, during and after the composition of

---

[274] The Partner Library, *The Truth of the Mad Woman: An In-depth Biographical Analysis of Sylvia Plath and Virginia Woolf*, University of Massachusetts Lowell Library, <http://libguides.uml.edu/c.php?g=652447&p=4577229> [cyrchwyd 27 Mai 2017]

[275] Sergio Troncoso, 'Letter to my Young Sons: Part One' yn Sergio Troncoso, *Crossing Borders: Personal Essays* (Houston: Atre Publico Press, 2011), t.22.

[276] Wagner-Martin, *Sylvia Plath: A Biography*, t.186.

> *The Bell Jar,* that completely the novel, whose plot appears to articulate a therapeutic journey, had any therapeutic effect on her sensibility.[277]

Er yr ymddengys fod Esther wedi gwella erbyn diwedd y nofel, mae'n dal nifer o gwestiynau o'i blaen. Ac yng ngolau barddoniaeth ddiweddarach Sylia Plath, yn ogystal â'r ffaith fod yr awdur wedi cyflawni hunanladdiad ar 11 Chwefror 1963, er ei holl addewid, ni ddaeth Sylvia Plath ei hun o hyd i'r atebion wedi'r cyfan. Mae modd, fodd bynnag, dadansoddi hunanladdiad Sylvia Plath a'r ffaith bod Esther yn ceisio cyflawni hunanladdiad mewn termau ffeministaidd. Fel y dywed Phyllis Chesler: 'women who succeed at suicide are, tragically, outwitting or rejecting their "feminine" role, and at the only price possible: their death'.[278]

Wrth i'r llenor dynnu ar ysbrydoliaeth ei phrofiad a'i galar personol, llwyddodd Sylvia Plath i roi llais i'r brwydrau mewnol, gan agor trafodaethau ar bwnc hynod gymhleth a phreifat. Wrth gwrs, yn wyneb tynged sobor yr awdur, nid yn unig cyfrannu at greu clasur o nofel deimladol a wna'r cysylltiadau personol agos, maent hefyd yn taflu goleuni ar brosesau meddyliol menyw ddigalon.

Roedd diben arall i *TBJ.* Trwy'r delweddau atgas, chwerw ac anghymeradwyol, awgrymir cymhelliad arall ac ehangach i'r nofel. Meddai Wagner-Martin:

> Plath wanted to do more than write autobiographical fiction. She wanted her novel to speak for the likes of countless women she had known, women caught in conflicting social codes who were able to laugh about their plight.[279]

Yn wyneb natur ormesol y cyfnod a'i phrofiadau personol hi, roedd y llenor am roi llais i'r fenyw rwystredig. Gobeithiai y byddai'i nofel yn archwilio profiad seicolegol y fenyw gan ddarparu mewnwelediad gwerthfawr i'r meysydd seiciatryddol hynny sydd heb eu harchwilio'n llawn.[280] Er na welwyd canlyniad tebyg ym mywyd personol yr awdur, drwy ailenedigaeth Esther ar ddiwedd y nofel,

---

[277] Ferretter, *Sylvia Plath's Fiction: A Critical Study*, t.85.
[278] Chesler, *Women and Madness*, t.108
[279] Wagner-Martin, *Sylvia Plath: A Biography*, t.185.
[280] Ys dywedodd Showalter am y llais benywaidd yn y meysydd seiciatryddol: 'the prevailing attitudes were shaped both by moments of social upheaval that challenged psychiatric thought, and by the careers of those individual physicians who not only generated dominated their generation's thinking but also transformed the social role of the psychiatrist in line with the age's cultural ideals… It is significant that all these figures are men. Changes in cultural fashion, psychiatric theory, and public policy have not transformed the imbalance of gender and power that has kept madness a female malady.' Gweler Showalter, *The Female Malady*, t.19. Priodolwyd y llais benywaidd i'r gweithiau ffuglennol.

rhy Sylvia Plath obaith i'r fenyw goll ac amyneddgar, gobaith yr oedd hithau'n hiraethu am ei gael.

Nid yw'n syndod bod ein canfyddiadau o waith yr awdur ac yn arbennig o lais Esther yn cael eu llygru gan yr elfennau seicolegol personol a'r hunanladdiad erbyn heddiw. Fel yr eglurodd Linda W. Wagner, roedd adolygiadau adeg cyhoeddi'r nofel ar y cyfan yn weddol ffafriol. Meddai:

> Three of the novel's earliest reviews (January of 1963) were surprisingly positive. Robert Taubman called *The Bell Jar* a 'clever first novel', 'the first feminine novel... in the Salinger mood.' ..... Laurence Lerner made no comparisons and, seemingly, had no reservations. He called the novel 'a brilliant and moving book' triumphing in both language and characterization. Rupert Butler found the novel 'astonishingly skilful', 'honest', 'intensely interesting', 'brave' and 'terribly likeable.'[281]

Ar ôl i bobl ddysgu mai Sylvia Plath oedd gwir awdur y nofel, dechreuodd y beirniaid a'r gynulleidfa ddarllen *TBJ* mewn goleuni newydd. Ys dywedodd Jo Gill:

> From 1965 in particular, the novel has been read in the knowledge – or more properly perhaps with a thirst for knowledge – of the lived experience of the author. It has been read with a view to the insights it might offer into the working processes of the poet, and as though this were the real, authentic voice of the now-dead author communicating from beyond the grave.[282]

Cyfeiriodd Susan Bassnett at y mythau a'r delweddau amrywiol a oedd yn amgylchu Sylvia Plath, ac a oedd yn ddylanwad ar ddarlleniad y gynulleidfa:

> The beginning of these diverse myths means that different Sylvia Plaths are offered to the reader's attention – Sylvia the doomed poet, whose suicidal tendencies are inscribed in the poems and in the prose she wrote throughout her life, Sylvia the frustrated wife and mother, whose life-centre collapsed when her husband and she split up, Sylvia the feminist precursor, whose works testify to the bitter resentment felt by women unable to free themselves from oppressive and oppressing roles.[283]

Ymddengys na ellir ond ystyried yr agweddau personol a hunangofiannol hyn er mwyn ennill dealltwriaeth ehangach a dyfnach o'r elfennau seicolegol, ffeministaidd a chymdeithasol. A chan feddwl am ddiddordeb y gynulleidfa yn elfennau bywgraffyddol y nofel ers adeg ei chyhoeddi, ystyriwn yma lais Sylvia Plath yn gyntaf cyn mynd ati i ddadansoddi'r nofel yn fanwl drwy lygaid mythau amrywiol yr awdur.

---

281 Linda W. Wagner, 'Introduction' yn *Critical Essays on Sylvia Plath,* gol gan Linda W. Wagner (Boston: G.K Hall & Company, 1984), t.7.
282 Gill, *The Cambridge Introduction to Sylvia Plath,* t.74.
283 Bassnett, *Women Writers: Sylvia Plath,* t.2.

* * *

O feddwl am gymhelliad cymdeithasol Sylvia Plath, nofel arall sy'n taflu goleuni ar y sefyllfa gymdeithasol yw *One Flew Over The Cuckoo's Nest.* Dyma lais rheswm mewn byd afresymol, ac er bod y nofel hon yn wahanol o ran cymhellion yr awdur, mae'r elfennau a'r dylanwadau personol yn dal yn amlwg. Nofel sy'n llawn delweddau lliwgar, pwerus a thrawiadol yw *OFOTCN.* Yn wyneb y rhain, yn ogystal â llwyddiant y portread seicolegol, nid syn yw dysgu bod gan Ken Kesey ryw brofiad o'r maes seiciatryddol.

Yn ystod dyddiau cynnar ysgrifennu'r nofel, bu'r awdur yn gwirfoddoli ar ward seiciatryddol yn yr ysbyty yn Menlo Park California. Ar ben hynny, roedd hefyd yn rhan o brosiect MK-ULTRA.[284] Arbrawf oedd hwn gan y llywodraeth lle y cofnodwyd effeithiau cyffuriau seicotropig a rhithbair megis LSD ar yr unigolyn. Nododd sawl beirniad, gan gynnwys Scott MacFarlane, Jack Hicks a James R. Huffman,[285] mai rhan ganolog o broses ysgrifennu *OFOTCN* oedd y profiadau cynnar hyn – yn arbennig o ran creu'r cymeriad Chief Bromden a'i ddefnydd o naratif llif yr ymwybod.[286] Yn ôl y disgwyl, rhoddwyd llawer o sylw i'r cyfnod dadleuol a bywiol hwn ym mywyd yr awdur a'i effaith ar ei waith. O ganlyniad, nid amcan y bennod hon yw canolbwyntio ar yr agweddau hynny.[287] Yn hytrach, ystyrir cymhellion cymdeithasol a seicolegol ehangach Ken Kesey sy'n arwain yn eu tro at agor trafodaethau'r penodau dilynol.

Nodwyd eisoes i nofel Ken Kesey gael effaith fawr ar gylchoedd llenyddol a chymdeithasol. Yn y meysydd seiciatryddol, fodd bynnag, ni fyddai pethau byth yn debyg eto wedi'i chyhoeddi. Amser o herio a phrotestio oedd y chwedegau ac yng nghyfnod yr hipis, daeth llais Ken Kesey a'i nofel i gynrychioli anfodlonrwydd a dicllonedd cymdeithas yr oes. Ys dywedodd Scott MacFarlane:

---

[284] Am fwy o wybodaeth a chyd-destun hanesyddol, gweler History.com, *History of MK-ULTRA* (2017), < https://www.history.com/topics/history-of-mk-ultra> [cyrchwyd 23 Ebrill 2018]

[285] Scott MacFarlane, *The Hippie Narrative: A Literary Perspective on the Counterculture* (North Carolina: McFarland & Company, Inc., Publishers, 2007); Jack Hicks, 'The Truth Even If It Didn't Happen' yn *Bloom's Modern Critical Interpretations: Ken Kesey's One Flew Over the Cuckoo's Nest,* gol. gan Harold Bloom (New York: Infobase Publishing, 2008), tt.67-80 a James R. Huffman, 'The Cuckoo Clocks in Kesey's Nest' yn *Bloom's Modern Critical Interpretations: Ken Kesey's One Flew Over the Cuckoo's Nest,* gol. gan Harold Bloom (New York: Infobase Publishing, 2008), tt.29-42.

[286] Meddai MacFarlane, er enghraifft: 'Kesey claims to have evoked the character of Chief Broom after ingesting peyote. The first three pages of the novel were written after such a hallucination, and the surrealistic passage survived the many drafts of the manuscript.' Gweler MacFarlane, *The Hippie Narrative: A Literary Perspective on the Counterculture*, t.23.

[287] Gweler Mark Christensen, *Acid Christ: Ken Kesey, LSD and the Politics of Ecstasy* (Tucson: Schaffner Press: 2010); Erika Dyck, *Psychedelic Psychiatry: LSD from Clinic to Campus* (Maryland: John Hopkins University Press, 2008)

> *Cuckoo's Nest* was a manifesto for personal freedom and empowerment through self-reliance; it lamented the loss of the traditional in the face of the modern; the story questioned notions of conformity, especially in terms of who and what should be considered insane. A paranoia about the establishment cabal is notable in the personal and group revolt. Moreover, a mostly pacifistic and, at times, theatrical method of revolt is underscored; revised notions of personal freedom are explored; and, a group psychology of leadership and hierarchy is dramatically high-lighted. In these ways, *Cuckoo's Nest* served as a template for Kesey's personal exploits.[288]

Disgrifir Ken Kesey yn aml fel ffigwr llenyddol arloesol a bontiodd ynghyd genhedlaeth y bitniciaid a'r mudiad gwrthgymdeithasol a oedd yn amlwg iawn yn y chwedegau.[289] Ac yntau'n artist rhwystredig mewn cymdeithas gaeth, darparodd ei nofel lwyfan perffaith iddo fynegi ei gredoau a'i ddymuniadau heb gyfyngiadau. Fel y gwelwn, gallai dynnu sylw at ormes cymdeithas reolaethol yr oes ond yn ogystal â hyn, cyflwynodd feirniadaeth ar sefyllfa druenus yr ysbytai meddwl a'u triniaethau barbaraidd. Ar ôl iddo weld y gamdriniaeth seicolegol a'i heffaith ddinistriol ar yr unigolyn, dyma'r awdur yn cydymdeimlo â 'gwallgofiaid' ac alltudion y gymdeithas. Ac yn union fel yr oedd Sylvia Plath am roi llais i'r fenyw orthrymedig, roedd Ken Kesey yn benderfynol i ddarparu llwyfan i'r rhai a oedd dan orthrwm y gymdeithas uwch. Trwy *OFOTCN*, cyflwynodd Ken Kesey ei gredoau a'i egwyddorion drwy'i gymeriadau hoffus a chofiadwy, egwyddorion sy'n sail hefyd gyda llaw i ddamcaniaethau 'The Merry Pranksters'.

Grŵp amgen dan arweiniad Ken Kesey oedd 'The Merry Pranksters'. Amcan y cylch hwn oedd teithio o gwmpas America gan ledaenu cyffuriau seicotropig a herio ystrydebau traddodiadol y gymdeithas. Yn ôl Scott MacFarlane,[290] roedd Ken Kesey yn arweinydd hynod o naturiol ac oherwydd hyn, nid yw'n syndod bod yr awdur wedi'i gymharu â'i brif gymeriad ar adegau.[291] Dychwelir at y gymhariaeth hon yn fanylach ym Mhennod 4.3. Nid yw'n anodd gweld safbwyntiau a chredoau'r awdur yn cael eu hadleisio drwy'i arwr ffuglennol, ond lle'r oedd ffyrdd gormesol y gymdeithas fwrgais yn rheoli bywyd Ken Kesey a sawl un arall yn y byd allanol,

---

288 MacFarlane, *The Hippie Narrative: A Literary Perspective on the Counterculture*, t.36.
289 Cydnabyddir y ffaith hon gan Lauren Marie Dickens, 'Diving Further into the Counterculture: Ken Kesey On and Off the Bus in the 1960s' (Traethawd MA, Middle Tennessee State University, 2015)
290 MacFarlane, *The Hippie Narrative: A Literary Perspective on the Counterculture*, t.36.
291 Gweler astudiaethau Paul Perry & Ken Babbs, *On the Bus: The Complete Guide to the Legendary Trip of Ken Kesey and the Merry Pranksters and the Birth of the Counterculture* (New York: Thunder's Mouth Press, 1990); Robert Faggen, 'Introduction' yn Ken Kesey, *One Flew Over The Cuckoo's Nest* (London: Penguin Classics, 2005), tt.ix-xxii wrth iddynt dynnu sylw at y cyfatebiaethau.

gwelir yn ei lyfr waliau a baricêd cyfyngol y seilam. Yn y naill achos a'r llall, yr un yw'r agwedd gwbl feirniadol.

Mae'n glir bod y llenor wedi tynnu ar ei safbwyntiau cryf a'i brofiadau personol er mwyn llunio stori a fyddai'n chwalu canfyddiadau'r gynulleidfa'n deilchion gan alw arni i weithredu. Ys dywedodd Terence Martin: 'we come to appreciate the force of Kesey's novel once we see that *One Flew Over The Cuckoo's Nest* is an intense statement about the high cost of living – which we must be *big* enough to afford'.[292] Tra bod McMurphy yn creu aflonyddwch yn *OFOTCN*, roedd Ken Kesey hefyd am achosi gwrthryfel yn y byd go iawn. I'r perwyl hwnnw y cyflwynodd nofel yn llawn dadleuon moesol hollbwysig. Brwydro am ryddid rhag y gymdeithas reolaethol yr oedd Ken Kesey yn y chwedegau. Mae pethau wedi newid yn sylweddol ers hynny, ond gellir awgrymu bod yr unigolyn ansicr – yn arbennig yr ifanc – yn dal yn brwydro am ryddhad o afael anghydraddoldeb a disgwyliadau cymdeithasol y byd modern.[293] Yn ôl gwefan y Llywodraeth, sy'n galw'r broblem yn nhermau 'a modern epidemic', mae salwch meddwl, megis iselder a gorbryder, yn cynyddu ymhlith y genhedlaeth ifanc. Yn ôl ystadegau, roedd 19% o bobl ifanc rhwng 16-24 wedi dioddef o salwch meddwl yn 2014, o'i gymharu â 15% yn 1993. Priodolir y cynnydd hwn yn aml iawn i'r cyfryngau cymdeithasol yn ogystal â phwysau allanol y byd academaidd a phroffesiynol.[294] Yn wir, gall fod yn anodd darganfod gwreiddiau'r cynnydd, fel y mae'r BBC hefyd yn ei gydnabod wrth iddynt edrych ar y sefyllfa yn Lloegr.[295] Anodd gwybod p'un ai bod mwy o bobl ifanc yn dioddoef o salwch meddwl, neu a ellir priodoli'r cynnydd i ymwybyddiaeth well o'r clefydau seiciatryddol. Er gwaethaf hyn, mae amlygrwydd salwch meddwl yn yr

---

[292] Terence Martin, '*One Flew Over the Cuckoo's Nest* and the High Cost of Living' yn *Bloom's Modern Critical Interpretations: Ken Kesey's One Flew Over the Cuckoo's Nest,* gol. gan Harold Bloom (New York: Infobase Publishing, 2008), t.14.

[293] Mae gwefan *The Independent* yn cydnabod bod y bwlch rhwng y dlawd a'r cyfoethog yn dal yn tyfu yn yr oes bresennol a chydnabyddir y cysylltiad rhwng tlodi a salwch meddwl ym Mhennod 4.2. Gweler Shehab Khan, *Gap Between Rich and Poor Growing with Under 35s Worst Hit, Report Reveals*, & The Independent (15 Gorffennaf 2017), < https://www.independent.co.uk/news/uk/home-news/inequality-income-disparity-richest-1-under-35s-resolution-foundation-a7842351.html> [cyrchwyd 11 Awst 2018]. Ond mae Psychology Today yn cydnabod bod salwch meddwl yn cynyddu'n fawr ymhlith bobl ifanc o ganlyniad i bwysau gwefannau cyfryngau cymdeithasol. Gweler Diane Dreher, *The Alarming Rise in Teen Mental Illness*, Psychology Today (24 Ionawr 2018), <https://www.psychologytoday.com/intl/blog/your-personal-renaissance/201801/the-alarming-rise-in-teen-mental-illness> [cyrchwyd 11 Awst 2018].

[294] Elizabeth Atkinson a gov.uk, *A Modern Epidemic: Mental Health and Under 25s*, gov.uk (12 Mawrth 2018), <https://openinnovation.blog.gov.uk/2018/03/12/a-modern-epidemic-mental-health-and-under-25s/> [cyrchwyd 03 Ionawr 2019]

[295] BBC News, *Is Young People's Mental Health Getting Worse?* (Chwefror 2019), <https://www.bbc.co.uk/news/health-47133338> [cyrchwyd 05 Mawrth 2019]

wasg heddiw yn awgrymu bod cymhellion Ken Kesey yn dal yn berthnasol hanner canrif yn ddiweddarach.

* * *

Deuwn yn awr at destun craidd olaf yr astudiaeth, sef *Tywyll Heno*. Ar ôl dadansoddi prif fwriadau cymdeithasol a phersonol yr awduron eraill, gellir awgrymu bod adlais o bob un o'r cymhellion amrywiol yn bresennol yn stori fer hir Kate Roberts. Gwelwn, er enghraifft, yr elfennau cathartig a oedd ar waith yn *UNOL,* y llais benywaidd cryf a glywir yn *TBJ,* a'r feirniadaeth gymdeithasol sydd mor amlwg yn *OFOTCN.* O ddadansoddi'r nodweddion hyn i gyd yn eu tro, gallwn ddeall amcan a stori ehangach yr awdures Gymreig.

Nid oes amheuaeth i lenyddiaeth chwarae rôl amlwg ym mywyd Kate Roberts. Dywedodd y llenor wrth Lewis Valentine:

> ... yr wyf yn ddynes groendenau, ac mae pethau yn fy mrifo. A oes rhywun yn gallu ysgrifennu heb fod bywyd yn ei frifo? Onid dyna'r symbyliad i sgrifennu? Cael mynegi rhywbeth er mwyn cael gwared o'r boen... Credaf mai teimlo y mae llenor i gychwyn, cael ei symud gan rywbeth; nid da yw iddo sgrifennu dan ddylanwad y cyffro cyntaf: rhaid i hwnnw oeri, a rhaid i'r awdur ddefnyddio ei ben wedyn wrth ddilyn crefft ei ffurf lenyddol.[296]

Yng ngolau'r datganiad uchod, mae beirniaid amrywiol wedi disgrifio proses ysgrifennu Kate Roberts fel math o fecanwaith ymdopi. Wrth sôn am farwolaeth Dei, meddai Katie Gramich: 'It was a loss that overshadowed and shaped her life, as she herself recognized. The writing was – at least at the start – a means of emotional catharsis.'[297] Wrth feddwl am ei holl weithiau amrywiol, hawdd yw gweld perthynas agos rhwng gwaith a bywyd personol yr awdur wrth i'r rhyddiaith adleisio nifer o ddigwyddiadau, cymeriadau a lleoliadau go iawn ym mywyd yr awdur.[298] Meddai ar reswm hynod bersonol dros lenydda. Yn 1917, er enghraifft, bu farw ei brawd ieuengaf David yn yr ysbyty ym Malta, ar ôl methu â gwella o'i anafiadau rhyfel.[299] Mewn llythyr a anfonodd at Saunders Lewis wedi'r digwyddiad allweddol hwn, cyfeiriodd Kate Roberts at bwysigrwydd ysgrifennu a'i nodweddion rhyddhaol gan

---

[296] John Rowlands, *Ysgrifau ar y Nofel* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Caerdydd, 1992), t.154.
[297] Katie Gramich, *Kate Roberts: Writers of Wales* (Cardiff: University Wales Press, 2011), t.16.
[298] Ni fwriedir dadansoddi'r cyfatebiaethau hyn gan fod nifer o bobl wedi gwneud y gwaith ymchwil hwn eisoes. Gweler Pennod 1 a cheir yn y llyfryddiaeth ddetholiad o'r gweithiau hyn.
[299] Gweler Llwyd, *Kate: Cofiant Kate Roberts 1891-1985*; Gramich, *Kate Roberts: Writers of Wales*; Lewis Roberts, *Kate Roberts: Llên y Llenor*.

ddweud, 'marw fy mrawd ieuengaf yn y rhyfel 1914-1918 a gorfod ysgrifennu rhag mygu'.[300]

Ers iddi ddechrau ei gyrfa ysgrifennu, bu elfen therapiwtig i'w llenyddiaeth. Flynyddoedd wedyn, yn 1946, bu trasiedi arall ym mywyd Kate Roberts, wrth i'w gŵr Morris farw o ganlyniad i salwch hir. Meddai am y profiad: 'syrthiodd fy myd yn deilchion o'm cwmpas. Y pryd hynny y dechreuais edrych i mewn i mi fy hun, a'r canlyniad cyntaf oedd *Stryd y Glep,* lle y disgrifir ymdrech enaid dynes.'[301] Diddorol yw nodi mai'r farwolaeth hon oedd y sbardun a arweiniodd at newid arddull ysgrifennu a chanolbwynt llenyddol Kate Roberts. Nodwyd yn yr adolygiad llenyddol, er enghraifft, ei bod hi'n dechrau canolbwyntio ar y brwydrau mewnol yn hytrach na'r rhai allanol yn y gweithiau a gyhoeddwyd yn ystod yr hyn a elwir yn Gyfnod Dinbych.

Yn wyneb y ddau drychineb hyn, gwelir agor gwahanol benodau yng ngwaith yr awdur, yn ogystal â sail i'r elfennau cathartig awgrymedig. Yn union fel Caradog Prichard ac *UNOL,* roedd Kate Roberts hefyd am geisio deilio â'i galar a'i hunigrwydd wedi marwolaeth ei gŵr ar lwyfan creadigol. Trwy ychwanegu elfen seicolegol i *TH,* caniataodd Kate Roberts iddi'i hun archwilio rhai o'i phrofiadau a'i hemosiynau dyfnaf trwy gyfrwng ffuglen. Ys dywedodd y llenor ei hun: 'yr wyf finnau'n cael yr iselder ysbryd yna, ac o brofiad yr ysgrifennais ran helaeth o'r llyfr',[302] gan gyfaddef wrth Lewis Valentine, 'oes, y mae llawer iawn ohonof fi yn Bet'.[303]

O feddwl am hyn yn ogystal ag effaith llenyddiaeth a llenydda ar unigolion, meddai Damien Ridge:

> Rather than being drawn to rational, objective and scientific forms of thinking, people prefer to understand their health conditions (and lives for that matter) as stories involving characters, events, motivations and meanings (Gold and Ridge 2001; Hyden 1997). People commonly select and tell stories to themselves and to other people in an attempt to better understand the world and their place in it (Elwyn and Gwyn 1999; Frank 1995).[304]

---

[300] Kate Roberts, 'Kate Roberts Saunders Lewis', *Crefft y Stori Fer,* gol. gan Saunders Lewis (Llandysul: Gwasg Gomer, 1949), tt.9-21.
[301] Kate Roberts a Lewis Valentine, 'Rhwng Dau' yn *Erthyglau ac Ysgrifau Llenyddol Kate Roberts,* gol. gan David Jenkins (Abertawe: Gwasg Christopher Davies,1978), tt.122-130.
[302] Llwyd, *Kate: Cofiant Kate Roberts 1891-1985,* t.324
[303] Ibid., t.327
[304] Damien Ridge, *Recovery From Depression Using The Narrative Approach* (London: Jessica Kingsley Publishers, 2005), t.28.

Cyflwr hynod gymhleth a phoenus sy'n gallu codi teimladau o ansicrwydd, cywilydd a gwrandawiad yw salwch meddwl. Nid yw'r dioddefwr ei hun yn gallu deall ei sefyllfa na'i deimladau. Yn yr un modd, nid yw pobl allanol yn gwybod beth i'w wneud na sut i ymateb iddo. Oherwydd hyn, gall fod yn help weithiau inni ddeall ein storïau ein hunain drwy brofiadau pobl neu gymeriadau eraill.[305] Fel y nodwyd eisoes, dyna oedd ysgrifennu *UNOL* i Caradog Prichard, ond dyma dechneg a welir hefyd yn yr hyn a elwir yn '[d]rindod o nofelau' Kate Roberts.[306]

Traddodir stori Lora Ffennig, er enghraifft, yn *Y Byw Sy'n Cysgu* ar ffurf dyddlyfr wrth inni weld dyfnderoedd ei hemosiynau'n uniongyrchol. Ac yn debyg i'r awdur ei hun, mae'r math hwn o ysgrifennu personol hefyd yn helpu'r wraig i ddelio â'i hamgylchiadau newydd wedi ymadawiad ei gŵr. Yng ngeiriau John Rowlands:

> Rhyw broses therapiwtig o ddod â phrofiadau tywyll yr *id* i oleuni'r *ego* yw'r sgrifennu yn y dyddiadur, cyfle iddi orwedd ar leithig, fel petai, a chyffesu'i theimladau, nid wrth offeiriaid na seicolegydd, ond wrthi'i hun.[307]

Yn yr un modd, meddai Katie Gramich: 'Lora sees this therapeutic act of writing as an effort at self-knowledge'.[308] Trwy'i dyddlyfr, gall Lora rannu rhai o'i phrofiadau a'i theimladau dyfnaf mewn modd rhesymegol a chlir. A thrwy wneud synnwyr o'i hemosiynau ar bapur, awgrymir y rhoddir strwythur i'w salwch. Fel y dywedodd Derec Llwyd Morgan:

> To keep a diary is to talk to oneself, a simple sign of man's basic madness; but to write well is to give that madness method, a shape, a civilized form. What Kate Roberts offers us as a layer of her new world is also a literary model of the actual world.[309]

Ar ôl cael ei chaethiwo i'w chartref, mae Ffebi, yn *Styd y Glep*, yn cadw dyddlyfr, nid yn unig fel ffordd o gofnodi ei diwrnodau hir ac undonog, ond hefyd er mwyn ei helpu i ymdopi â'i hunigrwydd eithafol. Am ei bwysigrwydd, meddai Ffebi: 'yn gyffredin, at ei ddyddlyfr yr â dyn pan fo mewn poen meddwl, oblegid mae

---

[305] Gweler astudiaethau megis: James W. Pennebaker, 'Telling Stories: The Health Benefits of Narrative', *Literature and Medicine,* 19.1 (2000), 3-18; Rachel Balen, 'The Power of Stories: Using Narrative for Interdisciplinary Learning in Health and Social Care', *Social Work and Education,* 29.4 (2010), 416-426; Janet D. Seagal a James W. Pennebaker, 'Forming a Story: The Health Benefits of Narrative,' *Journal of Clinical Psychology,* 55.10 (1999),1243-1254.

[306] Disgrifia John Rowlands y nofelau *Stryd y Glep, Y Byw Sy'n Cysgu* a *Tywyll Heno* fel trindod Kate Roberts am eu bod yn trafod themâu tebyg. Gweler John Rowlands, *Ysgrifau ar y Nofel,* t.154. Meddai: 'Mae *Stryd y Glep, Y Byw Sy'n Cysgu* a Tywyll Heno yn ffurfio trindod o nofelau sy'n debyg iawn i'w gilydd'.

[307] Rowlands, *Ysgrifau ar y Nofel,* t.162.

[308] Gramich, *Twentieth-Century Women's Writing in Wales: Land, Gender, Belonging,* t.110

[309] Llwyd Morgan, *Kate Roberts,* t.66-67.

dyddlyfr fel y peth nesaf at ddyn ei hun',[310] ac ychwanega hefyd, gan ein hatgoffa o'r awdur ei hun, 'rhaid i mi sgrifennu heddiw i edrych a gaf wared o rywfaint o'r boen sydd ar fy meddwl'.[311] Yn y stori hon, a thrwy'r wraig gaeth, pwysleisia Kate Roberts effaith iachaol llenydda a gwelir yn *TH* ddatblygiad ar y swyddogaeth honno yn achos gwraig y gweinidog.

Ar ôl methu â bodloni ar ei bywyd anfoddhaol fel gwraig gweinidog, ailgydia Bet yn ei diddordebau llenyddol. Wrth i'w hiechyd meddwl ddirywio, ac er mwyn cael rhyw 'sbonc newydd at fyw' (t.40),  dechreua Bet ysgrifennu drama ar gyfer plant y capel. Yng nghanol ei thristwch, disgrifir y ddrama fel 'cannwyll bach yn goleuo fel y golau trydan uwchben y drws ffrynt a'r tŷ yn dywyll'. (t.50) Ac wrth iddi ysgrifennu unwaith eto, gellir dweud bod cyfle i Bet sianeli ei meddyliau a'i hymdrechion i rywbeth heriol sy'n werth chweil.

O ganlyniad, mae'n dysgu pethau newydd amdani ei hun a'i hanghenion gan ymarfer sgiliau nad yw wedi'u defnyddio am dipyn, sgiliau sydd angen mwy o feddwl na choginio a glanhau. Wrth iddi lenydda, gall Bet ddianc rhag ei byd cyfyngol fel gwraig gweinidog i fyd llenyddol gwerthfawr. Ys eglurodd Katie Gramich: 'Bet's only escape, tellingly, is through writing. In this regard, at least, Bet is an authorial alter ego, using her writing as self-therapy to emerge from the suffocating mask of despair.'[312]

Cydnabyddir yr un swyddogaeth yn nofel Sylvia Plath i ryw raddau. Fel y gwelwn, mae llenyddiaeth yn ffurfio rhan ganolog o hunaniaeth Esther. Ac yn debyg i Ffebi, Lora a Bet, mae'r fyfyrwraig yn cydnabod ei rhinweddau therapiwtig. Ar ôl i Buddy Willard – y meddyg awyddus – ddisgrifio cerdd fel darn o lwch, mae Esther yn dechrau magu casineb tuag at y byd meddygol a chyflwynir felly wrthgyferbyniad rhwng y byd hwnnw a'r byd llenyddol. Meddai'r fyfyrwraig gan awgrymu grym neu botensial therapiwtig llenyddiaeth:

> I reckon a good poem lasts a whole lot longer than a hundred of those people put together […] People were made of nothing so much as dust, and I couldn't see that doctoring all that dust was a bit better than writing poems people would remember and repeat to themselves when they were unhappy or sick and couldn't sleep. (t.59-60)

---

310 Roberts, *Stryd y Glep*, tt.55-6 .
311 Ibid., tt.77-8.
312 Gramich, *Kate Roberts: Writers of Wales*, t.95.

Yn yr un modd, tyn cymeriad nofel Angharad Tomos sylw at werth llenyddiaeth fel math o gysur a dihangfa rhag y byd creulon. Meddai'r fam:

> Dyna pam dwi'n lecio llyfrau cymaint. Yma, wedi cael fy amgylchu ganddynt, mae gen i fy seintwar fach fy hun. Yma, rhwng yr holl gyfrolau, teimlaf fod yna amddiffyniad rhyngof a'r byd. Ymgais i egluro bywyd ydi nofelau a storïau, ymdrech i ddehongli'r frwydr rhwng da a drwg. Roedd gen i hiraeth am y noddfa hon yn Rhydderch. Dwi'n digwydd credu, tra bydd pobl yn mynychu llyfrgelloedd, yn rhannu llyfrau ac yn darllen, mae yna obaith i wareiddiad. Mae pawb ddaw i mewn drwy'r drws yna yn chwilio am ryw fath o drysor. Mae rhai yn ceisio gwybodaeth, eraill ddoethineb, eraill ddifyrrwch neu ddoniolwch neu ddihangfa.[313]

Yng ngolau hyn, mae modd dweud y gall llenyddiaeth olygu llawer o bethau gwahanol i bobl amrywiol. I rai, ac fel y mae'r dadansoddiadau uchod yn ei awgrymu, mae'n ffordd o ddeall a dadansoddi profiadau seicolegol dryslyd. Ond i eraill, gall fod yn llwyfan i fynegi safbwyntiau gwleidyddol, cymdeithasol a ffeministaidd cryf.

Fel y gwyddys, ffigwr hynod allweddol ac amlwg mewn llenyddiaeth Gymraeg oedd ac yw Kate Roberts. Yng ngeiriau Mair Rees: 'yn ddiamheuol y mae Kate Roberts wedi gwneud cyfraniad sylweddol a swmpus i lenyddiaeth Gymraeg ac i statws y fenyw fel ffocws, darllenwr ac awdur llenyddiaeth'.[314] O ganlyniad, gwelwyd trafodaethau niferus ar safle Kate Roberts fel ffeminist. Cyfeiriwyd at rai ohonynt yn y bennod ddiwethaf. Un cyfraniad nodedig oedd un John Rowlands. Dadleuodd i'r llenor gydymffurfio'n rhannol â delwedd batriarchaidd y fenyw gan ddarlunio ei chymeriadau benywaidd yn aml megis gwraig neu fam sy'n ymroi i'w swyddogaeth gymdeithasol arferol. Meddai: 'ar y wyneb mae fel petai'n ceisio cynnal a chefnogi agweddau ceidwadol patriarchaidd (yn rhith y byd eang a'r oesol!)'.[315] Fodd bynnag, ychwanegodd y beirniad, 'mae rhyw anesmwythyd i'w deimlo dan yr wyneb ynglŷn â'r union agweddau hynny'.[316] Er na ddefnyddiodd yr awdur y term 'ffeminist' i ddisgrifio ei safle na'i gweithiau,[317] amhosib ydyw osgoi adleisiau o'r meddylfryd hwn yn ei llenyddiaeth.

Fel awdur toreithiog a gwraig fusnes lwyddiannus, roedd Kate Roberts yn amlwg yn fenyw weithgar a chydwybodol – priodoleddau y mae'n eu priodoli i'w

---

313 Tomos, *Wrth fy Nagrau i*, t.257-8

314 Rees, *Y Llawes Goch a'r Faneg Wen*, t.80.

315 John Rowlands, *Ysgrifau ar y Nofel*, t.144.

316 Ibid.

317 Fel y dywed Katie Gramich: 'reluctant to describe herself as a feminist and yet seeming to express unmistakeable feminist concerns'. Gweler Gramich, *Twentieth-Century Women's Writing in Wales: Land, Gender, Belonging*, t.128.

goddrychau benywaidd. Ar hyd dau gyfnod ysgrifennu Kate Roberts, mae menywod, eu storïau a'u brwydrau yn ennill safle blaenllaw yn ei gweithiau amrywiol. Yn ei gweithiau cynnar, ac wrth i galedi ariannol reoli bywydau pobl, gwelwyd menywod cryfion megis Jane Gruffydd yn *Traed Mewn Cyffion*, a hithau'n brwydro yn erbyn tlodi eithafol er mwyn sicrhau bod gan ei theulu fwyd.

Yn ystod ei gweithiau diweddarach, mae menywod cryf eu natur ond gwael eu hamgylchiadau yn dal i ffurfio canolbwynt ei straeon. Ond yn hytrach nag amgylchiadau allanol megis tlodi a chaledi bywyd cefn gwlad, symudodd sylw Kate Roberts at frwydrau mewnol y menywod hynny ac at y frwydr ffeministaidd yn erbyn caethiwed y wraig ddiymadferth a'r effaith seicolegol arni. Dyma thema sy'n ganolog i *Stryd y Glep, Y Byw sy'n Cysgu* a *Tywyll Heno.* Bydd delweddau'r straeon hyn yn cael eu dadansoddi yn y penodau dilynol, ond gan daflu yma oleuni ar safle a chredoau Kate Roberts, awgrymir cyd-destun a dimensiwn cymdeithasol ychwanegol i'r llenyddiaeth.

Nodwyd eisoes fod gan Bet Jones ddiddordebau llenyddol. Ond ys dywedodd John Rowlands: 'gwraig synhwyrus, ddychmygus, greadigol iawn yw Bet a hynny mewn byd Philistaidd, cyfyng a chrebachlyd'.[318] Er i eraill gydnabod hoffterau a dyheadau llenyddol Bet Jones yn y gorffennol, bod yn wraig gweinidog ffyddlon a mam gariadus yn unig yw ei rôl yn awr. Ac er ei bod yn helpu Bet i ganolbwyntio ar rywbeth ar wahân i'w gwacter ystyr,[319] mae modd hefyd ddehongli'r ddrama fel dihangfa greadigol ffug mewn gwirionedd. A'i hiselder ar ei eithaf, meddai Bet am y ddrama: 'yr oedd wedi ei golchi ymaith oddi ar fy meddwl fel ysgrifen oddi ar lechen'. (t.68) Rhywbeth sy'n pwysleisio ei chaethiwed yw'r ddrama yn y pen draw ac, o ganlyniad, rheolir ei byd unwaith eto gan yr un drefn undonog a chyfyngol. Fel y dywed John Rowlands: 'roedd ei galluoedd a'i doniau'n cael eu crebachu gan ei sefyllfa fel gwraig gweinidog'.[320]

Wedi'r cyfan, hyd yn oed os llwyddodd menywod y pumdegau a'r chwedegau i wneud rhywbeth a oedd y tu allan i'w dyletswyddau cymdeithasol, nid ar eu telerau'u hunain yr oedd hynny. Yn ôl Betty Friedan: 'education, independence, growing individually, everything that made them ready for other purposes had

---

318 Rowlands, *Ysgrifau ar y Nofel*, t.172.
319 Dadansoddir argyfwng gwacter ystyr Bet ym Mhennod 5.5.
320 Rowlands, *Ysgrifau ar y Nofel*, t.173.

constantly to be countered, channelled back to the home'.[321] Yng ngolau'r sylw hwn, ac er bod gan Bet Jones hawl i ddefnyddio ei doniau llenyddol, fe'i gorfodir hi yn ôl i'r capel unwaith eto, hynny yw, i ffynhonnell ei gormes a'i chaethiwed. Fel y pwysleisia John Rowlands: 'mygwyd ei dawn greadigol gan amodau bach pitw'r capel'.[322] Wedi ystyried hyn oll, cyfle sy'n amodol ar gytundeb yw un Bet Jones, ac atgyfnerthir y gred ffeministaidd fod menywod yn talu am eu creadigrwydd yn gymdeithasol ac yn seicolegol.

A hithau'n dewis adrodd y stori drwy lais y fenyw sâl ei meddwl ei hun, gellir dadlau bod y llenor yn cyfleu ei blinder a'i rhwystredigaethau personol am sefyllfa'r fenyw. Am barlys Ffebi yn *Stryd y Glep*, meddai Katie Gramich: 'Ffebi's paralysis can be interpreted symbolically as an image of the way traditional Nonconformist Wales hobbles women's desires and aspirations'.[323] Archwilir y berthynas hon rhwng caethiwed, salwch meddwl a chelfyddyd ymhellach yn *TBI* hefyd.

Saif y frwydr rhwng y ferch greadigol a'r gymdeithas gyfyngol yn ganolog i nofel Sylvia Plath a hefyd i salwch meddwl y fyfyrwraig. O ystyried hyn, meddai Elaine Showalter: 'Esther's sense of an absolute division between her creativity and her femininity is the basis of her schizophrenia'.[324] Wedi'r cyfan, mae llenyddiaeth, barddoniaeth ac addysg yn ffurfio diddordebau craidd Esther Greenwood, ond yn ogystal â hyn, ac yng ngolau natur geidwadol y cyfnod, roeddent hefyd yn ganolog i'w salwch seiciatryddol hefyd. Am ei gobeithion, er enghraifft, meddai'r fyfyrwraig:

> All my life I'd told myself studying and reading and writing and working like mad was what I wanted to do, and it actually seemed to be true, I did everything well enough and got all A's, and by the time I made it to college nobody could stop me. (t.33)

Gan herio ei disgwyliadau benywaidd confensiynol, roedd Esther wedi ennill ysgoloriaeth oherwydd ei bod yn llenor talentog a deallus. Ac yn sgil hynny, gobeithiai hefyd fod yn llenor neu'n fardd proffesiynol yn y dyfodol. Ond cyfrannu at ei chwalfa feddyliol anochel a wna'r dyheadau hyn.

Ar ôl dychwelyd adref, ac wrth i flwyddyn ar ôl blwyddyn o lwyddiant academaidd ddod i ben, mae iechyd meddwl Esther yn troelli'n wyllt gan

---

[321] Friedan, *The Feminine Mystique*, t.170.
[322] Rowlands, *Ysgrifau ar y Nofel*, t.173.
[323] Ibid., t.110.
[324] Showalter, *The Female Malady*, t.216.

gadarnhau'r cysylltiad rhwng gwallgofrwydd a chreadigrwydd yn ei bywyd. Eglurodd Eileen Aird:

> It is when the intellectual world fails her and she attempts to reject the social world which she sees as merely an accepted code of hollow attitudes and assumptions that breakdown occurs. She can neither tolerate nor rationalise the rift which she sees between the accepted world, which is predominately a false one, and the bleakness of her own world of the bell jar. The crisis is now deeper than that of adolescence for it is the struggle of the artist to accept and live with his vision, while still existing within the society in which he feels himself to be an outsider.[325]

A chyflwyna'r argyfwng hwn sail i ddadleuon Pennod 5, sef bod mamolaeth a llenydda yn anghydnaws â'i gilydd, ffaith a gydnabyddir hefyd gan Elaine Showalter. Meddai:

> Biographies and letters of gifted women who suffered mental breakdowns have suggested that madness is the price women artists have had to pay for the exercise of their creativity in a male-dominated culture, in the annals of feminist literary history, Virginia Woolf, Anne Sexton, and Sylvia Plath have become our sisters and our saints.[326]

Yn nofel Sylvia Plath, delweddir y rhaniad hwn drwy ddelwedd y ffigysbren. Ac er y dychwelir at y trosiad hwn yn hwyrach yn yr astudiaeth, mae'n cyfrannu nifer o ddadleuon gwerthfawr at y gosodiad mai talu'r pris am eu doniau a wnaeth menywod creadigol y cyfnod – rhywbeth a oedd yn poeni'r awdur ei hun hefyd. Trwy ganghennau amrywiol y goeden, awgrymir posibiliadau amrywiol i ddyfodol Esther. Cynrychiola un gangen, 'a husband and a happy home and children', (t.81) tra mae un arall yn cynrychioli bardd enwog. Ond mae'r union anghydfod hwn rhwng y gwahanol rolau hyn yn adlewyrchu'n glir gred ffeministaidd y cyfnod – nid oedd modd i fenywod gael rhyddid creadigol *a* derbyniad cymdeithasol. Ac o ganlyniad, nid oedd modd ychwaith iddynt feddu ar les meddyliol cyflawn.

I raddau tebyg, mae *TH* a *TBJ* yn portreadu ymgais y fenyw greadigol i ddod o hyd i'w lle mewn cymdeithas gaeth gan daflu goleuni ar agweddau ffeministaidd amrywiol. Ond tynnir sylw at yr annhegwch hwn hefyd yn nofel Islwyn Ffowc Elis, *Ffenestri Tua'r Gwyll*. Soniwyd eisoes mai pianydd talentog oedd Ceridwen cyn iddi ddod yn wraig a chael ei chaethiwo gan y gymdeithas batriarchaidd. Ac yng ngolau hyn, nid yw'n syndod bod y nofel yn cyflwyno dadleuon cryf ynghylch y cysylltiad rhwng yr artist benywaidd rhwystredig a salwch meddwl. Dadansoddwn ystyr y

---

325 Aird, *Sylvia Plath*, t.92.
326 Showalter, *The Female Malady*, t.4.

cyfyngder hwn o safbwynt ffeministaidd a gwrth-ffeministaidd yn y penodau dilynol. Canolbwyntir yn rhan hon yr astudiaeth ar ddelweddau'r nofel sy'n pwysleisio'r berthynas rhwng creadigrwydd a chaethiwed.

Am fod Ceridwen yn cael ei chyfyngu'n greadigol gan ei gŵr a'i chymdeithas, awgrymir iddi fethu â hogi'i doniau artistig. O feddwl am stori'r wraig, teg yw dweud bod y methiant hwn wedi effeithio ar ddatblygiad personol a seicolegol Ceridwen wrth i'r cyfyngder hwnnw dreiddio i'w chraidd. Yn lle cyflawni ei thynged a'i dyheadau celfyddydol ei hun, fel y dylai rhywun o'i safon hi, daeth yn awen yn unig i artistiaid eraill ac yn benodol, artistiaid gwrywaidd. Yng ngolau hyn, mae Cecil, un o'r arlunwyr sy'n elwa ar gyfoeth Ceridwen yn gwneud i'r wraig ystyried y cwestiwn:

> Ai dyna oedd ei phwrpas hi wedi'r cwbwl? Mewn byd lle'r oedd cynifer yn drifftio'n ddigynllun fel brigau ar li, fod bywyd wedi'n breintio hi â thynged ddefnyddiol ddi-glod fel cadw drws agored i artistiaid?[327]

Ac ar ôl derbyn clod ar ddechrau nofel ei ffrind Idris Jenkins, mae'r wraig yn tybio unwaith eto mai ei 'phwrpas hi *oedd* bod yn ysbrydoliaeth i eraill'.[328] Mae'n ysglyfaeth i rym y gymdeithas batriarchaidd a phwysleisir anallu'r fenyw i feddu ar ddoniau creadigol mewn cymdeithas geidwadol. Meddai John Rowlands: 'parodd iddi hi ei gweld ei hun fel artist rhwystredig sy'n byw'n barasitig ar artistiaid eraill, gan sugno'u gwaed fel gele'.[329] Yn hytrach na derbyn clod am ei pherfformiad cerddorol ei hun, mae Ceridwen yn gaeth, yn eironig, rhwng ei dyletswydd gymdeithasol a'r awydd i gael ei hamgylchynu gan lenorion, beirdd, cerddorion ac arlunwyr – y gymuned gelfyddydol y mae am berthyn iddi.

Un llenor sy'n tynnu sylw at lenyddiaeth fenywaidd a llais y fenyw gelfyddydol, fodd bynnag, yw Kate Roberts. Gwelwn y teyrngarwch benywaidd yn *TH* a thrwy'r trosiad canolog, trosiad y teitl.[330] Ar ôl myfyrio a meddwl am ei salwch meddwl, mae Bet Jones yn cysylltu ei hiselder â phrofiad Heledd ar ôl iddi hefyd golli ei hunaniaeth a'i hannibyniaeth. Ond am y weithred gydwybodol o ddewis yr englynion a'r cymeriad penodol hwn, meddai Katie Gramich:

---

[327] Ffowc Elis, *Ffenestri Tua'r Gwyll*, t.24.
[328] Ibid., t.29. [Ychwanegwyd y pwyslais]
[329] Rowlands, *Ysgrifau ar y Nofel*, t.205.
[330] Mae'r teitl yn dod o gyfres o englynion saga o'r nawfed ganrif, *Canu Heledd*, sydd hefyd yn cael eu hadrodd trwy'r llais benywaidd. Am ymdriniaeth drylwyr, gweler: Katie Gramich, *Kate Roberts: Writers of Wales*.

> Once again, despite existing in a male-dominated world of Welsh letters, Roberts shows her desire to belong to a female tradition of literary expression. Like her author, Bet survives, finally breaking through the debilitating and silencing mask of her depression.[331]

Wrth gyfeirio at stori Heledd, mae Kate Roberts yn atgyfnerthu'r ddelwedd ffeministaidd o ddioddefaint y fenyw mewn modd creadigol gan adael inni hefyd ddadansoddi profiad Bet mewn cyd-destun llenyddol dyfnach. Ac yn ogystal â hyn, mae modd dehongli'r ddelwedd – fel y gwnaeth Mair Rees wrth ddisgrifio delweddau nofel Angharad Tomos, *WFNI* – fel enghraifft o ddioddefaint seicolegol hir y fenyw. Meddai: '[Gwelir] cysylltiad rhyngdestunol sy'n hoelio'r euogrwydd hefyd o fewn y cyd-destun Cymraeg gan awgrymu hirhoedledd y cysylltiad rhwng y profiad a'r emosiwn. Eto gellir synhwyro cadwyn o boen yn ymestyn dros y canrifoedd.'[332] Trwy'r gymhariaeth hon, pwysleisir themâu o anobaith, unigrwydd a blinder. Ac ymddengys i'r darllenydd, ac yn arbennig i'r darllenydd benywaidd, nad yw profiadau Heledd, Bet Jones na'r fam yn *WFNI* mor wahanol ag eiddo ei gilydd.

Diddorol yw nodi na ddarpara gweithiau'r dynion, R. Williams Parry a Morgan Llwyd unrhyw gysur i'r wraig gweinidog. Wrth sôn am gerddi R. Williams Parry, meddai:

> Ond er cael fy annog gan y bardd i ddilyn y doeth a chyfodi imi gaer a bod yn saer fy nef fy hun, ni fedrwn. Pan ysgrifennwyd y soned, yr oedd y profiad, mae'n sicr, yn gywir i'r bardd; yn daer am gael ei fynegi. Eithr i mi heddiw, mwynhad pleserus i'r synhwyrau oedd y geiriau; mwynhawn hwynt fel yr adroddai Gruff hwynt; llifai eu melyster drosof. Ond pan godais ar fy eistedd, gwyddwn mai geiriau oeddynt; yr oeddwn i wedi codi caer, nid yn noddfa, ond yn fur o dywyllwch. (t.72)

Yma, mae Bet yn sôn am ei chaer megis math o garchar, yn hytrach na'r noddfa a ddisgrifir drwy lais y bardd. O ganlyniad, cawn weld cyflwr meddyliol y wraig sy'n gwrthgyferbynnu'n llwyr â geiriau melys y bardd, a hynny am mai geiriau yn unig oeddent, geiriau dyn nad oedd bellach yn berthnasol i fenyw isel ei hysbryd.

Wedyn, ar ôl darllen *Llyfr y Tri Aderyn,* ni allai Bet ddeall sut y gallai weld y goleuni drwy'r tywyllwch gan ddweud:

> Nid oedd ateb y Golomen yn rhoi dim cysur i mi. Nid oedd mynd i mewn i'r ystafell ddirgel (fel y dywedai'r Golomen) yn mynd i roi i mi ystyr i fywyd. Ond dyna fo, nid oeddwn i'n gyfrinydd; yr oeddwn yn hoffi bywyd ac yn hoffi ei foethau. Yn y byd yr oeddwn yn byw, ac yr oedd y byd yn greulon. (t.60)

[331] Gramich, *Kate Roberts: Writers of Wales*, t.95.
[332] Rees, *Y Llawes Goch a'r Faneg Wen*, t.98.

Dyma lyfr sy'n cynnig addewid o arweiniad Duw i'r enaid coll. Ond fel y dywedodd Bet Jones, 'Hawdd oedd dweud bod y Goruchaf yn galw'r goleuni allan o'r tywyllwch. Ond sut? ... teimlwn fy mod yn perthyn yn nes i Heledd nag i Forgan Llwyd.' (t.61) A gwelwn eto'r teyrngarwch benywaidd sydd mor amlwg.

Er nad yw Kate Roberts yn trafod y profiad crefyddol yn ei gweithiau yn aml, gwelwn yma adlais o ansicrwydd y llenor. Priodolir iselder ysbryd Bet i'r ffaith iddi golli ei ffydd ac yn ôl Alan Llwyd, profodd Kate Roberts deimlad tebyg yn ei bywyd hithau. Cyfeiria Alan Llwyd at yr ohebiaeth a geir rhwng yr awdur a'r Parchedig William Davies sy'n trafod argyfwng ysbrydol a phersonol y llenor wrth iddi geisio, 'egluro'r gwahaniaeth rhwng gresynu crefydd gyfundrefnol a chrefydd yr ysbryd iddi'.[333] A chan feddwl am naws a chynnwys y llythyron hyn, gellir tybio bod Kate Roberts, fel ei chymeriad llenyddol,[334] hefyd yn dechrau amau swyddogaeth a phwrpas Duw, yn gyntaf yn wyneb marwolaeth ei brawd Dei, ac eto yn dilyn marwolaeth ei gŵr.

Yr unig waith gan awdur gwrywaidd y gall Bet uniaethu ag ef yw llyfr John Gwilym Jones, *Y Goeden Eirin*. Dyma gyfrol sy'n edrych ar gymhlethdod ac odrwydd seice dyn drwy ddull llif yr ymwybod. Am gymeriadau'r straeon, meddai Megan Tomos: 'They are torn between their allegiance to their traditional upbringing and their urge to enjoy the greater freedom that higher education has brought them'.[335] O ystyried brwydrau personol Bet Jones, nid yw'n syndod bod y wraig yn teimlo 'mor wir oedd storïau'r *Goeden Eirin!*' (t.42) Wedi'r cyfan, dyma lenyddiaeth a oedd yn mynegi'r union deimladau yr oedd y wraig ei hun yn eu profi. Fel y cymeriadau hyn, mae Bet hefyd yn hiraethu am ryddid rhag ei bywyd fel gwraig weinidog, ac o ganlyniad, rhag y gymdeithas Gymreig ragfarnllyd, datganiad sy'n ein harwain at ddadansoddiad Alan Llwyd o arwyddocâd y teitl.

Wrth gyfeirio at ddisgrifiad Bet Jones o alar Heledd, meddai'r wraig gweinidog: 'gwyddwn nad digalondid colli ffydd oedd ei galar hi, eithr galar noeth pagan ar ôl y marw, galar un heb grefydd yn ganllaw iddi, yn derbyn ei thynged yn ddi-obaith a chael ei naddu hyd i'r asgwrn'. (t.60) Yma, mae Alan Llwyd yn

---

[333] Llwyd, *Kate: Cofiant Kate Roberts 1891*-1985, t.93. Dyddiadau'r llythyron hyn yw Chwefror 7, Mawrth 14 a Mawrth 19 1923; sef ychydig ar ôl marwolaeth Dei, wrth gwrs.
[334] Archwilir y colled yn fanylach yn y penodau dilynol ond yn arbennig ym Mhennod 5.4.
[335] Megan Tomos, 'Welsh Prose Literature [4] the short story', yn *Celtic Culture: A Historical Encyclopedia,* gol.gan John T. Koch (Santa Barbara: ABC-CLIO, 2006), t.1785.

awgrymu cysylltiad rhwng y ddau gymeriad llenyddol, sef Heledd a Bet, a'r awdur, Kate Roberts, o ran y cyd-destun Cymreig. Meddai:

> Kate bellach oedd Heledd; brodyr meirw Kate oedd brodyr coll Heledd; Cae'r Gors oedd Ystafell Gynddylan. Heledd oedd yr aelod olaf o deulu brenhinol Powys, Kate oedd yr aelod olaf o deulu gwerinol Cae'r Gors. Ac roedd Cae'r Gors yn prysur fynd â'i ben iddo.[336]

Tynnir sylw at gymhellion a hunaniaeth genedlaetholgar Roberts wrth iddi ddefnyddio llenyddiaeth er mwyn mynegi'r pryderon hyn. Gan ddewis cymeriad benywaidd Cymreig cryf fel Heledd, cyfoethogir yr elfennau llenyddol, gwladgarol ac ingol. Megis Ken Kesey, ond mewn modd llai eithafol, dechreuodd Kate Roberts feirniadu'r gymdeithas gydymffurfiol Gymreig a oedd yn rheoli'r unigolyn yn ystod y blynyddoedd yn dilyn yr Ail Ryfel Byd. Ynghyd â'r elfen ddadansoddol seicolegol yng nghymeriad Bet, gwelwn hefyd ddadansoddiad beirniadol mwy cymdeithasol ar waith. Trwyddo, gellir awgrymu bod Kate Roberts yn portreadu'r modd iddi golli parch tuag at y gymdeithas Gymreig, a cholli ffydd yn y syniad o berthyn.

Yng ngeiriau John Rowlands: 'Darlun yw hi o'r Gymru anghydffurfiol sydd wedi'i rhidyllu gan ragrith: yn talu gwrogaeth i grefydd y capel ac yn gwybod yn ei chalon nad yw'r grefydd honno bellach yn berthnasol yn ei ffurf bresennol'.[337] Beirniadaeth sy'n mynegi meddylfryd a phryderon newydd y cyfnod yw hon. Ac yng ngolau canolbwynt gwahanol a modern yr oes, rhoes Kate Roberts lwyfan i'r croeswyntoedd hyn yn y Gymraeg drwy gyfrwng iselder Bet.[338]

Yn y rhan fwyaf o'i gweithiau eraill, poena Kate Roberts yn aml am ddiflaniad yr hen draddodiadau Cymraeg a Chymreig, yn ogystal â'r ffaith fod Cymru'n dod yn fwy Seisnig a seciwlar. Ys dywedodd Katie Gramich:

> As her autobiography *Y Lon Wen* clearly indicates, she came to see herself, her family, and their native community as a representative of an old Welsh way of life which was rapidly being eroded. Roberts's life and work, then, can be seen not only as the chronicle of an exceptional individual but as the expression of a representative Welsh community.[339]

---

[336] Llwyd, *Kate: Cofiant Kate Roberts 1891-1985*, t.324.
[337] John Rowlands,'Tywyll Heno' yn *Kate Roberts: Ei Meddwl a'i Gwaith,* t.86.
[338] Am yr elfen fodernaidd a chyfoes, disgrifiodd Geraint Wyn Jones ei stori fer hir megis: 'astudiaeth o'r gwewyr enaid modern' yn ei ysgrif, 'Astudiaeth o'r gwewyr enaid modern' yn *Ysgrifau Beirniadol VII,* gol. gan J. E. Caerwyn Williams (Dinbych: Gwasg Gee, 1972), tt.184-208.
[339] Gramich, *Kate Roberts: Writers of Wales*, t.2. Ond wrth ystyried hyn, gellir hefyd gymhwyso dyfyniad Mair Rees am gyfrifoldeb y llenor a'r beirniad llenyddol Cymraeg i gymhellion Kate yn *TH* o ran portreadu brwydrau Bet â'i hunaniaeth fel menyw ac fel Cymraes. Meddai, er enghraifft: 'er bod y cysyniad o berthyn, wrth reswm, yn bwysig i'r awdur o Gymro hefyd, tybed a yw sefyllfa fregus menywod o fewn y drefn batriarchaidd yn gwneud alltudiaeth yn bosibilrwydd mwy byw iddynt?

Ymhellach, meddai Derec Llwyd Morgan:

> Her most stirring articles, and they are stirring because they are uncompromising, deal in the main with three subjects: the decline of spoken Welsh and the subsequent loss of the key to a great part of our cultural heritage; the state of contemporary prose, especially (but not exclusively) Welsh prose; she also had much to say on the morality that once framed the fabric of our life.[340]

Dadleuwn i fod *TH* ar y llaw arall yn greadigaeth wahanol. Dyma enghraifft o lenyddiaeth sy'n beirniadu'r union gymdeithas grefyddol, Gymreig y cyfeiria'r ddau feirniaid atynt. Wrth drafod traddodiad yr Eisteddfod a'i hysgrifau, meddai Wil, gan adleisio rhwystredigaethau Kate Roberts ei hun:

> Dyma ni yn byw yn yr oes fwya terfysglyd welodd y byd erioed a 'dydy'r beirdd yma'n gweld dim byd ynddi ond cyfle i ddisgrifio, disgrifio erchyllterau rhyfel, disgrifio effaith yr oes newydd ar y dull Cymreig o fyw, y byd yn newid, hiraeth ar ôl yr hen bethau a galarnadu uwchben y golled o hyd. (t.27)

Sylwi ar natur gyfnewidiol y byd y mae Wil yma, ac anallu'r gymdeithas gydymffurfiol Gymreig i ystyried pwysigrwydd ac arwyddocâd yr oes derfysglyd hon ar yr unigolyn, pethau a oedd hefyd yn poeni'r llenor. Ac yng ngolau natur amhendant a chyfnewidiol y cyfnod, ymddengys fod methiant y gymdeithas draddodiadol Gymreig i ddatblygu gyda'r oes yn sail i iselder Bet – syniad a drafodir yn fanylach yn y penodau dilynol.

Fel sy'n amlwg ar ôl yr arolwg bras cyd-destunol hwn, mae hanes, cymhellion a chredoau Kate Roberts yn hanfodol i ddealltwriaeth ehangach o *TH*. Fel Sylvia Plath a Ken Kesey, ceisiodd yr awdur gyflwyno i'r gynulleidfa Gymraeg hyder a rheswm mewn byd confensiynol a oedd ar chwâl. Fel y dywedodd Geraint Wyn Jones: 'wrth ddarllen *Tywyll Heno* mae un yn teimlo fod Kate Roberts yn union fel yr athronydd K. Mannheim[341] yn credu y bydd ansicrwydd meddyliol ac enedigol ein canrif ni yn foddion yn y pen draw i'n closio ni at y "gwirionedd"'.[342] Yma, gweithredu fel sylfaen i ddadansoddiadau amrywiol yr astudiaeth y mae'r

---

Dadleuir felly bod beirniaid llenyddol benywaidd Cymraeg yn cario beichiau ychwanegol i'w cyfoedion yn America. Ymwna'r beichiau hyn â'u haelodaeth o gymuned glòs lle mae eu hiaith (leiafrifol), yr iaith honno sydd yn gyfrwng eu hysgrifennu, o dan fygythiad cyson.' Gweler Rees, *Y Llawes Goch a'r Faneg Wen,* t.52

[340] Derec Llwyd Morgan, *Kate Roberts* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1991), t.44.

[341] Meddai K. Mannheim, er enghraifft: 'It is precisely our uncertainty which brings us a good deal closer to reality than was possible in former periods which had faith in the absolute'. Gwelwyd yn Wyn Jones, 'Astudiaeth o'r gwewyr enaid modern', t.207.

[342] Ibid., t.207.

ansicrwydd yn *TH*. Rhy gyfle inni archwilio pryderon yr awdur yn unol â thrafferthion ei phrif gymeriad.

* * *

Gan gadw hyn oll y meddwl, mae'n bwysig nad ydym yn anghofio am lais personol yr awdur wrth inni archwilio holl ddelweddau, themâu a safbwyntiau'r llenyddiaeth graidd. Wedi'r cyfan, gellir dadlau bod gan testun seicolegol llenyddol sy'n codi o brofiad personol ryw ddilysrwydd ac elfen o realiti sy'n absennol o weithiau amhersonol eu naws. Ys dywedodd Anne Hudson Jones: 'Even with all the advanced brain-imaging and other technologies of medicine, the subjective experience of mental illness can be conveyed only by those who have lived it'.[343] Ond i'r darllenydd Cymraeg, prin iawn yw'r gweithiau hyn sy'n dadansoddi'r thema hon, ac o ganlyniad, ceir defnydd llawer mwy ymarferol i'r llenyddiaeth hon.

Wrth drafod ei brofiadau o ran triniaeth seicolegol yn y Gymraeg, meddai Hywel Griffiths: 'roedd hyn yn agoriad llygad i'r rhwystredigaeth y mae llawer o bobl yn ei hwynebu dydd ar ôl dydd o ganlyniad i brinder adnoddau yn y gwasanaeth iechyd'.[344] A thrwy'r fath sylw, cynigir dimensiwn cyfoes ychwanegol i'n hastudiaeth. Yn yr achos hwn, mae'r gweithiau llenyddol Cymraeg hyn yn helpu darparu gwybodaeth ychwanegol i ddioddefwyr a orfodwyd yn aml i ddefnyddio'u hail iaith er mwyn disgrifio'u profiadau seicolegol. Meddai Alaw Griffiths, er enghraifft:

> Ambell dro, roeddwn yn methu dod o hyd i'r geiriau cywir i ddisgrifio fy nheimladau gan fy mod yn gorfod gwneud hynny drwy fy ail iaith, yn hytrach na fy mamiaith. Methais ddod o hyd i unrhyw wefannau neu lyfrau gyda gwybodaeth ddigonol am salwch meddwl yn y Gymraeg.[345]

O ganlyniad, mae modd dweud, yng ngoleuni datganiad Alaw Griffiths, fod gan y darnau amrywiol hyn y potensial i wella dealltwriaeth y gymdeithas Gymraeg o gymhlethdodau salwch meddwl. Heb os, erys llawer i'w wneud yn y maes hwn o ran darparu adnoddau seicolegol Cymraeg. Ac er bod yr astudiaeth hon yn ymhelaethu ar y trafodaethau seiciatryddol, gwelwn angen mawr am fwy o ddeunyddiau, llyfrau ac astudiaethau yn y famiaith. Ond dros y blynyddoedd

343 Hudson Jones, 'Literature and Medicine: Narratives of Mental Illness', t.359.
344 Hywel Griffiths, 'Cof', yn *Gyrru Drwy Storom,* gol. gan Alaw Griffiths (Talybont: Y Lolfa, 2015), t.83.
345 Griffiths *Gyrru Drwy Storom,* t.9.

diweddar, a thra bu'r astudiaeth hon yn cael ei datblygu, mae nifer wedi ceisio ysgwyddo'r cyfrifoldeb hwn yn y meysydd llenyddol a thechnolegol. Gwelwyd, o ganlyniad, gyhoeddiadau megis *Gyrru Drwy Storom,* (2015) a *Rhyddhau'r Cranc,* (2018). Ymddengys fod y gynulleidfa Gymraeg yn ogystal â'r llenorion a'r gweithwyr proffesiynol yn dechrau datblygu ac ehangu'r berthynas rhwng llenyddiaeth a gofal ac iechyd meddwl unwaith eto gan gyflwyno amrywiaeth o ddeunyddiau i ddioddefwyr a'r sawl sy'n awyddus i ddysgu am salwch meddwl.

Un enghraifft yw cynllun Cyngor Llyfrau Cymru, 'Darllen yn Well'.[346] Dyma gynllun sy'n cydnabod effaith lesol llenyddiaeth ac sy'n cynnig llyfrau Cymraeg ar bresgripsiwn wedi'u hanelu at feithrin dealltwriaeth well o glefydau megis salwch meddwl, iselder a dementia. Ym Mhrifysgol Bangor, hysbysebwyd swydd a oedd yn chwilio am berson addas i helpu i greu a datblygu adnoddau iechyd meddwl Cymraeg ar-lein, a hynny mewn ymateb i'r ymgyrch 'Mae Gen i Hawl' sy'n cynnig cwnsela neu gymorth iechyd meddwl i fyfyrwyr drwy'r Gymraeg.[347] At y ddau gyfrol uchod, gwelwyd hefyd nifer o gyhoeddiadau newydd eraill megis llyfr Llion Wigley, *Yr Anymwybod Cymreig,*[348] *Galar a Fi*[349] gan Esyllt Maelor, nofel Rhiannon Ifans, *Ingrid*[350] sy'n trafod dementia, a llyfr Dewi Wyn Williams, *Madi*[351], sy'n adrodd stori merch ifanc sy'n byw gydag anorecsia.

Ys dywedodd Yuval Noah Harari: 'the most important impact of script on human history is precisely this: it has gradually changed the way humans think and view the world'.[352] Nid oes amheuaeth nad yw llenyddiaeth yn rhywbeth hynod o bwysig yn ein bywydau. Mae'n ffynhonnell adloniant, mae'n caniatáu i unigolion archwilio'r byd a'i ryfeddodau; ond yn bwysicach fyth, mae'n helpu i gyfrannu at ein gwybodaeth ehangach wrth inni geisio ennill dealltwriaeth well o'r pethau sy'n achosi dryswch inni, gan gynnwys clefydau meddyliol. Lleiafrif yn y gymdeithas sy'n dioddef o salwch meddwl, ond mae bron pawb yn gyfarwydd â'r teimladau, y

346 Llenyddiaeth Cymru, *Darllen yn Well: Llyfrau ar Bresgripsiwn ar gyfer dementia* (Gorffennaf 2018), <https://www.llenyddiaethcymru.org/lw-news/darllen-yn-well-llyfrau-ar-bresgripsiwn-ar-gyfer-dementia/> [cyrchwyd 19 Chwefror 2020]
347 meddwl.org, *Intern: Datblygu Adnoddau Iechyd Meddwl Cymraeg Ar-lein* (Chwefror 2020), <https://meddwl.org/erthyglau/intern-datblygu-adnoddau-iechyd-meddwl-cymraeg-ar-lein-2-swydd-prifysgol-bangor/> [cyrchwyd 19 Chwefror 2020]
348 Llion Wigley, *Yr Anymwybod Cymreig: Freud, Dirfodaeth a'r Seice Cenedlaethol,* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2019)
349 Esyllt Maelor, *Galar a Fi,* (Talybont: Y Lolfa, 2017)
350 Rhiannon Ifans, *Ingrid,* (Talybont: Y Lolfa, 2019)
351 Dewi Wyn Williams, *Madi*, (Aberystwyth: Atebol, 2019)
352 Harari, *Sapiens: A Brief History of Humankind* , t.146.

tensiynau a'r rhwystredigaethau sy'n gallu arwain at iselder, clefydau meddyliol a gwallgofrwydd. A llwydda llenorion, yn ôl Branimir Rieger, i bortreadu'r profiadau a'r gwrthdaro mewnol 'with psychological realism'.[353]

Nid oes amheuaeth nad yw'r dadansoddiadau llenyddol hyn yn hynod bwysig, nid yn unig o ran dealltwriaeth y gymdeithas ehangach o salwch meddwl ond hefyd fel math o ddyfais ymdopi fel y gall menywod ddeall eu profiadau seicolegol eu hunain. Mae swyddogaeth y llenyddiaeth dan sylw yn amhrisiadwy. Gall ddarparu dihangfa i wraig weinidog gaeth, cysuro person unig neu hyd yn oed ddangos i fyfyrwraig gydwybodol fod byd y tu hwnt i'r disgwyliadau cymdeithasol patriarchaidd. Ys dywedodd Elaine Showalter, gan dynnu sylw at y berthynas rhwng ffeministiaeth a llenyddiaeth:

> They give us a different perspective on the asylum, on the psychiatrist, and on madness itself; and they transform the experiences of shock, psychosurgery and chemotherapy into symbolic episodes of punishment for intellectual ambition, domestic defiance, and sexual autonomy.[354]

Yn bennaf oll, mae'n hanfodol ein bod yn parhau i ystyried arwyddocâd y berthynas rhwng salwch meddwl a llên yn ei gyd-destun ehangach. Trwy wneud hyn, ac fel y gwnaeth gweithiau craidd yr astudiaeth hon i raddau, gallwn obeithio gwella ymwybyddiaeth a chynyddu empathi ymhlith y gymdeithas wrth leihau, ar yr un pryd, y stigma cymdeithasol. I'r perwyl hwn, deuwn at ganolbwynt pennod nesaf yr astudiaeth wrth inni edrych ar rôl y gymdeithas a normâu cymdeithasol o ran agweddau tuag at salwch meddwl, gan ystyried y farn mai salwch cymdeithasol yw salwch meddwl.

---

[353] Branimir M. Rieger, (gol), *Dionysus in Literature: Essays on Literary Madness* (Bowling Green: Bowling Green State University Popular Press, 1994), t.2.
[354] Showalter, *The Female Malady*, t.210.

# <u>PENNOD 4</u>

# Salwch meddwl a’r gymdeithas: dadansoddi perthynas, effaith a rôl y gymdeithas ar iechyd meddwl yr unigolyn

> *If we are to understand the ‘mentally ill’ patient, we must understand the situation from which he comes and the circumstances that led to the definition that he needs treatment. If the patient is to be effectively treated in regard to his life situation, we must understand what demands were made upon him and why he failed to meet these demands. Was it because he was unable to perceive the expectations of others accurately? Was it because he was unable to make proper responses? Or were there other reason for his failure to meet expectations?*
>
> - David Mechanic, “Mental Illness and Social Processes”

Dros y canrifoedd, mae sawl beirniad, llenor neu ysgolhaig fel David Mechanic, wedi ceisio archwilio perthynas yr unigolyn â’i gymdeithas yn unol â’i brofiad seiciatryddol. Ac yn y bennod hon, dadansoddir yn fanylach y canfyddiadau ynghylch salwch meddwl yn ei gyd-destunau cymdeithasol a seicolegol ehangach. O ganlyniad i natur y bennod, ac yn unol â dadansoddiadau’r astudiaeth, rhoddir sylw i gwestiynau megis y canlynol: pwy yn union sy’n penderfynu a yw’r unigolyn yn wallgof? Ai gweithwyr proffesiynol, y dioddefwr neu’r awdurdod rheolaethol? A ystyrir yr unigolyn yn y nofelau dan sylw yn wirioneddol ‘wallgof’ yn ôl safonau diamod a gwrthrychol? Neu a yw’r gymdeithas y mae’r unigolyn yn rhan ohoni wedi barnu’r person hwn yn wallgof am nad yw’n cydymffurfio â safonau cymdeithasol?

Yn sgil y cwestiynau hyn, archwilir arwyddocâd y berthynas hon gan ganolbwyntio’n bennaf ar brofiad cymdeithasol a phersonol y dioddefwr. Ac yn wyneb gwerthoedd y cyfnod, dadansoddir straeon y cymeriadau llenyddol dan sylw, nid yn unig drwy eu llygaid eu hunain, ond hefyd drwy oleuni gweithiau theoretig heriol amrywiol yr oes.

## 4.1 Rhagymadrodd – Y Gymdeithas, Yr Unigolyn a Dylanwad Seiciatreg: cyflwyno'r berthynas

Diffiniad *Geiriadur Prifysgol Cymru* o 'cymdeithas' yw 'corff neu uned o bobl yn cyd-fyw dan gyfundrefn gydnabyddedig o arferion, cyfreithiau &c.; cyfundrefn neu ddull o fyw a fabwysiedir gan gorff o unigolion er mwyn cyd-fyw yn heddychol a sicrhau cyd-ddiogelwch'.[355] Yn syml, bodau cymdeithasol ydym sy'n ffynnu orau yng nghwmni pobl eraill. Rydym yn edrych at ein cyd-ddyn am gefnogaeth ac arweiniad; nodweddion sy'n hanfodol er mwyn datblygu fel unigolyn yn y byd modern. Ac ar lefel emosiynol a phersonol, mae'r rhan fwyaf ohonom hefyd yn dibynnu ar anwyldeb pobl eraill wrth inni hiraethu am gysur a chariad anwyliaid o ddydd i ddydd.

Fel rhywogaeth, rydym yn ysu am gymeradwyaeth gymdeithasol gan ddilyn rheolau'r gymdeithas yn ddiwyd er mwyn ennill swydd dda, cynnal tŷ glân a magu teulu.[356] Trwy gydol ein bywydau, rydym yn gwirioni ar ufuddhau i'r delfrydau hyn gan geisio osgoi, ar yr un pryd, unrhyw ymddygiad a allai arwain at ryw fath o ragfarn gymdeithasol megis profi methiant priodasol neu, fod yn sâl yn feddyliol. Ac felly, cyn mynd ati i ddadansoddi'r cysylltiad seiciatryddol ymddangosiadol hwn rhwng yr unigolyn a'r gymdeithas, mae'n rhaid cydnabod yn gyntaf arwyddocâd y strwythurau cymdeithasol a phwysigrwydd pŵer.

Meddai Dacher Keltner: 'Power defines the waking life of every human being. It is found not only in extraordinary acts but also in quotidian acts, indeed in every interaction and every relationship.' [357] O ystyried y ffaith mai ffenomenon wedi'i chreu gan y gymdeithas yw pŵer, nid yw'n anodd gweld ei dylanwad ar wleidyddiaeth, rhyfeloedd a strwythurau cymdeithasol lle y mae'r gwan a'r israddol wedi dioddef o'u herwydd bron pob tro.[358] Ond yn ogystal â'r meysydd hyn, mae pŵer hefyd wedi mwynhau safle canolog ym myd seiciatreg. Wrth esbonio'r berthynas rhwng grym cymdeithasol a materion seicolegol, meddai Issac Prilleltrensky:

---

[355] 'Cymdeithas' yn Geiriadur Prifysgol Cymru, <http://geiriadur.ac.uk/gpc/gpc.html> [cyrchwyd 04 Ionawr 2018]

[356] C. Nathan Dewall a Brad J. Bushman, 'Social Acceptance and Rejection: The Sweet and the Bitter', *Association for Psychological Science,* 20.4 (Awst 2011), 256-260.

[357] Dacher Keltner, *The Power Paradox. How We Gain and Lose Influence* (London: Allen Lane, 2016), tt.3-4.

[358] Priodolir yr adran nesaf i ddadansoddi dilysrwydd y datganiad eithafol hwn.

> Power is pivotal in attaining wellness, in promoting liberation, and in resisting oppression. Contrary to fragmentary disciplinary discourses, power is never political *or* psychological; it is always both. The same goes for wellness, liberation, and oppression; they are never political *or* psychological; they are always both.[359]

Yn yr un modd, pwysleisiodd Thomas Szasz: 'Just as physical laws are relativistic with respect to social conditions, in short, the laws of psychology cannot be formulated independently of the laws of sociology'.[360] Yn ôl y seiciatrydd, ac yn unol â barn gyffredinol y cyfnod, nid oes modd gweld y gymdeithas a seiciatreg fel dau beth ar wahân.

Yn hytrach, dylid eu hystyried fel dau rym sy'n dylanwadu ar ei gilydd er mwyn cynhyrchu pwerdy o awdurdod, rheolaeth, ac ym marn rhai, llawdriniaeth. Wedi'r cyfan, dadleuwyd dros y canrifoedd mai'r gymdeithas reoli sydd gan yr holl bŵer fel arfer, ac o ganlyniad, gall benderfynu pethau megis pwy sy'n dlawd a phwy sy'n gyfoethog neu ba rai sy'n dwp a pha rai'n athrylithgar.[361] Ond yn bwysicach oll, awgrymwyd hefyd ei bod yn dylanwadu ar y canfyddiadau seiciatryddol gan ddatgan pwy sy'n gall a phwy sy'n wallgof.

Ys dywedodd Phyllis Chesler: 'Psychiatrists, both medically and legally, decide *who* is insane and *why*; *what* should be done to or for such people; and *when* and *if* they should be released from treatment'.[362] A chan grybwyll meddylfrd cyffredinol y cyfnod, eglurodd Len Bowers: 'Some assert a social aetiology for mental illness, some a high degree of influence by social forces and others that mental illness is thoroughly and completely socially constructed'.[363]

Fel y gwelir, mae'r berthynas rhwng salwch meddwl, cymdeithaseg a'r gymdeithas wedi bod yn syflaen i sawl trafodaeth a damcaniaeth ar hyd y blynyddoedd. Ond yn ystod cyfnod craidd ein hastudiaeth, roedd y cysylltiad hwn yn ymddangos yn eithriadol o boblogaidd – a hynny oherwydd yr gwrth-seiciatryddion i raddau. Gan inni gyflwyno hanes a chyd-destun y mudiad seiciatryddol hwn eisoes yn yr astudiaeth, dechreuwn yn awr ddefnyddio rhai o'i brif ddamcaniaethau ochr yn

---

[359] Issac Prilleltrensky, 'The Role of Power in Wellness, Oppression, and Liberation: The Promise of Psychopolitical Validity', *Journal of Community Psychology,* 36.2 (Mawrth 2008), 116
[360] Szasz, *The Myth of Mental Illness*, t.8 .
[361] Gweler astudiaethau megis Charles E. Hurst, *Social inequality: forms, causes and consequences*, (Llundain: Allyn and Bacon, 2004), Louise Warwick-Booth, ail argraffiad, *Social inequality*, (Llundain: SAGE Publications, 2019), Gareth Rees a Teresa L. Rees, *Poverty and social inequality in Wales*, (Llundain: Croom Helm, 1980).
[362] Chesler, *Women and Madness*, t.98.
[363] Bowers, *The Social Nature of Mental Illness*, t.5.

ochr â’r llenyddiaeth graidd wrth inni roi llwyfan i lais y dioddefwr gan archwilio, o ganlyniad, wreiddiau cymdeithasol salwch meddwl o fewn profiadau’r cymeriadau eu hunain.

## 4.2 Tlodi, Dosbarth, Anghydraddoldeb Cymdeithasol a Salwch Meddwl

Yn 1958 ac ar drothwy natur chwyldroadol y chwedegau, cyhoeddodd August de Belmont Hollingshead a Fredrick Carl Redlich adroddiad a archwiliodd y gydberthynas rhwng haenau cymdeithasol a salwch meddwl. [364] Ynddo, canolbwyntiasant ar ddau brif gwestiwn a oedd yn herio gweithrediadau'r gymdeithas uwch a'r byd seicolegol. Yn gyntaf, gofynasant a oes modd cysylltu salwch meddwl â dosbarth cymdeithasol. Ac yn ail, holwyd a yw sefyllfa gymdeithasol yr unigolyn yn effeithio ar ei driniaeth seicolegol. Byddai'r ddau gwestiwn hyn yn newid cwrs seicoleg, seiciatreg a chymdeithaseg am byth.

* * *

Un o frwydrau oesol y ddynoliaeth yw honno rhwng y tlawd a'r cyfoethog. O safbwynt llenyddol, er enghraifft, a thrwy nofelau megis *Oliver Twist* (1837-39), *David Copperfield* (1850), ac *A Tale of Two Cities* (1859), enillodd Charles Dickens gydnabyddiaeth fyd-eang fel beirniad cymdeithasol a gondemniodd y gamdriniaeth economaidd a moesol a oedd yn bresennol yn ystod Oes Fictoria.[365] Yn ogystal â'r testunau llenyddol hyn, gwelwyd hefyd elyniaeth o fath tebyg yn y meysydd ideolegol. Yng nghanol cyffro'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, er enghraifft, datblygodd damcaniaeth wleidyddol ac economaidd newydd o'r enw Marcsiaeth, damcaniaeth a feirniadai'r strwythurau cymdeithasol a'r gymdeithas fwrgais gan hyrwyddo achos y dosbarth gwaith yn lle hynny.[366]

Wrth i gryfder dyn gynyddu yn y meysydd gwleidyddol, diwydiannol, technolegol a milwrol, tyfodd hefyd yr anghydraddoldeb rhwng y ddau grŵp cymdeithasol, y dosbarth uwch a'r dosbarth gweithiol. Ys dywedodd Yuval Noah Harari: 'a dramatic increase in power and ostensible success of our species went hand in hand with much individual suffering'.[367] Heb os, daeth y dioddefaint hwn i'r wyneb yn y meysydd academaidd, gyrfaol a'r gwasanaethau tai wrth i'r werin gael ei

[364] August B. Hollingshead a F. C. Redlich, *Social Class and Mental Illness: A Community Study* (New York: John Wiley, 1958).
[365] Cyfeirir at y gred hon hefyd yn V. Christine McCarthy, 'The Social Criticism of Charles Dickens: A Point of View' (Traethawd MA, Manchester University, 1971).
[366] Ganwyd y theorïau hyn o ganlyniad i weithiau a syniadau Karl Marx a Friedrich Engels. Gweler Karl Marx a Friedrich Engels, *The Communist Manifesto* (London: Penguin Classics, 2015). Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn 1848 a Karl Marx, *Das Kapital. Kritik dêr Politischen Oekonomie (Capital. Critique of Political Economy)* (Hamburg: Otto Meissner (Verleger), 1867).
[367] Harari, *Sapiens: A Brief History of Humankind*, t.109.

hepgor o'r cylchoedd academaidd a gwleidyddol elitaidd, colli swyddi gorau'r gymdeithas, ac weithiau, fethu â fforddio digon o fwyd a gwres.[368]

Cydnabuwyd y cysylltiad rhwng pŵer, tlodi a dioddefaint hefyd ym myd seiciatreg. Meddai Busfield:

> Stress, it was suggested, was greater for those towards the bottom of the social structure – they were more likely to become unemployed, have poor housing, get divorced and so forth. And, as a result, were more likely to become disturbed.[369]

Mewn modd tebyg, datganodd David Pilgrim: 'Overall, the relationship between social class and mental health is straightforward; the lower a person's social class position, the higher the probability of them being diagnosed with a mental health problem'.[370]

Yn ôl y meddylfryd hwn, ac fel y dadleuodd Hollingshead a Redlich, *gall* sefyllfa gymdeithasol rhywun gael effaith uniongyrchol ar ei bwyll. Dyma osodiad tra phendant ac o ganlyniad, daeth y berthynas rhwng salwch meddwl a thlodi yn destun poblogaidd ymhlith seiciatryddion a haneswyr fel ei gilydd.[371] O'r herwydd, nid bwriad yr adran hon yw ailadrodd hanes a gwleidyddiaeth y cysylltiad. Yn hytrach, fe'i defnyddir fel gwedd feirniadol i'r llenyddiaeth graidd wrth inni ddadansoddi pwysigrwydd tlodi ac effaith diffyg cyfleoedd cymdeithasol yn y frwydr seicolegol o safbwynt y cymeriadau dan sylw. Trwy'r nofelau a'r straeon amrywiol, gwelwn enghreifftiau amrywiol o ddiffiniad llythrennol y gair 'tlodi' wrth i'r cymunedau dan sylw frwydro'n gorfforol yn erbyn caledi ariannol, ond cyflwynir hefyd ystyr ehangach y gair ac archwilir y cythrwfl seicolegol sy'n nodweddu tlodi economaidd a chymdeithasol.

* * *

Wedi'i gosod mewn cyfnod cythryblus, gyda chysgodion y chwarel, y rhyfel, y dirwasgiad, a'r Streic Fawr yn tywyllu bywydau'r trigolion, nid yw'n syndod bod tlodi yn chwarae rôl ganolog yn *UNOL.* Teimla'r gymuned ei effaith ym mron pob

---

368 Am ddadansoddiadau o'r math hwn gweler, H.P.P. Lötter, *Poverty, Ethics and Justice* (Cardiff: University Wales Press, 2011); Onora O'Neill, *Faces of Hunger: An Essay on Poverty, Justice and Development* (London: Allen & Unwin, 1986).

369 Busfield, *Men, Women and Madness*, t.190.

370 Pilgrim, *Key Concepts in Mental Health*, t.194.

371 Archwiliwyd y cysylltiad hwn gan brif seiciatryddion y cyfnod dan sylw wrth iddynt feirniadu moesau'r gymdeithas. Ond gweler hefyd Rob Poole, Robert Higgo a Catherine A. Robinson, *Mental Health and Poverty* (Cambridge: Cambridge University Press, 2014); David A. Leon a Gillian Walt, *Poverty, Inequality, and Health: An International Perspective* (Oxford: Oxford University Press, 2001).

agwedd o fywyd ac oherwydd ei bresenoldeb cyson, gellir ei ddehongli – yn union fel gwallgofrwydd – nid yn unig fel un o brif themâu'r nofel ond hefyd, fel un o'r prif gymeriadau, gan ei fod wrth wraidd nifer o broblemau'r gymdeithas.[372] Cymuned dosbarth gweithiol yw cymuned *UNOL* ac yng ngolau hyn, portreedir caledi'r cyfnod yn ogystal â'r brawdgarwch cymunedol.[373]

Ond er bod pawb yn ceisio helpu ei gilydd, nid yw'r bachgen yn ddall i'w dlodi nac i'r gwahaniaethau rhwng y gwahanol ddosbarthiadau cymdeithasol ychwaith. Ar ôl chwarae gyda nai Canon, er enghraifft, sylweddola'r adroddwr mor annhebyg yw eu dillad. Meddai: 'Dew, hogyn bach neis oedd o ... a trywsus bach melfet yn dangos hannar ei glunia, a sana gwyn a slipars am ei draed o, nid esgidia hoelion mawr run fath â fi'. (t.23) Trwy lygaid diniwed plentyn, cydnabyddir y gwahaniaethau rhwng bywyd y dosbarth canol a'r dosbarth gweithiol a thynnir sylw at yr anghydraddoldeb ariannol.

Ar ôl marwolaeth ddirgelaidd y Tad, yr unig incwm yw arian y plwyf a thâl pitw'r fam wrth iddi olchi a smwddio dillad Canon. Ond mewn cyfnod lle yr oedd tlodi, caledi, a newyn yn rheoli, nid oedd yr arian hwn yn ddigon. Ymddengys fod y bachgen ifanc wastad eisiau bwyd ac ailadroddir brawddegau megis: 'Esgob, rydw i eisio bwyd Mam' (t.16) drwy'r nofel fel atgof o galedi'r cyfnod, y prinder bwyd a'r diffyg maeth a oedd yn dra chyffredin. Yn wyneb hyn, mae mam yr adroddwr yn aml yn dod â sbarion bwyd adref o'r Ficrej,[374] a gwelwn y wraig hefyd yn ceryddu ei chwaer am roi esgyrn i'r ci yn hytrach na defnyddio pob darn.[375] Dyma fywyd hynod o lwm. Awgrym y nofel yw bod y frwydr ariannol gyson hon yn cael effaith ar iechyd meddwl y fam, wrth iddi geisio'n ofer ddarparu safon bywyd sylfaenol i'w mab.[376] Ys dywedodd John Rowlands:

> Does dim modd osgoi'r tlodi affwysol sy'n ffrwyth annhegwch economaidd y gymdeithas ddiwydiannol. Pan drewir y Fam yn wael y tro cyntaf yn y nofel, fe

---

[372] Cyfeiria Mihangel Morgan at safle holl ganolog gwallgofrwydd yn ei ymdriniaeth Morgan, *Llên y Llenor: Caradog Prichard*.

[373] Mae'r gymuned yn helpu Catrin Jên ar ôl iddi fethu talu ei rhent a chyfeirir yn aml at gymdogion yn rhoi bwyd neu arian bach i'w gilydd, yn arbennig y fam a'r mab.

[374] Prichard, *Un Nos Ola Leuad*, t.22.

[375] Ibid., t.138.

[376] Roedd y pwysau hyn hefyd yn cael effaith ar Caradog Prichard (os cydnabyddir yr elfennau hunangofiannol posib a geir yn *UNOL*) ac fel y dywedodd Menna Baines: 'Roedd problemau ariannol dybryd yn rhan o'i uffern'. Roedd yn rhaid iddo dalu ei rhent ei hun, yn ogystal â rhent a gofal seicolegol ei fam. Ac ymhlith y problemau ariannol hyn, roedd euogrwydd yn deimlad cyffredin. Dywed yr awdur: 'Yr oeddwn yn methu â byw yn fy nghroen neithiwr wrth feddwl am yr hen fam yn y tŷ yna ym Methesda, efallai heb ddim tân na dim'. Gweler Baines, *Yng Ngolau'r Lleuad,* tt.20-1.

> ddywedir mai '(c)ricmala' (97) sydd arni, a gellir casglu mai'r tlodi a barodd iddi fethu â dygymod â'r heth fawr.[377]

Yn yr un modd, meddai Katie Gramich: 'yr hyn a gawn yw pobl yn ildio dan y straen, yn "mynd o'u coua", yn gwneud amdanynt eu hunain'.[378] Trwy ymdrech y fam Gymreig hon yn erbyn tlodi, delweddir caledi corfforol y cyfnod, ac er gwaethaf cymorth y gymuned glòs, ni allai'r fam ymdopi â'r pwysau ariannol, cymdeithasol, a seicolegol a roddwyd arni.Ar ôl iddi golli'i gŵr yn annisgwyl a chael ei gorfodi i fagu ei phlentyn ar ei phen ei hun, â'n wallgof. Cyfeiria Alan Llwyd at wreiddiau cymdeithasol ei salwch:

> Yr oedd y gymdeithas a'r fro, o'r herwydd, yn gyfrifol am wallgofrwydd ei fam. Colli ei gŵr mewn damwain yn y chwarel a barodd i'w fam ddechrau colli arni ei hun, ac felly byw yn ardal Bethesda oedd yn gyfrifol am wallgofrwydd ei fam.[379]

Fel y nodwyd, cymdeithas bron uniaith Gymraeg wedi'i lleoli yng ngogledd Cymru yw cymdeithas *UNOL*, cymdeithas a seilir ar gymuned plentyndod Caradog Prichard, Bethesda a Dyffryn Ogwen.[380] Ac yn unol â bywyd syml ond anodd y cyfnod, awgrymir mai unig ragolygon bechgyn y gymuned yw gweithio yn y chwarel neu fynd yn filwyr. Oherwydd hyn, mae gan y rhyfel a'r chwarel safle canolog yn y gymdeithas ffuglennol. Cydnabyddir pwysigrwydd y ddau gan feirniaid megis Menna Baines a John Rowlands wrth iddynt gyfrannu at gyflwyno caethiwed y dosbarth gweithiol yn effeithiol.

Meddai Baines: 'y peth pwysicaf i'w ddweud am y chwarel yw bod ei phresenoldeb yn ychwanegu at yr ymdeimlad fod y Pentra'n lle clawstroffobaidd sy'n cyfyngu ar fywydau ei drigolion'.[381] A chan ystyried hyn, dadleuwyd mai diffyg cyfleoedd oedd ar fai am nifer o broblemau seicolegol y tlawd. Ys dywedodd John Hope Bryant:

> Poor and working classes all too often do not occupy an ecosystem of hope or an environment primed for growth. In fact, growing up in this kind of neighbourhood, I learned that no matter how nice the people in a community might be, poverty is just

377 Rowlands, 'Y Fam a'r Mab – Rhagarweiniad i 'Un Nos Ola Leuad', t.296.
378 Baines, *Yng Ngolau'r Lleuad*, t.123.
379 Llwyd, 'Gwallgofrwydd Arglwyddes Hardd' : Pryddestau Eisteddfodol Caradog Prichard 1927-1939', t.196.
380 Baines, *Yng Ngolau'r Lleuad*, t.93.
381 Ibid., t.128.

> as much a culture as success is. And the culture of poverty stretches out into just about every aspect of one's life.[382]

Amlyga nofel Caradog Prichard nad oedd yn bosib i'r rhan fwyaf o drigolion fanteisio ar gyfleodd gwerthfawr. Ac yn hytrach nag archwilio eu hopsiynau, roedd yn rhaid i nifer fawr ohonynt aberthu eu hiechyd a'u pwyll naill ai yn y chwareli neu ar faes y gad. Yn yr achos hwn, gellir dweud bod sefyllfa uniongyrchol y trigolion yn *UNOL* yn cael effaith ar safon eu bywyd drwy ddylanwadu ar eu meddyliau a'u gobeithion.

Wrth sôn am eu cymuned a'i dylanwad yn gyffredinol, meddai'r fam wrth y nain a'r bachgen: 'mae rhywbath rhyfadd yn digwydd o hyd yn y lle yma'. (t.102) Cyfeiriwyd eisoes at y ffaith fod pawb fel pebaent wedi'u eu meddiannu gan wallgofrwydd yn y nofel, wrth i ddigwyddiadau rhyfedd ac ymddygiad anarferol lygru pob cymeriad, sefyllfa, a delwedd. O ystyried hyn, ac mewn cymdeithas lle y mae nifer o'r trigolion 'o'u coua,' roedd ymddygiad afreolus megis trais rhywiol, hunanladdiad, ac ymladd yn ddigon cyffredin. Ond pa fath o effaith y mae'r ymddygiad cymdeithasol hwn yn ei gael ar yr adroddwr, plentyn sy'n agored i bob math o ddylanwadau?

Dysgu drwy efelychu y mae plant fel arfer wrth iddynt sylwi ar ymddygiad y rhai sydd o'u cwmpas. O ran y dylanwad hwn, meddai Erich Fromm: 'they must learn to work and to consume within the norms demanded by the means of production and the consumption patterns of their groups and the society in which they live'.[383] Nid arwyr teilwng ond meddwon, lladron, a chamdrinwyr treisgar sy'n byw yng nghymdeithas yr adroddwr, wrth gwrs, o'r herwydd, nid yw'n syndod bod y bachgen yn profi'r un dynged. Fel y bobl sy'n ei amgylchu, mae'r adroddwr hefyd yn troi'n dreisgar – os yw ein damcaniaeth yn wir, wrth gwrs – ac yn lladd Jini Bach Pen Cae gan gadarnhau ei broblemau seicolegol.

Ond ar ben hynny, nid ymddengys fod yr adroddwr yn teimlo'n euog am ei marwolaeth ychwaith wrth iddo sylwi yn hytrach: 'A faswn i ddim wedi cael fy nal chwaith heblaw i'r dyn hwnnw ddaru roid pas imi ar ôl pasio Glanabar ofyn o lle oeddwn i'n dŵad a stopio'i lorri wrth ymyl Lerpwl i siarad hefo plisman'. (t.182)

[382] John Hope Bryant, *How the Poor Can Save Capitalism: Rebuilding the Path to the Middle Class* (San Francisco: Berrett-Koehler Publishers, 2014), t.29.
[383] Erich Fromm, *The Influence of Social Factors in Child Development* (1958), Deunydd Darlith, [cyrchwyd ar-lein 18 Ionawr 2018 <https://www.marxists.org/archive/fromm/works/1958/social.htm>]

Wrth feddwl am ei fagwraeth, a ydym yn disgwyl unrhyw beth gwahanol? Wedi'r cyfan, mae'r bachgen wedi bod yn dyst i ymddygiad treisgar a gwallgof drwy gydol ei fywyd ac yn wyneb hyn oll felly, mae modd dadlau mai gweithred anochel mewn cymdeithas wallgof oedd tagu Jini.[384] Ymddengys fod tlodi cymdeithasol ac ariannol y gymuned wedi cyfrannu at ddiffyg datblygiad a sefydlogrwydd meddyliol y trigolion yn gyffredinol wrth iddynt gael eu caethiwo mewn trobwll o anobaith, anobaith sydd fel arfer yn gysylltiedig â'r dosbarthiadau cymdeithasol is.

Mae'n hawdd gweld dylanwad tlodi a dosbarth cymdeithasol yn nofel Caradog Prichard, nid yn unig ar iechyd meddwl yr unigolyn ond hefyd ar bwyll y gymuned gyfan. I lawer o bobl, nid yw tlodi'n para'n rhy hir a gallant, fel arfer, drechu eu hamgylchiadau mewn da amser. Ond yn achos *UNOL*, parasit ydyw sy'n heintio pob agwedd o fywyd trigolion y pentref. Mae'n chwarae rôl ganolog yn y sfferau preifat wrth iddo ddinistrio cryfder seicolegol gwraig weddw fregus, er enghraifft. Ond mae hefyd i'w weld yn y sfferau mwy cyhoeddus lle y mae'n cyfrannu at y darlun byw o gymdeithas gan bortreadu realiti llym y cyfnod a diffyg rhagolygon y tlawd. A thrwy safbwynt gonest plentyn, tynnir sylw at yr anghydraddoldeb ariannol a seicolegol a wynebai'r dosbarth gweithiol o ddydd i ddydd drwy oleuni gweddol ddiniwed.

Mae'r gwahaniaethau hyn rhwng y dosbarthiadau cymdeithasol hefyd i'w gweld yn nofel Sylvia Plath, wrth i'r rhaniad greu teimladau o unigedd ym mywyd y prif gymeriad. Er enghraifft, er y gellir dweud mai o'r tu mewn iddi y cwyd salwch meddwl Esther[385] – yn union fel Bet Jones yn *Tywyll Heno* – nid oes modd ychwaith anwybyddu'r ffactorau allanol amlwg sy'n effeithio ar ei bywyd, ac felly ar ei hiechyd meddwl. Nid yw sefyllfa gymdeithasol Miss Greenwood mor wael â sefyllfa'r fam a'r adroddwr yn *UNOL* o bell ffordd, ond er hyn, gwelir yn y ddwy nofel arwyddocâd seicolegol y dosbarth cymdeithasol ac effaith bosib arian – neu ddiffyg arian – ar yr unigolyn.

Bu farw tad Esther pan oedd yn ifanc gan adael straen emosiynol ac ariannol ar y teulu. I'r perwyl hwn, archwilir cyd-destun daearyddol a chymdeithasol

[384] Trafodir syniad tebyg gan Bleddyn Owen Huws hefyd yn, Bleddyn Owen Huws, *Nodiadau ar Un Nos Ola* Leuad, t.33

[385] Cynigia Stephanie Tsank bersbectif gwahanol ar iechyd meddwl Esther Greenwood. Meddai: 'The bell jar is a direct representation of Esther's mental suffocation by the unavoidable settling of depression upon her psyche… [and that] the linage of events within the novel are entrenched in Esther's personal psychological turmoil.' yn Stephanie Tsank, 'The Bell Jar: A Psychological Case Study', *Plath Profiles,* 3 (2010), 166-177 (t.166)

magwraeth y fyfyrwraig. Cafodd Esther ei magu yn Boston mewn maestref cyffredinol. Yn aml, cysylltir y maestrefi Americanaidd hyn â thraddodiad, cydymffurfiad a diogelwch cymdeithasol. Ys dywedodd Rupa Huq:

> It is a 'safe' place. In the popular imagination, it exists as gendered space: where a code of good housekeeping prevails as women tend to the nest (i.e. household and children), while their men are out in the big bad city earning a living. Suburbs were seen as a space of 'ideal home.'[386]

Yn ôl y norm hwn, cymuned barchus iawn sy'n byw yn y maestrefi hyn fel arfer a cheir o ganlyniad ddarlun o'r 'teulu niwclear'. Mae'r gŵr yn gweithio'n ufudd o naw tan bump bob dydd, er enghraifft, tra mae'r wraig yn magu plant parchus. Ni fyddant byth yn cwyno am broblemau go iawn megis tlodi, ond rhyfeddant yn hytrach ar dyfiant y glaswellt neu gymdogion swnllyd. Delfryd wedi'i chreu gan gymdeithas yw'r ddelwedd hon, ond drwy Esther fodd bynnag, cyflwynir safbwynt hollol wahanol. Ar ôl dychwelyd o Efrog Newydd i'w bro enedigol, er enghraifft, meddai:

> The grey padded roof closed over my head like the roof of a prison van, and the white, shining identical clapboard house with their interstices of well-groomed green proceeded past, one bar after another in a large but escape proof cage. (t.121)

I brif gymeriad Sylvia Plath, cynrychiola'r rhestri taclus hyn o dai gaethiwed yn unig. Mae diflastod y bywyd hwn hefyd yn cael ei awgrymu yn *Revolutionary Road*. Meddai April:

> I think it's unrealistic for a man with a fine mind to go on working like a dog year after year at a job he can't stand, coming home to a house he can't stand in a place he can't stand either, to a wife who's equally unable to stand the same things.[387]

Yn lle'r diogelwch teuluol a'r hapusrwydd ymddangosiadol a geir yn y maestrefi hyn, mae llawer gwell gan Esther brysurdeb y ddinas. Ac y mae'n hapusach fyth wrth greu llenyddiaeth a barddoniaeth ddifyr yn hytrach na golchi llestri, gwnïo dillad a dysgu llaw-fer. Fel y nodwyd, unigolyn creadigol yw Esther Greenwood ond yn union fel cymeriadau benywaidd *TH, FTG* ac *Y Byw Sy'n Cysgu,* arweinia'r pwysau enfawr i gydymffurfio â'r safonau cymdeithasol derbyniol at atal unigolyddiaeth a chreadigrwydd. Yn wyneb hyn, mae Esther yn poeni:

> I started adding up all the things I couldn't do…. I began with cooking…. I didn't know shorthand either… My list grew longer…. The trouble was, I had been

[386] Rupa Huq, *Making Sense of Suburbia through Popular Culture* (London: Bloomsbury Academic, 2013), t.134.

[387] Richard Yates, *Revolutionary Road,* (New York: Vintage Books, 2008), t.115

inadequate all along, I simply hadn't thought about it. The one thing I was good at was winning scholarships and prizes and that era was coming to an end. (tt.79-81)

Hyd yma yn ei bywyd, mae Esther wedi bod yn weddol hapus yn ei swigen academaidd. Ond wrth i'w hamser yn y byd academaidd ddechrau dod i ben, mae'r byd a'r bywyd 'go-iawn' yn codi ofn arni. Dyma bryder sy'n cael ei gydnabod gan Rhosfair yn *Epil Cam*, hynny yw un a lwyddodd 'mor ddidrafferth yn yr ysgol a'r coleg ac fe'i portreadir fel un a gollodd ei herfeiddioldeb' ond sydd yn nawr yn wynebu ansicrwydd.[388] Fel y gwelir drwy'r dyfyniad Esther uchod, ni theimla ei bod yn meddu ar unrhyw un o'r sgiliau cymdeithasol dymunol. Ac yn sgil hynny, awgrymir bod y fyfyrwraig yn meddwl bod y byd ceidwadol a chydymffurfiol hwn wedi'i sylfaenu naill ai ar ennill arian, neu'i wario.[389] Nid oes lle i'w chreadigrwydd na'i doniau llenyddol ond yn hytrach, caethiwir trigolion y dosbarth cymdeithasol hwn gan glochen fyglyd a gormesol.[390]

Un gaeth hefyd yw Bet Jones yn *TH* i ryw raddau. Yn wir, nid oes llawer o galedi ariannol i'w gweld yn y stori fer hir hon,[391] mae digon o fwyd ar y bwrdd, mae wastad dân yn twymo'r tŷ, ac mae'r teulu'n byw yn ddigon cyfforddus ar un gyflog sef cyflog Gruff ar ôl i Bet aberthu ei diddordebau am rai ei gŵr. Ond yn debyg i Mrs Greenwood, yr union aberth hwn yw sylfaen tlodi'r wraig. Mae Bet, er nad yn dlawd yn llythrennol, yn dlawd o ran profiadau, datblygiadau personol a chyfeillgarwch amrywiol. Mae Nia Angharad Watkins hefyd yn cydnabod y tlodi hwn yn ei thraethawd. Wrth drafod nofelau Jane Edwards rhwng *Dechrau Gofidiau* a *Dros Fryniau Bro Afallon*, pwysleisia 'nad yw budd materol yn ddrych i les emosiynol'.[392] Oherwydd disgwyliadau gormesol y gymdeithas ehangach, nid oes cyfle i Bet ddatblygu'n bersonol, yn greadigol nac yn yrfaol – sef yr union pethau sydd eu hangen ar y meddwl am ddatblygiad seicolegol iach.

---

[388] Nia Angharad Watkins, 'Y Nofel Ddomestig Gymraeg dros dair cenhedlaeth, gyda sylw neilltuol i waith Moelona, Jane Edwards a Sonia Edwards', (PhD, Prifysgol Aberystwyth, 2008), t.81

[389] Trafodir syniad tebyg, Tîm Golygyddol Shmoop, 'The Bell Jar: Class and Society,' *Shmoop* (Tachwedd 2008) <https://www.shmoop.com/bell-jar/society-class-quotes-2.html> [cyrchwyd 01 Chwefror 2018]

[390] Archwiliwyd arwyddocâd y ddelwedd hon ym Mhennod 4.1

[391] Yn amlwg, pe baem yn astudio gwaith cynnar Kate Roberts megis *Traed Mewn Cyffion,* byddai'n hawdd gweld effeithiau dinistriol tlodi ar fywydau ac emosiynau ei chymeriadau. Ond trwy weithiau diweddarach Kate Roberts ac fel y nodwyd yn yr adolygiad llenyddol, gwelwyd newid yn nadansoddiad yr awdur. Ni chanolbwyntir bellach ar ddylanwadau allanol ond yn hytrach, edrychir ar y ffactorau mewnol ac emosiynol.

[392] Nia Angharad Watkins, 'Y Nofel Ddomestig Gymraeg dros dair cenhedlaeth, gyda sylw neilltuol i waith Moelona, Jane Edwards a Sonia Edwards', (PhD, Prifysgol Aberystwyth, 2008), t.65

Yn ogystal â dylanwadu ar gyfleoedd cymdeithasol yr unigolyn, gall grym y gymdeithas hefyd effeithio ar y teimlad o berthyn. Ymddengys fod Bet Jones yn hongian rhwng dau fyd gwahanol ac felly dwy garfan gymdeithasol wahanol.[393] Wrth ystyried hyn, mae modd hefyd ddisgrifio Esther fel rhywun sydd ar goll yn gymdeithasol. Yn wahanol i *TH,* lle y mae arwahanrwydd Bet yn codi o ganlyniad i'w hargyfwng mewnol, mae modd priodoli dieithriad Esther i ganlyniadau ariannol ei theulu i raddau. Yn debyg i'r adroddwr yn nofel Caradog Prichard, wrth iddo sylwi ar esgidiau gwell bachgen arall, er enghraifft, mae Esther Greenwood hefyd yn cydnabod ei diffygion ariannol mewn cyd-destun academaidd a chymdeithasol. Meddai'r fyfyrwraig ar ddechrau'r nofel:

> Look what can happen in this country, they'd say. A girl lives in some out-of-the-way town for nineteen years, so poor she can't afford a magazine, and then she gets a scholarship to college and wins a prize here and a prize there and ends up steering New York like her own private car. Only I wasn't steering anything, not even myself. I just bumped from my hotel to work and to parties and from parties to my hotel and back to work like a number trolley-bus. (t.3)

Am ei bod yn gyfle gwych, mae Esther yn cydnabod y ffaith y dylai fod yn hapus. Ond oherwydd ei salwch gwaelodol, nid yw teimlad o'r math hwn yn bosib. Er ei bod wedi llwyddo i drechu ei hamgylchiadau gan symud o America'r trefi bychain i'r ddinas fawr, ni theimla'n gyfforddus yn y byd goludog hwn ychwaith. Yn hytrach, ymddengys Esther yn gwbl ar goll yn gymdeithasol. Dyma syniad a archwilir i raddau yn *Yma o Hyd* hefyd. Cyflwynir inni fenyw sydd wedi torri'r gyfraith ond oherwydd ei magwraeth barchus a'i haddysg dda, ni all y gymdeithas ddeall pam y torrodd hi'r gyfraith. Meddai'r Swyddog Addysg: 'Wedi lluchio'ch dyfodol i ffwrdd. Alla i ddim beio'r mwyafrif am fod yma – dydi bywyd ddim wedi cynnig dim byd gwell iddyn nhw – ond rhywun run fath â chi... wedi cael cynnig popeth...' (t.29) Trwy'r agwedd hon, pwysleisir unwaith eto anallu'r gymdeithas i ymdrin ag ymddygiad sy'n wahanol i'r norm.

O ddychwelyd at *TH* ac yn wyneb yr ansefydlogrwydd amlwg Esther, mae Linda-Wagner Martin yn disgrifio'r fyfyrwraig fel un ar y tu allan, nid yn unig yn ei bywyd cymdeithasol, ond hefyd yn ei bywyd academaidd.[394] Gan ymhelaethu ar yr arwahanrwydd hwn, meddai April Pelt:

[393] Dadansoddir hyn yn fanylach yn y bennod nesaf.
[394] Linda Wagner-Martin, *The Bell Jar: A Nofel of the Fifties*.

> In an attempt to resolve her insecurities about her lower-class middle background, she uses scholarship money meant for educational expenses to purchase a closet full of expensive dresses and accessories that her family could not otherwise afford. But rather than resolving Esther's anxieties about being merely a "Scholarship Girl" among wealthy young women, her new wardrobe only heightens them.[395]

Fel yr amlygir pwysau tlodi yn *UNOL*, mae Sylvia Plath yn ymhelaethu ar y gwahaniaethau materol rhwng y dosbarthiadau cymdeithasol gan gyflwyno effeithiau seicolegol diffyg arian yn eu cyd-destun cymdeithasol ehangach. Ac yn sgil hynny, cyflwynir cydberthynas rhwng cau rhywun allan yn gymdeithasol a salwch meddwl. Am y cysylltiad penodol hwn, nodir ar wefan y Royal College of Psychiatrists Social Inclusion Scoping Group: 'Not only does social exclusion violate social justice and social solidarity, but exclusion and its indicators (e.g. joblessness, homelessness, poverty) are all associated with mental and physical ill health'.[396] Crbwyllir y thema hon hefyd yn *TBJ*.

Am nad yw Esther yn dod o'r un cefndir breintiedig â'r merched eraill sydd hefyd wedi derbyn ysgoloriaeth, mae'n teimlo fel alltud. Ac arweinia'r dieithrio cymdeithasol yn yr achos hwn at ddiffyg hunaniaeth y fenyw sy'n effeithio ar ei gobeithion gyrfaol a'i phwyll.[397] Er bod Esther yn casáu'r gymdeithas hon, mae hi'n dal am fod yn rhan ohoni a theimlo fel petai'n perthyn iddi. Yng ngolau hyn a thrwy arwahanrwydd y fyfyrwraig, gwelwn awydd y llenor benywaidd i drechu'r gwahanfur cymdeithasol mewn modd creadigol. Ys dywedodd Annis Pratt: 'Women's fiction reflects an experience radically different from men's because our drive towards growth as persons is thwarted by our society's prescriptions concerning gender… we are outcasts in the land'.[398] Alltud yw Esther, a hithau'n ferch, ond gwelir hefyd mai alltud ydyw oherwydd diffygion ariannol ac anghydraddoldeb cymdeithasol. Er bod *TBJ* yn cyffwrdd â'r dadleuon hyn gan ddewis canolbwyntio ar y dadleuon ffeministaidd, un llyfr sy'n mynd i'r afael ag arwahanrwydd cymdeithasol a diffyg hunaniaeth yw nofel Ken Kesey a'i delwedd o'r cymeriad Chief Bromden.

---

[395] Pelt, 'Esther's Satorial Selves: Fashioning a Feminine Ideal in *The Bell* Jar', t.15.
[396] Royal College of Psychiatrists Social Inclusion Scoping Group, *Mental Health and Social Inclusion: Making Psychiatry and Mental Health Services Fit for the 21st Century* (2009), t.2. <https://www.rcpsych.ac.uk/pdf/social%20inclusion%20position%20statement09.pdf> [cyrchwyd 18 Ionawr 2018]
[397] Linda W. Wagner, 'Plath's *The Bell Jar* as Female 'Bildungsroman,' *Women's Studies: An Interdisciplinary Journal*, cyf 12 (1986), 55-68.
[398] Annis Pratt, *Archetypal Patterns in Women's Fiction* (Indiana: Indiana University Press, 1981), t.6.

Indiad enfawr heb lawer o hyder na hunaniaeth yw Bromden sydd wedi bod yn yr ysbyty am flynyddoedd. Er y byddwn yn dadansoddi arwyddocâd y cymeriad hwn a'i daith tuag at hunaniaeth yn weddol fanwl yn yr adrannau dilynol, edrychwn ar ei bwysigrwydd o ran y modd y mae'n cael ei ddieithrio'n gymdeithasol yn rhan hon yr astudiaeth. Gan ei fod wedi treulio rhan helaeth o'i fywyd yn yr ysbyty meddwl, mae Bromden wedi colli bron ei holl hunaniaeth gan fabwysiadu yn hytrach hunaniaeth y claf. Cyfeiria Barbara Tepa Lupack at faint yr erydiad hwn yn ei hysgrif. Meddai: 'Bromden responds to the erosion of his identity by pretending to be a deaf mute – unwilling to communicate with others, he progressively withdraws from society'.[399] Yng ngolau'r sylw hwn, awgrymir bod y Chief yn meddwl mai'r ffordd orau i osgoi camdriniaeth y gymdeithas yw bod yn anweledig ac o ganlyniad, mae'n troi'n ddall ac yn fud. Fel y trafoda Barbara Lupack, er bod McMurphy yn llwyddo i gadw ei unigoliaeth, mae Chief Bromden, ar y llaw arall, yn hoffi'r anhysbysrwydd y mae ei anabledd yn ei roi iddo.[400] Ond yn union fel y mae ei lais a'i glyw yn diflannu, mae ei hunaniaeth hefyd yn cael ei diddymu.

Fel y mae Bromden ei hun yn ei gydnabod, nid oedd yr Indiad ar fai am ddewis y dallineb hwn ond yn hytrach, rhoddir sylw i rym y gymdeithas. Meddai: 'it wasn't me that started acting deaf; it was people that first started acting like I was too dumb to hear or see or say anything at all'. (t.179) O ganlyniad i'w dlodi cymdeithasol a'r ffaith yr oedd y gymdeithas uwch yn edrych ar Indiaid fel pobl is yn y gymdeithas, teimlai Chief Bromden fel pe bai'n anweledig ac yn unig; teimladau a oedd yn effeithio – yn union fel Esther – yn anochel ar ei bwyll.

O ystyried hyn, gwelir dylanwad *OFOTCN* ar nofel Angharad Tomos, *Si Hei Lwli*.[401] O weld sut y caiff y pri gymeriad, Bigw, ei thrin yng nghartref yr henoed, fe'n hatgoffir o brofiadau'r Americanwr brodorol yn nofel Kesey.

Portreedir y cartref henoed yn debyg i'r ysbyty meddwl yn *OFOTCN,* a hwnnw'n llawn 'nytyrs' a chymeriadau grotesg yn ôl disgrifadau'r hen fenyw[402]. Ond gwelwn ddylanwad mwyaf uniongyrchol nofel Ken Kesey wrth inni ddod at y gofalwyr a'u dewis ymwybodol o iaith. Yn union fel yr *orderlies* yn *OFOTCN,* ni ddangosa'r gweithwyr hyn unrhyw drugaredd tuag at Bigw na'r merched eraill. Wrth

---

399 Barbara Tepa Lupack, 'The Insane are More Rational than the Insane' yn Dedria Bryfonski, *Mental Illness in Ken Kesey's One Flew Over the Cuckoo's Nest,* gol. gan Dedria Bryfonski (New York: Infobase Publishing, 2008), t.118.
400 Lupack, *Insanity as Redemption in Contemporary Fictions: Inmates Running the Asylum*, t.71
401 Angharad Tomos, *Si Hei Lwli*, (Talybont : Y Lolfa, 1991)
402 Tomos, *Si Hei Lwli*, t.80

iddi ofyn i un ohonynt a all hi fynd am dro, nid yw'r gweithiwr yn gwrando arni a chan ei chamddeall yn llwyr aiff â hi i'r tŷ bach yn lle. Wfftia'r camgymeriad a tharo'r bai ar anallu Bigw i'w mynegi ei hun yn glir, ac awgryma fod ei swydd, y ffaith fod disgwyl iddo helpu'r henoed yn y cartref, 'yn lol'.[403]

Dwyseir y gamdriniaeth y mae'n rhaid i Bigw ei goddef, wrth i'r gweithwyr gyfnewid iaith o'i blaen. Pan fo'r gofalwyr yn siarad amdani'n ddiraddiol, maent yn troi at y Saesneg fel ffordd o'i dieithrio. Gwelwn ddarnau gwawdlyd megis: 'Edrychodd Jane a Linda ar ei gilydd. "Mae hi'n dal i fwydro am y ci," meddai Jane yn Saesneg wrth ei chyfaill, yn union fel petaent yng ngŵydd plentyn dwyflwydd'[404] a 'Julie... look at this one .... Beth sy'n bod arnoch chi?'.[405] Yn union fel byddardod a mudandod Chief Bromden, sydd wedi datblygu am fod aelodau'r dosbarth uchaf yn ddall i leiafrifoedd, mae'r defnydd arwyddocaol hwn o gyfnewid iaith yn esbonio casineb Bigw tuag at y staff ansensitif sy'n ei diraddio. Nid ydynt yn ystyried bod yr hen fenyw hon yn gymar iddynt, ond yn hytrach edrychant arni fel rhywun nad yw'n haeddu parch, rhywun y maent yn gallu ei anwybyddu.

Yn yr un bennod, ac ar ôl i Bigw ddysgu'r gwir am ddiflaniad Jumbo'r ci, pwysleisir unigrwydd eithafol y fenyw drwy un paragraff teimladol:

> Y noson honno, wylodd Lisi yn hidil. Nid yn gymaint ar ôl Jumbo, roedd yr hiraeth hwnnw'n hen bellach, ond am nad oedd hi'n cyfrif ddigon i rywun drafferthu dweud wrthi fod ei chyfaill gorau yn y Cartref wedi ei ladd. (t.81)

Drwy alar yr hen fenyw, gwelwn effaith anghydraddoldeb cymdeithasol ar yr unigolyn. Dyma fenyw sy'n iawn ei phwyll, ond am ei bod wedi'i chau o fewn waliau'r cartref henoed, ac wedi'i bwrw o'r neilltu gan y gymdeithas, nid yw'n cael ei thrin â pharch na charedigrwydd. O ganlyniad, pwysleisir diffyg gwerth y lleiafrif, a'r sawl sy'n cynrychioli'r hen, y sâl, a'r arall yn ieithyddol neu, fel yn achos nofel Ken Kesey, y lleiafrif ethnig.

Ymhelaethu ar y dieithrio cymdeithasol hwn a wna Ken Kesey yn *OFOTCN*, gan beidio â chynnig dihangfa rhag presenoldeb bygythiol y system a'r gwahaniaethau amlwg rhwng y dosbarth uwch a'r dosbarth is. Ys dywedodd Harding:

> This world… belongs to the strong, my friend! The ritual of our existence is based on the strong getting stronger by devouring the weak. We must face up to this. No

[403] Tomos, *Si Hei Lwli*, t.76.
[404] Tomos, *Si Hei Lwli*, t.76
[405] Tomos, *Si Hei Lwli*, t.80

> more than right that it should be this way. We must learn to accept it as a law of the natural world. The rabbits accept their role in the ritual and recognize the wolf as the strong. In defence, the rabbit becomes sly and frightened and elusive and he digs holes and hides when the wolf is about. And he endures. He goes on. He knows his place. He most certainly doesn't challenge the wolf to combat. Now, would that be wise? Would it? (t.57)

Mae'r tlodi cyson hwn o anghenion dynol sylfaenol wedi gwanychu'r dynion yn nofel Ken Kesey ac yn arbennig Chief Bromden, yn seicolegol ac yn gorfforol nes eu bod yn rhy wan i dalu'r pwyth yn ôl. Ac yn wyneb y gwendid hwn o ran hyder a hunaniaeth y cleifion gwrywaidd, gellir dweud bod safbwynt Harding yn adlewyrchu'r hyn y mae R. W. Connell yn ei alw yn 'the social dynamic of "hegemonic masculinity"'.[406] Yn ôl y gred hon, mae cymdeithas yn ffafrio 'men who are strong, courageous, aggressive, independent, [and] self-reliant',[407] lle y mae gwrywdod a phŵer yn ffurfio uchafbwynt y bywyd dynol. Ond os dywedir bod braint a bri yn dod i'r cryf yn y gymdeithas yn ôl y ddamcaniaeth hon, gellir tybio ar y llaw arall mai amddifadedd yw tynged y gwan. Gan ystyried hyn, ac yn wyneb dyfyniad Harding a safbwynt R. W. Connell, uchod, deuwn at ail ddadansoddiad y nofel ac ail ran yr adran hon. Trwyddi, dadansoddwn driniaeth seicolegol yr unigolyn mewn perthynas â'i ddosbarth cymdeithasol, gan ailystyried felly gwestiwn Hollingshead a Redlich – a yw sefyllfa gymdeithasol yr unigolyn yn effeithio ar ei driniaeth seicolegol?

* * *

Ar ôl archwilio'r nofelau craidd, gweler cydberthynas amlwg rhwng dosbarth cymdeithasol ac iechyd meddwl. Nid yw'r cysylltiad hwn yn cyfeirio yn unig at debygrwydd yr unigolyn i ddioddef yn seicolegol o ganlyniad i arwahanrwydd cymdeithasol, ond mae hefyd yn chwarae rôl yn y math o driniaeth y mae'r claf yn ei derbyn. Yng ngeiriau Thomas Szasz:

---

[406] Gwelwyd yn Caroline Leach, 'Disability and Gender in Ken Kesey's *One Flew Over The Cuckoo's Nest*', *Disability Studies Quarterly,* 28.4 (Hydref 2008) ond dyfynnwyd yn, Thomas J. Gerschick ac Adam S. Miller, 'Gender Identities at the Crossroads of Masculinity and Physical Disability'yn *Toward a New Psychology of Gender,* gol gan. Mary Gergan a Sara N. Davies (London: Routledge, 1997), t.455. Gellir darllen hefyd, R.W. Connell, 'An Iron Man: The Body and Some Contradictions of Hegemonic Masculinity' yn *Sociological Perspectives in Sport: The Games Outside the Games,* gol. gan David Karen a Robert E. Washington (New York: Routledge, 2015), tt. 141-149; R.W. Connell a James W. Messerschmidt, 'Hegemonic Masculinity: Rethinking the Concept', *Gender & Society,* 19.6 (2005), 829-859.

[407] Ibid.

> It has always been known that educated, rich, and important persons receive very different kinds of psychiatric treatments than do uneducated, poor, and unimportant persons. The validity of this impression was solidly established by the careful studies of Hollingshead and Redlich, who demonstrated that, in the United States, affluent psychiatric patients are generally treated by psychotherapy, while poor patients are treated by physical interventions.[408]

Yn ôl y safbwynt hwn , dadleuwyd bod y rheiny sy'n sefyll ar frig y pyramid cymdeithasol bob amser wedi mwynhau amodau a gofal seicolegol llawer gwell na'r bobl sydd ar y gwaelod.[409] Yn ystod y cyfnod dan sylw, er enghraifft, roedd cleifion mwy cyfoethog yn aml yn derbyn triniaeth seicolegol a oedd yn canolbwyntio ar wella'r ysbryd mewnol; gan gynnwys seicotherapi – sef yr arfer o ddefnyddio dulliau seicolegol yn hytrach na meddygol i drin anhwylder meddyliol – yn ogystal â therapi siarad. A chan ystyried hyn, ceir yn *TH* enghraifft o'r therapi penodol hwn. Fel y nodwyd eisoes, ni welir cymdeithas eithriadol o dlawd yn stori fer hir Kate Roberts ac adlewyrchir hyn drwy brofiad seicolegol Bet. Nid oes enghraifft o gamdriniaeth emosiynol na chorfforol yn y stori hon fel sy'n amlwg yn nofelau Ken Kesey a Caradog Prichard.[410] Yn hytrach, ac fel y mae M. David Enoch hefyd yn ei gydnabod, mae'r wraig yn derbyn meddyginiaeth siarad a chyffuriau er mwyn helpu i reoli ei hiselder.[411] Delwedd hollol wahanol, fodd bynnag, a geir yn y nofelau eraill a gellir dadlau mai oherwydd sefyllfa gymdeithasol fwy ffodus Bet y mae'r gwrthgyferbyniadau hyn yn bodoli.

Cydnabyddir y gwahaniaethau hyn rhwng dosbarth cymdeithasol a gofal seicolegol yn *TBJ*. Eglura'r prif gymeriad ei hun:

> They would want me to have the best of care at first, so they would sink all their money in a private hospital like Doctor Gordon's. Finally, when the money was used up, I would be moved into a state hospital, with hundreds of people like me, in a big cage in the basement. The more hopeless you were, the further away they hid you. (t.168)

---

[408] Szasz, *The Myth of Mental Illness*, t.59.

[409] Yn amlwg, maes hynod cyfoethog a dadleuol yw hwn a byddai'n bosib cynhyrchu thesis hynod fanwl ar hanes a phortread triniaeth seicolegol yr unigolyn yn ôl safonau cymdeithasol yn unig. Gweler, er enghraifft, Alison Trott, 'Social Class and the Therapeutic Relationship: The Client's Perspective: To What Extent Do Percieved Differences in Social Class Between Client and Therapist Impact upon the Therapeutic Relationship?' (Traethawd MA, Chester University, 2016); Kathryn Anna Patterson, 'How Class Background Influences Negative Countertransference in Outreach Therapy' (Traethawd Doethuriaeth, Antioch University, 2013); Anne Rogers a David Pligrim, *A Sociology of Mental Health and Illness*, 4ydd Arg (London, Open University Press, 2010). Am bwrpas yr adran hon, fodd bynnag, eir ati i ddadansoddi'n fras brofiadau'r cymeriadau dan sylw yn unig er mwyn cyfoethogi prif ddadleuon rhan hon yr astudiaeth.

[410] Deuwn at y dadansoddiad hyn yn y man.

[411] Enoch, 'Tywyll Heno a'r Seicatryddion', tt.10-11.

Trwy'r feirniadaeth wawdlyd uchod, mae Esther Greenwood yn cydnabod agweddau'r gymdeithas tuag at bobl sâl eu meddwl yn ystod y cyfnod. Ond yn ogystal â hyn, cyfeirir at y ffiniau a'r gwrthddywediadau a oedd yn bodoli rhwng y tlawd a'r cyfoethog o ran derbyniad seicolegol cymdeithasol. Yn unol ag agweddau'r gwrth-seiciatryddion, a thrwy osodiad Esther, awgrymir bod cysylltiad rhwng gofal seicolegol gwell ac arian. Ond yn sgil hynny, pwysleisir hefyd anoddefgarwch y gymdeithas ehangach tuag at bobl a oedd yn sâl eu meddwl *ac* yn dlawd.[412] Yn dra eironig fodd bynnag, dim ond ar ôl i Philomena Guinea dalu am ofal preifat y mae Esther yn derbyn triniaeth lawer gwell sy'n arwain yn y diwedd at ei gwellhad.

Tra mae'r dosbarthiadau canol ac uwch yn derbyn gofal seicolegol sy'n canolbwyntio ar wellhad yr unigolyn, yn ôl y farn feirniadol, gorfodwyd y werin a'r tlawd ar y llaw arall i ddioddef moddion barbaraidd a thriniaeth megis lobotomïau neu therapi sioc trydan. Meddai Hollingshead a Redlich:

> There is a definite tendency to induce disturbed persons in class I [the most affluent class, highly educated, consisting of business and professional leaders] and II [generally educated beyond high school, managerial positions, living in the better neighbourhoods] to see a psychiatrist in more gentle and "insightful" ways than is the practice in class IV [the working class, engaged in skilled or semi-skilled manual occupations, generally completed some high school] and especially in class V [the lowest class; semiskilled factory hands and unskilled labourers who generally have not completed elementary school, living in the worst areas of town], where direct, authoritative, compulsory, and, at times, coercively brutal methods are used. [413]

O ystyried hyn, nid oes prinder o enghreifftiau sy'n delweddu'r driniaeth giaidd hon ar ward Nurse Ratched. Awgrymodd Alireza Karger, er enghraifft, y gellir defnyddio lens Marcsaidd er mwyn deall rhaniad cymdeithasol y ward.[414] O ganlyniad, gwelwn enghraifft o dlodi yn yr ystyr ehangach sef tlodi sy'n ymdrin â hawliau cymdeithasol a seicolegol. Rheolir y ward gan Nurse Ratched, ac fel y dywed Bruce Jennings: '[she] fosters the dependency of the men on her and exercises total autocratic control of the ward'.[415] O ganlyniad i drefn ormesol Ratched, nid oes gan y dynion unrhyw

---

[412] Trafoda Jeni Maple agwedd Esther mewn cyd-destun tebyg yn ei thesis Jeni Maple, 'Sylvia Plath's The Bell Jar as Disability Narrative' (Traethawd MA, Oklahoma University, Rhagfyr 2009).
[413] Hollingshead a Redlich, *Social Class and Mental Illness: A Community Study*.
[414] Er enghraifft, mae modd dweud bod y cleifion yn cynrychioli'r dosbarth is. Wedyn, disgrifir y dynion duon fel y dosbarth canol gan eu bod yn ymarfer rheolaeth dros y dosbarth is (y cleifion) yn ddyddiol. Ac yn olaf, awgrymir mai Nurse Ratched yw'r dosbarth uwch gan ei bod yn penderfynu tynghedau pawb yn yr ysbyty. Trafodir syniad tebyg yn Alireza Kargar, *The Disciplinary Power in Ken Kesey's One Flew Over The Cuckoo's Nest: In the Light of Michel Foucault's Theories of Power* (Morrisville: Lulu Press Ltd, 2017).
[415] Bruce Jennings, 'Institutional Power: *One Flew Over The Cuckoo's Nest'* yn *The Picture of Health: Medical Ethics and the Movies,* gol. gan. Henri Colt, Silvia Quadrelli a Lester Friedman

hawliau, ond ar ben hynny, fe'u cosbir am beidio â chydymffurfio â ffyrdd totalitaraidd yr ysbyty.

Wrth i'r cleifion gyrraedd yr ysbyty, er enghraifft, mae'n rhaid iddynt gael cawod ddiraddiol. Yn rhy aml, ac mewn rhai o achosion am ddim rheswm amlwg, derbynia cymeriadau Ken Kesey lobotomïau neu therapi sioc trydan fel pe bai'r weithred ond yn pwysleisio grym y dosbarth uwch. Meddai Fredrickson er enghraifft: 'And, my friend, if you *continue* to demonstrate such hostile tendencies, such as telling people to go to hell, you get lined up to go to the Shock Shop, perhaps even on to greater things, an operation'. (t.62) Ond yn ogystal â hyn, nid oes modd ychwaith i'r cleifion gael moment o lonydd neu breifatrwydd ar y ward. Yn hytrach, mae pob un weithred yn cael ei gwylio a'i chofnodi gan y 'system'. Meddai'r meddyg: 'there should be no need for secrets among friends', (t.44) ac yn yr un modd, pwysleisia Nurse Ratched: 'The doctor and I believe that every minute spent in the company of others, with some exceptions, is therapeutic, while every minute spent brooding alone only increases your separation'. (t.144)

Adeilada Angharad Tomos ar y cysyniad hwn yn ei nofel *WFNI* gan grybwyll polisi drws agored y Ddeddf Iechyd Meddwl. Eto, mae'r bobl broffesiynol o'r farn na ddylai'r cleifion fod ar eu pennau eu hunain, ond gan adlewyrchu naws feirniadol nofel Ken Kesey, meddai'r traethydd:

> Y peth gwaethaf all ddigwydd i rywun efo gwendid meddyliol ydi 'i fod o'n cael ei osod efo llond ward o fodau cyffelyb. Synnais nad oedd Freud neu rywun wedi gwneud hon yn rheol sanctaidd. Dydi Nytars ddim yn gwerthfawrogi cwmni nytars.[416]

Mae'r wyliadwriaeth gyson hon yn tynnu sylw at natur dotalitaraidd yr ysbyty. Gan bwysleisio'r teimlad cyfyngol hwn, yn *OFOTCN*, ystyrid hyd yn oed chwerthin fel math o ymddygiad afresymol ac felly annymunol. Fel y dywed Ellen Herrenkohl:

> The ultimate lesson in dehumanization is the "invisible treatment." Not only are the patients treated as if they lack private history, meaningful behaviour, maturity, and ability to reason, but they are even responded to as if they lacked material substance.[417]

---

(Oxford: Oxford University Press, 2011), tt.246-251. Er ei fod yn sôn am y ffilm, mae'r dyfyniad yn dal yn berthnasol.

[416] Tomos, *Wrth fy Nagrau i*, t.61

[417] Ellen Herrenkohl, '*One Flew Over The Cuckoo's Nest* Questions the Meaning of Sanity,' yn Dedria Bryfonski, *Mental Illness in Ken Kesey's One Flew Over the Cuckoo's Nest,* gol. gan Dedria Bryfonski (New York: Infobase Publishing, 2008), t.109.

Pwysleisir felly oruchafiaeth y system a Nurse Ratched dros y cleifion wrth iddynt fabwysiadu gweithdrefnau barbaraidd er mwyn sicrhau cydymffurfiad a rheolaeth. Cynhelir pŵer Ratched a'r *Combine*[418] drwy'r ofn y maent yn ei greu. Wedi'r cyfan, nid oes delwedd o'r math hwn yn *TH*. Ond er bod y delweddau'n ymddangos braidd yn eithafol ar adegau, maent yn adlewyrchu beirniadaeth yr oes.

Yn unol â rhagdybiaethau'r cyfnod, caiff cleifion nofel Ken Kesey eu trin fel anifeiliaid, ac ymddengys fod yr ysbyty yn gwbl wag o unrhyw foeseg. Mae'n rhaid cofio bod y dynion hyn yn perthyn i ddosbarthiadau isaf y gymdeithas – ynghyd â lleiafrifoedd ethnig megis Indiaid, gamblwyr a throseddwyr difrifol. Yn ôl y farn wrth-sefydliad feirniadol, pwysleisir diffyg gwerth yr unigolion hyn drwy lygaid y dosbarthiadau uwch wrth iddynt dalu'r pris uchaf am eu hymddygiad sef colli eu pwyll a'u rhyddid.[419]

Dyna, gellir dadlau, oedd tynged cymeriadau'r llenyddiaeth graidd. Trwy'r nofelau a'r straeon amrywiol, nid yw'n bosib osgoi beirniadaeth frwd y cyfnod ynglŷn â'r berthynas rhwng swyddogaeth ymddangosiadol y seilam a dosbarth cymdeithasol. O gymunedau chwareli Cymreig yng ngogledd Cymru i ddinasoedd bywiog enwog yn America, cynigiwyd portread o fyd trigolion y dosbarthiadau cymdeithasol is, byd sy'n aml yn cael ei anwybyddu. Ac yn ei dro, dadansoddwyd cred boblogaidd y cyfnod: 'asylum-based psychiatry is a form of violent oppression of the lower class poor',[420] mewn perthynas â phrofiadau'r unigolion gorthrymedig hyn. Cofiwn i Petteri Pietikainen[421] ddadlau nad oes neb mewn gwirionedd yn cael ei eni'n 'wallgof'.

Yn y rhan fwyaf o achosion, nid oes cysywllt rhwng genedigaeth person a salwch meddwl. Yn hytrach, pe bai ei fywyd yn dilyn llwybr gwahanol – yn enwedig un mwy sefydlog yn ariannol – efallai na fyddai'n dioddef o salwch meddwl i'r fath raddau, neu o leiaf dderbyn cymorth seicolegol gwell. Wrth ystyried hyn, cyflwynir eironi creulon. Yng ngeiriau Yuval Noah Harari:

> Money comes to money, and poverty to poverty. Education comes to education, and ignorance to ignorance. Those once victimised by history are likely to be victimised

[418] Ceir dadansoddiad ar y ddelwedd hon yn yr adran nesaf.
[419] Dadansoddir yr ymddygiad gwrthryfelgar ei hun yn yr adran nesaf, cyflwyno sefyllfa druenus y dynion yn unig a wneir y tro hwn mewn perthynas â thlodi cymdeithasol a seicolegol y ward. Am fwy o wybodaeth, gweler Terence Martin, '*One Flew Over the Cuckoo's Nest* and the High Cost of Living'.
[420] Bowers, *The Social Nature of Mental Illness*, t.133.
[421] Pietikainen, *Madness: A History*, t.10.

> yet again. And those whom history has privileged are more likely to be privileged again.[422]

Yn amlach na pheidio, mae'r rhai sydd â'r angen mwyaf am ofal a chefnogaeth seicolegol effeithiol yn methu cael y cyfle o ganlyniad i'w dosbarth cymdeithasol. Mewn nifer o'r achosion hyn, eu hamgylchiadau cymdeithasol sy'n cyfrannu at y chwalfa seicolegol. Er enghraifft, mae'r dieithrio cymdeithasol sy'n codi o ganlyniad i fagwraeth ddiffygiol Esther yn cyfrannu at ei chwalfa fewnol. Yn *UNOL,* gwaethygu iechyd meddwl y trigolion diymadferth y tu hwnt i adferiad y mae tlodi. A thrwy nofel Ken Kesey, archwilir y gamdriniaeth gymdeithasol, economaidd a seicolegol yn ei chyfanrwydd.

Yn unol ag ysbryd beirniadol y chwedegau, cynigiwyd ffyrdd newydd a niferus o edrych ar sut y gweinyddwyd ac y rheolwyd gwallgofrwydd, naill ai fel cosb neu elfen gyntefig person. Ond wedi canolbwyntio ar y cyd-destun economaidd a chymdeithasol, eir ati yn y rhan nesaf i ddadansoddi effaith a gormesiad cymdeithasol ehangach y seilam. Rhoddir sylw arbennig i'r gred mai math o reolaeth gymdeithasol oedd gwallgofrwydd a'r seilam, ac archwilir profiadau'r cymeriadau mewn perthynas â gweithiau a beirniadaeth theoretig yr oes. Yn sgil yr ormes awgrymedig hon, edrychir hefyd ar ymateb y dioddefwyr yn ogystal â'r paradocs sy'n codi wrth iddynt dorri'r rheolau cymdeithasol.

[422] Harari, *Sapiens: A Brief History of Humankind*, t.161.

## 4.3 Y Seilam Heb Noddfa: Dadansoddi delwedd y gwallgofdy fel carchar a math o reolaeth gymdeithasol

O ganlyniad i ganrifoedd o esblygiad cymdeithasol, try rheolau yn arferion dynol anymwybodol wrth iddynt ffurfio rhan ganolog o'n bywydau bob dydd. Dilynwn reolau'r ffordd fawr wrth inni yrru i'r gweithle. Tra ein bod yno, parchwn ddefodau'r gymdeithas gan gynnal sgyrsiau cwrtais a diystyr. Wedi dychwelyd adref ar ôl diwrnod ailadroddus, bwydwn ein teuluoedd gan ddilyn cyfarwyddiadau llyfrau coginio neu'r rhai ar gefn bocs y pryd parod. A chadwn at reolau amser gwely ar ddiwedd y dydd fel y gallwn godi'n gynnar er mwyn wynebu'r holl drefn unwaith eto. Er gwaethaf ein bywydau prysur, cydnabyddwn ein disgwyliadau cymdeithasol trwy ddilyn y rheolau a'r normâu hyn yn ufudd, gan gyfrannu at rediad mecanyddol esmwyth y gymdeithas.[423]

Y broblem gyda'r ffordd o fyw cul a chyfyngol hon yw anallu'r gymuned i ddelio â hyblygrwydd bywyd modern cythryblus, ac yn fwy arwyddocaol byth, amharodrwydd y gymdeithas i ymwneud â'r math o ymddygiad di-hid ac afreolus sy'n gysylltiedig yn aml â salwch meddwl. Ys dywedodd Len Bowers: 'the inexplicitly of mental illness also arouses fear, as it is not susceptible to rational explanation – and our lives are completely based upon patterned networks of logical, reasonable behaviour'.[424] Hollol wahanol i drefn gyfundrefnol os nad awdurdodaidd y gymdeithas yw natur afresymol salwch meddwl. Nid yw'n parchu *status quo* barchus y system nac yn cydymffurfio â chyfreithiau cymdeithasol. Mae'n bygwth, yn hytrach, ddelfrydau'r gymdeithas reolaethol.

Yng ngoleuni ysbryd heriol y cyfnod, aeth fwy a mwy o bobl ati i brofi'r ffiniau gan arddangos arwyddion o herio ac ewyllys rydd. Fel y gofynnodd gwraig nofel Angharad Tomos blynyddoedd wedyn ond gan adlewyrchu i'r dim yr un meddylfryd: 'Pam 'dan ni'n mynnu glynu wrth reolau dynion drwy'r amser, boed hwy'n weinidogion neu athrawon neu ddoctoriaid? Pam na wnawn ni ein synnwyr ein hunain o fywyd?'[425] Gwelir drwy lenyddiaeth graidd yr astudiaeth enghreifftiau lu o unigolieth wrth i'r cymeriadau geisio llunio'u llwybr eu hunain mewn byd traddodiadol.

---

[423] Nid amcan yr adran hon yw trafod hanes sefydlu rheolau'r gymdeithas. Ceir yn Harari, *Sapiens: A Brief History of Humankind*, tt.110-133 grynodeb trylwyr o'r datblygiadau hyn.
[424] Bowers, *The Social Nature of Mental Illness*, t.128.
[425] Tomos, *Wrth fy Nagrau i*, t.217.

Ac wrth wrando ar leisiau'r cymeriadau hyn, yn ogystal â dadansoddi difrifoldeb eu helyntion, eir ati yn adran hon yr astudiaeth i archwilio arwyddocâd personol, cymdeithasol a seicolegol ehangach y gweithredoedd amrywiol hyn, gweithredoedd sy'n taflu goleuni ar y canlyniadau difrifol sy'n dod o ganlyniad i dorri'r rheolau cymdeithasol. Yn gyntaf, cyflwynir safbwynt y gymdeithas gonfensiynol tuag at salwch meddwl a gwallgofrwydd sy'n arwain yn aml at ymyrraeth seiciatryddol. Yn ail, dadansoddir delwedd a rôl y seilam fel y cyfrwng sy'n cyflawni'r ymyriad hwn. Ac yn olaf, canolbwyntir ar angen yr unigolyn i weithredu yn erbyn gormes, er gwaetha'r canlyniadau difrifol. Trwy'r rhannau hyn i gyd, gobeithir cyflwyno dadansoddiad digon trylwyr o swyddogaeth yr ysbyty meddwl fel y'i portreedir yn y llenyddiaeth graidd.

* * *

Dechreuwn â chanfyddiadau'r gymdeithas. Er y nodwyd mai amser o newid a datblygu oedd y cyfnod dan sylw, teg yw dweud bod yr agwedd o gydymffurfio yn dal i reoli rhai agweddau o fywyd y pumdegau a dechrau'r chwedegau. Yn unol â sylwadaeth Bowers uchod, ystyriwyd unrhyw beth a oedd yn wahanol i'r norm fel math o fygythiad a fyddai'n peryglu'r delfryd cymdeithasol. Nid edrychwyd ar ymddygiad anghydymffurfiol mewn goleuni ffafriol. Fel y dywedodd Derek L. Phillips: 'the nonconformist, whether he be foreigner or "odd ball," intellectual or idiot, genius or jester, individualist or hobo, physically or mentally abnormal – pays a price for "being different"'.[426] Ni châi'r math o feddwl ac ymddygiad unigolyddol hwn ei werthfawrogi gan y gymdeithas yn ystod y cyfnod ac o ganlyniad roedd yn rhaid i'r unigolion hyn dalu am eu haerllugrwydd. Yng nghyd-destun yr astudiaeth hon, gellir dadlau mai eu hiechyd meddwl oedd y pris hwn.

Yn ôl cred ddiraddiol y cyfnod, pennwyd mai math o ymddygiad drwg yn unig oedd salwch meddwl, sef math o salwch y gellid ei wella'n hawdd dim ond drwy gydymffurfio â delfrydau'r gymdeithas.[427] Meddai mam Esther, wrth ymateb i anhapusrwydd ei merch o fod yn yr ysbyty meddwl: 'you should have behaved better, then', (t.185) gan agor trafodaeth ar y syniad mai math o gosb oedd triniaeth seiciatryddol yn ystod y cyfnod dan sylw.

[426] Dyfynnwyd yn Derek L. Phillips, 'Rejection: A Possible Consequence of Seeking Help for Mental Disorders' yn Thomas J. Scheff (gol), *Mental Illness and Social Processes* (New York: Harper & Row, 1967), tt.63-77. Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Joint Commision on Mental Illness and Health, *Action for Mental Health* (New York: Science Editions, 1961), t.69.

[427] Mae'r gosodiad hwn yn adlewyrchu credoau'r gwrth-seiciatryddion a ddadansoddwyd eisoes.

Yng ngolau sylw milain Mrs Greenwood, cawn ein hatgoffa am waith y gwrth-seiciatryddion ac, yn arbennig, eiriau Thomas Szasz am berygl torri'r rheolau a'r adwaith seiciatryddol a chymdeithasol. Meddai:

> Most people who are considered mentally sick are so defined by their relatives, friends, employers, or perhaps the police – not by themselves. These people have upset the social order – by disregarding the conventions of polite society or by violating laws – so we label them "mentally ill" and punish them by commitment to a mental institution.[428]

Er nad yw beirniadaeth Kate Roberts yn amlwg, gwelir sefyllfa debyg i ryw raddau yn *TH*. Wrth drafod y cyd-destun cymdeithasol crefyddol a'r unigolyn 'gwallgof', awgrymodd Foucault fod y teulu sy'n ffyddlon i air Duw weithiau'n dymuno 'the disappearance from society of the individual who shames his relatives'.[429] Gan ystyried ei rôl gymdeithasol, sef bod yn wraig i weinidog, gellir dadlau bod y ffaith iddi golli ei ffydd, ac yn sgil hynny, ei hiechyd meddwl, yn arwain at ganlyniadau mwy difrifol iddi o'i chymharu ag unigolyn di-gred yn ystod y cyfnod dan sylw yn y Gymru wledig. Ystyrir Bet gan y gymdeithas ehangach yn wraig ufudd ac ymroddgar ond pan chwelir y ddelwedd hon gan ei hymddygiad 'annormal', mae cywilydd a gwaradwydd yn dilyn oherwydd disgwyliadau'r gymdeithas ohoni hi a'i theulu.

Ymhelaethir ar y cysyniad hwn yn y bennod nesaf o safbwynt ffeministaidd ond o ganlyniad i'w hymddygiad, gellir dadlau bod y wraig yn cael ei hanfon i'r ysbyty meddwl fel y gall yr awdurdodau seiciatryddol geisio cywiro a rheoli'r math hwn o ymddygiad. Nodwyd nad oedd y gymdeithas yn goddef amrywiadau o'r norm yn y cyfnod, ac yn llai fyth felly pan chwalwyd delfryd cymdeithasol y gymuned anghydffurfiol Gymreig. Ys dywedir yn *WFNI*:

> 'A phan mae Gwraig Gweinidog yn colli ei ffydd, mae 'na andros o le.'
> 'A dach chi'n cael eich gyrru i Seilam.'
> 'Do'n i ddim yn ffit i unman arall.'[430]

O ganlyniad i'w diystyrwch anghymdeithasol ac yn unol ag arfer yr oes, penderfynir y byddai'n well i bawb pe bai pawb a oedd yn torri'r rheolau yn cael eu cadw rhag gweddill y gymdeithas. Fel yr awgrymir, y seilam oedd y lle hwn. I raddau, alltudion cymdeithasol yw'r cymeriadau hyn i gyd sydd wedi anufuddhau a thorri'r disgwyliadau cymdeithasol. Dyma ffaith a gydnabyddir yn nhraethawd

---

[428] Szasz, *Ideology and Insanity: Essays on the Psychiatric Dehumanization of Man*, t.84.
[429] Foucault a Howard, *Madness and Civilization*, t.67.
[430] Tomos, *Wrth fy Nagrau i*, t.65.

MPhil Ffraid Gwenllian.[431] Ynddo, mae'n trafod lleiafrifoedd mewn llenyddiaeth Gymraeg. Ymhlith y 'lleiafrifoedd' hyn y mae'r rhai sâl eu meddwl, gan gynnwys mam a mab *UNOL*. Nodir yma fod y cymeriadau hyn yn cael eu gwthio'n llythyrennol i ymylon y gymdeithas, ond mae'n ychwanegu: 'Nid ydynt yn ymwybodol eu bod yn wahanol ac, o ganlyniad, nid ydynt yn brwydro'n erbyn eu statws lleiafrifol',[432] sy'n arwain at amodau llawer gwaeth.

Yn wyneb natur geidwadol a chydffurfiol yr oes, awgrymwyd mai'r unig le ar gyfer troseddwyr o'r fath oedd yr ysbyty meddwl. Fel y dywedodd Foucault, gan adlewyrchu agwedd feirniadol y cyfnod:

> As for the madmen, what other fate could be desired for them? Neither reasonable enough not to be confined, nor wise enough not to be treated as wicked, it is all too true that those who have lost the use of reason must be hidden from society.[433]

Yn yr un modd, meddai Phyllis Chesler: 'madness is shut away from sight, shamed, brutalized, denied, feared, and drugged'.[434] Dyma oedd safbwynt tra dadleuol ac eithafol y cyfnod, ond er gwaethaf hyn, mae'n cynnig fframwaith inni ddadansoddi delwedd a swyddogaeth y seilam yn y llenyddiaeth graidd. Darpara'r sefydliad seicolegol hwn, a'r dadleuon o'i amgylch, y sylfaen ar gyfer rhan nesaf yr adran hon.

* * *

Yn ôl prif gymeriad nofel Angharad Tomos: 'Yn y bôn, does neb yn gwerthfawrogi cwmni nytars. Gwell eu lluchio i gyd i ryw fasged sbwriel enfawr a gadael iddynt frwydro'i gilydd. Dyna roddodd fod i'r Seilam.'[435] Ers yr Oesoedd Canol hyd at yr ugeinfed ganrif, danfonwyd yr unigolyn afreolus naill ai i garchar neu i'r seilam cyhoeddus. Daeth y seilam i rym yn ystod yr ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed ganrif fel rhywle i gadw'r berson nad yw'n cydymffurfio â normau'r gymdeithas. Yn wyneb hyn a'r agwedd seicolegol feirniadol, fe'i portreadwyd yn aml fel sefydliad grymus a oedd yn gweithredu er mwyn rheoli dros y sâl a'r diymadferth gan atal y gwallgofiaid hyn rhag baeddu'r gymdeithas lân.[436]

---

[431] Ffraid Gwenllian, 'Gwehilion o Boblach: Cynrychioli Lleiafafrioedd mewn Llenyddiaeth Gymraeg, (Traethawd MPhil, Prifysgol Aberystwyth, 2017)
[432] Gwenllian, 'Gwehilion o Boblach', t.228
[433] Foucault a Howard, *Madness and Civilisation*, t.227.
[434] Chesler, *Women and Madness*, t.85
[435] Tomos, *Wrth fy Nagrau i*, t.61
[436] Am hanes o'r feirniadaeth hon gweler Matthew E. Price, *Rethinking Asylum: History, Purpose and Limits* (Cambridge: Gwasg Prifysgol Cambridge, 2009)

Wrth drafod côd ymddygiad a dosbarthiad y gymdeithas, datganodd Thomas Szasz: 'since all systems of classification are made by people, it is necessary to be aware of who has made the rules and for what purpose'.[437] Wrth ystyried hyn, gellir gofyn yr un cwestiwn o ran gweinyddiaeth yr ysbyty meddwl. Yn wir, mae hanes sefydlu'r seilam yn un hir, cymhleth a gwleidyddol ei naws. Ac er ei fod yn faes cyfoethog a thoreithiog ar ei ben ei hun, nid amcan yr adran yw ailadrodd yr wybodaeth hon gan fod nifer o astudiaethau campus wedi'u cyhoeddi yn y maes eisoes.[438] Yn hytrach, edrycha'r ymdriniaeth hon ar agweddau blynyddoedd wedi'r rhyfel tuag at y seilam yn bennaf gan ganolbwyntio ar ddwy brif astudiaeth. Gan adeiladu ar osodiadau Pennod 1 a 2, meddai Pietikainen yn gyffredinol am y cyfnod:

> Critical historians of the 1960s and 1970s tended to view mental hospitals as institutes of human misery, anti-therapeutic black holes that sucked the patients inside and turned them into human wrecks. Asylums had soft shells, hard attendants and staggering patients whose identity was stolen and whose minds were confused by the merciless machine of the 'system'.[439]

Fel y nodwyd, hwn oedd cyfnod y gwrth-seiciatryddion a'r beirniaid cymdeithasol. Ond o ystyried natur feirniadol y delweddau a gynigir yn yr adran dan sylw, yn seiliedig ar waith y garfan hon, mae'n rhaid hefyd ystyried delwedd, portread a rôl y seilam yn wrthrychol. Rhaid cofio i'r nofelau craidd gael eu hysgrifennu yn ystod adeg gythryblus. O ganlyniad, cawn ynddynt ddelwedd gothig, gollfarnol a hanesyddol o'r ysbyty meddwl. Ond nid dyna oedd yr achos bob tro.

Wrth ymchwilio i hanes Ysbyty Meddwl Dinbych, heriodd Holly Gierke y canfyddiad brawychus cyffredin. Amlyga ei hymchwil yr un delweddau erchyll pan agorwyd yr ysbyty meddwl yn Hydref 1948. Oherwydd gorlenwi cleifion, er enghraifft, disgrifir pobl yn gorwedd yn y coridorau. O ganlyniad, golygai hynny fod llai o ofal.[440] Yn ogystal â hyn, mae cofnodion yr ysbyty yn dangos bod pobl yn cael eu hanfon yno am resymau hurt, fel y rhai a nodwyd gan y gwrth-seiciatryddion. Roedd y rhain yn cynnwys dynion hoyw, menywod a oedd yn beichiogi ac yn magu plant y tu allan i briodas a gwŷr a oedd yn anfon eu gwragedd i'r ysbyty am nad oeddent am gael gwraig bellach.[441]

[437] Szasz, *The Myth of Mental Illness*, t.38.
[438] Gweler Shorter, *A History of Psychiatry*; Pietikainen, *Madness: A History*, tt.75-242; Porter, *Madness: A Brief History*, tt.89-122.
[439] Pietikainen, *Madness: A History*, t.81.
[440] Holly Gierke, 'Stori Siân', (Traethawd MA: Prifysgol Bangor, 2017), t.10.
[441] Ibid.

Serch hynny, yr hyn sy'n cael ei bwysleisio drwy ymchwil Holly Gierke ac atgofion rhai o gyn-weithwyr iechyd y sefydliad 'yw'r gymuned glòs a fu yn yr ysbyty dros y blynyddoedd rhwng y staff a'r cleifion, ynghyd â'r elfen gymdeithasol a fu'r un mor ganolog i fywyd yr ysbyty a'r gofal meddygol'.[442] Drwy'i disgrifiadau o weithgarwch yr ysbyty, deuwn ar draws digwyddiadau megis eisteddfodau, dawns Nadolig a mabolgampau. A disgrifir hefyd gorau o blant ysgol yn dod yno er mwyn darparu adloniant.[443] Yn anad dim, portreadir yr ysbyty meddwl fel pentref gyda fferm, siop gyfleus, siop trin gwallt a chaeau pêl-droed a chriced.[444]

Delwedd hollol wahanol a gynigir yn *TBJ, UNOL, OFOTCN* a gwaith y gwrth-seiciatryddion. Dyma ddarlun sydd wedi dyddio erbyn heddiw. Ond fel y nodwyd, mae'n bwysig ystyried y nofelau craidd o fewn y cyfnod yr ysgrifennwyd nhw ynddo. Er bod gwaith ymchwil Holly Gierke yn cyflwyno ochr gymdogol yr ysbyty meddwl, mae gweithiau craidd yr astudiaeth yn cadarnhau agweddau stereodeipiedig a rhagweladwy tuag at y seilam yn ystod y chwedegau.

Fel y nodwyd, dyma'r cyfnod a welodd beirniadaeth Laing o'r teulu, triniaeth ysbyty a therapi sioc trydan ac efallai'n fwy dadleuol byth, theori Szasz mai 'myth' oedd salwch meddwl. Dyma hefyd gyfnod Michel Foucault a'i lyfr, *Madness and Civilisation,* a gwaith enwocaf Erving Goffman, o bosib, *Asylums.* Wedi dadansoddi cyd-destun a phwysigrwydd y gwaith hwn eisoes,[445] eir ati i adeiladu ar ddadleuon yr adran flaenorol wrth inni archwilio caethiwed seicolegol mawr y chwedegau yn y gweithiau dan sylw gan ddefnyddio damcaniaethau a safbwyntiau'r mawrion hyn.

Yn ei astudiaeth ef, disgrifiodd Goffman Sefydliadau Hollgynhwysol (*Total Institutions*) – a oedd cynnwys y seilam ymhlith sefydliadau megis carcharau a gwersylloedd-carchar – fel a ganlyn:

> When we review the different institutions in our Western society, we find a class of them which seems encompassing to a degree discontinuously greater than the ones next in line. Their encompassing or total character is symbolized by the barrier to social intercourse with the outside that is often built right into the physical plant; locked doors, high walls, barbed wire, cliff and water, open terrain and so forth. These I'm calling Total Institutions.[446]

[442] Ibid., t.5.
[443] Ibid., tt.12-13.
[444] Ibid., t.10.
[445] Cyfeiriwch at yr adolygiad llenyddol.
[446] Goffman, *Asylums*, tt.15-16.

Yng ngolau'r disgrifiad uchod, gwelir yn y llenyddiaeth graidd gyfeiriadau niferus tebyg at y seilam fel math o garchar cymdeithasol a seicolegol. Cyfeiria Bet at y 'carchar caeth di-obaith' (t.20) ac yn yr un modd, portreada'r adroddwr yn *WFNI* y 'gwallgofdy' fel 'adeilad ar wahân i weddill yr ysbyty', lle 'rydych chi'n teimlo dipyn bach fel gwahanglwyf, a bod yr ysbyty hyd yn oed ddim eisiau eich cynnwys'.[447] Wrth ddisgrifio'r ysbyty meddwl, meddai'r prif gymeriad:

> Dychmygais noddfa debyg i leiandy yma. Byddai nyrsys tawel, serchog yn cerdded o gwmpas ar flaenau eu traed, a byddai'r ystafelloedd yn rhai eang, golau gyda digon o awyr iach a golygfeydd fyddai'n falm i'r enaid. Byddwn mewn gwely efo cynfasau claerwyn, byddai cerddoriaeth dawel i'w chlywed yn y cefndir, a dan yr amodau hyn byddwn innau yn canfod fy hen hunan eto, ac yn blodeuo'n wraig hardd. Byddwn yn dysgu fod pwrpas i fywyd eto, ond wrth ffarwelio â'r nyrsys a'r dolydd gleision, byddwn yn teimlo rhyw hiraeth rhyfedd wrth eu gadael. Mor wahanol y gall realiti fod. Roedd y gwahaniaeth rhwng rhith a ffaith yn gomig, yn hyll o ddigri. (t.53)

Yn hytrach na'r cartref gofal delfrydol y byddech yn ei ddisgwyl, mae'r ysbyty meddwl yn rhywbeth hollol wahanol ym mhrofiad y fam hon. Ys dywedodd Phyllis Chesler: 'Mental asylums rarely offer asylum. Both their calculated and their haphazard brutality mirrors the brutalit of "outside Society".'[448]

Pwysleisir pa mor debyg yw delwedd y seilam i'r carchar pan edrychwn ar nofel arall Angharad Tomos, *Yma o Hyd*, a gyhoeddwyd yn gyntaf ym 1985.[449] Ynddi, gwelwn yr 'andros o wal'[450] o gwmpas y carcharorion sy'n eu caethiwo'n llythrennol ac yn feddyliol. Portreadir y carchar fel 'lle affwysol o ddiflas',[451] yn debyg i 'byncar'[452] lle y mae amser yn stopio'n stond. A chan gryfhau'r gyfatebiaeth hon, adlewyrchir y diffyg gobaith a welir yn aml yn y meysydd seiciatryddol wrth i'r prif gymeriad grybwyll bod '[y]na rhywbeth yn adeiladwaith y lle yma sy'n magu tristwch'[453]. A noda'n fwy uniongyrchol byth fod 'lot yn mynd yn boncyrs go iawn yma'. [454]

Er mwyn ategu at hyn, disgrifir yr ysbyty meddwl gan Esther, fel y nodwyd yn yr adran flaenorol, fel 'a big cage in the basement'.(t.168) Ond efallai mai'r

---

447 Tomos, *Wrth fy Nagrau i*, t.36.
448 Chesler, *Women and Madness*, t.94
449 Angharad Tomos, *Yma o Hyd*, (Talybont: Y Lolfa, 1985). Yn yr astudiaeth hwn, dynnir o'r trydydd argraffiad, Angharad Tomos, *Yma o Hyd*,3ydd arg (Talybont: Y Lolfa, 1992).
450 Tomos, *Yma o Hyd*, t.36
451 Ibid, t.81
452 Ibid, t.89
453 Ibid, t.31
454 Ibid, t.42

enghraifft amlycaf o lenyddiaeth sy'n delweddu'r seilam fel carchar yw nofel Ken Kesey, *OFOTCN*, wrth i'r frwydr rhwng carcharor a swyddog ffurfio canolbwynt y stori.

Yn nofel Caradog Prichard, fodd bynnag, cyflwynir amrywiadau ar ddarlun cyfyngol a dychrynllyd y gwallgofdy. Fel y mae Menna Baines yn ei gydnabod, roedd y seilam yn chwarae rôl ganolog, nid yn unig yng ngweithiau llenyddol a barddonol Caradog Prichard, ond hefyd yn ei fywyd personol.[455] Mewn llythyrau amrywiol at Morris T. Williams, er enghraifft, disgrifia'r ysbyty fel 'uffern' neu'r 'diawl lle yna.'[456] Ar ben hyn, awgryma Menna Baines: 'ei fod yn argyhoeddedig fod ei fam yn cael amser ofnadwy yno, bod bywyd sefydliadol y lle yn wrthun iddo a'i fod yn arswydo o weld ei fam yn cael ei mowldio'n rhan o'r bywyd hwnnw'.[457] A chan ystyried hyn oll, trosglwyddwyd yr un agwedd gondemniol o'r seilam i'w nofel, *UNOL*.

Gan fod gwallgofrwydd mor gyffredin ymhlith trigolion y pentref ffuglennol, mae presenoldeb bygythiol y seilam i'w deimlo drwy'r holl nofel. Ac yn aml, ymddengys fod yr ysbyty meddwl yn mabwysiadu'r awdurdod cymdeithasol a oedd yn gysylltiedig â'r carchar yn y cyfnod, gan godi ofn ar bobl. Oherwydd hyn, roedd yr adroddwr, ei ffrindiau a thrigolion eraill y pentref yn ymwybodol o ddifrifoldeb a thynfa nerthol y lle. Ar ôl sylweddoli mai i'r seilam y mae ei fam yn mynd, er enghraifft, daw ton o ddychryn dros y bachgen ac o ganlyniad, mae'n methu â phrosesu'r sefyllfa'n rhesymol. Yn hytrach, mae'n cecian yn ofnus:

> Am fynd â hi i ffwrdd ma nhw, ynte? medda fi, a sbïo i'r tân. Ac er na ddaru neb ddim deud y geiria, oeddan nhw'n rhedag ar ras trwy mhen i run fath â trên bach. Chwarel. Dimbach. Seilam. Ma nhw'n mynd â Mam i Seilam, Seilam, Seilam. Em Brawd Now Bach Glo. Yn ei arch â'i geg yn gorad. Wedi cael ei stido. Em eisio diod. Mi geith hi berffath chwara teg. Mewn gwendid mae hi. Yncl Wil yn cael ei grogi. Wil Elis Portar. Gwddw'n stillio gwaedu. Seilam, Seilam, Seilam. (t.167)

O ystyried yr ymateb hwn, mae fel petai hyd yn oed sôn am y lle yn codi teimladau o 'wallgofrwydd' ymhlith y rhai sy'n dlawd eu hamgylchiadau. Dyma gred a ddadansoddir yn nrama Aled Jones Williams, *Anweledig*. Cyhoeddwyd y ddrama hon yn 2013, a hynny ar ôl cyfnod yr astudiaeth, ond amlyga hirhoedledd ofn y seilam. Mae'r gynulleidfa heddiw yn dal yn ymwybodol o'r stigma a'r dychryn a

[455] Anfonwyd mam y llenor i'r seilam yn Ninbych.
[456] Dyfynnir y cwbl yn Baines, *Yng Ngolau'r Lleuad*, t.268.
[457] Ibid.

oedd yn gysylltiedig â'r seilam yn yr ugeinfed ganrif ac o ganlyniad gwerthfawrogir bod yn rhaid meddwl o ddifri' am iechyd meddwl a'r gofal a gynigir i gleifion.

Dilynwn daith Glenda, dynes sy'n dioddef o iselder wrth iddi frwydro i ymdopi â'r salwch anweledig. Trwy'r ddrama, nid yngenir y gair 'Dimbach' yn hyglyw, gan awgrymu bod rhyw ddychryn neu gywilydd yn perthyn i'r lle. Meddai'r prif gymeriad:

> (Dimbach), yr enw distawa yn y Gogladd. (Dimbach), enw sy'n ca'l 'i ynganu'n fud gan figmas gwefusa', fyth 'i ddeud ar goedd. (Dimbach). Ma raid fod y lle'n ca'l 'i nabod yn unig drw' seins gwynion, gweigion ar y ffor' fawr, oherwydd pam ddiawl fydda 'na neb isho gwbod 'i bod nhw wedi cyrradd (Dimbach)? Y lle nad ydyo'n bod. Ma'n iawn i chi ddeud 'ch bod chi'n mynd i (Ddimbach) y Pysgod ond pidiwch fyth a deud 'ch bod chi'n mynd i (Ddimbach) heb y Pysgod. Enw sy'n creu twll mewn brawddeg.[458]

Gwelir yr un ofn yn *UNOL.*Wrth egluro i'r adroddwr fod rhaid i'w fam fynd i'r ysbyty meddwl, meddai Ellis Evans, 'ella na fydd hi ddim yn rhyw fodlon iawn i fynd, a mi fydd raid i titha'i pherswadio hi'. (t.167) Er bod modd dehongli hyn fel ymateb dealladwy gan rywun sy'n ofni derbyn cymorth seicolegol, gellir ei ddehongli fel ofn ehangach o'r seilam. Dyma ofn sy'n ganlyniad i ganrifoedd o ragfarn gymdeithasol, rhagfarn a gyfrannodd nid yn unig at salwch meddwl yr unigolyn yn y lle cyntaf, ond hefyd at ragdybiaeth sy'n atal gwellhad posib y dioddefwr.

Ar ôl iddo ddysgu tynged ei fam, ceisia'r adroddwr godi ei galon gan ddweud:

> Mi gaiff hi bob chwara teg.
> Mi edrychan nhw ar ei hôl hi'n iawn.
> Ma hi siŵr o fendio'n reit fuan.
> Fydd hi ddim yno'n hir, wsti. (t.165)

Fel y dywed Mihangel Morgan, celwyddau yw'r geiriau hyn i gyd.[459] Wrth i 'ddrws lle mawr gymaint bedair gwaith â Capal Salem, a grisia cerrig bob ochor i fynd i fyny at y drws' (t.170) gloi am ei fam am byth, a thrwy lygaid diniwed plentyn sydd wedi colli ei riant, portreedir awyrgylch awdurdodaidd a rheolaethol y seilam mewn modd craff ond teimladwy.

---

[458]Aled Jones Williams, *Yr Anweledig* (2013). Perfformiwyd yn gyntaf yn Eisteddfod Denbigh, Y Lle Celf. Cafwyd copi o'r sgipt gan Dr Hannah Sams. Am fwy o wybodaeth, gellir gweld cyfweliad Aled Jones Williams â meddwl.org *'Anweledig' – Cyfweliad gydag Aled Jones Williams,* <https://meddwl.org/erthyglau/anweledig-cyfweliad-gydag-aled-jones-williams/?print=print> [cyrchwyd 24 Ionawr 2019]

[459] Morgan, *Llên y Llenor: Caradog Prichard,* t.7.

Yn sgil hynny, mae diniweidrwydd y mab yn adlewyrchu'n berffaith eironi gweithdrefnau'r seilam yn ogystal â chwerwedd y gymdeithas o ran gofal seicolegol y chwedegau. Ni lwyddodd mam yr adroddwr na mam y llenor ei hun i ddianc o'r ysbyty meddwl, ac yn yr un modd, ni lwyddodd dosbarth cymdeithasol is y chwedegau i ddianc rhag gafael y seilam a'r gymdeithas reolaethol.

Awgrymodd Simon Brooks y dylid edrych ar y seilam yn *UNOL* drwy oleuni gwaith Foucault, wrth iddo gydnabod dylanwad posib yr athronydd ar waith y llenor. Meddai: 'does yr un meddyliwr yn fwy perthnasol wrth geisio dirnad *U.N.O.L* na Michel Foucault'.[460] Er gwaethaf hyn, nid oes llawer o waith ymchwil ar ddelwedd y seilam ei hun mewn gwirionedd. Dadansoddwn felly ddarlun yr ysbyty meddwl yn nofel Caradog Prichard yn ei gyd-destun seiciatryddol ac amseryddol ehangach.

Amlwg ddigon yw'r ddelwedd o'r ysbyty meddwl fel math o ddalfa. Mewn oes lle yr oedd adnoddau a dealltwriaeth seicolegol yn weddol brin ymhlith y dosbarth gweithiol a phan ddefnyddiwyd y rheinws[461] i gaethiwo troseddwyr a'r rhai a oedd yn peryglu cytgord y gymdeithas, er enghraifft – mae'n rhaid cofio y gosodir *UNOL* yn ystod cyfnod cynharach i'r gweithiau eraill – datblygodd y seilam swyddogaeth ddeublyg fel ysbyty meddwl ac fel carchar.

Amlygwyd eisoes fod ymddygiad anghonfensiynol yn weddol gyffredin yn nofel Caradog Prichard. Ymhlith y bobl a anfonwyd i'r ysbyty meddwl am arddangos arwyddion o ymddygiad rhyfedd roedd Harri Bach Clocsia, dyn sy'n tynnu ei drowsus ac yn dangos ei bidlan i'r bechgyn. Ond hefyd, sonnir am Em Brawd Now Bach Glo, y trawswisgwr sy'n cael ei gyhoeddi'n bedoffilydd[462] ac sydd â thueddiadau hunanladdol. Heb os, mae modd dweud bod gan y dynion hyn arwyddion sicr o salwch meddwl ond ymddengys eu bod yn y seilam oherwydd eu hymddygiad gwrthgymdeithasol. Yn wir, dadansoddiadau posib yn unig yw'r rhain i gyd. Teflir amheuaeth dros hawl a swyddogaeth y seilam unwaith eto, yn arbennig yn achos rhai o'r cymeriadau benywaidd gan gynnwys Jini Bach Pen Cae a Catrin Jên.

Ar ddiwedd y bennod gyntaf, er enghraifft, dysgwn fod y menywod hyn wedi cael eu dwyn i'r ysbyty meddwl, ond llai amlwg yw'r seiliau seicolegol.[463] Fel y sylwa Foucault am hanes y claf: 'it has rarely been made clear what their status was

[460] Simon Brooks, 'La Mort de Bethesda', *Tu Chwith*, Rhif 1 (Ebrill / Mai 1993), t.23.
[461] Ystyr rheinws yw math o garchar bach. Cyfieithiad y gair yw *clink* neu *lock-up*.
[462] Owen Huws, *Nodiadau ar Un Nos Ola Leuad*, t.13.
[463] Gweler Chesler, *Madness and Women*, t.93

there, what the meaning was of this proximity which seemed to assign the same homeland to the poor, to prisoners and to the insane'.[464] Yng ngolau hyn, ac fel y dengys astudiaeth Russell Davies hefyd,[465] roedd yn ddigon cyffredin i fenywod gael eu hanfon i'r ysbyty meddwl am amrywiaeth o resymau – esgusodion fyddai'r term mwyaf addas yn nhyb rhai – yn ystod y cyfnod rhwng y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif. Ac yn aml iawn, fe'u derbynid nhw i'r seilam oherwydd ymddygiad anghymdeithasol yn hytrach na gwendid meddyliol go-iawn.

Byddai digartrefedd yn ddigon i yrru rhai i'r seilam. Ymddengys i'r darllenydd fod Catrin Jên yn cael ei hanfon i'r ysbyty meddwl am nad oes ganddi gartref. Yn ôl safonau'r cyfnod, ystyrid anfoesoldeb hefyd yn drosedd a chan feddwl am y ffaith bod Jini Bach Pen Cae yn cael ei cham-drin yn rhywiol gan Preis Sgŵl ac Em Brawd Now Bach Glo, gellir awgrymu ei fod yn ffactor sy'n cyfrannu at ei hymweliad hithau â'r seilam. Hynny yw, nid yw ymddygiad y ddwy fenyw'n ymddangos o angenrheidrwydd yn 'wallgof'. Yr hyn sy'n gyffredin rhyngddynt yw'r chwithigrwydd a'r cywilydd cymdeithasol, mae Catrin yn gadael i'w thlodi ei threchu a phortreedir Jini fel menyw anfoesol. Fel y nododd Mihangel Morgan, mae'n ymddangos fel petai'r menywod hyn yn cael eu caethiwo i'r 'gwallgofdy' oherwydd math o esgus cymdeithasol yn unig.[466]

Trwy'r nofel, teflir goleuni ar weithdrefnau a swyddogaeth ddadleuol y seilam. Yn ôl Foucault, roedd y gwallgofdy am osgoi sgandal cymdeithasol. Meddai: 'It is primarily concerned with scandal. In its most general form, confinement is explained, or at least justified, by the desire to avoid scandal.'[467] Felly, yn unol â chredoau'r beirniaid seicolegol a chymdeithasol, gellir dadlau bod yr ysbyty meddwl yn gweithredu mewn modd tebyg i garchar, hynny yw, fel math o ateb i broblemau atgas ac annymunol y gymdeithas (megis y tlawd, yr anfoesol a'r gwallgof.) Nid oedd gwir angen i berson fod yn wirioneddol wallgof i gael ei anfon i'r seilam – fel y dywedwyd yn nofel Angharad Tomos: 'I'r doctoriaid, un raddfa sydd 'na – rwbath gwahanol o normalrwydd, a rydan ni'n cael ein cau tu mewn i'r drysau 'ma'.[468] A

---

464 Foucault a Howard, *Madness and Civilization*, t.39. Fel y nodwyd, sonia Foucault am gyfnod gwahanol ond am bwrpas yr astudiaeth hon ac yn unol â safbwyntiau Petteri Pietikainen o'r adolygiad llenyddol, o hyn ymlaen, darllenwn ei gredoau yng nghyd-destun y cyfnod dan sylw fel ffordd o ennill wybodaeth well am syniadau'r oes.

465 Russell Davies, *Secret Sins: Sex, Violence and Society in Carmarthenshire 1870-1920* (Cardiff: University Wales Press, 1996)

466 Morgan, *Llên y Llenor: Caradog Prichard*, t.40.

467 Foucault a Howard, *Madness and Civilization*, t.66.

468 Tomos, *Wrth fy Nagrau i*, t.168.

thrwy gyfeiriadau sarhaus ond craff Caradog Prichard yn ei nofel, gwelwn ei fod yntau'n ymwybodol o'r annhegwch hwn.[469]

Gwelir y syniad o sgandal cymdeithasol yn *TBJ* hefyd. Ar ôl dysgu am ei sefyllfa gymdeithasol a seicolegol, ymddengys i'r darllenydd fod Esther yn cael ei hanfon i'r ysbyty meddwl. Mae hyn, nid yn unig ar gyfer ei lles ei hun, ond hefyd, fel nad yw'n gallu achosi mwy o embaras cymdeithasol i'w mam. Fel y dywedodd y fyfyrwraig: 'A daughter in an asylum! I had done that to her', (t.250) wrth i Mrs Greenwood ddatgan, 'we'll act as if all this were a bad dream'. (t.250) Awgrymir hyn hefyd yn nrama W. S. Jones, *Bobi a Sami*. Meddai Sami: 'a gora po gynta yr awn ni o'ma. Ofn i bobol ddwad i wbod bod ni yma, honna ydi mhoen fawr i. 'Rydw i'n dwad o deulu parchus iawn.'[470]

Ond yn achos *TBJ* ac Esther a'i mam, mae'r ôl-effaith gymdeithasol yn sgil salwch ei merch yn ormod i'r fam gul ei meddyliau. O'r herwydd, ymdrecha i reoli'r chwithigrwydd gan honni nad oedd ei thaith i'r seilam wedi digwydd. Adlewyrchir ym meddylfryd Mrs Greenwood a mynediad Bet i'r ysbyty meddwl agwedd anghydymdeimladol ac anghymeradwyol cymdeithas y cyfnod o ran cyflyrau seicolegol. Yn debyg i Bet a'r gymuned glòs Gymreig i raddau, mae mam a chyfoedion Esther yn gobeithio y bydd modd 'iacháu' Esther o'i salwch a'i 'phechodau cymdeithasol'. Eglura'r fyfyrwraig: 'and when people found out my mind had gone, as they would have to sooner or later, in spite of my mother's guarded tongue, they would persuade her to put me into an asylum where I could be cured'. (t.167) Wedi'r cyfan, dyna oedd ateb y gymdeithas i ymddygiad od a di-hid, a gwelwn fod iechyd meddyliol Esther yn cael ei ddinistrio ymhellach gan agweddau'r gymdeithas ehangach.

Yn wyneb y delweddau hyn i gyd, yn ogystal â'r ffaith bod pobl yn cael eu hanfon i'r ysbyty meddwl am dorri'r côd cymdeithasol, nid yw'n syndod i awduron bortreadu'r seilam, nid fel sefydliad o ofal neu loches lle y mae adferiad a myfyrdod yn bosib, ond fel math o garchar. O ganlyniad, daeth y syniad o'r seilam fel math o gosb gymdeithasol yn dra chyffredin yn ystod y cyfnod dan sylw. Ys dywedodd Thomas Szasz am y cleifion: 'they were hospitalized not so much because they were sick as because they were poor, unwanted, or disturbing to others'.[471]

---

[469] Morgan, *Llên y Llenor: Caradog Prichard*, t.40.
[470] W. S. Jones, *Bobi a Sami,* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 1988) t.13
[471] Szasz, *The Myth of Mental Illness*, t.18.

Yn union fel carcharor sy'n cael ei anfon i garchar er mwyn cyflawni ei ddedfryd, dadleuwyd fod pobl sâl eu meddwl hefyd yn cael eu gorfodi i ddioddef proses ddiraddiol cyn cael mynediad i'r ysbyty meddwl. Beirniadodd Goffman dderbyniad cychwynnol y claf i'r gwallgofdy. Meddai: 'The stripping processes through which mortification of the self occurs are fairly standard in our total institutions. Personal identity equipment is removed, as well as other possessions with which the inmate may have identified himself.'[472] Yn syth ar ôl cyrraedd yr ward, atafaelwyd eiddo personol y claf fel modd o ddatgysylltu'r unigolyn â'r byd allanol. Gwelwn y weithred hon yn nofel Angharad Tomos, *Yma o Hyd*, wrth i'r prif gymeriad roi ei heiddo mewn 'dolly-bag'[473]. Ac yn yr un modd, meddai Russell Davies am brofiadau cleifion yr ysbytai meddwl yng Nghymru:

> From the patients first encounter with the asylum, everything about the institution seemed to lessen the chances of cure. On arrival patients were deprived of all their personal belongings, including their clothes. All the mechanisms and tools with which the individual had defined himself to society – clothes, cigarettes, combs – were taken and the person was thrown naked and unprotected into a new and alien world.[474]

Yn wir, mae astudiaeth Russel Davies yn ymdrin  â chyfnod cynharach o lawer, ond mae'r disgrifiadau erchyll yn atseinio'n glir yng nghyfnod yr astudiaeth gan awgrymu na fu fawr o ddatblygiad. Dyma bortreadu'r hyn y mae Goffman yn ei alw yn 'the inmate world,'[475] lle nad yw'r cleifion yn cael eu trin fel unigolion sâl ond yn hytrach fel 'inmates' wrth iddynt gael eu hamddifadu o'u hunaniaeth bersonol. Yn *UNOL,* wrth i fam yr adroddwr gyrraedd y seilam, cesglir ei holl feddiannau gan gynnwys ei modrwy briodas mewn '[p]arsal mor fychan', (t.173) ac fe'u rhoddir i'w mab gofidus – pethau sy'n cynrychioli diddymu hunaniaeth y fenyw. Yng ngolau hyn, awgrymir nad ceisio archwilio'r broblem a oedd wrth wraidd salwch meddwl mam yr adroddwr yr oedd y seilam, sef y teimlad o ddiffyg perthyn.[476] Yn hytrach roedd yn gwaethygu ei chyflwr. A thrwy'r weithred

---

[472] Erving Goffman yn *Crime, Law, and Society: Readings Selected by Abraham S. Goldstein and Joseph Goldstein,* gol gan. Abaraham S. Goldstein a Joseph Goldstein (New York: Macmillan Publishing, 1971), t.244.
[473] Tomos, *Yma o Hyd*, t.8
[474] Davies, *Secret Sins: Sex, Violence and Society in Carmarthenshire 1870-1920,* t. 94.
[475] Goffman, *Asylums*, tt.23-73.
[476] Meddai Menna Baines: 'Yn *Afal Ddrwg Adda,* fodd bynnag, mae'n rhoi'r bai mwyaf am ddirywiad meddwl ei fam ar yr amgylchiadau a grëwyd gan ei gweddwdod . . . ei gweddwdod a'i rhoddodd ar y plwy ac ar drugaredd gwahanol landlordiaid'. Gweler Baines, *Yng Ngolau'r Lleuad*, t.259.

ddiraddiol hon, pwysleisir unwaith eto ffyrdd dideimlad, annynol a chreulon yr ysbyty meddwl o ofalu am bobl.

Er y gwelir tebygrwydd rhwng y disgrifiadau yng ngwaith Goffman ac *UNOL, TH, TBJ* ac i raddau, *WFNI*, ymddengys fod *OFOTCN* yn fath o gymar llenyddol i astudiaeth Goffman. Adlewyrchir drwy'r nofel enghreifftiau di-rif o brif ddadleuon a phryderon y cymdeithasegwr ynglŷn â'r seilam mewn perthynas â brwydrau McMurphy, Bromden a'r cleifion eraill.[477] Gan ddilyn y dadansoddiadau blaenorol, gwelwn feirniadaeth Goffman o driniaeth gychwynnol y claf, y tro hwn drwy ddelwedd y Combine a chamdriniaeth ddŵr. Wrth i'r dynion gyrraedd yr ysbyty, fe'u gorfodir i gael cawod ddiraddiol yn syth. Meddai Chief Bromden:

> Most days I'm the first one to see the Admission, watch him creep in the door and slide along the wall and stand scared till the black boys come sign for him and take him into the shower room, where they strip him and leave him shivering with the door open while they all three run grinning up and down the halls looking for the Vaseline. "We need that Vaseline," they'll tell the Big Nurse, "for the thermometer." She looks from one to the other: "I'm sure you do," and hands them a jar that holds at least a gallon. (t.9)

Yn unol â'r agwedd feirniadol, gellir awgrymu bod y golchiad llythrennol yn nofel Ken Kesey yn drosiad o ddileu statws a hunaniaeth yr unigolyn, sydd ond yn pwysleisio grym y system. Ac yng ngolau ei ddiffyg personoliaeth a hunaniaeth, priodolir un newydd iddo, sef claf. Yn wyneb hyn, ac yn ôl safbwyntiau'r damcaniaethwyr labeli,[478] dywedodd David Mechanic:

> The patient must become socialized to a 'patient-role,' accepting the definition of his symptoms placed upon him by the hospital population, including staff and other patients. Should the patient refuse to accept the patient-role and deny his illness this resistance is viewed as a further symptom of the 'illness.' . . . Unless the patient begins to see himself through the eyes of the psychiatrist, hospital personnel, and

[477] Oherwydd y rheswm hwn, cyhoeddwyd nifer o astudiaethau sy'n archwilio'r perthynas hwn ac felly nid bwriad yr astudiaeth hon yw dadansoddi *One Flew Over The Cuckoo's Nest* yn fanwl yng ngoleuni gwaith Goffman. Dylid darllen Martin Halliwell, *Therapeutic Revolutions Medicine, Psychiatry, and American Culture, 1945-1970* (New Brunswick: Rutgers University Press, 2013); Barry Ryan, 'The Third Space in Ken Kesey's *One Flew Over The Cuckoo's Nest*', *Moderna Språk,* 105.2 (2011), 36-53; Phillip Manning, *Erving Goffman and Modern Sociology* (Cambridge: Polity, 1992), t.117.

[478] Roedd y meddylfryd hwn yn ffynnu yn ystod y cyfnod dan sylw; yn diolch i waith Edwin Lemert, *Social Pathology: A Systematic Approach to the Theory or Sociopathic Behaviour* (New York: McGraw-Hill Book Company Inc, 1951); Howard Becker, *Outsiders: Studies in the Sociology of Deviance* (New York: The Free Press of Glencoe, 1963). Mae damcaniaeth labelu yn awgrymu bod pobl yn ymddwyn ac yn dod i weld eu hunain mewn ffordd sy'n adlewyrchu sut y mae eraill yn eu gweld neu'n eu labelu. Defnyddir y theori yn aml er mwyn disgrifio'r berthynas rhwng ymddygiad gwyrdröedig a throsedd. Ond fe'i gwelir hefyd yn y meysydd seiciatryddol.

other patients, he will remain a problem to the ward, and his therapy and progress are likely to be viewed as inconsequential. [479]

Yn ôl credoau poblogaidd y cyfnod, roedd yn rhaid i'r unigolyn 'sâl' ei weld ei hun drwy lygaid y rhai uwch yn y gymdeithas os oedd am wella o gwbl. Wedi dweud hynny, roedd bod yn glaf ar ward Nurse Ratched yn brofiad cwbl ddiraddiol, hynny yw profiad tebyg i ddisgrifiadau Goffman lle nad oedd gwellhad yn bosib. Er enghraifft, gorfodir cleifion i gymryd pils a chyffuriau (tt.30-31); rhwystrir grwpiau rhag ffurfio gan sicrhau bod y claf yn teimlo'n unig ac ar goll (t.125); a hefyd, gwelwn ddefnydd diraddiol o'r ffeil sy'n cael ei defnyddio er mwyn ysbïo ar y dynion. (t.14) Tynnir sylw hefyd at natur awdurdodaidd a disgyblaethol y seilam gyda'i 'white walls and white basins' (t.6), 'Shock Shop', 'Seclusion', a 'pee-stinking mattress'. (t.8) Yn ganolog i nofel Ken Kesey, mae ei feirniadaeth ar driniaeth– neu gamdriniaeth – y claf, sydd yn ôl Goffman yn cael ei siapio a'i godio 'into an object that can be fed into the administrative machinery of the establishment, to be worked on smoothly by routine operations'.[480]

Fel y nodwyd yn yr adolygiad llenyddol, i Goffman mae'r seilam, yn lle bod yn rhywle a oedd yn meddwl am anghenion y claf, yn fath o beirianwaith sydd eisiau rheoli pob dim yn ôl normâu cymdeithasol caeth. Mewn modd tebyg, canolog hefyd i nofel Ken Kesey yw delwedd y 'Combine': 'a huge organization that aims to adjust the Outside as well as she has the Inside', (t.25) chwedl Bromden, 'working to push and bend you one way or another'. (t.205) Yn unol â chredoau beirniadol y cyfnod, awgryma Ken Kesey fod yr awdurdod rheolaethol am reoli'r tlawd, y gwan a'r gwallgof yn y gymdeithas. A thrwy ddelwedd y seilam a'r *Combine*, dyma'r llenor yn archwilio'r safbwynt mai math o reolaeth gymdeithasol yn unig oedd salwch meddwl a gofal seicolegol gan rannu beirniadaethau'r oes â chynulleidfa ehangach. Am swyddogaeth ddadleuol yr ysbyty, meddai'r cymeriad Harding:

> Guilt. Shame. Fear. Self-belittlement. I discovered at an early age that I was – shall we be kind and say different? It's a better more general word than the other one. I indulged in certain practices that our society regards as shameful. And I got sick. It wasn't the practices I don't think, it was the feeling that the great, deadly, pointing forefinger of society was pointing at me – and the great voice of millions chanting, 'Shame. Shame. Shame.' It's society's way of dealing with someone different. (t.265)

---

[479] David Mechanic, 'Some Factors in Identifying and Defining Mental Illness' yn Thomas J. Scheff (gol), *Mental Illness and Social Processes* (New York: Harper & Row, 1967), t.31.
[480] Goffman, *Asylums*, t.26.

Trwy'r cyfaddefiad uchod, mae Harding yn cydnabod gwir rôl y seilam yng ngolau'r cyfnod, sef rheoli'r unigolyn anystywallt. A gwneir hyn, yn ôl safbwynt y cymeriadau, drwy borthi ofn y cleifion diymadferth. Mae arnynt ofn Nurse Ratched, er enghraifft, o'r cyfarfodydd grŵp lle y mae'r dynion yn dioddef yn emosiynol, ac mae arnynt ofn hefyd o'r 'orderlies', hynny yw'r gweithwyr ar y ward, sy'n trefnu holl gamdriniaeth Nurse Ratched. Ond yn anad dim, maent yn ofni torri rheolau o ganlyniad i driniaethau annynol amrywiol y seilam. Ys dywedodd Martin Halliwell: 'the combine works via fear, dressing up disciplinary procedures as therapeutic ones'.[481]

Yn unol â beirniadaethau'r cyfnod, roedd pethau megis lobotomïau a therapi sioc drydan yn hynod gyffredin yn *OFOTCN*. Oherwydd hyn, cyfeiria Chief Bromden at y ffaith fod Nurse Ratched yn gallu cyflawni'r triniaethau hyn ar unrhyw adeg; hyd yn oed os nad ydyw'n teimlo ei fod yn angenrheidiol i iechyd y claf, ond oherwydd ei bod eisiau rhoi stamp ei hawdurdod ar y dynion neu reoli'r sefyllfa yn unig. Wrth sôn am ddymuniad y cleifion eraill i osgoi'r *Chronics*, sef y dynion mwyaf anobeithiol, meddai'r Indiad:

> But I know it isn't the stink that keeps them away from the Chronic side so much as they don't like to be reminded that here's what could happen to *them* someday. The Big Nurse recognises this fear and knows how to put it to use; she'll point out to an Acute, whenever he goes into a sulk, that you boys be good boys and cooperate with the staff policy which is engineered for your *cure,* or you'll end up over on *that* side. (t.17)

Yn hytrach na chael eu gweld fel enghreifftiau dilys o ofal seiciatryddol, drwy nofel Kesey a'i gymeriadau, gwelir mai prif amcan y triniaethau oedd cywiro'r unigolyn ac nid ei wella. O ganlyniad i'r agwedd hon, cadarnheir yn *OFOTCN* y gred mai math o gosb oedd y triniaethau seiciatryddol. Dyma agwedd a delwedd a newidiodd gwrs seiciatreg am byth.[482]

Er bod *OFOTCN* yn darparu efallai'r enghraifft enwocaf o feirniadaethau'r oes am driniaethau'r byd seiciatryddol, gwelir hefyd ddarlun tebyg yn *TBJ*. Wedi derbyn therapi sioc trydan, cyfeiria Esther at natur arswydus y driniaeth gan holi: 'I wondered what terrible thing it was that I had done'. (t.152) Ac ar ôl meddwl am ei

---

481 Halliwell, *Therapeutic Revolutions Medicine, Psychiatry, and American Culture, 1945-1970,* t.214.

482 Mae'r syniadau hyn yn cyd-fynd â beirniadaeth Foucault. Meddai: 'The therapeutics of madness did not function in the hospital, whose chief concern was to sever or to "correct." Long cures for madness were elaborated whose aim was not so much to care for they should also cure the entire individual, his nervous fibre as well as the course of his imagination.' Gweler ###Foucault a Howard, *Madness and Civilisation*, t.159.

chaethiwed anochel yn yr ysbyty meddwl, eglurodd y fyfyrwraig: ‘Once I was locked up they could use that on me all the time’. (t.168) Yng ngolau hyn a chan adeiladu ar ddisgrifiad Kesey o’r triniaethau sioc trydan fel trosiad am reolaeth gymdeithasol, awgrymodd Elaine Showalter fod nofel Sylvia Plath yn delio ‘very specifically with institutionalization and shock treatment as metaphors for the social control of women’.[483] O ganlyniad, teflir goleuni, nid yn unig ar y dadleuon cymdeithasol a seiciatryddol ond hefyd ar faterion ffeministaidd wrth i lenorion y llenyddiaeth dan sylw geisio wynebu problemau’r oes mewn modd artistig. Dychwelwn at hyn yn y bennod nesaf.

Er na welir y feirniadaeth hon yn y testunau Cymraeg – mae nofel Caradog Prichard yn tynnu sylw at erchyllterau’r ysbyty meddwl ond nid y triniaethau – drwy Esther Greenwood, Chief Bromden a’r cleifion eraill, portreedir pryderon a rhagfarnau’r cyfnod tuag at y seilam yn glir. O ganlyniad, beirniedir cymhellion y gwallgofdy. Yng ngoleuni gwaith Goffman a Foucault, hawdd yw deall casineb cymeriadau’r llenorion tuag at yr awdurdodau rheolaethol. Mae’n feirniadaeth hefyd ar ragfarnau’r gymdeithas uwch wyneb yn wyneb â’r ‘gwallgofiaid’ hyn. Fel tegan wedi’i dorri neu fwystfil hyll, caiff y cymeriadau eu bwrw o’r neilltu i ymylon y gymdeithas, i ysbyty meddwl lle nad oes rhaid i weddill y gymuned fod yn dyst i’w hymddygiad tramgwyddus. Ac yn union fel nad oes modd i droseddwyr ddianc rhag canlyniadau eu trosedd, ni all y cleifion hyn ddianc rhag carchar eu meddyliau a gafael y seilam arnynt. Ys dywedodd y carcharor *Yma o Hyd*, ‘mae ’meddwl i’n rhyngu ’mlaen fel erioed. Fedra i ddim dianc rhag hwn. Dwi wedi blino meddwl.’ (t.9)

Wedi dadansoddi’n fanwl ddelwedd y seilam fel carchardy, deuwn yn awr at ran olaf yr adran hon wrth inni archwilio ymgais rhai o’r cymeriadau i dorri’n rhydd er mwyn eu lles ac er gwaetha’r canlyniadau difrifol sydd o’u blaenau. Yr un canlyniad anochel sy’n wynebu’r cymeriadau fel arfer, sef dirmyg y gymdeithas. Dyma gyflwyno paradocs eu sefyllfa. Cânt eu cosbi am gydymffurfio a chânt eu ceryddu am beidio.[484]

---

[483] Showalter, *The Female Malady*, t.213.

[484] Trafoda Thomas J. Scheff salwch meddwl yn nhermau torri’r rheolau yn ei astudiaeth, *Being Mentally Ill: A Sociological Theory* (Chicago: Aldine Publishing Company, 1966). Ond gweler hefyd Robert J. Franzese, *The Sociology of Deviance: Differences, Tradition and Stigma* (Springfield: Charles C. Thomas Publisher Ltd, 2009).

Unwaith eto, nofel sy'n cyflwyno'r paradocs hwn rhwng y gwallgofddyn a'r gwrthryfelwr yn gwbl glir yw nofel Ken Kesey wrth iddo archwilio swyddogaeth gwyriad yn ei holl ffurfiau. Fel y nodwyd yn fras, wrth wraidd *OFOTCN* y mae'r frwydr rhwng Nurse Ratched a McMurphy sy'n cynrychioli, yn ei thro, y frwydr gymdeithasol rhwng rheolaeth a rhyddid. Yng ngeiriau John A. Barsness:

> The enemy he [McMurphy] fights is society, artificial, complex, institutionalized – civilization if you will… Oppressive, conformist, regulatory[.] Civilization is the suppressor of individual freedom and the mindless slave of a material goal.[485]

Yn union fel rhyfel go-iawn, mae rheolau'n cael eu torri ac mae ffiniau'n cael eu croesi. Pennaeth y llywodraethiad yn achos nofel Ken Kesey yw Nurse Ratched. Cyn-nyrs filwrol yw hi sy'n manteisio ar wahanol reolau er mwyn atgyfnerthu ei phŵer dros yr holl gleifion. Ond gan gysylltu rôl y seilam â math o driniaeth am wyriad, gwelir nad awyrgylch sy'n annog datblygiad seicolegol yr unigolyn yw ward y nyrs, ond yn hytrach, cydymffurfiad. Gan ddyfynnu Nurse Ratched: '"You men are in this hospital," she would say like she was repeating it for the hundredth time, "because of your proven inability to adjust to society"'(t.144). Awgrymir mai oherwydd eu hanufudd-dod yn hytrach na'u hamwyll y caethiwir y dynion hyn yn y seilam.[486]

Dyma osodiad difrifol sy'n agor trafodaeth ar dynged y gwrthryfelwr. Ond er gwaethaf y rhybuddion niferus, un cymeriad a oedd am chwalu trefn dotalitaraidd yr ysbyty meddwl yw Randle McMurphy. Mae'n glir nad dyn sy'n hoff iawn o ddilyn y rheolau cymdeithasol ydyw. Mae'n rhaid cofio mai torri'r gyfraith yn y lle cyntaf yw'r hyn sy'n arwain at ei anfon i'r seilam am ei fod yn meddwl ei fod yn well na mynd i'r carchar. Cymharer hyn â sylw'r prif cymeriad yn *Yma o Hyd* am y carchar. Gofynnir iddi, 'I be dach chi'n feddwl mae carchar yn dda?' ac ymateba, 'Lle i ddianc.' (t.69)

Yn syth ar ôl iddo gyrraedd y ward, ymddengys ei fod yn benderfynol unwaith eto i wrthryfela yn erbyn y drefn ormesol. Yn yr un modd, meddai cymeriad *Yma o Hyd*: 'Pethau fel hyn a lanwai ein meddyliau – sut oedd trechu'r Drefn' (t.66). Er gwaethaf difrifoldeb rheolau Nurse Ratched, mae'n chwerthin yn uchel, yn

---

[485] Barsness, 'Ken Kesey: The Hero in Modern Dress', t.28.

[486] Am fwy o wybodaeth am y ddadl hon, dylid darllen D. Dempsy, 'Shrinks and the Shruken in Modern Fiction: The Psychotherapist as Villain', *The Antioch Review,* 46.4 (Hydref, 1988), 514-521; Howard F. Stein, 'The Cuckoo's Nest, the Banality of Evil and the Psychopath as Hero', *The Journal of American Culture,* 2.4 (Gaeaf 1980), 635-645

gwisgo pants lliwgar, yn yfed gormod ac yn gamblo’n ddibryder. Ar ben hyn ac yn bwysicach fyth, fe’i portreedir hefyd fel fflach o obaith i’r cleifion eraill wrth iddo drefnu taith bysgota ac ennill system bleidleisio ddemocrataidd. Ond ar ôl iddo dreulio amser yn yr ysbyty meddwl yn dechrau torri’r rheolau, dechreua’r cleifion ddod i edmygu McMurphy. Ac o’r diwedd, sylweddolant mai eu gormesu a’u bychanu a wnaeth Nyrs Ratched am yr holl flynyddoedd hynny. Trwy’r Gwyddel a’i wrthryfel personol, portreedir ffordd newydd o fyw i’r cleifion eraill wrth iddo fagu hyder y dynion sydd wedi cael eu dinistrio’n seicolegol gan y system

Yng ngolau’r dadansoddiad hwn a chan adleisio trafodaethau Pennod 3, gellid disgrifio Kesey fel ‘McMurphy’ y byd go-iawn wrth iddo gynnig bywyd, rhyddid a meddylfryd newydd i’w ddilynwyr. Lle roedd y Gwyddel yn bencampwr ffuglennol i gleifion Nurse Ratched, daeth Kesey yn arwr gwirioneddol i gymdeithas orthrymedig y cyfnod. Meddai Robert Stone amdano:

> When the world leaned on him, he upped the ante and fought back. In a way he became a character in his own book. He became McMurphy. McMurphy sacrifices himself on behalf of his people to take on the world. Ken did that.[487]

Cyfeirio at y modd y mae McMurphy yn aberthu ei gallineb yn dilyn torri ffenestr arsylwi Nurse Ratched yn deilchion[488] y mae Stone yma. I raddau, cawn ein hatgoffa o Bigw yn nofel Angharad Tomos *Si Hei Lwli* sy’n ceisio cerdded at swyddfa’r Mêtryn, a hynny er mwyn ‘dangos i’r gweddill fod rhywun yn y lle ’ma yn gallu gwneud rhywbeth ar ei ben ei hun’.[489] Ond, mae McMurphy yn croesi’r llinell y tu hwnt i unrhyw obaith o iachâd, gan seilio ei dynged o ganlyniad. Yn union fel yr oedd y Gwyddel yn ceisio gorchfygu’r system a Nurse Ratched, roedd Ken Kesey am wneud yr un peth yn y byd go iawn drwy gyfrwng ei nofel. Meddai Robert Faggen:

> Out of a whole population, only one will finally break through the glass to a larger world. McMurphy may be the shamantrickster whose destruction inspires creation, the crack that lets the light in and a little wildness out.[490]

Ym myd llenyddol yr awdur, nid oes amheuaeth mai McMurphy yw’r gorchfygwr sy’n dod â meddylfryd ac egni newydd i’r cleifion. Ond yn y byd go-

---

[487] Dyfynnwyd yn Paul Perry a Ken Babbs, *On the Bus: The Complete Guide to the Legendary Trip of Ken Kesey and the Merry Pranksters and the Birth of the Counterculture* (New York: Thunder’s Mouth Press, 1990), t.156.

[488] Ar ôl gwylltio, mae McMurphy yn torri’r ffenestr yn swyddfa Nurse Ratched gyda’i ddwrn. Dychwelir eto at y ddelwedd hon ym Mhennod 5.4.

[489] Tomos, *Si Hei Lwli*, t.78

[490] Faggen, ‘Introduction’, t.xxii.

iawn ac yn ystod blynyddoedd trwblus wedi'r Ail Ryfel Byd, gellir awgrymu mai Ken Kesey oedd yr awdur a chwalodd wydr caethiwus y gymdeithas reolaethol â'i nofel arloesol a heriol.

Yn wahanol i ddylanwad y nofel, ynddi mae bywyd a buddugoliaeth y Gwyddel yn fyrhoedlog. Yn unol â beirniadaethau'r gwrth-seiciatryddion a'r rhai a oedd yn erbyn y gymdeithas fwrgais, gyrrwyd McMurphy yn syth i dderbyn lobotomi yn wyneb ei ymddygiad gwyrdröedig. O ystyried hyn, yn ogystal â delwedd ganolog *OFOTCN*, cawn ein hatgoffa o waith Kai T. Erikson: 'deviant behaviour is described almost as if it were leakage from machinery in poor conditions. It is an accidental result of disorder and anomie, a symptom of internal breakdown.'[491] Yn unol â phortread y seilam fel Combine – peiriant gormesol sy'n mynd ati i reoli pob dim – mae McMurphy, yn yr achos hwn, yn cael ei 'drwsio' fel darn sbâr neu degan yn hytrach na dyn. Trwy'r llawdriniaeth, awgrymir bod Nurse Ratched yn rhyddhau McMurphy, nid yn unig o'i 'salwch,' ond hefyd o'i hunaniaeth a'i wrywdod.

Er gwaethaf natur fawreddog aberth McMurphy, sylweddola Chief Bromden brif ystyr y weithred annynol hon. Ar ôl gweld ei arwr, McMurphy yn gorwedd yn ddiymadferth ar y gwely, meddai:

> I watched and tried to figure out what he would have done. I was only sure of one thing: he wouldn't have left something like that sit there in the day room with his name tacked on it for twenty or thirty years so the Big Nurse could use it as an example of what can happen if you buck the system. (t.278)

Yn hytrach na gadael i McMurphy fod yn un o wobrau Nurse Ratched fel y gallai bwysleisio beth sy'n digwydd i ddyn os yw'n torri'r rheolau, penderfynodd yr Indiad ladd ei ffrind gan ddangos cariad a thosturi tuag at ei arweinydd.[492] Fel yr awgrymodd Robert P. Waxler, gall y llofruddiaeth hon hefyd gynrychioli 'a transfer of sexual energy from McMurphy to the Chief, but also … that the Chief has now

---

[491] Kai T. Erikson, 'Notes on the Sociology of Deviance,' yn *Mental Illness and Social Processes,* gol. gan Thomas J. Scheff (New York: Harper & Row, 1967), t.294.

[492] Gweler: 'The big hard body had a tough grip on life. It fought for a long time against having it taken away, flailing and thrashing around so much I finally had to lie full length on top of it and scissor the kicking legs with mine while I mashed the pillow into the face. I lay there on top of the body for what seemed days. Until the thrashing stopped. Until it was still a while and had shuddered once again and was still again. Then I rolled off. I lifted the pillow, and in the moonlight I saw the expression hadn't changed from the blank, dead-end look the least bit, even under suffocation. I took my thumbs and pushed the lids down and held them till they stayed.' Gweler Kesey, *One Flew Over The Cuckoo's Nest*, t.279.

assumed the place of McMurphy his substitute father'.[493] Yn dilyn y digwyddiad tyngedfennol hwn felly ac ar ôl dod o hyd i'w gryfder unwaith eto yn wyneb gwendid a marwolaeth ei ffrind, mae Bromden yn codi'r panel rheoli enfawr ac yn ei daflu drwy ffenestr y seilam gan adlewyrchu ymgais aflwyddiannus McMurphy, cyn iddo dderbyn lobotomi, hynny yw. Ys dywedodd Barbara Lupack: 'with his powerful hands, Mack shook the asylum; with his even stronger hands, Chief all but destroys it and everything for which it stands'.[494]

Ar ôl torri waliau llythrennol a throsiadol yr ysbyty meddwl rheolaethol, llwydda Bromden i ddianc rhag crafangau Nurse Ratched a'r system o'r diwedd. Mae yn awr yn rhydd i ledaenu geiriau a gweithredoedd gwrthryfelgar McMurphy yn erbyn cydymffurfio â'r byd, a ninnau'n gweld cyfnewid o ran arwr y nofel. Yng ngeiriau Ellen Herrenkohl:

> McMurphy dies as the hero [of the] external struggle of the individual against the insanity of a machine-like environment. [And] Chief Bromden is reborn as the hero [of the] internal struggle of the individual for sanity through achieving a sense of personal reality.[495]

Yn union fel y bu farw Crist er mwyn dynoliaeth, bu farw McMurphy er mwyn y cleifion eraill ar ward Nurse Ratched a'u hunaniaeth a'u lles.[496] Ac am y math hwn o aberth yn gyffredinol, eglurodd J. R. Jones:

> Bu'r Iesu farw fel y gwnaeth i'n dysgu – i ddysgu'r ddynoliaeth i iawn-ddeall yr elfen odidocaf a pheryclaf ei phosibiliadau a roddwyd yn ei dwylo, sef nerth. Bu farw'n ddiymadferth i'n herio allan o'n ffordd fabanaidd o ddeall nerth, sef yn nhermau diogelwch, yn nhermau troi nerth yn gaer o'n hamgylch i gadw'r gelyn draw. [497]

Dyma ddisgrifiad da o'r seilam – 'troi nerth yn gaer o'n hamgylch i gadw'r gelyn draw'. Yng ngolau'r dadansoddiad hwn, darpara nofel Ken Kesey ddau arwr gwrthgyferbyniol yn wyneb camdriniaeth y seilam. Er bod y weithred o dorri'r rheolau'n arwain yn anffodus at farwolaeth McMurphy yn y pen draw, mae ei aberth

---

[493] Robert P. Waxler, 'The Mixed Heritage of the Chief: Revisiting the Problem of Manhood in *One Flew Over The Cuckoo's Nest,'* yn *Bloom's Modern Critical Interpretations: Ken Kesey's One Flew Over the Cuckoo's Nest,* gol. gan Harold Bloom (New York: Infobase Publishing, 2008), t.157.

[494] Lupack, *Insanity as Redemption in Contemporary Fictions: Inmates Running the Asylum*, t.82

[495] Herrenkohl, '*One Flew over the Cuckoo's Nest* Questions the Meaning of Sanity', t.107.

[496] Mae nifer o astudiaethau eisoes wedi tynnu sylw at yr agweddau Cristnogol yn nofel Ken Kesey. Gweler David Brown, *Discipleship and Imagination: Christian Tradition and Truth* (Oxford: Oxford University Press, 2000), t.99; Carol Pearson, 'The Cowboy Saint and The Indian Poet: The Comic Hero in Ken Kesey's "One Flew Over The Cuckoo's Nest"', *Studies in American Humor,* 1.2 (Hydref 1974), 91-98.

[497] J. R, Jones, *Yr Argyfwng Gwacter Ystyr*, tt.20-21.

terfynol fel merthyr yn cyfrannu at ganlyniadau cadarnhaol, yn arbennig wrth ystyried taith seiciatryddol Bromden. Yn union fel merthyr,[498] mae dioddefaint McMurphy yn dod â rhyddid i'r mwyafrif. Mae nifer o'r cleifion megis Harding yn gadael yr ysbyty a nodwyd uchod fod Bromden yn cofleidio ei wreiddiau unwaith eto. Ond yn ogystal â hyn, ac wrth iddo aberthu'i hun ar gyfer ei gyd-ddynion, gellir dadlau, fel y nododd Janet Larson,[499] fod McMurphy yn cael ei atgyfodi drwy'r bywyd newydd y mae'n ei roi i'r cleifion eraill. Yn yr achos hwn, awgrymir bod gwrthryfel y Gwyddel a'i barodrwydd i dorri'r rheolau'n hanfodol ar gyfer rhyddhad y dynion a'u lles seicolegol.

I raddau llai eithafol, gwelwn hefyd yn *WFNI* ymgais y prif gymeriad i ysbrydoli ei chyd-gleifion. Ar ôl i'r ferch ifanc Monica farw, mae'r adroddwr yn awyddus i adael Rhydderch wrth iddi gael ei '[h]ysgwyd i'[w] seiliau'. (t.244) Ond wedi ei marwolaeth, mae un atgof yn aros ym meddwl y fam. Un diwrnod, mae'r adroddwr yn awgrymu eu bod i gyd yn mynd am dro, am ei bod 'yn ysu am gael gwneud rhywbeth gwahanol'. (t.246) Er nad yw'r weithred o fynd am dro yn un arbennig o gyffrous, mae'n rhoi cyfle i'r menywod hyn ddianc dros dro. Meddai: 'Roedden ni'n mentro mewn modd na ddaru ni ers misoedd; roedden ni'n cymryd penderfyniad, yn cymryd rheolaeth o'n bywydau ein hunain, ac yn rhannu profiad.' (t.246) Yn debyg i *OFOTCN* a McMurphy i raddau, dyma gymeriad yn dangos ffordd wahanol o fyw i'r menywod. Ac fel y mae'r parti a thaith pysgota McMurphy yn cynnig rhyddid i'r dynion rhag grym a dylanwad Nurse Ratched, mae'r digwyddiad hwn yn *WFNI* yn cynnig dihanfga fawr i'r gwahanol fenywod.

Wrth ddychwelyd at ddelwedd y merthyr a nofel Sylvia Plath, gwelir bod y ddelwedd Gristnogol ar waith i ryw raddau. Meddai Chesler: 'Plath is also an excellent Christ-figure: and women, like men, have never had any trouble worshipping a victim "they" have destroyed or, more particularly in "forgiving" a talented woman her talent – after her death'.[500] Gan adeiladu ar syniadau Pennod 3, ac wrth ddarllen marwolaeth y llenor drwy oleuni ffeministaidd, mae modd awgrymu, fel y gwnaeth Chesler, bod yr awdur wedi mabwysiadu rôl y torrwr rheolau'n llwyr. Wrth iddi herio disgwyliadau cymdeithasol a biolegol y cyfnod,

---

[498] Trafodir y dadansoddiad hwn yn Janet Larson, 'Stories Sacred and Profane: Narrative in *One Flew Over the Cuckoo's* Nest' yn *Bloom's Modern Critical Interpretations: Ken Kesey's One Flew Over the Cuckoo's Nest,* gol. gan Harold Bloom (New York: Infobase Publishing, 2008), tt.89-106 .
[499] Ibid., t.97.
[500] Chesler, *Women and Madness*, t.51.

daeth yn eilun i fenywod ifanc rhwystredig ar draws y byd a oedd ac sy'n uniaethu â'r llenor a'i chymeriad, Esther Greenwood.

Er bod *TBJ* yn dal drychddelwedd i *OFOTCN* i ryw raddau – awdur y nofel y tro hwn sy'n marw, nid y cymeriad, a hynny o ganlyniad i amgylchiadau anodd a gormesol – mynegir drwy'r holl stori bwysigrwydd torri'r rheolau traddodiadol. Yn debyg i'r wraig gweinidog yn *TH,* mae meddylfryd anghonfensiynol ac ymddygiad anghydymffurfiol y fyfyrwraig yn dal sylw'r gymdeithas feirniadol. Ac er na fwriedir dadansoddi manylion penodol ei gwrthryfel gan fod Pennod 5 yn archwilio'r elfen hon, gwelir ei fod yn rhan ganolog, o'i salwch yn y lle cyntaf a hefyd o'i gwellhad yn y pen draw. Wedi'r cyfan, yn unol â'r safbwynt ffeministaidd a gwrth-seiciatryddol, gyrrir Esther i'r seilam yn union fel Bet a chleifion nofel Kesey o ganlyniad i'w hymddygiad gwrthryfelgar. Ond er gwaethaf ei beirniadaeth ar brosesau'r ysbyty meddwl, mae hi'n derbyn cymorth seiciatryddol sy'n arwain at ei gwelliant seicolegol.

Oherwydd hyn, disgrifir taith Esther fel math o ailenedigaeth i raddau. Yng ngeiriau Wagner-Martin:

> Its outcome was to be positive: the rebirth of Esther, a woman who had come through both Dante's hell and her own, to find her fulfilment not in some idealized Beatrice [*The Catcher in the Rye*], the unattainable woman/spirit, but in herself. *The Bell Jar* would reach beyond *Catcher,* because in that book Holden was telling his story to a sympathetic therapist and to his readers, but he was not yet free of the asylum or its stigma. For Esther, there was rebirth.[501]

Yn yr achos hwn ac yn debyg i'r cleifion yn *OFOTCN*, mae modd dadlau bod torri'r rheolau'n hanfodol ar gyfer lles meddyliol Esther wrth i'w hymddygiad anghonfensiynol daflu goleuni ar ei phroblemau a'r pwysau a oedd ar fenywod y cyfnod. Ac er gwaethaf heriau seiciatryddol a chymdeithasol y fyfyrwraig, heb ei hagwedd heriol, gellid dadlau y byddai iechyd meddyliol Esther wedi dirywio a heb welliant. Wedi'r cyfan, ys dywedodd Len Bowers wrth iddo feirniadu gwaith Lemert (1967): 'in many mental illnesses, particularly the neuroses, there is little or no social reaction and in fact the sufferer often has to complain quite vociferously to get any help or attention at all'.[502]

Yng ngolau'r gosodiad hwn, menyw arall a orfodir i dorri'r rheolau fel bod y gymdeithas yn gallu clywed ei llais a'i brwydrau er mwyn ennill ei lles a'i heddwch

[501] Wagner-Martin, *Sylvia Plath: A Biography*, t.187.
[502] Bowers, *The Social Nature of Mental Illness*, tt.13-14.

meddyliol unwaith eto yw Bet Jones yn *TH*. Wrth i stori fer hir Kate Roberts ddatblygu, dechreua Bet Jones gwestiynu moesau ei chyfoedion yn ogystal â dilysrwydd ei ffydd, ymddygiad sy'n gwbl groes i ymddygiad arferol gwraig gweinidog wrth gwrs. Yn wyneb ei hiselder, ymddengys fod Bet yn cymryd rhai camau i wrthryfela – a defnyddio'r berfenw'n llac – yn erbyn nifer fawr o'i disgwyliadau.[503] Gan beidio â chydymffurfio â phob rheol, yn ogystal â'r ffaith ei bod yn ei rhoi ei hun cyn ei dyletswydd, mae Bet Jones, fel Esther, yn llwyddo i ddod o hyd i'w rhyddid yn y diwedd. Yn ystod ei chyfweliad olaf â'r meddyg er enghraifft, meddai'r wraig:

> Deuthum allan gan deimlo yr un fath ag y byddwn yn y breuddwydion hynny a gawn, fy mod wedi mynd allan yn noeth lymun ac yn methu dyfod o hyd i'm coban. Ni allaswn gyfaddef cymaint â hynny wrth neb o'r blaen. Nid oedd arnaf eisiau dim yr eiliad honno ond mynd yn neb ac yn ddim, fel poeri'r gog yn diflannu oddi ar laswellt. (t.83)

Trwy ddeall natur fregus y meddwl dynol, yn ogystal â help therapi siarad a llenyddiaeth, enillodd Bet y cryfder a oedd angen arni er mwyn brwydro am ei rhyddid. Fel y pwysleisia Katie Gramich, gan adlewyrchu gosodiad Wagner-Martin uchod am ddiweddglo *TBJ* a thaith Esther: 'this novella ends with the female protagonist on the point of a remaking, of reinventing herself. Bet imagines a completely new start.'[504] Yn yr achos hwn, gellir dadlau eto mai hanfodol oedd y gweithredoedd gwrthryfelgar amrywiol i les meddyliol y wraig gweinidog. O ganlyniad, nid dwyn i'r golwg fywyd cyfyngol a phatriarchaidd y gymuned yn unig a wnaethant, ond roedd yr ymddygiad 'annodweddiadol' hwn hefyd yn gwneud i'w theulu a'i ffrindiau sylweddoli maint ei salwch. Wedi'r cyfan, pe na bai hi wedi gwrthryfela yn y lle cyntaf, efallai y byddai Bet yn parhau i ddioddef yn dawel gan ddinistrio ei hiechyd seicolegol ymhellach byth. Yn hytrach, ac yn debyg i Esther Greenwood yn hyn o beth, er bod ei hymddygiad 'gwallgof' wedi sicrhau ei mynediad i'r seilam, roedd yr ysbyty meddwl yn darparu'r cymorth yr oedd ei angen arni ar gyfer ei gwellhad seicolegol. Ac o ganlyniad, llwyddodd y wraig gweinidog i ddod yn rhydd o'r awenau cymdeithasol a bwysai'n drwm arni yn y gorffennol.

* * *

[503] Unwaith eto, ni fwriedir trafod y digwyddiadau hyn er mwyn osgoi swnio'n ailadroddus. Ond dylid cyfeirio yn ôl at Bennod 4 yr astudiaeth yn bennaf.

[504] Gramich, *Twentieth-Century Women's Writing in Wales: Land, Gender, Belonging*, t.130.

Symudwn yn awr at stori fer Islwyn Ffowc Elis, 'Y Polyn', a'r agwedd genedlaetholgar. Fel y nodwyd yn yr adolygiad llenyddol, stori sy'n canolbwyntio ar weithredoedd 'gwallgof' y gymuned yw hon ac wrth wraidd y stori fer y mae'r cymeriad Wil a'i ddymuniad i symud polyn telegraff i ben y foel. Fel yr oedd y ddrama fach yn cynrychioli dihangfa bosib Bet Jones yn *TH,* y daith bysgota yn cadarnhau gwrywdod cleifion *OFOTCN* a'r diaffram yn symboleiddio rhyddid Esther yn *TBJ*, gellir dehongli'r polyn yn stori fer hir Islwyn Ffowc Elis fel rhyw fath o ddyhead coll ym mywydau'r cymeriadau amrywiol. Dyma un tebygrwydd amlwg rhyngddi a thestunau craidd yr astudiaeth hon. Yn achos Harri, er enghraifft, cynrychiola'r polyn swydd a gollodd, ond i Huw, mae'r polyn yn ei atgoffa o wraig yr oedd wedi bwriadu ei phriodi. Trwy'r holl ddiweddau coll hyn, cyflwynir moeswers ddyfnach i'r brotest a'r ymddygiad 'annormal', moeswers y gellir ei deall yn well yn nhermau cyd-destun y cyfnod. Fel yr eglurodd Delyth George, ysgrifennwyd y gyfrol, *Marwydos,* 'mewn ymateb i ysbryd heriol Cymdeithas yr Iaith a Phlaid Cymru yn y chwedegau',[505] ac yng ngolau hyn, crynhoa'r stori natur weithredol a gwrthryfelgar y cyfnod i'r dim.

I'r darllenydd nad yw'n Gymro, er enghraifft, gallai'r cymeriadau hyn ymddangos braidd yn 'wallgof'– nid ymddygiad cyffredin yw sefyll o gwmpas polyn yn gwrando ar bregeth wedi'r cyfan. Ond fel y portreadwyd y diffyg deall cymdeithasol drwy gyfoedion Bet Jones ac Esther Greenwood, darlunnir yr un agwedd anwybodus hon yn 'Y Polyn' hefyd drwy ymateb y Sais estron wrth iddynt ryfeddu, '*Damn funny business, this'*.[506] Drwy ddehongli portread Islwyn Ffowc Elis o safbwynt cymdeithasol a chenedlgarol, awgrymir na allai'r Saeson weld pwysigrwydd y weithred wrthryfelgar hon i genedl orthrymedig ac wfftir eu hymddygiad megis arwydd o wallgofrwydd yn unig. Wedi'r cyfan, fel y dywedodd Szasz: 'the person who is too eclectic in his choices and conduct and does not fit into one of society's pigeonholes, becomes the object of suspicion and hostility'.[507] Dyma debygrwydd arall felly rhwng 'Y Polyn' a dau o destunau craidd yr astudiaeth. Wedi'r cyfan, mae diffyg deall cymdeithasol yn nodwedd ar y testunau craidd i gyd.

Fel sydd wedi dod i'r amlwg drwy'r gweithiau amrywiol eraill, mae rhaid ystyried y posibilrwydd y gall y gweithredoedd rhyfedd hyn fod yn ble enbyd am

---

[505] George, *Llên y Llenor: Islwyn Ffowc Elis*, t.39.
[506] Islwyn Ffowc Elis, *Marwydos: Detholiad o Storïau* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1974), t.50.
[507] Szasz, *Ideology and Insanity: Essays on the Psychiatric Dehumanization of Man*, t.208.

gymorth. Yn yr achos hwn, mae'r Cymro'n mentro pob dim, gan gynnwys ei les seicolegol a'i hygrededd er mwyn cwestiynu annhegwch ei sefyllfa. Am aelodau'r gymdeithas yn y stori meddai Delyth George: 'herwyr y byd a'i bethau yw eu harwyr, y gwirion-ddoeth eto, yn hytrach na'r sawl a dorrir gan droeon bywyd'.[508] Ac yn union fel nad oedd Bet ac Esther yn cael eu gweld yn wallgof ym marn y ffeministiaid a chleifion Ken Kesey fel ynfydion yn ôl barnau'r sosialwyr, ni welir cymeriadau Islwyn Ffowc Elis fel gwallgofiaid drwy lygaid y Cymro mewn gwirionedd ond megis gwrthryfelwyr dewr yn meddu ar neges bwysig – y tro hwn, pryder am ddiflaniad y traddodiadau Cymraeg a Chymreig.

Er gwaethaf holl ymdrechion y trigolion, metha'r gymuned â symud y polyn a chael gwared ar y bygythiad estron. Serch hynny, mae'r stori yn dal i orffen ar nodyn gobeithiol. Meddai Wil ar ei diwedd:

> Wyt ti'n gweld, Josi, fe all rhyw sinach o fiwrocrat yn trechu ni, ac fe all rhyw syrcas ddwy-a-dima o lys barn wagio'n pocedi ni. Ond diolch i Grëwr Mawr y coedyn 'ma pan oedd o'n beth byw, allan nhw ddim prynu'n breuddwydion ni. [509]

Yn ôl y cymeriad hwn, dylem barhau i frwydro. Ac er y gallwn ymddangos yn rhyfedd neu'n wallgof i eraill, os yw'r achos yn un pwysig, mae'n rhaid gwrthryfela yn erbyn y rheiny sy'n ein mygu ac yn ein gormesu.

Trwy brofiadau a straeon y cymeriadau amrywiol hyn, cyflwynwyd ffordd o ystyried gwallgofrwydd mewn goleuni newydd, eangfrydig. Ys awgrymodd Wittgenstein: 'madness need not be regarded as an illness. Why shouldn't it by seen as a sudden – more or less sudden – change of character?'[510] Wedi'r cyfan, yn y nofelau a'r straeon byrion dan sylw, dywedir bod pob cymeriad wedi torri'r rheolau cymdeithasol sy'n eu hamgylchynu mewn rhyw ffordd. Ceisia Bet ac Esther dorri'n rhydd o'r traddodiadau benywaidd, er enghraifft, cleifion *OFOTCN* o ddelwedd ddiraddiol y gwallgofddyn a'r claf, trigolion *UNOL* o ormes fyglyd y gymuned chwarelyddol a chrefyddol dlawd a chymeriadau 'Y Polyn' o'r gamdriniaeth a'r gorthrwm hanesyddol a chenedlaethol. Yn yr achosion hyn felly, mae nifer o'r cymeriadau dan sylw wedi ceisio cael gwared ar y 'persona' a oedd yn eu caethiwo ar y pryd gan fabwysiadu yn hytrach un newydd, un a fydd yn meddu ar eu delfrydau personol ac nid delfrydau'r gymdeithas. Pam na ddylai myfyrwraig gydwybodol arbrofi'n greadigol ac yn rhywiol heb ofn? Pam na ddylai claf gael amodau

---

[508] George, *Llên y Llenor: Islwyn Ffowc Elis*, t.39.
[509] Ffowc Elis, *Marwydos*, t.51.
[510] Dyfynnwyd yn Pietikainen, *Madness: A History*, t.10.

seiciatryddol teg a gofalgar? A pham y dylai gwraig ymroi i grefydd na all hi ddod o hyd i gysur ynddi?

Wedi dadansoddi profiadau'r cymeriadau amrywiol, taflwyd amheuaeth, nid yn unig ar ddilysrwydd y diagnosis seiciatryddol ond hefyd ar bwrpas rheolau yn y meysydd hyn. Ys dywedodd Thomas Szasz:

> In so far as mental illness presents itself as a social problem, it is among other things – an expression of human freedom: in this instance the freedom to "misbehave", to break personal and social rules of conduct.[511]

Yn wyneb natur amwys salwch meddwl, yn ogystal â chredoau heriol cyfnod yr astudiaeth, mae modd edrych ar brofiadau seicolegol a gweithredoedd gwrthryfelgar y cymeriadau mewn goleuni cadarnhaol wrth i'w 'hafiechyd' roi esgus iddynt herio'r traddodiadau. Wrth ystyried yr union ansicrwydd hwn o ran y prosesau seiciatryddol, agorir trafodaeth ar yr amwysedd cyffredinol rhwng callineb a gwallgofrwydd. Wedi'r cyfan, gall ymddygiad 'anghonfensiynol' a 'gwallgof' amrywio'n raddol o oes i oes ac o gymuned i gymuned. Ac fel y gwelwyd drwy'r adran hon, ymddengys ymddygiad y cymeriadau'n gwbl afresymol yn ôl rhai normâu, ond i garfan arall, gall gael ei ystyried fel ymateb rhesymegol ac angenrheidiol bron. Gan gadw hyn i gyd mewn cof, deuwn yn awr at adran nesaf y bennod hon wrth inni archwilio'r llinell denau rhwng yr hyn a ystyrir yn wallgof a'r hyn a ystyrir yn gall ac awgrymu nad oes llawer o wahaniaeth rhwng y gwallgofddyn a'r athrylith mewn gwirionedd.

[511] Szasz, *Ideology and Insanity: Essays on the Psychiatric Dehumanization of Man,* t.226.

## 4.4 Yr Unigolyn Ansicr: Crwydro'r llinell rhwng callineb a gwallgofrwydd

Wrth drafod rhagdybiaethau'r gymdeithas o ran gwallgofrwydd a challineb, dywedodd yr athronydd Ffrengig Denis Diderot cyn gynhared â'r ddeunawfed ganrif:

> Oh! How near are genius and madness! Those whom heaven has branded for evil or for good are more or less subject to these symptoms; they reveal them more or less frequently, more or less violently. Men imprison them or chain them, or raise statues to them.[512]

Trwy gydol hanes, mae'r gwallgofddyn a'r athrylith wedi derbyn safle canolog mewn llenyddiaeth, barddoniaeth, ac astudiaethau academaidd amrywiol wrth i gymdeithas yr oes gael eu hudo a'u ffieiddio gan yr anesboniadwy a'r rhyfeddol. Synnwn at fedrusrwydd rhai unigolion, er enghraifft, a gwelwn ein hunain hefyd yn cael ein swyno gan ymddygiad tramgwyddus pobl eraill. Fel yr awgryma Denis Diderot, rydym yn awyddus i ganmol campau ein cyd-ddyn, ond yn fwy awyddus i gosbi'r rhai sy'n methu â chyflawni'r disgwyliadau cymdeithasol amrywiol. Ond pwy yn union sy'n penderfynu a yw dyn yn ynfytyn cyffredin neu'n athrylith elitaidd? A sut y diffinnir y safonau tyngedfennol hyn?

Gan adeiladu ar ddadleuon y penodau blaenorol ac yng ngolau beirniadaeth gymdeithasol boblogaidd y chwedegau ar weinyddiaeth seiciatreg y cyfnod, meddai Joan Busfield: 'madness and mental disorder, I have argued, drawing on Foucault, are concepts that set the boundaries of "unreason." Precisely what counts as unreason is socially variable: changing over time and differing between societies.'[513] Fel y dangoswyd, gall y ffiniau ynghylch gwallgofrwydd amrywio o gymdeithas Gymreig chwarelyddol y Dirwasgiad i gymdeithas Gymreig grefyddol y chwedegau. Ond yn ogystal â hyn, gwelwyd hefyd fod profiadau seicolegol menyw ifanc yn Boston yn hollol wahanol i brofiadau cleifion gwrywaidd yr ysbytai meddwl yn Oregon.

Gellir dadlau'n rhannol fod y profiadau hyn yn amrywio cymaint am mai clefyd cyfnewidiol yw salwch meddwl sy'n effeithio ar bobl mewn ffurfiau gwahanol. Ond mae modd hefyd ddadansoddi natur ansefydlog salwch meddwl o safbwynt cymdeithasegol, gan gofio mai sefydliad esblygol yw'r gymdeithas ei hun. Yng ngeiriau David Pilgrim: 'What is normal in one society may not be in another. Similarly, definitions of psychological normality and abnormality can vary over time

[512] Denis Diderot, *Dictionnaire Encyclopédique.* Gwelwyd yn Cesare Lombroso, *The Man of Genius* (London: Walter Scott, 1891), t.3.
[513] Busfield, *Men, Women and Madness*, t.232.

in the same society.'[514] Yn wahanol i glefydau a diagnosis meddygol eraill megis cancr, clefyd y galon neu glefyd siwgr lle y mae'r dystiolaeth yn glir ac yn ddiamod, nid yw'r canfyddiadau a'r prognosis sy'n amgylchynu salwch meddwl mor absoliwt. Yn hytrach, 'myth' ydyw yn ôl Szasz[515], wedi ei ddylanwadu gan nifer o ffactorau amrywiol. Yng ngoleuni hyn, darpara'r union ansicrwydd hwn y sylfaen ar gyfer yr adran hon wrth inni fynd ati i ddadansoddi amwysedd iechyd meddwl mewn goleuni cymdeithasol a hefyd y profiad mewnol personol. Ar ben hynny, gan archwilio gweinyddiaeth seiciatryddol y sefydliadau uwch yn ogystal â gwreiddiau cymdeithasol salwch y dioddefwyr, dadleuir bod y llinell rhwng y dyn gwallgof a'r dyn call yn ymddangos yn fwy tenau na'r disgwyl.

O bryd i'w gilydd, nid yw'r gwahaniaeth rhwng y dyn doeth a'r ffŵl mor amlwg. Nid oes ond rhaid edrych ar arweinwyr crefyddol,[516] neu'r rhai a oedd yn gweinyddu triniaeth seiciatryddol ddadleuol yn ystod y cyfnod dan sylw[517] er mwyn gweld enghreifftiau o'r amwysedd hwn. Yn sgil y meysydd hyn (a chan adeiladu ar osodiadau Pennod 3 o ran cyflwr meddyliol rhai o'r awduron) cyffredin iawn hefyd oedd y tebygrwydd ymddangosiadol hwn yn y cylchoedd celfyddydol. O artistiaid enwog, gan gynnwys Vincent van Gogh a Frida Kahlo, i fawrion llenyddol megis Virginia Woolf ac Edgar Allan Poe, cyfoethogwyd y gred fod llinell amhendant rhwng gwallgofrwydd ac athrylith, ynfydrwydd a chreadigrwydd. Ac er yr ystyrir yr unigolion uchod yn athrylithoedd parchus yn eu meysydd amrywiol erbyn heddiw, gwyddom hefyd fod pob un ohonynt wedi dioddef o ryw anhwylder meddyliol yn ystod eu gyrfaoedd disglair.[518]

Mae'r cysylltiad rhwng salwch meddwl a nodweddion artistig wedi cyffroi a drysu cenedlaethau chwilfrydig o seiciatryddion, llenorion a'r cyhoedd fel ei gilydd.

---

[514] David Pilgrim, *Key Concepts in Mental Health,* 3ydd arg (California: SAGE Publications, 2014), t.3.

[515] Szasz, *The Myth of Mental Illness*.

[516]Meddai David Pilgrim, er enghraifft: 'If a fine line might exist between the obsessive crank and the creative genius, depending on whether or not others approve of the acts or products, this is also true of religious innovations. Christ wandered in the desert and claimed that he was the son of God. He went berserk in the temple and ranted and raved. The Buddha abandoned his regal existence and wandered aimlessly in the forest. The prophet Mohammed felt compelled to retreat into a cave near Mecca, where a command hallucination kept telling him to cry. These religious leaders are now venerated by the majority of the world's population. All of them behaved in a way that would invite a retrospective diagnosis of schizophrenia. They now have excessive credibility, whereas the vast majority of those with a current diagnosis of schizophrenia have little or none.' Gweler Pilgrim, *Key Concepts in Mental Health,* t.69.

[517] Dadansoddwyd triniaethau creulon a chiaidd y seilam yn yr adran ddiweddaf.

[518] Arne Dietruch ac A. Abraham (gol), 'The Mythconception of the Mad Genius', *Frontiers in Psychology,* 5.79 (Chwefror 2014), 8-10

Yn ystod uchafbwynt y cyfnod clasurol, er enghraifft, credir bod Aristotle wedi datgan: 'No great mind has ever existed without a touch of madness'.[519] Ac yn fwy diweddar, mae Nancy. C. Andreasen wedi bod yn cyfrannu at y maes gan archwilio'r cysylltiad ymddangosiadol hwn rhwng salwch meddwl a gallu creadigol.[520] Wrth ystyried ystod o astudiaethau'r maes, ni allwn wadu mai pwnc hynod boblogaidd ydyw sydd wedi derbyn sylw manwl yn rhyngwladol.

Cyn dadansoddi cyflwr meddyliol cymeriadau'r llenyddiaeth graidd yn y goleuni paradocsaidd hwn, mae'n bwysig cofio beth oedd y diffiniad o salwch meddwl ym marn seiciatryddion y cyfnod. Yn ôl y dadansoddiad symlaf a chan adeiladu ar ddadleuon yr adran flaenorol, awgrymwyd mai math o wyro oddi wrth y normau cymdeithasol derbyniol oedd salwch meddwl. Meddai Szasz: 'the concept of illness, whether bodily or mental, implies deviation[521] from some clearly defined norm'.[522] Ond wedi dweud hynny, beth yn union a ystyrir yn 'normal'? Ai gwraig gweinidog sy'n ufudd i ffydd ei gŵr? Myfyrwraig ifanc sy'n meddwl am yrfa lenyddol ond sy'n diswyddo'r dyheadau afrealistig hyn gan ddilyn yn hytrach lwybr disgwyliedig gwraig y pumdegau efallai? Neu gleifion ac alltudion cymdeithasol sy'n derbyn eu ffawd seicolegol? Y broblem amlwg wrth ystyried salwch meddwl yn y termau hyn, wrth gwrs, yw'r ffaith y defnyddir safonau goddrychol, mesur sy'n hollol anghymharus â nodweddion seiciatryddol. Atega David Pilgrim hyn drwy ddweud:

> One recurrent difficulty with defining positive mental health is the same one that dogs the definition of mental illness or mental disorder: it is not easy to draw a clear line between normal and abnormal mental states.[523]

Anodd yw tynnu llinell rhwng y cyflyrau meddyliol hyn a chynnig diffiniadau goddrychol am ymddygiad a phrosesau seicolegol yn gyffredinol. Ond dysgwn na allwn feddwl yn nhermau absoliwt yn y meysydd seiciatryddol gan

---

[519] Ibid.
[520] Cynhaliodd hi'r astudiaeth empirig fodern gyntaf a archwiliodd y berthynas rhwng salwch meddwl a chreadigrwydd yn ystod y saithdegau ac ers hynny, mae hi wedi cyfrannu'n enfawr at y maes gan gynnwys astudiaethau megis N.C. Andreasen a P.S. Powers, 'Creativity and psychosis. An examination of conceptual style', *Archives of General Psychiatry*, 32.1 (1975) 70-3; N.C. Andreasen, 'Creativity and psychiatric illness.' *Psychiatric Annals*, cyf.8 (1978) 23-45; N.C. Andreasen, *The Creative Brain: The Science of Genius* (New York: Plume, 2006).
[521] Am bwrpas yr astudiaeth hon, dylid ystyried ymddygiad gwyrdroëdig yn nhermau Len Bowers sy'n pennu: 'deviance was to be seen as any characteristic or behaviour that was unusual when compared to the average' - hynny yw, unrhyw ymddygiad a ymddangosodd yn wahanol i safonau personol yr unigolyn. Gweler Bowers, *The Social Nature of Mental Illness*, t.11.
[522] Szasz, *Ideology and Insanity: Essays on the Psychiatric Dehumanization of Man*, t.15.
[523] Pilgrim, *Key Concepts in Mental Health*, t.3.

sylweddoli'n hytrach fod salwch meddwl yn amrywiaeth gymhleth o emosiynau afreolus. Wedi dweud hynny, ar ôl dadansoddi safbwyntiau sinigaidd y cyfnod dan sylw, gwelsom nad oedd gan y rhan fwyaf o bobl yr oes feddwl agored am faterion seicolegol, ond yn hytrach feddylfryd cul a beirniadol – hynny yw yn ôl barn y gwrth-seiciatryddion.

Roedd rhagfarnau eithafol yn y meysydd seiciatryddol yn dal yn gwbl gyffredin yn y chwedegau drwy ddefnyddio labeli. Dychwelir at y syniadau hyn yn fanylach yn adran olaf y bennod hon ond wedi dweud hynny, maent yn dal yn rhan amlwg o ddadleuon y rhan hon. Ac yng ngolau'r safbwyntiau hynny, codir cwestiynau megis: pwy sy'n dewis y labeli hyn a phwy felly sy'n diffinio'r normâu? A yw'r normâu yn rhai hollol gyffredin neu a ydynt yn benodol i unigolyn arbennig? A ydynt yn rhai tragwyddol neu'n amrywio o un degawd i un arall? A hefyd, pa mor bell y gall rhywun grwydro oddi wrth y norm cyn cael ei ddisgrifio fel unigolyn gwyrdröedig?

Yn amlwg, cwestiynau dadleuol ac anodd eu hateb yn wrthrychol yw'r rhain i gyd. Ond maent yn dal yn ffurfio cyd-destun i'r adran hon wrth inni archwilio profiadau cymeriadau'r llenyddiaeth graidd mewn perthynas â chredoau cymdeithasol a seicolegol y cyfnod gan asesu hefyd, amwysedd y llinell rhwng gwallgofrwydd a challineb. Dilynwn strwythur yr adran flaenorol gan rannu'r dadansoddiadau yn dri chyd-destun penodol. Yn gyntaf, edrychir ar gorwynt emosiynol personol cyffredinol y cymeriadau, gan edrych ar eu hamrywiol deimladau a gweithredoedd. Yn ail, dadansoddir defnydd naratif fel mewnwelediad i'r byd 'gwallgof.' Ac yn olaf, archwilir delweddau trosiadol sy'n cyfleu'r llithriad seicolegol – i gyd er mwyn atgyfnerthu'r amwysedd cyffredinol sy'n bodoli rhwng callineb a gwallgofrwydd yng ngolwg y gymdeithas.

Dechreuwn ag anwadalwch ac eiddilwch salwch meddwl, gan ddadansoddi profiadau unigol rhai o'r cymeriadau dan sylw yn ogystal ag eironi ymddygiad y gymdeithas. Am agwedd enbydus ond hollbresennol clefydau meddyliol a'r gwallgof, meddai Len Bowers:

> The mad threaten us with a breakdown of this commitment [y drefn gymdeithasol ddisgwyliedig], demonstrating how fragile our human society is and showing us a potentiality for madness within ourselves that we generally deny, impulses that we

hold in check, odd thoughts that we thrust out of mind, transient moods and feelings which we endeavour to overcome.[524]

Ystyrir salwch meddwl yn aml yn nhermau afreoleidd-dra. Yn *TH*, er enghraifft, tynnir sylw at natur anwadal y meddwl dynol wrth i Bet Jones grwydro'n ddiamcan rhwng ei bywyd parchus fel gwraig gweinidog a'i hawydd mewnol am ryddid cymdeithasol.[525] Ond yn ogystal â hyn, mae Kate Roberts hefyd yn cyfeirio at wreiddiau mewnol yr ansicrwydd seicolegol. Meddai'r wraig ei hun: 'o'r tu mewn imi mae'r drwg'. (t.36) Yng ngolau hyn, mae modd dadlau bod y 'drwg' mewnol hwn wedi gwneud i'r wraig fregus bendilio'n beryglus rhwng stadau call a gwallgof. Wedi'r cyfan, yng ngeiriau Bet, teimla fel pe bai'n 'hongian yn ddi-le'. (t.23) Ac o ganlyniad i'r rhaniad hwn, mae'r gynulleidfa yn gweld y wraig yn pendilo yn ôl ac ymlaen rhwng cydymffurfiad a rhyddid, callineb a gorffwylledd. Mater o amser yn unig ydyw, gellir dadlau, cyn bod y fantol yn cael ei throi a bod salwch meddwl yn trechu dros rhesymoledd, gan amlygu'r ffin amhendant rhwng lles ac afiechyd meddyliol.

Un nofel sy'n portreadu i'r dim natur wamal gwallgofrwydd yw *UNOL*. Fe'i gwelir drwy amrywiol weithredoedd gwallgof y gymuned a thrwy ymddygiad a phrosesau seicolegol yr adroddwr. Ond fe'i portreadir hefyd drwy gyflwr meddwl ansefydlog y fam. Er bod y bachgen yn cofio amser pan oedd ei fam yn chwerthin, er enghraifft, (t.52) mae'n sôn yn aml am y ffaith ei bod yn awr 'yn crio'n ddistaw bach am rywbath o hyd ac roeddwn i wedi arfar efo hi'. (t.20) Yng ngolau'r emosiynau gwrthgyferbyniol hyn, tynnir sylw at dymer cyfnewidiol y fenyw.

Wrth sôn am farwolaeth Canon ac wrth i'r adroddwr ofyn a fydd ei graith yn aros ar ôl iddo farw, ateba'r fam yn dyner:

> Na fydd, ynghyw i, medda Mam, a'r dagrau'n powlio i lawr ei boch hi a hitha'n chwerthin yr un pryd. Fydd yna ddim un graith ar ben Gryffudd Ifas Braich yn y Nefoedd, a fydd yna ddim un ar wynab Canon chwaith ar ôl iddo fo fynd yno. (t.21)

Ond yn syth ar ôl y dadleniad emosiynol hwn, sylwodd y bachgen, 'dyma hi'n stopio crio a mynd ymlaen efo'i smwddio tan ganu'. (t.21) Pwysleisia'r tro sydyn hwn natur anwadal y meddwl dynol ar lefel bersonol ac emosiynol. Fel y nodwyd eisoes, ceir llawer o sôn am ddigwyddiadau rhyfedd sy'n cadarnhau'r si-so seicolegol hollbresennol yn nofel Caradog Prichard. Yn gyntaf, mae modd defnyddio

[524] Bowers, *The Social Nature of Mental Illness*, t.129.
[525] Cyfeirir at Bennod 3 yr astudiaeth am enghreifftiau o'r ymddygiad cyferbyniol hwn.

trafodaethau aflêr ond cyffredin y bechgyn ifanc er mwyn atgyfnerthu'r amwysedd seiciatryddol, un o brif thema'r nofel. Wrth sôn am gyflawni hunanladdiad, er enghraifft, gofynna Huw Moi pam yn union fod pobl yn eu crogi eu hunain cyn i'w ffrind gyflwyno'r ateb syml: 'am eu bod nhw'n o'u coua siŵr iawn'. (t.34) Ond gan ystyried y ffaith mai plant yw Moi, Huw a'r adroddwr, ansefydlogir y darllenydd am eu bod yn trin y pynciau tywyll hyn mewn modd mor fanwl a difraw. Trafodant hunanladdiad a gwallgofrwydd mor rhwydd â sôn am gêm bêl-droed neu gêm focsio.

Oherwydd hyn, gellir awgrymu bod Caradog Prichard yn tynnu sylw at 'normalrwydd' y digwyddiadau hyn ym mywydau'r trigolion hyn. Wedi'r cyfan, ni wêl y bechgyn ifainc wahaniaeth mawr rhwng y rhai call a'r rhai 'gwallgof' yn y gymdeithas mewn gwirionedd wrth iddynt feddwl am salwch meddwl fel digwyddiad anochel yn hytrach na chlefyd anffodus a difrifol. Yng ngolau hyn, pwysleisir pa mor agos yw'r berthynas rhwng iechyd ac afiechyd, gwallgofrwydd a challineb, bywyd a marwolaeth drwy lygaid yr awdur a'i gymeriadau.

Ymestyn y llithrig rhwydd hwn a wna Caradog drwy weithredoedd dadleuol rhai o'r gymuned ehangach. Er mor gryf yw'r elfen gymunedol yn nofel Caradog Prichard,[526] mae unigrwydd yn dal yn deimlad cyffredin, yn arbennig ymhlith y bobl sydd ar ymylon y gymdeithas. Un cymeriad a deimla arwahanrwydd a dirmyg y gymdeithas yn ei chyfanrwydd yw Gres Elin Siop Sgidia. Fel y cymeriadau eraill, cawn ei hanes drwy lygaid diniwed plentyn a dysgwn ei bod yn disgwyl plentyn siawns. Erbyn heddiw, nid ystyrir y digwyddiad hwn yn anghyffredin nac yn bechadurus ond afraid dweud mai darlun tra gwahanol a gawn yn stori'r llenor a'i gyfnod. Wrth inni bori dros gofnodion hanesyddol ysbytai meddwl y canrifoedd cynt, nid yw'n anodd gweld yr enghreifftiau niferus o fenywod call eu meddwl sydd wedi cael eu hanfon i'r seilam am fod ganddynt blentyn heb ŵr.[527] A thyn Caradog Prichard ar y ddadl seiciatryddol a chymdeithasol yn ei nofel. Ar ôl ymweld â'r eglwys un diwrnod, gwrthodir rhoi cymun i Gres Elin Siop Sgidia o flaen yr holl gymuned gondemniol. Wedi'r cyfan ac fel y dywedodd mam yr adroddwr, 'yr hen sopan bach wyllt iddi hi. Dydy pobol run fath â hi ddim ffit i gael Cymun.' (t.73)

---

[526] Cyfeiriwyd eisoes at barodrwydd y trigolion i helpu Catrin Jên ar ôl iddi golli'i thŷ a chymdogion y fam wrth iddynt roi bwyd iddi a'i mab.

[527] Ni fwriedir archwilio'r amlder hwn drwy'r astudiaeth hon am fod nifer o bobl eraill wedi dadansoddi'r cysylltiad amlwg hwn eisoes. Dylid darllen Pat Thane a Tanya Evans, *Sinners? Scroungers? Saints?: Unmarried Motherhood in Twentieth-Century England* (Oxford: Oxford University Press, 2013); Adrienne Rich, *Of Woman Born: Motherhood as Experience and Institution* (London: Virago, 1976).

Yn glir, dyma ymateb maleisus a chreulon ond trwyddo, yn ogystal â safbwynt yr adroddwr ifanc –sy'n cydymdeimlo â'r fenyw – teflir goleuni ar ragrith y gymuned a'r Eglwys (rhagrith a boenai Bet Jones yn *TH* hefyd, cofier). Ys dywedodd Menna Baines:

> Unwaith eto, dyma'r adroddwr yn dangos ei fod yn fwy deallus na'i gyfeillion mewn rhai ffyrdd: rhwng ffiasgo gwasanaeth y Cymun ac adeg y sgwrs hon,[528] sef cyfnod o ryw wythnos, y mae'n amlwg wedi troi pethau yn ei feddwl ac wedi dysgu rhywbeth am y gwahaniaeth rhwng Cristnogaeth a rhagrith.[529]

Wrth i'r adroddwr a Caradog Prichard dynnu sylw at yr agwedd ffugduwiol hon, pwysleisir nid yn unig natur wamal dyn, ond ar ben hynny, mae modd awgrymu bod y digwyddiad hwn a'r ymateb cymdeithasol yn cynrychioli'r llinell ansicr rhwng y call a'r gwallgof yn y gymdeithas. Pan yw angen Gres Elin ar ei gryfaf, er enghraifft, gwrthda'r rhai a ystyrir yn 'gall' yn y gymdeithas roi unrhyw help neu gymorth iddi. O ystyried hyn, gofynnwn, onid yw'r union wrthodiad hwn yn enghraifft glir o ymddygiad afresymol.

Adeiladu ar yr amwysedd hwn a'r gwendid yn y sefydliadau cymdeithasol a wna Caradog Prichard gyda'i ddisgrifiad byr ond awgrymog o'r seilam ei hun. Wrth ddadansoddi delwedd yr ysbyty meddwl yn ei astudiaeth, sylwodd Mihangel Morgan yn unol â beirniadaethau'r cyfnod mai 'yn y seilam eto mae'r afreswm yn rheoli'.[530] Ar ôl mynd gyda'i fam i'r gwallgofdy – ac mae hwn yn enw mwy addas nac ysbyty meddwl, gellir dweud, yn arbennig wrth ystyried y delweddau a gynigir – nid yw'r bachgen yn gweld doctoriaid parchus ond yn hytrach mae'n cwrdd â dyn sy'n meddwl mai 'brawd ynghyfrath Iesu Grist' (t.172) ydyw ymhlith pobl eraill. Nid oes arwydd o'r meddygon rhesymol y byddech yn disgwyl eu gweld mewn ysbyty ac yng ngolau hyn, teflir amheuaeth unwaith eto dros hawl, statws a hygrededd y seilam. Meddai Mihangel Morgan eto: 'mewn geiriau eraill amlygir llithrant rhwng afreswm a rheswm drwy osod "dynion lloerig" yn lle'r doctoriaid – neu awgrymu taw dynion lloerig yw'r doctoriaid'.[531]

---

[528] Cyfeirir at y sgwrs:
'Wyt ti'n coelio'r petha yna mae Huws Person yn ddeud am godi o-farw-fyw?
Wn i ddim, achan. Ond fasa Huw Person ddim yn deud c'lwydda a fonta'n Berson chwaith.
Mae o'n deud petha gwaeth na deud c'lwydda, Huw.
Ydw i'n siŵr na fasa Canon byth wedi gwrthod rhoid gwin yn Cymun i Gres Elin Siop Sgidia run fath daru Huws Person.
Dew, un rhyfadd wyt ti, medda Huw.' Gweler Prichard, *Un Nos Ola Leuad*, t.81

[529] Baines, *Yng Ngolau'r Lleuad*, tt.152-3.

[530] Morgan, *Llên y Llenor: Caradog Prichard*, t.42.

[531] Ibid.

Dyma'r hyn a archwilir hefyd yn nrama W. S. Jones, *Bobi a Sami*. Adroddir y ddrama hon yn y person cyntaf a thrwy lais y 'gwallgofddyn'. Ac fel y gweithiau craidd eraill, mae *Bobi a Sami* yn archwilio'r llinell ansicr rhwng cyflyrau meddyliol. Wrth i'r stori ddatblygu, ac wrth i ni ddysgu mwy am sefyllfa go-iawn y cymeriadau hyn yn ogystal â sylwadau megis 'Does 'na heb yn hollol iawn',[532] mae'r ddrama, fel *UNOL* a delwedd y seilam, yn cyflwyno'r syniad bod y cleifion unwaith eto yn rhedeg y seilam. O ystyried hyn ac o feddwl am y sefyllfa yn *OFOTCN*, awgrymir hefyd wyrdroad comig a gogleisiol ar y sefyllfa sydd i'w chael yn nofel Ken Kesey. Nid y cleifion sy'n rhedeg y seilam yn yr achos hwnnw ond yn hytrach, nhw sy'n ymddangos gallaf, er gwaethaf diffyg rheolaeth eu sefyllfa.

O ganlyniad i'r delweddau dadleuol hyn, mae Caradog Prichard a W. S. Jones yn gorfodi'r darllenydd i ailystyried a chwestiynu'r ffiniau a'r gwahaniaethau sy'n ymddangos rhwng y meddwl iach a'r meddwl sâl. Wedi'r cyfan, nid dyna'r ymddygiad rhesymegol a ddisgwylir gan aelodau parchus o'r gymdeithas. Yn achos Gres Elin, gellir dweud bod yr ymateb yn fwy annerbyniol na'r weithred ei hun. Trwy lygaid gweddol ddiniwed plentyn, cyflwynir delwedd o'r seilam sy'n ymddangos yn wrthgyferbyniad llwyr i'r hyn a ddisgwylir, gan agor trafodaethau ar amwysedd y meysydd seiciatryddol ymhlith y gynulleidfa.

O feddwl am hyn i gyd, gellir disgrifio *UNOL* fel nofel sy'n trafod materion poblogaidd yr oes wrth iddi daflu amheuaeth ar ein syniadau o wallgofrwydd, rheolaeth, trefn a realaeth. Yng ngeiriau Menna Baines: 'awdur sydd yma sy'n cofleidio bywyd yn ei holl amrywiaeth hurt ac yn sylweddoli pa mor denau y gall y ffin fod rhwng y da a'r drwg, y dyrchafol a'r iselfryd, y pur a'r gwyrdroëdig'.[533] Ond er bod y llenor yn gwneud hyn drwy gyflwyno delweddau a digwyddiadau amwys amrywiol, archwilir y ffin ansicr rhwng gwallgofrwydd a sadrwydd yn fanylach drwy ddefnydd pwrpasol Caradog Prichard o naratif wrth inni ddod, o ganlyniad, at ail ran yr adran hon.

Ys dywedodd Clive Baldwin: 'we, as human beings are essentially narrative beings, ourselves and our world are narratively constituted. Consequently, we relate to one another in and through narratives.'[534] Yn gyffredinol, gall naratif da uno cynulleidfa ag un prif gymeriad neu un brif neges mewn modd creadigol gan greu

---

[532] W. S. Jones, *Bobi a Sami*¸ (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 1988), t.12
[533] Baines, *Yng Ngolau'r Lleuad*, t.124.
[534] Clive Baldwin, 'Narrative, Ethics and People with Severe Mental Illness, *Australian and New Zealand Journal of Psychiatry*, 39 (2005), 1022

agosatrwydd rhwng y rhyddiaith a'r darllenydd. Yn wyneb hyn, nid yw'n syndod bod y pedwar llenor craidd dan sylw wedi dewis naratif y person cyntaf wrth iddynt i gyd feddwl am swyddogaeth eu lleisiau'n ofalus iawn.

Dechreuwn yn gyntaf â nofel Caradog Prichard. Meddai Harri Prichard Jones am iaith a naratif y nofel:

> Fel [James] Joyce, mae'n amrywio'i arddull, o'r naratif lled ffurfiol i sgwrs dafodieithol liwgar, o ddeialog i litwrgi, o iaith plentyn i iaith henoed, o'r real i'r gwneud, o'r ymenyddol i'r telynegol, o'r diniwed i'r anfad, o'r lleddf i'r gorfoleddus, o iaith mân chwedleuon masweddus i iaith y salmydd.[535]

Fel sy'n amlwg, dyma arddull gyfoethog a phwrpasol ac er gwaethaf amrywiaeth y naratif a geir yn *UNOL,* mae'r iaith yn dal yn hynod bersonol ac uniongyrchol. Profwn yn union beth y mae'r adroddwr yn ei brofi neu'n ei weld ac ar union yr un adeg. Mae hyn, yn ei dro, yn caniatáu i'r darllenydd ei drochi'i hun yn y stori a meddyliau'r bachgen. Wedi'r cyfan, er bod *UNOL* yn ymddangos yn eithaf dryslyd ar adegau, trwy'i ddefnydd o naratif, mae Caradog Prichard yn llwyddo i gludo ei gynulleidfa i'r gymuned hon sy'n pendilio rhwng realaeth a ffantasi gan ei helpu i ddeall cyflwr meddyliol yr adroddwr a phrif safbwyntiau'r nofel mewn modd gweddol agos. Am y dechneg hon, meddai Nicole Mossing Caputo a Donna Rouner:

> Transportation theory posits that people process media messages differently depending on how engaged they are with story content. The result of being transported into a story – the plot, characters, and setting- leaves viewers more susceptible to beliefs and attitude change, as the transported state weakens their ability to counter-argue, or challenge persuasive message content that may be imbedded in entertainment media.[536]

O ddechrau'r nofel, mae darllenydd *UNOL* yn cael ei amgylchynu gan y Pentra gwallgof a'i drigolion angall. Pwysleisir y carchariad hwn ymhellach gan benderfyniad yr awdur i beidio â defnyddio dyfynodau drwy'r holl nofel. Wrth i Caradog Prichard hepgor y confensiwn llenyddol syml hwn, sy'n gwahaniaethu rhwng beth sy'n sgwrs a beth sy'n feddyliau preifat, mae'r llenor yn creu darlun hollol ansicr. Yn wyneb yr amheuaeth hon, fel y dywedodd Menna Baines: 'mae hynny yn ei dro'n dwysáu'r ymdeimlad cyffredinol o fod wedi ein cau i mewn gyda'r meddyliau hynny'.[537] Wedi'r cyfan, oherwydd ein bod yn teimlo fel pe baem

---

[535] Harri Pritchard Jones, 'Un Nos Ola Leuad,' yn *Rhyddid y Nofel,* gol. gan Gerwyn Wiliams (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1999), t.233.
[536] Nicole Mossing Caputo & Donna Rouner, 'Narrative Processing of Entertainment Media and Mental Illness Stigma,' *Health Communication,* 26.7 (2011), t.596.
[537] Baines, 'Un Nos Ola Leuad- (ii)', t.22.

yn rhan uniongyrchol o'r nofel ac er eu bod yn gwybod nad yw'r adroddwr yn ei iawn bwyll rydym yn dal yn ystyried safbwyntiau'r adroddwr o ddifrif ar adegau oherwydd y naratif personol. Ac o ganlyniad, cwestiynwn y rhaniad aneglur rhwng gwallgofrwydd a challineb.[538]

Yng ngolau'r holl ansicrwydd hwn, nid yw'n syndod ein bod yn llawn amheuon, amheuon am ddiffiniadau seicolegol ond hefyd amheuon am ddibynadwyedd y delweddau. Mae'r diffyg dyfynodau, er enghraifft, yn cyfrannu at awyrgylch clawstroffobaidd y nofel, ond mae'r geiriau'n llifo dros y tudalennau hefyd yn gwbl awgrymog. Gan adeiladu ar ddadansoddiadau Pennod 3 sy'n cysylltu Caradog Prichard â'i adroddwr ac fel y mae Menna Baines[539] hefyd yn ei gynnig, mae'r ffaith bod Caradog Prichard yn adrodd ei stori o safbwynt plentyn yn hytrach nag oedolyn yn awgrymu rhywbeth am anallu'r adroddwr (a'r awdur) i ddeall chwalfa ei fam. Trwy'r llais anaeddfed a naïf hwn, awgrymir bod y llenor yn mynegi ei deimladau personol o ran y profiad dychrynllyd. Ond yn sgil hynny, ac ar lefel gymdeithasol ehangach, gellir dadlau bod ein hanwybodaeth seicolegol a'r dryswch dynol cyffredinol am salwch meddwl hefyd yn cael eu hefelychu drwy'r llais diniwed a pharodrwydd yr adroddwr i gwestiynu'r anghyfarwydd.

Yn ail, gellir tybio bod y naratif plentynnaidd hefyd yn cyfleu rhywbeth am les meddyliol yr adroddwr ei hun. Gwyddom, er enghraifft, fod yr adroddwr, fel ei fam, hefyd yn sâl yn feddyliol, ond awgrymir ei ddirywiad meddyliol cyn hynny drwy'r iaith benodol a ddefnyddir. Fel y pwysleisiodd Baines: 'mae peidio â gwahaniaethu rhwng iaith oedolyn "heddiw" ac iaith plentyn "ddoe" yn awgrymu na fu datblygiad ym meddwl yr unigolyn dan sylw',[540] tra mae Ioan Williams yn dweud bod yr adroddwr, 'wedi troi i mewn i blentyndod tragwyddol y gwallgof'.[541] Yng ngolau'r gosodiadau hyn, gwelwn fod y naratif yn ansefydlogi'r darllenydd i ryw raddau gan 'ganu rhyw gloch rybuddiol'[542] ynglŷn â lles meddyliol yr adroddwr. Yn wir, mae'r naratif person cyntaf yn rhoi mewnwelediad agos i brofiad seicolegol y cymeriad wrth inni ddysgu am deimladau, emosiynau a meddyliau tywyllaf y

---

[538] Gellir dadlau bod y dadansoddiadau hyn yn weddol gryno, ond mae'n rhaid cydnabod y ffaith bod Baines, *Yng Ngolau'r Lleuad* a Morgan, *Llên y Llenor: Caradog Prichard*, eisoes wedi trafod pwysigrwydd naratif yn eu gweithiau. Beth a wneir yma yw cyflwyno swyddogaeth y naratif hwn yn ei gyd-destun seiciatryddol ehangach.
[539] Baines, *Yng Ngolau'r Lleuad*, t.97.
[540] Ibid., t.116.
[541] Ioan Williams, *Y Nofel* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1984), t.62.
[542] Baines, *Yng Ngolau'r Lleuad*, t.116.

bachgen a'r dyn. Ond yn y pen draw, pwysleisio'r rhaniad aneglur rhwng stadau call a gwallgof a wna llais yr adroddwr, gan gadarnhau natur ansicr ac afreolus salwch meddwl.

Wedi dweud hynny, nid oes amheuaeth bod yr iaith a'r naratif yn cyfrannu at y darlun cwbl fyw o wallgofrwydd a geir yn *UNOL.* Fel y nododd Menna Baines: 'mae peidio â gwahaniaethu rhwng iaith oedolyn "heddiw" a iaith plentyn "ddoe" yn awgrymu na fu datblygiad ym meddwl yr unigolyn dan sylw'.[543] Ond trwy'r llais gonest ac ansensoredig, ychwanegir elfen o realaeth i'r stori yn wyneb y digwyddiadau, y delweddau a'r themâu tywyll a chyflwynir o ganlyniad ddimensiwn gwahanol ac uniongyrchol i faes salwch meddwl. Yn anad dim, gellir dweud bod Caradog Prichard yn agor ein llygaid i feddylfryd y gwallgofddyn gan ein hannog i ailystyried ein confensiynau a'n rhagdybiaethau unplyg ynglŷn â gwallgofrwydd a salwch meddwl. Gan aros â'r swyddogaeth hon, mae modd dadlau mai un o'r nofelau enwocaf i herio delwedd y gwallgofddyn drwy beri i'r gynulleidfa uniaethu ag ef yw *OFOTCN.* Wedi'r cyfan, lle'r oedd *UNOL* yn cwestiynu amwysedd gwallgofrwydd i raddau, mae nofel Kesey ar y llaw arall yn disodli'n llwyr y delweddau arferol sy'n cwmpasu'r rhai sâl eu meddyliau. Ac o ganlyniad i hyn oll, gwelwn ein hunain yn condemnio'r call a chefnogi'r 'gwallgof' wrth i'r ffiniau rhwng callineb a'r a elwir yn 'wallgofrwydd' gael eu gwrthdroi unwaith eto.

Fel y gweithiau craidd eraill, adroddir y nofel hon yn y person cyntaf, y tro hwn, o safbwynt yr Indiad hoffus, Chief Bromden a thrwy ddull llif yr ymwybod. Ond er mai dyn sy'n dioddef o sgitsoffrenia ydyw, ac er y cyfeirir at y ffaith nad yw'r Indiad yn adroddwr cwbl ddibynadwy oherwydd ei gyflwr seicolegol – meddai: 'it's the truth even if it didn't happen' (t.8) – nid oes amheuaeth ei fod, yn union fel yr adroddwr yn *UNOL,* yn cynnig mewnwelediadau cignoeth a chraff sy'n agor llygaid ei gynulleidfa. Ystyrir y nofel yn glasur modern erbyn heddiw. Cyflwynwyd sawl dadansoddiad sy'n archwilio ei defnydd naratif yn barod.[544] Oherwydd hyn, nid amcan yr adran yw cyfrannu at faes sydd eisoes wedi derbyn sylw helaeth. Yn hytrach, eir ati i ddadansoddi pwrpas naratif yn y nofel o safbwynt seicolegol

[543] Baines, *Yng Ngolau'r Lleuad*, t.116.
[544] Gweler er enghraifft Scott Macfarlane, *The Hippie Narrative: A Literary Perspective on the Counterculture* (Jefferson: McFarland & Company, 2007), tt.22-36; Fred Madden, 'Sanity and Responsibility: Big Chief as Narrator and Executioner', *MFS Modern Fiction Studies,* 32.2 (Haf 1986), 203-2; Lars Berhaerts, 'Interactions in *Cuckoo's Nest:* Elements of a Narrative Speech-act Analysis, *Narrative*', 18.3 (Hydref 2010), 276-299.

ehangach gan archwilio niwliogrwydd y ffiniau sy'n cwmpasu gwallgofrwydd a salwch meddwl.

Fel sydd wedi dod yn amlwg ar ôl dadansoddi agweddau amrywiol *OFOTCN,* wrth ysgrifennu ei nofel ac yn unol ag ysbryd beirniadol y chwedegau, roedd Ken Kesey am chwalu'r traddodiadau a'r confensiynau cymdeithasol a reolai fywydau'r dosbarthiadau is.[545] Er mwyn cyflawni'r dasg anferthol hon, roedd yn rhaid iddo ddiddymu syniadau cyffredin y gynulleidfa rywsut am realaeth a chonfensiwn. Ac felly, yn wyneb natur argraffadwy dyn, y ffordd orau o wneud hynny oedd trwy gyswllt y darllenydd â'r stori trwy naratif.

Meddai Rick Dodgson: 'he [Kesey] believed that by viewing events from Bromden's unusual perspective – he was supposed to be crazy after all – readers would be shaken free from their conventions and moved to see the world differently'.[546] Yn debyg i ddyhead Caradog Prichard– sydd yn ôl Baines, 'yn mynnu gennym ein bod yn rhoi heibio ein syniad arferol o realiti ac yn mabwysiadu agwedd sy'n gydymdeimladol â'u gweledigaethau hwy'[547] – mae Ken Kesey, drwy lais a meddyliau ei adroddwr hoffus hefyd yn cynnig realaeth arall i'r darllenydd gan dynnu sylw at broblemau'r meysydd seiciatryddol. Yn wahanol i naratif y trydydd person, naratif sy'n gallu ymddangos yn dra amhersonol ar adegau, darparodd Chief Bromden fewnwelediad dirgel bron i fyd y gwallgofddyn. A chan ein bod yn teimlo cysylltiad uniongyrchol â'r Indiad ac yn cydymdeimlo ag ef, gwelwn ein hunain yn mabwysiadu ei bryderon a'i deimladau hefyd. Yn hyn o beth, pwysleisiodd Caputo a Rouner:

> They argued that adopting a character's thoughts, emotions, and behaviour is integral to identification occurring. This likely involved a vicarious experience by readers that puts them into a psychological reality with the story and its characters. If a recipient is fully transported into a narrative, character identification would presumably influence that person's beliefs about real world issues.[548]

Wedi'r cyfan, ni chyflwynir safbwynt arall inni fel darllenydd yn *OFOTCN* ar wahân i un y claf, ac o ganlyniad ni ddarperir ychwaith ddihangfa rhag meddyliau Chief Bromden. Oherwydd hyn, nid yw'n syndod ein bod yn cael ein dylanwadu gan

---

[545] Am gyd-destun yr ymgais hon, dylid cyfeirio'n ôl at Bennod 1 a 3 yr astudiaeth.
[546] Dodgson, *It's All a Kind of Magic – The Young Ken Kesey*, t.140.
[547] Baines, *Yng Ngolau'r Lleuad*, t.280.
[548] Caputo a Rouner, 'Narrative Processing of Entertainment Media and Mental Illness Stigma', *Health Communication*, t.596.

gredoau'r Indiad, wrth i berthynas amlwg rhwng y gynulleidfa a'r prif gymeriad gael ei sefydlu o'r dechrau.

Wrth ddadansoddi swyddogaeth llais yr Indiad ymhellach yn yr adran hon, mae'n rhaid inni ddychwelyd at ddelwedd y seilam fel carchar a rôl Nurse Ratched fel gormeswraig, a hynny er mwyn ennill dealltwriaeth gyd-destunol o amcan naratifol Kesey. Gan adeiladu ar ddadansoddiadau'r adran flaenorol a oedd yn dangos amwysedd swyddogaeth y seilam a'r rheiny a oedd ar frig y gymdeithas, edrycha'r adran hon yn fwy penodol ar ddefnydd llais Bromden fel modd o bwysleisio'r ansicrwydd hwn. Wedi'r cyfan, drwy'r naratif personol archwilir nifer o brif themâu'r nofel gan gynnwys grym, gwallgofrwydd a llawdriniaeth. Ac ar adegau, ymddengys mai'r gwallgof ei hun – megis Chief Bromden a'r cleifion eraill – yw'r rhai sy'n darparu'r mewnwelediadau mwyaf call. Gwelwn drwy'r holl nofel, er enghraifft, areithiau doeth a synhwyrol Harding,[549] ac er gwaethaf cyflwr meddyliol ansefydlog Bromden, mae'n dal yn sylweddoli gwir swyddogaeth triniaethau seicolegol yr ysbyty. Meddai:

> What she [Nurse Ratched ac felly y Combine] dreams of there in the center of those wires is a world of precision efficiency and tidiness like a pocket watch with a glass back, a place where the schedule is unbreakable and all the patients who aren't Outside, obedient under her beam, are wheelchair Chronics with catheter tubes run direct from every pantleg to the sewer under the floor. (t.26)

Yng ngolau golygfeydd ystyriol fel hyn, ni welir rhaniad amlwg rhwng y rhai a ystyrir yn gall a'r bobl a ystyrir yn wallgof. Yn hytrach, dymchwelir byd y ward seiciatryddol gan wirionedd gair Bromden a dynion eraill y ward. Herir o ganlyniad ein canfyddiadau ein hunain o realaeth a chydymffurfiad. Ys dywedodd Scott MacFarlane: '[It] [y naratif] questioned notions of conformity, especially in terms of who and what should be considered insane'.[550] Dyma a welir yn *UNOL* hefyd. Meddai Elsbeth Evans: 'ni thorrodd ef [Caradog Prichard] linell rhwng y gwallgof a'r gweledydd'.[551] Yn y ddwy nofel, archwilir amwysedd y byd seiciatryddol drwy allu'r darllenydd i uniaethu â meddyliau ac emosiynau'r adroddwr. Ond yn *OFOTCN,* ymhelaethir ar y syniad hwn ymhellach oherwydd angen Bromden a'r cleifion eraill am achubiaeth.

---

[549] Gweler tt. 108, 171 a 244 yr astudiaeth am enghreifftiau.
[550] Macfarlane, *The Hippie Narrative: A Literary Perspective on the Counterculture*, t.36.
[551] Elsbeth Evans, 'Barddoniaeth Mr. Caradog Prichard, (I)', *Y Llenor,* XXI (1942), t.114.

Disgrifir Chief McMurphy fel ‘a giant come out the sky to save us from the Combine’ (t.213) a thrwy’r holl nofel, gallwn deimlo edmygedd yr Indiad a’r dynion eraill tuag at eu hachubwr.[552] Ond er gwaethaf gwir angen y dynion am arwr i’w harwain i wellhad, teflir goleuni ar y canlyniadau difrifol sy’n gysylltiedig â brwydro am ryddid mewn oes o gydymffurfiad. Wrth ddisgrifio anghrediniaeth McMurphy at amharodrwydd y dynion i dorri’n rhydd, meddai Bromden: ‘That’s what McMurphy can’t understand, us wanting to be safe. He keeps trying to drag us out of the fog, out in the open where we’d be easy to get at.’ (t.112)

Er yr ymddengys mai gadael yr ysbyty yw’r ymateb mwyaf call i’w sefyllfa, mae’n rhaid ystyried y cyd-destun seiciatryddol ehangach sy’n taflu goleuni ar arbrofion seicolegol poblogaidd y cyfnod. Sôn am arbrawf Rosenhan[553] yn benodol yr ydym a gynhaliwyd er mwyn archwilio dilysrwydd diagnosis seiciatryddol. Yn ganolog i’r astudiaeth roedd ymdrech yr unigolyn i ddweud celwyddau am eu hiechyd meddyliol. Byddai’r arbrofwyr yn esgus eu bod yn cael rhithweledigaethau fel y gallent fynd i’r seilam, ond tra eu bod yno, byddent yn ymddwyn yn ‘normal’ gan gofnodi eu profiadau yn y broses. O ganlyniad, dangosodd Rosenhan fod y bobl ddigon iach hyn yn dal yn cael eu cam-drin yn seiciatryddol er gwaethaf diffyg problemau seicolegol dilys. Ac yng ngolau ei gasgliadau, gofynnodd: ‘How many patients might be “sane” outside the psychiatric hospital but seem insane in it – not because craziness resides in them, as it were, but because they are responding to a bizarre setting?’[554]

Er bod y dynion yn ymddangos yn wan yn nofel Ken Kesey, yn wyneb astudiaeth Rosenhan, mae’n rhaid ystyried mai ymateb diogel a chall oedd ymddygiad Bromden a’r cleifion mewn gwirionedd, ymateb call i fyd gwallgof y seilam.[555] Mae modd dadlau, yn unol â beirniadaethau’r cyfnod, fod y dynion hyn wedi cael eu gorfodi i gydymffurfio â ffyrdd dadleuol ac amheus Nurse Ratched lle’r oedd gwyro oddi wrth y drefn yn arwain at gosb. Wrth iddynt rannu eu profiadau am gawodau diraddiol, rheolaeth fferyllol, llawdriniaethau seiciatryddol a chamdriniaeth

---

[552] Dadansodda Stephen Taner y syniad o achubiaeth hefyd yn ei ysgrif, Stephen L. Tanner, ‘Salvation through Laughter: Ken Kesey and the Cuckoo’s Nest’, *Southwest Review,* 58.2 (Gwanwyn 1973), 125-137

[553] D. L. Rosenhan, ‘On Being Sane in Insane Places,’ *Science,* 19 (Ionawr 1973) 250-258

[554] Ibid., t.257.

[555] Archwilir y syniad hwn hefyd gan Herrenkohl, ‘*One Flew over the Cuckoo’s Nest* Questions the Meaning of Sanity,’ tt.107-113; Gregory Shafer, ‘Politicizing Insanity in Classical Literary Works’, *Language Arts Journal of Michigan,* 30.1 (Hydref 2014), 42-47.

emosiynol yn ei ffurfiau amrywiol, tynnwyd sylw at amodau gormes seiciatryddol mewn modd hynod drawiadol, modd a sbardunodd ymateb ymhlith cynulleidfaoedd ar draws y byd.[556]

Awdur arall sy'n defnyddio naratif person cyntaf i'w helpu i gyfleu un o brif themâu'r nofel yw Angharad Tomos. Gwelwn ddylanwad *OFOTCN* yn ei nofelau *WFNI* ac *Yma o Hyd*, ond fel nofelau Ken Kesey a Caradog Prichard, gwelwn hefyd ddefnydd pwrpasol o iaith. Dro ar ôl dro, mynegir beirniadaeth y traethydd ar y proffesiwn seiciatryddol drwy gyfrwng ambell elfen ieithyddol amlwg, megis y gwahaniaeth drwy'r nofel rhwng y rhagenwau 'ni' a 'nhw', hynny yw, rhwng y cleifion a'r seiciatryddion nad ydynt yn medru'r Gymraeg.

Yn ei nofel *Yma o Hyd,* er enghraifft, mae pob gweithred sy'n ymwneud â'r carchar a'i drefn yn cael ei nodi drwy gyfrwng y Saesneg. Ac yn *WFNI* a chan adlewyrchu beirniadaeth Alaw Griffiths o sefyllfa'r maes seiciatrydddol yng Nghymru,[557] gwelwn fod y Saesneg yn cael ei chysylltu â safle cymdeithasol uwch, tra bo'r cleifion i gyd yn siarad Cymraeg. Yn ôl y traethydd, roedd gan Dr Keswick, sef ei ddoctor gwrywaidd di-Gymraeg, 'ragfarnau yn erbyn y "locals"', (t.22) ac wedi cwrdd â menyw wrth y Dderbynfa sy'n siarad Cymraeg, mae'r traethydd yn dyfalu beth roedd Dr Keswick yn ei feddwl ohoni: 'Aelod arall o'r werin, debyg, oedd yn gwasanaethu, tra oedden nhw, ddoctoriaid, ychydig is na'r angylion'. (t.26) A chan ychwanegu at ei chwerwedd, meddai: 'dwi'n siŵr y byddai ei farn ohonof yn uwch taswn i'n dysgu siarad ei iaith o'n iawn' (t.26). Heb os, mae'r feirniadaeth hon yn un ieithyddol-genedlaetholgar, ond yng nghyd-destun yr astudiaeth hon, mae'n taflu goleuni ar berthynas y claf â'r byd seiciatryddol hefyd. Ys dywedodd y traethydd: 'Roeddech chi'n gweld popeth ond yn deall dim, ac roedd hyn yn arwain at lot fawr o ddryswch'. (t.16)

Fel pe na bai dioddef o salwch meddwl yn brofiad digon cymysglyd ynddo'i hun, mae'r ffaith nad yw'r prif gymeriad yn gallu mynegi'i phryderon drwy ei mamiaith yn ychwanegu at ei dryswch. Diddorol yw nodi, er enghraifft, ei bod hi'n cael mwy o fudd wrth siarad â Gruff a Bet yn ystod un prynhawn o'i gymharu â'i holl sesiynau gyda Dr Keswick. Ac yn hwyrach yn y nofel, cawn weld golygfa lle y mae hi am ddyfynnu un o sonedau Parry-William er mwyn ei helpu i fynegi'r diffyg diddordeb a gobaith a oedd ganddi, ond nad Cymro mo'r doctor, nid oedd diben iddi

[556] Cyfeiriwn at ddylanwad nofel Kesey yn y meysydd seiciatryddol.
[557] Gweler Pennod 3.

wneud hynny. Yn unol â dadleuon yr adran hon, a thrwy lais uniongyrchol y prif gymeriad, deallwn mai unigolion a gamddeellir fynychaf yw'r rhai sâl eu meddwl.

Drwy sylwadau sarhaus a 'sadistaidd' (t.92) rhai o'r bobl Saesneg sy'n gweithio ar yr ward, yn ogystal ag anwybyddiaith doctoriaid megis Dr Keswick, portreedir y rhai 'iach' eu meddwl fel pobl hyll nad oes ganddynt amser i helpu'r rhai mewn angen. Wrth i un o'r nyrsys ddweud 'take this one' (t.40), gan gyfeirio at y traethydd, gwedir ei hawl i'w henw, ac o ganyniad, ni roddir statws person iddi ychwaith. Eironi'r sefyllfa yw mai hon, y claf, sy'n llwyddo i ddweud pethau call iawn am sefyllfa a diffygion y byd seiciatryddol. Meddai:

> Roedd yna eironi amlwg yn yr holl sefyllfa. Grŵp o bobl broffesiynol, wedi eu trwytho mewn seicoleg, efo wyddor o raddau rhyngddynt, yn ysu am gael deall rhediad fy meddwl, ac eto heb obaith canceri. Tasa 'na un Cymro neu Gymraes yn eu mysg, neu unrhyw un efo rhithyn o wybodaeth am T. H. Parry-Williams, mi fydde 'na siawns o gael deialog. ond doedd 'na ddim, felly ofer oedd inni geisio deall ein gilydd.[558]

Er gwaethaf addysg a bri'r gymdeithas seiciatryddol uwch, ac er gwaethaf 'gwendid' meddyliol y fenyw hon, dyma'r prif gymeriad yn pwysleisio gwerth y cyfarwydd, gan gynnwys iaith gyfarwydd y claf. A thrwy ei siom a'i beirniadaeth ar y maes seiciatryddol, gwelwn ein hunain yn ail-asesu'r berthynas rhwng meddyg a chlaf, rhwng iechyd ac afiechyd.

Wedi'r cyfan, trwy lygaid, clustiau a lleisiau'r 'gwallgofiaid' hyn, gorfodwyd cynulleidfaoedd yng Nghymru a'r Unol Daleithiau i ailystyried eu hagweddau seicolegol a chymdeithasol wrth iddynt gael eu cyflwyno i rai cwbl newydd, rhai llawer mwy uniongyrchol a phersonol. Yn sgil chwalu'r confensiynau a'r rhagdybiaethau, gan ddangos bod y ffiniau rhwng gwallgofrwydd a challineb yn ymddangos yn ansicr ar adegau, cryfheir yr amwysedd hwn hefyd gan allu'r adroddwyr i gynnig fflach o ddoethineb a phersbectif newydd i fyd dryslyd y gwallgofddyn. Ys dywedodd Michel Foucault:

> The marvellous logic of the mad which seems to mock that of the logicians because it resembles it so exactly, or rather because it is exactly the same, and because at the secret heart of madness, at the core of so many errors, so many absurdities, so many words and gestures without consequence, we discover, finally, the hidden perfection of a language.[559]

---

558 Tomos, *Wrth fy Nagrau i,* t.70
559 Foucault a Howard, *Madness and Civilisation,* t.95.

Wedi dadansoddi profiadau'r gwallgofiaid hyn i gyd o'u safbwynt eu hunain, ymddengys fod gwirionedd yn perthyn i osodiad Rosenhan: 'we know now that we cannot distinguish insanity from sanity'.[560] Wedi'r cyfan, er y dywedir wrthym fod y cymeriadau hyn yn sâl eu meddyliau, o ganlyniad i naratif y person cyntaf, gallwn ddeall yn hawdd frwydrau Bet ac Esther yn erbyn cydymffurfiad y byd, ofn cleifion Kesey o Nurse Ratched a'r system seiciatryddol, yn ogystal â chwalfa fewnol mab sy'n ei chael yn anodd ymdopi wedi iddo weld ei fam yn dioddef. Yn yr achosion hyn, gellir tybio mai ymateb synhwyrol i sefyllfaoedd gorffwyll yw'r rhain i gyd ac wrth i'r cymeriadau ddangos ochr fwy personol ac unigryw i'r stadau a'r cyflyrau mewnol hynny, heriwyd y delweddau arferol.

Er bod y cymeriadau hyn fel pe baent yn cynnig ennyd achlysurol o eglurdeb neu ymwybyddiaeth graff mewn byd 'gwallgof', nid dyna'r achos drwy'r amser. Er gwaethaf eu callineb ymddangosiadol, mae'n rhaid cofio eu bod i gyd *yn* dioddef o ryw glefyd seicolegol sy'n gallu effeithio'n drwm ar eu rhesymeg. Wedi dadansoddi eu salwch meddwl o safbwynt allanol drwy lygaid y gymdeithas ac o safbwynt mewnol lle yr ystyriwyd emosiynau a brwydrau personol naratif y person cyntaf, eir ati yn rhan olaf yr adran hon i archwilio'r pendilio rhwng realaeth a ffantasi, gwallgofrwydd a doethineb, unwaith eto. Y tro hwn, fodd bynnag, dadansoddir pwrpas dyfeisiau llenyddol ac yn arbennig, drosiadau a delweddau.

Gan ddechrau gyda nofel Caradog Prichard, gwelwn fod y llenor yn manteisio ar brif ddelwedd gwallgofrwydd a lloerigrwydd, sef y lleuad.[561] Yn union fel yr oedd y lleuad yn ganolog i nifer o astudiaethau cyffredinol am wallgofrwydd dros y blynyddoedd,[562] cwbl allweddol ydyw i ddealltwriaeth gyffredinol y darllenydd yn *UNOL* wrth iddi daflu goleuni, nid yn unig ar gyflwr seicolegol yr adroddwr, ond hefyd, ar strwythur a rhediad y nofel. Dywedodd Mihangel Morgan, er enghraifft: 'dro ar ôl tro fe sonnir am y lleuad yn y presennol sydd yn dwyn i gof nosweithiau tebyg yn y gorffennol'.[563] Yng ngolau'r sylw hwn ac wrth i'r adroddwr gyfeirio at y lleuad lachar drwy'r nofel, mae modd olrhain taith ac o ganlyniad, chwalfa feddyliol yr adroddwr. A dyfynnu'r llanc:

---

[560] Rosenhan, 'On Being Sane in Insane Places', *Science*, t.257.
[561] Daw'r gair Saesneg, 'lunacy' o'r enw benywaidd Lladin 'Luna'. A thros y canrifoedd, mae pobl wedi cysylltu'r lleuad â duwiesau, elfennau mytholegol ac ymddygiad rhyfedd – yn arbennig os ydyw'n lleuad lawn. Gweler llyfr Niall McCrae, *The Moon and Madness* (Exeter: Imprint Academic, 2011).
[562] Eto, gweler yr astudiaeth uchod am ddadansoddiad cyd-destunol.
[563] Morgan, *Llên y Llenor: Caradog Prichard*, t.35.

> ‘Mae na leuad llawn heno. Pam na newch chi adael i Huw ddwad allan i chwara, O Frenhines y Llyn du?’ (t.18)
> ‘Noson ola leuad run fath â heno oedd hi a finna wedi mynd i Ficrej yn hwyr i nôl Mam.’ (t.24)
> ‘Oedd hi’n noson braf ola leuad run fath â heno wrth inni gerddad i fyny i tŷ Nain yn Pen Bryn.’ (t.101)
> ‘Dew, oedd hi’n noson braf ar ffordd adra, noson ola leuad run fath â heno, a’r lleuad yn chwerthin yn braf arna ni.’ (t.105)

Nodwyd eisoes mai myfyrdod yr adroddwr ar ei blentyndod yw’r nofel hon ac oherwydd hyn, gosodir digwyddiadau amrywiol y stori yn bennaf yn y gorffennol. Ond bob tro y mae’r adroddwr yn sôn am y lleuad, mae’n dod â’r darllenydd yn ôl i’r presennol lle y gallwn wahaniaethu bellach rhwng atgofion y gorffennol gwynfydedig a phryderon y presennol poenus. Wedi dweud hynny, fel y nododd John Rowlands: ‘mae’r pendilio rhwng presennol y noson olau leuad a’r gorffennol drylliog, rhwng yr oedolyn a’r plentyn, yn newid persbectif sy’n ansefydlogi’r darllenydd’.[564] Er y gellir dadlau bod y lleuad yn helpu i ddarparu math o fframwaith i’r darllenydd o fewn nofel sy’n ymddangos yn gwbl ar chwâl, teg yw dweud hefyd fod y newid gwamal cyson hwn yn achosi dryswch ac ansicrwydd ymhlith y gynulleidfa gan efelychu’n ei dro natur ansefydlog gwallgofrwydd yn effeithiol.

Mae ‘ymwybyddiaeth obsesiynol o’r lleuad’[565] yn achos yr adroddwr hefyd yn pwysleisio cyflwr seicolegol anwadal prif gymeriad Caradog Prichard ei hun. Ys dywedodd Mihangel Morgan: ‘Afraid dweud taw’r lleuad, y lloer (lloerigrwydd), sy’n arwyddocáu’r llithrant rhwng rheswm ac afreswm’.[566] Gan dynnu ar chwedl draddodiadol y lleuad, mae modd tybio bod Caradog yn awgrymu rhywbeth am stad feddyliol ei adroddwr. Wedi’r cyfan, wrth i’r lleuad ddiflannu ac ailymddangos drwy’r nofel, felly y mae pwyll y prif gymeriad hefyd. Ac awgrymir o ganlyniad, nid yn unig y trawsnewid rhwng dydd a nos, ond hefyd simsanu di-baid yr adroddwr rhwng y gorffennol a’r presennol, plentyndod ac oedolaeth, rheswm ac afreswm.

Yn ogystal â’r lleuad awgrymus, gwelir hefyd yn *UNOL* ddelwedd ac elfen fytholegol arall, ‘Y Llyn Du’. Cyn mynd ati i archwilio’r ddelwedd hon, mae’n rhaid nodi bod Menna Baines[567] ac Emyr Llywelyn[568] wedi cynnig dadansoddiad hynod

---

564 Rowlands, ‘Y Fam a’r Mab – Rhagarweiniad i ‘Un Nos Ola Leuad’, t.279.
565 Baines, ‘Un Nos Ola Leuad – (iii)’, t.20.
566 Morgan, *Llên y Llenor: Caradog Prichard,* t.35.
567 Baines, *Yng Ngolau’r Lleuad,* tt. 326-335.
568 Emyr Llywelyn, ‘*Un Nos Ola Leuad*- Brenhines y Llyn Du, *Faner Newydd,* 4 (1997), 35-36; Emyr Llywelyn, ‘Brenhines y Llyn Du,’ *Faner Newydd,* 64 (Haf 2013), 22-25

graff ar bwysigrwydd ac arwyddocâd y llyn yn barod. Nid bwriad yr astudiaeth hon felly yw ymhelaethu gormod ar y ddelwedd dan sylw. Yn hytrach, trafodir rhai agweddau perthnasol yng nghyd-destun amwysedd seicolegol yr adran.

Am berthynas dyn â dŵr, meddai Foucault: 'One thing at least is certain: water and madness have long been linked in the dreams of European man'.[569] Er mai sôn am y llongwr Ewropeaidd y mae Foucault yma, ac am gyfnod gwahanol, mae adleisiau o'r cysylltiad rhwng dŵr, breuddwydion a gwallgofrwydd hefyd i'w gweld yn nofel Caradog Prichard. Fel y Môr Du diarhebol, mae'n glir fod hyd yn oed sôn am y Llyn Du yn codi ofn ar drigolion y Pentra yn *UNOL*. Fel y dywed Bleddyn Owen Huws: 'mae enw'r lle yn awgrymu fod rhyw ddrwgargoel ynglŷn ag ef – rhyw dynged anffodus'.[570] Dysgwn mai Em –yn ôl cof y bachgen, beth bynnag – oedd y cyntaf i gyrraedd y Llyn a dylid sylwi wrth gwrs mai dyn gwallgof ydoedd. Ond yn ychwanegol, ar ôl i'r adroddwr fynd ar goll wrth hel llus un prynhawn ac yna gyrraedd y Llyn, mae'i fam yn arswydo wrth iddi glywed ei fod wedi bod yno.

Oherwydd hyn i gyd, yn ogystal â'n gwybodaeth ehangach am ddelwedd dŵr, portreedir ardal y Llyn fel lle gwaharddedig ond rhinweddol ym meddwl y bachgen ac felly, ym meddwl y darllenydd. Er gwaethaf rhybuddion ei fam ac ofn cyffredinol y gymuned, gwelwn mai tynged yr adroddwr oedd cyrraedd y llyn hwn. O ystyried hyn, gellir awgrymu bod gan y ddelwedd hon swyddogaeth debyg i bortread y lleuad i ryw raddau, gan amlygu chwalfa anochel y bachgen. Yn wyneb hyn, eglurodd Menna Baines, er bod y daith i'r Llyn Du yn ymddangos fel 'taith atgoffus linc-di-lonc'[571] ar adegau, ceir pwrpas i'r crwydo ac 'mae presennol yr unigolyn hwn yn annatod glwm wrth ei orffennol'.[572]

Wrth iddo gyrraedd y llyn ar ddiwedd y nofel, ac er gwaethaf yr holl ddisgrifiadau arswydus, nid dychryn a deimla'r adroddwr ond yn hytrach, heddwch croesawgar. Yn adlewyrchiad y dŵr, awgrymir nodwedd ddiffygiol arall ar iechyd seicolegol yr adroddwr. Ar ôl iddo syllu ar y llyn hudol a gweld yr awyr yn disgleirio ar ei wyneb, cyflwynir i'r darllenydd rai o ddeisyfiadau mewnol yr adroddwr. Fel y pwysleisia Menna Baines, wrth i'r bachgen edrych i mewn i'r dŵr, ymddengys mai rhyddid sy'n galw.[573] Ond rhyddid rhag beth yn union? Rhyddid rhag ofn? Rhag

[569] Foucault a Howard *Madness and Civilisation*, t.12.
[570] Owen Huws, *Nodiadau ar Un Nos Ola Leuad*, t.39.
[571] Baines, *Yng Ngolau'r Lleuad*, t.115.
[572] Ibid.
[573] Ibid., tt.335-336

atgofion poenus ei blentyndod ar ôl gweld ei fam yn chwalu'n feddyliol? Neu rhag ei feddwl cythryblus ei hun efallai? Niferus yw'r dadansoddiadau posib, ond mae modd dweud bod y posibiliadau amwys ac amrywiol hyn yn cyfrannu at ddryswch canolog *UNOL* gan daflu goleuni hefyd ar freuder ac amwysedd y meddwl dynol. Wedi dweud hynny, dysgwn nad yw'r adroddwr yn llwyddo i ddod yn rhydd o bell ffordd wrth iddo ladd Jini Bach Pen Cae cyn awgrymu hefyd ei hunanladdiad ei hun yn y llyn melltigedig. Yn union fel crychdonnau'r llyn, mae cyflwr seicolegol yr adroddwr yn llanw a threio rhwng gwallgofrwydd a challineb gan bwysleisio natur niwrotig dyn.

Ar ôl dadansoddi delwedd y lleuad a'r llyn yn *UNOL,* symudwn yn awr i archwilio delweddau *OFOTCN.* Er mwyn cyflwyno ansefydlogrwydd ei adroddwr, cyflwyna Kesey elfen rithiol arall i'w nofel sef niwl trosiadol. Rhan fawr o rithwelediadau Chief Bromden yw'r niwl hwn a dysgwn yn fuan y cysylltir y tawch yn aml â rheolaeth a grym y Combine. Mae'n ymddangos pan fo rhywbeth yn codi ofn ar y Chief, er enghraifft – ofn a achosir gan Nurse Ratched a'i *orderlies* fel arfer – ond hefyd, pan fo'r Combine ar fin cyflawni rhyw weithred giaidd a barbaraidd. Fel y dywed Terrence Martin: 'As part of the Chief's mode of perception, the fog machine is a metaphor for the tyranny, fear and hiding which becomes literalized in his narrative'.[574] Gan ystyried hyn, gellir awgrymu bod y niwl, yn union fel delwedd y Combine yn cyfrannu at bortreadu brwydr ganolog y nofel rhwng y gymdeithas reolaethol a'r unigolyn rhydd. Mae'n atal y dynion rhag meddwl gormod am eu bod yn cael eu dallu gan y tarth myglyd ac mae'n gormesu unigoliaeth a chwilgarwch y dynion. Ond yn wyneb yr holl ddychryn, cyflwynir hefyd fath o baradocs.[575]

Oherwydd y ffaith bod y niwl yn codi yn aml pan fod ofn ar y Chief, gellir awgrymu, fel y gwnaeth Ellen Herrenkohl, ei fod hefyd yn gweithredu fel math o ddiogelwch i'r Indiad. Meddai: 'the "fog" … is in actuality a barrier which he pulls down around himself to protect himself and create a cave of safety'. [576] Yn union fel y peiriant niwl a ddefnyddiodd yn ystod y Rhyfel,[577] gall Bromden gilio i'w drwch pan fo'r byd allanol yn ormod iddo. O ganlyniad, amddiffynnir y cleifion rhag crafangau Nurse Ratched a'r Combine, rhag dyfnderau eu meddyliau a hefyd, rhag

---

574 Martin, '*One Flew Over the Cuckoo's Nest* and the High Cost of Living', t.6.

575 Am y baradocs hon, meddai Chief Bromden (t.113): 'You had a choice: you could either strain and look at things that appeared in front of you in the fog, painful as it might be, or you could relax and lose yourself'.

576 Herrenkohl, '*One Flew over the Cuckoo's Nest* Questions the Meaning of Sanity', t.110.

577 Kesey, *Un Nos Ola Leuad*, tt.112-113.

eu hansicrwydd seicolegol. Ond a ellir dadlau mai arwydd o anhwylder meddyliol a gwendid dyfnach yw defnyddio'r union beth sy'n rheoli dyn er mwyn osgoi gwrthdaro?

Yn wyneb ofn bregusrwydd amlwg Chief Bromden, awgrymir llawer am stad feddyliol y claf. Trwy'r nofel, mae'r niwl yn ymddangos ar sawl adeg. Mae'n dechrau gan ddweud: 'I never seen it this thick before, thick to where I can't get down to the floor and get on my feet if I wanted to and walk around. That's why I'm so scared; I feel I'm going to float off someplace for food this time' (t.116), ond yn gorffen gan nodi, 'there's no more fog any place (t.129). Mae hyn yn adlewyrchu pendilio cyson meddwl Chief Bromden rhwng cyflyrau call a chyflyrau gwallgof. Yn wyneb y symudiad hwn, mae'n ddiddorol nodi bod y niwl fel pe bai'n lleihau ar ôl i McMurphy wneud rhywbeth arwrol sy'n ysbrydoli'r dynion. Soniwyd eisoes fod y Gwyddel yn hanfodol i wellhad y cleifion eraill – er bod hynny ar draul ei iechyd meddwl ei hun – ac felly, ni fwriedir ymhelaethu gormod ar ddelwedd McMurphy fel achubwr unwaith eto. Ond yng nghyd-destun y trosiad hwn, nid oes amheuaeth bod McMurphy yn rhoi'r cryfder a oedd ei angen ar Bromden er mwyn trechu'r niwl myglyd gan agor drws ar hunaniaeth a challineb y Chief. Meddai'r Indiad ei hun am ei daith a'i brofiad o'r niwl wedi aberth McMurphy:

> If you don't have a reason to wake up you can loaf around in that gray zone for a long, fuzzy time, or if you want to bad enough, I found you can come fighting right out of it. This time I came fighting out of it in less than a day, less time than ever. And when the fog was finally swept from my head it seemed like I'd just come up after a long, deep dive, breaking the surface after being under water a hundred years. It was the last treatment they gave me. (t.249)

Yn unol â'r ddamcaniaeth Frommaidd – 'he would be free to act according to his own will, if he knew what he wanted, thought and felt'[578] – mae Bromden yn llwyddo i gael gwared ar y niwl gan adennill ei hunaniaeth a'i gallineb yn wyneb cydymffurfiaeth. Meddai Barbara Lupack: 'the further Chief moves out of the fog, the more the nature of his narrative changes. No longer tentative and fantasylike, his story becomes stronger, more lyrical.'[579] Er ein bod yn amau dilysrwydd gair Bromden tua dechrau'r nofel, wrth i'r stori ddatblygu ac wrth i gryfder Bromden gynyddu, mae iaith yr Indiad yn dod yn fwyfwy huawdl. O ganlyniad, mae'r darllenydd yn dod i ymddried yn ngair y Chief.

[578] Eric Fromm, *Escape to Freedom* (New York: Routledge, 1991), t.220. Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn 1941.
[579] Lupack, *Insanity as Redemption in Contemporary Fictions: Inmates Running the Asylum*, t.70

Ond o ystyried hyn, ac wedi dadansoddi profiadau adroddwyr Kesey a Prichard, hawdd yw gweld bod swyddogaeth y lleuad yn *UNOL* yn hollol wahanol i rôl y niwl yn *OFOTCN*. Er y gallwn ddilyn taith a gwellhad seicolegol Bromden[580] drwy'r niwl sy'n anweddu'n raddol er mwyn datgelu rhyddid ac eglurder seicolegol yn *OFOTCN*, mae fel petai'r lleuad yn nofel Caradog Prichard ar y llaw arall yn arwain y bachgen at ei dynged echryslon. Cyflwynir, o ganlyniad, ansicrwydd clefydau seicolegol ac amwysedd y stadau meddyliol wrth i'r cymeriadau hyn arddangos dwy ochr i'r profiad seicolegol, ochrau sy'n ymddangos mor agos i'w gilydd mewn gwirionedd er gwaetha'r gwahaniaethau mawr rhyngddynt.

Nofel arall sy'n portreadu'r daith seicolegol obeithiol yw *TBJ* wrth i Esther geisio trechu ei gwendid meddyliol. Yn union fel Kesey a Prichard, mae Sylvia Plath hefyd yn defnyddio trosiad, sef y glochen ganolog, er mwyn cyfleu cyflwr seicolegol ei hadroddwr. Dychwelwn at y ddelwedd hon o safbwynt ffeministaidd yn y bennod nesaf, ond yn yr adran hon, canolbwyntiwn ar ei hagweddau cymdeithasol a seicolegol ehangach. Disgrifiodd Rigney[581] y glochen fel math o seicosis sy'n ystumio realaeth y fyfyrwraig tra mae Marilyn Yalom[582] yn awgrymu ei bod yn cyfrannu at arwahanrwydd Esther gan ei gwahanu oddi wrth y gymdeithas draddodiadol. Ac yng ngolau'r disgrifiadau hyn i gyd, awgrymodd Hunt a Carter: 'Esther's altered perception of others exacerbates her social disconnection from the world and subsequent psychological decline'.[583] Mae modd awgrymu bod y carchar gwydr yn darlunio'r brif thema dan sylw. Wrth i'r glochen ddisgyn ar Esther yn annisgwyl, pwysleisir breuder y meddwl dynol unwaith eto.

Yn unol â'r dadansoddiad uchod, gall y darllenydd olrhain taith seicolegol Esther Greenwood drwy gyfrwng y trosiad hwn. Ar ei gwaethaf, er enghraifft, teimla Esther y byddai'n eistedd 'under the same glass bell jar, stewing in my own sour air' (t.195) ble bynnag yr âi, boed hynny'n gaffi ym Mharis neu ar long yn rhywle arall yn y byd. Ond wedi derbyn therapi sioc trydan llwyddiannus, rhyfedda: 'I felt surprisingly at peace. The bell jar hung, suspended, a few feet above my head. I was

---

580 Cadarnheir gwellhad Bromden ar ddiwedd y nofel drwy'r llinell: 'I been away a long time'. Gweler Kesey, *One Flew Over the Cuckoo's* Nest, t.281.

581 Barbara Hill Rigney, *Madness and Sexual Politics in the Feminist Novel* (Wisconsin: Wisconsin University Press, 1978), t.125.

582 Marilyn Yalom, *Maternity, Mortality and the Literature of Madness* (University Park: Pennsylvania State University Press, 1985), t.22.

583 Daniel Hunt a Ronald Carter, 'Seeing through *The Bell Jar*: Investigating Linguistic Patterns of Psychological Disorder', *Journal of Medical Humanities,* 33.1 (Mawrth 2012), t.34.

open to the circulating air.' (t.227) Dyma bwysleisio'r corwynt o emosiynau sy'n gysylltiedig yn aml ag iselder. Er gwaethaf y teimlad newydd hwn o heddwch a rhyddid, cydnebydd Esther mai salwch di-lyw yw salwch meddwl. Tua diwedd y stori, er enghraifft, ac ar ôl myfyrio ar ei phrofiad a'i thaith seicolegol, dywed: 'I wasn't sure at all. How did I know that someday – at college, in Europe, somewhere, anywhere – the bell jar, with its stifling distortions, wouldn't descend again?' (t.254)

Fel y sylwodd Susan Coyle,[584] mae Esther yn dra ymwybodol o'r peryglon seicolegol tragwyddol; ac er ei bod yn teimlo yn ei iawn ei bwyll heddiw, efallai na fyddai ymhen wythnos, mis neu flwyddyn wrth iddi gadarnhau peryglon y llinell ansicr rhwng bodlonrwydd ac iselder, gwallgofrwydd a challineb.

Cymeriad sydd heb ddeall y perygl hwn yn llwyr yw Bet Jones yn *TH*. Gall y darllenydd olrhain iechyd meddwl Bet wrth iddi golli ei ffydd a disgrifio'r profiad. Wrth iddi siglo'n ôl ac ymlaen yn ei chred, gwêl y gynulleidfa feddwl toreithiog y wraig a thynnir sylw at y llinell denau sy'n gwahanu iselder a bodlonrwydd ym mywyd Bet. Ar ôl derbyn therapi am ei salwch ac wrth fyfyrio ar ei thaith seicolegol, meddai Bet am adferiad ei ffydd, a'i challineb: 'mi ddaeth yn ôl yn hollol yr un fath ag yr aeth hi, yn ddistaw. Nid yn ara' deg na dim felly, ond fel rhoi golau trydan ymlaen.' (t.81) Gan ystyried sydynrwydd yr holl brofiad, cyfleir eto natur ddirybudd ac anrhagweladwy salwch meddwl mewn modd newydd a delweddol. Wedi'r cyfan, nid cannwyll gynhesol sy'n fflachio'n ysgafn yn y gornel yw ei ffydd ond yn hytrach lamp drydan ddisglair sydd â'r gallu i roi iddi olau llachar neu dywyllwch llethol â chlec ar fotwm.

Yng ngolau natur anwadal ffydd a salwch Bet, roedd M. Paul Bryant Quinn yn awyddus i dynnu sylw at anwybodaeth Bet am wir ddifrifoldeb ei sefyllfa seicolegol. Meddai:

> Y ffaith nad yw Bet wedi wynebu craidd ei phroblem, ac nid yw hi'n sylweddoli y gall y tywyllwch ddod yn ei ôl yn ddisymwth, fel y daeth o'r blaen. Mae yna ormod o 'mi-ddyliwn-i-fod weidau' (sic) yn ei haraith olaf i'm hargyhoeddi fod olwyn Bet ar yr echel o'r newydd; ac fel y gŵyr y sawl a aeth drwy'r union brofiad, mae Bet yn dal i wrthod wynebu'r gwir am ei chyflwr. I mi, diwedd arswydus y stori yw fod Bet yn yr ystafell aros o hyd.[585]

Yn unol â'r farn hon, dadleuir yma nad yw agwedd ramantaidd Bet tuag at ei hiselder yn ei pharatoi am wellhad seicolegol parhaol. Yn hytrach, cyfranna'r

---

[584] Susan Coyle, 'Images of Madness and Retrieval: An Exploration of Metaphor in *The Bell Jar*', *Studies in American Fiction*, 12.2 (Hydref 1984), t.172.
[585] Bryant Quinn, 'Golwg ar *Tywyll Heno*', t.129.

diweddglo amwys at ddarlun ansicr o salwch meddwl lle y mae'r ddelwedd o'r llinell aneglur rhwng gwallgofrwydd a challineb, rheswm ac afreswm y wraig gweinidog yn cael ei phwysleisio unwaith eto.

Yn wyneb y gwaith dadansoddi uchod, hawdd yw deall pam y cyplysir ynghyd yn aml wallgofrwydd a challineb. Trwy'r delweddau a'r syniadau a gynigir yn y llenyddiaeth graidd, heriwyd y safonau seiciatryddol a chwestiynwn o ganlyniad ein canfyddiadau personol am yr unigolyn a'r profiad seicolegol. Wedi'r cyfan, mewn byd dirboenus, ffyniannus ond ar adegau, gwallgof, dangoswyd y gall y rhai a ystyrir yn ynfydion weithiau ymddangos yn gwbl synhwyrol ac i'r gwrthwyneb wrth gwrs. Dysgasom hefyd, fod prosesau seicolegol dyn yn sbectrwm eang o emosiynau, cyflyrau a phryderon amrywiol yn hytrach na stad ddiffiniol o salwch neu iechyd. Ys dywedodd Philip K. Dick:

> The distinction between sanity and insanity is narrower than the razor's edge, sharper than a hound's tooth, more agile than a mule deer. It is more elusive than the merest phantom. Perhaps it does not even exist; perhaps it *is* a phantom.[586]

Er i'r llenorion dan sylw gyflwyno portread newydd ac agored o'r cyflwr meddyliol, cysylltwyd gwallgofrwydd a salwch meddwl yn aml yn ystod eu cyfnod ag anghrediniaeth, amheuaeth a hyd yn oed sgeptigaeth.[587] Ac felly, er bod yr amwysedd hwn yn amlwg wedi cyfrannu at ansicrwydd y gymdeithas wrth iddi fethu â deall y claf sâl, fel y gwelwyd drwy'r adran hon, mae hefyd wedi ychwanegu at ansicrwydd yr unigolyn. O ganlyniad i'w natur fregus, nid oes rhaniad pendant rhwng yr emosiynau naturiol ac eithafol ym meddwl y dioddefwr. Yn ogystal â hyn ac yn wyneb anghysondeb, annynoldeb a rhagrith y gymdeithas, ni wel yr unigolyn sicrwydd yn y byd o'i gwmpas ychwaith. Gan gadw hyn i gyd yn y meddwl, eir ati yn yr adran nesaf i archwilio'r ansicrwydd personol hwn ymhellach wrth inni ganolbwyntio ar gysyniad a gofid poblogaidd arall y cyfnod, gofid a ymelwodd ar yr amhendantrwydd mewnol hwn, sef yr argyfwng gwacter ystyr.

---

[586] Philip K. Dick, *Valis* (Boston: Houghton Mifflin Harcourt, 2011), t.56. Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn 1981.

[587] Gellir dadlau mai dyna'r achos hefyd hyd yn oed heddiw. Ond deuwn at hynny ym Mhennod 4.6 a Phennod 6.

## 4.5 Clefyd y Genedl: Argyfwng Gwacter Ystyr

Nid oes amheuaeth bod y blynyddoedd yn arwain at gyfnod craidd yr astudiaeth yn rhai aflonydd a therfysglyd. Hwn oedd cyfnod yr Ail Ryfel Byd a'r Rhyfel Oer lle y rhoddwyd terfynau dynoliaeth ar brawf. O ganlyniad i'r ormes a'r dinistr hwn, tynnwyd sylw at ddiffygion a gwendidau dyn ar draws amrywiaeth o feysydd gwahanol – o foeseg i ideolegau gwleidyddol, o seiciatreg i athroniaeth. Wedi edrych ar y gwrthryfeloedd ffeministaidd a seiciatryddol yn fanwl eisoes, dilyna rhan hon yr astudiaeth lwybr ychydig yn wahanol gan ganolbwyntio ar ddamcaniaethau athronyddol poblogaidd y cyfnod ac yn fwyaf arbennig, y meddylfryd dirfodol.[588]

Fel y nododd Gina Misiroglu, ffynnodd dirfodaeth yn Ffrainc yn ystod y blynyddoedd yn syth ar ôl y rhyfel. [589] O ganlyniad, priodolir mudiad dirfodol y pedwardegau a'r pumdegau yn aml i'r athronyddwyr a'r llenorion, Jean-Paul Sartre, Simone de Beauvoir, Maurice Merleau-Ponty ac Albert Camus. A dadansoddwyd eisoes ym Mhennod 2 y cyd-destun athronyddol Cymreig o ran gwaith J. R. Jones. Yn dilyn creulondeb a dinistr yr Ail Ryfel Byd, dwysawyd pryderon am ryddid, cyfrifoldeb a marwolaeth wrth i'r unigolyn chwilio am atebion i ddioddefaint dyn. Ac yn wyneb oes o ormes felly, cynigodd y gangen hon o athroniaeth safbwynt a gobaith newydd i gymdeithas orthrymedig y cyfnod gan ailasesu pwysigrwydd hunaniaeth a rhyddid dynol. A dyfynnu: 'the works of Sartre, of Beauvoir, and Camus, in fiction, theatre and philosophical essays, stressed liberty, human responsibility, and the emptiness of all systems of authority, especially in moral and metaphysical matters'.[590]

Yn debyg i wrth-seiciatryddion y chwedegau i ryw raddau, edrychodd y dirfodwyr hyn ar sefyllfa gymdeithasol yr unigolyn drwy lygaid beirniadol. Yn wyneb y feirniadaeth hon, dechreuodd Sartre roi pwyslais mawr ar bwysigrwydd yr

[588] Diffinnir dirfodaeth fel 'mudiad yn athroniaeth yr 20fed ganrif sy'n pwysleisio mai ewyllys dyn ac nid ei reswm sy'n bwysig pan fo'n wynebu argyfwng, ac nad yw dyn yn bodoli ond i'w ewyllysio'i hun i weithredu.' (Geiriadur Prifysgol Cymru) Archwilir y theori yn fanylach wrth i'r adran hon ddatblygu. Ond mae'n rhaid cofio mai un enghraifft yn unig o'r meddylfryd athronyddol yw hwn. Am fwy o wybodaeth, dylid darllen, David E. Cooper, *Existentialism: A Reconstruction* (Oxford: Blackwell, 1990); Thomas Flynn, *Existentialism: A Very Short Introduction* (Oxford: Oxford University Press, 2006); Jack Reynolds, *Understanding Existentialism* (Chesham: Acumen, 2006).
[589] Gina Misiroglu, *American Countercultures: An Encyclopedia of Nonconformists, Alternative Lifestyles, and Radical Ideas in U.S History* (London: Routledge, 2008), tt.241-242.
[590] Ibid.

hunan. Yn ei ddarlith, *Existentialism is a Humanism,*[591] meddai Satre: 'existence precedes essence' gan gyflwyno'r gred nad oes patrwm rhagddiffiniedig sy'n penderfynu pwrpas rhywun, waeth beth y mae'r gymdeithas reolaethol yn ei ddweud. Yn hytrach, mynnodd Satre fod yr unigolyn yn rhydd i ddiffinio ei ystyr a'i lwybr ei hun. Yn wyneb natur ormesol dechrau'r ugeinfed ganrif, hawdd yw gweld apêl y theori athronyddol hon. Er bod y syniadau hyn yn ymdrin ag un mudiad penodol yn unig ym maes eang athroniaeth, byddent yn effeithio ar amrywiaeth o feysydd am flynyddoedd i ddod.

Wrth feddwl am y cyd-destun Cymreig, cyfeiria Delyth George at ddefnydd 'pruddglwyf ffasiynol' y cyfnod[592] yng ngweithiau Islwyn Ffowc Elis a Kate Roberts. Disgrifir prif gymeriad *Ffenestri Tua'r Gwyllt* fel 'gwraig hunan canolog sy'n dioddef o bruddglwyf ffasiynol yr ugeinfed ganrif, gwacter ystyr'. Ac wrth drafod gweithiau Kate Roberts meddai: 'Erbyn cyfnod Dinbych, fodd bynnag, mae'r merched yn well eu byd, y gofynion teuluol arnynt yn llai, ac fe'u hwynebir yn eu hamdden fwy-fwy gan argyfwng yr ugeinfed ganrif – gwacter ystyr'.[593] Ond ar lwyfan byd-eang, meddai Thomas Flynn:

> Admittedly, as a phenomenon of popular Western culture, existentialism reached its high point in the year immediately following the end of the Second World War. In its French expression, it was a child of the liberation. The intensity of that moment could scarcely have been maintained. And yet its spirit remained in the depths of Western society, to surface in various nonconformist movements of the following decades and perhaps flaming out in the events of May 1968.[594]

O ystyried hyn ac yn unol â chyd-destun yr astudiaeth, gellir gweld dylanwad dirfodaeth drwy safbwyntiau seiciatryddol y chwedegau. Yn 1960, er enghraifft, ac yng nghanol cyffro'r mudiad gwrth-seiciatryddol, cyhoeddodd R D. Laing ei lyfr, *The Divided Self: An Existential Study in Sanity and Madness*, a edrychodd ar sgitsoffrenia o safbwynt dirfodol.[595] Trwyddo, roedd, fel nifer o'i gyd-wrthseiciatryddion, yn ystyried salwch meddwl yn ei gyd-destun cymdeithasol ehangach ac effaith hyn ar y prosesau mewnol a'r syniad o hunaniaeth bersonol. Ys

---

[591] Jean- Paul Sartre & Philip Mairet (cyfieithydd), *Existentialism is a Humanism* (London: Methuen, 1948). Mae'r llyfr yn seiliedig ar ddarlith a roddodd Sartre ym Mharis, Club Maintenant, Hydref 1945.
[592] George, *Llên y Llenor: Islwyn Ffowc Elis*, t.22.
[593] George, 'Kate Roberts – Ffeminist?', t.201.
[594] Flynn, *Existentialism: A Very Short Introduction*, t.84. [Cyfeiria 'Mai 1968' at Derfysg Paris 1968 wrth i fyfyrwyr (ymhlith pobl eraill) brotestio mewn ymateb i'r diffyg arian a oedd ar gael i addysg. Yn ystod uchafbwynt y protestiadau, daeth economi Ffrainc i stop sydyn.]
[595] Ceir dadansoddiad o'r llyfr yn yr adolygiad llenyddol.

dywedodd Adam Phillips: ‘their [gwrth-seiciatryddion y chwedegau] understanding of mental illness as an existential crisis rather than malingering or neurological disorder has seen madness as a quest for personal authenticity’.[596] Yn union fel rhywun sy’n dioddef o’r pryder argyfwng gwacter ystyr, disgrifiodd Laing y person sâl ei feddwl fel unigolyn sydd hefyd yn teimlo ar goll yn y byd. Ac er y cysylltir teimladau o anobaith ac ansicrwydd yn aml â’r cyflyrau hyn, roedd yn awyddus i bwysleisio y gallai’r stadau seicolegol a dirfodol hyn hefyd arwain at ganlyniadau cadarnhaol. Gan ddychwelyd at ddyfyniad cynharach, meddai: ‘Madness need not be all breakdown. It may also be breakthrough. It is potentially liberation and renewal as well as enslavement and existential death.’[597]

Cyfyrddwyd â’r paradocs hwn eisoes yn adrannau 4.3 a 4.4 wrth gyfeirio at amwysedd salwch meddwl a’r angen i wrthryfela. Ond trwy’r meddylfryd dirfodol, cyflwynir agwedd ehangach i’r astudiaeth. Yn wyneb hyn, eir ati yn awr i fabwysiadau’r meddylfryd Laingaidd er mwyn dadansoddi profiadau seicolegol y cymeriadau dan sylw mewn goleuni dirfodol.[598] Ystyrir cwestiynau megis ym mha fford y mae’r unigolyn yn dioddef o’r argyfwng gwacter ystyr. Pa fath o effaith y mae’r argyfwng dirfodol yn ei chael ar iechyd meddwl yr unigolyn? A hefyd, beth y mae’r agwedd ddirfodol yn ei chynnig o ran dadansoddiad seicolegol yr unigolyn?

* * *

Dechreuwn gan gymhwyso rhai o’r prif ddamcaniaethau dirfodol i’r llenyddiaeth graidd a’r cyd-destun Cymreig. Fel y nodwyd eisoes, wrth wraidd credoau dirfodaeth y mae’r athroniaeth sy’n pwysleisio bodolaeth yr unigolyn fel rhywun sydd â’r gallu i ddiffinio ei  ystyr ei hun mewn bywyd trwy ewyllys rydd. Pwysleisiodd John Heywood Thomas fod y berthynas rhwng ‘rhyddid a’r ffaith o ddewis’[599] yn hynod gymhleth ac yn cynhyrchu, o ganlyniad, wrthdaro moesol yn seice’r unigolyn. Yng ngolau’r cyd-destun Cymreig, ymhelaetha:

> Meddwl rwyf am yr hen emyn sy’n sôn am ddilyn ewyllys Duw ‘nid rhag ofn y gosb a ddêl, nac am y wobr chwaith ond rhyw ddymuniad llawn. . . . Hynny yw, nid byw

[596] Adam Phillips, *Going Sane* (London: Penguin, 2006), t.4.
[597] R. D. Laing, *The Politics of Experience* (New York: Pantheon Books, 1983), t.133. Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn 1967
[598] Mae rhaid nodi nad yw’r thema hon yn amlwg yn *Un Nos Ola Leuad* ac oherwydd hyn, bydd yr adran hon yn hepgor gwaith Caradog Prichard.
[599] John Heywood Thomas, E. Gwynn Matthews a D. Densil Morgan, *Dirfodaeth, Cristnogaeth a’r Bywyd Da* (Talybont: Y Lolfa, 2016), t.16.

> bywyd er mwyn ceisio cael rhywbeth arall yw bywyd da ond cyflawni gweithredoedd sy'n dda ynddynt eu hunain. [600]

Er mai sôn am y sefyllfa grefyddol yn bennaf a wneir, gallwn weld cyfatebiaethau rhwng problemau dirfodol y gymuned uchod a chymunedau'r llenyddiaeth graidd. Ar ôl dadansoddi delweddau'r llenyddiaeth, gellir dweud mai cwbl absennol hefyd yw'r 'dymuniad llawn' hwn ym mywydau'r cymeriadau dan sylw lle y mae nifer ohonynt yn teimlo'n wag eu pwrpas. Yn sgil hyn, nid oes cyfle iddynt gyflawni gweithredoedd amrywiol a fyddai'n calonogi'r unigolyn ychwaith. Wrth drafod safle dirfodaeth o ran y cyfnod dan sylw, dywedodd J. R. Jones:

> ...pryder o'r trydydd teip sydd wedi dod yn nodweddiadol o'n cyfnod ni, sef pryder y meddwl a welodd drwy bopeth ac a gafodd bopeth yn y gwaelod yn ddiystyr, 'the anxiety of meaningless, a 'pryder gwacter', neu 'bryder gwacter ystyr'. Cenhedlaeth yn ei chael ei hun yn syllu i wacter ydyw hon pan edrycho drwy, a thu hwnt, i gyfiawnder ei hoffer a'i dyfeisiau, ei moethau a'i mwyniannau. [601]

Nid oes amheuaeth ein bod – o leiaf yn y byd gorllewinol – yn well ein byd yn faterol erbyn heddiw. Nid oes rhaid inni frwydro yn erbyn amodau aflan neu salwch difrïol, na byw yng nghysgodion rhyfel neu newyn. Ond er gwaethaf moethau a hygyrchedd bywyd modern, rydym wedi dod yn gleifion mewn brwydr o fath gwahanol, brwydr ein lles meddyliol. Yn eironig, mae'r union gymdeithas a'n rhyddhaodd ni o fywyd anodd y gorffennol wedi ein caethiwo'n llawer gwaeth. Wrth drafod ei phrofiad seicolegol, meddai Gwyneth Lewis: 'it seems ironic that as our standard of living improves, our capacity to enjoy it is jeopardised'.[602] Yn awr, ac yn hytrach na gelyn allanol megis haint neu dlodi, wynebwn ornest fewnol seicolegol. A gwelir yr ornest hon yn glir drwy weithiau diweddarach Kate Roberts, gan gynnwys y stori fer hir, *TH*.

Nodwyd eisoes nad yw'r wraig hon yn gorfod brwydro yn erbyn tlodi eithafol fel gwragedd cynnar Kate Roberts. Yn hytrach, mae'n debygach i fenywod *Stryd y Glep* ac *Y Byw Sy'n Cysgu,* sydd yng ngeiriau John Rowlands: 'yn wynebu rhyw argyfwng personol, ac yn dadansoddi'u hymateb i'r argyfwng hwnnw'.[603] Fel y gwyddys, mae Bet yn dioddef o'r hyn a elwir yn iselder ysbryd wrth i'w salwch lygru pob agwedd o'i bywyd. Ac yn debyg i'r fam newydd yn nofel Angharad Tomos sy'n dweud: 'y peth mwyaf ro'n i'n ei deimlo efo'r iselder oedd diffyg

---

[600] Ibid., t.23.
[601] Jones, *Yr Argyfwng Gwacter Ystyr,* tt.4-5
[602] Gwyneth Lewis, *Sunbathing in the Rain* (London: Flamingo, 2002), t.xii.
[603] Rowlands, *Ysgrifau ar y Nofel*, t.154.

mwynhad',[604] cwbl wag yw Bet Jones o unrhyw deimladau cadarnhaol a gobeithiol. Wrth drafod ei stad seicolegol, er enghraifft, dywed:

> Mi es yn ddigalon ac yn isel fy ysbryd am fy mod i'n gweld nad oedd dim ystyr i fywyd. 'Fedrwn i ddim credu bod Duw yn rheoli'r byd wrth weld yr holl greulondeb sydd ynddo fo, a 'roeddwn i'n gweld nad oedd dim gwahaniaeth rhwng pobol y capel a phobol y byd. (t.16)

Wrth iddi ymhelaethu wedyn ar ddwyster ei salwch:

> .. ac mai'r rheswm na fedrwn i edrych ymlaen i'r dyfodol oedd, nad oeddwn i'n credu mewn dyfodol; 'doedd dim ystyr i fywyd.' (t.80)

Dadansoddir y teimladau hyn o wacter ac anfodlonrwydd o safbwynt ffeministaidd yn y bennod nesaf, ond trwy naws negyddol y cyffesion hyn, ymddengys fod y wraig wedi disgyn yn anobeithiol i'r argyfwng gwacter ystyr. O ganlyniad, ni all weld unrhyw bwrpas nac ystyr i fywyd fel y mae. Ond beth yn union oedd y catalydd a achosodd y teimladau hyn ym mywyd gwraig gweinidog?

Mae profiad dirfodol Bet eisoes wedi derbyn cryn dipyn o sylw gan feirniaid amrywiol.[605] O'u herwydd, priodolir argyfwng gwacter ystyr ac, felly, gyflwr meddyliol y wraig hon yn aml i'r ffaith iddi golli ei ffydd. Meddai Bet ei hun, er enghraifft: 'Rydw i wedi mynd i feddwl nad oes dim pwrpas i fywyd. Rydw i wedi colli fy ffydd', (t.56) gan efelychu i'r dim y prif bryderon dirfodol. Yng ngolau'r gosodiadau uchod, ymddengys nad yw Bet yn gallu dod i delerau â'r byd annheg sy'n ei chwmpasu. Ni all amgyffred sut y gallai Duw reoli dros yr holl greulondeb sydd ynddo.

Mae'r wraig wedi aberthu rhan enfawr o'i bywyd, ei diddordebau a'i hunaniaeth er mwyn ei gŵr, cymaint felly fel ei bod hi'n ei gweld ei hun fel gwraig gweinidog a hynny'n unig yn awr.[606] O ystyried hyn, hawdd yw deall mawredd y golled grefyddol hon ym mywyd cyhoeddus a phersonol y prif gymeriad. Ar lefel gymdeithasol ehangach, awgrymir bod Bet yn derbyn dirmyg y gymuned am ei hymddygiad amhriodol ar sawl achlysur[607] sydd ond yn ychwanegu at ei phryderon dirfodol. Ond gan fod Bet yn cwestiynu holl ystyr, bwriad a phwrpas Duw a bodolaeth dyn, teimla'r wraig hyd yn oed yn fwy ansicr ei hun am nad yw'n gallu

---

[604] Tomos, *Wrth fy Nagrau i*, t.47.
[605] George, 'Kate Roberts – Ffeminist?' a Rowlands, *Ysgrifau ar y Nofel*.
[606] Dyma'r hyn a fydd yn gosod sylfaen y bennod nesaf.
[607] Sôn am brofocio Sali ydym, yn ogystal ag annymunoldeb hen ferched y capel sydd wedi'u dadansoddi eisoes.

cydymffurfio â'i chyfrifoldeb cymdeithasol, gan ddwysáu'r pryderon dirfodol. Wedi'r cyfan, 'mae pawb yn disgwyl safon gwell gan wraig gweinidog, 'tydi?'[608]

Yr unig un i sylweddoli ar gwir natur salwch meddwl Bet yw Melinda. Deall ei ffrind fod rhaid i'r wraig weld amrywioldeb y byd yn ei holl ysblander a'i holl gymhlethdod yn hytrach na phoeni am fychander a chonfensiwn ei chymuned gul:

> Ond mi ddyliet ti gael gwyliau mewn lle hollol annhebyg i hwn, rhywle heb ddim un capel ynddo fo i wneud iti feddwl am dy gartre. Mi ddyliet gael gweld pobol yn pechu. (t. 40)

Ac o ganlyniad i farnau anghonfensiynol ac anuniongred ei ffrind sy'n agor ei meddwl, mae Melinda yn annog Bet i dorri'n rhydd o'r traddodiadau a'r confensiynau sy'n ei diffinio fel gwraig gweinidog. Dadansoddwyd eisoes bwysigrwydd rôl Melinda ond trwy ddangos ffordd arall o fyw sy'n wahanol i'w bywyd confensiynol a chaeth, mae'n ceisio ysbrydoli'r wraig gweinidog i ailddarganfod ei hunaniaeth unwaith eto.

Yn ogystal â hyn, mae Melinda hefyd yn cyffwrdd ag un o ddisgwyliadau anymarferol Bet, sydd efallai'n cyfrannu'n rhannol at ei hargyfwng dirfodol. Meddai: 'mae arna i ofn dy fod ti'n disgwyl gweld gormod o berffeithrwydd mewn byd ac eglwys'. (t.56) Yn wyneb gwirionedd y pryder hwn yn ogystal â'r ffaith drist *bod* diffyg perffeithrwydd yn y byd – wedi'r cyfan, mae Duw yn gadael i bethau drwg, creulon a gofidus ddigwydd yn ôl y wraig – pwysleisir difrifoldeb argyfwng gwacter ystyr Bet. Yn lle'r byd a'r bywyd perffaith, delfrydol a sanctaidd y mae'r wraig yn eu disgwyl, dysg Bet yn hytrach fod cymdeithas yn llawn rhagrith, poen a chas. Ac yng ngolau'r ymwybyddiaeth hon, mae modd cysylltu siom y wraig â gwaith cyfamserol J. R. Jones.

Dyma'r hyn sydd hefyd yn ffurfio argyfwng gwacter ystyr Carys, Lena ac Einir yn nofel Janes Edwards, *Bara Seguryd.* Wrth ddadansoddi gwacter ystyr pob un o'r cymeriadau hyn drwy oleuni beirniadol cyfnod y chwedegau, mae Jane Edwards yn taflu goleuni ar ffeminyddiaeth a'r profiad benywaidd. Er bod eu cyflwr yn amrywio bob yn un, gwelir wrth wraidd eu problemau oll, fel y nododd Nia Angharad Watkins, fod 'siom yn elfen ormesol yn eu bywydau pan welant nad yw'r

---

[608] Tomos, *Wrth fy Nagrau i*, t.65.

byd go-iawn yn ddrych i'r hyn y dychmygent iddo fod'.[609] Dyma adlais o bryder a dadrithiad Bet Jones.

Wrth drafod problemau'r oes, eglurodd yr athronydd fod dyn wedi dod yn gaethwas i'r 'syniad y medr dyn yn 'Oes y gorfod' ateb pob cwestiwn y gellir yn synhwyrol ei ofyn ac felly symud y cysgod olaf o ddirgelwch allan o'r byd ac allan o'n bywyd'.[610] Erbyn heddiw, ac wrth ystyried pa mor hawdd yw meddu ar wybodaeth wyddonol, hanesyddol neu lenyddol newydd, nid yw'n syndod ein bod yn disgwyl ateb pendant i bopeth, ac yn gwrthod unrhyw syniad sydd heb dystiolaeth gadarn. Fel y dywedodd cymeriad Angharad Tomos, er enghraifft: 'fi a'm cenhedlaeth wedi ein magu i oes hollwybodus, hollalluog lle gallai popeth fod yn berffaith'.[611] Ond pan fo Bet Jones yn sylweddoli nad yw'r meddylfryd naïf hwn bob amser yn bosib – os o gwbl – mae'n brwydro'n seicolegol â realaeth ddigalon y cyfnod.

Fel y gwelir drwy'r astudiaeth, dywedir yn aml fod Bet yn perthyn i ddau gyfnod gwahanol ac felly, dau feddylfryd gwrthgyferbyniol. Ar y naill law, mae credoau'r fenyw wedi cael eu dylanwadu'n fawr gan alwedigaeth grefyddol ei gŵr lle y mae'n cymryd ei chyfrifoldebau fel gwraig gweinidog o ddifri. Ar y llaw arall fodd bynnag, nodir bod y wraig hefyd yn perthyn i'r gymuned 'hollwybodus, hollalluog' hon sy'n gosod crefydd a bodolaeth Duw dan orchudd 'dirgelwch' J. R. Jones. Ond er gwaethaf ei disgwyliad fel gwraig gweinidog, ni all Bet esbonio pam fod cymaint o ddioddef yn digwydd ym myd Duw. O ganlyniad, arweinia'r amheuaeth hon at golli ffydd a dinistrir sylfeini'r wraig yn y broses.

Yng ngolau astudiaeth J. R. Jones, awgrymir bod y meddylfryd ansicr, chwilfrydig ac ymholgar wedi cyfrannu at ddinistr o fath gwahanol. Disgrifir y dinistr hwn fel 'marwolaeth Duw'. Gofyn: 'canys sut y medrwn ni beri ymchweliad yn ôl at Dduw ac at ystyr mewn byd lle bu Duw farw ac y diflannodd ystyr?'[612] Yn ystod y cyfnod dan sylw, nid oedd gan Dduw'r grym a fu ganddo unwaith yn y gorffennol. Ac o ganlyniad, felly, gellir dadlau mai tasg gwbl anobeithiol fyddai ceisio llenwi gwacter ystyr y cyfnod â geiriau amherthnasol Duw. Wrth ystyried hyn,

---

609 Nia Angharad Watkins, 'Y Nofel Ddomestig Gymraeg dros dair cenhedlaeth, gyda sylw neilltuol i waith Moelona, Jane Edwards a Sonia Edwards', (PhD, Prifysgol Aberystwyth, 2008), t.73

610 Jones, *Yr Argyfwng Gwacter Ystyr*, t.5.

611 Tomos, *Wrth fy Nagrau i*, t.71.

612 Jones, *Yr Argyfwng Gwacter Ystyr*, t.16.

cydnabu John Rowlands y thema hon yng ngweithiau amrywiol Kate Roberts. Meddai:

> Ymddengys imi fod holl awyrgylch nofelau Kate Roberts yn tarddu o'r cyfnod pan oedd crefydd Gymraeg anghydffurfiol wedi colli'i grym achubol, a bod geiriau fel Duw a phechod yn rhan o'r gwaddol diwylliannol cyffredinol heb feddu'r ystyron pendant a'u trydaneiddiai gynt.[613]

Dyma thema a adlewyrchir yn ei chyfanrwydd yn *TH*, a thrwy holl broblemau Bet. Yn hollol wahanol i'r gred Gristnogol arferol, myn y wraig: 'doedd Duw ddim yn rheoli'r byd; 'roedd O wedi 'i adael o i ryw ffawd greulon' (t.80). Pwysleisia ragrith y capel a'r gymuned grefyddol Gymreig a chul. Gwaredwr dyn a'r byd yw Duw yn ôl y ffydd Gristnogol ond fel y sylweddola Bet, nid yw'n amddiffyn nac yn achub dyn rhag creulondeb. Ac felly, os nad yw Duw yn cyflawni Ei ofynion, beth yw swyddogaeth crefydd a'r bywyd Cristnogol? Ar ben hyn, os nad yw Ei bwrpas yn gwbl glir, pa obaith sydd gennym i ddod o hyd i'n hystyr? Gwrthddywediad o'r math hwn sy'n tanio argyfwng dirfodol Bet.

Fel y tynnodd J. R. Jones sylw at y broblem hon yn y lle cyntaf, rhybuddiodd hefyd fod y meddylfryd ymholgar hwn yn gallu cyfrannu at ein stad feddyliol ansicr. Meddai:

> At y sarff o bryder gwacter ystyr yr oeddym eisoes yn ei phlygion, fe ddolennodd amdanom yn awr, gan hynny, sarff o bryder newydd – mass anxiety yn wyneb tynged newydd na ddychmygwyd mo'i thebyg o'r blaen, pryder rhag tranc o fath newydd y mae meddwl amdano'n ddigon i'n gwallgofi. A theimlwn, yn wyneb y tro arswydus hwn yn ffodion y ddynoliaeth bod ein holl grefydda wedi mynd yn fancrypt. [614]

Wrth ystyried hyn, gellir dadlau bod anallu Bet i ddod o hyd i'r atebion i gwestiynau sylfaenol ei chrefydd yn rhannol gyfrifol am ei gwacter ystyr. Mewn sefyllfa arferol, a phan fo rhywun yn methu deall rhywbeth, yr ymateb naturiol yw gofyn cwestiynau er mwyn ennill dealltwriaeth well. Ond gan nad oes modd ateb pryderon Bet yn hawdd, gwaethygir ei sefyllfa gan y diffyg esboniad ac arweinia hyn yn ei dro at ei hamheuon ynghylch pwrpas ac ystyr bywyd. Ceisia chwilio am berffeithrwydd mewn byd amherffaith ac mae'r amhosibilrwydd hwn yn cyfrannu at ei hiselder ysbryd.

Yn wyneb hyn oll, teg yw dweud mai gwraig gwbl ar goll yw Bet Jones. Yn unol â'i dyletswydd gymdeithasol, ac er gwaethaf ei phenbleth mewnol, ceisia ddal

---

[613] Rowlands, *Ysgrifau ar y Nofel*, t.157.
[614] Ibid., t.17.

ati i ufuddhau i'w rôl fel gwraig gweinidog. Ffugio y mae, gan fethu credu yn Nuw. Yn nofel Angharad Tomos, cydnabyddir y ffaith nad oes gwir le yn y byd ar gyfer gwraig gweinidog sydd wedi colli'i ffydd.[615] Teimlo felly y mae Bet hithau. Nid colli'i ffydd yn ôl y diffiniad traddodiadol yn unig a wna'r wraig hon, ond wrth ystyried ei sefyllfa gymdeithasol, cyll hefyd ran enfawr o'i hunaniaeth a disgyn 'i'r gwacter di-dân, di-wely'.[616] Yng ngolau'r dadansoddiad hwn, nid oes amheuaeth na nodweddir bywyd Bet Jones gan anobaith ac ansicrwydd, ond fel y pwysleisiodd Yuval Noah Harari: 'happiness consists in seeing one's life in its entirety as meaningful and worthwhile'.[617] Er mwyn bod yn wirioneddol hapus yn ôl yr hanesydd, awgrymir bod yn rhaid i'r unigolyn dawelu ei bryderon dirfodol. Heb yr heddwch hwn, gall y darllenydd weld difrifwch sefyllfa'r wraig.

Ni wêl Bet ei bywyd yn y goleuni ystyrlon a phwrpasol hwn. Yn hytrach na phrofi hapusrwydd, dywedir bod y wraig 'wedi mynd i stad o anobaith'. (t.70) O gofio mai fel gwraig gweinidog y mae Bet – a'i chymdeithas – yn ei gweld ei hun, gellir honni nad oes dihangfa amlwg rhag yr anobaith ar y gorwel. Ac felly, ni all ddianc ychwaith rhag ei 'hargyfwng gwacter ystyr'. O ystyried hyn, sicrha Kate Roberts fod y gynulleidfa yn deall ac yn cydymdeimlo â chraidd gwacter ystyr Bet, amcan a roes Sylvia Plath hefyd ar waith yn ei nofel hithau, *TBJ*.

O ganlyniad i'r elfennau hunangofiannol sy'n rhedeg drwy'r holl nofel, cwbl amhosib yw osgoi'r cyfatebiaethau niferus rhwng Sylvia Plath ac Esther Greenwood wrth i sawl beirniad dynnu sylw at y cyffelybiaethau personol, cymdeithasol a seicolegol rhwng cymeriad a llenor. Yr un yw'r achos hefyd o ran y cyfatebiaethau dirfodol. Fel y nododd Karen Kukil, roedd Sylvia Plath hefyd yn dioddef o'r argyfwng gwacter ystyr drwy gydol ei bywyd a'i gyrfa, argyfwng a darddodd o'r hyn y mae'n disgrifio fel 'a chaos of experience'.[618] Yng ngolau disgrifiadau niferus Sylvia Plath, awgrymir na theimlai hi'n sicr ohoni hi ei hun, ei doniau na'i lle yn y byd. Gellir dweud bod y llenor yn cyfleu ei hansicrwydd a'i gofidion dirfodol ei hun drwy gyfrwng ei phrif gymeriad, Esther Greenwood.

Am bryder sylfaenol y dioddefwr dirfodol yn gyffredinol, meddai Robert Solomon: 'existentialism marks the ever-increasing failure of modern humanity to

---

[615] Tomos, *Wrth fy Nagrau i*, t.65.
[616] Roberts, *Tywyll Heno*, t.21.
[617] Harari, *Sapiens: A Brief History of Humankind*, t.437.
[618] Sylvia Plath, a Karen V. Kukil (gol), *The Unabridged Journals of Sylvia Plath* (New York: Anchor Books, 2000), t.448.

find itself "at home" in the modern world'.[619] Yng ngolau'r dadansoddiad personol uchod, gellir awgrymu bod Esther Greenwood yn sefyll fel enghraifft amlwg o'r methiant mewnol hwn. Fel Bet, gwraig na lwyddodd i ddeall y byd creulon o'i chwmpas na theimlo bod dim pwrpas i fywyd, mae Esther hefyd yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i ystyr bywyd yn America'r trefi bychain – methiant sy'n effeithio'n fawr ar ei chyfansoddiad seicolegol. Tynnodd Katie Gramich sylw at debygrwydd y ddwy fenyw o ran eu hanniddigrwydd mewnol. Meddai:

> Bet's loss of faith is really a descent into depression, in which she is unable to see any meaning or purpose in life. Reminiscent of Sylvia Plath's description of mental illness in her contemporaneous novel, *The Bell Jar, Tywyll Heno* renders Bet's illness as something that takes over her body from within. Although the pettiness of chapel society, especially the meanly vindictive womenfolk, is something that Bet finds hard to bear, fundamentally it is not outward circumstance that cause her breakdown but an existential crisis that comes from within.[620]

Nododd Bet, er enghraifft; 'o'r tu mewn, mae'r drwg', (t.56) wrth i'r argyfwng dirfodol siglo'r wraig i'w chraidd. A gwelir teimlad tebyg yn *TBJ* hefyd. Mewn modd sy'n ein hatgoffa o'r wraig gweinidog, mynegodd Esther:

> I guess I should have been excited the way most of the other girls were, but I couldn't get myself to react. I felt very still and very empty, the way the eye of a tornado must feel, moving dully along in the middle of the surrounding hullabaloo. (t.3)

Trwy'r dyfyniad hwn, disgrifia Esther y datgysylltiad sy'n bodoli rhwng ei theimladau a'r hyn y mae cymdeithas yn disgwyl wrthi. Ar ôl ennill ysgoloriaethau amrywiol drwy gydol ei bywyd academaidd, mae Esther yn cydnabod y ffaith y dylai fod yn hapus. Ond oherwydd ei hanniddigrwydd mewnol. nid yw hynny'n bosib. Ar ôl clywed nad oedd wedi llwyddo i ennill lle ar gwrs ysgrifennu mawreddog dros yr haf, chwelir byd Esther yn deilchion. Meddai:

> All through June the writing course had stretched before me like a bright, safe bridge over the dull gulf of the summer. Now I saw it totter and dissolve, and a body in a white blouse and green skirt plummet into the gap. (t.121)

Nodwyd eisoes mai'r unig beth yr oedd Esther yn teimlo y gallai ei wneud yn dda oedd ennill ysgoloriaethau. Ond am ei bod wedi methu  chyflawni rhywbeth sy'n elfen ddiffiniol o'i hunaniaeth, dechreua Esther amau ei holl ddyfodol a'i holl bwrpas, gan daflu goleuni ar ei phryderon dirfodol. Yn hollol ddigalon, meddai: 'I couldn't see the point of getting up. I had nothing to look forward to.' (t.124) Yn

---

[619] Robert Solomon, *Existentialism*, ail argraffiad (Oxford: Oxford University Press, 2004), t.xii.
[620] Gramich, *Kate Roberts: Writers of Wales*, t.95.

debyg i'r wraig yn *TH*, disgrifir y gwacter sy'n boddi'r fyfyrwraig ifanc wrth iddi deimlo ar goll yn gymdeithasol ac yn emosiynol. Fel y mae Bet yn disgrifio ei hiselder fel 'mwgwd am fy llygaid', (t.26) cyflwyna Esther natur ei phwyll drwy ddelwedd ganolog y glochen sy'n meddu ar arwyddocâd dirfodol.

Ys dywedodd Summer Yasoni: '*The Bell Jar* is the metaphorical representation of Esther's anxieties: she can exist and serve with them, but she slowly suffocates in stuffy, stagnant air'.[621] Gellir awgrymu bod y glochen hefyd yn portreadu seice rhywun sy'n dioddef o'r argyfwng dirfodol. Cysylltir yn aml deimladau o unigrwydd eithafol a diffyg heddwch mewnol â'r argyfwng gwacter ystyr. Ni all yr unigolyn ddeall y byd o'i gwmpas na'i le ynddo. Er gwaethaf rhwydweithiau ystyrlon a llwyddiant gyrfaol a phersonol, mae'r unigolyn yn dal i deimlo fel dieithryn anweledig – teimlad sy'n hollol amlwg yn achos Esther. Am y teimlad hwn, meddai Laing:

> It becomes a vacuum. Everything is there, outside; nothing is here, inside. Moreover, the constant dread of all that is there, of being overwhelmed, is potentiated rather than mitigated by the need to keep the world at bay. Yet the self at the same time longs more than anything for participation in the world. This, its greatest longing is felt as its greatest weakness and giving in to this weakness is its greatest dread, since in participation, the individual fears that his vacuum will be obliterated, that he will be engulfed or otherwise lose his identity.[622]

Mae modd dweud bod yr ofn a'r gwrthdaro a ddisgrifir uchod yn sail i deimladau digalon Esther wrth iddi gael ei dal yn y glochen. Trwy'r carchar gwydr hwn, adlewyrchir gwaharddiad poblogaidd y cyfnod a arweiniai'n aml at argyfwng dirfodol. I'r fenyw ifanc hon, cryfheir y teimladau o unigrwydd ac anobaith drwy awyrgylch myglyd y glochen. Gweithia'r ddelwedd, yn ôl marn Philip Beidler, 'as a seamless merging of the metaphorical and the existential'.[623] Er nad yw Esther yn 'sgitsoid' yn ôl y diffiniad arferol, disgrifia Laing y rhaniad a'r arwahanrwydd y mae'r fenyw yn eu teimlo yn berffaith, gan bwysleisio felly ei phroblemau dirfodol. Wrth adeiladu ar ei ddadleuon uchod, meddai ymhellach:

> [The individual] is split in two main ways: in the first place, there is a rent in his relation with his world and, in the second, there is a disruption of his relation with himself. Such a person is not able to experience himself 'together with' others or 'at home in' the world, but, on the contrary, he experiences himself in despairing

621 Summer Yasoni, 'Forget the Dreamer and Remember the Dream: A Study of Sylvia Plath's Fiction' (Traethawd Israddedig: Linfield College, Mai 2014), t.62.
622 Laing, *The Divided Self*, t.80.
623 Philip D. Beidler, *Scriptures for a Generation: What We Were Reading in the 60s* (London: Georgia University Press, 1994), t.160.

aloneness and isolation; moreover, he does not experience himself as a complete person but rather as 'split' in various ways.[624]

Gwelwyd effaith y rhaniad hwn yn *TH* wrth i Bet gael ei thynnu rhwng dyletswyddau'r wraig weinidog a rhyddid personol. Ond yn *TBJ*, dwyseir y teimladau hyn ac yn arbennig yr hunan rhanedig gan gyflwyno meddwl amhendant Esther drwy ddelwedd y ffigysbren. Yn wahanol i'r glochen a gynrychiola wahaniad y fyfyrwraig o'r gymdeithas yn bennaf, mae'r ffigysbren yn ceisio delweddu cymhlethdod yr hunan. Dychwelir at y ddelwedd hon yn y bennod nesaf o safbwynt ffeministaidd ond trwyddi, portreedir pob gwrthdaro, pob pwys cymdeithasol a phob teimlad euog sy'n achosi niwed i iechyd meddwl Esther. Meddai:

> I saw my life branching out before me like the green fig tree…
>
> From the tip of every branch, like a fat purple fig, a wonderful future beckoned and winked. One fig was a husband and a happy home and children, and another fig was a famous poet and another fig was a brilliant professor, and another fig was Ee Gee, the amazing editor, and another fig was Europe and Africa and South America, and another fig was Constantine and Socrates and Attila and a pack of other lovers with queer names and off-beat professions, and another fig was an Olympic lady crew champion, and beyond and above these figs were many figs I couldn't quite make out. (t.81)

Trwy'r canghennau niferus, gallwn weld awydd Esther i gael llwyddiant gyrfaol fel llenor, hapusrwydd teuluol gyda gŵr a phlant, ond hefyd ryddid rhywiol i enwi ond ychydig bethau. Ac er yr ymddengys fod digon o amrywiaeth, mae Esther yn cydnabod na fydd yn bosib iddi feddiannu pob cangen o'r ffigysbren, gan fod dewis ond yn gwawdio menywod y cyfnod. Nododd y fyfyrwraig:

> I saw myself sitting in the crotch of this fig tree, starving to death, just because I couldn't make up my mind which of the figs I would choose. I wanted each and every one of them, but choosing one meant losing all the rest…. (t.81)

Yn yr un modd, gwelwn yn *Revolutionary Road* berygl y caethiwed hwn. Fel Esther, mae April am deithio'r byd a byw bywyd i'r eithaf. Ond oherwydd ei bywyd fel gwraig a mam a'r ffaith fod ei gŵr, wedi'i dal mewn trap, nid yw hynny'n bosibl.[625] Fel yr oedd Bet Jones yn cael ei rhwymo gan ei chonfensiwn crefyddol, caethiwir Esther gan ei disgwyliad cymdeithasol fel menyw sy'n effeithio yn y pen draw ar ei phwyll. Yn ôl safbwynt y prif gymeriad, nid oes modd iddi ymarfer y rhinweddau dirfodol cyffredin megis dewis drwy ewyllys rydd neu brofi ei therfynau

---

[624] Laing, *The Divided Self*, t.17
[625] Yates, *Revolutionary Road*, t.28

ei hun. Ond yn hytrach, teimla Esther ddisgwyliad dirfodol i'w diffinio ei hun yn unol â safonau'r gymdeithas gan ddewis un o'r canghennau hyn. Meddai Jo Gill amdani:

> Because she has to choose just one of these figs (or life choices) – each of which seems to cancel out the others – she finds herself unable to do anything. Wurtzel reads this scene within the context of 1950s ideal of femininity: 'Plath' she argues, 'suffered from wanting so much in a world that did not allow women to want anything at all'[626]

Mae'r rhagrith a'r arwynebolrwydd sy'n llygru bywyd Esther yn ei hysgwyd i'w chraidd seicolegol a dirfodol wrth iddi gwestiynu holl bwrpas ac ystyr ei bywyd. Mae'n gofyn iddi ei hun, er enghraifft, a ddylai ddewis y llwybr confensiynol – sef bod yn wraig – er mwyn plesio ei chyfoedion gan fforffedu ei hapusrwydd yn y broses. Neu a ydyw hi'n ddigon dewr i dorri'n rhydd o'r confensiynau fel y gall fod yn llenor llwyddiannus? Ond fel y nodwyd, mae'r union ffaith bod y dewis hwn yn bodoli yn ansefydlogi'r fyfyrwraig uchelgeisiol yn ddirfodol; dewis a effeithiodd ar awdur y nofel hefyd.

Yn wahanol i Sylvia Plath, mae Esther, erbyn diwedd y nofel, fel pe bai'n llwyddo i ryw raddau i wella o'i hargyfwng gwacter ystyr a'i salwch meddwl. Fel y nododd Summer Yasoni: '[Esther] overcomes her existential anxieties and lives in two worlds, a woman's world where she can have kids and a husband and a man's world where she can have a respectable and successful career'.[627] Yn wir, teimlad o anobaith eithafol sydd wrth wraidd yr argyfwng gwacter ystyr fel arfer wrth i'r unigolyn fethu teimlo ei fod o werth yn gymdeithasol. Ond trwy fewnwelediad craff Esther ar ddechrau'r nofel, awgrymir bod cyfle i'r unigolyn godi o'r lludw:

> For a long time afterwards I hid them away, [mae'n sôn am yr anrhegion y derbyniodd hi yn ystod ei hamser yn yr Efrog Newydd] but later, when I was all right again, I brought them out, and I still have them around the house. I use the lipsticks now and then, and last week, I cut the plastic starfish off the sun-glasses case for the baby to play with. (tt.3-4)

Gan dynnu ar y cyfatebiaethau personol rhwng awdur a chymeriad unwaith eto, mae modd awgrymu bod Sylvia Plath yn trosglwyddo'i gobeithion dirfodol i'w phrif gymeriad sy'n llwyddo i ddod o hyd i'w ystyr lle na allai'r awdur wneud yr un

[626] Jo Gill, *The Cambridge Companion to Sylvia Plath* (Cambridge: Cambridge University Press, 2008), t.77.
[627] Yasoni, *Forget the Dreamer and Remember the Dream: A Study of Sylvia Plath's Fiction*, t.73.

peth. Ac o ganlyniad, ymddengys fod Esther yn trechu ei hargyfwng gwacter ystyr er mwyn byw yn heddychlon yn y pen draw.

Cymeriad arall sy'n brwydro â phroblemau dirfodol ac yn arbennig teimladau o wacter ystyr cyn ennill math o heddwch a phwrpas newydd tua diwedd y nofel yw Chief Bromden yn *OFOTCN.* Fel y nodwyd eisoes, cwestiynodd nofel Ken Kesey y rhagdybiaethau cymdeithasol a oedd yn amgylchynu gwallgofrwydd a'r seilam yn ystod y cyfnod gan roi ffocws ar bwysigrwydd yr unigolyn, rhyddid ac ewyllys rydd. A chan ystyried y ffaith mai dyma brif sylfeini dirfodaeth hefyd, nid yw'n syndod bod rhai ysgolheigion wedi tynnu sylw at y dylanwadau dirfodol yn nofel Kesey.[628] Ys dywedodd Carol Olson am yr awdur Americanaidd yn ystod y cyfnod dan sylw, gan grynhoi prif themâu nofel Kesey hefyd:

> Influenced by Existentialists such as Jean Paul Sartre and Albert Camus who popularized the philosophy that man is imprisoned in an absurd and purposeless world and can look to nothing outside himself for a sense of direction, contemporary American writers, in general, and novelists in the 1960's, in particular, began to debate whether madness itself might be the only sane response to an insane society, to question the very nature of reason and madness, and to explore both the creative and destructive aspects of insanity.[629]

Yn unol â'r dadansoddiadau uchod a chan adeiladu ar ddadleuon y penodau ac adrannau blaenorol, nid oes amheuaeth bod Kesey yn tynnu sylw at rai o'r dylanwadau dirfodol hyn yn ei nofel arloesol drwy leisiau ei gymeriadau. Ond er mai thema sy'n llawn potensial ydyw, mae'n rhaid nodi nad amcan yr astudiaeth yw cynnig dadansoddiad dirfodol cyflawn o *OFOTCN.* Yn hytrach, canolbwyntiwn yn fras ar frwydr ddirfodol Chief Bromden yn unig gan ehangu ar rai delweddau eraill.

Fel y dadansoddwyd ym Mhennod 4.3, llygrir llinach ac felly hunaniaeth Bromden gan ei fam, menyw sydd â chroen gwyn ac i bob golwg yr holl bŵer hefyd. Ac mae hi'n cynrychioli dechrau problemau dirfodol ei mab o ran perthyn ac ystyr. Wedi'r cyfan, o ganlyniad i'w fagwraeth anghonfensiynol, ymddengys fod yr Indiad yn cael ei rwymo rhwng dau ddiwylliant ac felly ddwy hunaniaeth. Ac oherwydd hyn, difethir ei hyder dros y blynyddoedd wrth iddo fethu ymarfer ei ewyllys rydd er mwyn dod o hyd i'w le a'i rôl gymdeithasol ar ei ben ei hun. Cyfranodd y methiant

[628] Gweler astudiaethau megis Michael Meloy, 'Fixing Men: Castration, Impotence, and Masculinity in Ken Kesey's One Flew Over The Cuckoo's Nest, *Journal of Men's Studies,* 17.1 (Gaeaf 2009), 3-14; Elaine Wàre, 'The Vanishing American: Identity Crisis in Ken Kesey's "One Flew Over The Cuckoo's Nest."' *Melus,* 13.3 (Hydref 1986), 95-101

[629] Carol Olson, 'Madness in the Contemporary American Novel' (Traethawd Doethuriaeth, University of California, 1977), t.22.

hwn, yn ôl rhai beirniad, at argyfwng hunaniaeth a gwacter ystyr yr adroddwr.[630] Ys dywedodd Wàre: 'because Bromden is torn between the desire to maintain his Indian heritage and the necessity of developing behaviour acceptable to the dominant white culture, he experiences an identity crisis'.[631]

Yn wir, er bod symptomau argyfwng hunaniaeth ychydig yn wahanol i'r argyfwng gwacter ystyr, gallwn weld cyfatebiaethau rhyngddynt a dylanwadau'r naill ar y llall. Eglurwyd: 'studies have revealed that in an existential crisis, a person is also faced with an identity crisis, insecurity, self-abandonment, alienation status, lack of motivation'.[632] Ar hyd ei oes, nid yw Chief Bromden wedi bod yn rhydd i ddewis ei hunaniaeth ei hun gan fodloni yn hytrach ar gonfensiynau sarhaus y gymdeithas fwrgais. Pan oedd yn ifanc, er enghraifft, llwyddodd ei fam i'w fychanu fel ei dad. Ac ar ôl iddo gael ei anfon i'r seilam, daeth Nurse Ratched a'r Combine i gynrychioli'r grym gormesol a waethygodd ei argyfwng dirfodol.

Nodwyd eisoes fod Chief Bromden yn brwydro i ddod o hyd i'w hunaniaeth yn wyneb ffyrdd rheolaethol dosbarth uchaf y gymdeithas a'r seilam. Ond heb bresenoldeb y ffigwr tadol cryf ac yn wyneb camdriniaeth y gymdeithas, sefydlodd Bromden ei hunaniaeth ar ystrydeb y dyn gwyn o'r Indiad. O ganlyniad, fe'i gwelwyd yn hyll ac yn dwp gan y gymdeithas ehangach, i gymaint graddau nesi iddo fynd i gredu hynny ei hun. Ond wrth iddo gydymffurfio â disgwyliadau a rhagfarnau hiliol y gymdeithas, ymddengys i'r Indiad golli craidd ei hunaniaeth a'i ystyr yn gyfan gwbl. Meddai: 'I wasn't even really me then; I was just being the way I looked, the way people wanted. It don't seem like I ever have been me'. (t.140) Gan ymhelaethu wedyn: 'it wasn't me that started acting deaf; it was people that first started acting like I was too dumb to hear or see or say anything at all'. (t.179)

Yng ngolau'r cyffesion hyn, Indiad diystyr, digartref a di-lwyth yw Chief Bromden a hyd yn oed ar ôl iddo ennill ychydig bach o hyder o ganlyniad i gyfeillgarwch ac arweiniad McMurphy, mae'n dal yn cwestiynu ei bwrpas a phwrpas y byd. Yn wyneb rhyddid posib, mae'n cyfaddef wrth y Gwyddel: 'I don't know

---

630 Gweler Robert P. Waxler, 'Mixed Ethnicity and Gender Issues Present Challenges to Manhood' yn *Social Issues in Literature: Mental Illness in One Flew Over The Cuckoo's Nest,* gol. gan Dedria Bryfonski (Detroit: Greenhaven Press, 2010), tt.143-153.

631 Wàre, 'The Vanishing American: Identity Crisis in Ken Kesey's "One Flew Over The Cuckoo's Nest"', t.98.

632 Joana Butėnaitė, Jolanta Sondaitė ac Antanas Mockus, 'Components of Existential Crisis : A Theoretical Analysis', *International Journal of Psychology: A Biopsychosocial Approach,* 18 (2016), t.13. A darpar yr astudiaeth hon ddetholiad o weithiau sy'n dadlau'r un peth.

where I want to go yet'. (t.265) Dyma amheuaeth a gadarnheir gan ei ffrind hefyd: 'I don't know what you can be Chief. You still got some looking to do.' (t.266) Fel y nodwyd eisoes, y digwyddiad sy'n sbarduno Bromden i ailafael yn ei gryfder unwaith eto yw marwolaeth anochel McMurphy. Archwiliwyd pwysigrwydd marwolaeth y Gwyddel eisoes. Nodir yma i Ken Kesey, trwy'r diweddglo annisgwyl, gyflwyno math o gylch dirfodol.

Fel y nodwyd, er bod McMurphy yn colli ei hunaniaeth yn y diwedd i'r system reolaethol, mae ei fywyd wedi rhoi ystyr, pwrpas a gobaith i'w gyd-ddynion ac yn arbennig i Chief Bromden. Ac ar ôl iddo ryddhau ei ffrind o'i boen a'i ddioddefaint, mae'r Indiad yn ennill cryfder a phwrpas a oedd yn absennol o'r blaen a gadawa'r seilam o'r diwedd gan ddweud: 'I felt like I was flying. Free.' (t.280) Wrth ystyried hyn ac wrth i McMurphy gyflwyno i'w gyd-ddynion y rhinweddau dirfodol a'r posibilrwydd o fywyd y tu allan i'r seilam a hunaniaeth arall, sylweddola'r dynion, gan gynnwys Chief *fod* dewis yn y byd. Ar ben hyn, drwy'r aberth mwyaf, pwysleisia McMurphy y dylai'r dynion gymryd y cam dirfodol at ryddid os ydynt am oroesi'r argyfwng gwacter ystyr. Rhan o ddarlun seiciatryddol ehangach y nofel yw'r argyfwng gwacter ystyr. Ac wrth i Ken Kesey dynnu ar ddadleuon dirfodol poblogaidd yr oes, gellir dadlau i'r awdur lwyddo i greu nofel a heriodd y pwysau a'r rhagdybiaethau cymdeithasol, gan roi llais a llwyfan i'r enaid coll ac ansicr.

Er yr awgrymir bod y cymeriadau dan sylw, Esther, Bromden a hyd yn oed Bet Jones yn gwella'n rhannol am eu bod yn gadael yr ysbyty erbyn diwedd y nofel, gellir dadlau nad ydynt wedi llwyddo i gael gwared ar eu hamheuon dirfodol yn llwyr. Gan adeiladu ar ddadansoddiadau diwedd Pennod 5.4, er enghraifft, nid yw Bet yn ddigon o wrthryfelwraig, fel y nododd John Rowlands,[633] i droi ei chefn yn gyfan gwbl ar ei chymdeithas a'i chonfensiwn. Sylweddola, yn hytrach, unffurfiaeth a gwacter ei bywyd bach wedi iddi adael yr ysbyty: 'mewn carchar y byddwn innau wedi mynd adref, ond ei fod yn garchar lle y cawn ryddid i frwydro'. (t.84) Ac yn yr un modd, pan fyfyria Esther Greenwood ar ei rhyddhad o'r seilam, poena'r fenyw am natur anrhagweladwy ei bywyd. Meddai: 'I had hoped, at my departure, I would feel sure and knowledgeable about everything that lay ahead – after all, I had been analysed. Instead, all I could see were question marks'. (t.257) Awgryma hyn fod y

[633] Rowlands, 'Tywyll Heno' yn *Kate Roberts: Ei Meddwl a'i Gwaith*, t.87.

pryderon dirfodol yn dal i orwedd o dan yr wyneb, pryderon sy'n amlwg ar waith yn achos prif gymeriad Ken Kesey hefyd.

Hyd yn oed ar ôl ei ddihangfa arwrol o grafangau'r Combine, mae meddwl Chief Bromden yn dal i gael ei lethu gan ansicrwydd. Wedi'r cyfan, nid yw'n siŵr ble i fynd, nawr fod rhyddid o'i flaen, ac meddai'n betrus:

> I might go to Canada eventually, but I think I'll stop along the Columbia on the way. I'd like to check around Portland and Hood River and The Dalles to see if there's any of the guys I used to know back in the village who haven't drunk themselves goofy…Mostly I'd just like to look over the country around the gorge again, just to bring some of it clear in my mind again. (tt.280-81)

Yn wyneb hyn, pwysleisir y ffaith nad yw'n teimlo ei fod wedi canfod ei le yn y byd eto. Ac o ganlyniad, mae'r Indiad yn dal yn llawn amheuon ynghylch ei bwrpas, pwrpas y byd o'i gwmpas ac ystyr ehangach ei fywyd.

Fel y dangosodd J. R. Jones – ac yn union fel salwch meddwl – problem oesol yw'r argyfwng gwacter ystyr sy'n gallu codi'n ddirybudd ar unrhyw adeg ac mewn amrywiaeth o ffurfiau. Pan yw unigolyn yn colli ystyr a phwrpas ei fodolaeth, er enghraifft – fel sy'n wir yn achos Bet, Esther a Chief Bromden – cwyd teimladau naturiol o ofid, anobaith a digalondid sy'n gallu dinistrio hunanhyder y dioddefwr wrth iddo geisio brwydro yn erbyn cythreuliaid mewnol. Ac fel y gwelir drwy brofiadau'r prif gymeriadau hyn, brwydr ddiddiwedd ydyw sy'n gadael ein hôl ar yr unigolyn. Ys dywedodd Len Bowers:

> The concept of mental illness thus serves mainly to obscure the everyday fact that life for most people is a continuous struggle, not to biological survival, but for a 'place in the sun,' 'peace of mind,' or some other meaning or value.[634]

Nid oes amheuaeth felly fod y meddylfryd dirfodol wedi cynnig mewnwelediadau gwerthfawr i broblemau seicolegol dyfnach y cymeriadau. Wrth fabwysiadu'r safbwyntiau hyn, dysgasom am helbul mewnol Bet Jones ac Esther Greenwood wrth iddynt gael eu rhannu rhwng disgwyliad a dymuniad. Enillasom hefyd ddealltwriaeth well o wreiddiau salwch seicolegol Chief Bromden wrth i greithiau ei fagwraeth effeithio arno drwy gydol ei fywyd. A gwelsom fod y cymeriadau eu hunain yn dysgu rhywbeth am eu profiad a thaith seiciatryddol.

Gwelir hefyd mor werthfawr i'n hastudiaeth yw darllen rhyngddisgyblaethol. Meddai Laing: 'the mad things said and done by the schizophrenic will remain

[634] Bowers, *The Social Nature of Mental Illness*, t.131.

essentially a closed book if one does not understand their existential context'.[635] A chan feddwl am hyn, os ydym am lwyddo i ddeall y gwallgofddyn, mae'n rhaid inni ystyried ei sefyllfa gymdeithasol, seicolegol a dirfodol yn ei gyfanrwydd. Wedi'r cyfan, salwch hynod gymhleth yw salwch meddwl sy'n dod i'r amlwg mewn amrywiaeth o ffurfiau. Ac er ei fod yn cymryd llawer o gryfder ac amynedd i wella o'r salwch yn bersonol, mae angen yr un rhinweddau hyn er mwyn ceisio deall cymhlethdodau'r meddwl o bersbectif allanol. Serch hynny, prin yw'r adegau lle y mae'r gymdeithas yn cofio hyn ac o ganlyniad, arweinia'r diffyg dealltwriaeth at fôr o gamsyniadau a rhagdybiaethau niweidiol. Gan gadw hyn yn y cof, eir ati yn adran olaf y bennod i ddadansoddi gwreiddiau'r stigma sy'n amgylchynu salwch meddwl gan ddadansoddi ei effaith ar y cymeriadau dan sylw. Archwilir o ganlyniad y siom, y cywilydd a'r anffafriaeth a gysylltir yn aml â'r meysydd seiciatryddol.

## 4.6 'Rydych Chi'n Wallgof!' Salwch Meddwl a'r Stigma: Yr ymateb cymdeithasol

Yn ôl ystadegau swyddogol, amcangyfrifir bod un allan o bedwar yn dioddef o ryw anhwylder meddyliol yn ystod eu bywydau, salwch sy'n gallu amrywio o orbryder ysgafn i feddyliau hunanladdol.[636] Yng ngolau hyn, boed yn deulu neu'n ffrindiau, cymdogion neu'n gydweithwyr, mae'n fwy na thebyg ein bod yn adnabod rhywun sydd wedi cael eu heffeithio gan broblemau seicolegol. Ond yn union fel y mae salwch meddwl yn ffenomen gyffredin, felly hefyd y mae stigma yn anffodus. Yn dra eironig ddigon, er gwaethaf y cysylltiad cryf rhwng y gymdeithas a salwch meddwl – cysylltiad sy'n darparu cyd-destun y bennod hon – methodd y gymuned â llwyr ddeall yr unigolion sâl hyn a'r canlyniad yw rhagfarn stigma a thabŵ.

Cyn mynd ati i ddadansoddi profiadau'r cymeriadau o stigma'r gymdeithas, mae'n rhaid ystyried yn gyntaf wreiddiau cymdeithasol dwfn y rhagfarn benodol hon. Ers Oes y Cerrig a darganfyddiad penglogau wedi eu tryffinio, hyd at ffolineb Ewrop fodern gynnar a chamdriniaeth Oes y Seilam, gwelir bod gwallgofiaid, ynfydion a'r anghyffredin bob amser wedi bod yn destun beirniadaeth y gymdeithas ehangach.[637] Yn ystod Oes y Dadeni Dysg, ystyriwyd gwallgofrwydd mewn termau

[635] Laing, *The Divided Self*, t.17.
[636] Mental Health Foundation, *Stigma and Discrimination* , <https://www.mentalhealth.org.uk/a-to-z/s/stigma-and-discrimination> [cyrchwyd 05 Ebrill 2018]
[637] Gweler Petteri Pietikainen, *Madness: A History* (London: Routledge, 2015);Tasha Stanley & History Cooperative, *A Beautiful Mind:The History of the Treatment of Mental Illness,*

goruwchnaturiol a disgrifiwyd menywod a oedd yn sâl yn feddyliol (yn fwy na dynion, er bod y label hon yn gyffredin ymhlith y boblogaeth wrywaidd hefyd) yn wrachod cythreulig.[638] Wedyn, ac ar ddechrau'r ddeunawfed ganrif, gwelwyd y gwallgof megis anifeiliaid dideimlad a bwystfilaidd y dylid eu rheoli gan ddefnyddio chwipiau, cyffion neu dynwasgodau (*strait-jackets*).[639] Ac yn ystod y blynyddoedd sy'n amgylchynu cyfnod yr astudiaeth hon, portreadid pobl sâl eu meddwl fel rebeliaid peryglus a fyddai'n bwgwth heddwch y gymuned.[640]

Yng ngolau hyn, ac wrth ystyried nifer o astudiaethau niferus a chyfoethog, teg yw dweud na chafodd yr unigolion hyn eu portreadu'n ffafriol o bell ffordd. Ys eglurodd Len Bowers: 'mental illness arouses natural feelings of revulsion, just as do deformity, disfigurement and ugliness. It turns the human being into a phenomenon which is both alien and inexplicable, eliciting responses of disaster and disgust.'[641] O ganlyniad i ganrifoedd o gamddealltwriaeth a chamdybiaethau, crëwyd delwedd benodol o'r meysydd seiciatryddol, y gwallgofdai a'u cleifion sydd ond wedi'i haflunio dros y blynyddoedd. Yn wir, nid oes amheuaeth bod pethau wedi newid yn sylweddol ers cyfnod y caethiwo mawr. Eto, mae sibrydon o'r rhagfarn gymdeithasol hon yn dal yn weddol amlwg yn yr oes bresennol. Hyd yn oed yn y ganrif hon, cysylltir teimladau o gywilydd, gwaradwydd ac unigrwydd ag anhwylderau meddyliol.[642] Gwelir y nodweddion hyn i gyd yn y llenyddiaeth graidd a gyhoeddwyd hanner canrif ynghynt. Oherwydd anallu'r gymuned ehangach i ddioddef y fath 'nonsens', sef salwch meddwl, y gwelir y stigma cyffredin hwn.[643]

O ran rôl y gymdeithas a salwch meddwl, meddai Szasz:

---

<http://historycooperative.org/a-beautiful-mind-the-history-of-the-treatment-of-mental-illness/> [cyrchwyd 07 Ebrill 2018] am hanes salwch meddwl a stigma.

638 Meddai Roy Porter, er enghraifft: 'In later centuries, "hysterical" women were stigmatized much as "witches" had been, though they escaped legal penalties: misogyny remained, only the diagnosis changed'. Gweler Porter, *Madness: A Brief History*, t.28.

639 Gweler Benjamin Reiss, *Theaters of Madness: Insane Asylums and Nineteeth-Century American Culture* (Chicago: Chicago University Press, 2008); Mark Stevens, *Life in the Victorian Asylum: The World of Nineteenth Century Mental Health Care* (Barnsley: Pen & Sword Books Ltd, 2014).

640 Gweler prif weithiau theoretig yr astudiaeth, adolygiad llenyddol a Phennod 2.

641 Bowers, *The Social Nature of Mental Illness*, t.129.

642 Gweler Paul Gilbert, 'The Relationship of Shame, Society Anxiety and Depression: The Role of The Evaluation of Social Rank', *Clinical Psychology & Psychotherapy*, 7.3 (Gorffennaf 2000), 174-189; Patrick W. Corrigan a Frederick E. Miller, 'Shame, Blame, and Contamination: A Review of the Impact of Mental Illness Stigma on Family Members', *Journal of Mental Health*, 13.6 (Gorffennaf 2004), 537-548; Krista Robbins, 'Social Cognitive Shame Theory: Understanding Shame and Society' (Traethawd Doethuriaeth, Nebraska University, Mehefin 2018). Erbyn 2018, bu ymdrech, o'r diwedd, i chwalu'r stigma. Cyfeirir at hyn yn nes ymlaen.

643 Brian K. Ahmedani, 'Mental Health Stigma: Society, Individuals, and the Profession,' *J Soc Work Values Ethics*, 8.2 (2011), 4-16

> The fact is that the person diagnosed as mentally ill is stigmatized – particularly if he has been confined in a public mental hospital. These stigmata cannot be removed by mental health "education" for the root of the matter is our intolerance of certain kinds of behaviour.[644]

Awgrymodd y seiciatrydd mai gwraidd stigma yw ein hanallu i ddeall yr anghonfensiynol. Wedi'r cyfan, ni all cymunedau'r llenyddiaeth graidd amgyffred pam na fyddai gwraig i weinidog eisiau cefnogi galwedigaeth ei gŵr; sut y mae carfan o ddynion yn methu â chydymffurfio â disgwyliadau derbyniol y gymdeithas; neu pam fod myfyrwraig ifanc yn anhapus gyda rhagolygon cyfyngol ei dyfodol. Yn hytrach, ac o ganlyniad i'w hymddygiad sy'n herio'r ystrydebau confensiynol, llygrir bywydau a hunaniaethau'r unigolion hyn gan y stigma cymdeithasol sy'n eu labelu'n sâl.

Yn wyneb gwaith pobl megis Szasz, cysylltir cyd-destun cymdeithasol a seiciatryddol cyfoethog â delwedd, rôl a hanes stigma. Fel y gwelwn, mae'n ffurfio rhan ganolog o lenyddiaeth graidd yr astudiaeth. O ganlyniad, defnyddia'r awduron dan sylw'r thema hon mewn modd gorddramatig ac eironig ar adegau, naill ai er mwyn gosod yr olygfa, pwysleisio eu neges neu ennyn ymateb oddi wrth eu cynulleidfa. Ond yn sgil hynny, gall stigma hefyd daflu goleuni ar frwydr ehangach. Eir ati yn awr i archwilio pwysigrwydd a thema stigma yn y gweithiau amrywiol wrth inni edrych, yn gyntaf, ar y rhagdybiaethau cymdeithasol a diraddiol sy'n gysylltiedig â'r meysydd a sefydliadau seiciatryddol. Eir ati wedyn i ddadansoddi elfennau ac effeithiau dyfnach stigma ar yr unigolyn bregus gan gynnig darlleniad rhyngddisgyblaethol ehangach i'r gweithiau.

Canolbwyntiwn i ddechrau ar ddelwedd a stigma'r seilam ei hun. Dyma stigma sy'n llygru bywydau a rhagdybiaethau'r cleifion hefyd. Yn unol â phortread y gwallgofdy bedlemaidd, egyr *TH, WFNI, OFOTCN* ac *UNOL* (amrywia *TBJ* ychydig) fel ei gilydd gyda golygfa gofiadwy o ward seicolegol neu gymuned anghyffredin wrth i'r llenorion gyflwyno môr o dryblith a phoenedigaeth yn syth o'r dechrau. Ffurfia'r tryblith hwn y canolbwynt i nofel Caradog Prichard. Trwy'r nofel hon, ac fel y nodwyd sawl gwaith drwy'r astudiaeth, mae Caradog Prichard yn tynnu ar y delweddau mwyaf erchyll er mwyn creu byd llawn gwallgofrwydd ac anhrefn. Ac er y rhoddwyd sylw gweddol fanwl i rai o'r portreadau hyn eisoes, adeiladwn arnynt yn awr gan ddefnyddio chwyddwydr stigma'r oes.

[644] Szasz, *Ideology and Insanity: Essays on the Psychiatric Dehumanization of Man*, tt.83-84.

Gan adeiladu ar drafodaethau'r adrannau blaenorol, yn ogystal ag ymddygiad rhyfedd yr adroddwr ei hun, cyflwyna'r llenor hefyd nifer o gymeriadau eraill sy'n cael eu portreadu mewn goleuni dirmygus. Gwelwn, er enghraifft, Harri Bach Closcia sy'n 'agor i falog a tynnu'i bidlan allan. Hi! hi! hi! medda fo trwy'i locsyn a'i thynnu hi i mewn yn i hôl mewn hannar chwinciad run fath a jacynbocs.' (t.8) Awgrymir hefyd anallu'r gymdeithas i ddioddef ffyrdd gwallgof Em Brawd Now Bach Glo, ar ôl iddo fynd ar goll un noson. Yn debyg i'r cymeriad Sali yn *TH* – er mai llawer mwy grotésg yw delwedd Caradog Prichard – portreedir Em fel anghenfil hunllefus:

> Roedd o r ganol Lôn Bost, yn cerddad yn siarp efo cama mân, fel tasa fo'n gwisgo sgert yn dynn am ei bennaglinia, a'i ên o'n sticio allan a'i lygaid o'n rhythu i fyny Lôn Bost. Roedd o wedi stwffio'i ddwylo i fyny llewys ei gôt, run fath â tasa fo'n hen ferch yn gwisgo myff. Roedd gwên ryfadd ar e wynab o, ac roedd o'n tynnu ei dafod allan, a golwg run fath â ci wedi bod yn lladd defaid arno fo.(t.36)

Gan dynnu ar ysbrydoliaeth delweddau annymunol yr unigolyn gwallgof sydd wedi bodoli ers y ddeunawfed ganrif, dyma Caradog Prichard wedi llwyddo i greu byd dros ben llestri sy'n unol â disgwyliadau rhagfarnllyd y gymdeithas gul. Wrth i'r bachgen gyrraedd y seilam ei hun tua diwedd y nofel, cryfheir y rhagdybiaethau hyn unwaith eto. Ar ôl cwrdd â'r dyn sy'n meddwl mai ef yw brawd-yng-nghyfraith Iesu Grist, profa'r bachgen deimladau cymysg, teimladau y mae'r cyhoedd yn gyffredinol yn aml yn eu profi wrth ymdrin â chlefydau seicolegol. Meddai: 'Dew, oeddwn i wedi dychryn. Oeddwn i ddim yn gwybod beth i neud, pun ta rhedag allan trwy drws ynta chwerthin yn ei wynab o.' (t.172) Yn wyneb gwallgofrwydd, ni ŵyr yr adroddwr a ddylai chwerthin neu fod yn ofnus a chan ystyried hyn, cynrychiola ei benbleth anallu'r gymdeithas i weld heibio'r stigma, methiant sy'n codi'n rhannol am na allwn ddeall na goddef unrhyw ymddygiad sy'n groes i'r norm.

Wrth ystyried y digwyddiadau hyn, a chan gadw holl ddelweddau eraill y nofel yn y meddwl, hawdd yw gweld ymwybyddiaeth Caradog Prichard o stigma'r oes wrth iddo greu darlun byw, eithafol o helyntion y gwallgofddyn a phortread y seilam. Adeiladir ar yr ymwybyddiaeth hon unwaith eto yn straeon Kate Roberts ac Angharad Tomos, wrth iddynt hwythau ddarlunio ward seiciatryddol sy'n llawn menywod sâl, yn unol â delweddau ystrydebol y cyfnod. Trwy stori fer hir Kate Roberts, er enghraifft, cydnabyddir y ffaith nad oes unrhyw breifatrwydd 'yng nghanol hen wragedd a'u haelodau wedi mynd yn anystwyth' (t.10) ar ward yr

ysbyty. Ond at hyn ac yn unol â'r delweddau erchyll sy'n codi o ganlyniad i flynyddoedd o stigma, portreedir rhai o'r cleifion fel pobl ddieflig a direidus neu hyd yn oed fel buchod afrosgo. Y gwaethaf ohonynt oll yw Sali; claf trwblus sy'n cydymffurfio â delwedd yr ynfyd anifeilaidd yn llwyr. Dywedir amdani er enghraifft: 'ei gwallt wedi'i glymu fel cynffon ceffyl a'i cheg ddi-ddannedd yn cnoi rhyw ddeilen de ddychmygol' (t.7) ac mae hyd yn oed yn troi'n dreisgar gan geisio lluchio Bet oddi ar ei gwely.

Adeiladir ar y ddelwedd syrcasaidd hon yn nofel Angharad Tomos. Disgrifia'r sgrechian annaearol y gellir ei glywed ar y ward gan y cleifion eraill, er enghraifft, ac yn sgil hynny, nododd hefyd fod 'llusgo ar lawr fel rhyw falwen anferth flodeuog yn ymddygiad cwbl dderbyniol yma'. (t.50) Mae modd dadlau mai delweddau eithafol a theatraidd bron yw'r rhain i gyd. Ond drwy eu cyferbynnu â llais yr adroddwyr – sy'n ymddangos yn ôl pob golwg yn weddol normal a dealladwy, er gwaethaf eu salwch meddyliol – mae Kate Roberts ac Angharad Tomos yn llwyddo i gwestiynu a chwalu'r stigma mewn modd anghonfensiynol gan ddangos digrifwch yr holl ystrydebau.

Gwneir yr un peth i ryw raddau yn nofel Sylvia Plath. Er i Esther gwrdd â menyw sy'n gwisgo gŵn llofft ac sy'n gweiddi am neidio allan o'r ffenestr yn ystod ei hymweliad cyntaf â'r ward, (t.150) cyflwynir delwedd braidd yn wahanol i argraff gyntaf Bet Jones ac adroddwr Angharad Tomos o'r seilam mewn gwirionedd, wrth i'r fyfyrwraig dynnu ar elfen erchyll ddyfnach, y stigma sy'n pennu mai bodau annynol yw pobl sâl eu meddwl. Ar ôl cyrraedd y ward, er enghraifft, sylwa Esther ar normalrwydd ymddangosiadol popeth, ac meddai:

> What bothered me was that everything about the house seemed normal, although I knew it must be chock-full of crazy people. There were no bars on the windows that I could see, and no wild or disquieting noises. (t.148)

Ar yr olwg gyntaf, ni cheir yn y nofel hon enghraifft o'r hyn y mae Goffman yn ei ddisgrifio fel sefydliad hollgynhwysol (*total institution*).[645] Trwy syndod Esther fodd bynnag, chwery Sylvia Plath â chulfarn arall sy'n amgylchu'r person gwallgof a'r seilam. Wrth iddi grwydro'r ysbyty, dywed: 'I realized that none of the people were moving', (t.149) gan ymhelaethu wedyn, 'the figures around me weren't people, but shop dummies, painted to resemble people and propped up in attitudes counterfeiting life'. (t.150) Yn wyneb absenoldeb bywyd bywiog ar y ward

[645] Gweler t.181 yr astudiaeth.

seiciatryddol, gwelir gwrthgyferbyniad llwyr rhwng y corff a'r meddwl. Er bod yr ysbyty a'r cleifion yn ymddangos yn weddol 'normal' ar yr wyneb, yn fewnol, dysgwn fod y sefyllfa yn hollol annormal. Ystyriwn waith arwyddocaol Goffman am y berthynas rhwng stigma a hunaniaeth. Yn ôl y cymdeithasegydd, wrth i'r unigolyn gael ei warthnodi gan y gymuned, cyll ei hunaniaeth a'i bersonoliaeth flaenorol yn gyfan gwbl ac yn hytrach:

> He is thus reduced in our minds from a whole and usual person to a tainted, discounted one. Such an attribute is a stigma, especially when its discrediting effect is very extensive; sometimes it is also called a failing, a shortcoming, a handicap.[646]

A gwelir y canlyniad hwn yn nofel Sylvia Plath. Ymddengys y cleifion y mae Esther yn eu gweld megis cregyn gwag. Ond trwy eu cyffelybu i fodau anghyflawn uchod, tyn yr awdur ar y frwydr gymdeithasol rhwng salwch meddwl a stigma yn ogystal â'r rhagdybiaethau sy'n amgylchu'r unigolion diystyr hyn. Maent yn wag ac yn annynol. Yr eironi, wrth gwrs, yw fod y cyfryw ymateb yn un gwag o gydymdeimlad ac yn bur annynol ei hun.

Nofel arall sy'n archwilio natur annynol dyn yn ei gyfanrwydd yw *OFOTCN*. Er bod y gweithiau eraill yn taflu goleuni ar y delweddau diraddiol amrywiol a welwyd yn y meysydd seiciatryddol, roedd nofel Ken Kesey ar y llaw arall yn llawn beirniadaethau'r cyfnod. Trwyddi, condemniwyd yr anffafriaeth gymdeithasol a seicolegol a ddifethai bywydau'r gwan a'r anghonfensiynol. Ys dywedodd Allan Tasman: '*One Flew Over The Cuckoo's Nest* galvanized a great deal of not only public concern, but public outrage'.[647] Trwy ddelweddau, cymeriadau a themâu *OFOTCN*, roedd Ken Kesey yn mynd i'r afael â sawl agwedd o stigma gan gyflwyno meddylfryd newydd i gynulleidfa'r oes.

Rydym wedi dadansoddi eisoes effaith rhagfarnau a labelu seiciatryddol y cyfnod ar ddynion y nofel, wrth iddynt gydymffurfio â stigma delwedd y claf. Yn ogystal â hyn, archwiliwyd canlyniad stigma'r gymuned parthed lleiafrifoedd ethnig ar iechyd a hunaniaeth Chief Bromden.[648] Ond trwy safbwynt uniongyrchol ac

---

[646] Erving Goffman, *Stigma: Notes on the Management of Spoiled Identity* (Englewood Cliffs: Prentice-Hall, 1963), t.3. Yn amlwg, gellir defnyddio'r dyfyniad hwn er mwyn disgrifio unrhyw un o'r brif gymeriadau mewn gwirionedd. Nid ymddengys un ohonynt yn 'gyflawn', er enghraifft. Ond yn hytrach, llawn diffygion cymdeithasol a seicolegol ydynt.

[647] Allan Tasman a Paul Jay Fink (gol), *Stigma and Mental Illness* (Washington: American Psychiatric Press, 1992), t.195.

[648] Gweler, Robert P. Waxler, 'Mixed Ethnicity and Gender Issues Present Challenges to Manhood' yn *Social Issues in Literature: Mental Illness in One Flew Over The Cuckoo's Nest,* tt.143-153 am astudiaethau ethnig.

agored McMurphy, cyflwynir dadansoddiad ehangach o ddylanwad stigma'r meysydd hynny. Ar ôl i'r Gwyddel drefnu taith bysgota fel y gallai'r dynion adael yr ysbyty am ychydig oriau ac ailafael yn eu hunaniaeth, sylweddola'r cleifion mor bwerus yw salwch meddwl. Wrth i aelod o'r cyhoedd ofyn a ydynt yn rhan o ryw glwb cymdeithasol, ateba Harding heb flewyn ar ei dafod:

> No, my friend. We are lunatics from the hospital up the highway, psycho-ceramics, the cracked pots of mankind. Would you like me to decipher a Rorschach for you? No? You must hurry on? Ah, he's gone. Pity. (t.204)

Dyma gyflwyno dylanwad anghonfensiynol stigma'r gwallgofddyn. Meddai wedyn yn dilyn ymateb y dyn:

> Never before did I realize that mental illness could have the aspect of power, *power*. Think of it: perhaps the more insane a man is, the more powerful he could become. Hitler an example. Fair makes the old brain reel doesn't it? Food for thought there. (t.204)

Trwy'r cyfarfod hwn, dysga'r dynion nad cael effaith ar eu canfyddiad eu hunain o'u salwch a'u hunaniaeth yn unig y mae salwch meddwl, ond gall hefyd ddylanwadu ar sut y mae'r gymdeithas ehangach yn eu gweld. Yn dilyn y sylweddoliad hwn ac am y tro cyntaf, dechreua'r cleifion ddeall grym y stigma sy'n amgylchynu pobl o'r seilam. A dysgant fod y gwallgof yn codi teimladau o ofn ar y gymdeithas gul. Yn wyneb hyn, gellir dweud bod Kesey wedi manteisio ar y delweddau ystrydebol, comedïaidd, dirmygus o'r rhai a ystyriwyd yn sâl eu meddwl er mwyn tynnu sylw at helynt y dyn 'gwallgof.' Meddai Baker:

> The fishing trip marks a breakthrough for the men on the ward – escaping the confines of the unit, the rules of Nurse Ratched, and discovering for the first time that there may be a paradoxical power in powerlessness, albeit in this particular case the power to ignite an outsider's fear and stigma.[649]

Trwy ddefnydd Kesey o eironi a hiwmor tywyll, yn ogystal â'r ffaith bod ei gymeriadau'n ymddangos fel pe baent yn cynnig mewnwelediadau digon craff, mae'r awdur, fel Sylvia Plath a Kate Roberts, yn dechrau daduno'r stigma a geir yn y byd hwn drwy gyflwyno safbwynt newydd o lygad y ffynnon. Wedi'r cyfan, dangosodd astudiaeth George Domino fod agweddau myfyrwyr tuag at ofal seiciatryddol yn newid yn sylweddol ar ôl gwylio'r ffilm.[650] Ac wrth siarad â *The*

---

[649] C. Baker et al, *Madness in Post-1945 British and American Fiction* (Basingstoke: Palgrave Macmillan, 2010), t.77.

[650] George Domino, 'Impact of the film, "One Flew Over the Cuckoo's Nest," on attitudes towards mental illness', *Psychological Reports,* 51.1 (Awst 1983), 179-82. Nodwyd yn yr adolygiad llenyddol

*Discovery Channel*, eglurodd Dr Frank Pittman '[that the novel] gave voice, gave life, to a basic distrust of the way in which psychiatry was being used for society's purposes, rather than the purposes of the people who had mental illness'.[651]

Cyn y nofel hon[652] a chyn i waith a dylanwad y gwrth-seiciatryddion gael effaith ar feysydd seiciatryddol y cyfnod, roedd yn dal yn rhaid i unigolion ar draws y byd ddioddef yn gymdeithasol ac yn emosiynol oherwydd stigma ac am fod gwreiddiau stigma'r gorffennol yn gryf iawn. Ni fwriedir canolbwyntio ar agweddau gwleidyddol a chymdeithasegol ehangach y rhagfarn hon, gan nad dyna amcan yr astudiaeth. Ond yn hytrach, cyflwynir dadansoddiad o safbwynt llenyddol. Deuwn yn awr at ail ran yr adran hon wrth inni edrych yn fwy penodol ar brofiadau emosiynol uniongyrchol y cymeriadau o'r stigma dinistriol hwn.

Er mwyn atgyfnerthu a deall y dadansoddiadau canlynol, mae'n rhaid dychwelyd yn gyntaf at fethiant cyffredinol y gymdeithas i ddeall clefydau seicolegol. Wrth sôn am ei brofiadau personol o salwch meddwl ac ymateb y cyhoedd, meddai Geraint Hardy:

> Pam fyswn i'n beirniadu rhywun am fod yn sâl? Pam fyswn i'n beirniadu rhywun am fod yn yr ysbyty a bod rhaid i mi fynd yno i'w gweld? Fyswn i ddim, a ddylai neb arall chwaith. Ond, yn anffodus, mae pobl yn beirniadu. Yn gwrthod cyfaddef mai salwch yw e ac yn ceisio ffeindio bai. A dyna wendid pobl – fedrwn ni ddim derbyn rhywbeth heb esboniad pendant. Mae'n rhaid bod 'na reswm dros yr yfed, mae rhaid bod 'na fai ar rywun – yn yr achos yma, y claf.[653]

Ac yn llawn eironi, meddai Glenda yn y ddrama, *Anweledig* wrth ddychmygu ymateb y gymdeithas i iselder:

> You don't want depression. Come this way. I've got the very thing for you. Cancer. The benefits of cancer far outweigh the benefits of depression. Better hospital treatment, the sympathy is greater, the success rates are higher. Have a badge.[654]

Ni thrinnir cyflyrau meddygol eraill megis clefyd y siwgr neu glefyd y galon yn yr un goleuni amheuol a rhagrithiol â chlefydau seicolegol. Os yw rhywun yn tisian neu'n pesychu, er enghraifft, tybiwn mai annwyd sydd arnynt. Neu os yw dyn

---

yr addaswyd y nofel i ffilm yn 1975 ac ers hynny, mae'r ddau gyfansoddiad wedi cyfrannu'n amhrisiadwy at chwalu'r stigma sy'n amgylchynu salwch meddwl a thriniaeth seiciatryddol.

651 Gweler cofnod o'r cyfweliad hwn ar wefan The Telegraph & Jon Swaine, *How "One Flew Over The Cuckoo's Nest" changed psychiatry* (01 Chwefror 2011), <https://www.telegraph.co.uk/news/worldnews/northamerica/usa/8296954/How-One-Flew-Over-the-Cuckoos-Nest-changed-psychiatry.html> [cyrchwyd ar-lein 09 Ebrill 2018]

652 Eto, dylid cyfeirio at yr adolygiad llenyddol am grynodeb o bwysigrwydd nofel Ken Kesey.

653 Geraint Hardy, 'Salwch yw e' yn *Gyrru Drwy Storom*, gol. Alaw Griffiths (Talybont: Y Lolfa, 2015), tt.40-41

654 Jones Williams, *Yr Anweledig.*

yn defnyddio baglau ac yn gwisgo cast, gallwn fod yn weddol sicr ei fod wedi torri'i goes. Ond ni cheir yr un sicrwydd hwn os yw'r unigolyn yn dioddef o ryw salwch meddyliol, a hynny oherwydd mai brwydr wahanol, fewnol a hynod bersonol ydyw. Am y gwahaniaethau hyn yn y meysydd meddygol, pwysleisiodd Szasz:

> Our refusal to recognize the differences between medicine and psychiatry – that is, between deviations from biological norms, which we usually call "illness" and deviations from psychological or social norms, which we often call "mental illness" – has made it possible to popularize the simplistic clichés of current mental health propaganda.[655]

Yn nhyb y gwrth-seiciatrydd, awgrymodd mai ein hanwybodaeth ein hunain yw'r hyn sydd wedi arwain yn rhannol at y gwahaniaethau a'r stigma sydd rhwng clefydau meddyliol a chlefydau corfforol, ystrydebau a welir yn eu holl amrywiaeth yn y llenyddiaeth dan sylw.

Yn *UNOL*, er enghraifft, ar ôl dysgu bod rhaid i'w mam weld y meddyg, tybia'r adroddwr mai salwch corfforol cyffredin sydd arni cyn i'w gymdogion egluro: 'dydy hi ddim yn sâl felly, wsti nghariad i ... mewn gwendid mae hi'. (t.165) Fel y trafododd Ffraid Gwenllian yn ei thraethawd, mae'n amlwg fod salwch ei fam yn dod fel sioc iddo, er ei fod ef a'r cymeriadau eraill wedi gwybod am ei chyflwr bregus ers cryn amser. Er y gallwn feddwl am hyn fel enghraifft o gymdogion a theulu'n ceisio amddiffyn plentyn bach, gall hefyd agor trafodaethau ar stigma'r salwch. Wrth i Gres Ifans gyfeirio at yr afiechyd am y tro cyntaf, er enghraifft, ceisia guddio'r peth drwy ddweud 'yr hen gricamala yna ydi o'. (t.107) A phan ddaw'r amser i'r cymdogion roi gwybod i'r bachgen am dynged ei fam, ni allant ddod o hyd i'r geiriau, sydd fel pe bai'n cynrychioli methiant y gymdeithas i ddeall salwch meddwl.

Wedyn, yn nofel John Idris Owen, ac wrth i'r prif gymeriad siarad â'i gariad, dywedir: 'tasa Mam wedi torri ei choes ne'n diodda'r o ryw afiechyd arall mi fyddat ti a dy fam yn blastar o gydymdeimlad'.[656] Ac yng ngolau'r rhagdybiaethau hyn i gyd, adeilada Esther Greenwood ar y stigma hwn hefyd gan ddatgan: 'I wanted to tell her that if only something were wrong with my body it would be fine, I would rather have anything wrong with my body than something wrong with my head'. (t.192)

Yn yr achosion hyn, mae'r cymeriadau'n sylwi ar sgeptigaeth y cyflyrau meddyliol ac yn sgil hynny, sicrwydd y problemau corfforol. Wedi'r cyfan, mae'n

---

655 Szasz, *Ideology and Insanity: Essays on the Psychiatric Dehumanization of Man*, t.79.
656 Idris Owen, *Gwyn eu Byd yr Adar Gwylltion*, t.124.

llawer haws deall a chydymdeimlo â rhywun sydd wedi cael llawdriniaeth neu dorri esgyrn na rhywun sy'n brwydro'n seicolegol. O ganlyniad, tueddwn i amau difrifoldeb y salwch mewnol. Ys dywedodd prif gymeriad *WFNI*, gan gyffelybu salwch meddwl i salwch corfforol:

> Dyna pam oedd yr holl gymariaethau fod salwch meddwl neu iselder yn union fel torri coes neu fraich yn abswrd. Mi gewch chi dorri'ch coes dros Dolig a fydda neb ddim dicach. Fyddan nhw'n bendant ddim yn eich cyhuddo o ddifetha'r ŵyl. Yn wir, mi fydda pawb yn gwneud ati i fod yn arbennig o glên efo chi, yn rhoi cyfarchion tymhorol ar y plastar Paris, ac yn ei addurno efo trimmings – unrhyw beth i godi'ch calon. Ond pan fo'ch calon wedi torri go iawn, does neb yn deall. Falla dylwn i lapio plastar rownd fy mron i wneud y peth yn amlwg. Ond dydw i ddim yn meddwl y buasen nhw'n deall wedyn. Fasan nhw 'mond yn meddwl' (sic) mod i'n Rhyfedd.[657]

Fel yr awgrymir yn sylwadau'r fam uchod, ac fel y nododd Patrick Corrigan ac Amy Watson, ymddengys fod pobl sâl eu meddwl, gan gynnwys cymeriadau'r llenyddiaeth graidd, yn dioddef ddwywaith.[658] Ar y naill law, mae'n rhaid iddynt ddelio â'r emosiynau, y pryderon a'r amheuon sy'n gysylltiedig fel arfer â chlefydau seicolegol. Ar y llaw arall, fe'u gorfodir hefyd i frwydro yn erbyn yr ystrydebau a'r rhagdybiaethau a ddaw i'r amlwg o ganlyniad i'r camdybiaethau sy'n amgylchu salwch meddwl.

Yng ngolau'r frwydr ddwbl hon, nid yw'n syndod yr amheuwyd dilysrwydd clefydau meddyliol gan y gymdeithas ehangach, mater a archwilir ymhellach yn *TBJ*. Ar ôl i Esther leisio ei hatgasedd tuag at fenywod eraill yr ysbyty meddwl a'i dymuniad i ddychwelyd adref, mae'i mam yn dehongli'r ymateb dirmygus hwn fel arwydd o'i gwellhad a'i challineb. Meddai'n ddifeddwl: 'I knew you'd decide to be alright again'. (t.154) Bychenir iselder ei merch fel pe bai ond yn ddewis drwg yn hytrach na'n dioddef o wendid seicolegol. Cwbl ddinistriol yw'r agwedd hon tuag at y fyfyrwraig fregus, wrth i'r stigma hefyd effeithio ar bosibilrwydd ei gwellhad. Mae'r stigma mor gryf fel bod Esther yn penderfynu gwahardd ei theulu a'i ffrindiau rhag ymweld â hi yn yr ysbyty fel y gall ddianc rhag y rhagfarn gymdeithasol.

Ymateb cyffredin yw hwn ymhlith aelodau teuluol. Tyn nofel Angharad Tomos hefyd sylw at y rhagfarn gyffredin:

> Roedd fy chwaer wedi gwylltio efo mi wedyn.
> 'Tasat ti 'mond yn gallu cael gwared o'r chwilen 'ma yn dy ben, a derbyn bywyd fel ag y mae. . .'

---

[657] Tomos, *Wrth fy Nagrau i*, t.160.
[658] Patrick W. Corrigan ac Amy C. Watson, 'Understanding the Impact of Stigma on People with Mental Illness', *World Psychiatry,* 1.1 (Chwefror 2002), 16-20

'Wyt ti'n meddwl 'mod i'n dewis bod fel hyn?'
'Ydw,' meddai'n siort. 'Mi ydw i. Ti'n meddwl dy fod wedi cael bargen wael, a ti wedi cael dy siomi efo bywyd. A ti'n gwrthod dod drosto.'
'Dwi'n "gwrthod" gwella, dyna ti'n ei ddeud?'
'Nage, ond ti'n ymdrybaeddu yn dy ddigalondid. Mae eisiau i ti ddechrau cyfri dy fendithion, a gweld yr ochr ola i betha.[659]

Trwy'r olygfa hon, portreedir y rhagfarn hurt ond cyffredin sy'n pennu mai bod yn ddramatig yn unig y mae'r unigolyn. Byddent yn teimlo'n llawer gwell pe baent ond yn ceisio canolbwyntio ar bethau positif yn hytrach na'r iselder. Wrth reswm, mae'n amlwg fod y safbwynt hwn yn gwbl ddiraddiol a thramgwyddus i'r dioddefwr. Ond mae hefyd yn farn sydd â'r gallu i ddinistrio'r unigolyn yn emosiynol ac yn seicolegol. Wrth i'r gymdeithas ehangach roi pwysau ar yr unigolyn i deimlo'n well ac yn hapus, profa'r dioddefwr deimladau o siom, cywilydd ac euogrwydd am na all fodloni disgwyliadau a normau'r gymdeithas. Yn ogystal â brwydro â'i gythreuliaid ei hun, mae'n rhaid iddynt hefyd ymdrechu i ennill derbyniad y gymuned. Yng ngeiriau Goffman:

> The standards he has incorporated from the wider society equip him to be intimately alive to what others see as his failing, inevitably causing him, if only for moments, to agree that he does indeed fall short of what he really ought to be. Shame becomes a central possibility, arising from the individual's perception of one of his own attributes as being a defiling thing to possess, and one he can readily see himself as not possessing.[660]

Dadansoddwyd effaith cywilydd ar feddyliau ac iechyd seicolegol y cymeriadau amrywiol eisoes drwy'r astudiaeth. Ond wrth edrych ar siom Bet, wrth iddi fethu â chydymffurfio â'i disgwyliadau fel gwraig gweinidog ac euogrwydd Esther am nad yw eisiau byw bywyd undonog gwraig y chwedegau drwy oleuni stigma'r cyfnod, cyflwynir agwedd arall i'r portread seicolegol.

Gan fethu â chydffurfio â'r safonau disgwyliedig, cydnebydd y cymeriadau amrywiol eu diffygion cymdeithasol ehangach gan wybod hefyd y bydd rhagfarnau dirmygus y gymdeithas yn effeithio ar bob cam o'u profiad seicolegol. Gall y stigma hwn gyfrannu, nid yn unig at eu penbleth yn y lle cyntaf, ond mae'n eu hatal hefyd rhag gwella gan ychwanegu at eu pryderon. Wedi'r cyfan ac yn unol â damcaniaeth uchod Goffman a'r gwrth-seiciatryddion eraill, clefyd cymdeithasol yw salwch meddwl a chanddo wreiddiau dwfn yn y gymuned ehangach. Ac yn union fel y gall

[659] Tomos, *Wrth fy Nagrau i*, t.159.
[660] Goffman, *Stigma: Notes on the Management of Spoiled Identity*, t.7.

cymdeithas hyrwyddo lles meddyliol da,[661] gall hefyd, yn fwy dinistriol byth, fanteisio ar y stigma hwn gan godi teimladau o waradwydd ac anobaith ymhlith dioddefwyr a chreu ofn a ffieidd-dod ymysg y gymdeithas ei hun. Perygl a welir drwy'r llenyddiaeth graidd.

Weithiau, ac fel yr awgrymir yn *OFOTCN*, gall yr ofn hwn hefyd gyrraedd yr unigolyn sâl ei hun wrth i nofel Kesey gynnig dadansoddiad arall ar un o swyddogaethau'r stigma. Defnyddia'r cymeriadau ef fel math o darian. Cyn i McMurphy gyrraedd y ward, er enghraifft, ymddengys fod y dynion yn weddol hapus yn cydymffurfio â delwedd y claf. Fel y nodwyd ar sawl achlysur drwy'r bennod hon, deallant eu rôl fel tegan Nurse Ratched a gellir hyd yn oed awgrymu eu bod yn teimlo'n ddiogel o dan orchudd hunaniaeth sydd wedi eu stigmateiddio. Yn wyneb y newid a ddaw yn sgil gwrthryfel McMurphy, pwysleisir maint difrod y stigma hwn drwy awydd Bromden i guddio a chymryd lloches y tu ôl i'r niwl trosiadol. Ac yn dilyn un digwyddiad dwys iawn ar y ward, meddai'r Indiad, 'And I'm glad when it gets thick enough you're lost in it and can let go, and be safe again'. (t.100)

Er ei fod yn gynnyrch y Combine, mae'r niwl hefyd yn darparu diogelwch i'r Indiad a'r dynion eraill. Wedi'i orchuddio yn ei niwl amddiffynnol, gall Bromden anwybyddu'r ffactorau allanol sy'n ei orfodi i wynebu a herio'r stigma cymdeithasol a seicolegol a roddir arno. Yn hytrach na throi at realiti lle y gallai'r Indiad fod yn rhydd a dod o hyd i'w hunaniaeth unwaith eto – rhywbeth dychrynllyd iawn ar ôl blynyddoedd o gaethiwed – dewisa'r Chief encilio i'r cysgodion a'r stigma.[662] Nododd James Edgar Skye: 'it is so much easier to hide behind the stigma than to face people saying get over it'.[663] Yn yr achos hwn, ac wrth feddwl am awyrgylch eithafol ward Nurse Ratched, ymddengys mai cydymffurfio â chanlyniadau'r stigma hwn yw'r opsiwn callaf. Pwysleisir unwaith eto natur ddinistriol ac effaith bellgyrhaeddol stigma'r cyfnod. Dyma'r stigma sydd wedi chwarae rhan mor amlwg,

---

[661] Mental Health Foundation, *Relationships in the 21st Century: The Forgotten Foundation of Mental Health and Wellbeing*, (Mai 2016), <https://www.mentalhealth.org.uk/sites/default/files/Relationships-in-21st-century-forgotten-foundation-mental-health-wellbeing-full-may-2016.pdf> [cyrchwyd 29 Gorffennaf 2018]

[662] Yn amlwg, gwyddwn ei fod yn llwyddo i gael gwared ar ei ofnau ac i ddod o hyd i'w hunaniaeth erbyn diwedd y nofel fel y dadansoddwyd ym Mhennod 4.4. Cyfeirio at profiadau cynnar Chief Bromden yn y nofel yn bennaf ydym yn yr adran hon fel y gallwn bwysleisio grym y stigma ar ward Nurse Ratched.

[663] James Edgar Skye, 'Will the Mental Health Stigma Ever End?' *The Bipolar Writer* (24 Mawrth 2018), < https://jamesedgarskye.com/2018/03/24/will-the-mental-illness-stigma-end/> [cyrchwyd 10 Ebrill 2018]

nid yn unig ym mywyd Chief Bromden ond hefyd ym mhrofiadau seiciatryddol yr holl gymeriadau amrywiol eraill.

Gobeithir bod yr adran olaf hon wedi dod â holl elfennau'r bennod at ei gilydd gan bwysleisio'r cysylltiad rhwng salwch meddwl a'r gymdeithas; yn arbennig wrth ystyried dylanwad stigma. Fel y dywedodd Goffman: 'the relationship of the stigmatized individual to the informal community and formal organizations of his own kind is then crucial'.[664] Fel y gwelwyd drwy'r adrannau amrywiol, nid oes amheuaeth nad yw'r gymdeithas a'i thraddodiadau'n gallu chwarae rôl amlwg wrth ddylanwadu ar brofiad seicolegol yr unigolyn. Yn ogystal â hyn, gall effeithio'n fawr ar y delweddau a'r rhagdybiaethau sy'n ei amgylchynu. Ac er y cydnabyddir bod agweddau ac ymarferion seiciatryddol wedi gwella ers cyfnod cyhoeddi'r llenyddiaeth,[665] rydym hefyd yn ymwybodol bod llawer o waith i'w wneud o hyd.[666] Ys dywedodd Petteri Pietikainen:

> There is a lesson to be learned from the history of madness: times change, theories of disordered brain and mind change, diagnoses change and forms of mental health change, but the mad, the lunatics, the insane and the mentally ill, in short, the mental sufferers always have to struggle for justice and defend their basic human rights in the face of indifference, mismanagement or, in extreme cases, sheer adversity and racial hygienic persecution.[667]

Prin yw'r adegau lle y mae'r gwallgof, y gwan a'r archolladwy yn ffynnu mewn cymdeithas anfaddeugar a didostur. Bodau cymdeithasol ydym ac mae'r hyn a ddywedwn a'r hyn a feddyliwn yn gallu cael effaith enfawr ar yr unigolyn. Ond er bod ein meddyliau, gweithredoedd a chredoau negyddol a rhagfarnllyd wedi cyfrannu at ddatblygiad stigma dros y blynyddoedd, mae modd dadlau bod gan y gymdeithas hefyd y gallu i gyflawni'r gwrthwyneb yn llwyr gan agor llygaid pobl a hybu lles meddyliol da.

Drwy ofalu yn lle cam-drin, cefnogi yn lle rhwystro, gallwn obeithio cyfrannu, yn union fel y gwnaeth Roberts, Prichard, Kesey a Sylvia Plath drwy

---

[664] Goffman, *Stigma: Notes on the Management of Spoiled Identity*, t.38.
[665] Mae arolwg 'National Attitudes to Mental Illness' wedi dangos ystadegau gobeithiol am anffafriaeth seiciatryddol yn 2015 wrth i fwy o bobl fabwysiadu meddylfryd agored i'r clefydau hyn. Gweler Time to Change, *Latest Survey Shows Public are Less Likely to Discriminate Against People With Mental Health Problems* (15 Gorffennaf 2015), < https://www.time-to-change.org.uk/news/latest-survey-shows-public-are-less-likely-discriminate-against-people-mental-health-problems> [cyrchwyd 26 Gorffennaf 2018]
[666] Gweler Time to Change Wales, *Mental Health Statistics and Facts*, <http://www.timetochangewales.org.uk/en/mental-health-stigma/stigma-statistics/?> [cyrchwyd ar-lein 26 Gorffennaf 2018]
[667] Pietikainen, *Madness: A History*, t.328

gyfrwng ei gweithiau amrywiol, at greu awyrgylch seiciatryddol iachaol wrth inni hefyd geisio newid y rhagdybiaethau hurt yr ydym wedi eu creu dros y canrifoedd.[668] O ganlyniad, gallwn geisio cael gwared ar y stigma seiciatryddol a chymdeithasol sydd wedi effeithio, nid yn unig ar Bet Jones, Esther Greenwood, cleifion *OFOTCN* ac adroddwr *UNOL,* ond hefyd filiynau o bobl ledled y byd.

Wedi dadansoddi rôl y gymdeithas yn y bennod hon, symudwn nesaf o'r macrocosm, hynny yw cymdeithas a Chymreictod, i'r meicrocosm, sef sefyllfa menywod a ffeminyddiaeth, sef testun y bennod nesaf. Rhoddir llwyfan i'r llais benywaidd yn bennaf oll wrth inni archwilio'r berthynas rhwng y fenyw a salwch meddwl drwy oleuni beirniadol. O ganlyniad, dadansoddir taith seicolegol menywod y chwedegau gan ddechrau gyda'r rolau a'r rhagdybiaethau ystrydebol yn gyntaf. Symudwn wedyn i'r helyntion a'r brwydrau amrywiol yr oedd menywod yn eu hwynebu, wrth i ambell ddynes ddod yn destun beirniadeth yr union gymdeithas yr oedd yn gaeth iddi.

---

668 Gweler Sara Honn Qualls, *What Social Relationships Can do for Health,* (3 Mehefin 2014), <http://www.asaging.org/blog/what-social-relationships-can-do-health> [cyrchwyd 30 Gorffennaf 2018] a Debra Umberson a Jennifer Karas Montez, 'Social Relationships and Health: A Flashpoint for Health Policy', *Journal of Health and Social Behaviour,* 51 (2010), 54-66.

# PENNOD 5

# Salwch meddwl a'r fenyw. Dadansoddi'r portreadau, yr ormes a'r gwrthryfel

## 5.1 Brwydr y Rhywiau: Menywod fel dioddefwyr neu ormeswyr

Am ganrifoedd, mae menywod wedi bod yn destun beirniaeth, anffafriaeth ac anghydraddoldeb. Ys dywedodd Ronald Inglehart a Pippa Norris:

> Women in many societies face endemic and substantial gender gaps in the division of household responsibilities, limited access to educational opportunities and economic resources, as well as legal and political barriers to positions of political power. Indicators of well-being ranging from literacy and longevity to labour force participation, poverty rates, and child mortality and schooling all reveal persistent disparities between women and men.[669]

Yn wir, gwelwyd anghydraddoldebau ym meysydd addysg a'r gweithle, o'r cartref i fyd gwleidyddiaeth, wrth i fenywod gael eu hepgor o'r cylchoedd cymdeithasol amrywiol drwy gydol eu bywydau. Yn y meysydd seiciatryddol, fodd bynnag, gwelwyd rhaniad amlycach byth. Meddai Phyllis Chesler:

> For years they denied themselves – or were denied – the provileges and rewards of talent. Like many women, they buried their own destinies in romantically extravagant marriages, in motherhood, and in approved female pleasure. However, their repressed energies eventually struggled free, demanding long overdue and therefore heavier prices: martial and maternal 'disloyalty,' social ostracism, imprisonment, madness, and death.[670]

Yn unol â'r rhagfarnau uchod, nid yn unig yr ystyrid dynion yn fodau cryfach yn gorfforol ond fe'u hystyrid hefyd yn bobl lawer mwy sefydlog yn emosiynol. Meddai Lewis Wolpert: 'it is widely believed that women are more emotional than men'.[671] Y datganiad hwn sy'n ffurfio'r sail i astudiaeth Phyllis Chesler, *Women and Madness* (1972). Ac fel y nodwyd yn yr adolygiad llenyddol, dyma'r hyn a drafodir yn frwd gan Simone de Beauvoir a Betty Friedan ymhlith eraill. O ganlyniad i'r gred hon, awgrymwyd bod menywod yn fwy tebygol o ddioddef o anhwylderau meddyliol yn eu ffurfiau amrywiol.[672] Fel y nododd Joan Busfield:

---

[669] Inglehart a Norris, *Rising Tide: Gender Equality and Culture Change Around the World*, t.4.
[670] Phyllis Chesler, *Women and Madness*, reprint edition (New York: Lawrence Hill Books, 2018) t.63
[671] Wolpert, *Why Can't a Woman Be More Like a Man? The Evolution of Sex and Gender*, t.94.
[672] Mae Cymdeithas Seicolegol America yn cyfeirio at y gwahaniaethau seicolegol rhwng dynion a menywod. Gweler, American Psychological Association, *Study Finds Sex Differences in Mental Illness* (Awst 2011), < http://www.apa.org/news/press/releases/2011/08/mental-illness.aspx> [cyrchwyd 27 Tachwedd 2017]

> Her claim (Chesler) is that gender is embedded in the concept of mental disorder itself and that there is a double standard of mental health, with the result that women are more likely than men to be defined as mentally disordered. Similar ideas about the link between women and madness are also put forward by Jane Ussher, *Women's Madness*, when she argues that women tend to be positioned as mad and sees this as a product of misogyny which silences women and renders them powerless. [673]

Dyma osodiad difrifol, heb os, ond er gwaethaf hyn, ceir tystiolaeth gadarn sy'n amlygu, nid gwirionedd y safbwynt o reidrwydd, eithr yn hytrach ei effaith, tystiolaeth a gyflwynir drwy hanes a phortread y seilam. Eglurodd Showalter:

> By the middle of the nineteenth century, records showed that women had become the majority of patients in public lunatic asylums. In the twentieth century too, we know what women are the majority of clients for private and public psychiatric hospitals, outpatient mental health services and psychotherapy; in 1967 a major study found 'more mental illness among women than men from every data source.'[674]

Dyma gred a gydnabyddir gan Phyllis Chesler hefyd. [675] Er bod salwch meddwl hyn glefyd amlwg ymhlith y rhyw wrywaidd – dynion sy'n cyflawni 75% o'r hunanladdiadau yn America bob blwyddyn[676] – ni allwn osgoi'r ffaith ychwaith fod gwallgofrwydd ac iselder yn gwbl bresennol ymhlith menywod. Yng Nghymru, mewn adroddiad gan Ysbyty Meddwl Dinbych a gyhoeddwyd yn 1950, pwysleisiwyd yr union beth.[677] Ynddo, gofynnwyd am ganiatâd i adeiladu dwy fila i fenywod, ac ond  un i ddynion, a hynny er mwyn ymdopi â'r galw cynyddol am help gan fenywod. Ar y pryd, menywod hefyd oedd mwyafrif y cleifion. Yn y flwyddyn honno, roedd 444 o gleifion benywaidd a 381 o gleifion gwrywaidd yn yr ysbyty meddwl. Yn yr un modd, roedd y nifer o dderbyniadau anwirfoddol yn uwch o ran nifer y menywod. Gwelwyd 284 o'r rhain, ffigwr ychydig yn uwch na'r 271 achos o dderbyn cleifion gwrywaidd, anwirfoddol. Yn fwy arwyddocaol, bu farw mwy o fenywod yn yr ysbyty meddwl, 66 ohonynt, rhif uwch o'i gymharu â'r 55 o farwolaethau ymhlith y cleifion gwrywaidd. Ym maes gweinyddol yr ysbyty, fodd bynnag, y gwelwyd y gwahaniaeth mwyaf. Yn ôl yr adroddiad, roedd yno 59 o nyrsys gwrywaidd cymwys, a dim ond 14 o nyrsys benywaidd cymwys. Trwy'r

---

[673] Busfield *Men, Women and Madness*, t.4.
[674] Showalter, *The Female Malady*, t.3.
[675] Chesler, *Women and Madness*, t.93
[676] Rob Whitley, *Men's Mental Health: A Silent Crisi*, Psychology Today (06 Chwefror 2017), <https://www.psychologytoday.com/gb/blog/talking-about-men/201702/mens-mental-health-silent-crisis> [cyrchwyd 15 Mehefin 2018]
[677] North Wales Mental Hospital Managenebt Committee, *The Second Annual Report 1$^{st}$ January 1950 – 31$^{st}$ December 1950*, [cyrchwyd ar-lein 13 Mawrth 2020] < https://archive.org/details/b30299913/mode/2up>

ystadegau hyn felly, pwysleisiwyd, nid yn unig amlygrwydd y fenyw fel claf, ond hefyd ei habsenoldeb o'r maes seiciatryddol proffesiynol. O ganlyniad, cadarnhaodd yr adrodd mai byd tra gwrywaidd yw'r maes hwn. Ac er mor dorgalonnus yw'r ffeithiau hyn, yr un yw'r sefyllfa heddiw.[678] Pam felly fod y ganran o gleifion sydd angen gofal mor uchel yn achos y fenyw?

Gellir dadlau bod yr ystadegau uchel hyn yn cyfeirio at y gred gynharach a bennai mai pobl wan yn emosiynol oedd menywod. Gellir tybio bod y breuder a nodweddid gan yr ystrydebau benywaidd wedi cyfrannu at ddelwedd y fenyw archolladwy, gan ddylanwadu yn ei dro ar y canfyddiadau seicolegol. Yng ngeiriau Busfield:

> Indeed, the belief that mental disorder is more common amongst women than men is itself both a reflection of, and a justification for, further assumptions about male-female differences. For many, it is linked either to the assumption that women are biologically and psychologically inferior to men and are more emotional, volatile and irrational. Or to the assumption that they are by nature, more vulnerable to the various strains and stresses of daily life and are, consequently more likely to become mentally disturbed.[679]

O ystyried mor gryf yw'r rhagdybiaethau hyn, nid yw'n syndod bod yr ymrafael seicolegol rhwng y rhywiau wedi dod yn destun poblogaidd i nifer o astudiaethau seiciatryddol a llenyddol dros y blynyddoedd.[680] Yng ngolau hyn, deuwn at sylfaen yr adran hon wrth inni edrych ar y frwydr rywiaethol a seicolegol yn ei chyfanrwydd. Dadansoddir yn gyntaf ddelwedd y fenyw archolladwy ac amlder y rhyw benywaidd yn yr ysbytai meddwl drwy lygaid y menywod hyn eu hunain. Symudwn wedyn i ochr arall y gad gan archwilio'r canfyddiadau gwrywaidd o'r profiad seicolegol benywaidd yn ogystal â'r rhagdybiaethau rhywiaethol sy'n tanio'r frwydr o hyd. Er y bydd yr adran hon yn canolbwyntio ar frwydr y fenyw yn benodol, bydd hefyd yn cynnig cyfle i drafod y sefyllfa'n wrthrychol drwy'r gwrthgyferbyniadau o fewn y llenyddiaeth graidd. A chan gadw hyn oll mewn cof, dechreuwn gan adeiladu ar ddelwedd y seilam a gyflwynwyd yn y bennod flaenorol,

---

678 World Health Organization, *Gender Disparities and Mental Health: The Facts*, <http://www.who.int/mental_health/prevention/genderwomen/en/> [cyrchwyd 20 Tachwedd 2017]
679 Busfield, *Men, Women and Madness*, t.13.
680 Rydym wedi cyfeirio at nifer o'r rhain eisoes drwy'r astudiaeth megis: Chesler, *Women and Madness*; Showalter, *The Female Malady*; Wolpert, *Why Can't a Woman Be More Like a Man? The Evolution of Sex and Gender.* Ond gellir darllen hefyd :Virginia Woolf, *Mrs Dalloway* (London: Hogarth Press, 1925); Michael Cunningham, *The Hours* (New York: Farrar, Straus a Giroux, 1988); Jane Ussher, *Women's Madness. Misogyny or Mental Illness?* (Hertfordshire: Harvester Wheatsheaf, 1991); Daniel Freeman a Jason Freeman, *The Stressed Sex: Uncovering the Truth about Men, Women and Mental Health* (Oxford: Oxford University Press, 2013).

gan awgrymu bod y delweddau a'r portreadau'n adlewyrchu beirniadaeth ffeministaidd y cyfnod.

Trwy dudalennau cychwynnol stori fer hir Kate Roberts, disgrifir ward yr ysbyty meddwl a chadarnheir gosodiad Elaine Showalter mai menywod yw mwyafrif y cleifion. Ar ôl sefydlu Bet Jones fel y prif gymeriad a'r adroddwr, dyma gwrdd â menywod eraill y ward sy'n cynnwys Magi, Sali Jane a Lisi. Menywod yw'r cleifion hyn i gyd. A thra mae Kate Roberts yn cydymffurfio â beirniadaeth ffeministaidd y cyfnod drwy dynnu sylw at ddioddefaint seicolegol merched ffuglennol, mae hefyd yn portreadu darlun gweddol ddiflas o'r ward lle y caethiwyd y menywod hyn. Oherwydd bod cymaint o gefndiroedd, straeon a gwahanol frwydrau personol yn yr ysbyty, delweddir y ward fel rhyw fath o dŷ bwyta yn y ddinas, wrth i'r gwragedd drafod pethau diniwed megis priodas a babis. Ond ar ôl edrych ar y byrddau unigol, sylweddola Bet Jones mai 'tristwch oedd yno' (t.17) yn unig, yn lle bwrlwm arferol y byd allanol. Am gymeriad y menywod hyn yn gyffredinol, meddai prif gymeriad nofel John Idris Owen:

> Merched heb urddas na balchder ynghlwm wrth gadair olwyn, pob un yn barodi brwnt o'r harddwch a briodolir i ferch. Un peth oedd yn gyffredin rhyngddynt, y diffyg gobaith yn eu llygaid oedd yn brawychu dyn.[681]

Ni cheir ar ward Kate Roberts fenywod gobeithiol chwaith ac ni welir yn *Wrth fy Nagrau i* fenywod sy'n ysu am fywyd llawn dyhead. Yn hytrach, llawn delweddau digalon am fywyd ar ward seiciatryddol yw'r ddau destun wrth iddynt osod y llwyfan ar gyfer y rhagdybiaethau a'r brwydrau seicolegol a rhywiaethol.

Oherwydd rhyngdestunoldeb fwriadol llyfr Angharad Tomos, mae agoriad *WFNI* yn adlewyrchu i'r dim gwaith Kate Roberts. O ganlyniad, cyflwynir eto ward ysbyty sy'n llawn menywod amrywiol. Ond ar ôl i brif gymeriad *WFNI* sgwrsio â Monica, sef claf ifanc arall, am bwrpas yr ysbyty fel noddfa dros dro, cyflwynir mewnwelediad prudd i fywydau'r menywod hyn. Wrth i Monica awgrymu bod bywyd yr ysbyty yn well na bywydau allanol rhai o'r cleifion, gwelwn wir fesur eu salwch a rhyfedda'r adroddwr: 'Edrychais o gwmpas y ward, a cheisio meddwl pa fath o fywyd oedd gan rywun os oedd fan hyn yn rhagori ar unrhyw le arall'.[682] Wedi'r cyfan, yn dilyn dadansoddiadau'r bennod flaenorol, portread gweddol ddiflas a beirniadol o brofiad seicolegol y fenyw a ddisgrifir yn y nofel hon.

---

[681] Idris Owen, *Gwyn eu Byd yr Adar Gwylltion*, t.105.
[682] Tomos, *Wrth fy Nagrau i*, t.105.

Yn *TH*, er enghraifft, ac er gwaethaf eu hamgylchiadau truenus, pwysleisir naws gymdogol y ward.[683] Mae'n ymddangos fel pe bai'r menywod hyn i gyd yn rhannu rhyw brofiad tebyg. Am ddewis derbyn cymorth seicolegol o'r diwedd, a dod i'r ysbyty meddwl, meddai Bet:

> Tybiwn y byddai'n well gennyf gwmni merched hen yn byw mewn byd hollol ar ei ben ei hun, wedi eu torri i ffwrdd oddi wrth y byd tu allan, ac efallai yn hapus oherwydd hynny. (t.16)

Yn y dyfyniad hwn, mae gwraig y gweinidog yn cydnabod bywyd caeth a chyfyng ei chymheiriaid benywaidd. Yn gyntaf, tybia Bet y byddai'n teimlo'n well wrth fod yng nghwmni menywod tebyg. Ond gyda hyn, mae hefyd yn cyfeirio'n ysgafn at y farn ffeministaidd fod y byd allanol yn effeithio ar hapusrwydd cyffredinol y fenyw. Er eu bod yn seilam, wrth iddynt fod yn eu byd bach eu hunain, yn rhydd o alwadau'r gymdeithas, awgrymir yn dra eironig y gallai menywod fod yn hapus. A phwysleisir gofod benywaidd diogel i'r menywod. Atgyfnerthir y teimlad hwn hefyd i ryw raddau yn *Wrth fy Nagrau i:*

> Mewn cymdeithas fyddai'n deall gwragedd, dw i 'mhell o fod yn siŵr a fydden ni mewn ysbyty o gwbwl. Byddai'n braf meddwl am gymdeithas ddelfrydol na fyddai'n rhoi cymaint o faich ar wragedd,' meddai Bet. 'Cymdeithas fyddai'n deall pa mor unig ydi hi weithiau i fagu plant a chadw tŷ, a bod yn wraig rinweddol, beth bynnag ydi ystyr hynny.[684]

Trwy eiriau Bet a'r fam yn *Wrth fy Nagrau i,* cyflwynir yr anghydraddoldeb sy'n bodoli rhwng y rhywiau yn y maes seiciatryddol. Amlyga eu profiadau personol fethiant y gymdeithas batriarchaidd i ddeall menywod yn gyffredinol. Os mai merched yw eu cyd-gleifion, amlygir hefyd drwy ddelwedd a rôl y dyn yn y ddwy nofel mor wrywaidd yw natur y gofal yn y meysydd seiciatryddol proffesiynol.

Er y rhoddir safle canolog i brofiadau ac emosiynau'r menywod hyn, cydnabyddir hefyd absenoldeb dynion o'r ward. Yn y ddwy nofel, nid oes sôn am ddynion yn yr ysbyty meddwl, ac eithrio'r ymwelwyr a'r meddygon, a neilltuir y dioddefaint meddyliol i gyd i'r menywod. Wrth ymdrin â'r rhaniad hwn a chan danio'r ddadl eto, gofynna prif gymeriad Tomos, 'sut llwyddodd y dynion mewn cotiau gwyn i'm cael i yma?',[685] cyn iddi gynnig ateb tra beirniadol wedyn mai oherwydd eu statws uwch y bu hynny. Meddai: 'dynion – yn wŷr a doctoriaid a ballu

---

683 Dywed un arall o'r ymwelwyr wrth Gruff, ar ôl iddo fethu â thorri brechdanau, gan atgyfnerthu'r ymdeimlad cymdogol: 'Hwdiwch, cymerwch rai o rhain gen i'. Gweler Roberts, *Tywyll Heno,* t.17
684 Tomos, *Wrth fy Nagrau i*, t.220.
685 Ibid., t.10.

benderfynodd mai dyna oedd ein lle'.[686] Yma, cyfeiria'r adroddwr benywaidd at y rhwystredigaethau a'r annhegwch pegynol a ddioddefa menywod oherwydd dynion.

Yn nofel Sylvia Plath, dadansoddir y camddefnydd hwn o rym ymhellach fyth. Yn debyg i nofel Angharad Tomos, dylid nodi unwaith eto fod Esther yn cael ei hamgylchynu gan fenywod ar y ward yn bennaf. Yr unig ddynion a welir yw'r rhai sy'n mwynhau safleoedd o rym dros y menywod fel doctoriaid a seiciatryddion. Ond yn ogystal â chyfrannu at ddelweddau a dadleuon poblogaidd y cyfnod, cyfeiria Sylvia Plath hefyd at amlder a chyffredinedd y rhaniad rhywiaethol hwn. Mynega Esther ei sioc, er enghraifft, wrth weld seiciatrydd benywaidd ar ôl newid ysbyty gan synnu: 'I was surprised to have a woman. I didn't think they had woman psychiatrists.' (t.196) Ac yng ngolau'r syndod hwn, gellir dehongli geiriau Esther fel enghraifft o'r feirniadaeth ffeministaidd wrth iddi dynnu sylw at absenoldeb arferol menywod o'r meysydd hyn ac, o ganlyniad, eu statws is. Mae Phyllis Chesler yn atgyfnerthu'r safbwynt hwn yn ei hastudiaeth. Noda mai dynion oedd naw 10% o seiciatryddion yn ystod y chwedegau a'r saithdegau yn America.[687] A chyfeiria, drwy'r astudiaeth i gyd, at gam-ddefnydd y byd gwrywaidd hwnnw o'i rym proffesiynol.

Cyfoethogir safbwynt beirniadol Esther gan ei chasineb tuag at yr ychydig ffigurau gwrywaidd a geir yn y nofel, gan gynnwys Dr Gordon, George Bakewell a'r stiward newydd sy'n dosbarthu tabledi i'r menywod. Trwy'r dynion hyn, ac yn arbennig Dr Gordon, cyflwynodd Sylvia Plath ei beirniadaeth ffeministaidd ar ofal seicolegol menywod y cyfnod; beirniadaeth a ddaeth yn hynod boblogaidd yn ystod y chwedegau a'r saithdegau. Cyfeiria Luke Ferretter at y llenyddiaeth a symudiadau pwysig hyn o amgylch gofal iechyd menywod yn ei ysgrif,'"Just Like the Sort of Drug a Man Would Invent": *The Bell Jar* and The Feminist Critique of Women's Health Care'.[688] Hollbwysig yw'r erthygl hon i'r dadansoddiad rhywiaethol, ond trafoda John Ehrenreich[689] a Ruth Rosen[690] y datblygiadau a dylanwadau hanesyddol yn eu hastudiaethau hwythau.

---

[686] Ibid., t.220.
[687] Chesler, *Women and Madness,* t.121
[688]Luke Ferretter, "Just Like the Sort of Drug a Man Would Invent": *The Bell Jar* and The Feminist Critique of Women's Health Care', *Plath* Profiles, Cyf 1 (Haf 2008), 136-158
[689] John Ehrenreich, *The Cultural Crisis of Modern Medicine* (New York and London: Monthly Review Press, 1978)
[690] Ruth Rosen *The World Split Open: How the Modern Women's Movement Changed America* (New York: Viking, 2000)

O ddechrau ymdriniaeth seicolegol Esther, tanlinellir yr anghydraddoldebau a fodolai rhwng y rhywiau yn y meysydd gofal iechyd. Yn gyntaf ac wrth geisio trafod ei salwch â Dr Gordon, disgrifir gwaharddiad y fyfyrwraig o'r hyn y mae Ferretter yn ei alw yn, 'the circle of knowledge and power'[691] – profiad a oedd yn gyffredin i nifer o fenywod y cyfnod yn ôl yr academydd. A chadarnheir y gred hon gan ail ymweliad Esther. Ar ôl iddi wasgaru darnau o lythyr wedi'i rwygo ar ddesg Dr Gordon, mae'r seiciatrydd ond yn dweud, 'I think I would like to speak to your mother'(t.142), gan gydnabod bodolaeth Esther fel goddrych yn unig.

Oherwydd y ffaith bod Esther *yn* rhwygo'r llythyr yn ddarnau, wedi peidio â golchi ei gwallt a newid ei dillad am dair wythnos, cosbir y fyfyrwraig ymhellach am ei hymddygiad anghyffredin ac anghonfensiynol. Er bod yr ymddygiad hwn yn codi yn sgil ei methiant o ran ysgrifennu thesis ar *Finnegan's Wake* a'i siom ynghylch ymuno â dosbarth ysgrifennu Harvard, nid ystyrir y rhesymau hyn gan y doctor gwrywaidd.

Mae Dr Gordon yn gweld hyn i gyd yn arwydd sicr o'i salwch meddwl wrth iddi herio'r norm 'benywaidd' ac yn dyfarnu ei bod yn sâl o ganlyniad. Ys dywedodd Luke Ferretter: 'Esther was authoritatively judged to be mentally ill because she was failing to conform to cultural norms of femininity'.[692] Yng ngolau'r toriad amlwg hwn oddi wrth y safon ddiwylliannol dderbyniedig, cyflwyna Sylvia Plath ddadl ychwanegol o ran triniaeth seicolegol annheg menywod a'r defnydd o therapi sioc trydan.[693]

Wedi derbyn y math hwn o driniaeth sy'n ceisio gwella personoliaeth niwrotig y fyfyrwraig, cyfeiria Esther at natur arswydus y profiad gan holi, 'I wondered what terrible thing it was that I had done'. (t.152) O ganlyniad, pwysleisir unwaith eto grym a phŵer dynion dros fenywod bregus. Yn hytrach na thriniaeth feddygol, cyffelybir y profiad i fath o gosb. Meddai Ferreter: 'Esther interprets the experience as a punishment for the transgression of her feminine role'.[694] Eglurodd Showalter ymhellach: 'they [menywod o Brydain sydd wedi dioddef yn feddyliol] transform the experiences of shock, psychosurgery and chemotherapy into symbolic

[691] Ferretter, '"Just Like the Sort of Drug a Man Would Invent": *The Bell Jar* and The Feminist Critique of Women's Health Care', t.150.
[692] Ibid., t.147.
[693] Dychwelir at hyn ym Mhennod 5.3 yn ei gyd-destun ehangach, cyfeirio at y delweddau ffeministaidd yn unig a wneir yma.
[694] Ferretter, '"Just Like the Sort of Drug a Man Would Invent": *The Bell Jar* and The Feminist Critique of Women's Health Care', t.152.

episodes of punishment for intellectual ambition, domestic defiance and sexual autonomy'.[695] Yn unol â dadleuon y cyfnod, trwy driniaeth seicolegol Esther a'i mewnwelediadau gwerthfawr, awgrymir bod dynion y nofel yn camddefnyddio eu safle proffesiynol fel meddyg i gilwenu ar ei chyflwr.

Wedi dweud hynny, dylid cofio mai menywod yw awduron y tair nofel dan sylw uchod dan. O ystyried hyn, mae modd awgrymu bod eu rhyw'n cyfrannu'n rhannol at y safbwyntiau dadleuol a geir yn eu llenyddiaeth. Ys dywedodd John Rowlands: 'mae'r ffaith fod Kate Roberts yn ferch yn berthnasol, ac mae'r ffaith ei bod yn sgrifennu ar adeg arbennig yn berthnasol hefyd'.[696] Ac adlewyrchir y perthnasedd hwn drwy ddelweddau'r llenor o fenywod a dynion. Er bod rhai cymeriadau gwrywaidd hoffus i'w gweld yng ngweithiau Kate Roberts fel Wil yn *TH*, gwelwn hefyd feirniadaeth ohonynt. A dyfynnu John Rowlands:

> Dynion efo'u delwedd *macho* sy'n fflawntio rhyw yn eu nofelau. A'r un fath gyda gwleidyddiaeth. Nhw ydi'r propagandwyr, y llywodraethwyr, y rhai sydd â'r awenau yn eu dwylo, a nhw hefyd sy'n meddwl, yn cynllwynio, yn terfysgu am newid.[697]

Ni all y darllenydd oddef Mr Meurig yn *Y Byw Sy'n Cysgu*, er enghraifft, ac er bod Gruff yn ymddangos fel dyn digon diddrwg, mae'n dal yn cael ei bortreadu fel cymeriad gwan sy'n ymgolli yn ei waith gan esgeuluso ei gyfrifoldebau teuluol a chyfrannu at salwch meddwl ei wraig. Ond, nid yw'r cymeriadau benywaidd i gyd yn llwyddo i ddianc rhag beirniadaeth Kate Roberts yn gyfan gwbl ychwaith.

Nodwyd eisoes fod menywod cryf a hynaws yn ffurfio canolbwynt gweithiau'r llenor. Ond cyflwynir hefyd ychydig o fenywod anhoffus. Maent yn cynnwys pobl fel Joanna Glanmor yn *Stryd y Glep*, Esta Ffennig yn *Y Byw Sy'n Cysgu* a menywod y capel yn *TH*. Mae'r menywod hyn mor barod i ildio i'w hamgylchiadau a'u disgwyliadau gan dderbyn y llwybr patriarchaidd cymdeithasol, nes ymddangos yn hollol wahanol i'r arwresau canolog, Melinda a Bet yn *TH*, ac Esther yn *TBJ*. Nid oes chwant ar y menywod uchod i dorri'n rhydd, fel sydd mor amlwg yn achos y lleill. Yn hyn o beth, gellir dehongli portreadau'r menywod hyn fel enghraifft o feirniadaeth ffeministaidd Kate Roberts a'i hymwybyddiaeth o'r disgwyliadau patriarchaidd. Maent yn ymddangos yn ddrych i ragfarnau eu cyfnod, a thrwyddynt, beirniada Kate Roberts yr ystrydebau confensiynol hyn. Fel y nododd Rowlands eto:

---

[695] Showalter, *The Female Malady*, t.210.
[696] Rowlands, *Ysgrifau ar y Nofel*, t.143.
[697] Ibid., t.132.

> Mae'r duedd hon yn Kate Roberts i gasáu rhai o'i chymeriadau (trwy gyfrwng cymeriadau eraill), gan eu cynysgaeddu â rhyw ddiefligrwydd anachubol, yn mynd yn groes i'r syniad arferol o ddawn faddeugar llenyddiaeth, a'i gallu i ddiarfogi'n hamheuon a'n casinebau wyneb yn wyneb â chymeriadau y buasem efallai'n eu cystwyo mewn bywyd bob dydd.[698]

Cydnebydd Derec Llwyd Morgan hefyd: 'it [llenyddiaeth Kate Roberts] is an observer's literature; she observes the effects of bad economics, rather than attacks what cause them'.[699] Nid ymddengys i'r menywod hyn ddioddef cymaint â'r prif gymeriadau benywaidd. Yn arbennig, ni cheir arwyddion o ddioddefaint seicolegol, a hynny oherwydd eu bod yn cael eu gosod yn yr un categori â dynion mewn gwirionedd. Yn wyneb hyn a chan ystyried y sbectrwm eithafol o gymeriadau a geir, ymddengys fod yr awduron benywaidd yn tynnu sylw at y gofynion afrealistig a roddwyd ar fenywod yn ystod y cyfnod.

Y ddelwedd gryfaf a geir o'r fenyw yn nofel Ken Kesey yw'r ddelwedd negyddol ohoni fel gormeswr. Nodwyd eisoes mai cymdeithas batriarchaidd a bortreedir yn *OFOTCN*. O ganlyniad, cyflwynir ochr a safbwynt gwrthgyferbyniol i frwydr y rhywiau, brwydr a gadarnheir gan raniad McMurphy sy'n disgrifio menywod naill ai fel 'ball-cutters' neu 'whores'. (t.54) Yn ôl agwedd y gwraig-gasäwr, mae modd awgrymu bod y menywod hyn yn benderfynol o ddominyddu eu gwŷr neu eu meibion ym mhob ffordd bosib. O ganlyniad i'r safbwynt dwys hwn, mae'r darluniau o fenywod fel ymosodwyr a dynion fel dioddefwyr yn gwbl glir. O'r herwydd, gosodir brwydr rywiaethol y nofel Americanaidd. Ond efallai'r enghraifft fwyaf eithafol o'r fenyw ffiaidd yw Nurse Ratched.

Ni welir hi fel menyw mewn gwirionedd ond yn hytrach, fe'i darlunnir fel rhyw anghenfil Frankensteinaidd bron. Mae ei henw hyd yn oed yn cynrychioli darn o beirianwaith sy'n cam-drin a cheisio trwsio'r cleifion i gyd. Meddai Irving Malin amdani:

> All of her gestures, commands, feelings, and possessions are mechanized: 'there's no compact or lipstick or woman stuff, she's got that bag full of a thousand parts she aims to use in her duties today – wheels and gears, cogs polished to a hard glitter, tiny pills that gleam like porcelain, needles, forceps…' she is precise, automatic.[700]

Yn ôl disgrifiadau Kesey, nid yw Nyrs Ratched yn meddu ar y nodweddion benywaidd arferol gan fodloni yn hytrach ar boen ac anhapusrwydd dynion. Dywedir

[698] Ibid., t.156.
[699] Derec Llwyd Morgan, *Kate Roberts,* t.47.
[700] Irving Malin, ' Ken Kesey: One Flew Over The Cuckoo's Nest', *Critique* 5.2 (Hydref 1962), 81-84

amdani: ‘[she] is an authoritarian, middle-aged woman who tries to impose her will upon her lunatics – she must make them fear and respect her so that she can feel superior’.[701] Y tro hwn felly, ac yn gwbl wahanol i *TH, TBJ* ac *WFNI* lle yr awgrymwyd bod y dynion yn cyflawni’r ormes gymdeithasol yn bennaf, portreedir y fenyw fel rhywun sy’n dylanwadu ar iechyd meddwl unigolion. O ganlyniad, cryfheir yr ymryson rhwng menywod a dynion sy’n ganolog i’r adran hon. O ystyried hyn, mae’n ddiddorol nodi mai’r unig fenywod a welir mewn goleuni ffafriol yw’r puteiniaid. Ond fel yr awgrymodd Robert Boyers, onid yw hyn oherwydd y ffaith eu bod yn plesio dynion?[702]

Fel y dywedodd Marcia L. Falk: ‘the only right-on women are mindless whores. In fact, if a woman is *not* totally mindless, she is a direct threat to (male) life,’[703] cyn gofyn yn weddol goeglyd, pwy yn union yw’r arwyr benywaidd yn nofel Ken Kesey. Gyda’i ffyrdd mecanyddol rheolaethol, mae Nyrs Ratched yn bygwth y ddelwedd a’r delfryd cymdeithasol siofinaidd. O ganlyniad, fe’i gwelir hi fel bwystfil ysgeler. Wrth i fenyw fod yn butain ar y llaw arall, ymddengys fod trefn y gymdeithas batriarchaidd yn ddiogel unwaith eto. Wedi’r cyfan ac yn wahanol i Ratched, gall McMurphy a’r cleifion gwrywaidd eraill fod yn feistri dros y menywod hyn. A chadarnha’r dynion eu statws uwch unwaith eto yn y broses.[704] Cyfeiria’r agwedd hon at un o frwydrau ehangach y nofel a’r gymdeithas. Yng ngeiriau Michael Meloy:

> In *One Flew Over the Cuckoo’s Nest,* these themes of control, submission and alienation link to gender, representing similar fears of female empowerment and a male power rendered impotent by a sterile social structure.[705]

Trwy’r delweddau annymunol a chiaidd amrywiol, mae modd awgrymu bod *OFOTCN* yn cynrychioli ofn cymdeithasol ehangach y cyfnod a ddaeth yn sgil blynyddoedd wedi’r Ail Ryfel Byd a’r Rhyfel Oer. Mae’n rhaid cofio y cyhoeddwyd nofel Kesey ar ôl yr Ail Ryfel Byd ac yn ystod cyfnod y diwylliant amgen lle yr oedd

---

[701] Ibid.
[702] Robert Boyers, ‘Porno-Politics’, *The Annals of The American Academy of Political and Social Sciences,* 376 (Mawrth 1968), 36-52.
[703] Marcia L. Falk, ‘Letter to the Editor’ *The New York Times* (1971), Gwelwyd ar <http://www.amerlit.com/novels/ANALYSIS%20Kesey,%20Ken%20One%20Flew%20over%20the%20Cuckoo's%20Nest%20(1962)%20analysis%20by%2015%20critics.pdf> [cyrchwyd 23 Tachwedd 2017]
[704] Cadarnheir y ffaith hon hefyd gan Boyers, ‘Porno-Politics’.
[705] Michael Meloy, ‘Kesey Critques a Society That Uses Fear and Conformity to Esmasculate Men’ yn *Social Issues in Literature: Mental Illness in One Flew Over the Cuckoo’s Nest,* gol. gan Dedria Bryfonski (Detroit: Greenhaven Press, 2010), tt.154-165.

agweddau'n newid yn raddol. Yn ateg i'r datblygiadau ffeministaidd ac fel y nodwyd yn fras ym Mhennod 2, roedd ffeministiaeth a syniadau ffeministaidd yn cynyddu wrth i nifer o fenywod fabwysiadu rolau y tu allan i'r cartref tra oedd y dynion yn ymladd yn ystod blynyddoedd y rhyfel. O ganlyniad, daethant yn gryfach ac yn fwy hyderus yn y meysydd cymdeithasol a gyrfaol. A dyfynnu Friedan: 'During the war, women's abilities, and the inevitable competition, were welcome; after the war they were confronted with that polite but impenetrable curtain of hostility'.[706] Ond wrth i fenywod ddechrau cynnal rolau cymdeithasol uwch, pryderodd rhai dynion y byddent yn cael eu hysbaddu ac adlewyrchir yr ofn hwn yn glir trwy frwydr ganolog y nofel.

Mewn un weithred dyngedfennol olaf tua diwedd y nofel ac er mwyn cadarnhau delwedd y dyn *macho,* mae McMurphy yn ymosod ar Nyrs Ratched gan agor ei blows ac yn sgil hynny, yn ymosod ar y ffurf fenywaidd. Meddai John A. Barsness: 'In a last defiant gesture, McMurphy rips the uniform from Big nurse, exposing her as a mere woman'.[707] Wrth iddo dynnu ei hiwnifform a dadlennu gwendid y fenyw o ganlyniad, cryfheir y frwydr emosiynol, seicolegol a chymdeithasol rhwng dynion a merched. Mae modd hefyd ddadansoddi'r weithred fel enghraifft o ymosodiad rhywiaethol sydd ond yn pwysleisio'r meddylfryd gwrywaidd.

Gan ystyried yr holl ddelweddau a chredoau cyferbyniol a bortreedir drwy'r gweithiau dan sylw, nid oes amheuaeth bod brwydr y rhywiau yn gwbl allweddol i ddealltwriaeth ehangach o'r llenyddiaeth graidd, boed hynny fel ffordd o fynd i'r afael â chonfensiynau ac ystadegau'r meysydd seiciatryddol neu fel enghraifft fwy uniongyrchol o'r rhagdybiaethau a chamdriniaeth rhwng y rhywiau. Gwelwyd hyd yma ddau safbwynt cyferbyniol gan y ddwy ryw. Yn nofel Islwyn Ffowc Elis, fodd bynnag, cawn gyfuniad o'r ddwy agwedd ddadleuol hyn a gwelwn ddwy ochr y frwydr rywiaethol o safbwynt y dyn.

Yn gyntaf a chan adlewyrchu naws *TH* a *TBJ* i ryw raddau, gwelir delwedd y wraig gaeth sy'n cael ei gormesu'n seicolegol gan y dyn. Wedi'r cyfan, nofel am rwystredigaethau cymdeithasol ac emosiynol y fenyw ydyw hon yn y bôn. Dywedir am y wraig: 'Wedi'i rhwymo wrth y pethau a adawodd iddi, wedi'i llyffetheirio â'i

---

[706] Friedan, *The Feminine Mystique,* t.149.
[707] John A. Barsness, 'Ken Kesey: The Hero in Modern Dress.' *Bulletin of the Rocky Mountain Language Association XXIII:* 1 (Mawrth 1969) 27-33.

haddewidion olaf iddo ef. Byw'r bywyd a gynlluniodd ef iddi, a'i fyw i'r llythyren ingol eithaf.'[708] Yn wyneb y disgrifiad hwn, gellir dadlau bod Islwyn Ffowc Elis hefyd yn potreadu'r frwydr seicolegol sydd rhwng y rhywiau gan gydnabod grym y gred siofinaidd reolaethol ar iechyd meddwl y fenyw. Ys dywedodd John Rowlands: 'Efallai, yn anymwybodol, fod Islwyn Ffowc Elis wedi creu nofel sy'n darlunio'r modd y llesteiriwyd y ferch greadigol gan gymdeithas batriarchaidd'.[709] Er gwaethaf hyn ac er bod y llenor yn darlunio chwalfa'r fenyw o ganlyniad i'w hamgylchiadau, y mae modd awgrymu nad yw'r nofel yn cyfleu gwir safbwynt ffeministaidd.

Atgyfnerthir y gosodiad hwn gan Rowlands eto wrth iddo nodi: 'prin bod y dehongliad yna'n dal dŵr o gofio mor anffeministaidd yw naws y nofel drwyddi draw'.[710] Ac er mai gwraig gaeth sy'n ffurfio canolbwynt y stori, nid yw ei phortread yn un ffafriol o bell ffordd. Ni all y darllenydd uniaethu â'i ffyrdd dengar, er enghraifft, wrth iddi fod wrth wraidd sylw sawl dyn. Ond yn sgil hynny, cadarnheir ein teimladau anffafriol tuag ati o ganlyniad i'w pherthynas â'r bardd ifanc talentog Aflan ar ôl iddi ddwyn gŵr gwraig arall.

Ond am brofiad seicolegol y wraig, meddai John Rowlands: 'nid yw'r realaeth seicolegol yn taro deuddeg chwaith – o bosib, am mai dyn yw'r awdur, ac nad yw'n gallu ymuniaethu â'i brif gymeriad'.[711] Ychwanega T. Robin Chapman at y feirniadaeth hon wrth iddo ddweud: 'It has been said that it would be enough of a challenge for a middle-aged woman to write convincingly of a woman's mid-life crisis, let alone a man in his early thirties'.[712] Gan hepgor pob emosiwn a theimlad ingol – teimladau a oedd yn hollbresennol yn *TH*, *TBJ*, ac *Wrth fy Nagrau i* – mae Ffowc Elis yn methu â'n hargyhoeddi â'i ddisgrifiadau seicolegol. Mae hyn yn cyfrannu'n ei dro at y gred nad yw dynion yn deall profiadau emosiynol y wraig.

Am y methiant hwn a chan ddychwelyd at *WFNI,* meddai prif gymeriad Angharad Tomos: 'ond y bore hwnnw, doedd gen i ddim i'w wneud, ac roedd fy mhen – a'm calon – yn gwbl gwbl wag. Dyna oedd o'i le, ond fasa'r dyn yn y gôt wen byth wedi deall hynny.'[713] Enghraifft berffaith o'r gwahaniaethau rhwng y rhywiau sydd wedi cyfrannu at ymryson rhywiaethol mewn amrywiaeth o feysydd yw'r gwrthgyferbyniad hwn. Mae'r gwrthgyferbyniad hwn ond yn cadarnhau

---

708 Ffowc Elis, *Ffenestri Tua'r Gwyll*, tt.9-27.
709 Rowlands, *Ysgrifau ar y Nofel*, t.209.
710 Ibid.
711 Rowlands, *Ysgrifau ar y Nofel*, t.208.
712 Chapman, *Islwyn Ffowc Elis*, t.34.
713 Tomos, *Wrth fy Nagrau i*, t.15.

damcaniaeth ganolog yr adran hon, bod yna gamddealltwriaeth rhwng y rhywiau sy'n dod â pheryglon difrifol. Wedi'r cyfan, nid yn unig bod y profiadau seicolegol rhwng menywod a dynion yn amrywio, fel y gwelwyd hyd yma yn yr astudiaeth, ond mae eu dealltwriaeth a'u hymdriniaeth o gyflwr y rhyw arall hefyd yn arddangos y gwahaniaethau ystrydebol rhyngddynt. Gan ystyried hyn ac wrth inni ddod at destun craidd olaf yr astudiaeth, archwilir yr amrywiadau a'r cyferbyniadau seicolegol hyn yn fanylach drwy gymeriadau *UNOL*.

Hyd yma, gwelwyd rhaniad amlwg rhwng dynion a menywod wrth i'w hagweddau cymdeithasol, gwleidyddol a seicolegol ddylanwadu ar gredoau a gwaith yr awduron unigol. Ymdriniaeth ychydig yn wahanol a geir yn nofel Caradog Prichard. Fel y nodwyd eisoes, nid yw gwallgofrwydd yn arf gwleidyddol a ddefnyddir er mwyn mynegi safbwyntiau cryf neu i reoli pobl yn *UNOL*. Yn hytrach, clefyd marwol ydyw sy'n heintio popeth a phawb, dynion a merched. Yng ngolau ei bresenoldeb cryf felly, mae modd dadansoddi profiadau seicolegol y rhywiau. Am y gwahaniaethau seicolegol sylfaenol hyn rhwng menywod a dynion, eglurodd Joan Busfield:

> Images of women frequently emphasise their softness, dependence and responsiveness to the feelings of others, as well as their tendency to feelings of anxiety, sadness and fear. In this way women are constituted as emotional, sensitive and irrational, men in contrast are constituted as more independent, tough-minded and rational, and when they display the emotions of rage and hate, this is less likely to be constituted as being 'emotional'.[714]

Yn ystrydebol – a hyd yn oed yn y degawd hwn i ryw raddau[715] – edrychwyd ar fenywod a oedd yn sâl yn feddyliol megis unigolion emosiynol a bregus bron wrth i ddynion ar y llaw arall dueddu i fynegi eu hansefydlogrwydd meddyliol drwy ddicter a thrais. Meddai Phyllis Chesler: 'It is important to note that "depressed women" are only *verbally* hostile; unlike most men, they do not Express their hostility physiclly'.[716] Cadarnheir yr ystrydebau hyn drwy ddelweddau a dadansoddiadau Caradog Prichard. Fel y gwelwn yn nes ymlaen, mae menywod *UNOL* megis Catrin Jên a mam yr adroddwr yn tueddu i arddangos eu gwendid

---

[714] Busfield, *Men, Women and Madness*, t.107.
[715] Denise Cummins, *Are Male and Females Equally Emotional? The Sexes Experience Emotions The Same But Process Them Differently* (23 Mehefin 2014), <https://www.psychologytoday.com/gb/blog/good-thinking/201406/are-males-and-females-equally-emotional> [cyrchwyd 18 Mehefin 2018]
[716] Chesler, *Women and Madness*, t.103

meddyliol drwy episodau tra theimladol a symudol.[717] Profiad hollol wahanol fodd bynnag a welir ymhlith dynion y nofel.

Trwy'r nofel, gwelwn ym camdriniaeth rywiol a digwyddiadau treisgar yn digwydd yn aml. Fel rheol, dynion sy'n gyfrifol amdano bob tro. Creadur gwyllt, er enghraifft, yw Yncl Now Moi. Rhy gweir i Moi ar ôl iddo ddweud celwydd digon diniwed, ond mae hefyd yn dal cyllell at wddf mam Moi, 'run fath â Joni Edwart Bwtsiar yn sticio mochyn pan aethom ni i'r lladd-dy ddoe'. (t.12) Cyfranna'r digwyddiadau hyn i gyd at sicrwydd y darllenydd mai dyn ansefydlog ei feddwl ydyw, gan gadarnhau natur ymosodol y cymeriad ffuglennol. Ond yn ogystal ag ymddygiad gwyllt y cymeriad hwn, drwy rai o weithredoedd y cymeriadau gwrywaidd eraill – dangosa Harri Bach Glocsia ei bidlan i'r bachgen, er enghraifft, a cheir awgrym difrifol am Em Now Bach Glo lle y dywedir ei fod 'wrth ei fodd yn mynd â genod bach efo fo am dro a codi'u dillad nhw' (t.37). Pwysleisir anhwylder meddyliol y dynion drwy eu gwyrdroad rhywiol a'u hymddygiad gwrthgymdeithasol, ymddygiad sydd ond yn cyfoethogi'r gred fod tuedd i ddynion fynegi eu gwrthdaro meddyliol drwy weithredoedd allanol amrywiol.

Yn achos yr adroddwr ei hun, fodd bynnag, portreedir enghraifft o sgil-effaith ddifrifol y ddwy ystrydeb. Gwelwn y frwydr emosiynol fewnol a seicorywiol, yn ogystal â'r gweithredoedd allanol treisiol wrth iddo fygu Jini Bach Pen Cae cyn mynd ati i'w ladd ei hun. Unwaith eto, gellir awgrymu bod hyn yn enghraifft o'r ystadegyn cynharach a nodwyd, sef bod dynion yn fwy tebygol o gyflawni hunanladdiad. Wedi'r cyfan, crogi'i hun hefyd a wna Yncl Now Moi. Trwy amlder yr hunanladdiadau ymhlith dynion y nofel, cyflwynir y rhagfarn mai delio â'u problemau seicolegol yn allanol y mae dynion, tra bo menywod y nofel yn fwy tebygol o fygu eu hemosiynau ar ffurf brwydr fewnol. Trwy brofiadau cymeriadau Caradog Prichard, dangoswyd nad yw dynion a menywod yn tueddu i ddioddef o'r un math o salwch meddwl nac ymdrin â'u hanhwylder meddyliol yn yr un modd ychwaith. Ac wrth gyferbynnu *TH* a *TBJ* â nofel Ken Kesey, archwiliwyd hefyd sylfeini brwydr y rhywiau lle y pwysleisiwyd anallu ac, i ryw raddau, amharodrwydd menywod a dynion i ddeall profiadau seicolegol ei gilydd.

[717] Gweler t.58 yr astudiaeth.

Yn wir, dadansoddiadau gweddol fras yw'r rhain i gyd ond wrth i'r astudiaeth a'r bennod hon ddatblygu, bydd y gwahaniaethau seicolegol rhwng y rhywiau yn dod yn fwy amlwg byth. Wedi'r cyfan, ac fel y dywedodd John Rowlands:

> Nid yn unig fod y ddau ryw'n fiolegol wahanol, meddir, ond ar ben hynny mae'u gwneuthuriad seicolegol yn wahanol, sy'n golygu bod eu profiadau'n wahanol. Nid trwy'r un sbectol y gwelant y byd. [718]

Yn yr un modd, meddai'r cymeriad yn llyfr Kate Bosse-Griffiths, *Mae'r Galon Wrth y Llyw*, 'siaradent ddwy iaith wahanol, fel petai, ac nid oedd yr un ohonynt yn barod i ddysgu iaith y llall'.[719]

Un peth a ddaeth i'r amlwg dro ar ôl tro ar ôl dadansoddi straeon y cymeriadau hyn – yn enwedig o graffu ar destun trwy sbectol ffeministaidd – oedd israddoldeb y fenyw. Wedi'r cyfan, fe'i portreadwyd fel y rhyw wannach yn gorfforol, yn ddeallusol ac yn emosiynol. Ar ben hynny, pwysleisiwyd culni bywydau'r menywod hyn. Ys dywedodd Simone De Beauvoir: 'The advantage man enjoys and which manifests itself from childhood onward is that his vocation as a human being in no way contradicts his destiny as a male.' [720] Ni chyfyngir dynion yn broffesiynol, yn bersonol nac yn gymdeithasol. Mae menywod, ar y llaw arall, yn gaeth i rai sfferau penodol. Fel arfer, mae'r rhain yn cynnwys y teulu neu'r tŷ. Ys dywedodd Bet:

> Ni châi llawer o'r merched hyn byth fynd. Mewn carchar y byddwn innau wedi mynd adref, ond ei fod yn carchar lle y cawn ryddid i frwydro, ond yr oedd yr hen ferched yma wedi gorffen brwydro; yn disgwyl y diwedd pa bryd bynnag y deuai. Na, nid ei ddisgwyl yr oeddynt; dim ond ei aros oni ddeuai. (t.84)

O ystyried hyn, canolbwyntia ran nesaf yr astudiaeth ar fywyd llethol y fenyw yn fwy penodol. Archwilir y sffêr ddosmestig a'i pheryglon, a phryderon y menywod hyn sy'n gaeth iddi.

[718] Rowlands, *Ysgrifau ar y Nofel*, t.132.
[719] Bosse-Griffiths, *Mae'r Galon Wrth y Llyw*, t.155.
[720] De Beauvoir, *The Second Sex* (New York: Knopf, 1953), t.723

## 5.2 Cyfyngder y Sffêr Ddomestig: Y rolau benywaidd a'u peryglon

Wrth drafod naws *Tywyll Heno* – naws ddadansoddol a beirniadol a oedd yn boblogaidd iawn yn ystod y cyfnod – meddai Katie Gramich, 'Kate Roberts's *Tywyll Heno* is a contemporary-set novella, which can be seen to engage with issues of female selfhood and notions of belonging very specific to the transitional period of the 1960s'.[721] Fel y nodwyd, roedd cenhedlaeth weithgar y cyfnod, ac yn arbennig menywod, yn benderfynol o ddod o hyd i'w hunaniaeth a'u lle yn wyneb cymdeithas draddodiadol y pumdegau a'r chwedegau. Ond er gwaethaf y meddylfryd newydd a fyddai'n lledu dros y byd i gyd, yn ogystal ag ymdrechion y menywod hyn, roedd disgwyliad y gymdeithas ynghylch rôl y wraig a lle yr oedd hi'n perthyn yn gymdeithasol yn dal yn gyfyng iawn.

Ers blynyddoedd, cydnabuwyd gwahaniaeth amlwg rhwng yr hyn a ystyriwyd yn waith y dyn a'r hyn a welwyd yn waith i fenyw, hynny yw'r sfferau cymdeithasol. A thrwy'r canrifoedd, mae dyn a dynes wedi cael eu gorfodi i gydymffurfio ag ystrydebau cymdeithasol o'u herwydd. Ystyrier y dyfyniad canlynol:

> A male *Homo sapiens* is one who has one X chromosome and one Y chromosome; a female is one with two Xs. But 'man' and 'woman' name social, not biological categories… A man is not a Sapiens with particular biological qualities such as XY chromosomes, testicles and lots of testosterone. Rather, he fits into a particular slot in his society's imagined human order. His culture's myths assign him particular masculine roles (like engaging in politics), rights (like voting) and duties (like military service). Likewise, a woman is not a Sapiens with two X chromosomes, a womb and plenty of oestrogen. Rather she is a female member of an imagined human order. The myths of her society assign her unique feminine roles (raising children), rights (protection against violence) and duties (obedience to her husband).[722]

Uchod, cyfeiria Yuval Noah Harari at y mythau cymdeithasol a rhywiaethol amrywiol sydd wedi amgylchynu menywod a dynion ar draws y canrifoedd. Fel yr awgrymir drwy'r dyfyniad, disgwyliwyd rhinweddau gwahanol gan y ddwy garfan. O safbwynt y fenyw, er enghraifft, ac o ganlyniad i'r myth hwn – mae'n rhaid cofio bod y ddelwedd ond wedi cael ei chwalu'n weddol ddiweddar, er bod rhagfarn gymdeithasol i'w gweld o hyd[723] – roedd tiriogaeth a theyrnas y wraig yn gwbl glir.

---

[721] Gramich, *Twentieth-Century Women's Writing in Wales: Land, Gender, Belonging*, t.130.
[722] Yuval Noah Harari, *Sapiens: A Brief History of Humankind* (London: Vintage Books, 2011), t.166.
[723] Yn ôl geiriadur Merriam Webster, gair y flwyddyn oedd 'ffeminist' yn 2017. Ond yn wyneb y symudiadau '#MeToo' a 'Time's Up' a sefydlwyd yn Hydref 2017 ac Ionawr 2018 yn ôl eu trefn,

Yn wahanol i ddynion a ystyriwyd yn bobl gref a chadarn, portreadwyd menywod fel unigolion gwan, emosiynol a bregus eu natur.[724] Yn wyneb hyn, cyfyngwyd nifer o wragedd y cyfnod dan sylw i'r meysydd domestig. Ynddynt, roedd disgwyl iddynt fod yn wraig neu'n fam yn unig. Am y ddelwedd ystrydebol hon, meddai Wolpert: 'Many believed women's work should be as a wife and mother'.[725] Ac eglurodd Szasz: 'nineteenth-century European physician was identified with, and often served the interests of, the capitalist state: he believed, for example, that the woman's duty was to be wife and mother'.[726]

Ys eglurodd prif gymeriad *WFNI* flynyddoedd wedyn, gan adlewyrchu'r un chwerwdod: 'Gŵr, tŷ, babi. Peth fel hyn oedd o. Ro'n i'n llnau'r tŷ, yn caru'r gŵr ac yn bwydo'r babi. Oedd disgwyl imi wneud rhagor?'[727] Yn wir, sefydlwyd ym Mhennod 2 gyd-destun hanesyddol delwedd 'y sffêr ddomestig' ond yng ngoleuni dadansoddol yr astudiaeth hon, eir ati yn awr i archwilio cyfyngder y sffêr o safbwynt seicolegol beirniadol. Dadansoddir delwedd ystrydebol y wraig yn y gweithiau craidd drwy lygaid patriarchaidd a ffeministaidd gan dynnu sylw at y peryglon a'r anfodlonrwydd a ddaeth yn sgil y rhagdybiaethau hyn.

Yn ôl geiriadur Prifysgol Rhydychen, diffinnir y term gwraig tŷ *(housewife)* yn nhermau, 'a married woman whose main occupation is caring for her family, managing household affairs, and doing housework'.[728] Ac o ganlyniad i rym y gymdeithas fwrgais a'r dosbarth canol rheolaethol,[729] sefydlwyd y ddelwedd ddiraddiol hon o'r wraig tŷ brysur, ymroddgar ond penwan i raddau fel y brif fodel fenywaidd ledled y byd.[730] Fel y disgrifir gwraig yn nofel Islwyn Ffowc Elis er

---

cydnabyddir anghydraddoldebau rhwng y rhywiau o hyd. Gweler Jack Duckett, *Navigating Feminism in 2018* (10 Ionawr 2018), < http://www.mintel.com/blog/consumer-market-news/navigating-feminism-in-2018> [cyrchwyd 14 Mehefin 2018]

724 Dadansodda Lewis Wolpert, *Why Can't a Woman Be More Like a Man? The Evolution of Sex and Gender* (London: Faber & Faber, 2014) y rhagdybiaethau a'r dadleuon o amgylch y brwydr rhwng y rhywiau.

725 Wolpert, *Why Can't a Woman Be More Like a Man?*, t.112.

726 Gweler Szasz, *The Myth of Mental Illness*, t.62.

727 Tomos, *Wrth fy Nagrau i*, t.13.

728 'Housewife' yn Oxford Dictionaries, <https://en.oxforddictionaries.com/definition/housewife> [cyrchwyd 22 Mawrth 2017]

729 Davies, *Women, Class and Race*.

730 Gweler Ellen Castelow, *The 1950's Housewife*, Historic UK < http://www.historic-uk.com/CultureUK/The-1950s-Housewife/> [cyrchwyd 11 Hydref 2017] am ddadansoddiad o'r ddelwedd hon. Ond gwelwn y ddelwedd hefyd mewn astudiaethau cynorthwyol ar y pryd megis, Dorothy Lois Abel, *Making Housekeeping Easy* (New York: Funk and Wagnalls, 1948) ac yn ogystal, gan gasgliadau modern gwahanol gan gynnwys, Good Housekeeping, *Good Housekeeping: The Best of the 1950s* (New York: Good Housekeeping, 2008); Sheila Hardy, *A 1950's Housewife: Marriage and Homemaking in the 1950s* (Stroud: The History Press, 2013). Dyma weithiau sy'n dyfynnu

enghraifft: 'Diddordeb mewn gwneud teisen, oes. Diddordeb mewn gwisgo'r plant yn ddel, oes. Ond diddordeb yng nghrefft a chelfyddyd sgrifennu nofel – dim oll.'[731] Yn unol â barn siofinaidd y cyfnod, portreada Ffowc Elis ddelwedd ystrydebol y fenyw sydd heb feddwl ond sydd â diddordeb mewn gwaith di-her domestig.

Ystyriwyd y gwaith hwn – sef gwaith y wraig tŷ – yn waith gwasaidd, isel ei werth cymdeithasol, ac felly yr edrychwyd ar fenywod hefyd. Yn ôl y ddamcaniaeth ffeministaidd, ni ddisgwyliai'r gymdeithas batriarchaidd lawer oddi wrth fenywod mewn gwirionedd a pharhaodd y cytgord cymdeithasol i fod yn ddiogel ar yr amod bod y llestri wedi'u golchi, y te wedi'i baratoi a'r tŷ wedi'i lanhau. Wedi'r cyfan, cyflawni eu tynged yn unol â'r farn siofinaidd yr oeddynt yn y bôn. Fel y dywedodd John Rowlands, '... ac onid unig ddyletswydd gwraig yw, wel – *bod* yn wraig?'[732] Yn yr un modd, meddai Frank Wheeler yn *Revolutionary Road* am ddisgwyliad y fenyw: 'I mean *you* know, attract a man, establish a home, have children and so on'.[733]

Yn wyneb hyn, gwelir yn *TH* ddadansoddiad o'r dyletswydd a'r cyfyngder cymdeithasol hwn drwy brofiadau Bet Jones. Am weithiau Kate Roberts a delwedd y fenyw yn gyffredinol, meddai Rowlands:

> Y ferch sy'n ganolog – ie; y ferch sy'n cael ei cham-drin mewn byd gelyniaethus – hynny hefyd; ond yn y pen draw eithaf, y ferch sy'n ildio i dderbyn ei ffawd trwy feithrin rhyw styfnigrwydd mewnol.[734]

Yn wir, mae brwydr y fenyw bob amser wedi bod wrth wraidd storïau Kate Roberts. A hithau'n trafod traddodiadau llethol y gymdeithas grefyddol Gymraeg yn ogystal â chyfyng-gyngor Bet Jones, saif *TH* yn enghraifft berffaith o'r fodel lenyddol uchod. Fel y nodwyd yn fras yn yr adolygiad llenyddol, gellir awgrymu bod salwch meddwl Bet yn codi o ganlyniad i'r cyfyngiadau cymdeithasol arni, pan na all y wraig weld unrhyw bwrpas i fywyd fel y mae. Wrth ddadansoddi ei chyflwr meddyliol yn seicolegol, er enghraifft, dywedir nad yw ei salwch yn codi 'o ryw atgof cywasgedig, poenus o'r gorffennol, yn encilion yr isymwybod',[735] fel sy'n rhannol gyfrifol yn *Un Nos Ola Leuad*[736] honnir yn hytrach mai 'amgylchiadau anodd cyfoes sy'n llwyr

---

darnau amseryddol amrywiol a ddangosodd sut i fod yn wraig ddelfrydol yn ystod y cyfnod. Portreadwyd trwy'r holl weithiau hyn y math o fywyd y gallai menywod y cyfnod ddisgwyl ei fyw.

[731] Islwyn Ffowc Elis, *Ffenestri Tua'r Gwyll,* 4ydd Arg (Llandysul: Gwasg Gomer, 1997), t.30.

[732] Rowlands, *Ysgrifau ar y Nofel,* t.134.

[733] Yates, *Revolutionary Road,* t.245

[734] Ibid.

[735] Evans, 'Adolygiad Tywyll Heno', t.74.

[736] Dychwelir at y syniad hwn yn yr adran nesaf a hefyd, Bennod 5.

gyfrifol'[737] am ei chwalfa, sef ei hamgylchiadau cyfyngol fel menyw, mam a gwraig gweinidog. Wedi'r cyfan, menyw ganol oed ystrydebol yw Bet Jones; yn wraig ffyddlon i Gruff ac yn fam gariadus i'w mab Geraint. A thrwyddi a'i theulu ystrydebol felly, portreedir delwedd gyffredin o'r aelwyd gonfensiynol Gymraeg. Ystyrier y dyfyniad canlynol:

> Eisteddwn wrth y bwrdd yn y gegin, aroglau coffi a chig moch yn hongian yn yr awyr, y papur newydd o'm blaen..... Neidiodd Nel, y gath, ar y bwrdd a chanu'r grwndi, yr haul yn taro arnom ein dwy drwy'r ffenestr a'r goeden yng ngardd y drws nesaf yn ei symud oddi arni hi arnaf fi. Byddai'n rhaid imi fynd i'r dref i siopa toc, edrych ar ffenestri glas tywyll o ddillad ysgol anniddorol, gwrando ar ddarnau o sgyrsiau mwy anniddorol. (t.36)

Dyma fyd patriarchaidd y cyfnod. Gwelwn y gŵr yn darllen yn ei stydi a'r wraig yn brysur wrth baratoi'r te. Gwelwn hefyd y mab yn ei arddegau'n dechrau gwthio'r ffiniau a chwblheir y ddelwedd gan y gath ddiog yn gorwedd yn yr haul. O ganlyniad, gosodir y teulu yng nghanol normalrwydd y gymdeithas Gymreig ac ysbryd cymdeithasol y gymuned glós. Ond wrth ystyried cefndir seicolegol y stori, gellir dadlau mai arwynebol i ryw raddau yw'r ddelwedd deuluol hon. Ymddengys i'r darllenydd mai teulu parchus sydd yma ar y darlleniad cyntaf ond mae modd dadlau, ar ôl ystyried yr arwyddocâd seiciatryddol, fod delwedd yr aelwyd yn cael ei defnyddio fel masg dros flinder ac anniddigrwydd Bet Jones. Wedi'r cyfan, 'bywyd annifyr iawn yw bywyd gweinidog a bywyd ei wraig' (t.24) yn ôl y gweinidog ei hun yn *Stryd y Glep.* Ac adlewyrchir hyn yn *TH* drwy ddyddiau hir Bet Jones sy'n gweini ar ei gŵr, mynychu seiadau a rhoi croeso i westeion.

O'r dechrau'n deg, sefydlir safle cymdeithasol Bet Jones wrth i un o gleifion yr ysbyty ofyn iddi, 'Ydy gwraig y pregethwr am regi heddiw?' (t.7) Trwy'r cwestiwn hwn, gwawdir Bet yn gyntaf am ymddygiad sy'n groes i'r norm, dirmyg a gadarnheir hefyd gan y cymeriad "Bet" yn nofel Angharad Tomos wrth iddi ddweud, 'Taswn i'n wraig i *watchmaker,* faswn i'n cael lot mwy o lonydd ganddi [Sali]'.[738] Ond yn ogystal â hyn, diffinnir ei phrif rôl ym meddwl y gynulleidfa, sef bod yn wraig gweinidog. Er y gwyddwn fod gan Bet uchelgais llenyddol, sicrha Kate Roberts mai'r ddelwedd gryfaf a geir o'r prif gymeriad yw'r un honno ohoni fel gwraig tŷ annedwydd. Mae ei bywyd, erbyn heddiw, er enghraifft, yn lle bod yn llawn cyfansoddi difyr, wedi'i lenwi â rowndiau diddiwedd o weini i westeion a

[737] Evans, 'Adolygiad Tywyll Heno', t.74.
[738] Tomos, *Wrth fy Nagrau i*, t.65.

berwi'r tegell. Ac er mwyn pwysleisio annhegwch ei sefyllfa, ailadroddir ymadroddion megis 'rhedais i baratoi'r tamaid' a 'rhedais i nôl ychwaneg o lestri a brechdanau' (t.23) drwy'r stori fel atgof poenus o'i bywyd coll. Ni phortreedir bywyd Bet fel un boddhaol, ac o ganlyniad, mae'n rhannu'r ofn a deimlai Esther Greenwood wrth feddwl am dynged debygol ei dyfodol:

> I tried to imagine what it would be like if Constantin were my husband. It would mean getting up at seven and cooking him eggs and bacon and toast and coffee and dawdling about in my nightgown and curlers after he'd left for work to wash up the dirty plates and make the bed, and then when he came home after a lively, fascinating day he'd expect a big dinner, and I'd spend the evening washing up even more dirty plates till I fell into bed, utterly exhausted. This seemed a dreary and wasted life for a girl with fifteen years of straight A's, but I knew that's what marriage was like. (t.89)

A gwelir delwedd debyg yn *Mae'r Galon Wrth y Llyw*:

> Doris yn ei thŷ ei hun gyda'i gŵr ei hun: yn cysgu gydag ef, yn paratoi bwyd iddo, yn golchi ei ddillad, yn glanhau'r ystafelloedd iddo; yn mynd gydag ef ar ddydd Sadwrn i gêm rygbi neu i Sinema; yn cael cwpaned o de yn y gwely ganddo ar fore ddydd Sul. (t.154)

I rai, efallai bod y delweddau hyn yn ymddangos braidd yn eithafol, ond mae amlder y disgrifiadau digalon drwy lenyddiaeth ffeministaidd y cyfnod yn cyflwyno darlun hollol gredadwy, gan ddangos yn ei dro, ddifrifoldeb sefyllfa'r fenyw, o Gymru i'r Unol Daleithiau.

Prin hefyd yw'r dadansoddiadau bywiog a chadarnhaol o bersonoliaeth a gwedd Bet Jones. Yn wahanol i Melinda – a thrafodir pwysigrwydd ffrind Bet ym Mhennod 5.4 – ni phortreadir Bet yn fenyw ddiddorol, anghyffredin, neu ddeniadol hyd yn oed (a derbyn mai cysyniad cymdeithasol yw harddwch.) Ar ôl sylwi ar ei ffrind, er enghraifft, meddai Melinda: 'Rwyt ti'n edrach fel shipan, 'does dim rhaid iti fod fel ffydleman hyd yn oed os wyt ti'n wraig i weinidog'. (t.35) Ond ateb Bet yw, 'does gan wraig gweinidog ddim amser i ymbincio'. (t.38) Yn wyneb llymdra Bet, cydnabyddir disgwyliadau ansathredig a cheidwadol y gymdeithas ar gyfer gwraig y gweinidog, hyd yn oed o ran pryd a gwedd, a saif Bet yn gopi perffaith o'r ystrydeb fenywaidd yn ôl traddodiadau'r cyfnod.

Yn sgil y disgwyliadau ohoni, gellir dadlau nad oes gan y wraig hunaniaeth bersonol, wrth iddi chwarae rôl y wraig tŷ ffyddlon, anweledig ac anfygythiol yn berffaith. Nid adwaenir Bet oherwydd ei phroffesiwn, ei doniau na'i diddordebau ei hun gan aelodau'r gymdeithas ond fel gwraig gweinidog yn unig, un sy'n bodoli er

budd ei theulu, ei gŵr a'i chymdeithas. Wrth drafod gwreiddiau ei salwch meddai John Rowlands:

> Fe'i cynysgaeddwyd â theimladrwydd a deallusrwydd uwch na'r cyffredin, ac mae ganddi dreiddgarwch amgenach na'i gŵr, Gruff. Ac eto ni chaiff y cyfle rywsut i roi mynegiant llawn i'w phersonoliaeth. Caiff ei llethu gan ei hamgylchiadau. Yr amgylchiadau yn ei hachos hi yw bod yn wraig gweinidog. Priodi Gruff oedd ei phroblem hi, a thrwy hynny gael ei gormesu gan ei swydd a'i safle ef.[739]

Gan adlewyrchu hyn, ar ôl i Bet sôn am ei hiselder gydag un o'r cleifion eraill, mae'n cyfaddef yn gywilyddus: 'ydach chi'n gweld, gwraig i weinidog ydw i'. (t.16)

Yn achos Bet, nid yw'r wraig yn pryderu am natur feddygol ei salwch ond yn hytrach, mae'n ei drafod mewn perthynas â'i dyletswydd gymdeithasol. Ac er gwaethaf ei salwch amlwg, y mae'n dal yn ymwybodol o ddisgwyliadau ei rôl. Fel y dywedodd Elaine Showalter:

> There have always been those who argued that women's high rate of mental disorder is a product of their social situation, both their confining roles as daughters, wives, and mothers and their mistreatment by a male dominated and possibly misogynistic psychiatric profession.[740]

Mor dynn yw'r rhwymau teuluol a rheolau cymdeithasol am wraig y gweinidog nes iddynt ei mygu'n seicolegol ac yn gymdeithasol. O ganlyniad, nid unigolyn mohoni ond atodiad sy'n byw drwy ac oherwydd ei theulu. Ys dywedodd Betty Friedan am safle'r fenyw: 'They can answer the question "Who am I?" by saying Tom's wife or Mary's mother'.[741] Wedi dweud hynny, yr un yw'r diffyg hunaniaeth ac anwybodaeth gymdeithasol o ran safle'r fenyw yn *Un Nos Ola Leuad* i raddau.

Gwraig weddw dlawd yw mam yr adroddwr yn *UNOL* ac o ganlyniad, fe'i portreadir hi yn aml fel menyw sy'n brwydro i gael deupen y llinyn ynghyd gan ymgymryd â gwaith bach pitw'r eglwys, megis gwaith golchi a smwddio.[742] O ganlyniad, gwelwn ei chaethiwed yn glir iawn. Fel y nododd Ffraid Gwenllian hefyd, trwy ei chymharu â'i mab sy'n rhydd i grwydro fel y myn, gwelwn nad oes ganddi hi ryddid o gwbl. Ys dywedodd Ffraid Gwenllian: 'Tra ei fod ef ar ddisberod yn crwydro byth a beunydd, mae'r fam yn encilio yn y cartref teuluol, a thra bod ei

---

739 Rowlands, *Ysgrifau ar y Nofel*, tt.172-73.
740 Showalter, *The Female Malady*, t.3
741 Friedan, *The Feminine Mystique*, t.53.
742 Yn hyn o beth, dywedodd Menna Baines: 'Prin oedd y gwaith i ferched yn yr ardal, ac er i Margaret Jane Prichard, fel y fam yn *Un Nos Ola Leuad*, gael rhywfaith o waith yn golchi yn y fiercy lleol, roedd pob ceiniog yn cael ei llyncu' gan bwysleisio'n ei dro caledi ariannol a diffyg cyfleoedd y cyfnod i fenywod. Gweler Baines, *Yng Ngolau'r Lleuad*, t.9.

bywyd hithau'n crebachu'n raddol drwy gydol y nofel, mae ei fyd yntau'n ehangu'.[743] Gall y bachgen ddianc o'r tŷ, ond yn unol â chonfensiwn yr oes, mae'r fam yn gaeth i'w furiau, ac felly yn gaeth i'r hyn sy'n cyfrannu at ei salwch.

Gwraig a mam ystrydebol y cyfnod, yn ôl y delweddau confensiynol yw hi. Yn debyg i Bet Jones, ychydig yn unig a wyddom am fywyd personol y fam hon, y tu allan i'w chyfrifoldebau. Dysgwn ei bod wedi gweini ym Manceinion pan oedd yn iau, er enghraifft,[744] ond fe'i delweddir yn bennaf fel y fam grefyddol draddodiadol sy'n byw mewn cymdeithas dlawd. Ond yn sgil marwolaeth ei gŵr, collodd unrhyw hunaniaeth a oedd ganddi yn y gorffennol yn llwyr a throsglwyddodd yr ymdeimlad o beidio â pherthyn i'r mab. Oherwydd absenoldeb y ffigwr tadol, nid adwaenir ef fel mab ei dad, ond ni sonnir amdano ychwaith fel mab ei fam. Yn hytrach, cyfeirir ato fel 'hogyn Tŷ Nesa Elis Ifas Rallt' (t.113) neu 'hogyn Tŷ Isa'. (t.60) Edrychwyd ar ddiffyg hunaniaeth yr adroddwr yn gymdeithasol eisoes, ond trwy'r diffyg annibyniaeth hwn yn benodol, dangosir dallineb y gymdeithas i safle a statws y fenyw. Dyma wraig sy'n benderfynol o ddarparu'r bywyd gorau posib i'w mab ond fe'i bychenir hi gan gymdeithas sy'n methu â chydnabod ei hunaniaeth fel aelod teilwng o'r gymuned. Ys dywedodd Mihangel Morgan:

> Gorfodir y fam yn *Un Nos Ola Leuad* i symud i ymylon y gymdeithas yn llythrennol, yn union fel petai'n cael ei beio am ei statws digymar. Yn y pen draw, yn y nofel enbyd o gyhuddgar hon, difreinir y wraig weddw ddifreintiedig drwy'i didoli oddi wrth y gymuned a'i hamddifadu o'i rhyddid.'[745]

Oherwydd hyn, ac er bod y gŵr yn absennol, roedd hunaniaeth a chynhwysiad cymdeithasol mam yr adroddwr yn dibynnu ar ei gŵr, ac yn yr un modd, cafodd Bet Jones eu hadnabod oherwydd Gruff, ac fel gwraig gweinidog yn bennaf. Yn sgil anweledigrwydd y menywod hyn, cyflwynir perygl posib i'w hiechyd meddyliol wrth iddynt fethu â chael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi gan eu cymheiriaid.

Fel y dywedodd Barnes a Maple am y diffyg hunan hwn, yng nghyd-destun bywyd domestig y chwedegau: 'she [y wraig tŷ] has no image because there is no role which provides a positive statement of what a woman in mid-life is after'.[746] Yn hytrach, roedd menywod y cyfnod yn mynd ati i gynnal rhinweddau benywaidd

[743] Ffraid Gwenllian, 'Gwehilion o Boblach: Cynrychioli Lleiafafrioedd mewn Llenyddiaeth Gymraeg, (Traethawd MPhil, Prifysgol Aberystwyth, 2017), t.210
[744] Prichard, *Un Nos Ola Leuad*, t.135.
[745] Morgan, *Llên y Llenor: Caradog Prichard*, t.52.
[746] Marian Barnes a Norma Maple, *Women and Mental Health: Challenging the Stereotypes* (Birmingham: Venture Press, 1992), t.76.

cymdeithasol amrywiol gan mai dyna oedd yr hyn a ddisgwylid gan gymdeithas.[747] Ar ben hynny, ac fel yr eglurodd Ceridwen Lloyd-Morgan, 'bu pwysau'r gymdeithas mor gryf arnom fel nad oedd modd inni fagu'r hyder i greu delweddau gonest ohonom ni'n hunain, trwy eiriau neu lun neu unrhyw gyfwng arall'.[748] Flwyddyn ar ôl blwyddyn, degawd ar ôl degawd, rheolwyd bywydau menywod a'r cymeriadau ffuglennol gan y disgwyliadau a'r delweddau rhywiaethol amrywiol hyn. O ganlyniad, daeth ystrydeb y wraig yn rhan ganolog, ac yn yr achosion mwyaf eithafol, yn brif ran o gyfansoddiad menyw'r pumdegau a'r chwedegau. Un sgil effaith oedd dinistrio bywydau a meddyliau menywod galluog, dinistr a welir drwy'r llenyddiaeth graidd.

Teg dweud mai bywyd gweddol ddiflas oedd bywyd y wraig yn ystod y cyfnod. Yn unol â'r dadansoddiadau ffeministaidd eu natur a geir yn y llenyddiaeth, awgrymwyd yn aml fod menywod yn cael eu caethiwo i gulni a gwacter y cartref wrth iddynt gael eu rheoli gan eu disgwyliadau cymdeithasol. O ganlyniad i'w caethiwed cymdeithasol, nid yw'n syndod i nifer ohonynt fethu â dod i delerau â chyfyngder a chulder eu bywydau, gan ddioddef yn seicolegol. Meddai Joan Busfield:

> The image of the trapped housewife suggested by three of Brown and Harris's vulnerability factors has frequently been invoked by feminists and psychiatrists to explain mental disorder in women, especially to try and account for the association between women and depression.[749]

Caeth yw Bet Jones i'w chonfensiwn a'i rôl fel gwraig gweinidog. Teimla'r 'fam' yn *Wrth fy Nagrau i* fel pe bai ond yn cael ei hystyried drwy gyfrwng y ddelwedd hon, fel sy'n wir yn achos *UNOL.* Ac yn *TBJ,* rheolir Esther gan gyfuniad o'r ddwy ystrydeb. Nid ystyrir y menywod hyn mewn meysydd y tu allan i'w cylchoedd cymdeithasol ystrydebol, a chyfranna'r union waharddiad hwn at eu problemau seicolegol.

Diffinnir lles meddyliol fel cyflwr o iechyd cyflawn gan Sefydliad Iechyd y Byd: 'Health is a state of complete physical, mental and social well-being and not

[747] Dadansodda, Virginia Nicholson, *Perfect Wives in Ideal Homes: The Story of Women in the 1950s* (New York: Viking Press, 2015) brofiadau llaw cyntaf gwragedd y pumdegau wrth iddynt gydymffurfio ag ystrydebau amrywiol. Archwilir, o ganlyniad, ddisgwyliadau menywod y cyfnod.
[748] Ceridwen Lloyd-Morgan, 'Sensro'r Ferch', *Taliesin,* 84 (1994), 24-29
[749] Busfield, *Men, Women and Madness,* t.200.

merely the absence of disease or infirmity'.[750] Cyfeiria Szasz hefyd at bwysigrwydd bywyd amrywiol a ffrwythlon ond hynny o safbwynt dyn. Meddai:

> To live meaningfully, man must be interested and invested in more than just objects. He must have games he finds worth playing. As a loving attitudes implies interest in persons – that is, in parents and children, wives and lovers – so a hopefully attitude implies interest in games – that is, in work and play, religion and social affairs.[751]

Mae April Wheeler yn cydnabod pwysigrwydd hyn yn nofel Richard Yates, *Revolutionary Road.* Meddai:

> And she'd never been able to explain or even to understand that what she loved was not the job—it could have been any job—or even the independence it gave her (though of course that was important for a woman constantly veering toward the brink of divorce). Deep down, what she'd loved and needed was work itself. 'Hard work,' her father had always said, 'is the best medicine yet devised for all the ills of man—*and* of woman,' and she'd always believed it… [Work] was the substance of her love; it was all that fortified her against the pressures of marriage and parenthood. Without it, as she often said, she would have gone out of her mind.[752]

Ysywaeth, prin oedd y cyfleoedd hyn i fenywod y cyfnod. Trwy ddelweddau *TH, Mae'r Galon Wrth y Llyw* a phryderon Esther, deellir mai llawn tasgau diystyr a diwerth oedd bywydau'r gwragedd ystrydebol hyn. Ac er gwaethaf diddordebau llenyddol awgrymedig Bet ac addysg a hyfforddiant Esther, cedwir gwraig y gweinidog – a'r rhagdybiaeth yn achos myfyrwraig Sylvia Plath – yn ei swigen ddomestig wrth iddi weini ar ei gŵr a'i chymdeithas yn ffyddlon. Wedi'r cyfan, 'gorfod bod yn wraig i Gruff, a gwadu'i natur gynhenid hi ei hun, oedd wrth wraidd salwch Bet'[753] yn ôl John Rowlands. Ac fel y gwelwn wrth i'r bennod hon ddatblygu, cyfranna'r disgwyliad benywaidd at chwalfa seicolegol Esther.

Ys dywedodd Betty Friedan: 'The problem is always being the children's mommy or the minister's wife and never being myself'.[754] Dro ar ôl tro, ystyrid na allai menywod gyfrannu unrhyw beth o werth i'r gymdeithas ar wahân i gydymffurfio â'u rôl ddisgwyliedig. Ac o ganlyniad i nerth y gymdeithas yn ogystal â chanllawiau'r Beibl[755] – rhaid cofio mai gwraig i weinidog yw Bet – daeth

---

[750] World Health Organization, *Mental Health: A State of Well-being* (Awst 2014), <http://www.who.int/features/factfiles/mental_health/en/> [cyrchwyd 20 Hydref 2017]
[751] Szasz, *The Myth of Mental Illness*, t.254.
[752] Yates, *Revolutionary Road*, t.164
[753] Rowlands, *Ysgrifau ar y Nofel*, t.173.
[754] Friedan, *The Feminine Mystique*, t.16.
[755] Dywedir yn y Beibl, er enghraifft: 'Chi'r gwragedd i'ch gwŷr fel i'r Arglwydd ei hun. O'r gŵr mae'r wraig yn tarddu, fel mae'r eglwys yn tarddu o'r Meseia (rhoddodd ei fywyd i'w hachub hi!) Felly, fel mae'r eglwys yn atebol i'r Meseia, rhaid i chi'r gwragedd fod yn atebol i'ch gwŷr ym

menywod i gredu'r rhagdybiaethau amrywiol hyn. Effeithiodd hynny ar eu hiechyd meddwl.[756]

Er gwaethaf hyn, nid oedd yn gyffredin i fenywod y cyfnod herio'r ystrydebau cymdeithasol, gan gydio mewn gwaith y tu allan i'r cartref.[757] Yng ngoleuni'r cyfyngder hwn, rhybuddiodd Showalter: 'a few of the moral managers did recognise that the intellectual and vocational limitations of the female role, especially in the middle classes were as maddening as its biological characteristics'.[758] Nodwyd ar ddechrau'r astudiaeth fod gan Bet ddiddordebau llenyddol ar un adeg ond ers bod yn wraig y gweinidog, bu'n rhaid iddi fforffedu ei gobeithion a'i hobïau o ganlyniad i'w safle cymdeithasol.[759] Dyma gulhau byd y fenyw i'r cartref, a hyd yn oed pan gynigir opsiwn arall, mae'r wraig yn ymwybodol o'i chyfrifoldebau'n gyntaf. Gofynna Melinda i Bet, er enghraifft:

> "Fydd arnat ti ddim blys mynd yn ôl i'r ysgol?"
> "Na fydd, yr un fath fasa hi yn fanno hefyd."
> "Ond mi gaet arian am dreio gwneud lles yn fanno. Sbïa peth mor braf fasa cael ceiniog yn ecstra."
> "Fedra i ddim gwneud dau waith." (t.38)

Meddylia Bet Jones am ei gwaith fel gwraig gweinidog yn nhermau galwedigaeth. Rhoes y gorau i chwilio am foddhad y tu allan i'w chylch cartrefol gan ganolbwyntio, yn hytrach, ar ei thasgau fel gwraig a mam, aberth sy'n cyfrannu'n anochel at ei chyflwr seicolegol. Oherwydd dylanwad y gymdeithas batriarchaidd ac ofn stigma, ni all ddychmygu gwneud unrhyw beth arall ar wahân i'w dyletswyddau fel gwraig. I Bet a'i chenhedlaeth, nid ymddengys fod gan wragedd ddewis. Yng nghyd-destun y cyfnod, eglurodd Friedan fod yn rhaid i ferched ddewis rhwng dau lwybr. Meddai:

> The fact is, girls today [y pumdegau] and those responsible for their education do face a choice. They must decide between adjustment, conformity, avoidance of

---

mhopeth.' (Effesiaid 5:22-4); 'Dylai gwragedd gadw'n ddistaw yn y cyfarfodydd. Does ganddyn nhw ddim hawl i siarad. Eu lle nhw ydy derbyn y drefn, fel mae'r Gyfraith yn dweud'.(I Corinthiaid 14:34); Ond gwelwyd y dyfyniadau hyn yn Lewis Wolpert, *Why Can't a Woman Be More Like a Man?* (London: Faber & Faber, 2014), t.11. Credwn fod y dyfyniadau Beiblaidd hyn yn allweddol i'r dadansoddiad ffeministaidd, yn arbennig wrth ystyried safle crefyddol Bet Jones fel gwraig gweinidog.

756 Cyfeiriwn yn ôl at ddyfyniad *Tywyll Heno,* 'ydach chi'n gweld, gwraig i weinidog ydw' a chwestiwn *WFNI,* 'Oedd disgwyl imi wneud rhagor?'

757 Dadansodda Lewis Wolpert yr ormes hon yn Wolpert, *Why Can't a Woman Be More Like a Man?*, tt.8-17.

758 Showalter, *The Female Malady*, t.59.

759 Dadansoddir effaith yr aberth hwn o safbwynt seicolegol yn Mhennod 4.6.

> conflict, therapy – or individuality, human identity, education in the truest sense, with all its pains of growths.[760]

Paradocs a math o *Catch-22* yw hwn a adlewyrchir yn ei gyfanrwydd yn *TBJ*. Wrth sôn am y menywod sydd hefyd yn Efrog Newydd, meddai Esther:

> They were mostly girls my age with wealthy parents who wanted to be sure their daughters would be living where men couldn't get at them and deceive them…. or they had just graduated from places . . . and were secretaries to executives and junior executives and junior executives and simply hanging around in New York waiting to get married to some career man or other. (t.4)

Dyna un math o ddewis, hynny yw, aros i briodi, cydymffurfio. Ond ar ben arall y sbectrwm, ceir Esther ei hun. Nid yw'r fyfyrwraig am gydymffurfio nac ymaddasu fel y merched eraill sydd wedi eu dal yn y trap. Mae am gadw ei hunigolyddiaeth, ond gwelwn fod pris uchel yn gysylltiedig â herio'r ystrydeb, sef ei phwyll. Ys dywedodd Phyllis Chesler: 'it is clear that for a woman to be healthy she must "adjust" to and accept the behavioral norms for her sex even though these kinds of behavior are generally regarded as less socially desirable'.[761]

Trwy Esther a'r menywod eraill, portreadir y rhaniad ffeministaidd y cyfeiria Friedan ato uchod. Ar y naill law, gwelwn fywydau gwag ond diymdrech a syml y llwybr 'ystrydebol'. Wedyn, ar y llaw arall, darlunnir hefyd brwydr anodd, ansicr a pheryglus 'gwrthryfelwraig'.[762] Yn y ddau achos, gellir dadlau mai'r un yw'r canlyniad: straen a gwendid seicolegol.

A dyfynnu Phyllis Chesler:

> Women are impaled on the cross of self-sacrifice. Unlike men, they are ategorically denied the experience of cultural supremacy, humanity and renewal based on their sexual identity… some women are driven mad by this fact.[763]

Gyrrir Bet i iselder o ganlyniad i'r aberth hwn a dioddefa Esther yn seicolegol am yr un rheswm. Yn ei nofel *Ffenestri Tua'r Gwyll*, tynnodd Islwyn Ffowc Elis yntau sylw at berygl y caethiwed cymdeithasol, yn achos y wraig weddw Ceridwen Morgan. Er bod y nofel hon yn gwahaniaethu'n sylweddol o ran yr agwedd gwrth-ffeministaidd – yn arbennig wrth ei chymharu â *TH* a *TBJ*[764] – mae'n dal yn delweddu statws israddol y fenyw a'r effaith seicolegol ddinistriol sy'n ei hamgylchynu. Cerddor talentog yw Ceridwen, ond er gwaethaf hyn, ac o ganlyniad

---

760 Friedan, *The Feminine Mystique*, t.139.
761 Chesler, *Women and Madness*, t.128
762 Delwedd sy'n derbyn mwy o sylw ym Mhennod 3.5.
763 Chesler, *Women and Madness*, t.71.
764 Dychwelir at y ddelwedd gyferbyniol ym Mhennod 4.4.

i'w statws fel menyw, fe'i clymir hi gan ei gŵr i fyw ar ei gyfoeth a rhoi'r gorau i'w diddordebau a'i gobeithion gan gadw ei dawn yn ynghlwm wrth y cartref. Ystyrier y disgrifiad hwn ohoni:

> Yr oedd hi'n medru dweud neges eraill ar biano (sic), ac fe fuasai'n ei ddweud heddiw wrth filoedd mewn neuaddau oni bai fod Ceredig wedi mynnu ganddi beidio. Yr oedd ei wraig ef uwchlaw ei gwneud ei hun yn sioe mewn cyngherddau, meddai ef. Gwnaed merched eraill a fynnent, gwisgent ffrogiau llaes ar lwyfannau a bowio a pherfformio hyd syrffed, yr oedd hi'n ddidoledig, i gadw'i chelfyddyd ar gyfer ychydig ffrindiau, rhwng pedair wal eiddigus ei gastell ef, Trem-y-Gorwel.[765]

Ac ar ôl sylwi ar annhegwch ei sefyllfa, dywedir:

> Gollyngodd ei phen ar ei breichiau. Ac wylodd. Heb achos, heb reswm yn y byd ond ei bod hi'r hyn oedd hi, merch farch wirion bump a deugain oed, a allasai, pe bai hi'n rhywun ond hi'i hun, fod a'i henw'n fflam mewn goleuadau neon, yn bennawd ystyrbiol ar draws papur newydd, yn ferch o filiwn.[766]

Yn debyg i Bet Jones sy'n ysglyfaeth i ragrith y capel a'r gymuned, gwelir yma fenyw israddol sy'n cael ei gorfodi i chwarae gêm y gymdeithas draddodiadol: gêm sy'n arwain at anhwylder meddyliol yn y diwedd. Ni all Ceridwen gyrraedd ei photensial o ganlyniad i bŵer y gymdeithas batriarchaidd, a thrwy'i chwalfa seicolegol ar ddiwedd y nofel, pwysleisir y peryglon enfawr sy'n gysylltiedig â gwrthodiad a chyfyngiad. Ys dywedodd Gwladys yn *Wrth Fy Nagrau i*: 'rydan ni ferched yn cael ein carcharu yn waeth drwy fethu cael cyfleoedd... cyfleoedd i gael addysg, i gael gweithio fel y mynnwn, i gael teithio, i ddarganfod llefydd newydd, i wneud pethau, i sgwennu llyfrau ... i lywodraethu gwlad'.[767]

Un fenyw nad yw'n cael o gyfle i wneud dim yw Bet Jones. Yn debyg i fam yr adroddwr yn *UNOL,* i bentref bach gyda chymuned glòs grefyddol Gymraeg y mae Bet Jones yn perthyn. Delweddir y gymdeithas fel un fach yn llythrennol, a chynrychiola trigolion y pentref feddylfryd cul y cyfnod. Portreadir y culni hwn yn *Stryd y Glep.* Yn y stori honno, mae Ffebi yn cael damwain ddifrifol. Ni all gerdded na hyd yn oed adael ei hystafell fechan. Oherwydd hyn, fe'i gorfodir i sbïo ar gymdeithas o fewn cyfyngiadau llythrennol ei chartref. Am y caethiwed hwn, meddai Katie Gramich: 'Thus, the confines of her world have shrunk to the four walls of her sickroom, and this constricted space is used by Kate Roberts as an image of the

765 Ffowc Elis, *Ffenestri Tua'r Gwyll*, t.25.
766 Ibid., t.25.
767 Tomos, *Wrth fy Nagrau i*, t.236.

withering and narrowing of Ffebi's soul'.[768] Yn wir, er y portreadir math o gaethiwed uniongyrchol drwy waliau'i thŷ, rydym yn dal yn gweld gormes cymdeithas gul ei meddwl ar fenywod sy'n ysu am ryddid cymdeithasol a phersonol. Yn union fel crefydd ym mywyd Bet, defnyddir parlys Ffebi er mwyn delweddu a phwysleisio ei chaethiwed cymdeithasol. O ystyried hyn, cyflwynir dadansoddiad ffeministaidd i raddau drwy'i hanabledd. Gellir dehongli ei chaethiwed corfforol mewn modd symbolaidd ac yntau'n cynrychioli'r frwydr rhwng cydymffurfiad a rhyddid. Cyfeiriwn eto at ddyfyniad Katie Gramich sy'n disgrifio parlys Ffeibi yn nhermau ymgais y gymdeithas i lyffetheirio dyheadau menywod.

Megis yn achos caethiwed ac ymraniad Bet Jones, dangosir pŵer y gymdeithas Gymreig gonfensiynol a pha mor ddylanwadol ydoedd wrth gyfyngu ar ddyheadau menywod ac effeithio ar eu hiechyd meddwl.[769] Wedi'r cyfan, ac fel y mynegir yn *Y Byw Sy'n Cysgu*:

> Pobl o'r wlad oeddynt o hyd, a Chymry at hynny, ac yr oedd pobl Cymru yn methu mwynhau eu pleserau am fod arnynt ofn peidio erau am fod arnynt ofn peidio â bod yn dduwiol, ac yn methu mwynhau eu duwioldeb am fod arnynt eisiau dilyn eu chwantau.[770]

Effeithir bywyd dyddiol Lora Ffennig gan y syniad o draddodiad a'r ofn o dorri'r confensiwn hwn. O ystyried hyn, amlycach fyth yw'r arswyd a'r pwys hwn yn *TH*. Fel y nodwyd, yn hytrach na byw bywyd annibynnol, roedd yn rhaid i'r wraig gyflawni oes o swyddogaethau a thasgau amrywiol diraddiol neu anniddorol, hyd yn oed os nad oedd awydd arni eu gwneud. Meddai Bet am fynychu gwasanaeth y capel, er enghraifft: 'nid oedd llawer o asbri ynof, mynd o ran dyletswydd yr oeddwn'. (t.44) Eto, gwelir aberth Bet wrth iddi ymgymryd â'i disgwyliadau cymdeithasol, er gwaethaf dirywiad ei hiechyd. Hyd yn oed yng nghanol ei salwch meddwl, gwelwn fod ymrwymiad Bet i'w rôl fel gwraig gweinidog yn fwy na'i hangen personol. Er mwyn osgoi aflonyddu'r cytgord cymdeithasol, mae hi'n parhau i gefnogi ei gŵr gan ymgymryd â'i chyfrifoldebau. Caiff ei rheoli gan y gymuned glòs Gymraeg, ac mae ofn arni dorri'r rheolau a methu'n grefyddol fel Cymraes, ac yn gymdeithasol fel gwraig.

---

[768] Gramich, *Twentieth-Century Women's Writing in Wales: Land, Gender, Belonging*, t.109.
[769] Trafoda Katie Gramich syniad tebyg yn Gramich, *Twentieth-Century Women's Writing in Wales: Land, Gender, Belonging*, t.109.
[770] Kate Roberts, *Y Byw Sy'n Cysgu* (Dinbych: Gwasg Gee, 1956), t.96.

Er nad yw Esther Greenwood yn fam neu'n wraig eto, mae'r fenyw ifanc yn dal i deimlo effeithiau'r confensiwn a'r ddyletswydd fenywaidd yn cyfyngu ar ei bywyd. Eglurodd Mrs Willard, sef darpar fam yng nghyfraith bosib Esther:

> What a man wants is a mate and what a woman wants is infinite security……. What a man is is an arrow into the future and what a woman is is the place the arrow shoots off from. (t.79)

I Mrs Willard, cwbl anhygoel felly yw'r syniad y byddai'r fenyw am fod yn unrhyw beth arall ar wahân i gefnogwraig i'w gŵr. Wedi'r cyfan, mae'n rhaid cofio mai gwraig y ffurfiwyd ei chredoau yng nghanol natur ormesol y pumdegau o ran hawliau menywod yw Mrs Greenwood. Trwy Esther Greenwood a'i chwalfa seicolegol, fodd bynnag, gellir gweld mor ddinistriol oedd y meddylfryd hwn mewn gwirionedd, dinistr a myctod a atgyfnerthir drwy ddelwedd y glochen.

Dadansoddwyd y trosiad hwn yn y bennod flaenorol o safbwynt dirfodaeth. Ond gwelir hefyd ddadansoddiad ffeministaidd. Yn union fel y caethid Ffebi gan ei hystafell a'i pharlys a Bet gan gonfensiwn, mae Esther Greenwood yn cael ei dal gan glochen sy'n cynrychioli'r gymdeithas draddodiadol.[771] Yn wyddonol, swyddogaeth y glochen yw creu gwacter, ac amlwg yw'r teimlad hwn ym mywyd Esther. Yma, yn ei charchar gwydr personol, crëir pwll o gaethiwed ac anobaith wrth i'r disgwyliadau benywaidd fygu hyd yn oed y menywod mwyaf gwydn. Cyffredin oedd y teimladau hyn o wacter a dinodedd. Wrth iddynt beidio â chael y cyfle i ddatblygu ym mhob math o feysydd, rheolid menywod gan ddisgwyliadau rhywiaethol a chymdeithasol. Mynnai'r disgwyliad hwn eu bod yn ddiolchgar am eu bywydau domestig perffaith ond holent o hyd ai dyma'n unig bwrpas eu bywyd. Ys dywedodd Betty Friedan: 'it was a strange sense of dissatisfaction, a yearning that women suffered in the middle of the twentieth century'.[772]

Taflwyd cysgod dinistriol dros bob agwedd o fywydau menywod nes i bwysau'r dyletswyddau ddod yn fwgwd myglyd o anobaith a digalondid. A gwelwn yr anfodlonrwydd hwn yn llifo dros dudalennau'r llyfrau. Meddai Bet Jones: 'fe aeth y digalondid ... yn fwgwd am fy mhen; yn glwt o dduwch; yn rhew; yn niwl; yn bwysau wrth fy nghalon a'r pwysau ar fin torri a disgyn'. (t.80) A chofier geiriau Esther Greenwood: 'I began to think maybe it was true that when you were married

[771] Ceir dadansoddiadau niferus ar y ddelwedd hon ac felly, nid pwrpas yr astudiaeth hon yw ailadrodd y darluniau hyn. Dylid darllen Martin Smith, 'Metaphors for Mental Distress as an Aid to Empathy: Looking through The Bell Jar.', *Journal of Social Work Practice* 26.3 (2012) er mwyn gweld dadansoddiad trylwyr ar y trosiad.
[772] Friedan, *The Feminine Mystique*, t.5

and had children it was like being brainwashed, and afterward you went about as numb as a slave in some private, totalitarian state'. (t.69) Lle y gallai dynion y cyfnod ddianc rhag pwysau'r swyddfa a'u pryderon personol drwy ddychwelyd – neu adael – y cartref, fel y gwelwyd, y cartref *oedd* gweithle mwyafrif llethol menywod y cyfnod. O ganlyniad, ac yn eithaf creulon, ni chynigiwyd dihangfa i'r gwragedd hyn rhag ffynhonnell eu hanhapusrwydd a'u hystrydeb.

Yng nghyd-destun hwn ac fel y nododd Francis Williams, roedd bywyd di-her y fenyw yn gadael i'r ymwybod grwydro wrth i'r fenyw gwestiynu ei phwrpas, ei hapusrwydd a'i lles meddyliol.[773] Dywedir yn *Mae'r Galon Wrth y Llyw*: 'roedd hi'n methu ymfodloni ar ei sefyllfa newydd. Roedd rhyw wacter yma a oedd yn sugno ei nerth i ffwrdd. Roedd hi'n dechrau pendroni.'[774] Ac yn nofelau Angharad Tomos, *Yma o Hyd* ac *WFNI*, gwelir yr un diflastod. Yn *Yma o Hyd*, cyfyd yr un teimladau digalon dro ar ôl tro. Meddai'r ferch lonydd yn y carchar: 'Ond mynd rownd a rownd mae fy meddwl i. [...] Ond dyna'r drwg efo carchar. Mae o'n stel. Yn llwn. Yn llonydd. Ac mae meddwl rhywun fel merddwr.' (t.75) Wrth gwrs, mae'r prif gymeriad yn cydnabod perygl hyn oll, gan nodi: 'Mae hyn yn mynd o ddrwg i waeth. Ella 'mod i'n colli 'mhwyll yn raddol. Meddwl gormod ydw i.' (t.88) Ond hyd yn oed pan gaiff hi ryw waith i lenwi'i hamser, gwaith undonog ydyw ac unwaith eto, rhoddir rhyddid i'r meddwl grwydro. (t.38) Wrth symud i garchar o fath gwahanol wedyn, mae'r fam yn *WFNI* yn adlewyrchu i'r dim deimladau prif gymeriad *Yma o Hyd*. Noda: 'Doedd ryfedd ein bod yn mynd yn wirion yma. Doedd dim i'n difyrru, dim i fynd â'n meddwl, dim ond llond stafell o wragwedd gwael oedd ddim eisiau bod efo'i gilydd.' (t.9)

O ystyried hyn, meddai Joan Busfield: 'they were like birds trapped in a 'gilded cage', forced into sickness and neurosis by the narrowness, boredom and constraints of their lives'.[775] Pennwyd tynged menywod gan amgylchiadau allanol cymdeithasol y tu hwnt i'w rheolaeth; amgylchedd a oedd yn aml yn cynnwys y bywyd domestig yn ei holl ysblander a'i holl berygl. Gan ategu hyn, meddai Simone de Beauvoir:

---

773 Francis Williams, 'Eneideg a Dirwest', *Y Gymraes*, XXXIV (Ionawr , Mawrth ac Awst 1930) ond gwelwyd yn Llion Wigley, 'Plymio I'r Dyfnderoedd: Ymatebion Cynnar i Syniadau Sigmund Freud a'r 'Feddyleg Newydd' yn yr Iaith Gymraeg c.1918-1945', tt. 89-112.
774 Kate Bosse-Griffiths, *Mae'r Galon Wrth y Llyw* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1957), t.154.
775 Busfield, *Men, Women and Madness*, t.201.

> One is not born, but rather becomes, woman. No biological, psychic, or economic destiny defines the figure that the human female takes on in society; it is civilization as a whole that elaborates this intermediary product between the male and the eunuch that is called feminine.[776]

Rheolir bywyd Bet gan alwedigaeth ei gŵr, a dyfodol Esther gan safonau'r gymdeithas elitaidd. Ac yn *UNOL*, dinistrir lles meddyliol mam yr adroddwr gan ei galar a chaledi'i bywyd fel gwraig weddw dlawd ac anweledig. Ys dywedodd mam WFNI: 'sut mae rhywun yn dianc wrth ei feddwl ei hun?' (t.185) Yn wyneb hyn ac ar ôl dadansoddi profiadau seicolegol y cymeriadau benywaidd drwy lygaid beirniadol, gwelir bod adlais o'r feirnidaeth ffeministaidd drwy'r llenyddiaeth graidd i gyd. Mae'r culni a'r diflastod a ddisgrifir uchod yn ffurfio rhan ganolog ym mywydau Bet, Esther a menywod *Wrth fy Nagrau i* ac *Mae'r Galon Wrth y Llyw.*

Wedi edrych ar rôl y wraig tŷ yn bennaf yn yr adran hon, gan ystyried prif ddelwedd a safbwynt y cyfnod, eir ati yn rhan nesaf y bennod i ddadansoddi rôl gymdeithasol ddisgwyliedig arall y fenyw, sef bod yn fam. Trwyddi, canolbwyntiwn ar ddwy agwedd o'r cyflwr mamol yn arbennig. Yn gyntaf, ac yn unol â naws yr adran hon, dadansoddir yr effeithiau seicolegol peryglus personol sy'n gysylltiedig â rôl y fam yn fanylach. Yn ail, ystyrir dylanwad seicolegol ehangach y fam wrth inni dynnu sylw at theori ddadleuol Freud: Cymhlethdod Oidipos.[777] Bydd yr ochrau gwrthwynebol hyn yn cyflwyno dadansoddiad cyfun o gyflwr meddyliol y fam ac archwilir achos ac effaith seicolegol y swyddogaeth fenywaidd hon mewn cyd-destun llenyddol.

---

[776] Simone De Beauvoir, *The Second Sex* (New York: Knopf, 1953), t.283
[777] Defnyddiwn gyfieithiad Harri Pritchard Jones o'i lyfr, *Freud: Y Meddwl Modern* (Dinbych: Gwasg Gee, 1982).

## 5.3 Rôl a Dylanwad y Fam

Wrth drafod safle menywod a dynion yn ei gyd-destun hanesyddol a chymdeithasol, nododd Lewis Wolpert:

> In almost every society, the primary tasks of men and women have been different. Men are given responsibility for the government of the society, and women responsibility for the daily care of the household and children.[778]

Am ganrifoedd, mae'r gymdeithas batriarchaidd wedi creu darlun delfrydol o'r aelwyd draddodiadol wrth i gonfensiwn 'y teulu niwclear' ddod yn rhan annatod o fywyd modern llwyddiannus.[779] Trwyddo, portreadwyd y gŵr fel y gweithiwr cynhyrchiol sy'n ennill yr arian a chafodd y wraig ei delweddu fel un gartrefol yn brysur yn magu'r plant ac yn gofalu am y tŷ. Er gwaethaf diffyg ystyr bywyd y fam yn y byd allanol a phroffesiynol, roedd yn dal i ffurfio canolbwynt a chalon y cartref.

Meddai Deirdre Beddoe: 'the mother was the pivot around which all family life revolved – managing family affairs and demanding family cohesion'.[780] Mae lle canolog y fam i'w gweld ym mhob un o'r gweithiau dan sylw, wrth i'r testunau Cymraeg ac Americanaidd ddadansoddi'r cyflwr a'r profiad mamol yn ei gyfanrwydd. O ganlyniad, dangosir nid yn unig berygl seicolegol y rôl ond hefyd ormes ehangach yr ystrydeb a'i heffaith ar blant. Gan hynny, canolbwyntia rhan gyntaf yr adran ar bryderon seicolegol a chymdeithasol y mamau ffuglennol amrywiol, o safbwynt ffeministaidd.

Er bod y cyfnodau a'r amgylchiadau'n amrywio'n fawr rhwng *TH* ac *UNOL*, gwelir yn y ddau ohonynt ddarluniau ystrydebol o'r 'fam Gymreig' i raddau amrywiol. Am y ddelwedd hon, meddai Beddoe:

> [S]he is small; she wears plain dresses and an apron; her hair is in a bun. […] She is hardworking. She is clean as she is pious: she scrubs floors and her husband's coal-black back. She is, of course, a mother, mainly the mother of sons who like her husband are also coalminers.[781]

Dyma ddisgrifiad o'r fam yn *UNOL* ac er mai aelwyd o fath gwahanol a bortreedir gan nad oes ffigwr tadol yno bellach, drwy fodrwy briodas y fam,[782]

---

[778] Wolpert, *Why Can't a Woman Be More Like a Man?*, t.8.
[779] Am ddadansoddiad beirniadol o'r confensiwn hwn, gweler: Linda Nicholson, 'The Myth of the Traditional Family', yn *Feminism and Families,* gol. gan Hilde Lindermann Nelson (New York: Routledge, 1997), tt.27-42.
[780] Beddoe, *Out of the Shadows*, t.148.
[781] Beddoe, 'Images of Welsh Women', t.229.
[782] Ar ôl cael ei hanfon i'r ysbyty meddwl, rhoddir meddiannau'r fam i'r adroddwr gan gynnwys ei dillad a'i modrwy briodas. Gweler Prichard, *Un Nos Ola Leuad,* t.173.

awgrymir i'r aelwyd fod yn gyfan unwaith yn y gorffennol. Er gwaethaf diffyg yr aelwyd 'gonfensiynol', mae delwedd ystrydebol y fam a'i safle teuluol amlwg yn dal yn gwbl glir. Trwy sgyrsiau amrywiol a diniwed rhwng y fam a'r mab, er enghraifft, portreedir bywyd blinedig y fam sy'n unol ag ystrydebau'r cyfnod. Er enghraifft:

> Gawsoch chi olchiad calad, Mam?
>
> Wedi blino dibyn bach wyddost ti, nghyw i. Brysia iti gael mynd i dy wely imi gael clirio a rhoid yr hetar smwddio ar y dillad yna. Mae Ficrej eisiau nhw ben bora. (t.17)

Yn debyg i Bet Jones sy'n ymgymryd â thasgau 'benywaidd' ystrydebol, megis paratoi'r bywyd (t.22) a phoeni am ymddygiad y mab felly, (t.45) mae'r fam yn *UNOL* hefyd yn gweithio'n ddiflino er mwyn cynnal dyletswyddau'r fam gonfensiynol gan sicrhau bywyd boddhaol i'w theulu. Ar ben hynny, rhy mam yr adroddwr hapusrwydd a datblygiad ei mab o flaen ei helw personol ei hun. O ganlyniad, ei hunig obaith yw bod ei mab yn llwyddo yn yr arholiad ysgoloriaeth fel y gall '[f]ynd i weld y byd a chael lot o bres', (t.10) hynny yw, byw bywyd gwell na hi.

Nid ydyw'n gofidio llawer am ei hamgylchiadau, ond yn hytrach am ddyfodol ei phlentyn. Gwelir aberth y fam hefyd yn *TH.* Wrth i Gruff ymweld â'i wraig yn yr ysbyty, ac ar ôl sylwi ar gyflwr golwg ei gŵr, gofynna Bet iddo: 'Ydy Annie ddim yn golchi iti?' (t.18) O ganlyniad, mae'n dechrau poeni am sefyllfa ei theulu gan ddweud: 'mae'n hwyr imi ddŵad adre'. (t.18) Unwaith eto, ymddengys ei greddfau mamol yn gryfach na'i hangen personol lle y mae Bet yn barod i aberthu ei lles gan adael yr ysbyty meddwl er mwyn ei theulu a'i dyletswyddau. Ac yn sgil yr aberth hwn, portreedir ystrydeb y fam gonfensiynol wrth i Bet feddu ar y rhinweddau traddodiadol disgwyliedig.

Yn *TH,* gwelwn ddelwedd teulu cyffredin y chwedegau gyda'r tad, y fam, y mab a'r gath yn ffurfio canolbwynt teuluol y stori fer hir hon. Dangosir pwysigrwydd yr uned gartrefol drwy awydd y mab Geraint i aduno'r teulu unwaith eto. Dywed y gweinidog: 'eisio dy gael di adre sy arno yntau, a mae Nel [*y gath*] yn chwilio amdanat ti o hyd' (t.19). Ac wedi'i ymweliad, breuddwydia Bet Jones: 'yr oedd arnaf eisiau mynd adref at Gruff a Geraint, fel pe na bai neb arall yn bod, a chael bod yn y tŷ fy hun' (t.19). Trwy'r olygfa hon, gwelir hiraeth am y cysur cartrefol a'r diogelwch teuluol, pan yw'r fam yn sefyll wrth wraidd anghenion emosiynol ei

theulu; angen a welir hefyd yn *UNOL*, wrth i'r berthynas rhwng mam a phlentyn gael ei gosod yn ganolog i'r stori.

Y tu ôl i'r darluniau teuluol ystrydebol hyn, sy'n cynnwys delwedd y fam-ferthyr, awgrymir hefyd ochr dywyllach i'r dedwyddwch domestig. Nodwyd eisoes, er enghraifft, mai prif rôl menyw'r cyfnod oedd bod yn wraig ac wedyn yn fam. Ond beth sy'n digwydd pan nad yw'r fenyw yn gallu bodloni ar y rôl hon, na bodloni disgwyliad cymdeithasol fatriarchaidd? Wrth boeni am ei diffyg greddfau mamol, dywed Esther: 'Why was I so unmaternal and apart? Why couldn't I dream of devoting myself to baby after fat pulling baby like Dodo Conway?' (t.234) Mae'r gwyriad hwn, o'r hyn a ddisgwylid, yn amlwg yn chwarae rhan ganolog yn chwalfa feddyliol Esther. Metha'r fyfyrwraig â chyflawni ei disgwyliad cymdeithasol a wynebu môr o feirniadaeth o ganlyniad. Cadarnheir yr un pryder gan gymeriad Angharad Tomos:

` Dyna'n diben ni. Dyna pam y cawsom ein creu. Dyna pam y gwaedwn. Os na allwn ni gael rhywun arall i ddod allan ohonom ni cyn i'n hamser ddod i ben, rydyn ni'n fethiant. A does neb yn lecio methu.[783]

Yn yr un modd, gofynna Nia Angharad Watkins yn ei thraethawd, wedi iddi drafod profiad a gwacter Aurien o fagu plentyn ei chwaer yn *Byd o Gysgodion*, 'a yw merch yn "gyflawn" heb ymateb i ofynion ei chorff?'[784] Nodir yn aml fod methiant yn deimlad cyffredin i'r rhai sy'n dioddef o salwch meddwl.[785] Ac wrth feddwl am y sefyllfa fenywaidd, fel pe na bai'n ddigon i fenywod gael eu rheoli gan euogrwydd ac anniddigrwydd, ychwanegwyd yr ofn o fethu at y cymhlethdodau sy'n pwyso ar eu lles seicolegol. Yn ôl tystiolaeth bersonol Alaw Griffiths, mae'r siom yn deimlad llethol 'ro'n i'n crio achos 'mod i'n teimlo'n gymaint o fethiant'.[786] Ac ar ffurf gwaith creadigol, mynegir yr un teimlad yn *WFNI.* Ar ôl i'r prif gymeriad beidio â bodloni ar ei rôl ddisgwyliedig fel menyw a mam, meddai'r prif gymeriad yn *WFNI*: 'sori mod i'n ferch annaturiol mam, sori 'mod i methu chwarae'r rhan'.[787]

Er mai bywyd diflas, gwag ac ar adegau, myglyd oedd bod yn fam yn ystod y cyfnod, cosbwyd y menywod hyn yn seicolegol hefyd am fethu â chadw at y rôl hon.

---

[783] Tomos, *Wrth fy Nagrau i*, t.10.
[784] Nia Angharad Watkins, 'Y Nofel Ddomestig Gymraeg dros dair cenhedlaeth, gyda sylw neilltuol i waith Moelona, Jane Edwards a Sonia Edwards', (PhD, Prifysgol Aberystwyth, 2008), t.60
[785] Margaret Wehrenberg Psy.D, *Shame and Depression. Fighting the Gravitational Pull of Depression*, Psychology Today (2015), < https://www.psychologytoday.com/blog/depression-management-techniques/201507/shame-and-depression> [cyrchwyd 17 Hydref 2017]
[786] Griffiths, *Gyrru Drwy Storom*, t.72.
[787] Tomos, *Wrth fy Nagrau i*, t.158.

Llen arwynebol yw'r aelwyd yn *TH*, a thrwy salwch meddwl Bet, awgrymir peryglon y bywyd patriarchaidd. Er gwaethaf y ddelwedd ddelfrydol ymddangosiadol a bortreedir yma, ac fel y dadansoddwyd yn fras yn yr adran flaenorol, math o gysgod dros realiti yw'r darlun hwn. O ganlyniad, gwelwn sawl enghraifft o'r diflastod domestig a oedd yn rhan ganolog o fywydau mamau'r cyfnod. Am un agwedd o'r diflastod hwn, meddai'r prif gymeriad yn *WFNI*:

> Dan fy nhrwyn, byddai rhyw drawsnewidiad rhyfedd yn digwydd, a chyn i mi sylweddoli, byddai fy merch fach yn dair. Byddai'n mynd i'r ysgol, yn fy ngadael, yn rhedeg i ffwrdd, ac ni fyddai fy angen i mwyach. Byddai ganddi ei ffrindiau ei hun, byddai'n mynd i'r ysgol uwchradd, byddai'n gwrthryfela yn fy erbyn ac yn dweud pethau cas. Merch ifanc fyddai hi, yn llawn edrych ymlaen at y dyfodol, a byddwn i wedi fy nghaethiwo'n dragwyddol i'w hanghenion.[788]

Er bod y ddau destun yn sôn am gyfnodau ac amgylchiadau gwahanol, mae'r ffaith bod yr un delweddau'n codi flynyddoedd wedyn yn amgrymu na fu datblygiad o ran profiad y fam mewn gwirionedd. Gellir hefyd awgrymu bod y pryderon uchod yn atgyfnerthu'r ddelwedd p fywyd coll Bet Jones. Erbyn hyn, dim ond gwraig a mam yw hi. Trwy'r posibiliadau newydd sydd ar gael i'w mab Geraint, cyflwynir ffordd hollol newydd o feddwl a byw i Mrs Jones, ffordd o fyw nad oes modd i Bet ei mwynhau yn awr gan ei bod hefyd yn cael ei chaethiwo'n dragwyddol i anghenion ei mab a'i theulu. Ond mynegi ei gwir deimladau am ei sefyllfa a wna Bet Jones, gellir dadlau, drwy'i beirniadaeth ar ei mab:

> Nid oedd Geraint yn gwerthfawrogi ei gartref bellach; gwelwn yn ei glopa yr awydd i ddianc, dianc rhag ei waith, rhag y capel, rhag syniadau ei rieni, dianc i fyd rhai yr un fath â fo'i hun. (t.22)

Wrth gwrs, ni fyddai'n dderbyniol i Bet, y fam a'r wraig i weinidog a reolir gan ei chyfrifoldebau, fynegi'r teimladau hyn yn bersonol. Ond gwelwn hi'n brwydro yn sgil ei rhyddhau o'r ddyletswydd famol ac o'r hunaniaeth a orfodwyd arni. Yn wyneb anniddigrwydd y wraig, mae modd darllen yr araith hon, nid yn unig drwy lais y glaslanc Geraint ond yn fwy arwyddocaol, drwy lais y fam ei hun. Yn yr achos hwn, ymddengys fod y fam yn deall awydd ei mab. O ystyried hyn, gellir dweud bod Bet yn cynrychioli meddylfryd rhanedig y chwedegau sydd ond yn pwysleisio natur rwymedig meddwl y wraig. Gwraig a mam y chwedegau yw hi ond yn wyneb ei methiant i fodloni'n llwyr â'r rolau hyn, mae modd ei lleoli yn y canol rhwng safbwyntiau eithafol yr hen ffordd o fyw a'r diwylliant amgen, rhwng

[788] Tomos, *Wrth fy Nagrau i*, tt.103-104.

safbwyntiau dau brif gymeriad benywaidd nofel Sylvia Plath, Esther Greenwood a'i mam, Mrs Greenwood. A chan gyflwyno cyferbyniad llythrennol rhwng y fam draddodiadol a'r fenyw ifanc wrthnysig, cynigia *TBJ* ddimensiwn ychwanegol i wrthdaro mewnol Bet Jones.

Mam galed, weithgar, ystrydebol o'r cyfnod yw Mrs Greenwood. Cynrychiola'r wraig hon holl egwyddorion confensiynol yr oes.[789] Daeth yn wraig ac yn fam heb sefydlu ei gyrfa ei hun a hyd yn oed pan gafodd swydd ar ôl marwolaeth ei gŵr, penderfynodd ddysgu llaw-fer – sgil ysgrifenyddol a ystyrid yn enghraifft arall o natur unbenaethol dynion ym meddwl ei merch.[790] Ys dywedodd Esther: 'My mother had taught shorthand and typing to support us ever since my father had died, and secretly hated it and hated him for dying and leaving no money'(t.41). Swydd anghreadigol, ddigyffro a hen ffasiwn oedd y swydd hon i Esther, ac yn sgil hynny, delweddir Mrs Greenwood fel mam ddigyffro a chwerw. Ceisia berswadio ei merch i ddysgu'r sgil ymarferol hwn yn lle canolbwyntio ei holl sylw ar ei breuddwydion llenyddol plentynnaids. Serch hynny, mae gyrfa ei mam yn cynrychioli caethiwed i'r fyfyrwraig.

Ym marn Esther, ymddengys fel petai Mrs Greenwood wedi aberthu ei hanghenion personol i gyd er mwyn ei theulu. Ond yn wahanol i *UNOL* – rhaid cofio mai ffynhonnell bara menyn yw'r fam yn y teulu hwnnw hefyd – lle mae'r mab yn gwerthfawrogi gwaith caled ei fam a'r bwyd yn ei sgil, ni wêl Esther aberth ei mam yn yr un goleuni canmoladwy. Yn hytrach, math o wendid diuchelgais ydyw.

Ar ôl iddi fod yn dyst i hunanaberth ei mam am flynyddoedd, awgryma Pat MacPherson fod Esther yn dioddef o'r hyn a elwir yn 'matrophobia'.[791] Dywed:

---

[789] Meddai Mary Evans: 'The characters of *The Bell Jar* who intrude upon, and menace, Esther Greenwood are formed from the ideological premises of the USA in the 1950s. Mrs Greenwood, Buddy Willard, Philomena Guinea and Dodo Conway are all in a very literal sense, *social* actors who have taken to heard the demands and strictures of their social world and fully internalised them.' Gweler Mary Evans, 'Extending Autobiography: A Discussion of Sylvia Plath's 'The Bell Jar' yn *Feminism and Autobiography: Texts, Theories, Methods,* gol. gan Tess Cosslett, Celia Lury, Penny Summerfield (London: Routledge, 2000), t.87.

[790] Plath, *The Bell Jar*, t.64.

[791] Disgrifia Rich 'Matrophobia' fel a ganlyn: '"Matrophobia" as the Poet Lynn Sukenick has termed it is the fear not of one's mother or of motherhood but of *becoming one's mother.* Thousands of daughters see their mothers as having taught a compromise and self-hated they are struggling to win free of, the one through whom the restrictions and degradations of a female existence were perforce transmitted. Easier by far to hate and reject a mother outright than to see beyond her to the forces acting upon her. But where a mother is hated to the point of matrophobia there may also be a deep underlying pull toward her, a dread that if one relaxes one's guard one will identify with her completely.' Gweler Adrienne Rich, *Of Woman Born: Motherhood as Experience and Institution* (London: Virago, 1976), t.235.

'Esther […] sees her mother's martyrdom as archaic: self-denying has made a monster out of her and Esther has made sure she herself never succumbed to a self-denying impulse in her life'.[792] Ar ôl iddi ildio i bwysau a disgwyliadau cymdeithas y cyfnod, yn ogystal â'i chwerwder am ei sefyllfa ariannol, ymddengys na ŵyr Mrs Greenwood ddim oll am y tân a'r angerdd mewnol sy'n ysgogi ei merch. Yn sgil hynny, gwelir hefyd gysylltiad rhwng perthynas Esther â'i mam a bywyd personol Sylvia Plath. Fel y nododd Wagner-Martin:

> Now a mother herself, Sylvia had a better understanding of the time and energy Aurelia had spent on her care. She realized that her debt to her mother was impossibly great, and a kind of desperation existed in that knowledge. She could never repay Aurelia. And, again, she felt that she could not live up to her mother's expectations.[793]

Byw bywyd domestig a thraddodiadol oedd disgwyliadau Mrs Greenwood ac i raddau Aurelia Plath. Bywyd yn llawn caethiwed cymdeithasol oedd hwn drwy lygaid Esther a'i chrëwr. Am ei mam ei hun, a mam ei phartner, meddai Esther: 'of course, our mothers were good friends. They had gone to school together and then both married their professors and settled down in the same town.' (t.60) Dilynodd y ddwy fenyw lwybr confensiynol y pumdegau gan ymfodloni ar dref fach gyfarwydd ac aberthu eu gyrfaoedd a'u hunaniaethau personol.

Caethiwyd Mrs Greenwood wrth gredoau a chonfensiynau'r cyfnod[794] a chan ystyried y fagwraeth draddodiadol hon, nid yw'n syndod nad yw Mrs Greenwood yn deall ei merch. Wedi'r cyfan, nid ydyw'n gefnogol iawn o freuddwyd anghonfensiynol a gyrfa lenyddol Esther. Meddai'r fyfywraig: 'my mother kept telling me nobody wanted a plain English major' (t.80) – gan nodi'n hytrach bwysigrwydd teulu a sgiliau ymarferol. Ac o feddwl am y gwahaniaeth amlwg hwn rhwng Esther a'i mam, teg dweud bod Mrs Greenwood yn cyfrannu at wrthdaro seicolegol a chymdeithasol ei merch. Wedi'r cyfan, trwy'i chydymffurfiad a'i safbwyntiau traddodiadol, cynrychiola Mrs Greenwood holl gonfensiynau rhywiaethol a chyfyngol yr oes, confensiynau yr oedd ei merch mor awyddus i'w torri. Ys dywedodd Stephanie Tsank: 'Esther's mother is often grouped with a stream

[792] Pat MacPherson, *Reflecting on The Bell Jar* (London: Routledge, 1991), t.70.
[793] Wagner-Martin, *Sylvia Plath: A Biography*, t.190.
[794] Subrata Chanda Mozumder, 'Love, Sex and the Body in *The Bell Jar* and *My Body*: A Feminist Reading', *Crossings*, 8 (2017), 137.

of domesticated women that symbolize Esther's conflict with the surrounding world….conflict, dubbed by Macpherson as "the motherly breath of the suburbs"'.[795]

Ond er gwaethaf ymdrechion Esther i herio'r traddodiadau, mae'n dal yn disgyn yn ysglyfaeth i'r ystrydeb. Wrth feddwl am fabwysiadu'r rôl famol, er enghraifft, prydera'r fyfyrwraig: 'If I had to wait on a baby all day, I would go mad ..... I was my own woman' (t.234) gan ymhelaethu, 'And when I had told the poet I might well get married and have a pack of children one day, she stared at me in horror. "But what about your *career?*" she had cried.' (t.232) Ni all Esther ddychmygu bod yn fam, gan ei bod yn teimlo y byddai'r rôl honno'n disodli ei hunaniaeth yn gyfan gwbl. Ac er ei bod yn ymddangos braidd yn eithafol erbyn heddiw yn sgil y newid a fu yn rôl menywod yn gymdeithasol efallai, o dderbyn y safbwynt ffeministaidd, aberth cyffredin oedd hwn i rai yn y cyfnod.

Meddai Betty Friedan: 'there is no way she can dream of herself, except as her children's mother'.[796] Trwy ymateb y bardd a boenai am yrfa Esther, cadarnheir y gosodiad hwn gan awgrymu nad yw'r ddwy rôl – sef mam a llenor – yn gydnaws â'i gilydd, cred a osodir fel sylfaen i deimladau rhanedig Esther. O ganlyniad i'w safbwyntiau anghonfensiynol, ymddengys fod y fyfyrwraig yn cael ei chaethiwo rhwng dyletswydd a dymuniad. Teifl ei stori oleuni unwaith eto ar y disgwyliadau annheg a amgylchynai menywod y chwedegau. Yn unol â'r dadansoddiad hwn, rhybuddiodd Elaine Showalter: 'the suffocation of family life, boredom and patriarchal protectivism gradually destroys a women's capacity to dream, to work.[797]

Effeithia'r teimladau llethol o anobaith a gwacter ar bob agwedd o fywyd Esther. Yn fwy penodol, dinistrir ei gobeithion llenyddol ganddynt. Dywed Buddy Willard wrthi – dyn ystrydebol o'r cyfnod ac un o cariadon Esther – mai peth byrhoedlog yw ei gobeithion gyrfaol. Meddai: 'after I had children I would feel differently, I wouldn't want to write poems anymore'. (t.90) Trwy'r safbwyntiau cryf hyn, portreedir nid yn unig ragdybiaethau rhywiaethol cymdeithas yr oes ond cawn gip ar y peryglon seicolegol. Wedi'r cyfan, cynrychioli anniddigrwydd cyffredin yr oes yn ei chyfanrwydd y mae Esther Greenwood, ac yn hyn o beth, adlewyrchu'r gwrthwyneb llwyr y mae'i mam yn ei gynrychioli.

---

[795] Stephanie Tsank, 'The Bell Jar: A Psychological Case Study', *Plath Profiles,* 3 (2010), 171.
[796] Friedan, *The Feminine Mystique*, t.53.
[797] Showalter, *The Female Malady*, t.64.

Ar ôl dadansoddi safbwyntiau ac ystrydebau'r ddwy fenyw hyn ac wrth inni ddychwelyd at waith Kate Roberts, hawdd yw gweld sut y gallwn leoli Bet Jones yn y canol rhyngddynt, rhwng meddylfryd y pumdegau a'r chwedegau. Cyfeiria Melinda, er enghraifft, at safle rhanedig y wraig gan ddweud: 'dwyt ti ddim digon hen i berthyn i'r hen griw cul oedd yn flaenoriaid pan oedden' ni'n blant, a rwyt ti'n rhy gul i berthyn i bobol ifanc heddiw'. (t.48) Adlewyrchir yr ymraniad hwn hefyd drwy'i chyflwr seicolegol. Am ei bod yn fam ei hun ac yn un o wragedd canol oed y chwedegau, gwelwn ddelwedd debyg i Mrs Greenwood wrth iddi hefyd gael ei rhwymo gan gonfensiwn a chydymffurfiad caeth. O dan yr wyneb fodd bynnag, ymddengys Bet yn fwy tebyg i Esther. Gellir dadlau bod y fam Gymreig, fel y fyfyrwraig Americanaidd, yn dechrau blino ar draddodiadau confensiynol y gymdeithas. Eto, gŵyr Bet ei chyfrifoldebau a'i dyletswyddau fel mam a gwraig gweinidog. Oherwydd y rhain a'i theimladau amheus, fe'i caethiwir hi gan euogrwydd mamau'r cyfnod.

Trwy'r gweithiau amrywiol hyn, cyflwynir darluniau gwahanol sy'n cadarnhau'r delweddau patriarchaidd o'r fam ystrydebol. O ganlyniad, gwelwyd menywod o bob dosbarth cymdeithasol yn cael eu caethiwo gan gyfrifoldebau mamol. Awgrymodd Katie Gramich mai ffynhonnell o ormes oedd y teulu mewn ambell achos.[798] Er gwaethaf y delweddau cartrefol ystrydebol o'r teulu domestig hapus a amgylchynodd y pumdegau a'r chwedegau a'r llenyddiaeth graidd, aeth Gramich ymlaen i esbonio mai bodoli fel math o garchar cymdeithasol i rai gwragedd yr oedd yr uned deuluol mewn gwirionedd. Caeth i'r cartref oedd y menywod hyn, a chaeth oeddynt i'w rôl fel mam. Ys dywedodd Betty Friedan: 'Why should a woman bother to be anything more than a wife and mother if all the forces of her culture tell her she doesn't have to, will be better off not to?'[799] Crynhoir yr agwedd meddwl i'r dim gan gymeriad Angharad Tomos: 'Dyna oedd y drefn. Gwneud babis oedd merched i fod.'[800]

Yng ngolau hyn ac ar ôl dadansoddi rôl y fam yn yr adran hon yn ogystal â'r rolau benywaidd ystrydebol yn yr adran flaenorol, hawdd cydymdeimlo â'r sawl na allai dderbyn y drefn hon. Trwy bortreadau niferus y llenyddiaeth graidd, delweddwyd culni bywyd y fam yn ei gyfanrwydd lle y gwrthodwyd iddi gyfleoedd i

[798] Gramich, *Twentieth-Century Women's Writing in Wales: Land, Gender, Belonging*, t.75.
[799] Friedan, *The Feminine Mystique*, t.165.
[800] Tomos, *Wrth fy Nagrau i*, t.72.

ddatblygu'n gymdeithasol, yn bersonol ac yn broffesiynol. O ganlyniad, gellir deall chwalfeydd anochel Bet, Esther, mam yr adroddwr yn *UNOL*, yn ogystal â'r cymeriadau benywaidd eraill y cyfeiriwyd atynt. O adeg eu genedigaeth drwodd hyd at eu mamolaeth a'u marwolaeth, aeth menywod o bob cefndir yn ysglyfaeth i ystrydeb gwrth-ffeministaidd y cyfnod. Ond yn ogystal â hyn, daethant dan lach beirniadaeth y gymdeithas batriarchaidd. Wedi edrych ar brofiad y fam o safbwynt y menywod eu hunain, ystyrir, yn ail hanner yr adran hon, ddelwedd y rôl yn ei chyd-destun cymdeithasol ehangach, ac archwilwn gondemniad y fam yn y meysydd seiciatryddol.

* * *

Hyd yma, canolbwyntiwyd ar ddarlun y fam yn unol â'r ystrydeb ond hefyd fel merthyr a menyw gaeth. Ond yn nofel Ken Kesey, delwedd hollol wrthgyferbyniol a geir. Yn lle menywod archolladwy, portreadir y ffigwr mamol fel grym gormesol sydd wrth wraidd problemau seicolegol nifer o'r cleifion. O ystyried y safbwynt hwn, deuwn at ail ddadansoddiad y fam ac un o'r theorïau seicolegol mwyaf dadleuol sy'n ei hamgylchynu, sef Cymhlethdod Oidipos.[801]

Cyflwynodd Sigmund Freud y cysyniad hwn yn gyntaf yn ei lyfr *The Interpretation of Dreams.*[802] Cyfeiria at gred y seicdreiddydd o ran datblygiad emosiynol y mab mewn perthynas â'i deulu, ond yn benodol mewn perthynas â'i fam. Yn ôl Freud, wrth i'r bachgen droi'n bump oed, gall ddod yn ysglyfaeth i'r pryder hwn. Ymhlith nodweddion y cyflwr, roedd posibilrwydd bod y mab yn teimlo awydd rhywiol tuag at y fam ac o ganlyniad, byddai ymdeimlad o gystadleuaeth rhyngddo a'r ffigwr tadol. Ond byddai teimladau o gasineb a chenfigen hefyd yn gyffredin. Meddai Freud:

> In my experience, which is already extensive, the chief part in the mental lives of all children who later become psychoneurotics is played by their parents. Being in love with the one parent and hating the other are among the essential constituents of the stock of psychical impulses which is formed at that time and which is of such importance in determining the symptoms of the later neurosis.[803]

---

[801] Defnyddiwn gyfieithiad Harri Pritchard Jones o'i lyfr, *Y Feddwl Fodern: Freud* (Dinbych: Gwasg Gee, 1982).
[802] Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Almaeneg; Sigmund Freud, *Die Traumdeutung,* (Vienna: Franz Deuticke, 1899). Cyfieithwyd i'r Saesneg wedyn fel Sigmund Freud & A.A. Brill, *The Interpretation of Dreams* (New York: The Macmillan Company, 1910).
[803] James Strachey a Sigmund Freud, *The Interpretation of Dreams* (London: George Allen & Unwin Ltd, 1971) t.261. Ond am esboniad symlach, gwelir Changing Minds, *Oedipus Complex,*

O ganlyniad i'r meddylfryd Freudaidd poblogaidd hwn, dechreuodd seiciatryddion archwilio natur y teulu ac yn dilyn hyn, rhoddwyd pwyslais arbennig ar ddylanwad seicolegol y fam. Ym marn Freud, roedd plentyndod cariadus a hapus yn hanfodol er mwyn sicrhau datblygiad seicolegol cadarnhaol unigolyn. Am y cysyniad hwn, meddai James Stracey: 'it [plentyndod hapus] nevertheless played a large part in emphasizing the *infantile* roots of the unconscious wishes'. [804] Ymhelaethodd Erich Fromm:

> Though the social character can be determined by many factors, its roots are built into the child by his parents; since their character conforms with the "social character," they mould the child's character accordingly. In this way, *the family becomes the psychological agent of society.* [805]

Oherwydd y sylweddoliad hwn, ac yn wyneb natur batriarchaidd y cyfnod, daeth y fam yn ganolog i feirniadaeth seicolegol a chymdeithasol yr arbenigwyr hyn. Roeddent yn priodoli iddi, nid yn unig ei salwch meddwl ei hun a hynny oherwydd ei natur emosiynol wannach fel menyw,[806] ond hefyd broblemau seicolegol ei phlant. Fel y nododd Betty Friedan:

> And singled out for special attention was the 'mother.' It was suddenly discovered that the mother could be blamed for almost everything. In every case history of troubled child; alcoholic, suicidal, schizophrenic, psychopathic, neurotic adult; impotent, homosexual male; frigid, promiscuous female; ulcerous, asthmatic, and otherwise disturbed American, could be found a mother.[807]

Yn Gymraeg, cydnabu Harri Pritchard Jones hefyd safle canolog y fam i seiciatreg y cyfnod, gan ddweud: 'ymwneud â'i fam, ac i raddau llai â gweddill y teulu, sy'n mowldio fwyaf arno [y mab]'.[808] Yn yr un modd, pwysleisiodd Phyllis Chesler: '"real" women are all mothers – but once you're a mother, anything that goes wrong is your fault'.[809]

Yn ogystal â brwydro yn erbyn eu heuogrwydd, eu methiant a'u problemau seicolegol eu hunain a godwyd weithiau o ganlyniad i'w rôl fel mam a gwraig ac y tu hwnt, roedd mamau hefyd wrth wraidd dadl seicolegol ehangach. Yn amlwg, roedd

---

<http://changingminds.org/disciplines/psychoanalysis/concepts/oedipus_complex.htm> [cyrchwyd 02 Tachwedd 2017]

[804] James Strachey, 'Editor's Introduction' yn *The Interpretation of Dreams: Sigmund Freud,* gol. gan James Strachey (London: George Allen & Unwin Ltd, 1971), t.xix.

[805] Eich Fromm & Marxists, *The Influence of Social Factors in Child Development*, Marxists.org <https://www.marxists.org/archive/fromm/works/1958/social.htm> [cyrchwyd 23 Ionawr 2019]

[806] Dadansoddir y rhagdybiaeth hon wrth i'r bennod hon ddatblygu. Ond gweler hefyd Pennod 1 a 2.

[807] Friedan, *The Feminine Mystique*, t.5.

[808] Pritchard Jones, *Y Feddwl Fodern: Freud*, t.30.

[809] Chesler, *Women and Madness*, t.133

hi'n rhan ganolog o theori Freud ond yn ogystal â hyn ac er na ddadansoddwn elfen hon o waith y seiciatrydd, derbyniai'r fam sylw hefyd yng ngwaith R. D. Laing am 'y teulu schizophrenogenic'.[810] Trwy lygaid y seiciatryddion hyn, chwaraeai mamau ran ganolog yng nghyfansoddiad seicolegol eu plant a rhoddwyd o ganlyniad fai arnynt am nifer o'u problemau meddyliol.[811] I ni heddiw, nid yw'n syndod bod Freud a'r cysyniad hwn yn benodol, wedi eu beirniadu'n hallt. Cyfeiria Pietikainen at gynsail y gwrth-ddadleuon yn erbyn y cysyniad:

> The key ideas of psychoanalysis, such as the Oedipus Complex or the psychosexual stages of a child's development, were based on theories and assumptions that were considered increasingly outdated, false or redundant in the early twentieth-century academic community and medicine.[812]

Yng nghyd-destun y drafodaeth hon, nodwn i Phyllis Chesler roi sylw helaeth i'r feirniadaeth ffeministaidd ar Freud, gan gynnwys gwaith Karen Horney, Margaret Mead a hefyd Simone de Beauvoir a Betty Friedan.[813] Wedi dweud hynny, llwyddodd damcaniaethau Freud i godi twrw yn y meysydd seiciatryddol gan ddod yn hynod boblogaidd ac adnabyddus. Yng ngoleuni heriol y diwylliant amgen, enillodd theorïau'r seicdreiddydd boblogrwydd newydd yn ystod y chwedegau,[814] gan sicrhau ei le yng nghanol dadleuon y cyfnod.

Achosodd y theori seicolegol hon ddadleuon niferus ym myd meddygol seiciatreg. Ond mae gan syniadau Freud wreiddiau dwfn mewn llenyddiaeth hefyd. Daw cyd-destun y theori o fytholeg y diwylliant Groegaidd, ac yn benodol y ddrama 'Sophocles' sy'n traethu profiadau Oedipus, mab y Brenin Laius a'r Frenhines Iocasta o Thebes. Meddai Freud: 'This discovery [cymhlethdod Oidipos] is confirmed by a legend that has come down to us from classical antiquity: a legend whose profound and universal power to move can only be understood if the hypothesis I have put forward in regard to the psychology of children has an equally universal validity. What I have in mind is the legend of King Oedipus and Sophocles' drama which bears his name'.[815] Ar hyd y canrifoedd ers hynny, bu'n

---

[810] R.D. Laing, *The Politics of the Family and Other Essays* (London: Tavistock Publications, 1971).
[811] Am fwy o wybodaeth am Freud a delwedd y fam, gweler Madelon Sprengnether, *The Spectral Mother: Freud, Feminism and Psychoanalysis* (New York: University Cornell Press,1990).
[812] Pietikainen, *Madness: A History*, t.218.
[813] Chesler, *Women and Madness*, t.117.
[814] The New York Times, *How Freud Shaped the 20th Century Mind* (26 Tachwedd 1989), <https://www.nytimes.com/1989/11/26/weekinreview/ideas-and-trends-how-freud-shaped-the-20th-century-mind.html> [cyrchwyd 11 Mehefin 2018]
[815] Freud, *The Interpretation of Dreams*, t.261.

ddylanwad ar lenorion, dramodwyr a beirdd amrywiol. Efallai mai'r enghraifft enwocaf yw drama Shakespeare *Hamlet*, ond bu'n ysbrydoliaeth hefyd ar gyfer drama Eugene O'Neill, *Long Day's Journey Into Night* (1956), nofel Robert Bloch, *Pyscho* (1959) yn ogystal â stori fer Frank O'Connor, *My Oedipus Complex* (1963) i enwi ond ychydig.[816] Ymhlith yr enghreifftiau niferus hyn, saif testunau ein llenyddiaeth graidd. Gan gadw theori Freud a'r feirniadaeth arni yn y meddwl, gosodir sylfaen ar gyfer gweddill yr adran hon a dadansoddwn brofiad seicolegol y fam mewn goleuni Freudaidd.

Ers cyhoeddi *UNOL*, mae nifer o feirniaid wedi cysylltu theori ddadleuol Freud â nofel Caradog Prichard lle y mae'r berthynas ganolog rhwng mab a mam yn cryfhau'r dadansoddiad seicolegol hwn.[817] Fel y nodwyd, aflonyddwyd plentyndod cynnar yr adroddwr – a'r awdur – wrth i'w dad farw pan oedd yn ifanc. O ganlyniad, dibynna'r bachgen yn llwyr ar ei fam am ei holl anghenion cymdeithasol ac emosiynol. Er bod y profiad Freudaidd yn amrywio ychydig yma gan nad oes rhaid i'r mab frwydro am sylw a chariad ei fam, mae gwreiddiau'r theori yn dal yn glir.

Gall y mab lenwi bwlch y ffigwr gwrywaidd ym mywyd ei fam yn weddol hawdd, gan esgor ar drafodaethau am ddibyniaeth anghonfensiynol y mab arni. Pwysleisir, er enghraifft: 'Fedra i ddim cysgu'n yr hen llofft yma, Mam. Eisio dŵad i gysgu yn siambar efo chi. Olreit ta, nghyw i. Dos i gadw lle cynnas imi.' (t.18) Er nad bachgen bach ydyw mwyach, mae'r adroddwr yn rhydd i rannu gwely ei fam. Yn sgil y ffaith nad oes cystadleuaeth wrywaidd yn y cartref, derbynia'r mab holl gariad ei fam wrth iddo fyw mewn paradwys gartrefol bersonol. Ys dywedodd John

---

[816] Ni fwriedir dadansoddi'r gweithiau hyn o safbwynt Oedipiaidd. Ond gellir darllen Albert Rothenberg & Eugene D. Shapiro, 'The Defense of Psychoanalysis in Literature: "Long Day's Journey Into Night" and "A View From The Bridge"', *Comparative Drama,* cyf 7.1 (Gwanwyn 1973), 51-67; Merlyn Sneha Raj, 'A Psychoanalytical Reading of Norman Bates in Robert Bloch's Psycho', *Imperial Journal of Interdisciplinary Research,* cyf 3.5 (2017), 1633-1636; Pipit Nurul Fitriah, *Analysis O'Connor's "My Oedipus Complex" Using Psychoanalysis Discourse* (Chwefror, 2012), < http://anotherlove-lifestories.blogspot.co.uk/2012/02/analysis-oconnors-my-oedipus-complex.html> [cyrchwyd 19 Rhagfyr 2017]

[817] Dylid darllen Baines, 'Introduction by Menna Baines' yn *Un Nos Ola Leuad: One Moonlit Night*, t.xvii; Baines, *Yng Ngolau'r Lleuad*, t.330; Pritchard Jones, 'Un Nos Ola Leuad', t.x; Rowlands, 'Y Fam a'r Mab – Rhagarweiniad i 'Un Nos Ola Leuad', tt.278-309. Ond mae'n rhaid cadw yn y cof hefyd berthynas agos Caradog a'i fam ei hun; perthynas a archwiliwyd yn weddol fanwl ym Mhennod 3. Am gymhlethdodau'r berthynas hon, cyfeiria Mihangel Morgan at gofnod gan Caradog ei hun am hunllef rhywiol am ei fam. Ac yn yr un darn cyfeiria'r beirniad at sylwadaeth Baines am ei stori 'Grisiau Serch', *Y Genod yn Ein Bywyd* (1964) 'sy'n dangos pa mor obsesiynol oedd y ddelwedd hon ym meddylfryd y llenor.' Gweler Morgan, *Llên y Llenor: Caradog Prichard*, t.45. A thrwy ysgrifau amrywiol Emyr Llywelyn yn *Y Faner Newydd* yn y cyfrolau 1, 2, 3, 4, 5, 64 a 65, mae'n cyfeirio'n aml at 'niwrosis' Caradog sef ei Gymhlethdod Oedipus wrth iddo ddweud: 'bu'n dioddef ar hyd ei oes o Gymhlethdod Oedipus – sef methiant i aeddfeddu'n emosionynol a rhyddhau ei hun yn emosiynol o'i fam'. Gweler Emyr Llywelyn, 'Nofel y Dyn Niwrotig,' *Y Faner Newydd,* 2 (Gaeaf 1996), tt.17-18.

Rowlands: ‘nid yw’r mab wedi dod i delerau ag “egwyddor realiti” ac y mae’n para i ysu am y pleser elfennaidd o uno â’i Fam’.[818] Mor hapus yw’r bachgen hwn yng nghwmni ei fam. Ymddengys i’r darllenydd ei fod yn byw yn ei fyd bach delfrydol ei hun, er gwaethaf y caledi cymdeithasol sydd o’i gwmpas, byd sy’n llawn coginio, canu a chariad ei fam.

Gwelir teimlad cyffredin yn ‘My Oedipus Complex’. Yn union fel yr adroddwr yn *UNOL,* caiff y mab gysur wrth gysgu nesaf at ei fam. Esbonia’r awdur: ‘Mother waked and felt for me. I settled back comfortably in the warmth of the bed with my thumb in my mouth.’[819] Trwy’r cymeriadau hyn, portreadir perthynas agos y meibion â’u mamau wrth i’r ddau ohonynt dderbyn rhyw gysur a diogelwch yng ngwely’r fam. Yn wahanol i *UNOL* fodd bynnag, lle nad yw’r tad yn bresennol, profiad cwbl ystrydebol yn ôl damcaniaethau Freud yw profiad Larry yn *My Oedipus Complex* wrth i ailymddangosiad y tad godi teimladau o gasineb a chenfigen. Am y ffaith nad oedd lle bellach iddo yng ngwely ei fam, er enghraifft, meddai Larry:

> Every time I had pointed out to her the waste of making two beds when we could both sleep in one, she had told me it was healthier like that, and now here was this man, this stranger, sleeping with her without the least regard for her health![820]

Dyma enghraifft o theori Freud yn ei chyfanrwydd lle y mae sefydlogrwydd meddyliol y mab yn dechrau dirywio wrth i’w ddedwyddwch cartrefol newid yn sydyn. Fel y nodwyd eisoes, mae amgylchiadau’r adroddwr yn nofel Caradog Prichard ychydig yn wahanol, ond un cymeriad gwrywaidd a allai fwgwth y delfryd teuluol yw ei ewythr, Yncl Wil. O ganlyniad i absenoldeb ei dad, gellir awgrymu bod cenfigen y mab yn cael ei drosglwyddo i’w ewythr wrth iddo gynrychioli’r gystadleuaeth wrywaidd nesaf ym mywyd yr adroddwr.

Ar ôl dysgu ei fod wedi ymweld â’i fam un noson, ymddangosa’r bachgen yn grac tu hwnt. Meddai’n gynddeiriog: ‘Y cythral, mi lladda i o os daw o yma eto, medda fi, wedi gwylltio’. (t.132) Ac yn dilyn hyn, cyfeiria unwaith eto at ei ewythr, y tro hwn mewn amgylchiadau tywyllach wrth i’r adroddwr sôn am freuddwyd lle y crogodd ei Yncl Wil am ladd Wil Elis Portar.[821] Mae’n ddiddorol nodi fod y breuddwyd hwn yn ymddangos ar ôl iddo weld ei fam yn ofidus wedi ymweliad ei

---

[818] Rowlands, ‘Y Fam a’r Mab – Rhagarweiniad i ‘Un Nos Ola Leuad’, t.306.
[819] O’Connor, *My Oedipus Complex,* t.24.
[820] O’Connor, *My Oedipus Complex,* t.25.
[821] Prichard, *Un Nos Ola Leuad,* t.155.

ewythr lle y dwyseir difrifoldeb ei salwch meddwl o ganlyniad.[822] Ac er bod yr adroddwr, 'ffefryn digamsyniol ei fam',[823] yn teimlo 'fel gorchfygwr trwy'i oes, a chanddo'r hyder sydd yn aml yn dod â llwyddiant mawr',[824] y gwrthwyneb llwyr yw'r teimlad pan fygythir y delfryd hwnnw.

Yng ngoleuni'r cysyniad Freudaidd, pwysleisiodd y seicdreiddydd: 'in this case too it can only be a question of sexual impulses which have not been understood and which have been repudiated'.[825] Trwy ddamcaniaethau'r seiciatrydd, gallwn gysylltu'r elfen seicolegol rywiol ag ymddygiad yr adroddwr a dechreuwn o ganlyniad ddyfalu am ei bwyll. Wedi'r cyfan, er mai amwys yw ymweliad yr ewythr – ai perthynas rywiol rhwng y fam a'r ewythr a awgrymir?[826]– gellir dadlau mai codi oherwydd bygythiad gwrywaidd rhyngddo a'i fam a wna hunllef yr adroddwr, hynny yw, oherwydd gwreiddiau Oedipiaidd y bachgen. Yn wyneb hyn, mae modd hefyd briodoli anallu'r adroddwr i gynnal perthynas ramantus normal i theori seicolegol Freud.

Yn ôl Dafydd Glyn Jones, Jini Bach Pen Cae yw'r *femme fatale*[827] a thrwy'i pherthynas â'r adroddwr, cryfheir yr elfen Oedipiaidd yn *UNOL* unwaith eto.[828] Er mai Ceri oedd ei wir gariad, Jini yw'r ferch sy'n llwyddo i hudo'r bachgen yn y diwedd. Ar ôl dod ar draws ei gilydd un nos, newidia cwrs eu bywydau am byth. Ar lan yr afon, dechreua'r ddau gusanu, cyn cael rhyw yn y diwedd, lle y pwysleisia'r adroddwr: 'Hi oedd yr unig hogan ges i erioed'. (t.180) Wedi'r datguddiad hwn, fodd bynnag, try Jini yn ysglyfaeth i broblemau seicolegol yr adroddwr, wrth iddo'i lladd ar ôl cydorwedd â hi gan gadarnhau yn y broses ei gwymp i wallgofrwydd. Meddai: 'A rhoid fy nwy law am ei gwddw hi a rhoid cisan iddi pan oedd hi'n cysgu, a dechrau'i gwasgu hi'. (t.180)

Nid digon mo'r lofruddiaeth i gadarnhau'i broblemau seicolegol, serch hynny. Ym mhennod olaf y nofel, gwelwn arwydd arall o gymhlethdod Oidipos parthed y berthynas rhwng Jini, yr adroddwr ei hun a'i fam. Egyr y bennod â'r frawddeg ganlynol, ac o'r dechrau crëir amwysedd:

---

822 Cydnabyddir pwysigrwydd lleoliad y breuddwyd hwn hefyd gan Bleddyn Owen Huws, *Nodiadau ar Un Nos Ola Leuad*.
823 Pritchard Jones, *Freud: Y Meddwl Modern*, t.27.
824 Ibid.
825 Freud, *The Interpretation of Dreams*, t.585.
826 Codir y cwestiwn hwn hefyd gan Owen Huws, *Nodiadau ar Un Nos Ola Leuad*.
827 Glyn Jones, 'Rhai storïau am blentyndod', t.266.
828 Eto, mae Emyr Llywelyn yn cyfrannu at y dadansoddiadau Oedipiaidd o ran Jini yn ei erthygl, Emyr Llywelyn, 'Jini Bach Pen Cae: Yr Anima,' *Y Faner Newydd*, 5 (Hydref 1997), 38-40.

> Dew, mi faswn i'n leicio cael ei chwmpeini hi rŵan, hi'n gafael yn fy llaw i a finna â mraich amdani hi, a ninna'n cerddad hefo'n gilydd i fyny i Pen Llyn Du. (t.175)

Gan fod yr adroddwr yn sôn am ei fam yn y bennod flaenorol – gwyddom ei bod yn y Seilam erbyn hyn - tybiwn mai amdani hi y mae'n siarad unwaith eto cyn inni ddysgu mai Jini Bach Pen Cae yw'r un sy'n cael ei chwant y tro hwn. Mae'r amwysedd hwn yn gadael inni archwilio'r dylanwad Oedipiaidd yn fanylach a chyflwynir o ganlyniad ddimensiwn arall i'w wallgofrwydd. Ys dywedodd John Rowlands: 'mae torri'r llinyn bugail rhyngddo a'r Fam yn brofiad annioddefol iddo'.[829] Ar ôl i'r mab golli ei gefnogaeth fawr, a'i fam yn disgyn yn anobeithiol i wallgofrwydd, chwelir ei fyd yn deilchion. A thrwy'i weithred dyngedfennol olaf o ladd merch, pwysleisir natur fregus mab sy'n methu ymdopi heb fedru dibynnu ar ei fam.

Yng ngolau hyn, ac ar ôl bod yn dyst i chwalfa ei fam, sef y person pwysicaf yn ei fywyd, awgrymir gwendid seicolegol y mab wrth iddo ddioddef yr un dynged yn union, fel pe bai'n ddrych i ymddygiad ei riant; efelychiad sydd ond yn pwysleisio'r elfen Oedipiaidd ac anallu'r bachgen i wahanu ei fywyd rhag bywyd ei fam. Yn wyneb y berthynas eithriadol o agos rhwng mam a mab felly, cawn ein hatgoffa o ddyfyniad Friedan: 'more and more of the new child pathologies seem to stem from that very symbiotic relationship with the mother, which has somehow kept children from beginning separate lives'.[830] Cyfranna'r diffyg hwn o ran hunaniaeth ac annibyniaeth ym mywyd yr adroddwr at ddiffyg datblygiad cymdeithasol a seicolegol, dirywiad sy'n cael ei bwysleisio drwy'i chwalfa a hefyd drwy iaith y prif gymeriad. Ond pwysleisia hefyd mai caeth yw'r adroddwr i'r cyfnod ffalig yn ôl damcaniaethau Freud.[831] Gwelir o ganlyniad feddylfryd diniwed ac annatblygedig yr adroddwr sydd ond yn cryfhau elfen arall o'i gymhlethdod Oidipos.

Meddai Mihangel Morgan: 'prin yw beirniaid sydd wedi ystyried arwyddocâd uchafbwynt *Un Nos Ola Leuad* - sef neilltuo'r fam i'r seilam'.[832] Mae Ffraid Gwenllian, fodd bynnag, yn dadansoddi'r syniad hwn yn nhermau

---

829 Rowlands, 'Y Fam a'r Mab – Rhagarweiniad i 'Un Nos Ola Leuad', t.304.
830 Friedan, *The Feminine Mystique*, t.233.
831 Y trydedd o bum cam datblygiad seicorywiol Freudaidd yw'r cyfnod ffalig : (i) the oral, (ii) the anal, (iii) the phallic, (iv) the latent, and (v) the genital. Am fwy o wybodaeth gwelir: Saul McLeod, *Psychosexual Stages* (2008), < https://www.simplypsychology.org/psychosexual.html> [cyrchwyd 14 Tachwedd 2017] Ond trafododd Freud y camau hyn yn Sigmund Freud, *On Sexuality: Three Essays on the Theory of Sexuality and Other Work*, gol. gan Angela Richards (Middlesex: Penguin Books, 1977).
832 Morgan, *Llên y Llenor: Caradog Prichard*,, t.8.

seicoddaearyddiaeth. Yn ôl Ffraid Gwenllian, mae'r llyn hefyd yn awgrymog o ran profiad Freudaidd y bachgen. Wrth iddo ddewis gadael y pentref a chyrchu'r llyn, pwysleisir ei fod yn bell iawn o'i gymdeithas, ei wreiddiau ac felly, ei bwyll. O ganlyniad, awgrymir unwaith eto ddibyniaeth lwyr y mab – er ei fod yn oedolyn erbyn hynny – ar ei fam.

Yn ogystal â'r iaith anaeddfed awgrymog a ddadansoddwyd eisoes yn yr astudiaeth, ni ddefnyddir dyfynodau drwy'r holl nofel ychwaith. Wrth i'r awdur hepgor dyfais seml fel hon, ni all y darllenydd ddweud beth sy'n sgwrs a beth sy'n feddyliau preifat ac yn yr un modd, nid yw'n hawdd diffinio llinell amlwg rhwng ffaith a ffuglen.[833] Atgyfnerthir y dadrithiad hwn o realiti gan Betty Friedan. Meddai: '[they] cannot distinguish themselves as separate from the outside world'.[834] Nid anodd gweld cyswllt rhwng defnydd Caradog Prichard o dechneg llif yr ymwybod a syniadau Freud am yr ymwybod a'r isymwybod a'u rôl wrth sefydlu'r gwahaniaeth rhwng breuddwydion a realiti. Hyd yn oed wrth i'r adroddwr heneiddio, mae'n dal yn anodd penderfynu ai dyn neu blentyn sy'n siarad yma. Ac ymddengys i'r darllenydd nad yw'r adroddwr wedi datblygu'n seicolegol o gwbl wrth iddo fethu dod i delerau â sefyllfa druenus ei deulu bach. Wedi'r cyfan, awgrymir drwy ansicrwydd cyffredin y nofel nad yw'r dyn yn gallu gwahaniaethu rhwng ei bresennol a'i orffennol lle y mae'r lleuad yn gweithio fel math o gysondeb rhwng yr amserau gwahanol.[835] Ar ben hynny, ac fel y dangoswyd drwy freuddwyd y mab am ei ewythr, nid yw'r adroddwr, yn unol â dadansoddiadau Friedan a Freud, chwaith yn medru gwahaniaethu rhwng ei freuddwydion a'i realiti; methiant sy'n dwysáu wrth i'w iechyd meddwl a lles meddyliol ei fam ddirywio.

Yn wyneb hyn, nid oes modd anwybyddu'r elfennau Oedipiaidd sy'n rhedeg trwy *UNOL* o bell ffordd. O ganlyniad i'r ffigwr mamol canolog, mae adleisiau o ddamcaniaethau Freud i'w gweld yn ei ffurfiau amrywiol drwy'r holl nofel. O'r herwydd, mae modd dadlau bod rôl a dylanwad seicolegol y fam yn cael eu harchwilio yn eu cyfanrwydd yn yr achos hwn. Rhaid cofio serch hynny, mai amwys ar lawer ystyr yw'r dadansoddiadau hyn.

[833] Mae Menna Baines yn trafod y llinell gymylog hon, rhwng ffaith a ffuglen, yng ngwaith Caradog Prichard yn ei llyfr wrth iddi hefyd darparu'r ysbrydoliaeth i'w theitl. Gweler Baines, *Yng Ngolau'r Lleuad*, t.116.
[834] Friedan, *The Feminine Mystique*, t.241.
[835] Fel y trafodwyd ym Mhennod 4.4.

Wrth feddwl am hanes yr adroddwr gyda Jini Bach Pen Cae, dylid cofio bod camdriniaeth rywiol yn digwydd yn aml drwy nofel Caradog Prichard, gan lygru bywyd yr adroddwr ar sawl achlysur. Roedd yn dyst i'r cam-drin domestig rhwng Mam Moi ac Yncl Now Moi. Meddai, er enghraifft:

> Dyma ni'n tri yn cerddad yn ôl yn slo bach at y drws a be welson ni ond Yncl Now Moi yn gafael yn ei gwallt hi efo'i law chwith a dal ei phen hi'n ôl nes oedd ei gwddw hi i gyd yn y golwg, a braich Mam Moi amdano fonta run rath â phetasan nhw'n ddau gariad, a'r gyllath frechdan yn sownd yn ei dwrn hi. (t.12)

Roedd hefyd yn dyst i'r gamdriniaeth awgrymus rhwng Jini Bach Pen Cae a Preis Sgŵl.[836] Ac o ganlyniad i'r digwyddiadau hyn, mae modd awgrymu eu bod wedi dylanwadu ar ymddygiad y bachgen ei hun, yn arbennig wrth ystyried ei dynged ef a Jini ar y diwedd. Wrth feddwl am ddymuniad y bachgen i rannu gwely ei fam, gellir tybio mai arwydd o blentyn bach sydd eisiau cysur ei fam yn unig ydyw. Ac yn yr un modd, ar ôl ystyried natur archolladwy plant, gall teimladau afreolus y mab wedi ymweliad aelod anffafriol o'r teulu fod yn ddim mwy nag enghraifft o blentyn sy'n poeni am les ei fam ar ôl iddo ei gweld mewn cyflwr gofidus.

Yn wir, nid drych perffaith o'r theori seicolegol yw *UNOL*. Er hyn ac fel y pwysleisia Emyr Llywelyn yn ei ysgrifau amrywiol[837], nid yw'n bosib ychwaith osgoi cysgod Cymhlethdod Oidipos ar fywyd a nofel yr awdur. Mae'r cysgodion hefyd yn tywyllu nofel Ken Kesey a bywydau ei gymeriadau yntau. Ac i'r nofel honno y symydwn yn awr.

Wrth drafod strwythur, pŵer ac awdurdod y seilam yn hanesyddol ac yn feirniadol, meddai Petteri Pietikainen:

> The social structure of the mental asylum resembled the prevailing patriarchal European family. The superintendant was the venerated patriarch, whose relationship with the patients was very much like that between father and child. Together with his assistant physicians, nurses and attendants, the patriarch-doctor offered protection, support, security and consolation to his patients. Reciprocally, he expected his patients to submit to his authority and to the rules he had devised for the benefit of the whole hospital community. In the subordinate role, the patient was provided with the basic comfort of home, albeit without freedom, idleness or luxury. If the patients defied the authority of the patriarch, it was his duty to punish them, for example by constraining and confining unruly patients with the help of isolation rooms, straitjackets and other restraints, or by reducing their food or tobacco rations.

---

[836] 'Ond welson ni mono fo (Preis Sgŵl) ar ol iddo fo fynd i standard Ffôr i nôl Jini Bach Pen Cae a mynd a hi efo fo trw'r drws pella nes aeth y gloch amsar cinio.' Gweler Prichard, *Un Nos Ola Leuad*, t.7.

[837] Gweler y llyfryddiaith am y rhestr lawn.

> Recalcitrant patients were treated very much like disobedient children, and their defiance became a symptom of their illness.[838]

Yn unol â dadansoddiad Pietikainen, gwelir yn *OFOTCN* enghraifft o'r ddelwedd ddiraddiol hon. Dyma bortreadu'r cleifion fel plant sydd angen arweiniad cymdeithasol a seicolegol. Ond yn lle ffigwr tadol sy'n rheoli holl weithredoedd y seilam, ceir yn nofel Kesey wahaniaeth o ran y ddeinameg deuluol gyda Nurse Ratched yn bennaeth y ward. O ganlyniad i'r strwythur gwrthdro hwn, portreedir y seilam fel cymdeithas fatriarchaidd. Meddai Harding: 'we are victims of a matriarchy here'. (t.56) Oherwydd hyn, cynigir delwedd braidd yn anghonfensiynol o'r teulu. Fel yr awgrymodd Ruth Sullivan,[839] cynrychiola Nurse Ratched y fam, portreedir McMurphy fel y tad a delweddir y cleifion fel y plant gan ffurfio felly fath o deulu niwclear.

Yng ngoleuni'r dadansoddiad Oedipiaidd, meddai Frederick R. Karl am Nurse Ratched:

> With her benign manner, her huge frontal development, her 'big nurse' quality, Nurse Ratched is, of course, the 'great mother,' the great bitch goddess, woman as monster. She is the embodiment of what women do to men: she slices off their manhood and turns them into incompetents, fearful, helpless charges.[840]

O ystyried y dadansoddiad hwn a natur nawddoglyd Nurse Ratched, cawn ein hatgoffa hefyd o feirniadaethau Pietikainen a Foucault. Gan gyflwyno delwedd wrthdro i'w ddatganiad blaenorol i raddau, nododd Pietikainen fod y seilam yn aml yn gweithredu yn ôl yr egwyddor 'mother knows best', neu'r agwedd lymach, 'mamma will spank when the patient-children could no longer be controlled',[841] delwedd a ymgorfforir yn ei chyfanrwydd gan Nurse Ratched.

Mae rhaid i'r dynion ddilyn ei rheolau a rheolau'r gymdeithas yn ufudd a gwelir natur y canlyniadau difrifol pan na chyflawnir ei dymuniad.[842] Ys dywedodd Foucault: 'Madness is childhood. Everything at the Retreat is organized so that the insane are transformed into minors. They are regarded as children… They must be given immediate punishments and rewards.'[843] Yn unol â beirniadaeth y Ffrancwr,

---

[838] Pietikainen, *Madness: A History*, t.137.
[839] Ruth Sullivan, '*Big Mama, Big Papa, and Little Sons in Ken Kesey's One Flew Over the Cuckoo's Nest'* yn *Bloom's Modern Critical Interpretations: Ken Kesey's One Flew Over the Cuckoo's Nest,* gol. gan Harold Bloom (New York: Infobase Publishing, 2008), tt.15-28.
[840] Frederick R. Karl, *American Fiction 1940-1980* (New York: Harper & Row, 1983), tt.59-62.
[841] Pietikainen, *Madness: A History*, t.147.
[842] Archwilir delwedd y seilam a pherygl rheolau yn fanylach ym Mhennod 5.3.
[843] Foucault, *Madness and Civilisation*, t.252.

rhy Nurse Ratched freintiau bach i'r cleifion megis amser teledu neu gymeradwyaeth lafar os cydymffurfiant â'i gêm seicolegol. Yn sgil hynny, mae hefyd yn ofalus i bwysleisio nad yw ymddygiad annerbyniol yn cael ei ganiatáu drwy weinyddu triniaethau sioc neu yn yr achosion mwyaf eithafol, lobotomïau i'r troseddwyr hyn; a hyn oll er mwyn cryfhau ei safle uwch fel rhiant a safle is y cleifion fel plant drwg. O ganlyniad i'r ddeinamig deuluol, nid yw'n syndod bod sawl feirniad wedi mynd ati i gysylltu ac archwilio nofel Ken Kesey mewn goleuni Oedipiaidd.[844]

Dyma gadarnhau'r syniad Freudaidd fod Nurse Ratched yn caethiwo'r dynion hyn yn eu stâd fabanaidd drwy eu trin fel plant drwg. Cyfyd y ddelwedd hon yn aml yn y gweithiau amrywiol hefyd. Wrth ddychwelyd at ddelwedd y carchar, meddai cymeriad *Yma o Hyd*: 'ron i'n teimlo fel plentyn bach â nam arno a phawb yn trio meddwl am rywbeth clên i'w ddweud'.[845] Gwelwyd eisoes fod mam Esther Greenwood a Dr Gordon yn ei thrin fel merch ddrwg. Ac yn nofel Angharad Tomos, hola'r prif gymeriad: 'Pam oedden nhw i gyd yn siarad fel tasen nhw'n athrawon meithrin?' (t.59) Oherwydd y delweddau amrywiol hyn felly, nid yw'n syndod bod pobl o'r farn fod y seilam yn achosi mwy o ddifrod i'r hunan.

Gwelir effaith yr amgylchfyd niweidiol drwy seicoleg cymeriadau gwrywaidd Ken Kesey wrth iddynt frwydro â'u cythreuliaid Freudaidd eu hunain. Un cymeriad sy'n cael ei gaethiwo yn gyfan gwbl gan ei gymhlethdod Oidipos yw Billy Bibbit. Gwyryf yw Billy ac yntau dros ddeng mlwydd ar hugain oed. O ystyried y gred Freudaidd sy'n pennu bod pob dyn a'i weithredoedd yn cael ei reoli gan ryw – meddai Robert Boyers, er enghraifft: 'It is repressed sexuality which ostensibly lies behind every psychosis, and which is responsible for the acquiescence of all men in the confining conventions of Western society'[846] – awgrymir nad ydyw wedi datblygu'n iach yn seicolegol. Oherwydd y diffyg datblygiad hwn, ymddengys nad oes ganddo nerth na hyder. O ganlyniad, fe'i rheolir gan ofn, ac yn anad dim, gan ofn o'r cymeriadau benywaidd gormesol; Nyrs Ratched a'i fam.

---

[844] Gwelir dadansoddiadau megis Suzan Voncken, 'Freud in Fiction. The Representation of the Oedipus Complex in 1960s American Literature' (Traethawd Doethuriaeth, Utrecht University, 2015), t.18; Daniel J. Vitkus, 'Madness and Misogyny in Ken Kesey's One Flew Over The Cuckoo's Nest, *Journal of Camparative Poetics,* rhif 14 (1994), 64-90.
[845] Tomos, *Yma o Hyd*, t.72
[846] Meddai Robert Boyers:'It is repressed sexuality which ostensibly lies behind every psychosis, and which is responsible for the acquiescence of all men in the confining conventions of Western society'. Gweler Robert Boyers, 'Porno-Politics', *The Annals of the American of Political and Social Sciences,* 376 (Mawrth 1968), 36-52.

Ni phortreadir mam Billy Bibbit fel cymeriad hoffus ychwaith, wrth iddi sicrhau bod ei mab yn gwbl ddibynnol arni. Defnyddia dechnegau Oedipiaidd amrywiol er mwyn ei gadw ynghlwm wrth ei hochr.[847] Drwy weithred sy'n ein hatgoffa o berthynas yr adroddwr â'i fam yn *UNOL* – rhaid cofio mai plentyn yw'r adroddwr yn nofel Caradog Prichard lle y mae Billy yn oedolyn yn ei dridegau – gorwedda ef gyda'i ben ar ben-glin ei fam wrth iddi oglais ei glust yn gariadus. Tra ei fod ar lin ei fam, mynega Billy ei fod eisiau mynd i goleg a phriodi merch un diwrnod. Ond mae ei fam yn bychanu ei obeithion gan bwysleisio bod digon o amser o'i flaen. Mewn ymateb, ebycha'r mab: 'Mother, I'm th-th-thirty-one years old!'(t.254). Ond chwerthin yn unig a wna Mrs Bibbit gan ddweud: '*Sweet*heart, do I look like the mother of a middle-aged man?'(t.254)

Ar ôl i Chief Bromden fod yn dyst i'r olygfa hon,mae'n ymddangos bod Mrs Bibbit yn caethiwo ei mab yn ei gyfnod ffalig gan niweidio, yn y broses, ei ddatblygiad seicolegol. Fel y sylwa Chief Bromden: 'she wrinkled her nose and opened her lips at him and made a kind of wet kissing sound in the air with her tongue, and I had to admit she didn't look like a mother of any kind'. (t.254) Trwy ei hunanladdiad tua diwedd y nofel, cadarnheir problemau seicolegol Billy a hefyd faint y niwed yn sgil ei gymhlethdod Oidipos. Ar ôl iddi ei ddarganfod yn gorwedd gydag un o ffrindiau benywaidd McMurphy, mae Nurse Ratched yn bwgwth dweud wrth ei fam am ei ymddygiad annerbyniol. Ys dywedodd Terence Martin:

> Matriarchy in *One Flew Over the Cuckoo's Nest* comes, we see, to be expressed in various forms of female tyranny. It can sink Harding into the quicksands of inadequacy or make a Lilliputian [the tiny inhabitants of an island in Jonathan Swift's *Gulliver's Travels*] of the Chief's giant father. But its primary force motive is to make men be little boys, to make them (want to) adjust to a role wherein lies safety.[848]

Yn hytrach nag ymaddasu, ei ladd ei hun a wna Billy Bibbit gan amlygu difrifoldeb y cyflwr Oedipiaidd a dod â'r cyflwr i ben o ganlyniad. Trwy daith seicolegol Billy, portreadir natur ddinistriol y profiad Oedipiaidd. Yn yr achos hwn, dibynna'r mab ar ei fam am bob math o bethau, gan gynnwys ei hunaniaeth, wrth iddo chwilio am sicrwydd seicolegol drwy'r ffigwr mamol. Gwelir dibyniaeth debyg

---

[847] Archwilir y berthynas rhwng Billy a'i fam yn fanylach yn Philip Darbyshire, 'Reclaiming Big Nurse: a feminist critique of Ken Kesey's portrayal of Nurse Ratched yn *One Flew Over The Cuckoo's Nest,*' *Nursing Inquiry,* 2.4 (Rhagfyr 1995), 198-202

[848] Terence Martin, 'The Patients in *Cuckoo Nest* Regain Their Manhood by Banding Together' yn *Bloom's Modern Critical Interpretations: Ken Kesey's One Flew Over the Cuckoo's Nest,* gol. gan Harold Bloom (New York: Infobase Publishing, 2008), t.77

yn *UNOL*, ond tra mae'r hoffter hwn wedi'i seilio ar edmygedd a chariad, crëir dibyniaeth y cymeriadau gwrywaidd yn *OFOTCN* drwy gyfrwng ofn a gormes.

Gweler yn *FTG* amrywiaeth ar y thema hon hefyd, o ystyried y berthynas ryfedd rhwng Ceridwen ac Alfan sef, ei 'mab' a'i 'chariad'. Eglurodd Ceridwen ei hun, 'Fu dim plant gan Ceredig a finnau, a fu gan yr un ohonon ni'n dau blentyn y tu allan i'n priodas. Fe ddaeth Aflan yma i letya, ac mae o wedi llenwi'r lle y buasai mab yn ei lenwi petai gen i fab. Dyna i gyd.'[849]

Ond erbyn diwedd y nofel, delwedd hollol wahanol a geir ac mae'r wraig yn cael perthynas o natur rywiol â'r bardd ifanc. Mewn gweithred sy'n ein hatgoffa o'i sefyllfa ei hun i ryw raddau – sef dal rhywun yn erbyn ei ewyllys ei hun gan gadarnhau yn y broses effaith ddofn problemau seicolegol ei gorffennol ar ei phresennol – mae Ceridwen yn gorfodi Aflan i chwarae rôl ei gŵr. Mae hi'n ei gaethiwo o ganlyniad i ofn a chamdriniaeth seicolegol.

Yn wyneb y disgrifiad Oedipaidd anffafriol a chondemniol hwn yn *FTG*, sy'n dwyn i gof ddadansoddiad Ken Kesey o'r un ddamcaniaeth seicorywiol, gellir holi a oes cysylltiad rhwng rhyw'r awduron a'r delweddau Oedipaidd yn eu gweithiau. Wedi'r cyfan, dynion oedd Ffowc Elis a Ken Kesey a nodwyd eisoes fod syniadau Freud yn cael eu cyhuddo o fod yn dra siofinaidd, gan dderbyn cryn dipyn o feirniadaeth seicolegol. A chan ystyried y gwahaniaeth rhywiaethol hwn, cyflwynir trafodaeth ychwanegol ar frwydr a dadansoddiad yr adran a nofel *Ffenestri Tua'r Gwyll*.

Ond wrth ddychwelyd at *OFOTCN*, gwelir drwy un arall o gymeriadau Ken Kesey beryglon y cyflwr Oedipiaidd a gormes y fam yn y cyd-destun seicolegol ehangach. Wrth i Chief Bromden adrodd y stori, amlygir effeithiau negyddol y rheolaeth famol ar ei fywyd. Fel sgil-effaith i'w salwch, mae Bromden wedi bod yn ffugio mudanod a byddardod ers iddo ddod i'r ysbyty. Gellir awgrymu, yn unol â'r farn Freudaidd, fod yr anabledd seicolegol hwn yn cynrychioli'r diffyg pŵer ac awdurdod sydd ganddo o ganlyniad i rym Nurse Ratched. Gwelwn y diffyg hwn hefyd – er nad yw'n cyfeirio at y gymdeithas fatriarchaidd ond y gymdeithas reolaethol – yn nofel Angharad Tomos, *Si Hei Lwli*. Ni all Bigw gerdded heb y

[849] Ffowc Elis, *Ffenestri Tua'r Gwyll*, t.292.

'pulpud', sef ffrâm gerdded. Ond am ei fod yn rhoi bach o ryddid ac annibyniaeth iddi, 'gwnâi'r merched yn siŵr ei fod yn ddigon pell o'i gafael'.[850]

Gan ddychwelyd at *OFOCN* a'r agwedd fatriarchaidd feirniadol, ystyriwn y sylw canlynol o eiddo Freud yn *The Interpretation of Dreams*: 'the blinding in the legend of Oedipus, [mae Oedipws yn brifo'i lygaid ar ôl dysgu mai Jocasta yw'i fam] as well as elsewhere, stands for castration'.[851] Roedd mam Chief Bromden yn gyfrifol am danseilio'i wrywdod yn y lle cyntaf. Manteisio ar ei wendid a wnaeth Nurse Ratched yn yr ysbyty meddwl.

Yn union fel y mae mam Billy yn fenyw annymunol, portreadir mam Chief Bromden hefyd fel menyw sy'n isbaddu dynion yn symbolaidd wrth iddi roi stamp ei hawdurdod ar bob agwedd o fywyd ei gŵr a'i mab. Mae hi'n gorfodi tad Bromden i werthu ei dir i'r llywodraeth Americanaidd, er enghraifft, yn hepgor ei gŵr o'r trafodaethau busnes, yn gwneud iddo gymryd ei henw olaf hi – sy'n gynrychioli'r aberth eithaf o ran hunaniaeth a gwrywdod – ac ar ben hyn oll, llwydda i droi Chief enfawr, sef tad Bromden, yn ddyn bach gwan sy'n dibynnu ar alcohol. Yn ôl ei mab, mae hi'n tyfu'n gryf er nad yw'n llawer mwy na'i gŵr a'i mab o ran maint. Meddai: 'My mother got twice his size' cyn ymhelaethu: 'he fought it a long time till my mother made him too little to fight anymore and he gave up'. (t.188) Yn amlwg, nid oedd hyn yn wir yn gorfforol ond o safbwynt seicolegol, lleihawyd Chief Tee Ah Millatoona (The-Pine-That-Stands-Tallest-On-The-Mountain) nes ei fod yn ddyn egwan yn llygaid ei fab. Yn sgil hynny, trawsnewidiwyd Chief Bromden ei hun yn blentyn bach archolladwy na all hyd yn oed siarad.[852]

Wrth ystyried pŵer y fam i fychanu a cham-drin ei mab, cawn ein hatgoffa o nofel John Idris Owen, *Gwyn eu Byd yr Adar Gwylltion.* Ar ôl i dad yr adroddwr farw, mae ei fam yn disgyn, yn union fel y fam yn *UNOL*, i ddyfnderoedd iselder. Ond yn wahanol i nofel Caradog Prichard, manteisia'r fam hon ar deimladau a chariad ei mab. Ceisia gadw delfryd y teulu at ei gilydd wrth iddi fethu ag ymdopi â marwolaeth ei gŵr. Dywed pethau megis: 'helpu pobol erill a gadael dy fam ar 'phen 'i hun',[853] a 'roeddwn i'n disgwyl y byddat ti'n rhoi dy fam gyntaf'.[854] Dyma

[850] Tomos, *Si Hei Lwli*, t.78
[851] Freud, *The Interpretation of Dreams*, t.398.
[852] Unwaith eto, dadansoddir yr elfen hon yn fanylach yn Sullivan, '*Big Mama, Big Papa, and Little Sons in Ken Kesey's* One Flew Over the Cuckoo's Nest' yn *Bloom's Modern Critical Interpretations,* tt.15-28.
[853] John Idris Owen, *Gwyn eu Byd yr Adar Gwylltion* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1988), t.72. Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn 1985.

ddefnyddio blacmel emosiynol i ddal ei phlentyn. O ganlyniad, llwydda i greu teimlad o euogrwydd yn y mab. Sylweddola'r adroddwr: 'Roedd gen i fyd y tu allan i fyd Mam ac roedd gen i Bethan i'w charu. Roedd ei byd hi'n deilchion ac unigrwydd canol oed yn ymestyn o'i blaen.'[855]

Ond er gwaethaf y ddelwedd anffafriol a bortreedir drwy ymddygiad y fam, trwy ymateb ei mab a ddisgrifir uchod, gallwn weld y peryglon seicolegol sy'n wynebu gwragedd gweddw, nid yn unig yn ystod y cyfnod hwnnw ond hefyd yn yr oes bresennol. A chan ystyried hyn, cyflwynir dwy ddelwedd gyferbyniol o'r fam a'i phrofiadau seicolegol. Yn gyntaf ac yn debyg i'r naws a welwyd yn nofel Ken Kesey, fe'i portreadir fel rhywun sy'n tynnu llinynnau seicolegol ei phlant yn ôl ei hewyllys ei hun. Yn ail, fe'i darlunnir fel menyw archolladwy sy'n methu ymdopi â sefyllfaoedd sy'n niweidio rhywun yn seicolegol megis marwolaeth. Gan hynny, pwysleisir safle blaenllaw'r fam yn gyffredinol gan iddi fod wrth wraidd nifer o broblemau seicolegol, naill ai fel y dioddefwr neu'n fwy beirniadol fel yr ymosodwr.

Yr unig ddelwedd a geir o'r fam yn *OFOTCN* yw un negyddol fodd bynnag. Trwy'r nofel, mae'r naws gydymdeimladol yn gwbl absennol. Yng ngolau hyn ac os ydym yn cymryd yn ganiataol mai Nurse Ratched yw'r dihiryn, gellir awgrymu, fel y gwnaeth Tony Taner hefyd,[856] mai McMurphy yw'r arwr. Yn unol â'r fodel hon, fe fydd yn achub y dynion rhag ffyrdd gormesol y fam, ac felly, eu cymhlethdod Oidipos, gan gynrychioli'r delfryd gwrywaidd. Yn unol â'n dadansoddiadau Freudaidd, gwelwn agwedd arall ar y cymhlethdod Oidipos sy'n ymwneud â rhannu'r ymwybod a rôl McMurphy.

Yn ôl Freud, mae gan yr enaid dynol dair llwyfan gwahanol sy'n datblygu ar wahanol adegau yn ystod ei fywyd, sef *id*, *uwch-ego* a'r *ego*.[857] Yn syml, yr *id* yw'r elfennau cyntefig a greddfol sy'n llunio personoliaeth rhywun. Yr *ego* wedyn yw

---

[854] Ibid.

[855] Idris Owen, *Gwyn eu Byd yr Adar Gwylltion*, t.73.

[856] Am ddelwedd McMurphy fel arwr meddai Taner: 'McMurphy persuades the men to come with him, and he duly leads them to the edge of the land – where the ocean starts. The voyage they then embark on is one of very unconcealed significance: it affords the various pleasures of sex, drink, fishing, and the authentic joy and dread of trying to cope with the immense power of the sea. McMurphy has brought them all of the System and into – "Reality"'. yn Tony Tanner, *City of Words: American Fiction 1950-1970* (London: Cape, 1971), t.373

[857] Trafodwyd y syniadau hyn yn gyntaf yn ei ysgrif, *Beyond The Pleasure Principle* (London: International Psychoanalytical Press, 1922). Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn yr Almaeneg yn 1920. A dychwelodd atynt yn ei lyfr, *The Ego and The Id* (London: Hogarth Press and the Institute of Psycho-analysis, 1927). Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn yr Almaeneg yn 1923. Ond am ddadansoddi syml, gweler: Saul McLeod, *Id, Ego and Superego*, Simply Psychology (Cyhoeddwyd 2007 a Diweddarwyd 2016), < https://www.simplypsychology.org/psyche.html> [cyrchwyd 14 Tachwedd 2017]

rhan yr *id* sydd wedi cael ei heffeithio gan ddylanwadau'r byd allanol. Ac yn olaf, cynrychiola'r *uwch-ego* foesau a gwerthoedd y gymdeithas ac effaith y rhain ar yr unigolyn. Ys eglurodd Harri Pritchard Jones:

> Daeth *ego* (sef y Lladin am 'myfi') yn derm mewn Freudiaeth i gyfleu'r rhan o'r meddwl a oedd wedi ei gyfundrefnu ac mewn perthynas â realiti diriaethol y byd o'i gwmpas. Gelwid y rhan a gynhwysai'r greddfau a thueddiadau teimladol o bob math yn *id*. Ac am y rhannau a gynhwysai'r gallu i farnu a beirniadu'n syniadol a haniaethol, ynghyd â'r hyn a alwai eraill yn gydwybod, gelwid y rheini yr *uwch-ego*.[858]

Yn wyneb y diffiniadau hyn, gellir dweud bod y *uwch-ego* yn achos y cleifion yn *OFOTCN* wedi cael ei greu am eu bod wedi datrys eu cymhlethdod Oidipos drwy McMurphy a'r ffaith na all Nurse Ratched eu rheoli bellach. Mae rhai o'r cleifion, megis Harding, a oedd yn yr ysbyty yn gadael erbyn diwedd y nofel. Ac fel y gwyddom, mae hyd yn oed Chief Bromden yn llwyddo i ddianc rhag crafangau'r seilam a Nurse Ratched yn y diwedd.

Mae'r sefyllfa yn wahanol yn *UNOL*. Yn yr achos hwn, ni lwydda'r adroddwr i gael gwared â'i gymhlethdod Oidipos personol, gan fynd yn wallgof yn hytrach ar ôl colli'i ddibyniaeth famol. Yn wahanol i'r cleifion yn nofel Ken Kesey, nid oedd gan y bachgen ffigwr gwrywaidd cryf fel eilun neu arwr. O ystyried ei hanes, gellir dadlau bod hyn wedi cael effaith enfawr ar ei ddatblygiad seicolegol. Nid yw'r *uwch-ego* yn bresennol yn *UNOL* ac arweinia'r methiant hwn i oresgyn yr agwedd seicolegol hon at niwrosis parhaol yr adroddwr; ffaith a gryfheir, rhaid cofio, gan ei dynged anffodus. Yn hytrach, rheolir yr adroddwr gan ei reddfau a'i obsesiynau, ac yn ei dro, gan ei *id* sy'n cynrychioli yn ôl Freud, 'the passions', yn wahanol i'r *ego* sy'n cynnwys 'reason and common sense'.[859] O ganlyniad, pwysleisir natur blentynnaidd yr adroddwr sy'n cael ei arwain gan ei emosiynau ac i raddau gan ei gymhlethdod Oidipos.

Wrth ystyried y gwahaniaethau rhwng *OFOTCN* a nofel Caradog Prichard, awgrymir y gellir gweld damcaniaeth Freud yn ei chyfanrwydd drwy'r nofel Americanaidd. Portreedir chwant rhywiol y bachgen am ei fam, er enghraifft, sy'n troi'n araf yn ofn, ac mae'r stori'n gorffen gyda'r plentyn yn meithrin rhyw edmygedd newydd tuag at y tad pan sylweddolir ei safle dominyddol mewn cymdeithas.

---

[858] Pritchard Jones, *Freud: Y Meddwl Modern*, t.27.
[859] Sigmund Freud, *The Ego and the Id*, cyf 19 (Standard Edition: London, 1961), t.25.

Gan gadw theori Freud am rannau'r ymwybod yn y meddwl, gwelir hefyd yn *TBJ* enghraifft o'r berthynas gymhleth hon rhwng gwahanol elfennau'r seice. Yn debyg i'r adroddwr yn *UNOL* a'r cleifion yn *OFOTCN*, gellir dadlau nad yw ymwybod Esther wedi datblygu yn y modd arferol ychwaith. Ac, o ganlyniad, mae modd awgrymu nad oes cydbwysedd rhwng ei *ego* a'i *uwch-ego* sy'n effeithio wedyn ar ddatblygiad ei *id*.[860] Fel y nodwyd yn fras, sicrha'r *uwch-ego* fod yr unigolyn yn dilyn normau cymdeithasol. Yn achos Esther, fodd bynnag, mor benderfynol ydyw i wrthryfela yn erbyn ei disgwyliadau nes i'r *ego* – hynny yw, ei chredoau a'i safbwyntiau personol – arglwyddiaethu dros bob gweithred, emosiwn a chred. O briodoli ymddygiad anghonfensiynol Esther i ddamcaniaeth datblygiad seicorywiol Freud, mae modd dadlau bod y fenyw hefyd yn cael ei dal yn y cyfnod ffalig. Fel y dywedodd Suzan Voncken: 'from [her] fixation in the phallic stage, it can be argued that her superego will hardly be formed at all'.[861] Oherwydd diffyg presenoldeb y *uwch-ego* yn isymwybod Esther, ceir, fel y nodir uchod, safle llawer mwy cryf i'r *ego*, safle a adlewyrchir drwy ddymuniad Esther i ddatblygu fel unigolyn ac nid fel menyw yn unig. O ganlyniad, cyfyngir ei *id*.

Yn ôl Freud, dyma ran fyrbwyll y meddwl ac fel y dywedodd Saul McLeod: 'when the *id* achieves its demands, we experience pleasure; when it is denied we experience 'unpleasure' or tension'.[862] Yn hyn o beth, gwelir effeithiau'r *id* ataliedig hwn yn glir trwy deimladau isel Esther a hefyd Bet. Mae pob un o feddyliau a gweithredoedd y menywod hyn yn ymwneud â'u bywydau diflas. O ganlyniad i stadau seicolegol gwael, nid yw'r elfennau cadarnhaol megis hwyl a bodlonrwydd i'w gweld. Ni all Esther weld unrhyw hapusrwydd mewn bywyd bellach. Meddai: 'I couldn't feel a thing…. I would be sitting under the same glass bell jar, stewing in my own sour air.' (t.195) Ac yn yr un modd, cyfeiria Bet at ei diffyg diddordeb cyffredinol wrth iddi ddatgan: 'i mi, yr oedd y digalondid yn stâd yr oeddwn i wedi

---

[860] Ni fwriedir rhoi dadansoddiad Freudaidd gwbl fanwl yn yr adran hon ond dangos yn unig cyfoethogrwydd y ddelwedd seicolegol. Am astudiaethau Freudaidd o *TBJ* a dadansoddiadau manylach o rannau'r seice, gweler: Voncken, Suzan Voncken, 'Freud in Fiction. The Representation of the Oedipus Complex in 1960s American Literature'; Johanet Alic Kriel, 'Imagining the Mad Woman: Applying Concepts of the Narrative Imagination, Psychoanalytic and Feminist Theory to The Bell Jar and Selected Poems by Sylvia Plath' (Traethawd MA, Free State University, 2011); Andru Lugo, 'The Female Predicament in *The Bell Jar* and *St. Mawr*', *Plath Profiles,* 3 (Mehefin, 2010),144-165; Li Jung, 'A Freudian Psychoanalytic Interpretation of Sylvia Plath and Her Bell Jar' (Traethawd MA, Shanxi University, 2010).

[861] Voncken, 'Freud in Fiction. The Representation of the Oedipus Complex in 1960s American Literature', t.18.

[862] Saul McLeod, *Id, Ego and Superego*, Simply Psychology (Cyhoeddwyd 2007 a Diweddarwyd 2016), < https://www.simplypsychology.org/psyche.html> [cyrchwyd 14 Tachwedd 2017]

mynd iddi: dim diddordeb gen i yn y byd o'm cwmpas, dim yn edrach ymlaen i'r dyfodol: byth yn medru mwynhau'r pethau oeddwn i'n fwynhau ar un adeg'. (t.80)

Er bod bywydau a salwch Bet ac Esther yn amrywio, gan edrych ar eu profiadau seicolegol drwy oleuni Freudaidd – rhaid ailadrodd eto nad yw'r agwedd hon yn amlwg yn *TH* – mae modd gweld cyfatebiaethau rhwng y ddwy fenyw ac, felly, beryglon y rolau benywaidd. Ond ymhelaethu ar y dadansoddiad Freudaidd a wna nofel Sylvia Plath gan gynnig hefyd elfen arall o ddamcaniaeth Freud. Trwy'i gweithredoedd anghonfensiynol, er enghraifft, ac yn unol â'r dadansoddiad ffeministaidd, tyn Esther sylw at annhegwch bywydau menywod. A chan ganolbwyntio ar yr anghydraddoldebau sy'n bodoli rhwng dynion a menywod, cyflwynir theori Freud, eiddigedd pidyn (*penis envy*).[863] Am ddisgwyliad y fenyw i droi'n fam, meddai Esther:

> What I hate is the thought of being under a man's thumb… A man doesn't have a worry in the world, while I've got a baby hanging over my head like a big stick, to keep me in line. (t.233)

Dyma enghraifft berffaith o Esther yn gwrthod cydymffurfio â'r disgwyliadau cymdeithasol benywaidd ystrydebol ac yn eu tro, y disgwyliadau Freudaidd. Trwy'r dyfyniad, mynega'r fyfyrwraig, nid yn unig ei dicter, ond hefyd ei chenfigen yn wyneb safle breintiedig y dyn. Yn ôl seicoleg Neo-Freudaidd, ar ôl i'r fenyw sylweddoli na all fyw bywyd gwrywaidd, dylai hi ganolbwyntio ei hymdrechion yn hytrach ar ddechrau ei theulu ei hun. Meddai Freud: 'penis envy is replaced by the wish for a baby, the frustration of which in real life can lead to the outbreak of a neurosis'.[864] Ac er bod Bet Jones yn cydymffurfio â'r delfryd benywaidd hwn, nid dyna'r achos ym mywyd cynnar Esther.

Fel y nodwyd uchod, nid oedd gan Esther y greddfau mamol arferol a theimla mai math o gaethiwed fyddai cael babi yn hytrach na bendith. Yn yr un modd, gwêl briodas hefyd yn fath o garchar cymdeithasol. Meddai:

> That's one of the reasons I never wanted to get married. The last thing I wanted was infinite security and to be the place an arrow shoots off from. I wanted change and excitement and to shoot off in all directions myself, like the coloured arrows from a Fourth of July rocket. (t.88)

---

[863] Trafoda Freud y ddamcaniaeth hon yn ei erthygl 'On The Sexual Theories of Children' a gyhoeddwyd yn gyntaf ym 1908 ond gwelwyd yn Sigmund Freud a James Strachey, *The Interpretation of Dreams*, tt.183-204. Am esboniad symlach, fodd bynnag, gweler Kylie McFatridge, *Sigmund Freud (1856-1939),* Psychist of Women, <http://psychistofwomen.umwblogs.org/sexuality/pre-kinsey/freud/> [cyrchwyd 14 Tachwedd 2017].

[864] Freud, *The Interpretation of Dreams*, t.297.

A gellir dadlau bod ei hatgasedd tuag at yr ystrydebau cyfyngol benywaidd hyn yn codi o ganlyniad i'w pherthynas â'i mam ac felly, ei Chymhlethdod Electra.[865] Term a gynigwyd gan Carl Gustav Jung yw hwn.[866] Yn syml, mae'n cyfeirio at bresenoldeb y Cymhlethdod Oidipos mewn menywod ifanc sy'n cynnwys chwant rhywiol at y tad a chasineb tuag at y fam.

Yn debyg i'r adroddwr yn *UNOL,* nid oes gan Esther ffigwr tadol ychwaith. Bu farw pan oedd yn ifanc a gadawodd Mrs Greenwood a'u merch ar eu pennau eu hunain. Fel y disgwylir, cafodd y digwyddiad hwn effaith enfawr ar y dynamig teuluol ond effeithiodd hefyd, gellir dadlau, ar ddatblygiad seicolegol Esther gan arwain at y cymhlethdod seicorywiol. Adlewyrchir y ddamcaniaeth hon yn bennaf drwy'r 'damaged/unfulfilled mother-daughter relationship'[867] a chasineb Esther tuag at ei mam, casineb sy'n codi ar sawl achlysur. Gobeithia am fam wahanol er enghraifft fel ei rheolwr Jay-Cee,[868] yn taflu'r rhosod yn y sbwriel wrth i'w mam eu rhoi iddi fel anrheg yn yr ysbyty, ac mae hyd yn oed yn breuddwydio am ei lladd. Dychmyga Esther:

> My mother turned from a foggy log into a slumbering, middle-aged woman, her mouth slightly open and a snore ravelling from her throat. The piggish noise irritated me, and for a while it seemed to me that the only way to stop it would be to take the column of skin and sinew from which is rose and twist it to silence between my hands. (t.118-119)

O ystyried gwreiddiau seiciatryddol y teimladau hyn, gellir awgrymu bod llwyth o resymau am yr atgasedd penodol hwn. Yn gyntaf ac yn unol â'r damcaniaethau ffeministaidd, fel y dadansoddwyd uchod, mae modd dadlau bod casineb Esther tuag at ei mam yn codi o ganlyniad i'r modd y mae'n cynrychioli'r disgwyliadau cymdeithasol llethol. Atega Mozumder hyn gan ddweud:

---

[865] Cyfeiria Rebecca Schuster at bresenoldeb y ddamcaniaeth seicolegol hon yn *The Bell Jar.* Gweler Rebecca Schuster, *Madness and The Absent Father: Analysis of Esther's Mental Illness in 'The Bell Jar*' (Nodiadau Seminar, 2005), 10-12 < https://www.grin.com/document/53182> [cyrchwyd 20 Rhagfyr 17]. A gwelir hefyd: Jamie Jost, '"Panic" Over Puddle Jumping in Plath's "Mothers"' *Plath Profiles,* 5 (2012), 149-155; Elise Baerevar, 'Esther Greenwood's Panopticon: Female Identity through Self-Policing in The Bell Jar by Sylvia Plath' (Traethawd MA, Oslo University, 2007).

[866] Cynigodd Carl Gustav Jung y term hwn mewn erthygl o'r enw *Jahrbuch für psychoanalytische und psychopathologische Forschungen* yn 1913. Er ei fod yn seiliedig ar waith Freud ar y Cymhlethdod Oidipus, mae'n rhaid nodi nad oedd Freud yn cytuno â'r theori. Ond nid amcan y traethawd hwn yw dadansoddi dadleuon y ddamcaniaeth hon. Fe'i defnyddir yn hytrach fel gwedd arall ar y dadansoddiad seicolegol. Gwelir yr wybodaeth hon yn Oxford University Press, <http://www.oxfordreference.com/view/10.1093/oi/authority.20110803095745759> [cyrchwyd 15 Tachwedd 2017]

[867] Mozumder, 'Love, Sex and the Body in *The Bell Jar* and *My Body*: A Feminist Reading', t.137.

[868] Meddai Esther, er enghraifft: 'I wished I had a mother like Jay Cee. Then I'd know what to do. My own mother wasn't much help.' Gweler Plath, *The Bell Jar*, t.41.

> Mrs Greenwood is a typical woman of her time since she conforms to patriarchal norms and customs. Her attitude toward love and marriage is conventional. Even the double standard of men towards sex does not affect her. Esther cannot love her mother for all these reasons.[869]

Ar lefel ddyfnach yn ôl theori Freudaidd, gellir tybio bod y teimladau hyn yn ymddangos o ganlyniad i berthynas gymhleth rhyngddi hi, ei mam a'i thad. Yn y nofel, er enghraifft, mae Esther yn cofio amser pan oedd yn ffefryn gan ei thad a phe bai'n dal i fyw, roedd yn siŵr y byddai'n dysgu iddi sgiliau gwerthfawr megis Almaeneg neu Ladin, yn hytrach na llaw-fer neu sut i fod yn fenyw barchus yn unig. Yn wahanol i'w mam felly, sydd ond yn ceisio gorfodi'r disgwyliadau cymdeithasol ar ei merch, gall Esther weld, fel y nododd Lauren Bernard hefyd, ddelwedd o hunaniaeth ei thad y tu allan i'w rôl gymdeithasol.[870] Ac o ganlyniad i'r agwedd blentynnaidd hon tuag at y ffigwr tadol fel arwr yn ogystal â'r ffaith bod Esther yn dychmygu bywyd gwell gyda'i thad sydd wedi marw, crëir tensiwn ymhlith yr uned deuluol sydd ond yn cyfrannu at ei phroblemau seicolegol.

Cryfheir y tensiwn hwn gan agwedd Mrs Greenwood tuag at farwolaeth ei gŵr. Nid yw'r wraig yn fodlon sôn am farwolaeth tad Esther ac meddai'r fyfyrwraig: 'Mother hadn't let us come to his funeral', cyn ychwanegu, 'it seemed fitting I should take on a mourning my mother had never bothered with'. (t.174) Awgrymir felly drwy'r diffyg cyfle i alaru am farwolaeth ei thad nad yw Esther wedi dod i delerau â'r digwyddiad. Ond ar ben hynny, tybiwn hefyd nad yw Esther wedi llwyddo i ffurfio cwlwm o agosatrwydd rhyngddi hi a'i mam, methiant sy'n ychwanegu at ei chymhlethdod seicorywiol. Yn hytrach, mae'r fyfyrwraig yn llawn teimladau o hiraeth ac anghyflawnrwydd, gwacter nad oes modd ei lenwi. Meddai Esther ei hun, er enghraifft: 'I thought how strange it had never occurred to me before that I was only purely happy until I was nine years old'. (t.79) Heb y ffigwr tadol, awgrymir bod gwacter eithafol ym mywyd Esther ac fel y dywedodd Bernard eto: 'the emptiness had made a home in her heart [and] somehow, her mother could not replace the relationship'.[871]

Gan ystyried hyn oll a thrwy'r teimladau ansefydlog hyn, cyflwynir elfennau sylfaenol y cymhlethdod Electra wrth iddi gasáu'i mam gan arddangos yn hytrach,

---

[869] Mozumder, 'Love, Sex and the Body in *The Bell Jar* and *My Body*: A Feminist Reading', t.137.
[870] Lauren Ashley Bernard, 'Taking on a Mourning her Mother Never Bothered With: Esther's Anguished Memory and her Resistance to a Domestic Life in Sylvia Plath's *The Bell Jar*', *Plath Profiles*, 4 (2011), 295.
[871] Ibid., t.294.

deimladau o edmygedd tuag at ei thad. Ar ddiwedd y nofel, fel *UNOL*, dangosir gwir ddifrifoldeb ei chyflwr meddyliol. Ar ôl ymweld â bedd ei thad, ymddengys fod Esther yn cyrraedd pinacl ei salwch a'i chymhlethdod Electra wrth iddi geisio ei lladd ei hun. Yng ngolau hyn, meddai George Vaillant: 'Esther [believes] that she is committing suicide to rejoin her father'.[872] Yn debyg i'r adroddwr yn nofel Caradog Prichard, mae Esther a'i lles meddyliol yn cael eu dinistrio gan ei gorffennol. Oherwydd ei methiant i ddod i delerau â'r marwolaeth yn ogystal â'i chymhlethdod seicorywiol, mae ei hiechyd yn dioddef. Fel y nododd Borovčki-Jakovljev a Matačić: 'when it [cymhlethdod Electra] is unresolved, it comes a nucleus of the neurosis'.[873] Yn wyneb hyn oll ac er bod yr elfennau Freudaidd yn amrywio ychydig ar adegau, yng ngolau chwalfa Esther, mae modd dweud bod y dadansoddiadau seicorywiol yn dal dŵr. Wrth ddefnyddio'r gweithiau theoretig hyn mewn perthynas â phrofiadau Esther, cynigir dimensiwn seicolegol ehangach i'r nofel sy'n ei chyfoethogi.

Dadansoddiadau gweddol fras yw'r rhain, ac er y byddai modd dadansoddi pob nofel a'u delweddau Oedipiaidd yn fanylach o hyd, mae'n rhaid ailadrodd nad astudiaeth Freudaidd yw hon. Yn hytrach, defnyddiwyd y ddamcaniaeth seicorywiol er mwyn cyflwyno darlun a safbwynt ychwanegol i'r profiad seicolegol mamol. O ganlyniad, taflwyd goleuni ar y rhagdybiaethau a oedd yn eu bodoli yn ystod cyfnod craidd yr astudiaeth.

O ystyried hyn oll, dadansoddwyd rôl lethol y fam yn unol â chred ffeministaidd y cyfnod. Yn sgil hynny, archwiliwyd hefyd rôl a dylanwad y fam ar fywydau ei phlant mewn goleuni Freudaidd lled batriarchaidd. Trwy wneud hynny, gwelwyd y gwahanol farnau sy'n bodoli rhwng dynion a menywod o ran gwreiddiau problemau seicolegol. Ond gwelwyd hefyd y rhagfarnau rhywiaethol a oedd yn effeithio ar fenywod a mamau. Yn wyneb hurtrwydd yr ystrydebau confensiynol hyn a gafodd effaith fawr nid un unig ar famau a'r cymeriadau benywaidd dan sylw ond ar brofiadau seicolegol menywod yn gyffredinol, meddai Friedan:

> Today, when women's equal intelligence has been proved by science, when their equal capacity in every sphere except sheer muscular strength has been demonstrated, a theory explicitly based on woman's natural inferiority would seem as ridiculous as it is hypocritical.[874]

---

[872]George E. Vaillant, *The Wisdom of the Ego* (Massachusetts, Harvard University Press, 1993), t.238.
[873] Sanja Borovčki-Jakovljev a Stanislav Matačić, 'The Oedipus Complex in the Contemporary Psychoanalysis', *Collegium Antropologicum*, 29.1 (2005), 351.
[874] Friedan, *The Feminine Mystique*, t.93.

Er gwaethaf hyn, gwelwn fod Bet Jones, Esther Greenwood a hyd yn oed brif gymeriad *WFNI*, nofel a gyhoeddwyd bron hanner canrif ar ôl i'r llenyddiaeth graidd ymddangos, yn dal i gael eu gweld, eu trin a'u trafod drwy'r llygaid beirniadol ac israddol hyn. Beth sy'n digwydd pan fydd y menywod hyn yn ceisio gwrthbrofi'r ystrydebau hyn, gan wrthryfela yn erbyn confensiynau a thraddodiadau cymdeithas y cyfnod? A wynebant oes o ryddid o'r diwedd? Neu ai tynged waeth sydd o'u blaenau? Yng ngolau'r cwestiynau hyn, deuwn at bwnc yr adran nesaf ac eir ati i ddadansoddi'n fanylach orthrymderau'r menywod hyn wrth iddynt wrthryfela yn erbyn eu rolau cymdeithasol er budd – ond mewn rhai o achosion ar draul – eu lles seicolegol. A gwelwn fod menywod llenyddiaeth graidd yr astudiaeth yn brwydro, fel y gwnaeth menywod nofelau Jane Edwards, er mwyn 'ceisio darganfod pwy ydynt y tu ôl i'r labeli'.[875]

Gan y bydd yr adran nesaf yn canolbwyntio'n bennaf ar y gwrthryfel a'r profiad benywaidd, ni fydd *OFOTCN* ac *UNOL* yn ffurfio rhan allweddol o'r dadansoddiadau. Yn hytrach, dychwelir at y rhain yn y bennod ddilynol ar ôl inni roi llwyfan a llais i'r menywod hyn sydd wedi mynd ati i dorri'r mowld confensiynol a gaethiwodd nhw am flynyddoedd.

[875] Nia Angharad Watkins, 'Y Nofel Ddomestig Gymraeg dros dair cenhedlaeth, gyda sylw neilltuol i waith Moelona, Jane Edwards a Sonia Edwards', (PhD, Prifysgol Aberystwyth, 2008), t.80

## 5.4 Torri'r Mowld: menywod anghonfensiynol a'r gwrthryfel benywaidd

Wrth drafod ystyr 'gwallgofrwydd' yn ôl diffiniadau hunaniaeth rhyw ac ystrydebau cymdeithasol, meddai Phyllis Chesler: 'what we consider madness, whether it appears in women or in men, is either the acting out of the devalued female role or the total or partial rejection of one's sex-role stereotype'.[876] Yn achos dynion ac yn unol â'r agwedd rywiaethol, gall hyn gyfeirio at wendid newydd sy'n bwgwth delwedd y dyn *macho* neu ei amharodrwydd i fodloni ar ei rôl fel amddiffynnwr. Ys dywedodd Elaine Showalter am ddelwedd salwch meddwl ymhlith y genhedlaeth wrywaidd wedi'r rhyfel:

> All these accounts of male hysteria – a rare phenomenon – suggest that it is a feminine kind of behaviour in male subjects. And this feminine aspect is a recurrent theme in the discussions of war neuroses. When military doctors and psychiatrists dismissed shell-shock patients as cowards, they were often hinting at effeminacy or homosexuality.[877]

Ym myd y fenyw, fodd bynnag, roedd y gwyriadau hyn yn cwmpasu maes llawer ehangach. Cyflwynwyd yn gynharach fod menywod yn wynebu math o erlyniad dwbl gan gydymffurfio â'i rôl a hefyd wrthryfela yn ei herbyn. Wedi'r cyfan, fe'u hystyriwyd yn sâl yn feddyliol os nad oeddent yn cydymffurfio. Ond, roeddent yn sicr o ddioddef yn feddyliol os na wnaethant. O ganlyniad, ystyriwyd bod pob math o ymddygiad gwahanol yn wallgof neu'n amhriodol – yn amrywio o anfoesoldeb rhywiol, deallusrwydd ac uchelgais eithafol, i gwynion ac anniddigrwydd oherwydd y rolau benywaidd ystrydebol. Yng ngeiriau Busfield:

> It appears, therefore, that as long as men conform to the conception of male mental health they can escape being defined as disturbed. Women, however, by conforming to the female conception are simultaneously in danger of departing from the general conception of adult mental health. What is appropriate for women is close to mental disorder. Consequently, they are in danger of not meeting the required standards whether they act in masculine or feminine ways.[878]

Yn wyneb hyn ac o ystyried y cysylltiad ymddangosiadol rhwng gwallgofrwydd ac ymddygiad benywaidd anghydymffurfiol, nid yw'n syndod bod llwyth o astudiaethau seicolegol ffeministaidd eu naws wedi ymddangos dros y blynyddoedd.[879] Ond ychwanegodd Barnes a Maple at y safbwyntiau ffeministaidd beirniadol cryf hyn ymhellach gan sylwi bod gwallgofrwydd a salwch meddwl yn

---

876 Chesler, *Women and Madness*, t.93
877 Showalter, *The Female Malady*, t.172.
878 Busfield, *Men, Women and Madness*, t.101.
879 Rydym wedi cyfeirio at rai o'r rhain eisoes. Gweler troednodyn 469 a hefyd Pennod 1 a 2.

fwy tebygol o godi ymhlith menywod a oedd yn ‘especially rebellious’.[880] Meddai Simone de Beauvoir:

> We can now understand why, from ancient Greece to today, there are so many common features in the indictments against woman; her condition has remained the same throughout superficial changes, and this condition defines what is called the woman’s ‘character’: she ‘wallows in immanence,’ she is argumentative, she is cautious and petty, she does not have the sense either of truth or of accuracy, she lacks morality, she is vulgarly self-serving, selfish, she is a liar and an actress.[881]

Trwy’r dyfyniad hwn, mae Beauvoir yn crynhoi’r rhagfarnau sydd wedi amgylchynu menywod ers canrifoedd. Mae cymdeithas yn eu condemnio am bethau bach, dibwys, ond maent yn cael eu ceryddu hefyd am geisio gwella eu bydoedd di-nod. Yn ôl y gred gyffredinol, awgryma’r ansoddair ‘gwrthryfelgar’ deimladau o elyniaeth a radicaliaeth bron. Mae *Geiriadur Prifysgol Cymru*, er enghraifft, yn diffinio ‘gwrthryfelwr’ fel rhywun sy’n ‘[d]ueddol i wrthryfela, gwrthryfelus, yn herio ac yn codi yn erbyn awdurdod cyfreithlon; aflywodraethus, direol, anystywallt (am yr ewyllys, meddyliau, chwantau, &c)’,[882] wrth i’r unigolion hyn hefyd ffurfio’r canolbwynt i straeon, dramâu a ffilmiau di-rif. Wedi'r cyfan, gair awgrymog ydyw sydd â chynodiadau eithafol. Yn wyneb y delweddau cryf a thanbaid hyn, cawn ein hatgoffa o gymeriad Sylvia Plath, Esther Greenwood.

Er bod elfen o’r gwrthryfel cymdeithasol a ffeministaidd i’w gweld yn y gweithiau Cymraeg – a deuwn at y dadansoddiadau hyn yn y man – mae’n rhan hollol ganolog i *TBJ* a salwch meddwl y fyfyrwraig Americanaidd. Cyfeiriwyd eisoes at awydd Esther i ddefnyddio a meistroli ei doniau llenyddol ac artistig yn hytrach na’u haberthu am fywyd domestig traddodiadol y cyfnod. Serch hynny, mae’r penderfyniad hwn ond yn bwgwth ei chydymffurfiad â’r rolau benywaidd ystrydebol yn ôl y gred batriarchaidd. O ganlyniad, cadarnheir ei hansefydlogrwydd meddyliol. Ond yng ngolau’r her hon, gwelwn yn glir iawn nad yw Esther *am* gydymffurfio ag ystrydeb y wraig, ac yn benodol, ddisgwyliad y fam.[883] Meddai, er enghraifft: ‘the trouble was, I hated the idea of serving men in any way. I wanted to dictate my own thrilling letters’. (t.80)

---

[880] Barnes a Maple, *Women and Mental Health: Challenging the Stereotypes*, t.51.
[881] Simone De Beauvoir, *The Second Sex* (New York: Knopf, 1953), t.638.
[882] ‘Gwrthryfelgar’ yn Geiriadur Prifysgol Cymru <http://geiriadur.ac.uk/gpc/gpc.html> [cyrchwyd 05 Rhagfyr 2017]
[883] Gweler Pennod 5.2 eto am deimladau Esther o’r rôl famol.

Atgyfnerthir y dymuniad hwn hefyd gan agweddau Esther tuag at ryw, priodas a mamolaeth. Cyfeiria Linda Wagner-Martin[884] yn aml at bwysigrwydd rhywioldeb yn nofel Sylvia Plath lle y mae'n chwarae rhan amlwg yn salwch meddwl ond hefyd iechyd meddwl, Esther. Rhaid cofio bod hawliau menywod yn brin yn ystod y cyfnod. Ar ben hynny, roedd hawliau rhywiol menywod yn brinnach fyth. Droeon drwy'r nofel, er enghraifft, mynega Esther ei bod eisiau cael y cyfle i fwynhau'r un hawliau a oedd ar gael i ddynion yn ystod y cyfnod, heb boeni am feichiogi. Meddai: 'I couldn't stand the idea of a woman having to have a single pure life and a man being able to have a double life, one pure and one not' (t.86).

Yn wyneb hyn oll ac ar ôl dioddef camdriniaeth seicolegol a chymdeithasol y gymdeithas batriarchaidd yn rhy hir, penderfyna'r fyfyrwraig reoli ei rhywioldeb ei hun trwy gafael ar ddiaffram oddi wrth y meddyg. O ddewis atal cenhedlu – rhaid cofio bod y bilsen yn weddol newydd yn ystod cyfnod yr astudiaeth ac o'r herwydd, roedd rhyw dabŵ yn dal yn ei hamgylchynu – ymddengys fod Esther yn dod o hyd i'r rhyddid yr oedd yn hiraethu cymaint amdano. Archwilir y syniad hwn hefyd yn *Bara Seguryd* gan Jane Edwards a thraethawd Nia Angharad Watkins.[885] Drwy gymryd y bilsen, mae Lena yn ennill rheolaeth dros ei chorff a'i hunaniaeth. Yn awr, roedd Esther, fel Lena, yn rhydd o'r ofn o gael ei chaethiwo gan ddynion, priodas a babanod wrth iddi dorri'r rheolau cymdeithasol er mwyn lles ei hun, ac nid lles ei chymdeithas. Dadansoddwyd elfennau cyffredinol personoliaeth wrthryfelgar Esther yn weddol fanwl yn yr adrannau blaenorol. Eir ati yn awr i edrych ar enghraifft o weithred allanol anufudd Esther. Ac wrth ddadansoddi'r weithred hon, cynygir golwg newydd ar brofiadau'r Cymry yn y testunau Cymraeg dan sylw.

Yn benodol, rydym yn cyfeirio at ddigwyddiad sy'n cloi un cyfnod o fywyd Esther, sef ei chyfnod yn Efrog Newydd. Mewn modd gwrthrychol, mae Sylvia Plath yn dangos dechrau ei herfeiddiwch, ac felly ei chwalfa, gan gyflwyno gwrthryfel ffeministaidd y fyfyrwraig. Cyn i Esther adael y ddinas fawr er mwyn dychwelyd adref am yr haf, er enghraifft, ac ar ôl diflasu ar gelwyddau'r bywyd benywaidd, mae'n taflu'r holl ddillad a gafodd yn anrhegion yn sgil ei hysgoloriaeth i'r stryd gan ddweud:

---

[884] Linda, Wagner- Martin, *Sylvia Plath: The Critical Heritage* (London: Routledge, 1988); Linda, Wagner- Martin, *The Bell Jar: A Novel of the Fifties* (New York: Twayne, 1992).

[885] Nia Angharad Watkins, 'Y Nofel Ddomestig Gymraeg dros dair cenhedlaeth, gyda sylw neilltuol i waith Moelona, Jane Edwards a Sonia Edwards', (PhD, Prifysgol Aberystwyth, 2008), t.68

> Piece by piece, I fed my wardrobe to the night wind, and flutteringly, like a loved one's ashes, the grey scraps were ferried off, to settle here, exactly where I would never know, in the dark heart of New York. (t.118)

Wrth iddi wneud hyn, gellir dadlau, fel y gwnaeth Apil Pelt,[886] y pwysleisir gwrthryfel Esther yn erbyn amgylchiadau ei bywyd. I'r fenyw gydwybodol hon, cynrychiolai'r holl ffrogiau, sgertiau a blowsys amrywiol ddelwedd a grëwyd gan gymdeithas. Nid ydynt, o bell ffordd, yn adlewyrchu gwir hunaniaeth Esther, ac felly wrth eu gollwng, mae'r fyfyrwraig hefyd yn gwneud ymdrech weithredol ollwng y disgwyliadau cymdeithasol. Ys dywedodd Tony Taner: 'it is no idle gesture that one night she climbs to the parapet of her hotel and throws away all the clothes she has been given… to renounce the impositions of the external world'.[887] Dyma fenyw'n llythrennol ac yn drosiadol yn ceisio chwalu'r ddelfryd ffeministaidd.

Cyfeiriwyd eisoes at ymrwymiad caeth Bet i'w rôl. Ceisia'r wraig gyflawni ei dyletswydd a'i disgwyliad cymdeithasol fel gwraig gweinidog ym mhob ffordd bosib, gan gynnwys ei gwedd allanol.[888] Ond wrth iddi ddechrau diflasu ar syrffed ei bywyd bach, mae Bet yn dewis ymddwyn yn wahanol i'r norm, hynny yw, yn groes i gonfensiynau caeth y gymdeithas Gymreig. Yn ystod un prynhawn tawel, er enghraifft, penderfyna fwynhau moment o lonydd drwy osod y bwrdd, pobi cacen, gwisgo ffrog liwgar bert a rhoi colur ar ei hwyneb. I rywun arall, efallai na fyddai'r weithred hon yn ymddangos mor bwysig. Ond yn achos cymeriad Kate Roberts, defod nodedig ydyw. O beidio ag ildio i'w dyletswyddau am un prynhawn, mae Bet Jones fel petai yn mabwysiadu persona gwahanol gan geisio dianc rhag y disgwyliadau arferol. Nid yw hi, yn y foment honno, yn glynu wrth ddelwedd ystrydebol gwraig gweinidog. Yn hytrach, gwna rywbeth ar ei chyfer ei hun, a hi ei hun yn unig.

Atgyfnerthir yr hyfdra hwn gan ymateb un o'i chyfoedion. Cyn i Bet gael cyfle i ymlacio'n llawn, daw llywydd Cymdeithas y Gwragedd i'r tŷ gan dorri ar draws tawelwch y wraig gweinidog. Ar ôl iddi weld crandrwydd anesboniadwy'r sefyllfa, nid ydyw'n gallu deall cymhellion Bet, y wraig gweinidog orlednais, a gofynna'n ffwndrus: 'ydach chi'n cael ych pen blwydd neu rywbeth?' (t.63) Am fod ymddygiad Bet yn ymddangos yn groes i'r norm mewn cymdeithas grefyddol

---

[886] April Pelt, 'Esther's Satorial Selves: Fashioning a Feminine Ideal in *The Bell Jar*', *Plath Profiles,* 8 (2015), 13-23
[887] Tanner, *City of Words: American Fiction 1950-1970,* tt.262-264.
[888] Gweler t.82 yr astudiaeth.

geidwadol a chonfensiynol, mae'r wraig gweinidog ei hun yn deall sut y gallai'r fenyw hon feddwl ei bod yn cuddio dyn yn y tŷ. Wrth ystyried ymateb eithafol ei chyfoedion, awgrymir gwir natur ddiflas bywyd gwraig gweinidog lle yr ystyrir unrhyw ymddygiad ansafonol fel bygythiad i'r drefn gymdeithasol. Ac er nad yw gwisgo ffrog yn ymddangos fel gwrthryfel traddodiadol, mae modd eu dehongli fel ymgais Bet i ddianc rhag bywyd undonog di-liw a gwrthryfela yn erbyn disgwyliadau'r gymdeithas geidwadol.

Wedi dadansoddi'r modd y mae dillad yn drosiad ar gyfer y gwrthryfel benywaidd, ystyriwn hefyd ddeunyddiau arwynebol eraill sy'n ymwneud â phryd a gwedd. Y tro hwn, rhoddir sylw i arwyddocâd colur. Mewn brwydr filwrol, er enghraifft, ceir angen am bethau amddiffynnol megis arfau a thariannau ac o ystyried natur derfysglyd y gwrthryfel rhywiaethol, gwelir yr un angen am fath o arf. Chuddia'r menywod hyn y tu ôl i'w masgara a minlliw.

Wrth ddadansoddi ei salwch meddwl ei hun, er enghraifft, meddai Alaw Griffiths: 'Bob bore, byddwn yn rhoi colur ar fy ngwyneb ac yn defnyddio'r chwarter awr yma i roi rhyw fath o fasg anweledig arna i cyn gadael y tŷ, i fedru wynebu'r byd'.[889] Gan gyfoethogi'r dadansoddiad uchod felly, ymddengys fod colur yn gweithredu fel math o baent rhyfel yn yr achos hwn, wrth i Alaw ei defnyddio er mwyn ei helpu i gadw wyneb a theimlo'n well. Yn yr un modd, meddai'r prif gymeriad yn *WFNI*, er enghraifft: 'gwisg newydd a mi fydda i'n berson newydd',[890] a dywed Melinda wrth Bet, 'mi wnâi tipyn o ddillad newydd godi dy galon di'. (t.35) Dyma'r menywod yn cydnabod yr elfen therapiwtig sydd i golur. Ac o ystyried y profiadau hyn, codir cwestiynau sy'n cyfrannu at y ddadl rywiaethol a chyflwynir paradocs o ryw fath. Ar un llaw, ac yn achos Esther, dyma fenyw sy'n benderfynol o chwalu'i benyweidd-dra drwy gael gwared ar y pethau sy'n ei chadw ynghlwm wrth y bywyd hwnnw. Ond ar y llaw arall, ac yn achos Alaw isod, ac i raddau Bet Jones, ai'r unig rheswm eu bod yn teimlo'n well yw oherwydd eu bod yn cydymffurfio â'r ystrybeb fenywaidd, ac felly yn wynebu llai o ddirmyg o ganlyniad? Unwaith eto, awgrymir difrifwch sefyllfa'r fenyw sy'n ceisio torri'n rhydd. O ganlyniad, ac chan feddwl am frwydrau Bet ac Esther yn benodol, rhaid holi a oes modd i ddynes wella'n iawn o'i salwch meddwl tra bo'r ystrydebau rhywiaethol yn dal yn bodoli.

[889] Griffiths, *Gyrru Drwy Storom*, t.75.
[890] Tomos, *Wrth fy Nagrau i*, t.75.

Er gwaethaf hyn, mae'r ddau gymeriad benywaidd yn ceisio cyflawni'r gamp honno yn eu ffyrdd eu hunain. Er na fyddem yn lleoli Bet ac Esther yn yr un grŵp o ran eu natur wrthryfelgar, mae anniddigrwydd y wraig yn dal yn glir. Ond cyn inni fynd ati i ddadansoddi profiadau personol Bet Jones, mae'n rhaid ystyried yn gyntaf newid Kate Roberts o ran ei chymeriadau benywaidd. Fel y nododd Eigra Lewis Roberts: 'mae edmygedd yr awdures o fatriarch y gorffennol yn ddigon amlwg, ond darlun pur wahanol a gawn o ferched ail hanner y ganrif, fel unigolyn ac fel aelodau o gymdeithas'.[891] Ceir yng ngweithiau Cyfnod Dinbych Kate Roberts fenywod pengaled. Roedd y menywod hyn yn dechrau lleisio rhai o'u pryderon personol ac ehangach. Ond wedi dadansoddi rôl gymdeithasol gwraig y gweinidog yn yr adrannau blaenorol, canolbwyntiwn yn awr ar Bet Jones 'yr unigolyn'wrth iddi ddechrau arddangos symptomau o'r blinder mewnol ac allanol.

Wedi'r cyfan, nid yw bywyd Bet yn ymddangos fel un sy'n werth ei fyw ond fel y gwelwn hefyd, nid yw'r gymdeithas yn derbyn ei gwrthsafiad yn erbyn ei hanfodlonrwydd cymdeithasol ychwaith. Gan gyfeirio at sylw cynt Melinda sy'n lleoli Bet rhwng y genhedlaeth hŷn a'r genhedlaeth iau, yn ogystal â phryder Bet ei hun am ddiffyg perthyn, awgrymir bod Bet yn cael ei thynnu rhwng dyletswydd a dymuniad, ac felly rhwng cydymffurfiad a rhyddid. Ac er yr awgrymwyd bod y rhaniad hwn yn cyfrannu at wrthdaro mewnol Bet, gellir hefyd ei dehongli fel sail i wrthryfel y wraig gweinidog.

Er ei bod wedi ymroi'i hun i'w dyletwswydd hyd yma yn ei bywyd, tybir, drwy flinder Bet, ei bod yn dechrau diflasu ar y bywyd hwn. Ni all bellach ymgymryd â thasgau dyddiol ailadroddus ei bywyd heb broblem. Meddai Bet ei hun: 'doeddwn i ddim yn medru mwynhau'r pethau oeddwn i'n fwynhau ar un adeg. Y tŷ, fy mwyd, mynd i'r wlad am dro, gwasanaethau'r capel, gweld drama, darllen, cyfarfod â ffrindiau.' (t.80) Mynega Bet ei rhwystredigaeth mewn modd allanol a gweithredol. Ar ôl i'r wraig ddatgan nad yw am fynd i'r cyfarfod gweddi rhagrithiol y noson benodol honno am fod y gynulleidfa – yn ei barn hi – yn 'siarad er mwyn clywed eu lleisiau'u hunain', (t.54) dechreua Kate Roberts ddadfeilio delwedd gwraig y gweinidog ufudd. Trwy ei gweithredoedd nesaf, fodd bynnag, dinistrir y ddelwedd barchus yn gyfan gwbl. Ac ymddangosa ei hymddygiad ymddangos yn hollol afresymol i'r gymdeithas gydymffurfiol Gymreig sy'n ei chaethiwo.

---

[891] Lewis Roberts, *Kate Roberts: Llên y Llenor*, t.45.

Yn gyntaf, ar ôl iddi weld Geraint yn cusanu merch 'fel dyn gwallgof', (t.45) mae'n gwylltio mewn modd eithafol a diangen gan hyd yn oed afael yn ysgwyddau'r ferch. Ond yn ail, ac o fewn amgylchedd y capel y tro hwn, rhoddir sail gryfach fyth i elfennau gwrthryfelgar personoliaeth Bet. Wrth i'w ffydd a'i hamynedd ddiflannu, ac ar ôl methu â dioddef rhagrith aelodau'r capel bellach, cyll y wraig ei phwyll yn llwyr. Mae hi'n gweiddi mewn seiat barchus: 'na, 'dydach chi ddim yn iawn, y peisiau sy'n teyrnasu, gorfoledded y ddaear'. (t.75) Gan chwalu'r byd patriarchaidd a thanio'r dadleuon matriarchaidd drwy gyfeirio at y ffaith mai menywod, nid dynion ac nid Duw, sy'n rheoli cymdeithas, cyflwynir agwedd amserol a chyfoes i salwch meddwl Bet unwaith eto.

A hyd yn oed ar ôl dychwelyd adref wedi'r digwyddiad hwn, mae hi'n dal i bregethu gan ddweud: 'mae'r byd wedi i ddinistrio'i hun cyn i ryfel wneud hynny dyma ddiwedd y byd mae dyn wedi'i ladd i hun drwy'i hunanoldeb'. (t.76) Trwy'r olygfa olaf hon cyn iddi fynd i'r ysbyty meddwl, ymddengys y wraig fel pe bai'n cael ei meddiannu gan wallgofrwydd bron. Ond os nad yw ei ffrwydradau angerddol yn ddigon i chwalu delwedd y wraig gweinidog barchus, wrth iddi daro ei mab ar draws ei wyneb, cadarnheir ei salwch meddwl ac effeithiau difrifol atal y gwrthryfel mewnol. Fel y nododd Barnes a Maple:

> Whilst women by their nature are seen to be closer to madness than are men, mental disorder amongst women is often identified by reference to behaviour which apparently deviates from what is regarded as proper feminine behaviour.[892]

Trwy ei gweithredoedd, mae Bet yn anghydffurfio â'r ystrydeb 'benywaidd', ond mae hi hefyd yn gwyro oddi ar ymddygiad Cristnogol derbyniol gan amau ei ffydd a'i bywyd crefyddol. Er mai gwraig i weinidog yw, dangosa'r wraig chwant am newid a datblygu personol a chymdeithasol. Yn fwy difrifol, mae'n dechrau amau awdurdod Duw; teimladau sy'n golygu nad yw'n ffitio ffrâm gaeth draddodiadol ei bywyd crefyddol bellach. Yng ngolau hyn, meddai John Rowlands: 'mi ddywedwn i fod *Tywyll Heno* yn adlewyrchu gwrthdaro go sylfaenol rhwng awydd am dorri dros y tresi confensiynol a'r pwysau i gydymffurfio, nes bod hynny'n creu rhwystredigaeth sy'n chwyddo a byrstio'.[893] Ar yr wyneb, efallai nad yw *TH* yn cyflwyno darlun o'r 'wrthryfelwraig' yn ôl yr ystyr gonfensiynol. Yn sicr, nid yw stori fer hir Kate Roberts yn ymddangos mor danbaid â *TBJ*. Ond trwy

---

892 Barnes a Maple, *Women and Mental Health: Challenging the Stereotypes*, t.8.
893 Rowlands, *Ysgrifau ar y Nofel*, t.171.

ddiflastod canolog a ffrwydradau amrywiol Bet Jones, chwilfriwir lledrith y wraig tŷ berffaith wrth i Bet a'i hawdur wrthryfela yn erbyn confensiynau ceidwadol y gymdeithas Gymreig.

Pwysleisia Kate Roberts anniddigrwydd a dyheadau gwrthryfelgar Bet ymhellach drwy ei chymharu â chymeriad benywaidd arall, ei ffrind Melinda. O'r dechrau, dangosir y gwahaniaeth eithafol rhwng Bet y wraig ffyddlon a Melinda. Yn wahanol i Bet, mae Melinda yn gwrthryfela yn erbyn confensiynau'r cyfnod heb feddwl ryw lawer am y canlyniadau. Menyw heb gyfrifoldebau, annibynnol a rhydd sy'n byw yn ôl ei rheolau ei hun yw Melinda ac oherwydd hyn, mae hi'n wrthbwynt llwyr i'r wraig gweinidog. Ys dywedodd John Emyr amdani: 'mae'r fenyw ryddfreiniol yn gwisgo'n dda ac yn yfed gwin, ac yn dilyn arddull byw dipyn bach yn Seisnig ac estron'.[894] Nid yw Melinda yn gaeth i'w dyletswydd fenywaidd na Chymreig. Meddai'r wraig gweinidog am ffordd ei ffrind o fyw: 'ni fedrodd byth fod yn llonydd; yr oedd yn rhaid iddi fod ar gerdded o hyd. Piciai i'r Cyfandir fel y piciwn i i'r dre. Ni châi neb wybod llawer o'i meddyliau.' (t.37) Am nad oes rhaid i Melinda gydymffurfio â disgwyliad patriarchaidd ei gŵr – am nad oes ganddi un bellach – ymddengys fel pe bai'r fenyw yn gwbl rydd yn gymdeithasol. O ganlyniad, mae hi'n llwyddo, yn wahanol i Bet, i deithio'r byd a gadael cyfyngiadau'r gymdeithas Gymreig.

Cawn yr argraff fod y wraig gweinidog yn dyheu am yr un math o ryddid ar adegau. Cadarnheir y safbwynt hwn tua phinacl ei salwch meddwl a thrwy'r olygfa olaf rhwng Bet a'i ffrind cyn i Melinda adael y gymdeithas draddodiadol am Baris. O gydnabod y gwahaniaeth sylfaenol rhyngddynt, meddai Bet: 'yr oedd hi yn llawn afiaith o edrych ymlaen; llwyddais innau i ddal wyneb a ddangosai fy mod yn mwynhau'r cylch bychan yr oeddwn yn byw ynddo'. (t.72) A hyd yn oed ar ôl rhoi ychydig o bersawr Melinda arni fel ffordd fach o brofi bywyd ei ffrind, tynnir sylw unwaith eto at fywydau annhebyg y menywod. A phwysleisir y ffaith na fyddai Bet byth yn gallu byw bywyd rhydd fel Melinda mewn gwirionedd. Dywed y wraig gweinidog yn dra digalon: 'yr oedd persawr Melinda gymaint rhan ohoni â'i chroen; arnaf fi yr oedd yn ddieithr'. (t.73) Gan fynegi anniddigrwydd mewnol ac arwahanrwydd allanol Bet drwy ei chymharu â bywyd cyffrous Melinda, tyn Kate Roberts sylw at y paradocs diraddiol a wynebai menywod confensiynol y cyfnod.

[894] John Emyr, *Enaid Clwyfus: Golwg ar waith Kate Roberts* (Dinbych: Gwasg Gee, 1976), t.97.

Er bod bywyd Melinda'n ymddangos fel dihangfa baradwysaidd rhag caethiwed Bet, mae natur anghonfensiynol bywyd ei ffrind yn ennyn rhagfarnau a beirniadaethau ymhlith y gymdeithas geidwadol Gymreig. Dywedir amdani: 'mae yna ryw hen straeon yn mynd o gwmpas ei bod hi'n mynd i ffwrdd gymaint i'r gwledydd pell yna am i bod hi'n ffrindia efo dynion'. (t.57) Mae Gruff hefyd yn awgrymu bod 'teithio yn effeithio ar i syniadau hi ac nad ydy hi ddim yn edrach ar bechod yr un fath â ni'. (t.58) Oherwydd ei bywyd Ewropeaidd modern yn ogystal â'i syniadau, sy'n hollol anghymreig yn ôl ei chyfoedion, mae Melinda yn codi teimladau anghysurus ymhlith y gymdeithas gonfensiynol. Mae'r teimladau hyn yn esgor ar ddyfalu sbeitlyd y gymuned. Ys dywedwodd Simone de Beauvoir:

> There have been and there still are many women who do seek to attain individual salvation on their own. They try to justify their existence within their own immanence, that is, to achieve transcendence through immanence. It is this ultimate effort—sometimes ridiculous, often pathetic—of the imprisoned woman to convert her prison into a heaven of glory, her servitude into sovereign freedom, that we find in the narcissist, the woman in love, and the mystic.[895]

Yr union ofn hwn – sef y feirniadaeth gymdeithasol – yw'r hyn sy'n rhwystro Bet rhag cyflawni ei gwrthryfel personol.

Mae modd edrych ar Bet yn fath o wrthfyfelwraig i raddau, wrth iddi amau bodolaeth Duw a dilysrwydd ei Air. Ond nid yw'n gweithredu ar sail ei hanniddigrwydd mewnol mewn gwirionedd nes iddi fod yn rhy hwyr, a difethir ei hiechyd meddwl yn gyfan gwbl. Yn wahanol i Bet fodd bynnag ac er gwaethaf y feirniadaeth gref a wynebodd hi. Mae'n ymddangos bod Melinda wedi llwyddo i dorri'r mowld ceidwadol a amgylchynai menywod y cyfnod. O ganlyniad yn llawer hapusach na'r wraig gweinidog. Yn hyn o beth, ystyrir sylw Betty Friedan: 'she told me that when she stopped conforming to the conventional picture of femininity she finally began to enjoy being a woman'.[896] Am nad oes angen i Melinda gydymffurfio â delfryd ei gŵr na ddelfryd ei chymdeithas, mae hi'n rhydd i arbrofi a chyrraedd ei photensial fel menyw. Nid yw hyn yn bosib yn achos Bet.

Er bod Bet yn dioddef o salwch meddwl yn y pen draw, chwery Melinda rôl allweddol ym mywyd a gwellhad ei ffrind. Ys dywedodd Katie Gramich:

> Bet's cosmopolitan friend, Melinda, is able to escape from the narrowness of her life to the freedom and sensual pleasure of Paris. The relationship between the two women is very close, verging on the erotic; Bet admires her friends' beauty and

[895] Simone De Beauvoir, *The Second Sex* (New York: Knopf, 1953), t.664
[896] Friedan, *The Feminine Mystique*, t.275.

longs for her ability to ignore the narrowness of small town life. Bet's only escape, tellingly, is through writing.[897]

Er nad ydyw'n wrthryfel yn yr ystyr gonfensiynol – yn arbennig wrth ystyried y sefyllfa dreisgar yn *OFOTCN* a natur derfysglyd Esther yn *TBJ* – mae Melinda yn helpu Bet i weld culni ei bywyd. Fel y nododd Alan Llwyd, gan 'ymestyn ffiniau llenyddol Bet'[898] drwy ddrama'r capel a chynnig ffordd wahanol o fyw iddi, mae Melinda yn dangos posibilrwydd arall i wraig y gweinidog. O ystyried hyn, a chan ein hatgoffa o bersonoliaeth agored a didwyll Melinda, gofynna cymeriad *MGWYL* i'w ffrind: 'wyt ti am fyw yn ôl cynllun caeth? Ydy'n well 'da ti ddioddef ac ymboeni na thorri rheolau?'[899] Dyma'r hyn y mae Melinda yn ei awgrymu wrth Bet a dyma'r hyn y mae'r gynulleidfa hefyd yn tybio am sefyllfa gwraig y gweinidog. O ganlyniad, awgrymir y byddai Bet yn well ei byd a'i lles yn sicrach pe bai ond yn torri'r rheolau caeth fel y gwnaeth ei ffrind, hynny yw, yr ymateb call ond amhosib mewn byd cydymffurfiol 'gwallgof'.

Cyflwynodd Sylvia Plath gymhariaeth debyg rhwng yr unigolyn rhydd a'r fenyw gonfensiynol yn ei nofel. Mae Kate Roberts yn darlunio Bet a Melinda fel menywod annhebyg i'w gilydd, Yn yr un modd, mae Sylvia Plath yn cymharu'r cymeriadau Betsy a Doreen â'i gilydd yn ymwybodol er mwyn cyflwyno credoau cyferbyniol y cyfnod o rôl a dyletswydd y fenyw.[900] Yn gyntaf ac yn unol â delweddau'r gymdeithas batriarchaidd, cynrychiola Betsy y fenyw ufudd sy'n cydymffurfio â'r traddodiadau cymdeithasol yn fodlon a heb wrthwynebiad. Dywed Esther amdani: 'they imported Betsy straight from Kansas with her bouncing blonde pony-tail and Sweetheart-of-Sigma-Chi smile'. (t.6) Cymeriad hollol wahanol fodd bynnag yw Doreen. Tra oedd merched eraill yn gwisgo pethau megis 'starched cotton summer nighties and quilted housecoats, or maybe terry-towel robbers that doubled up as beachcoats', (t.5) roedd Doreen am wisgo, 'these full-length nylon and lace jobs you could half see through, and dressing gowns the colour of skin, that stuck to her by some kind of electricity'.(t.5) O ystyried ei hymddygiad anweddus gyda dynion a'i hagwedd ysgafnfryd tuag at ei haddysg a'i dyfodol, ymddengys Doreen fel gwrthgyferbyniad llwyr i lwydni a chydymffurfiad caeth y cyfnod.

---

[897] Gramich, *Kate Roberts: Writers of Wales*, t.95.
[898] Llwyd, *Kate: Cofiant Kate Roberts 1891-1985*, t.47.
[899] Bosse-Griffiths, *Mae'r Galon wrth y Llyw*, t.39.
[900] Am ddadansoddiad manwl, dylid darllen Gayle Whither, 'The Divided Woman and Generic Doubleness in *The Bell Jar*', *Women's Studies: An Inter-disciplinary Journal*, 3.2 (1976), 127-146

Er bod Sylvia Plath yn cynnig delwedd mwy eithafol, mae Doreen yn ein hatgoffa o Melinda. Nid yw hi'n cydymffurfio â disgwyliadau'r gymdeithas geidwadol o bell ffordd ychwaith. Mae hi'n dilyn chwantau ei chorff a'i meddwl. Er bod Esther yn ymddangos yn dra chenfigennus o bersonoliaeth ddihidio Doreen ar y dechrau, ar ôl blino ar ei hymddygiad gwyllt un noson, datgana'r fyfyrwraig:

> I made a decision about Doreen that night. I decided that I would watch her and listen to what she said, but deep down I would have nothing at all to do with her. Deep down, I would be loyal to Betsy and her innocent friends. It was Betsy I resembled at heart. (t.24)

Wrth iddi benderfynu ymbellhau oddi wrth Doreen a'i ffyrdd anghydymffurfiol, mae Esther yn gwneud penderfyniad isymwybodol i ymddwyn mewn modd tebyg i Betsy ac felly'n byw bywyd o gydymffurfiaeth. Ond yn wyneb y dewis hwn ac yn ystod camau cynnar ei salwch meddwl, awgrymir bod Esther, yn union fel Bet, yn dal i deimlo'n gryf yr euogrwydd a'r cywilydd a gysylltwyd â'r gwrthryfel benywaidd yn ystod y cyfnod. Ys dywedodd Barnes a Maple am y sefyllfa fenywaidd gyffredin hon: 'personal perceptions of self which do not coincide with what are considered to be the normal perceptions of what a woman should be are a potential source of difficulty'.[901] O feddwl am hyn, mae Doreen gweithredu fel Esther amgen (*alter* ego) sydd hefyd yn agor y trafodaethau Freudaidd unwaith eto. Fel y nodwyd eisoes, erbyn diwedd y nofel, mae *ego* Esther Greenwood yn llywodraethu dros bob gweithred a meddwl. Ar ddechrau'r nofel, fodd bynnag, gwelwn fod ei *huwch-ego* yn ceisio ei harwain. Cryfheir y syniad hwn drwy ddewis Esther i beidio â dilyn Doreen gan ddewis dod yn ffrindiau â Betsy yn hytrach. Er bod Esther yn ceisio byw bywyd cydymffurfiol fel Betsy, mae yna mwy o bersonliaeth Doreen ynddi mewn gwirionedd. Ac felly, fel yr awgrymir gan y gosodiad uchod, mae'r tyndra mewnol hwn yn achosi problemau personol a chymdeithasol i Esther.

Gan ystyried hyn a thrwy gynnwrf mewnol Esther Greenwood, cydnabyddir y paradocs a oedd yn amgylchynu gwrthryfel seicolegol a chymdeithasol y fenyw yn ystod y chwedgau. Wedi'r cyfan, wrth i Sylvia Plath gynnig dwy fenyw hollol gyferbyniol, cyflwynir personoliaeth arall y fyfyrwraig a phwysleisir o ganlyniad, natur ansicr Esther. Gwyddwn, er enghraifft, nad yw Esther wir eisiau byw bywyd ceidwadol fel Betsy ond yn hytrach, mae'n dyheu, er gwaethaf ei naws feirniadol

[901] Barnes a Maple, *Women and Mental Health: Challenging the Stereotypes*, t.6.

tuag ati, am gael bywyd llawer mwy rhydd fel Doreen. Unwaith eto, fodd bynnag, ac yn unol â'r dadansoddiadau ffeministaidd, arglwyddiaetha euogrwydd cymdeithasol dros awydd personol.

Yng ngoleuni'r emosiynau amhendant hyn, eglurodd Betty Friedan: 'the image of the American women seems to have suffered a schizophrenic split'.[902] Trwy Bet a Melinda, Betsy a Doreen, portreedir dau ben i'r sbectrwm o ran cyfansoddiad y fenyw a gwelir o ganlyniad, bersonoliaeth ranedig menywod y cyfnod. Mae Esther, er enghraifft, yn siglo rhwng gwneud ei dyletswydd gymdeithasol a'i hawydd i wrthryfela yn erbyn ei chaethiwed. Ac yn yr un modd, mae Bet Jones yn mabwysiadu rôl y wraig weinidog barchus yn ogystal â math o wrthryfelwraig weithredol. Ond yn y naill achos a'r llall, cydnabyddir y ffaith nad oedd yn bosib i fenywod feddiannu'r ddwy agwedd gymdeithasol hyn. Fel y nododd Barnes a Maple: 'there appears to be socially desirable characteristics which women are not supposed to possess'.[903] Yn hytrach, roedd menywod fel Bet Jones yn cael eu siglo rhwng dyletswydd a dymuniad cyn iddynt chwalu'r norm benywaidd; naill ai fel sgil effaith anochel eu gormes neu, er mwyn achub eu lles meddyliol.

Wrth ystyried hyn oll ac er bod arwyddion amlwg o'r gwrthryfel seicolegol a chymdeithasol i'w gweld yn *TH* a *TBJ*, mae Bet ac Esther yn dal i gael eu dylanwadu gan y rhagfarnau cymdeithasol hyn sy'n effeithio ar eu hyder. Yn wyneb ansicrwydd y menywod hyn, pwysleisiodd Friedan eto: 'It is not easy for a woman who has defined herself wholly as a wife and mother for ten or fifteen or twenty years to find a new identity at thirty-five or forty or fifty'.[904] Dyna felly broblem Bet Jones. Fel sydd wedi bod yn amlwg drwy'r holl astudiaeth, mae cymeriad Kate Roberts yn uniaethu â rôl y fam a rôl y wraig yn bennaf oll. Ond wrth iddi ddechrau blino ar ei bywyd cul ac anfoddhaol, awgrymir rhyw chwant gwrthryfelgar ym mhersonoliaeth y wraig gweinidog. Er ei bod yn rhy ofnus ar adegau i fanteisio ar y teimladau newydd hyn – mae Bet yn cydnabod ei hun, er enghraifft: 'yr oeddwn yn perthyn i ddau fyd, byd llyffetheiriol fy ieuenctid, a'r byd newydd a welwn, y clywn ac y darllenwn amdano mewn llyfrau lle na welid bai ar bechod' (t.58) – mae'n rhaid i Bet a hefyd menywod fel Esther chwilio am y cryfder i weithredu ar eu hamheuon a'u hanfodlonrwydd. Fel y nododd Friedan: 'they must refuse to be nameless,

902 Friedan, *The Feminine Mystique*, t.31.
903 Barnes a Maple, *Women and Mental Health: Challenging the Stereotypes*, t.6.
904 Friedan, *The Feminine Mystique*, t.298.

depersonalised, manipulated and live their own lives again according to a self-chosen purpose. They must begin to grow.'[905]

Fel y nodwyd eisoes yn yr astudiaeth, o ganlyniad i rym patriarchaidd y cyfnod, roedd credoau ac agweddau menywod yn cael eu hepgor o'r meysydd seicolegol a gwyddonol yn aml. Oherwydd hyn, roedd gwragedd amrywiol yr oes yn mynd ati i arllwys eu teimladau, eu dicter a'u pryderon amrywiol dros dudalennau llenyddol nofelau a barddoniaeth. Eglurodd Elaine Showalter: Individually and collectively, these narratives provide the woman's witness so marginal or absent in the nineteenth-century discourse on madness.[906]

O ystyried hyn oll, cadarnheir yma'r cysylltiad rhwng clefydau seicolegol a llenyddiaeth unwaith eto. Yn wir, o safbwynt celfyddydol, darpara gwallgofrwydd ac iselder rai o'r delweddau mwyaf ingol, trawiadol ac emosiynol o ran sylfeini ysbrydoliaeth. Yn achos y fenyw yn benodol, gellir nodi bod nifer o awduron wedi ceisio taflu goleuni ar y profiad benywaidd. Gall llenyddiaeth fod yn blatfform i fynegi safbwyntiau gwleidyddol a chymdeithasol cryf, megis y berthynas rhwng gwallgofrwydd a chreadigrwydd. I eraill, mae'n ffordd o ddeall a dadansoddi profiadau seicolegol personol, dryslyd.

O safbwynt y darllenydd hefyd, a fel y dadansoddwyd drwy'r astudiaeth hon i gyd, gallwn nodi bod modd i lenyddiaeth helpu pobl i ddeall yn well naill ai eu problemau seicolegol eu hunain neu faterion cymdeithasol digon dyrys ym maes iechyd a gofal. Dyma pam fod straeon Esther, Bet, Chief Bromden ac adroddwr *UNOL* i gyd mor bwysig, nid yn unig i'r astudiaeth hon ond hefyd i'n dealltwriaeth ehangach o faterion ym maes iechyd meddwl.

Mae yna lawer o hyd y gellir ei ddweud, nid yn unig am brofiad seiciatryddol y fenyw ond hefyd am holl agweddau'r astudiaeth hon. Ond fel yn achos pob dadansoddiad, rhaid , am y tro, roi terfyn ar yr ymchwil. Trown gan hynny at bennod derfynol yr astudiaeth wrth inni fynd ati i grynhoi prif gasgliadau'r traethawd, yng ngoleuni'r cwestiynau ymchwil a'u hatebion, cyn tynnu sylw hefyd at bosibilrwydd ymchwil bellach mewn maes sydd wastad yn tyfu ac yn datblygu.

905 Friedan, *The Feminine Mystique*, t.249.
906 Showalter, *The Female Malady*, t.210.

# PENNOD 6
# Diweddglo a Chasgliadau

Ar ôl ymdrin â holl elfennau ffeministaidd, hanesyddol, cymdeithasol a seiciatryddol yr astudiaeth, gwelwyd darlun cyfoethog ac amrywiol o salwch meddwl yng ngweithiau amrywiol y cyfnod a'r traethawd. Trwy'r penodau gwahanol, symudwyd rhwng ffaith a ffuglen, o'r absẃrd i'r rhesymegol ac o'r dwys i'r difyr, i gyflwyno dadansoddiad rhyngddisgyblaethol o ddefnydd, portread a swyddogaeth salwch meddwl mewn llenyddiaeth. Yn hyn o beth, ac ys dywedodd Pietikainen am bwysigrwydd astudiaethau hanesyddol a seiciatryddol ehangach: 'to study madness historically is important precisely because it helps us understand how madness appears and makes itself visible at difference times and different places'.[907]

Trwy astudio gwallgofrwydd a salwch meddwl o safbwynt llenyddol fel yr awgrymodd awduron megis Branimir Rieger[908] a Kia Jane Richmond,[909] cyflwynir hefyd ddealltwriaeth ddyfnach o'r prosesau a'r profiadau seicolegol. Mae straeon o'r fath yn creu empathi, yn mynd i'r afael â stereoteipiau a stigma ac yn darparu llwyfan i faterion llosg ond sensitif yr oes. A gwelwyd y nodweddion hyn i gyd yn llenyddiaeth graidd yr astudiaeth. Wrth reswm, ni fwriedir crynhoi holl ddadansoddiadau'r astudiaeth yn eu cyfanrwydd yma, ond drwy oleuni myfyrgar, ceisir ystyried casgliadau mwyaf gwreiddiol yr astudiaeth ac yn sgil hynny, y potensial ar gyfer gwaith pellach.

Yn y penodau agoriadol, cydnabuwyd safle a chyd-destun y meysydd ymchwil amrywiol. Ym Mhennod 1, aethpwyd ati i sefydlu'r hyn a gyflawnwyd mewn maes sy'n ymdrin â defnydd salwch meddwl fel elfen mewn llenyddiaeth Gymraeg, llenyddiaeth Saesneg a gweithiau theoretig pur. O ganlyniad, gwelwyd bod hanes hirhoedlog a chyfoethog i'r meysydd seiciatryddol a llenyddol hyn. Ac wrth ystyried y canon cyfoethog o weithiau ffuglennol a beirniadol sy'n archwilio'r berthynas rhwng salwch meddwl a llenyddiaeth yn y Saesneg, gellir dadlau mai prin oedd astudiaethau tebyg yn y Gymraeg, mewn gwirionedd.

Yn wir, er y dangoswyd bod y thema wedi'i harchwilio gan awduron, beirniaid ac ysgolheigion Cymraeg amrywiol yn yr ugeinfed ganrif a'r unfed ganrif

[907] Pietikainen, *Madness: A History*, t.10.
[908] Rieger, *Dionysus in Literature: Essays on Literary Madness*.
[909] Kia Jane Richmond, 'Using Literature to Confront the Stigma of Mental Illness, Teach Empathy and Break Stereotypes,' *Language Arts Journal of Michigan*, 30.1 (Hydref 2014), 19-25.

ar hugain, penderfynwyd mai gweithiau'r chwedegau fyddai canolbwynt pennaf yr astudiaeth. At hyn, dadansoddwyd yr ymatebion beirniadol i *TH*, *UNOL* ac wedyn *OFOTCN* a *TBJ* gan gydnabod hefyd fylchau'r ymchwil Cymraeg a pherthynas bosib y gweithiau Saesneg. Gwelwyd, er enghraifft, mai ychydig o drafod a fu ar yr elfen seicolegol yn *UNOL* wrth i'r dadansoddiadau eraill ganolbwyntio'n bennaf ar ei harddull neu'r gymhariaeth hunangofiannol. Ac yn stori fer hir Kate Roberts, sefydlwyd y potensial ar gyfer cymariaethau llenyddol a chyd-destunol ehangach – model a fyddai'n ffurfio craidd yr astudiaeth.

Ceisiodd y traethawd hwn archwilio tiroedd llenyddol newydd. Rhan ganolog o'r astudiaeth yw'r elfen ryngddisgyblaethol. Darllenwyd gweithiau seiciatryddol a chymdeithasegol. Ystyriwyd *TH* ac *UNOL* ochr yn ochr â rhai gweithiau Cymraeg eraill, gan gynnwys *Wrth Fy Nagrau i, Mae'r Galon Wrth y Llyw* a *Gwyn eu Byd yr Adar Gwylltion.* Yn sgil hyn, ehangwyd y dadansoddiad seiciatryddol Cymreig a Chymraeg. Cymharwyd y testunau craidd hefyd â nofelau Americanaidd poblogaidd y cyfnod sy'n debyg o ran eu themâu, sef *TBJ* ac *OFOTCN*. O ganlyniad, cyflwynwyd dadansoddiad trawsatlantig newydd. Ac wrth i'r astudiaeth ddatblygu, ffurfiwyd cysylltiad dadansoddol rhwng *TBJ* a *TH* ond hefyd, rhwng *UNOL* ac *OFOTCN* gan daflu goleuni, unwaith eto, ar fanteision astudio'r llenyddiaeth o safbwynt rhyngddisgyblaethol.

Wedi sefydlu prif gyfnod a gweithiau'r astudiaeth yn y bennod gyntaf, edrychodd Pennod 2 ar y cyd-destun amseryddol yn fanylach. Rhoddwyd sylw i natur derfysglyd gyffredinol y diwylliant amgen, i'r brwydrau ffeministaidd ac i'r dadleuon seiciatryddol cyn ystyried yr ymatebion Cymraeg a Chymreig i oes benderfynol a llawn cyffro a newid. Mae'r traethawd yn tynnu ar ysbrydoliaeth sawl maes amrywiol, gan gynnwys y meysydd ffeministaidd, gwrth-seiciatryddol, hanesyddol a chymdeithasol feirniadol. Gwneir hyn er mwyn dangos cyfoeth a natur gyfoes darlleniad dyfnach y gweithiau Cymraeg yn ogystal â'u safle mewn perthynas â llenyddiaeth boblogaidd Saesneg y cyfnod. Gwelwyd mor amlwg oedd y themâu Laingaidd a Freudaidd yn y testunau Cymraeg a chrëwyd cysylltiadau â gwaith Szasz, Goffman a Friedan.

Gwelwyd hefyd fod Cymru'n manteisio ar natur wrthryfelgar blynyddoedd wedi'r rhyfel wrth i nifer o frwydrau cenedlaetholgar a pholiticaidd siapio bywyd y Cymro. Ar ben hyn, archwiliwyd y meysydd seiciatryddol ac athronyddol drwy waith Gwilym. O. Roberts a J. R. Jones ymhlith eraill. Er mor werthfawr oedd

astudiaethau ffeministaidd eu gogwydd megis gwaith Gramich (2007) a Rees (2014), sylwadau Harri Pritchard Jones (1982), Llion Wigley, (2013, 2015) a barnau amrywiol Gwilym. O. Roberts fel seiciatrydd (1958-1967) [910] ar y cylchoedd seiciatryddol, yn ogystal â thraethawd ymchwil Francesca Rhydderch a oedd yn cymharu gwaith Kate Roberts â Virginia Woolf (2000), ni chafwyd yn y Gymraeg waith a oedd yn cyfuno'r holl elfennau hyn er mwyn creu un astudiaeth ryngddisgyblaethol fanwl. Dyna, felly, oedd nod y traethawd hwn.

Ar ôl olrhain cyd-destunau hanesyddol a beirniadol y gweithiau yn y ddwy bennod gyntaf, canolbwynt Pennod 3 oedd yr elfen bersonol ac ar adegau, hunangofiannol. Ym mhob un o'r gweithiau craidd, awgrymwyd cysylltiad posib rhwng y cymeriad a'r awdur. Yn achos *UNOL* a *TBJ,* cynigwyd mewnwelediad cignoeth i hunanladdiad drwy ddisgrifiadau ansensoredig adroddwr Caradog Prichard a datguddiadau gonest Esther Greenwood yn ogystal â'r elfennau cathartig. Yn *TH*, cefnogwyd cywirdeb y portread seiciatryddol gan gyffes Kate Roberts parthed ei theimladau a'i salwch ei hun. Ac yn *OFOTCN*, gwelwyd effeithiau cyffuriau seicotropig yn ogystal ag arwyddocâd cymeriad, awdur a neges gref wrth i'r llyfr gael dylanwad rhyfeddol a pharhaol ar y meysydd seiciatryddol.

Agorodd y bennod hon drafodaeth bellach ar bwysigrwydd llenyddiaeth ym maes seiciatreg ac iechyd meddwl wrth i ni edrych ar rôl llenyddiaeth yn nhaith Esther Greenwood a gwellhad Bet yn y pen draw. A gwelwyd, o ganlyniad, fod pŵer i'r gair llenyddol, rhydd mewn byd meddygol, awdurdodaidd. Gwelwyd bod yr awduron dan sylw yn defnyddio eu profiadau personol er mwyn archwilio eu teimladau a'u hemosiynau eu hunain drwy gyfrwng eu cymeriadau. Ac agorwyd, o ganlyniad, drafodaethau ar elfen gathartig ysgrifennu.

Ers dechrau'r astudiaeth hon, gwelwyd nifer o ddatblygiadau hollbwysig o ran defnyddio'r llwyfan llenyddol i fynegi'r profiad seicolegol. Yn dilyn yr ymateb ffafriol i *Gyrru drwy Storom* yn 2015, cyhoeddodd Malan Wilkinson ei llyfr *Rhyddhau'r Cranc* yn 2018 a oedd yn trafod ei brwydrau ingol personol â salwch meddwl ac iselder ysbryd. Ac yn sgil hyn oll, yn ystod Eisteddfod Genedlaethol

[910] Daeth Gwilym O. Roberts yn adnabyddus am ei golofn wythnosol yn *Y Cymro* rhwng 1958 a 1967. Trwy'i ysgrifau amrywiol, roedd yn ysgrifennu am ei ddiddordebau crefyddol a seicolegol mewn modd heriol a modern.

Caerdydd 2018, trefnwyd sgwrs arloesol yn y Babell Lên, 'Hel Meddyliau: Trafodaeth ar effaith llenyddiaeth ar iechyd meddwl'.[911]

Bwriad y drafodaeth hon oedd trafod effaith llenyddiaeth ar iechyd meddwl yr unigolyn. Trafodwyd sut y mae llenyddiaeth yn gallu cael effaith bositif neu negyddol ar iechyd meddwl yr ysgrifennwr a'r darllenwr. Yn ôl Angharad Gwyn, er enghraifft, roedd cael cyfle i ysgrifennu ar ôl dioddef o anorecsia 'yn brofiad positif' am ei fod yn gadael iddi '[d]refnu'r meddyliau'. Wrth roi ei theimladau ar bapur, pwysleisiodd ei fod yn gwneud y profiad yn llai brawychus am ei bod yn teimlo bod ganddi 'fwy o bŵer dros y peth'. Ac yng ngeiriau Sara Gibson, roedd darllen straeon yn brofiad gwahanol ar ôl dioddef yn seicolegol am ei bod 'yn gallu eu dehongli nhw mewn ffyrdd gwahanol erbyn hynny oherwydd yr hyn [roedd hi] wedi'i brofi'.

Heb os, gwelir cyfatebiaethau rhwng yr unigolion hyn yn yr unfed ganrif ar ugain a chymeriadau ac awduron ein llenyddiaeth graidd. Cydnabuwyd pwysigrwydd rôl llenyddiaeth a darllen er mwyn deall yr annealladwy, o wraig gweinidog archolladwy i fyfyrwraig Americanaidd goll, o fachgen ac awdur sy'n ceisio deall chwalfa ei fam i arwr annisgwyl sy'n ceisio dymchwel y byd seiciatryddol, a hefyd bobl yr oes bresennol sy'n brwydro â'u cythreuliaid eu hunain. Yn wyneb yr holl astudiaethau a'r datblygiadau hyn, mae'r drafodaeth seiciatryddol yn y Gymraeg yn un gyffrous a phwysig ar hyn o bryd. A chan fod y traethawd yn edrych ar elfen bersonol, gymdeithasol a llenyddol y meysydd seicolegol, gobeithir y bydd yr astudiaeth hon yn cyflwyno agwedd gefnogol a gwreiddiol i'r trafodaethau niferus. O ystyried hyn, mae'r gobaith hwn yn dod â ni at un o brif gwestiynau ymchwil yr astudiaeth a hefyd sail y ddwy bennod nesaf. Hynny yw, ym mha ffyrdd y mae ein dealltwriaeth o'r testunau hyn yn cael ei gwella a'i chyfoethogi gan astudiaethau cyd-destunol rhyngddisgyblaethol?

Canolbwyntiodd Pennod 4 ar rôl a dylanwad ehangach y gymdeithas o ran y meysydd seicolegol, yn aml fel ffactor gyfrannol at salwch meddwl. A thrwy ddefnyddio damcaniaethau pobl megis Szasz, Goffman a Laing, ystyriwyd y gweithiau Cymraeg yn eu cyd-destun cymdeithasol a seiciatryddol ehangach gan ddangos bod Cymru a'i hawduron yn cyfrannu at ddadleuon a thrafodaethau poblogaidd y cyfnod. Trwy'r bennod hon, er enghraifft, canolbwyntiwyd ar

[911] Mae'r drafodaeth gyfan i'w gweld ar wefan meddwl.org, *Trafodaeth ar 'Hel Meddyliau' yn yr Eisteddfod* (Medi 2018), < https://meddwl.org/fideo/hel-meddyliau-steddfod/> [cyrchwyd 21 Ionawr 2019]

berthynas yr unigolyn sâl ei feddwl â'i gymdeithas yn hanesyddol, effaith tlodi a dosbarth cymdeithas ar iechyd meddwl rhywun, delwedd y gwallgofdy fel carchar a math o reolaeth gymdeithasol gan gyflwyno gwaith Goffman a Foucault, yr unigolyn ansicr a'r llinell denau rhwng gwallgofrwydd a challineb, effeithiau clefyd poblogaidd y cyfnod, yr argyfwng gwacter ystyr cyn gorffen drwy ddadansoddi'r stigma cymdeithasol ehangach.

Am fod Pennod 5 yn gadael i ni ddadansoddi'r profiad benywaidd ac o ganlyniad, *TH* a *TBJ* yn bennaf, cyflwynwyd ym Mhennod 4 ddadansoddiadau manylach ar y gweithiau *UNOL* ac *OFOTCN*. Wrth ystyried y gymhariaeth a sefydlwyd rhwng *TH* a *TBJ* fodd bynnag, ni welwyd cysylltiad mor uniongyrchol rhwng cymeriadau Kesey a Prichard mewn gwirionedd. Yn hytrach, gan adeiladu ar waith Morgan (2005) a Brooks (1993) ar ddelwedd y seilam, archwiliwyd portread arloesol Kesey o'r gwallgofdy fel carchar a gosodwyd nofel Prichard mewn cyd-destun cymdeithasol a gwrth-seiciatryddol beirniadol ehangach. Gan adeiladu ar awgrym Mihangel Morgan, sef nad oedd llawer o sylw wedi ei roi i'r portread o'r seilam ei hun,[912] aeth yr astudiaeth hon ati i lenwi'r bwlch hwn gan ffocysu ar bortread y gwallgofdy drwy oleuni beirniadol cyfnod cyhoeddi'r nofel. A thrwy ddefnyddio beirniadaethau Goffman a Foucault, gosodwyd *UNOL* yn ei chyd-destun seiciatryddol ehangach gan gyflwyno fframwaith cyd-destunol newydd i'r nofel enwog. Hynny yw, ehangwyd ar ddelwedd a phwysigrwydd tlodi yn y nofel yn ogystal â'r trafodaethau Freudaidd a dangoswyd, o ganlyniad, safle *UNOL* mewn perthynas â damcaniaethau seicolegol poblogaidd yr oes.

Newidiodd y drafodaeth ychydig ym Mhennod 5 ac edrychwyd ar brofiad seiciatryddol y fenyw'n bennaf. Gan dynnu ar waith amseryddol megis Betty Friedan (1963) yn ogystal â syniadau Freudaidd poblogaidd amrywiol yr oes, cynigwyd gwedd newydd ar y gweithiau Cymraeg na welwyd o'r blaen. Yn y bennod hon, edrychwyd ar y rolau benywaidd a'u peryglon, rôl a dylanwad y fam gan agor y trafodaethau Freudaidd, brwydr y rhywiau a'r rhagdybiaethau a bortreadai menywod naill ai fel dioddefwyr neu fel gormeswyr, cyn gorffen ar menywod anghonfensiynol a oedd yn benderfynol i dorri confensiynau'r ystrydeb.

Trwy'r gweithiau amrywiol megis *MGWYL* ac *WFNI* ond yn bennaf *TH* a *TBJ*, archwiliwyd rôl y fenyw fel ffactor gyfrannol neu ganolog i chwalfeydd

[912] Morgan, *Llên y Llenor: Caradog Prichard*, t.8.

seicolegol y cymeriadau benywaidd. Ond yn achos Bet ac Esther ac er bod gan y menywod gefndir a magwraeth hollol annhebyg i'w gilydd, trwy'r elfen gymharol, cyflwynwyd dadansoddiad manwl o daith seiciatryddol y fenyw yn y cyfnod. Edrychwyd ar bryderon y fyfyrwraig yn wyneb cyfyngderau ei dyfodol yn *TBJ,* cyn archwilio dadrithiad y wraig ganol oed goll sy'n ysglyfaeth i'r union ofnau hyn yn *TH.* Wrth gymharu profiadau gwraig gweinidog gaeth yn y Gymru wledig â brwydrau myfyrwraig ifanc rwystredig yn America, ceisiwyd cyfrannu at ddeall brwydr gyffredin y fenyw ledled y byd. O ganlyniad, gosodwyd stori Kate Roberts mewn cyd-destun llenyddol ehangach. Heb ddealltwriaeth o ormes gwraig y cyfnod drwy weithiau megis Friedan, Chesler a de Beauvoir, er enghraifft, gellir dadlau y byddem ond wedi ystyried profiadau Bet Jones yn *TH* o'r safbwynt cenedlaetholgar, crefyddol ac athronyddol. Yn hytrach, dadansoddwyd stori'r wraig gweinidog yn ei chyd-destun cyfoes ehangach gan ddangos y ceir yn stori fer hir Kate Roberts adleisiau amlwg o frwydr a thrafferthion menyw'r oes, ac effaith hynny ar ei phwyll.

Fel y archwiliwyd drwy'r penodau a'r adrannau gwahanol, ceir delweddau, dadansoddiadau a themâu tebyg rhwng pedair prif nofel yr astudiaeth. Yn unol â natur heriol a beirniadol y cyfnod roedd y gymdeithas – ei rhagfarnau a'i strwythurau – wrth wraidd problemau'r cymeriadau yn y gwahanol straeon. At hyn, gwelwyd drwy'r gweithiau i gyd ddelweddau a symbolau cofiadwy a oedd yn portreadu byd a theimladau'r unigolyn gwallgof, delweddau megis y glochen fyglyd, y lleuad oeraidd a'r niwl awgrymog. Yn ogystal â hyn, penderfynodd y pedwar llenor dan sylw fanteisio ar naratif person cyntaf er mwyn llunio stori bersonol ac unigryw gan dynnu ar eu profiadau a'u brwydrau personol mewn modd creadigol.

Heb os, mae'r elfen lenyddol gymharol wedi cyflwyno agwedd newydd i'r gweithiau Cymraeg gan eu gosod yn eu cyd-destunau beirniadol ehangach. Cyfoethogwyd pob testun craidd gan astudiaethau rhyngddisgyblaethol wrth i'r mewnwelediadau creadigol ymestyn dulliau llenyddol traddodiadol, a'r gweithiau ffeministaidd, seiciatryddol a chyd-destunol daflu goleuni ar gymhellion personol yr awdur, agweddau hanesyddol ac ymarfer clinigol yn y maes. Ac er y ceisiwyd archwilio agweddau a theorïau na welwyd o'r blaen yn y Gymraeg ynghylch y testunau hyn, maes ymchwil eang a chyfoethog iawn yw hwn sy'n cynnig y bosibilrwydd o ddadansoddiadau cyd-destunol, theoretig pellach.

Nodwyd drwy'r astudiaeth y cyfatebiaethau a'r gwahaniaethau rhwng y gweithiau Cymraeg a'r rhai Saesneg fel modd i gyfoethogi ein dealltwriaeth o'r

testunau. Cyflwynwyd agwedd wahanol i salwch meddwl Bet Jones wrth leoli ei hanniddigrwydd a'i blinder yng nghanol rhwystredigaethau benywaidd y cyfnod a brwydr Esther Greenwood. A gellir dweud yr amlygwyd yr elfen gyhuddgar yn *UNOL* o ran effeithiau tlodi a thriniaeth salwch meddwl drwy'i chymharu ag *OFOTCN*, nofel a ddechreuodd chwyldro seiciatryddol. Ni ddadansoddwyd, fodd bynnag, swyddogaeth crefydd yn fanwl gan ei bod yn absennol yn y gweithiau Americanaidd. Gellir awgrymu hefyd fod modd ymhelaethu ar y dadansoddiadau Freudaidd ac ar bwysigrwydd symbolau a delweddau'r gweithiau mewn cyd-destun ehangach. A gellir hyd yn oed gwmpasu cyfnod mwy penagored gan ddefnyddio testunau o sawl degawd.

Gyda hynny, ac yn wyneb natur gyfnewidiol ac anrhagweladwy salwch meddwl, wrth i astudiaethau a gwybodaeth seiciatryddol newydd ddod i'r wyneb, bydd modd dadansoddi profiadau'r cymeriadau yng ngoleuni gwahanol theorïau. Ys dywedodd Pietikainen: 'the research scope is now wider than ever, and different approaches, methods and contexts bring new knowledge about and insights into the theory and practice of mental health care'.[913]

Ers cyfnod cyhoeddi'r llenyddiaeth graidd, er enghraifft, parhaodd y feirniadaeth seiciatryddol gan y gwrth-seiciatryddion ond hefyd gan bobl megis Franco Basaglia.[914] Yn ogystal â hyn, ffurfiwyd hefyd Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 ym Mhrydain gyda'r gobaith o wella'r gwasanaethau seiciatryddol cyn iddi gael ei diwygio yn 2007 gan gyflwyno agweddau gwahanol tuag at salwch meddwl. Ac yn y cyd-destun Cymraeg, yn ystod cwmpas tair blynedd yr astudiaeth hon yn unig, gwelwyd nifer o ddatblygiadau hollbwysig.

Fel y nodwyd, cyhoeddwyd *Gyrru Drwy Storom* yn 2015 â'r bwriad o agor trafodaeth seiciatryddol yn y Gymraeg. Ers hynny, mae'r archwiliad personol a seicolegol yn y Gymraeg wedi mynd o nerth i nerth. Sefydlwyd gwefan *meddwl.org*, er enghraifft, ym mis Tachwedd 2016 'er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r diffyg gwybodaeth cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i helpu pobol sy'n byw gyda salwch neu gyflwr iechyd meddwl, a'u teuluoedd a'u ffrindiau'.[915] Bu Cymdeithas yr Iaith yn

---

913 Pietikainen, *Madness: A History*, t.10.
914 Dyn a oedd yn herio'r seilam yn yr Eidal ydoedd gan greu yn ei dro, 'Basaglia Law' neu 'Law 180' sef Deddf Iechyd Meddwl 1978 yr Eidal. Am fwy o wybodaeth amdano, darllenwch, John Foot, *The Man Who Closed the Asylums: Franco Basagli and the Revolution in Mental Health Care* (New York: Verso Books, 2015).
915 Meddwl.org, *meddwl.org – pwy, beth a pham?'* <https://meddwl.org/meddwl-org-pwy-beth-a-pham/> [cyrchwyd 07 Awst 2018]

beirniadu diffyg difrifol gwasanaethau iechyd meddwl yn y Gymraeg.[916] Ym mis Ebrill 2018, lansiwyd ap lles newydd yn y Gymraeg o'r enw 'Cwtsh' gyda'r gobaith o leddfu'r straen drwy fyfyrio. Ac yn yr un flwyddyn ac yn dilyn llyfr Alaw Griffiths, fel y crybwyllwyd eisoes, cyhoeddodd Malan Wilkinson ei llyfr *Rhyddhau'r Cranc* wrth i'r Eisteddfod hefyd gynnal digwyddiad hollbwysig ac arloesol.

Ond wrth ddirwyn yr astudiaeth hon i ben ac wrth inni synfyfyrio ar holl ddadansoddiadau'r penodau amrywiol, dysgwn mai cyflwr cymhleth, teimladwy, personol, rhyfeddol a symbolaidd yw salwch meddwl, cyflwr sydd hefyd yn agor ein llygaid a'n meddyliau pan gaiff ei ddefnyddio ar lwyfan creadigol. Ys dywedodd Andrew Scull:

> Madness is a disturbing subject, one whose mysteries puzzle us still… Insanity haunts the human imagination. It fascinates and frightens all at once. Few are immune to its terrors. It reminds us insistently of how tenuous our own hold on reality may sometimes be. It challenges our senses.[917]

Wrth ystyried delweddau'r llenyddiaeth graidd, mae salwch meddwl yn gyflwr seicolegol afreolus sy'n gallu effeithio ar amrywiaeth o bobl ac mewn amrywiaeth o ffyrdd. Gall godi ofn ar rai ond gall hefyd ddarparu mewnwelediad cignoeth ac arwyddocaol i'r cyflwr dynol. Dadansoddwyd ym Mhennod 4 a 5, er enghraifft, y wedd gadarnhaol ar wallgofrwydd o ran cyswllt â rhyddid a gweledigaeth bersonol. A thrwy ddal ati i ddadansoddi'r thema hon yn ein llenyddiaeth a thrwy ddarparu cyfleoedd i drafod profiadau seicolegol a gwrando ar leisiau dioddefwyr – ffuglennol neu fel arall – gallwn fod yn weddol hyderus y bydd y sefyllfa a'r drafodaeth seiciatryddol lenyddol yng Nghymru yn parhau i ffynnu.

Wrth i gynllun y Llywodraeth 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl',[918] sy'n ystyried sut i wella gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru ddod i ben y flwyddyn hon ac addewid llywodraeth San Steffan i ddiwygio Deddf Iechyd Meddwl 2007 gyda'r bwriad o roi i gleifion 'more control over their treatment and make sure

[916] Cymdeithas yr Iaith, *Diffygion Difrifol Gwasanaethau Iechyd Meddwl yn y Gymraeg* (Mehefin 2017), < https://cymdeithas.cymru/newyddion/diffygion-difrifol-gwasanaethau-iechyd-meddwl-yn-gymraeg-ymgyrchwyr> [cyrchwyd 22 Ionawr 2019]
[917] Scull, *Madness in Civilisation* (London: Thames & Hudson Ltd, 2005), t.10.
[918] Llywodraeth Cymru, *Law yn Llaw at Iechyd Meddwl: Cynllun Cyflawni: 2016-2019* (Mehefin 2018), < https://gov.wales/topics/health/nhswales/plans/mental-health/?skip=1&lang=cy> [cyrchwyd 22 Ionawr 2019]

that our mental health laws are fit for the modern age',[919] gallwn lawenhau yn y ffaith bod lleisiau dioddefwyr salwch meddwl yn cael eu clywed a'u cymryd o ddifrif o'r diwedd yn yr oes hon. Ac o ystyried mor bwerus y bu'r croesbeillio rhwng y llenyddol a'r seiciatryddol yn y gorffennol, gallwn hefyd fod yn ffyddiog y bydd y meysydd seicolegol yn parhau i ysbrydoli cenedlaethau o lenorion, ymchwilwyr a chynulleidfaoedd y tu hwnt i'r astudiaeth hon ac ymhell i'r dyfodol.

[919] Matt Hancock a gov.uk, *Government Commits to Reform Mental Health Act* (Rhagfyr 2018), < https://www.gov.uk/government/news/government-commits-to-reform-the-mental-health-act> [22 Ionawr 2019]

# LLYFRYDDIAETH

## 1. Llenyddiaeth ac awudron craidd Cymraeg a Chymreig

### 1.1 Elis, Islwyn Ffowc

**Llyfrau ac erthyglau**


Brooks, Simon, 'Ystrydebau Ethnig Islwyn Ffowc Elis' yn *Ysgrifau Beirnadol XXVIII,* gol. gan Gerwyn Williams (Bethesda: Gwasg Gee, 2009), tt.95-120

Brown, J.P, 'Islwyn Ffowc Elis.', The *Anglo-Welsh Review,* 9.24 (1953), 30-38

Chapman, T. Robin, *Islwyn Ffowc Elis* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2000)

Chapman, T. Robin, *Rhywfaint o Anfarwoldeb: Bywgraffiad Islwyn Ffowc Elis* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2003)

Chapman, T. Robin, 'Wedi Oeri'r Gwaed, Tywyll Neithiwr: Arddulliau ôl-hwyr Islwyn Ffowc Elis a Kate Roberts' yn *Ysgrifau Beirniadol XXXII,* gol. gan Tudur Hallam & Angharad Price (Bethesda: Gwasg Gee, 2014), tt.154-174

Elis, Islwyn Ffowc, *Ffenestri Tua'r Gwyll* (Aberystwyth: Gwasg Aberystwyth, 1955)

Elis, Islwyn Ffowc, 'Fy Nofel Aflwyddiannus.', *Lleufer,* 13.2 (Haf 1957), 55-59

Elis, Islwyn Ffowc, 'Creu Ysgrif' yn *Ysgrifennu Creadigol,* gol. gan Geraint Bowen (Llandysul: Gwasg Gomer, 1972), tt.75-84

Elis, Islwyn Ffowc, *Marwydos:detholiad o storïau* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1974)

Elis, Islwyn Ffowc, *Ffenestri Tua'r Gwyll,* Argraffiad Newydd (Llandysul: Gwasg Gomer, 1997)

George, Delyth, *Llên y Llenor: Islwyn Ffowc Elis* (Caernarfon: Gwasg Pantycelyn, 1990)

Jenkins, Dafydd, 'Ffenestri Tua'r Gwyll.', *Lleufer,* 12.2 (Haf 1956), 71-74

Jones, J. Gwilym, 'Adolygiad Ffenestri Tua'r Gwyll', *Llafar* (Gŵyl Ddewi 1956), 98-100.

Pritchard, Marged, 'Islwyn Ffowc Elis' yn *Portreadau'r Faner Cyfrol 3, Llenorion cyfoes,* Marged Pritchard (Y Bala: Llyfrau'r Faner, 1976), tt.47-54

Rowlands, John, 'The Novel' yn *A Guide to Welsh Literature c. 1900-1996,* gol. gan Dafydd Johnston (Cardiff: University Wales Press, 1998), tt.159-203

## 1.2 Griffiths, Alaw

**Llyfrau ac erthyglau**


Griffiths, Alaw, *Gyrru Drwy Storom,* gol. gan Alaw Griffiths (Gwasg Gomer: Y Lolfa, 2015)

Griffiths, Hywel, 'Cof' yn *Gyrru Drwy Storom*, gol. gan Alaw Griffiths (Talybont: Y Lolfa, 2015), tt.81-85

Hardy, Geraint, 'Salwch yw e' yn *Gyrru Drwy Storom*, gol. gan Alaw Griffiths (Talybont: Y Lolfa, 2015), tt.39-44


**Gwefannau**


BBC Cymru Fwy, *Delio gyda salwch meddwl* (2016), < http://www.bbc.co.uk/cymrufyw/33649924> [cyrchwyd 05 Rhagfyr 2016]

Golwg 360, *Lansio'r gyfrol gyntaf ar salwch meddwl yn y Gymraeg* (2015), < http://golwg360.cymru/celfyddydau/llen/195668-lansior-gyfrol-gyntaf-ar-salwch-meddwl-yn-y-gymraeg> [cyrchwyd 05 Rhagfyr 2016]

Lleol.Cymru, *Cyfrol newydd yn chwalu stigma iechyd meddwl* (2015), < http://www.lleol.cymru/blog/cyfrol-newydd-yn-chwalu-stigma-iechyd-meddwl.html> [cyrchwyd 05 Rhagfyr 2016]


## 1.3 Lewis, Gwyneth

**Llyfrau ac erthyglau**


Lewis, Gwyneth, *Sunbathing in the Rain: A Cheerful Book About Depression* (London: Flamingo, 2002)


**Gwefannau**


Feminist Mental Health UK, *Book Review: Sunbathing in the Rain by Gwyneth Lewis [Non-Fiction]* (Mehefin, 2008), <https://feministmentalhealthuk.wordpress.com/2008/06/16/book-review-sunbathing-in-the-rain-by-gwyneth-lewis-non-fiction/> [cyrchwyd 08 Rhagfyr 2016]

Simon Hattenstone, *Truth and It's Consequences. Book Review: Sunbathing in the Rain: A Cheerful Book About Depression*, The Guardian (Gorffennaf, 2002), <https://www.theguardian.com/books/2002/jul/06/featuresreviews.guardianreview2> [cyrchwyd 08 Rhagfyr 2016]

## 1.4 Prichard, Caradog

### Llyfrau ac erthyglau


Baines, Menna, 'Un Nos Ola Leuad – Y Nofel a'i Hawdur', *Barn,* 348/349 (Ionawr/Chwefror 1992), 43-45

Baines, Menna, 'Un Nos Ola Leuad- (ii)', *Barn,* 350 (Mawrth 1992), 21-22

Baines, Menna, 'Un Nos Ola Leuad – (iii)', *Barn,* 351 (Ebrill 1992), 19-21

Baines, Menna, 'Un Nos Ola Leuad – (iv)', *Barn,* 352 (Mai 1992), 19-21

Baines, Menna, 'Un Nos Ola Leuad – (v)', *Barn,* 353 (Mehefin 1992), 22-23

Baines, Menna, 'Introduction by Menna Baines' *Un Nos Ola Leuad: One Moonlit Night / Caradog Prichard; Translated by Phillip Mitchell; with an Introduction by Menna Baines,* gan Caradog Prichard, Phillip Mitchell a Menna Baines (London: Penguin Print, 1999), tt.vii-xx

Baines, Menna, *Yng Ngolau'r Lleuad: Ffaith a Dychymyg yng Ngwaith Caradog Prichard* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2005)

Brooks, Simon, 'La Mort de Bethesda', *Tu Chwith,* Rhif 1 (Ebrill / Mai 1993), 12-28

Davies, Pennar, 'Adolygiadau: Caradog Prichard, Un Nos Ola Leuad', *Taliesin,* cyf.4 (1962), 99-100

Evans, Elsbeth, 'Barddoniaeth Mr. Caradog Prichard (I)', *Y Llenor,* XXI (1942), 19-26

Hughes, J. Elwyn, *Byd a Bywyd Caradog Prichard 1904-1980* (Llandybïe: Gwasg Dinefwr a Chyhoeddiadau Barddas, 2005)

Hughes, J. Elwyn, *Byd Go Iawn Un Nos Ola Leuad* (Llandybïe, Cyhoeddiadau Barddas, 2008)

Huws, Bleddyn Owen a CAA Prifysgol Aberystwyth, *Nodiadau ar Un Nos Ola Leuad* (Aberystwyth: Argraffwyr Cambria, 2012)

Jones, Dafydd Glyn, 'Caradog Prichard' yn *Dyrnaid o Awduron Cyfoes,* gol. gan D. Ben Rees (Abertawe: Gwasg John Penry, 1975), tt.191-222.

Jones, Dafydd Glyn, 'Rhai storïau am blentyndod' yn *Ysgrifau Beirniadol IX,* gol. gan J. E. Caerwyn Williams (Dinbych: Gwasg Gee: 1976), tt.255-73

Jones, Harri Pritchard, 'Un Nos Ola Leuad' yn *Rhyddid y Nofel,* gol. gan Gerwyn Williams. (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru: 1999), tt.231-38

Jones, Tom Parry, ‘Llyfrau Newydd- Un Nos Ola Leuad. Wrth eu Gweithredoedd’, *Lleufer,* 18.1 (Gwanwyn 1962), 47-48

Lloyd, David. T., ‘Caradog Prichard, One Moonlit Night’, *World Literature Review,* 72.2 (Gwanwyn 1998), 431-432

Llwyd, Alan, ‘“Gwallgofrwydd Arglwyddes Hardd”: Pryddestau Eisteddfodol Caradog Prichard 1927-1939’ yn *Rhyfel a Gwrthryfel: Brwydr Modernaith a Beirdd Modern* gan Alan Llwyd (Llandybïe: Gwasg Dinefwr & Chyhoeddiadau Barddas, 2003), tt.186-291

Llywelyn, Emyr ‘Un Nos Ola Leuad: Em – y Doppelganger’, *Faner Newydd,* 3 (Gwanwyn 1997), 18-19

Llywelyn, Emyr, ‘*Un Nos Ola Leuad*- Brenhines y Llyn Du’, *Faner Newydd,* 4 (1997), 35-36

Llywelyn, Emyr, ‘Brenhines y Llyn Du’, *Faner Newydd,* 64 (Haf 2013), 22-25

Morgan, Mihangel, *Llên y Llenor: Caradog Prichard* (Caernarfon: Gwasg Pantycelyn, 2000)

Prichard, Caradog a Gruffudd, Robart, *Un Nos Ola Leuad,* 6ed arg (Ceredigion: Y Lolfa: 2008)

Prichard, Caradog, *Un Nos Ola Leuad* (Dinbych: Gwasg Gee, 1961)

Prichard, Caradog, *Y Genod yn ein Bywyd* (Dinbych: Gwasg Gee, 1964)

Prichard, Caradog, *Afal Drwg Adda: Hunangofiant Methiant* (Dinbych: Gwasg Gee, 1973)

Prichard, Caradog, *Cerddi: Y Casgliad Cyflawn* (Abertawe: Gwasg Christopher Davies, 1979)

Price, Rhian, ‘Yr Unig Nos Ola Leuad’, *Golwg,* 14.14 (2007), 19

Rowlands, John, ‘Agweddau ar y Nofel Gymraeg Gyfoes’ yn *Ysgrifau Beirniadol IX,* gol. gan J. E. Caerwyn Williams (Dinbych: Gwasg Gee: 1976), tt.274-97

Rowlands, John, ‘Y Fam a’r Mab – Rhagarweiniad i ‘Un Nos Ola Leuad’ yn *Ysgrifau Beirniadol XIX,* gol. gan J. E. Caerwyn Williams (Dinbych: Gwasg Gee, 1993), tt.278-309

Rowlands, John, ‘The Novel’ yn ’*A Guide to Welsh Literature c.1900-1996,* gol. gan Dafydd Johnston (Llandybïe: Gwasg Dinefwr, 1998), tt.159-203

Tomos, Angharad, ‘Translation Review: Caradog Prichard, One Moonlit Night / Un Nos Ola Leuad’, *Translation Review,* 58.1 (1999), 62-66

Williams, Ioan, ‘Campwaith o blith nofelau: *Un Nos Ola Leuad’* yn ‘*Y Nofel’* gol. gan Ioan Williams (Llandysul: Gwasg Gomer, 1984), tt.54-62

**Gwefannau**

Y Faner Newydd, *Trafod Un Nos Ola Leuad*, <http://archif.rhwyd.org/fanernewydd/unnos.htm> [cyrchwyd 30 Ebrill 2018]

### 1.6 <u>Roberts, Kate</u>

**Llyfrau ac erthyglau**

Elis, Islwyn Ffowc, ‘Tywyll Heno’, *Lleufer*, 18.4 (Gaeaf 1962), 178-182.

Elis, Islwyn Ffowc, *Kate Roberts a’r Ystlum: a dirgelion eraill* (Talybont: Y Lolfa, 2012)

Enoch, M. David, ‘Tywyll Heno a’r Seiciatryddion’, *Barn* (Tachwedd 1970), 10-11

Erfyl, Gwyn, a Roberts, Kate, ‘Kate Roberts – Cefndir, Crefft, Cred’ yn *Kate Roberts: Ei Meddwl a’i Gwaith,* gol. gan Rhydwen Williams (Llandybïe: Christopher Davies, 1983), tt.30-37

Evans, Donald, ‘Trem neu Ddwy ar ‘Tywyll Heno’ yn *Kate Roberts: Ei Meddwl a’i Gwaith,* gol. gan Rhydwen Williams (Llandybïe: Christopher Davies, 1983), tt.72-78

Evans, Meredydd, ‘Adolygiad Tywyll Heno’, *Taliesin* cyf 8 (1964), 97-101

George, Delyth, ‘Kate Roberts – Ffeminist?’, *Y Traethodydd* (Hydref 1985), 185-202

Gramich, Katie, *Kate Roberts: Writers of Wales* (Cardiff: University Wales Press, 2011)

Gruffydd, R. Geraint, ‘Nodyn ar ‘Stryd y Glep,’ yn *Kate Roberts: Ei Meddwl a’i Gwaith,* gol. gan Rhydwen Williams (Llandybïe: Christopher Davies, 1983), tt.66-71

Hywel, Emyr, gol, *Annwyl D.J. Llythyrau D.J., Saunders, a Kate* (Ceredigion: Y Lolfa, 2007)

John, Emyr, *Enaid Clwyfus: Golwg ar Waith Kate Roberts* (Dinbych: Gwasge Gee, 1976)

Jones, Bobi, ‘Kate Roberts’, *Barn* (Medi 1967), 276-277

Jones, Bobi, ‘Nofelau Kate Roberts’, *Barn* (Hydref 1967), 306-307

Jones, Bobi, ‘Storïau Byrion Kate Roberts’, *Barn* (Rhagfyr 1967), 38-39

Jones, Bobi, gol, *Kate Roberts: Cyfrol Deyrnged* (Dinbych: Gwasg Gee, 1969)

Jones, Bobi, 'Ys Tywyll Heno' yn *Llenyddiaeth Gymraeg 1936-1972,* gol. gan Bobi Jones (Llandybïe: C.Davies, 1975), tt. 182- 187

Roberts, G.O., 'Tywyll Heno', *Y Cymro,* Rhan I (Ion ,24, 1963); Rhan II (Ion 31, 1963)

Roberts, G.O. 'Tywyll Heno o safbwynt seiciatreg', *Barn* (Medi 1970), 297-299

Jones, Geraint Wyn, 'Astudiaeth o'r gwewyr enaid modern' yn *Ysgrifau Beirniadol VII,* gol. gan J. E. Caerwyn Williams (Dinbych: Gwasg Gee, 1972), tt.184-208

Jones, Geraint Wyn, *Fel drôr i fwrdd: Astudiaeth o waith Kate Roberts hyd 1962* (Caernarfon: Gwasg y Bwythyn, 2010)

Jones, Gwilym. R, 'Cefndir Kate Roberts – Milltr Sgwâr Moel Tryfan' yn *Kate Roberts: Ei Meddwl a'i Gwaith,* gol. gan Rhydwen Williams. (Llandybïe: Christopher Davies, 1983), tt.20-25

Jones, John Gwilym, 'Tywyll Heno', *Barn,* (Mawrth 1963), 150-151

Jones, John Gwilym, 'Kate Roberts' yn *Kate Roberts: Ei Meddwl a'i Gwaith,* gol. gan Rhydwen Williams (Llandybïe: Christopher Davies, 1983), tt.108-113

Llwyd, Alan, *Kate: Cofiant Kate Roberts 1891-1985* (Ceredigion: Y Lolfa, 2011)

Morgan, Derec Llwyd, *Kate Roberts* (Cardiff: University Wales Press, 1974)

Morgan, Derec Llwyd, *Bro a Bywyd Kate Roberts* (Caerdydd: Cyngor Celfyddydau Cymru, 1981)

Morgan, Derec Llwyd, 'Y Stori Fer' yn *Y Traddodiad Rhyddiaith yn yr Ugeinfed Ganrif,* gol gan. Geraint Bowen (Llandysul: Gwasg Gomer, 2002), tt. 97-108

Quinn, M. Paul Bryant, 'Golwg ar *Tywyll Heno*' yn *Ysgrifau Beirniadol XXVI,* gol. gan Gwyn Thomas (Llandysul: Gwasg Gomer, 2002), tt.124-129

Roberts, Eigra Lewis, *Kate Roberts: Llên y Llenor* (Caernarfon: Gwasg Pantycelyn, 1994)

Roberts, Kate, *Stryd y Glep* (Dinbych: Gwasg Gee, 1949)

Roberts, Kate, 'Kate Roberts Saunders Lewis' yn *Crefft y Stori Fer,* gol. gan Saunders Lewis (Llandysul: Gwasg Gomer 1949), tt.9-21

Roberts, Kate, *Y Byw Sy'n Cysgu* (Dinbych: Gwasg Gee, 1956)

Roberts, Kate, *Te yn y Grug* (Dinbych: Gwasg Gee, 1959)

Roberts, Kate, *Y Lôn Wen* (Dinbych: Gwasg Gee, 1960)

Roberts, Kate, *Tywyll Heno* (Dinbych: Gwasg Gee,1962)

Roberts, Kate, *Hyd o Fyd* (Dinbych: Gwasg Gee, 1963)

Roberts, Kate, *Tegwch y Bore* (Dinbych: Gwasg Gee, 1967)

Roberts, Kate, *Prynu Dol* (Dinbych: Gwasg Gee, 1969)

Roberts, Kate, *Gobaith* (Dinbych: Gwasg Gee, 1972)

Roberts, Kate, *Yr Wylan Deg* (Dinbych: Gwasg Gee, 1976)

Roberts, Kate, *Haul a Drycin* (Dinbych: Gwasg Gee, 1981)

Roberts, Kate, *Tywyll Heno,* 3ydd Arg (Dinbych: Gwasg Gee, 1988)

Roberts, Kate a Valentine, Lewis, 'Rhwng Dau' yn *Erthyglau ac Ysgrifau Llenyddol Kate Roberts,* gol. gan David Jenkins (Abertawe: Gwasg Christopher Davies, 1978), tt.122-130

Rowlands, John, 'Tywyll Heno', *Barn* (1968)

Rowlands, John, 'Tywyll Heno' yn *Kate Roberts: Ei Meddwl a'i Gwaith,* gol. gan Rhydwen Williams (Llandybïe: Christopher Davies, 1983), tt.79-87

Williams, Rhydwen, gol, *Kate Roberts: Ei Meddwl a'i Gwaith* (Llandybïe: Christopher Davies, 1983)

**Gwefannau**

Glyn Jones, *Kate Roberts – Y Ffeminist. Adnabod Menywod yn well,* BBC Cymru: Llais Llên, < http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/awdur/kate-roberts-ffem.shtml> [cyrchwyd 30 Mai 2017]

## 1.5 <u>Tomos, Angharad</u>

**Llyfrau ac erthyglau**

Tomos, Angharad, *Wrth fy Nagrau i* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 2007)

Pritchard Jones, Harri yn *Cyfansoddiadau Eisteddfod Genedlaethol Sir y Fflint a'r Cyffiniau 2007*, gol gan. J. Elwyn Hughes (Llandysul: Llys yr Eisteddfod, 2007), tt.106-107

Williams, Debbie, 'Cysur i Glaf', *Barn* 551-552 (Rhagfyr 2007 / Ionawr 2008), 78-79

**Gwefannau**

Kate Crockett, *Wrth fy Nagrau i,* Gwales (2007), <http://www.gwales.com/bibliographic/?isbn=9781845271527&tsid=3> [cyrchwyd 08 Mai 2016]

John Gruffydd Jones, *Adolygiadau a Straeon: Wrth fy Nagrau i*, BBC Cymru, <http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/adolygiadau/744-dagrau.shtml> [cyrchwyd 08 Mai 2016]

## 2. <u>Llenyddiaeth ac awudron craidd Saesneg / Americanaidd</u>

### 2.1 <u>Kesey, Ken</u>

**Llyfrau ac erthyglau**

Barsness, John A., 'Ken Kesey: The Hero in Modern Dress', *Bulletin of the Rocky Mountain Language Association XXIII:* 1 (Mawrth 1969), 27-33

Berhaerts, Lars, 'Interactions in *Cuckoo's Nest:* Elements of a Narrative Speech-act Analysis', *Narrative,* 18.3 (Hydref 2010), 276-299

Bloom, Harold, *Bloom's Modern Critical Interpretations: Ken Kesey's One Flew Over the Cuckoo's Nest* (New York: Infobase Publishing, 2008)

Bryfonski, Dedria, *Mental Illness in Ken Kesey's One Flew Over the Cuckoo's Nest,* (Detroit: Greenhaven Press, 2010)

Chichester, Jennifer, '"The cracked pots of humanity": Post-World War II American Literary Perspectives on Psychiatric Treatment/Containment of Mental Disorders' (Traethawd MA, Grand Valley State University, 2017)

Christensen, Mark, *Acid Christ: Ken Kesey, LSD and the Politics of Ecstasy* (Tucson: Schaffner Press: 2010)

Coelen, George, 'The Insane Narrator in Contemporary American Fiction' (Traethawd MA, North State Texas University, 1978)

Darbyshire, Philip, 'Reclaiming Big Nurse: a feminist critique of Ken Kesey's portrayal of Nurse Ratched in *One Flew Over The Cuckoo's Nest*', *Nursing Inquiry,* 2.4 (Rhagfyr 1995), 198-202

Dempsy, D., 'Shrinks and the Shruken in Modern Fiction: The Psychotherapist as Villain', *The Antioch Review,* 46.4 (Hydref, 1988), 514-521

Dickens, Lauren Marie, 'Diving Further into the Counterculture: Ken Kesey On and Off the Bus in the 1960s' (Traethawd MA, Middle Tennessee State University, 2015)

Dodgson, Rick, *It's All a Kind of Magic – The Young Ken Kesey* (Wisconsin: Wisconsin University Press, 2013)

Domino, George, 'Impact of the film, "One Flew Over the Cuckoo's Nest," on attitudes towards mental illness', *Psychological Reports,* 51.1 (Awst 1983), 179-82

Dyck, Erika *Psychedelic Psychiatry: LSD from Clinic to Campus* (Maryland: John Hopkins University Press, 2008)

Faggen, Robert, 'Introduction' yn Ken Kesey, *One Flew Over The Cuckoo's Nest* (London: Penguin Classics, 2005), tt.ix-xxii

Herrenkohl, Ellen, '*One Flew Over The Cuckoo's Nest* Questions the Meaning of Sanity'yn *Mental Illness in Ken Kesey's One Flew Over the Cuckoo's Nest,* gol. gan Dedria Bryfonski (New York: Infobase Publishing, 2008), tt.107-113

Hicks, Jack, 'The Truth Even If It Didn't Happen' yn *Bloom's Modern Critical Interpretations: Ken Kesey's One Flew Over the Cuckoo's Nest,* gol. gan Harold Bloom (New York: Infobase Publishing, 2008), tt.67-80

Huffman, James. R, 'The Cuckoo Clocks in Kesey's Nest' yn *Bloom's Modern Critical Interpretations: Ken Kesey's One Flew Over the Cuckoo's Nest,* gol. gan Harold Bloom (New York: Infobase Publishing, 2008), tt.29-42

Jennings, Bruce, 'Institutional Power: *One Flew Over The Cuckoo's Nest',* yn *The Picture of Health: Medical Ethics and the Movies,* gol. gan. Henri Colt, Silvia Quadrelli a Lester Friedman (Oxford: Oxford University Press, 2011), tt.246-251

Kargar, Alireza, *The Disciplinary Power in Ken Kesey's One Flew Over The Cuckoo's Nest: In the Light of Michel Foucault's Theories of Power* (Morrisville: Lulu Press Ltd, 2017)

Kesey, Ken, *One Flew Over the Cuckoo's Nest* (New York: Viking Press & Signet Books, 1962)

Kesey, Ken, *One Flew Over The Cuckoo's Nest,* 6ed Arg (London: Penguin Classics, 2005)

Larson, Janet, 'Stories Sacred and Profane: Narrative in *One Flew Over the Cuckoo's Nest*' yn *Bloom's Modern Critical Interpretations: Ken Kesey's One Flew Over the Cuckoo's Nest,* gol. gan Harold Bloom (New York: Infobase Publishing, 2008), tt.89-106

Leach, Caroline, 'Disability and Gender in Ken Kesey's *One Flew Over the Cuckoo's Nest*', *Disability Studies Quarterly,* 28.4 (Hydref 2008), 17

Lupack, Barbara Tepa, 'The Insane are More Rational than the Insane' yn *Social Issues in Literature: Mental Illness in Ken Kesey's One Flew Over the Cuckoo's Nest,* gol. gan Dedria Bryfonski (New York: Infobase Publishing, 2008), tt.114-129

Madden, Fred, 'Sanity and Responsibility: Big Chief as Narrator and Executioner', *MFS Modern Fiction Studies,* 32.2 (Haf 1986), 203-217

Malin, Irving, 'Ken Kesey: One Flew Over The Cuckoo's Nest', *Critique* 5.2 (Hydref 1962), 81-84

Martin, Terence, 'The Patients in *Cuckoo Nest* Regain Their Manhood by Banding Together' yn *Bloom's Modern Critical Interpretations: Ken Kesey's One Flew Over*

*the Cuckoo's Nest,* gol. gan Harold Bloom (New York: Infobase Publishing, 2008), tt.75-85

Meloy, Michael, 'Fixing Men: Castration, Impotence, and Masculinity in Ken Kesey's One Flew Over The Cuckoo's Nest', *Journal of Men's Studies,* 17.1 (Gaeaf 2009), 3-14

Meloy, Michael, 'Kesey Critques a Society That Uses Fear and Conformity to Esmasculate Men' yn *Social Issues in Literature: Mental Illness in One Flew Over the Cuckoo's Nest,* gol. gan Dedria Bryfonski (Detroit: Greenhaven Press, 2010), tt. 154-165

Mráková, Kristýna, 'Conformity within Society as expressed in Ken Kesey's One Flew Over The Cuckoo's Nest' (Traethawd Israddedig, University of Pardubice, 2011)

Pearson, Carol, 'The Cowboy Saint and The Indian Poet: The Comic Hero in Ken Kesey's "One Flew Over The Cuckoo's Nest"', *Studies in American Humor,* 1.2 (Hydref 1974), 91-98

Perry, Paul a Babbs, Ken, *On the Bus: The Complete Guide to the Legendary Trip of Ken Kesey and the Merry Pranksters and the Birth of the Counterculture* (New York: Thunder's Mouth Press, 1990)

Rieger, Branimir M., 'The Class Flew Over the Cuckoo's Nest: A Theme Course on "Madness in Literature"' yn *Dionysus in Literature: Essays on Literary Madness,* gol. gan Branimir M. Rieger (Bowling Green: Bowling Green State University Popular Press, 1994), tt.221-230

Ryan, Barry, 'The Third Space in Ken Kesey's *One Flew Over The Cuckoo's Nest*', *Moderna Språk*', 105.2 (2011), 36-53

Stein, Howard F., 'The Cuckoo's Nest, the Banality of Evil and the Psychopath as Hero', *The Journal of American Culture,* 2.4 (Gaeaf 1980), 635-645

Sullivan, Ruth, '*Big Mama, Big Papa, and Little Sons in Ken Kesey's* One Flew Over the Cuckoo's Nest' yn *Bloom's Modern Critical Interpretations: Ken Kesey's One Flew Over the Cuckoo's Nest,* gol. gan Harold Bloom (New York: Infobase Publishing, 2008), tt.15-28

Sutherland, Janet. R, 'Kesey's Realistic View of the World of the Insane' yn *Social Issues in Literature: Mental Illness in One Flew Over the Cuckoo's Nest,* gol. gan Dedria Bryfonski (Detroit: Greenhaven Press, 2010), tt.57-63

Tanner, Stephen L., 'Salvation through Laughter: Ken Kesey and the Cuckoo's Nest', *Southwest Review,* 58.2 (Gwanwyn 1973), 125-137

Tanner, Stephen. L., ‘The Western American Context’yn *Bloom’s Modern Critical Interpretations: Ken Kesey’s One Flew Over the Cuckoo’s Nest,* gol. gan Harold Bloom (New York: Infobase Publishing, 2008), tt.161-186

Vitkus, Daniel J., ‘Madness and Misogyny in Ken Kesey’s One Flew Over The Cuckoo’s Nest’, *Journal of Camparative Poetics,* rhif 14 (1994), 64-90

Wàre, Elaine, ‘The Vanishing American: Identity Crisis in Ken Kesey’s “One Flew Over The Cuckoo’s Nest”’, *Melus,* 13.3 (Hydref 1986), 95-101

Waxler, Robert P., ‘The Mixed Heritage of the Chief: Revisiting the Problem of Manhood in *One Flew Over The Cuckoo’s Nest*’ yn *Bloom’s Modern Critical Interpretations: Ken Kesey’s One Flew Over the Cuckoo’s Nest,* gol. gan Harold Bloom (New York: Infobase Publishing, 2008), tt.151-160

Waxler, Robert, P., ‘Mixed Ethnicity and Gender Issues Present Challenges to Manhood’ yn *Social Issues in Literature: Mental Illness in One Flew Over the Cuckoo’s Nest,* gol. gan Dedria Bryfonski (Detroit: Greenhaven Press, 2010), tt.143-153

**Gwefannau**

The Telegraph a Jon Swaine, *How ‘One Flew Over The Cuckoo’s Nest’ changed psychiatry*, The Telegraph (01 Chwefror 2011), <https://www.telegraph.co.uk/news/worldnews/northamerica/usa/8296954/How-One-Flew-Over-the-Cuckoos-Nest-changed-psychiatry.html> [cyrchwyd ar-lein 09 Ebrill 2018]

## 2.2 Plath, Sylvia

**Llyfrau ac erthyglau**

Aird, Eileen M., *Sylvia Plath* (Edinburgh: Oliver & Boyd, 1973)

Allen, Sylvia Carol, ‘Sylvia Plath: A Study of Confessional Poetry’ (Traethawd MA, Texas University, El Paso, 1967)

Aube, Cory Michelle, ‘Through the Waves: Images of the Self in the Confessional Poetry of Sylvia Plath, Anne Sexton, Sharon Olds a Kim Addonizo’ (Traethawd MA, Emporia State University, 2010)

Baerevar, Elise, ‘Esther Greenwood’s Panopticon: Female Identity through Self-Policing in The Bell Jar by Sylvia Plath’ (Traethawd MA, Oslo University, 2007)

Baig, Mahrukh, ‘Sylvia Plath’s Bell Jar as A Psychological Space’, *US Open English & Literature Journal,* 1.1 (Rhagfyr 2013), 1-17

Bassnett, Susan, *Women Writers: Sylvia Plath* (Basingstoke: Macmillan, 1987)

Behrens, Susan. J., 'A Note on *The Bell Jar', Names* 61.4 (Rhagfyr 2013), 239-243

Bernard, Lauren Ashley, 'Taking on a Mourning her Mother Never Bothered With: Esther's Anguished Memory and her Resistance to a Domestic Life in Sylvia Plath's *The Bell Jar*', *Plath Profiles* 4 (2011), 291-299

Bloom, Harold, *Sylvia Plath* (Broomall: Chelsea House, 2001)

Bronfen, Elisabeth, *Sylvia Plath* (Plymouth: Northcote House, 1998)

Coyle, Susan, 'Images of Madness and Retrieval: An Exploration of Metaphor in *The Bell Jar*', *Studies in American* Fiction, 12.2 (Hydref 1984), 161-174

Evans, Mary, 'Extending Autobiography: A Discussion of Sylvia Plath's 'The Bell Jar' yn *Feminism and Autobiography: Texts, Theories, Methods,* gol. gan Tess Cosslett, Celia Lury a Penny Summerfield (London: Routledge, 2000), tt.76-88

Ferretter, Luke, '"Just Like the Sort of Drug a Man Would Invent"': *The Bell Jar* and The Feminist Critique of Women's Health Care', *Plath Profiles,* Cyf 1 (Haf 2008), 136-158

Ferretter, Luke, *Sylvia Plath's Fiction: A Critical Study* (Edinburgh: Edinburgh University Press, 2010)

Fisiak, Tomasz, 'Feminist Auto/Biography as a Means of Empowering Women: A Case Study of Sylvia Plath's 'The Bell Jar' and Janet Frame's 'Faces in Water', *Text Matters,* 1.1 (2011), 183-197

Gill, Jo, *The Cambridge Introduction to Sylvia Plath* (Cambridge: Cambridge University Press, 2008)

Harris, Mason, 'The Bell Jar' yn *Critical Essays on Sylvia Plath,* gol gan Linda W. Wagner (Boston: G.K Hall & Company, 1984), tt.34-38

Holbrook, David, *Sylvia Plath: Poetry and Existence* (London: Athlone Press, 1976)

Hunt, Daniel a Carter, Ronald, 'Seeing through *The Bell Jar*: Investigating Linguistic Patterns of Psychological Disorder', *Journal of Medical Humanities,* 33.1 (Mawrth 2012), 27-39

Jost, Jamie, '"Panic" Over Puddle Jumping in Plath's "Mothers"', *Plath Profiles,* 5 (2012), 149-155

Jung, Li, 'A Freudian Psychoanalytic Interpretation of Sylvia Plath and Her Bell Jar' (Traethawd MA, Shanxi University, 2010)

Kriel, Johanet Alic, ‘Imagining the Mad Woman: Applying Concepts of the Narrative Imagination, Psychoanalytic and Feminist Theory to The Bell Jar and Selected Poems by Sylvia Plath’ (Traethawd MA, Free State University, 2011)

Lugo, Andru, ‘The Female Predicament in *The Bell Jar* and *St. Mawr*’, *Plath Profiles,* 3 (Mehefin, 2010), 144-165

MacPherson, Pat, *Reflecting on The Bell Jar* (London: Routledge, 1991)

Maple, Jeni, ‘Sylvia Plath’s The Bell Jar as Disability Narrative’ (Traethawd MA, Oklahoma University, Rhagfyr 2009)

Markey, Janice, *A Journey into the Red Eye: The Poetry of Sylvia Plath; A Critique* (London: The Women’s Press, 1993)

Martin, Wendy, ‘“God’s Lioness” – Sylvia Plath, Her Prose and her Poetry’, *Women’s Studies,* cyf 1 (1973), 191-198

Mozumder, Subrata Chanda, ‘Love, Sex and the Body in *The Bell Jar* and *My Body*: A Feminist Reading’, *Crossings*, 8 (2017), 136-143

Pelt, April, ‘Esther’s Satorial Selves: Fashioning a Feminine Ideal in *The Bell Jar*’, *Plath Profiles*, 8 (2015), 13-23

Plath, Sylvia, *The Bell Jar* (London: William Heinemann Ltd, 1963)

Plath, Sylvia, *The Bell Jar* (London: Faber and Faber Limited, 1966)

Plath, Sylvia a Kukil, Karen V., (gol), *The Unabridged Journals of Sylvia Plath* (New York: Anchor Books, 2000)

Smith, Martin, ‘Metaphors for Mental Distress as an Aid to Empathy: Looking through The Bell Jar.’, *Journal of Social Work Practice* 26.3 (2012), 355-66

Tsank, Stephanie, ‘*The Bell Jar: A Psychological Case Study*’, Plath Profiles, 3 (2010), 166-177

Uroff, M.D., ‘Sylvia Plath and Confessional Poetry: A Reconsideration’, *Iowa Review,* 8.1 (1977), 104 - 115

Wagner, Linda W, ‘Introduction’ yn *Critical Essays on Sylvia Plath,* gol gan Linda W. Wagner (Boston: G.K Hall & Company, 1984), tt.1-19

Wagner, Linda W., ‘Plath’s *The Bell Jar* as Female ‘Bildungsroman’, *Women’s Studies: An Interdisciplinary Journal,* cyf 12 (1986), 55-68

Wagner-Martin, Linda, *Sylvia Plath: A Biography* (London: Chatto & Windus, 1988)

Wagner-Martin, Linda, *Sylvia Plath: The Critical Heritage* (London: Routledge, 1988)

Wagner-Martin, Linda, *The Bell Jar: A Novel of the Fifties* (New York: Twayne, 1992)

Wagner- Martin, Linda, *Sylvia Plath: A Literary Life* (Basingstoke: Macmillan, 1999)

Whither, Gayle, 'The Divided Woman and Generic Doubleness in *The Bell Jar*', *Women's Studies: An Inter-disciplinary Journal*, 3.2 (1976), 127-146

Yasoni, Summer, 'Forget the Dreamer and Remember the Dream: A Study of Sylvia Plath's Fiction' (Traethawd Israddedig, Linfield College, Mai 2014)

**Gwefannau**

Schuster, Rebecca, *Madness and The Absent Father: Analysis of Esther's Mental Illness in 'The Bell Jar'*, Grin (Nodiadau Seminar, 2005), tt.10-12 <https://www.grin.com/document/53182> [cyrchwyd ar-lein 20 Rhagfyr 17]

Steinberg, Peter. K, *Biography* (2007), <http://www.sylviaplath.info/biography.html> [cyrchwyd 28 Tachwedd 2016]

The Partner Library, *The Truth of the Mad Woman: An In-depth Biographical Analysis of Sylvia Plath and Virginia Woolf*, University of Massachusetts Lowell Library, <http://libguides.uml.edu/c.php?g=652447&p=4577229> [cyrchwyd 27 Mai 2017]

Tîm Golygyddol Shmoop, *The Bell Jar: Class and Society*, Shmoop (Tachwedd 2008), <https://www.shmoop.com/bell-jar/society-class-quotes-2.html> [cyrchwyd 01 Chwefror 2018]

## 3. <u>Gweithiau beirniadol a dadansoddol Saesneg eu hiaith sy'n ymwneud ag astudiaethau seiciatryddol neu hanesyddol</u>

### Llyfrau ac erthyglau


Abel, Dorothy Lois, *Making Housekeeping Easy* (New York: Funk and Wagnalls, 1948)

Ahmedani, Brian K., 'Mental Health Stigma: Society, Individuals, and the Profession', *J Soc Work Values Ethics*, 8.2 (2011), 4-16

Aldgate, Anthony (gol), *Windows on the Sixties. Exploring Key-texts of Media and Culture* (London: Tauris Publishers, 2000)

Barnes, Marian, a Maple, Norma, *Women and Mental Health: Challenging the Stereotypes* (Birmingham: Venture Press, 1992)

Baxandall, Rosalyn a Gordon, Linda, 'Second-Wave Feminism' yn *A Companion to American Women's History*, gol. gan Nancy A. Hewitt (Oxford: Blackwell Publishing Ltd, 2002), tt.414-432

Becker, Howard, S., *Outsiders: Studies in the Sociology of Deviance* (New York: The Free Press of Glencoe, 1963)

Benning, Tony. B., 'No Such Thing as Mental Illness? Critical Reflections on the Major Ideas and Legacy of Thomas Szasz', *BJPsych Bulletin*, 40.6 (Rhagfyr 2016), 292-295

Borovčki-Jakovljev, Sanja a Matačić, Stanislav 'The Oedipus Complex in the Contemporary Psychoanalysis', *Collegium Antropologicum*, 29.1 (2005), 351-360

Bowers, Len, *The Social Nature of Mental Illness* (London: Routledge, 1998)

Boyars, Robert (gol), *R. D. Laing & Anti-psychiatry* (New York: Octagon Books, 1974)

Bracken, Pat, a Thomas, Philip, 'From Szasz to Foucault: On the Role of Critical Psychiatry. Philosophy', *Psychiatry, & Psychology*, 17.3 (Medi 2010), 219-228

Breeding, John, 'Practising Szasz: A Psychologists report on Thomas Szasz's Influence on his Work', *SAGE Open*, 4.4 (Rhagfyr 2014), 1-12

Brown, David, *Discipleship and Imagination: Christian Tradition and Truth* (Oxford: Oxford University Press, 2000)

Bryant, John Hope, *How the Poor Can Save Capitalism: Rebuilding the Path to the Middle Class* (San Francisco: Berrett-Koehler Publishers, 2014)

Burston, Daniel, *The Wing of Madness: The Life and Work of R. D. Laing* (Cambridge: Harvard University Press, 1996)

Busfield, Joan, *Men, Women, and Madness: Understanding Gender and Mental Disorder* (Basingstoke: Macmillan, 1996)

Butėnaitė, Joana, Sondaitė, Jolanta a  Mockus, Antanas, 'Components of Existential Crisis: A Theoretical Analysis', *International Journal of Psychology: A Biopsychosocial Approach,* 18 (2016), 9-27

Casement, Patrick, *Further Learning from the Patient: The Analytic Space and Process* (London: Routledge, 1990)

Castledine, Jacqueline, *Cold War Progressives: Women's Interracial Organizing for Peace and Freedom* (Urbana: Illinois University Press, 2012)

Chesler, Phyllis, *Women and Madness* (New York: DoubleDay, 1972)

Chesler, Phyllis, *Women and Madness,* argraffiad 25 mlwyddiant (New York: Four Walls Eight Windows, 1997)

Connell, R.W., 'An Iron Man: The Body and Some Contradictions of Hegemonic Masculinity' yn *Sociological Perspectives in Sport: The Games Outside the Games,* gol. gan David Karen a Robert E. Washington (New York: Routledge, 2015), tt. 141-149

Connell, R.W., a James W. Messerschmidt, 'Hegemonic Masculinity: Rethinking the Concept', *Gender & Society,* 19.6 (2005), 829-859

Cook, Hera, *The Long Sexual Revolution: English Women, Sex, and Contraception 1800-1975* (Oxford: Oxford University Press, 2004)

Cooper, David, *Psychiatry and Anti-Psychiatry* (London: Tavistock Publications, 1967)

Cooper, David, E., *Existentialism: A Reconstruction* (Oxford: Blackwell, 1990)

Cooper, David, E.,  *Existentialism: A Reconstruction,* ail arg (Oxford: Blackwell, 1999)

Corrigan, Patrick W., a Miller, Frederick E., 'Shame, Blame, and Contamination: A Review of the Impact of Mental Illness Stigma on Family Members', *Journal of Mental Health,* 13.6 (Gorffennaf 2004), 537-548

Corrigan, Patrick W., a Watson, Amy C.,  'Understanding the Impact of Stigma on People with Mental Illness', *World Psychiatry,* 1.1 (Chwefror 2002), 16-20

Dalai Lama XIV, *Ethics for the New Millennium* (New York: Llyfrau Riverhead, 1999)

Davis, Angela, *Women, Class and Race* (London: Women's Press, 1982)

De Beauvoir, Simone, *The Second Sex* (New York: Knopf, 1953). Cyhoeddwyd yn wreiddiol (Paris: Gallimard, 1949)

Dewall, C. Nathan a Bushman, Brad J., 'Social Acceptance and Rejection: The Sweet and the Bitter', *Association for Psychological Science*, 20.4 (Awst 2011), 256-260

Doggett, Peter, *There's a Riot going on! Revolutionaries, Rock Stars and the Rise and Fall of '60s Counterculture* (Edinburgh: Canongate, 2007)

Ehrenreich, John, *The Cultural Crisis of Modern Medicine* (New York and London: Monthly Review Press, 1978)

Erikson, Kai T., 'Notes on the Sociology of Deviance', yn *Mental Illness and Social Processes*, gol. gan Thomas J. Scheff (New York: Harper & Row, 1967), tt.294-304

Evans, Judith, *Feminist Theory Today: An Introduction To Second-Wave Feminism* (London: SAGE Publications, 1995)

Evans, Mary, *The Persistance of Gender Inequality* (Cambridge: Polity Press, 2017)

Flemming, Jackie, *The Trouble With Women* (London: Square Peg, 2016)

Flynn, Thomas, *Existentialism: A Very Short Introduction* (Oxford: Oxford University Press, 2006)

Foot, John, *The Man Who Closed the Asylums: Franco Basagli and the Revolution in Mental Health Care* (New York: Verso Books, 2015)

Foucault, Michel, *Folie et Déraison: Histoire de la Folie à L'âge Classique* (Paris: Librarie Plon, 1961)

Foucault, Michel a Howard, Richard, *Madness and Civilization: A History of Insanity in the Age of Reason* (New York: Pantheon Books, 1964)

Foucault, Michel a Howard, Richard, *Madness and Civilization: A History of Insanity in the Age of Reason* (New York: Random House, 1988)

Foucault, Michel, Murphy, Jonathan a Khalfa, Jean, *History of Madness* (New York: Routledge, 2006)

Franzese, Robert J., *The Sociology of Deviance: Differences, Tradition and Stigma* (Springfield: Charles C. Thomas Publisher Ltd, 2009)

Freeman, Daniel a Freeman, Jason, *The Stressed Sex: Uncovering the Truth about Men, Women and Mental Health* (Oxford: Oxford University Press, 2013)

Freud, Sigmund, *Die Traumdeutung* (Fienna: Franz Deuticke, 1899)

Freud, Sigmund, & Brill, A.A., *The Interpretation of Dreams* (New York: The Macmillan Company, 1910)

Freud, Sigmund, *Beyond The Pleasure Principle* (London: International Psychoanalytical Press, 1922)

Freud, Sigmund, *The Ego and The Id* (London: Hogarth Press and the Institute of Psycho-analysis, 1927)

Freud,Sigmund, *The Ego and the Id* (London: Standard Edition, 1961)

Freud, Sigmund, *On Sexuality: Three Essays on the Theory of Sexuality and Other Work,* gol. gan Angela Richards (Middlesex: Penguin Books, 1977)

Friedan, Betty, *The Feminine Mystique* (London: Victor Gollancz Ltd, 1963)

Friedan, Betty, *The Feminine Mystique* (London: Penguin Classics, 2010)

Frith, Christopher D., *Schizophrenia: a very short introduction* (Oxford: Oxford University Press, 2003)

Fromm, Erich, *Escape to Freedom* (New York: Routledge, 1991) Cyhoeddwyd yn wreiddiol (New York: Farrar & Rinehart, 1941).

Fromm, Erich, *The Influence of Social Factors in Child Development* (1958), Deunydd Darlith, <https://www.marxists.org/archive/fromm/works/1958/social.htm> [cyrchwyd ar-lein 18 Ionawr 2018]

Gair, Christopher, *The American Counterculture* (Edinburgh: Edinburgh University Press, 2007)

Gerschick, Thomas J., a Miller, Adam, S., 'Gender Identities at the Crossroads of Masculinity and Physical Disability', yn *Toward a New Psychology of Gender,* gol gan. Mary Gergan a Sara N. Davies (London: Routledge, 1997), tt.455-475

Gilbert, Paul, 'The Relationship of Shame, Society Anxiety and Depression: The Role of The Evaluation of Social Rank', *Clinical Psychology & Psychotherapy,* 7.3 (Gorffennaf 2000), 174-189

Glauber, Cynthia, 'Review of Women and Madness', *The Boston Phoenix* (12 Rhagfyr 1972)

Goffman, Erving, *Asylums: Essays on the Social Situation of Mental Patients and Other Inmates* (New York: Random House, 1961)

Goffman, Erving, *Stigma: Notes on the Management of Spoiled Identity* (London: Penguin, 1963)

Goffman, Ken, & Joy, Dan, *Counterculture through the Ages: From Abraham to Acid House* (New York: Villard, 2004)

Goldstein, Abaraham S., a Goldstein, Joseph (gol), *Crime, Law, and Society: Readings Selected by Abraham S. Goldstein and Joseph Goldstein* (New York: Macmillan Publishing, 1971)

Good Housekeeping, *Good Housekeeping: The Best of the 1950s* (New York: Good Housekeeping, 2008)

Gravil, Richard, *Existentialism: Philosophy Insights* (Tirril: Humanities Ebooks, 2007)

Green, Jonathon, *All Dressed Up: The Sixties and the Counterculture* (London: Jonathan Cape, 1998)

Gregory, Raymond, F., *The Civil Rights Act and the Battle to end Workplace Discrimination: A 50 Year History* (London: Rowman & Littlefield, 2014)

Harari, Yuval Noah, *Sapiens: A Brief History of Humankind* (London: Vintage Books, 2011)

Hardy, Sheila, *A 1950's Housewife: Marriage and Homemaking in the 1950s* (Stroud: The History Press, 2013)

Healey, Tim, *Picture History of the 20th Century: The 1960s* (London: Franklin Watts, 2004)

Hekma, Gert a Giami, Alain (gol), *Sexual Revolutions* (Basingstoke: Palgrave Macmillan, 2014)

Hollingshead August B. a Redlich, F. C., *Social Class and Mental Illness: A Community Study* (New York: John Wiley, 1958)

Huber, Joan, *On the Origins of Gender Inequality* (Colorado: Paradigm Publishers, 2007)

Huq, Rupa, *Making Sense of Suburbia through Popular Culture* (London: Bloomsbury Academic, 2013)

Hurst, Charles. E, *Social Inequality: forms, causes and consequences,* (London: Allyn and Bacon, 2004)

Hwang, Jena, D. a Hollingshead, Kirsty, 'Crazy Mad Nutters: The Language of Mental Health', *Proceedings of the Third Workshop on Computational Linguistics and Clinical Psychology*, (Mehefin 2016), tt. 52-62

Inglehart, Ronald & Norris, Pippa, *Rising Tide: Gender Equality and Culture Change Around the World* (Cambridge: Cambridge University Press, 2003)

Jeffreys, Sheila, *Anticlimax: A Feminist Perspective on the Sexual Revolution* (London: The Women's Press Ltd, 1990)

Joint Commision on Mental Illness and Health, *Action for Mental Health* (New York: Science Editions, 1961)

Jones, Ernest, *The Life and Work of Sigmund Freud 1856-1900: The Formative Years and The Great Discoveries* (London: Hogarth Press, 1953-1957)

Karl, Frederick, R., *American Fiction 1940-1980* (New York: Harper & Row, 1983)

Kathryn Anna Patterson, 'How Class Background Influences Negative Countertransference in Outreach Therapy' (Traethawd Doethuriaeth, Antioch University, 2013)

Keltner, Dacher, *The Power Pardox. How We Gain and Lose Influence* (London: Allen Lane, 2016)

Klatch Rebecca, E., *A Generation Divided: The New Left, The New Right, And The 1960s* (California: California University Press, 1999)

Kotowicz, Zibigniew, *R.D. Laing and the Paths of Anti-psychiatry* (London: Routledge, 1997)

Laing, R.D., *The Divided Self: An Existential Study in Sanity and Madness* (London: Tavistock Publications, 1960)

Laing, R. D., *Self and Others* (New York: Pantheon Books, 1961)

Laing, R. D., *Sanity, Madness and the Family* (London: Tavistock, 1964)

Laing, R.D., *The Politics of Experience and The Bird of Paradise* (Harmondsworth: Penguin, 1967)

Laing, R. D., *The Divided Self: An Existential Study in Sanity and Madness,* ail arg (New York: Penguin Random House, 1965)

Laing, R.D., *The Politics of the Family and Other Essays* (London: Tavistock Publications, 1971)

Leary, Timothy, 'Foreword' yn Ken Goffman a Dan Joy, *Counterculture through the Ages: From Abraham to Acid House* (New York: Villar, 2004), tt.ix-xi

Lemert, E.M., *Social Pathology: A Systematic Approach to the Theory or Sociopathic Behaviour* (New York: McGraw-Hill Book Company Inc, 1951)

Lemert, E.M., *Human Deviance, Social Problems and Social Control* (New Jersey: Prentice Hall, 1967)

Leon, David A., a Walt, Gillian, *Poverty, Inequality, and Health: An International Perspective* (Oxford: Oxford University Press, 2001)

Levin, Matthew, *Cold War University: Madison and the New Left in the Sixties* (Wisconsin: Wisconsin University Press, 2013)

Little, Julianna, '"Frailty, thy name is woman": Depictions of Feminine Madness' (Traethawd MA, Virginia Commonwealth University, 2015)

Lombroso, Cesare, *The Man of Genius* (London: Walter Scott, 1891)

Lötter, H.P.P., *Poverty, Ethics and Justice* (Cardiff: University Wales Press, 2011)

Malla, Ashok, Joober, Ridha a Garcia, Amparo, '"Mental illness is like any other medical illness": a critical examination of the statement and its impact on patient care and society', *Journal of Psychiatry & Neuroscience,* 40.3 (Mai 2015), 147-150

Manning, Phillip, *Erving Goffman and Modern Sociology* (Cambridge: Polity, 1992)

Marx, Karl, *Das Kapital. Kritik dêr Politischen Oekonomie (Capital. Critique of Political Economy)* (Hamburg: Otto Meissner (Verleger), 1867)

Marx, Karl, a Engels, Friedrich, *The Communist Manifesto* (London: Penguin Classics, 2015)

McCrae, Niall, *The Moon and Madness* (Exeter: Imprint Academic, 2011)

Mechanic, David, 'Some Factors in Identifying and Defining Mental Illness' yn *Mental Illness and Social Processes,* gol. gan Thomas J. Scheff (New York: Harper & Row, 1967), tt.23-32

Micale, Mark, *Discovering the History of Psychiatry* (Oxford: Oxford University Press, 1994)

Misiroglu, Gina, *American Countercultures: An Encyclopedia of Nonconformists, Alternative Lifestyles, and Radical Ideas in U.S History* (London: Routledge, 2008)

Moore-Gilbert, Bart a Seed, John (gol), *Cultural Revolution? The Challenge of the Arts in the 1960s* (London: Routledge, 1992)

Nasser, Mervat, 'The Rise and Fall of Anti-psychiatry', *Psychiatric Bulletin*, 19 (1995), 743-746

Nicholson, Linda, 'The Myth of the Traditional Family' yn *Feminism and Families,* gol. gan Hilde Lindermann Nelson (New York: Routledge, 1997), tt.27-42

Nicholson, Virginia, *Perfect Wives in Ideal Homes: The Story of Women in the 1950s* (New York, Gwasg Viking, 2015)

O'Neill, Onora, *Faces of Hunger: An Essay on Poverty, Justice and Development* (London: Allen & Unwin, 1986)

Phillips, Adam, *Going Sane* (London: Penguin, 2006)

Phillips, Derek L., ‘Rejection: A Possible Consequence of Seeking Help for Mental Disorders’, yn Thomas J. Scheff (gol), *Mental Illness and Social Processes* (New York: Harper & Row, 1967), tt.63-77

Pietikainen, Petteri, *Madness: A History* (Abingdon: Routledge, 2015)

Pilgrim, David, *Key Concepts in Mental Health*, 3ydd arg (Los Angeles: SAGE, 2014)

Poole, Rob, Higgo, Robert a Robinson, Catherine A., *Mental Health and Poverty* (Cambridge: Cambridge University Press, 2014)

Porter, Roy, *Madness: A Brief History* (Oxford: Oxford University Press, 2002)

Porter, Roy, *Madmen. A Social History of Madhouses, Mad Doctors and Lunatics* (Stroud: Tempus, 2006)

Powers, Roy, *No One Cares About Crazy People: The Chaos and Heartbreak of Mental Health in America* (London: Hachette Books, 2017)

Price, Matthew E., *Rethinking Asylum: History, Purpose and Limits* (Cambridge: Cambridge University Press, 2009)

Prilleltrensky, Issac, ‘The Role of Power in Wellness, Oppression, and Liberation: The Promise of Psychopolitical Validity’, *Journal of Community Psychology*, 36.2 (Mawrth 2008), 116-136

Rich, Adrienne, *Of Woman Born: Motherhood as Experience and Institution* (London: Virago, 1976)

Rieff, Phillip, *The Triumph of the Therapeutic: Uses of Faith After Freud* (London: Chatto & Windus, 1966)

Reynolds, Jack, *Understanding Existentialism* (Chesham: Acumen, 2006)

Robbins, Krista, ‘Social Cognitive Shame Theory: Understanding Shame and Society’ (Traethawd Doethuriaeth, Nebraska University, Mehefin 2018)

Rogers, Anne a Pligrim, David, *A Sociology of Mental Health and Illness*, 4ydd Arg (London, Open University Press, 2010)

Rosak, Theodore, *The Making of a Counterculture: Reflections on the Technocratic Society and Its Youthful Opposition* (London: Faber and Faber Ltd, 1970)

Rosen, Ruth, *The World Split Open: How the Modern Women’s Movement Changed America* (New York: Viking, 2000)

Rosenhan, D. L., ‘On Being Sane in Insane Places’, *Science*, 19 (Ionawr 1973), 250-258

Salvatore, Maddie, R., ‘On Women- II: The Couch as Rack (a review of Phyllis Chesler’s *Women and Madness*)’, *The Saturday Review,* 52 (23 Rhagfyr 1972), 61-62

Sartre, Jean- Paul a Mairet, Philip (cyfieithydd), *Existentialism is a Humanism* (London: Methuen, 1948)

Scheff, Thomas, J., *Being Mentally Ill: A Sociological Theory* (Chicago: Aldine Publishing Company, 1966)

Scheff, Thomas, J., *Mental Illness and Social Processes* (New York: Harper & Row, 1967)

Scull Andrew, *Madness in Civilisation* (London: Thames & Hudson Ltd, 2005)

Scull, Andrew, *Madness: A Very Short Introduction* (Oxford: Oxford University Press, 2011)

Shorter, Edward, *A History of Psychiatry: From the Era of the Asylum to the Age of Prozac* (New York: John Wiley & Sons, Inc, 1997)

Showalter, Elaine, *The Female Malady: Women, Madness and English Culture 1830-1980* (London: Virago, 1987)

Solomon, Robert, *Existentialism,* ail argraffiad (Oxford: Oxford University Press, 2004)

Sprengnether, Madelon, *The Spectral Mother: Freud, Feminism and Psychoanalysis* (New York: Cornell University Press,1990)

Strachey, James, ‘Editor’s Introduction’ yn *The Interpretation of Dreams: Sigmund* Freud’, gol. gan James Strachey (London: George Allen & Unwin Ltd, 1971), tt.xi-xxii

Strachey, James & Freud, Sigmund, *The Interpretation of Dreams* (London: George Allen & Unwin Ltd, 1971)

Szasz, Thomas, ‘The Myth of Mental Illness’, *American Psychologist,* 15 (Chwefror 1960), 113-118

Szasz, Thomas Stephen, *The Myth of Mental Illness: Foundations of a Theory of Personal Conduct* (New York: Hoeber-Harper, 1961)

Szasz, Thomas, *The Myth of Mental Illness* (New York: Harper & Row, 1974)

Szasz, Thomas, *The Myth of Mental Illness: Foundations of a Theory of Personal Conduct,* argraffiad diwydiedig (New York: Harper Perennial, 2010)

Szasz, Thomas, *Ideology and Insanity: Essays on the Psychiatric Dehumanization of Man* (London: Boyars, 1983)

Tanner, Tony, *City of Words: American Fiction 1950-1970* (London: Cape, 1971)

Tasman, Allan a Fink, Paul Jay (gol), *Stigma and Mental Illness* (Washington: American Psychiatric Press, 1992)

Thane Pat ac Evans, Tanya, *Sinners? Scroungers? Saints?: Unmarried Motherhood in Twentieth-Century England* (Oxford: Oxford University Press, 2013)

Thurschwell, Pamela, *Sigmund Freud* (London: Routledge, 2009)

Trott, Alison, 'Social Class and the Therapeutic Relationship: The Client's Perspective: To What Extent Do Percieved Differences in Social Class Between Client and Therapist Impact upon the Therapeutic Relationship?' (Traethawd MA, Chester University, 2016)

Umberson, Debra a Montez, Jennifer Karas, 'Social Relationships and Health: A Flashpoint for Health Policy', *Journal of Health and Social Behaviour,* 51 (2010), 54-66

Ussher, Jane, *Women's Madness. Misogyny or Mental Illness?* (Hertfordshire: Harvester Wheatsheaf, 1991)

Vaillant, George E., *The Wisdom of the Ego* (Massachusetts: Harvard University Press, 1993)

Walters, Margaret, *Feminism: A Very Short Introduction* (Oxford: Oxford University Press, 2005)

Warwick-Booth, Louise, *Social Inequality,* (London: SAGE Publications, 2019)

Wolpert, Lewis, *Why Can't a Woman Be More Like a Man? The Evolution of Sex and Gender* (London: Faber & Faber, 2014)

**Gwefannau**

American Psychological Association, *Study Finds Sex Differences in Mental Illness*, APA (Awst 2011), < http://www.apa.org/news/press/releases/2011/08/mental-illness.aspx> [cyrchwyd 27 Tachwedd 2017]

Atkinson, Elizabeth a gov.uk, *A Modern Epidemic: Mental Health and Under 25s*, Gov.uk (12 Mawrth 2018), <https://openinnovation.blog.gov.uk/2018/03/12/a-modern-epidemic-mental-health-and-under-25s/> [cyrchwyd 03 Ionawr 2019]

BBC News, *Is Young People's Mental Health Getting Worse?* (Chwefror 2019), <https://www.bbc.co.uk/news/health-47133338> [cyrchwyd 05 Mawrth 2019]

Castelow, Ellen, *The 1950's Housewife*, Historic UK, < http://www.historic-uk.com/CultureUK/The-1950s-Housewife/> [cyrchwyd 11 Hydref 2017]

Changing Minds, *Oedipus Complex*, Changing Minds, <http://changingminds.org/disciplines/psychoanalysis/concepts/oedipus_complex.htm> [cyrchwyd 02 Tachwedd 2017]

Cummins, Denise, *Are Male and Females Equally Emotional? The Sexes Experience Emotions The Same But Process Them Differently*, Psychology Today (23 Mehefin 2014), < https://www.psychologytoday.com/gb/blog/good-thinking/201406/are-males-and-females-equally-emotional> [cyrchwyd 18 Mehefin 2018]

Diane Dreher a Psychology Today, *The Alarming Rise in Teen Mental Illness*, Psychology Today (24 Ionawr 2018), <https://www.psychologytoday.com/intl/blog/your-personal-renaissance/201801/the-alarming-rise-in-teen-mental-illness> [cyrchwyd 11 Awst 2018]

Duckett, Jack *Navigating Feminism in 2018* (10 Ionawr 2018), <http://www.mintel.com/blog/consumer-market-news/navigating-feminism-in-2018> [cyrchwyd 14 Mehefin 2018]

Hancock, Matt a gov.uk, *Government Commits to Reform Mental Health Act*, Gov.uk (Rhagfyr 2018), <https://www.gov.uk/government/news/government-commits-to-reform-the-mental-health-act> [cyrchwyd 22 Ionawr 2019]

History.com, *History of MK-ULTRA* (2017), <https://www.history.com/topics/history-of-mk-ultra> [cyrchwyd 23 Ebrill 2018]

Khan, Shehab & Independent, *Gap Between Rich and Poor Growing with Under 35s Worst Hit, Report Reveals*, The Independant (15 Gorffennaf 2017), <https://www.independent.co.uk/news/uk/home-news/inequality-income-disparity-richest-1-under-35s-resolution-foundation-a7842351.html> [cyrchwyd 11 Awst 2018]

Maslin, Janet, *Looking back at a Domestic Cri de Coeur*, The New York Times (18 Chwefror 2013), <https://www.nytimes.com/2013/02/19/books/betty-friedans-feminine-mystique-50-years-later.html> [cyrchwyd 16 Mai 2017]

McLeod, Saul, *Id, Ego and Superego*, Simply Psychology (Cyhoeddwyd 2007 a Diweddarwyd 2016), <https://www.simplypsychology.org/psyche.html> [cyrchwyd 14 Tachwedd 2017]

McLeod, Saul, *Psychosexual Stages*, Simply Psychology (2008), <https://www.simplypsychology.org/psychosexual.html> [cyrchwyd 14 Tachwedd 2017]

Menard, Louis, *Books as Bombs: Why the Feminist Movement needed "The Feminine Mystique"*, The New Yorker (24 Ionawr 2011) <https://www.newyorker.com/magazine/2011/01/24/books-as-bombs> [cyrchwyd 16 Mai 2017]

Mental Health Foundation, *Relationships in the 21st Century: The Forgotten Foundation of Mental Health and Wellbeing* (Mai 2016), <https://www.mentalhealth.org.uk/sites/default/files/Relationships-in-21st-century-forgotten-foundation-mental-health-wellbeing-full-may-2016.pdf> [cyrchwyd 29 Gorffennaf 2018]

Kylie McFatridge, *Sigmund Freud (1856-1939)*, Psychological History of Women, <http://psychistofwomen.umwblogs.org/sexuality/pre-kinsey/freud/> [cyrchwyd 14 Tachwedd 2017]

Mental Health Foundation, *Stigma and Discrimination*, <https://www.mentalhealth.org.uk/a-to-z/s/stigma-and-discrimination> [cyrchwyd 05 Ebrill 2018]

Mental Health Foundation, '*Women and Mental Health'* (2016), <https://www.mentalhealth.org.uk/a-to-z/w/women-and-mental-health> [cyrchwyd 01 Mai 2016]

Pastor Gabriella, Mageland, Chelsea, a Findley, Sarah, *The Sexual Revolution*, History of Sexuality Blog, <http://historyofsexuality.umwblogs.org/mid-to-late-20th-century/the-sexual-revolution/# > [cyrchwyd 10 Chwefror 2017]

Pilger, Zoe, *The Second Sex by Simone De Beauvoir; book of a lifetime*, Independent (24 Ionawr 2014), <https://www.independent.co.uk/arts-entertainment/books/reviews/the-second-sex-by-simone-de-beauvoir-book-of-a-lifetime-9080851.html> [cyrchwyd 14 Mai 2017]

Qualls, Sara Honn, *What Social Relationships Can do for Health*, American Society on Aging (3 Mehefin 2014), <http://www.asaging.org/blog/what-social-relationships-can-do-health> [cyrchwyd 30 Gorffennaf 2018]

Romm, Cari, *From "Madness" to "Illness": The Changing Vocabulary of Mental Illness*, The Atlanic, (2015), <https://www.theatlantic.com/health/archive/2015/10/mental-health-words/412630/> [cyrchwynd 23 Chwefror 2020]

Royal College of Psychiatrists Social Inclusion Scoping Group, *Mental Health and Social Inclusion: Making Psychiatry and Mental Health Services Fit for the 21st Century* (2009), t.2 <https://www.rcpsych.ac.uk/pdf/social%20inclusion%20position%20statement09.pdf> [cyrchwyd ar-lein 18 Ionawr 2018]

Stanley, Tasha a History Cooperative, *A Beautiful Mind: The History of the Treatment of Mental Illness*, History Cooperative, <http://historycooperative.org/a-beautiful-mind-the-history-of-the-treatment-of-mental-illness/> [cyrchwyd 07 Ebrill 2018]

Skye, James Edgar, *Will the Mental Health Stigma Ever End?* The Bipolar Writer (24 Mawrth 2018), <https://jamesedgarskye.com/2018/03/24/will-the-mental-illness-stigma-end/> [cyrchwyd ar-lein 10 Ebrill 2018]

The New York Times, *How Freud Shaped the 20th Century Mind* (26 Tachwedd 1989), <https://www.nytimes.com/1989/11/26/weekinreview/ideas-and-trends-how-freud-shaped-the-20th-century-mind.html> [cyrchwyd 11 Mehefin 2018]

Thurman, Judith, *Introduction to Simone De Beauvoir's The Second Sex,* The New York Times (27 Mai 2010), <https://www.nytimes.com/2010/05/30/books/excerpt-introduction-second-sex.html> [cyrchwyd 14 Mai 2016]

TIME Magazine, *The Sexes: Women on the Couch*, 101.4 (22 Ionawr 1973), <http://content.time.com/time/magazine/0,9263,7601730122,00.html> [cyrchwyd 13 Mehefin 2017]

Time to Change, *Latest Survey Shows Public are Less Likely to Discriminate Against People with Mental Health Problems* (15 Gorffennaf 2015), <https://www.time-to-change.org.uk/news/latest-survey-shows-public-are-less-likely-discriminate-against-people-mental-health-problems> [cyrchwyd 26 Gorffennaf 2018]

Walsh, Kenneth T., *The 1960s: A Decade of Promise and Heartbreak*, US News (9 Mawrth 2010), <https://www.usnews.com/news/articles/2010/03/09/the-1960s-a-decade-of-promise-and-heartbreak> [cyrchwyd 16 Mai 2017]

Wehrenberg Psy.D, Margaret, *Shame and Depression.Fighting the Gravitational Pull of Depression*, Psychology Today (2015), <https://www.psychologytoday.com/blog/depression-management-techniques/201507/shame-and-depression> [cyrchwyd 17 Hydref 2017]

Whitley, Rob, *Men's Mental Health: A Silent Crisis*, Psychology Today (06 Chwefror 2017), <https://www.psychologytoday.com/gb/blog/talking-about-men/201702/mens-mental-health-silent-crisis> [cyrchwyd 15 Mehefin 2018]

World Health Organization, *Mental Health: A State of Well-being* (Awst 2014), <http://www.who.int/features/factfiles/mental_health/en/> [cyrchwyd 20 Hydref 2017]

World Health Organization, *Gender Disparities and Mental Health: The Facts*, <http://www.who.int/mental_health/prevention/genderwomen/en/> [cyrchwyd 20 Tachwedd 2017]

## 4. Gweithiau beirniadol a dadansoddol Saesneg eu hiaith sy’n ymwneud â defnydd salwch meddwl mewn llenyddiaeth

### Geiriaduron


*Geiriadur Prifysgol Cymru,* cyrchwyd ar-lein, (http://geiriadur.ac.uk/gpc/gpc.html).

*Oxford English Dictionary*, cyrchwyd ar-lein, (https://www.oed.com/).

*The Literary Encyclopedia*, cyrchwyd ar-lein, (https://www.litencyc.com/).


### Llyfrau ac erthyglau


Andreasen N.C., a Powers, P.S., ‘Creativity and psychosis. An examination of conceptual style’, *Archives of General Psychiatry,* 32.1 (1975), 70-3

Andreasen, N.C., ‘Creativity and psychiatric illness’, *Phsychiatric Annals,* cyf.8 (1978), 23-45

Andreasen, N.C., *The Creative Brain: The Science of Genius* (New York: Plume, 2006)

Baker, C., et al, *Madness in Post-1945 British and American Fiction* (Basingstoke: Palgrave Macmillan, 2010)

Baldwin, Clive. ‘Narrative, Ethics and People with Severe Mental Illness’, *Australian and New Zealand Journal of Psychiatry*, 39.11-12 (2005), 1022-1029

Balen, Rachel, ‘The Power of Stories: Using Narrative for Interdisciplinary Learning in Health and Social Care’, *Social Work and Education*, 29.4 (2010), 416-426

Beidler, Philip D., *Scriptures for a Generation: What We Were Reading in the 60s* (London: Georgia University Press, 1994)

Berg, Henk de, *Freud’s Theory and It’s Use in Literary and Cultural Studies: An Introduction* (Rochester: Camden House, 2002)

Booker, M. Keith, ‘The Dystopian Impulse in Modern Literature: Fiction as Social Criticism’, *Utopian Studies*, 6.2 (1995), 147-149

Boyers, Robert, ‘Porno-Politics’, *The Annals of the American of Political and Social Sciences,* 376 (Mawrth 1968), 36-52

Caputo, Nicole Mossing, a Rouner, Donna, ‘Narrative Processing of Entertainment Media and Mental Illness Stigma’, *Health Communication* 26.7 (2011), 595-604

Davey, Alexandra, ‘The Need for Interstitial Resistance to Normalizing Power. A Foucauldian and Laingian Reading of Jennifer Dawson’s Fiction of the 1960s and 1970s’ (Traethawd Doethuriaeth, Queen Mary University of London, 2004)

Dietruch, Arne ac Abraham, A. (gol), ‘The Mythconception of the Mad Genius’, *Frontiers in Psychology*, 5.79 (Chwefror 2014), 8-10

Feder, Lillian, *Madness in Literature* (Princeton: Princeton University Press, 1980)

Ford, Karen, ‘“The Yellow Wallpaper” and Women’s Discourse’, *Tulsa Studies in Women’s Literature,* 4.2 (Hydref 1985), 309-314

Halliwell, Martin, *Therapeutic Revolutions Medicine, Psychiatry, and American Culture*, *1945-1970* (New Brunswick: Rutgers University Press, 2013)

Hoffman, Frederick J., *Freudianism and the Literary Mind* (Baton Rouge: Louisiana State University Press, 1955)

Jones, Anne Hudson, ‘Literature and Medicine: Narratives of Mental Illness’, *The Lancet,* 350 (Awst 2 1997), 359-361

Kris, Ernst, *Psychoanalytic Exploartions in Art* (New York: International Universities Press, 1952)

Lesser, Simon O., *Fiction and the Unconscious One* (New York: Vintage, 1957)

Lupack, Barbara T., *Insanity as Redemption in Contemporary Fiction: Inmates Running the Asylum* (Gainsville: Florida University Press, 1995)

Macfarlane, Scott, *The Hippie Narrative: A Literary Perspective on the Counterculture* (Jefferson: McFarland & Company, 2007)

Moghaddam, Fathali, M., ‘From “Psychology in Literature” to “Psychology is Literature”’, *Theory & Psychology*, 14.4 (2004), 505-525

Olson, Carol, ‘Madness in the Contemporary American Novel’ (Traethawd Doethuriaeth, University of California, 1977)

Pennebaker, James W. , ‘Telling Stories: The Health Benefits of Narrative’, *Literature and Medicine,* 19.1 (2000), 3-18

Pratt, Annis, *Archetypal Patterns in Women’s Fiction* (Indiana: Indiana University Press, 1981)

Raj, Merlyn Sneha, ‘A Psychoanalytical Reading of Norman Bates in Robert Bloch’s Psycho’, *Imperial Journal of Interdisciplinary Research,* cyf 3.5 (2017), 1633-1636

Richmond, Kia Jane, ‘Using Literature to Confront the Stigma of Mental Illness, Teach Empathy and Break Stereotypes’, *Language Arts Journal of Michigan,* 30.1 (Hydref 2014), 19-25

Ridge, Damien, *Recovery From Depression Using The Narrative Approach* (London: Jessica Kingsley Publishers, 2005)

Rieger, Branimir M. (gol), *Dionysus in Literature: Essays on Literary Madness* (Bowling Green: Bowling Green State University Popular Press, 1994)

Rigney, Barbara Hill, *Madness and Sexual Politics in the Feminist Novel: Studies in Bronte, Woolf, Lessing and Atwood* (Wisconsin: Wisconsin University Press, 1978)

Roberts, G. A. "Narrative and Severe Mental Illness: What Place Do Stories Have in an Evidence-based World?", *Advances in Psychiatric Treatment*, 6.6 (2000), 432-441

Rothenberg, Albert & Shapiro, Eugene D., 'The Defense of Psychoanalysis in Literature: "Long Day's Journey Into Night" and "A View From The Bridge", *Comparative Drama,* cyf 7.1 (Gwanwyn 1973), 51-67

Saunders, Corinne a Macnaughton, Jane (gol), *Madness and Creativity in Literature and Culture* (New York: Palgrave Macmillan, 2005)

Seagal, Janet D. a Pennebaker James W., 'Forming a Story: The Health Benefits of Narrative', *Journal of Clinical Psychology,* 55.10 (1999), 1243-1254

Troncoso, Sergio, *Crossing Borders: Personal Essays* (Houston: Arte Publico Press, 2011)

Tyner, James A., 'Self and Space, resistance and discipline: A Foucauldian Reading of George Orwell's 1984', *Social and Culture Geography,* 5.1 (2004), 129-149

Whitehead, James *Madness and the Romantic Poet: A Critical History* (Oxford: Oxford University Press, 2017)

Voncken, Suzan, 'Freud in Fiction. The Representation of the Oedipus Complex in 1960s American Literature' (Traethawd Doethuriaeth, Utrecht University, 2015)

Yalom, Marilyn, *Maternity, Mortality and the Literature of Madness* (University Park: Pennsylvania State University Press, 1985)

**Gwefannau**

Falk, Marcia L., *Letter to the* Editor, The New York Times (1971) Gwelwyd ar <http://www.amerlit.com/novels/ANALYSIS%20Kesey,%20Ken%20One%20Flew%20over%20the%20Cuckoo's%20Nest%20(1962)%20analysis%20by%2015%20critics.pdf> [cyrchwyd 23 Tachwedd 2017]

Fitriah, Pipit Nurul, *Analysis O'Connor's 'My Oedipus Complex' Using Psychoanalysis Discourse* (Chwefror, 2012), Another love-life Stories Blog, <http://anotherlove-lifestories.blogspot.co.uk/2012/02/analysis-oconnors-my-oedipus-complex.html> [cyrchwyd 19 Rhagfyr 2017]

Kirkegaard, Emil O., *Problems with Definitions,* Clear Language, Clear Mind, (Tachwedd 2018), <https://emilkirkegaard.dk/en/?p=729> [cyrchwyd 13 Chwefror 2020]

Ruby, Ryan, *Paradoxes: On Suicide and Literature*, The New Inquiry (13 Mai 2011), <https://thenewinquiry.com/paradoxes-on-suicide-and-literature/> [cyrchwyd 30 Ebrill 2018

## 5. Gweithiau beirniadol a badansoddol Cymraeg a Chymreig sy'n ymwneud â'r cyd-destun hanesyddol, seiciatryddol a llenyddol

### Llyfrau ac erthyglau


Beddoe, Deirdre, 'Images of Welsh Women' yn *Wales, The Imagined Nations: Studies in Natural and Cultural Identity,* gol. gan Tony Curtis (Bridgend: Poetry Wales Press,1986), tt.225-238

Beddoe, Deirdre, *Out of the Shadows* (Cardiff: University of Wales Press, 2000)

CBAC/WJEC, *Boddi Cwm Tryweryn: Llyfr Darllen a thrafod mewn grŵp*, <http://resource.download.wjec.co.uk.s3.amazonaws.com/tcg/celyn/Resources/Cymraeg/Darllen/Llyfryn%20Darllen%20a%20Thrafod/Llyfryn%20Boddi%20Cwm%20Tryweryn.pdf> [cyrchwyd 22 Mai 2017]

Chriost, Diarmait Mac Giolla, *Welsh Writing, Political Action and Incarceration: Branwen's Starling* (Basingstoke: Palgrave Macmillan, 2013)

Davies, Karl, *Beth am Gynnau Tân: Hanes Llosgi'r Ysgol Fomio* (Caernarfon: Karl Davies, Huw Prys Jones ac Iawn Llwyd, 1986)

Davies, Russell, *Secret Sins: Sex, Violence and Society in Carmarthenshire 1870-1920* (Cardiff: University of Wales Press, 1996)

George, Delyth, 'Llais Benywaidd y Nofel Gymraeg Gyfoes', *Llên Cymru*, 16.3 (1991), 363-382

Gierke, Holly, 'Stori Siân', (Traethawd MA: Prifysgol Bangor, 2017)

Gramich, Katie, 'Dylanwad Cylch Cadwgan Adeg y Rhyfel', *Barn,* 80 (Mehefin 1969)

Gramich, Katie, *Twentieth-Century Women's Writing in Wales: Land, Gender, Belonging* (Cardiff: University of Wales Press, 2007)

Gwenllian, Ffraid, 'Gwehilion o Boblach: Cynrychioli Lleiafafrioedd mewn Llenyddiaeth Gymraeg, (Traethawd MPhil, Prifysgol Aberystwyth, 2017)

Howell, David, 'The 1984-85 Miners' Strike in north Wales', *Contemporary* Wales, cyf 4 (1991), 67-98

Hughes, Elwyn, J., a Hughes, Bryn, *Chwarel y Penrhyn: Ddoe a Heddiw* (Bethesda: Chwarel y Penrhyn, 1979)

Johnston, Dafydd, *Llenyddiaeth Cymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1998)

Jones, Harri Pritchard, *Freud: Y Meddwl Modern* (Dinbych: Gwasg Gee, 1982)

Jones, Idwal, 'Sigmund Freud', *Efrydiau Athronyddol*, cyf. 7 (1994), 39-56

Jones, J. R., *Yr Argyfwng Gwacter Ystyr* (Llandybie: Llyfrau'r Dryw, 1964)

Jones, Merfyn, R., *Cymru 2000* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1999)

Lewis, Glyn. E., 'Freud a Llenyddiaeth', *Efrydiau Athronyddol*, cyf. 12 (1949), 16-28

Lewis, Saunders, *Crefft y Stori Fer* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1949)

Lewis, Saunders, *Braslun o Hanes Llenyddiaeth Gymraeg* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1986)

Lloyd-Morgan, Ceridwen, 'Sensro'r Ferch', *Taliesin*, 84 (1994), 24-29

North Wales Mental Hospital Managenebt Committee, *The Second Annual Report 1st January 1950 – 31st December 1950,* [cyrchwyd ar-lein 13 Mawrth 2020] < https://archive.org/details/b30299913/mode/2up>

Rees, D. Ben, *Dyrnaid o Awduron Cyfoes* (Pontypridd ; Lerpwl: Cyhoeddiadau Modern Cymreig, 1975)

Rees, Gareth a Rees, Teresa L., *Poverty and Social Inequality in Wales,* (London: Croom Helm, 1980)

Rees, Mair, *Y Llawes Goch a'r Faneg Wen: Y Corff Benywaidd a'i Symbolaeth mewn Ffuglen Gymraeg gan Fenywod* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2014)

Roberts, Thomas, Theodore, *Y Felin Fawr (Chwarel y Penrhyn): Ei Hanes a'i Rhamant* (Dinbych: Gwasg Gee, 1999)

Rowlands, John, *Ysgrifau ar y Nofel* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1992)

Thomas, John Heywood, Matthews, E. Gwynn (gol) a Morgan, D. Densil (gol), *Dirfodaeth, Cristnogaeth a'r Bywyd Da* (Ceredigion: Y Lolfa, 2016)

Thomas, M. Wynn (gol), *Diffinio Dwy Lenyddiaeth Cymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1995)

Tomos, Megan, 'Welsh Prose Literature [4] the short story' yn *Celtic Culture: A Historical Encyclopedia*, gol.gan John T. Koch (Santa Barbara: ABC-CLIO, 2006), tt.1784-1785

Vittle, Arwel, *'Cythral o Dân': Cofio 75 Mlynedd ers Llosgi'r Ysgol Fomio* (Talybont: Y Lolfa, 2011)

Watkins, Nia Angharad, 'Y Nofel Ddomestig Gymraeg dros dair cenhedlaeth, gyda sylw neilltuol i waith Moelona, Jane Edwards a Sonia Edwards', (PhD, Prifysgol Aberystwyth, 2008)

Wigley, Llion, 'J.R. Jones a Gwilym O. Roberts: dau o ddeallusion y 60au mewn cyd-destun rhyngwladol', *Y Traethodydd,* cyf. 168 (Ionawr 2013), 40-57

Wigley, Llion, '"O ryfedd ryw": Merfyn Turner, 1915-1991, yr arloeswyr anghofiedig', *Y Traethodydd*, 170.175 (Hydref 2015), 220-238

Wigley, Llion, 'Plymio I'r Dyfnderoedd: Ymatebion Cynnar i Syniadau Sigmund Freud a'r "Feddyleg Newydd" yn yr Iaith Gymraeg c.1918-1945' yn *Ysgrifau Beirniadol XXXVI* gol. gan Angharad Price (Dinbych: Gwasg Gee, 2016), tt.89-112

Williams, Francis, 'Eneideg a Dirwest', *Y Gymraes*, XXXIV (Ionawr, Mawrth ac Awst 1930)

Williams, Ioan, *Y Nofel* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1984)

Williams, Owain, *Tryweryn: A Nation Awakes. The Story of a Welsh Freedom Fighter* (Tal-y-bont: Y Lolfa, 2016)

**Gwefannau**

BBC Cymru, *Tynged yr Iaith*, <http://www.bbc.co.uk/cymru/cymraeg/yriaith/tudalen/tynged_yr_iaith.shtml> [cyrchwyd 22 Mai 2017]

BBC Cymru Hanes, *Streic y Glowyr* (Ionawr 2009), <http://www.bbc.co.uk/cymru/hanes/safle/themau/glo/streic1984.shtml> [cyrchwyd 21 Rhagfyr 2018]

Cymdeithas yr Iaith, *Diffygion Difrifol Gwasanaethau Iechyd Meddwl yn y Gymraeg* (Mehefin 2017), <https://cymdeithas.cymru/newyddion/diffygion-difrifol-gwasanaethau-iechyd-meddwl-yn-gymraeg-ymgyrchwyr> [cyrchwyd 22 Ionawr 2019]

James, Eleri Hedd, *R. M. Jones*, Porth Esboniadur (2017), <https://wici.porth.ac.uk/index.php/Jones,_R._M._(Bobi)> [cyrchwyd 21 Rhagfyr 2018]

Llenyddiaeth Cymru, Darllen yn Well: Llyfrau ar Bresgripsiwn ar gyfer dementia (Gorffennaf 2018), <https://www.llenyddiaethcymru.org/lw-news/darllen-yn-well-llyfrau-ar-bresgripsiwn-ar-gyfer-dementia/> [cyrchwyd 19 Chwefror 2020]

Llywodraeth Cymru, *Law yn Llaw at Iechyd Meddwl: Cynllun Cyflawni: 2016-2019* (Mehefin 2018), <https://gov.wales/topics/health/nhswales/plans/mental-health/?skip=1&lang=cy> [cyrchwyd 22 Ionawr 2019]

meddwl.org, *Intern: Datblygu Adnoddau Iechyd Meddwl Cymraeg Ar-lein* (Chwefror 2020), <https://meddwl.org/erthyglau/intern-datblygu-adnoddau-iechyd-meddwl-cymraeg-ar-lein-2-swydd-prifysgol-bangor/> [cyrchwyd 19 Chwefror 2020]

meddwl.org, *meddwl.org – pwy, beth a pham?*, <https://meddwl.org/meddwl-org-pwy-beth-a-pham/> [cyrchwyd 07 Awst 2018]

meddwl.org, *Trafodaeth ar 'Hel Meddyliau' yn yr Eisteddfod* (Medi 2018), <https://meddwl.org/fideo/hel-meddyliau-steddfod/> [cyrchwyd 21 Ionawr 2019]

Roberts, Sarah Down a Gwales (trwy ganiatâd Cyngor Llyfrau Cymru), *Gyrru Drwy Storom: Adolygiad Gwales*, Gwales, <http://www.gwales.com/goto/biblio/en/9781784611439/> [cyrchwyd 19 Rhagfyr 2016]

Time to Change Wales, *Mental Health Statistics and Facts*, <http://www.timetochangewales.org.uk/en/mental-health-stigma/stigma-statistics/?> [cyrchwyd 26 Gorffennaf 2018]

## 6. <u>Nofelau a Gweithiau Creadigol Ychwanegol</u>

**Llyfrau ac erthyglau**

Bosse- Griffiths, Kate, *Anesmwyth* (Llandybïe: Llyfrau'r Dryw, 1941)

Bosse-Griffiths, Kate, *Mae'r Galon Wrth y Llyw* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1957)

Bloch, Robert, *Psycho* (New York: Simon & Schuster, 1959)

Burgess, Anthony, 'Introduction (The Best Short Stories of J.G. Ballard)' yn J. G. Ballard, *The Best Short Stories of J. G. Ballard* (New York: Holt, Rinehart & Wilson, 1978)

Cunningham, Michael, *The Hours* (New York: Farrar, Straus a Giroux, 1988)

Dickens, Charles, *Oliver Twist*, cyhoeddwyd yn fisol yn (Bentley's Miscellany o Chwefror 1837 i Ebrill 1839)

Dickens, Charles, *David Copperfield* (London: Bradbury & Evans, 1850)

Dickens, Charles, *A Tale of Two Cities* (London: Chapman & Hall, 1859)

Edwards, Jane, *Dechrau Gofidiau* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1962)

Edwards, Jane, *Byd o Gysgodion* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1964)

Edwards, Jane, *l* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1969)

Edwards, Jane, *Dros Fryniau Bro Afallon* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1976)

Gilman, Charlotte Perkins, ‘The Yellow Wallpaper: A Story,’ 11.5 *The New England Magazine* (Ionawr 1892)

Greenberg, Joanne, *I Never Promised You a Rose Garden* (New York: Holt Rinehart & Winston, 1964)

Heller, Joesph, *Catch-22* (New York: Simon & Schuster, 1961)

Hughes, Meic, *“Maen nhw’n siarad amdana i”,* (Caernarfon: Gwasg y Bwythyn, 2009)

Huws, Martin, *Sgrech Rhyfel*, (Llanrwst: Carreg Gwlach, 2001)

Ifans,Rhiannon, *Ingrid*, (Talybont: Y Lolfa, 2019)

Jones, John Gwilym, *Y Goeden Eirin* (Dinbych: Gwasg Gee, 1946)

Jones, L.M. (Moelona), *Bugail y Bryn* (Dolgellau: Swyddfa’r Cymro, 1917)

Jones, L.M. (Moelona), *Ffynnonloyw* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1939)

Jones, W. S. Bobi a Sami¸ (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 1988)

Kaysen, Susanna, *Girl, Interrupted* (New York: Turtle Bay Books, 1993)

Kosinski, Jerzy, *Being There* (San Diego: Harcourt Brace, 1971)

Lewis, Mared, *Esgid Wag,* (Caerdydd: Y Dref Wen, 2004)

Maelor, Esyllt, *Galar a Fi*, (Talybont: Y Lolfa, 2017)

McCarthy, V. Christine, ‘The Social Criticism of Charles Dickens: A Point of View’ (Traethawd MA, Manchester University, 1971)

Morgan, Elena Puw, *Y Wisg Sidan* (Gwasg Gee: Dinbych, 1939)

Morgan, Elena Puw, *Y Graith* (Dinbych: Gwasg Gee, 1943)

O’Connor, Frank, *My Oedipus Complex* (London: Penguin & Hamish Hamilton, 1963)

O’Neill, Eugene, *Long Day’s Journey Into Night* (New Haven: Yale University Press, 1956)

Owen, John Idris, *Gwyn eu Byd yr Adar Gwylltion* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1988)

Piercy, Marge, *Woman on the Edge of Time* (New York: Alred A. Knopf, 1976)

Schreiber, Flora Rheta, *Sybil* (Washington: Henry Regnery Company, 1973)

Sophocles, Ahrensdorf, Peter J., a Pangle, Thomas L., *The Theban Plays: Sophocles; translated with introductions by Peter J. Anhrensdrof and Thomas L. Pangle* (New

York: Cornell University Press, 2014) [Ysgrifennwyd y dramâu hyn rhywle rhwng y blynyddoedd 496CC – 406CC]

Styron, William, *Sophie's Choice* (New York: Random House, 1979)

Vonnegut, Kurt, *Slaughterhouse Five* (New York: Delacorte, 1969)

Williams, Aled Jones, *Yr Anweledig* (2013)

Williams, Dewi Wyn, *Madi*, (Aberystwyth: Atebol, 2019)

Wigley, Llion, *Yr Anymwybod Cymreig: Freud, Dirfodaeth a'r Seice Cenedlaethol,* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2019)

Wilkinson, Malan, *Rhyddhau'r Cranc* (Tal-y-bont : Y Lolfa, 2018)

Williams, Ioan, *Dramâu Saunders Lewis: Y Casgliad Cyflawn. Cyfrol 1* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1996)

Williams, Ioan, *Dramâu Saunders Lewis: Y Casgliad Cyflawn. Cyfrol 2* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2000)

Woolf, Virginia, *Mrs Dalloway* (London: Hogarth Press, 1925)

Wurtzel, Elizabeth, *Prozac Nation. Young and Depressed in America: A Memoir* (New York: Riverhead Trade, 1994)

Yates, Richard, *Revolutionary Road,* (New York: Vintage Books, 2008)